8. This Scrutiny Committee considered the above proposals on the 13th July 2021 and 13th October 2021, and extracts from the Chair's letters arising from this issue, and corresponding responses from Councillor Merry is attached at **Appendix B**.

Structure of Papers

9. The following issues are highlighted in the Cabinet report, as at **Appendix A**:
 - **Responses received to the consultation on the proposed establishment of Specialist Resource Base provision at Moorland Primary School** (*points 16 - 24 in the Cabinet report, plus Appendices 6-8*)
 - Views Expressed (*points 25 - 26 in the Cabinet report*)
 - Moorland Primary School Pupil representation (*points 27 - 29 in the Cabinet report*)
 - Response to views expressed (*points 30 - 39 in the Cabinet report, plus Appendix 7*)
 - **Responses received to the consultation on the proposed expansion of Complex Learning Needs and Autism Spectrum Condition Specialist Resource Base provision for learners aged 11-19** (*points 40 - 49 in the Cabinet report, plus Appendices 6 - 8*)

- Willows High School, including pupil representation and response to views *(points 50 – 64 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*
- Llanishen High School, including pupil representation and response to views *(points 65 - 77 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, including pupil representation and response to views *(points 78 - 94 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*
- **Responses received to the consultation on the expansion of Complex Learning Needs and Autism Spectrum Condition provision for learners in primary and all-through (age 3-19) provision** *(points 95 - 103 in the Cabinet report, plus Appendices 6 - 7)*
- Ty Gwyn Special School, including pupil representation and response to views *(points 104 - 115 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*
- Meadowbank Special School, including pupil representation and response to views *(points 116 - 132 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*
- The Hollies Special School including pupil representation and response to views *(points 133 – 146 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*
- Llanishen Fach Primary School, including pupil representation and response to views *(points 147 - 158 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*
- Marlborough Primary School, including pupil representation and response to views *(points 159 - 163 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*
- Pentreban Primary School, including pupil representation and response to views *(points 164 – 173 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*
- Springwood Primary School, including pupil representation and response to views *(points 174 - 179 in the Cabinet report, plus Appendix 7)*

- **Formal responses received during the consultation regarding Additional Learning Needs Provision** (*points 180 - 194 in the Cabinet report, plus Appendix 7*)
- Health provision (*points 195 - 196 in the Cabinet report*)
- Admissions arrangements (*point 197 in the Cabinet report*)
- Learner Traveller Arrangements (*points 198 - 201 in the Cabinet report*)
- Community Impact (*point 202 in the Cabinet report*)
- Local Member Consultation (*point 203 in the Cabinet report*)
- Scrutiny Consultation (*point 204 in the Cabinet report*)

10. The draft Cabinet report also provides details on the following areas:

- Financial Implications (*points 206 - 211 in the Cabinet report*)
- Legal Implications (*points 212 - 229 in the Cabinet report*)
- HR Implications (*points 230 - 238 in the Cabinet report*)
- Property Implications (*point 239 in the Cabinet report*)
- Traffic and Transport Implications (*points 240 - 253 in the Cabinet report*)
- Impact of the proposals on the Welsh Language (*points 254 - 266 in the Cabinet report*)
- Wellbeing of Future Generations (*points 267 – 269 in the Cabinet report*)
- EIA (*points 270 - 271 in the Cabinet report; plus Appendix 9*)

11. The report is supported by a number of appendices covering:

Appendix 1 – Consultation Documents

Appendix 2 – Summary Documents

Appendix 3 – Notes of meetings with Governing Bodies and School Staff

Appendix 4 – Notes of pupil engagement meetings

Appendix 5 – Notes of public meetings

Appendix 6 – Formal responses received

Appendix 7 – Summary of responses received and appraisal of views

Appendix 8 – Summary analysis of consultation responses

Appendix 9 – Equality Impact Assessment

Issues highlighted in the report to Cabinet

Consultation & Methodology

12. The consultation period for proposals to establish a Specialist Resource Base at Moorland Primary School ran from 11 October 2021 until 17 January 2022.
13. The consultation period for proposals to expand Complex Learning Needs and Autism Spectrum Condition Specialist Resource Base provision for learners aged 11-19 ran from 14 December 2021 until 01 February 2022.
14. The consultation period for proposals to expand Complex Learning Needs and Autism Spectrum Condition provision for learners in primary and all-through (age 3-19) provision also ran from 14 December 2021 until 01 February 2022.
15. The consultation process for all proposals involved:
 - Publication of bilingual consultation documents outlining background, rationale and implications to parents, staff and governors of affected schools, Headteachers and Chairs of Governors city-wide, elected Members, local residents and other stakeholders (a copy of the consultation documents can be seen at Appendix 1);
 - publication of bilingual summary documents setting out the main points of the consultation documents (a copy of the summary documents can be seen at Appendix 2);
 - publication of information in community languages upon request;
 - Consultation meetings via Microsoft Teams with governors and staff at Moorland Primary School, Willows High School, Llanishen High School, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Ty Gwyn Special School, Meadowbank Special School, The Hollies Special School, Llanishen Fach Primary School, Pentrebanne Primary School and Springwood Primary School (notes from the meetings can be seen at Appendix 3);

- consultation meetings via Microsoft Teams/in person with pupil representatives at Moorland Primary School, Willows High School, Llanishen High School, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Meadowbank Special School, Llanishen Fach Primary School and Springwood Primary School (notes from these meetings can be seen at Appendix 4);
- The Hollies Special School facilitated consultation with their pupils and provided details of the views gathered (details can be seen at Appendix 4);
- the pupil consultations that took place in person were conducted in line with the relevant Health and Safety guidance;
- Public consultation meetings via Microsoft Teams at which the proposals were explained and questions answered (notes from the meetings can be seen at Appendix 5);
- drop-in sessions were offered via Microsoft Teams where officers were available to answer questions (there were no requests for drop-in sessions);
- letters setting out details of the proposals and where further information could be found were sent to local residents and businesses in the areas surrounding the school sites subject to the proposed changes;
- a communication campaign via social media;
- a consultation response slip for return by post or e-mail, attached to the consultation documents and summary documents;
- an online response from at www.cardiff.gov.uk/ALNSchoolproposals

16. For stakeholders who did not have access to digital platforms the opportunity to discuss the proposed changes via telephone was available.

17. The views expressed at Council organised meetings, drop-in sessions, telephone calls, and on paper or electronically through the appropriate channels, have been recorded.

18. Views were sought from interested stakeholders via an online survey and a hard copy version of the survey within the consultation document.

19. The details presented in this report represent the views expressed during the consultation process. These include the wider stakeholder survey, formal responses, e-mail responses, views expressed at public meetings, drop-in sessions, telephone calls and pupil consultation meetings.

20. The views expressed in the wider stakeholder surveys reflect those raised in the e-mail responses received.

Results

21. An overview of responses is set out below.

Issue	Total number of responses	Extract Summary of Responses
Specialist Resource Base provision at Moorland Primary School	38 3 formal responses	Of the 35 online responses received 74.3% supported the proposal to establish a Specialist Resource Base provision at Moorland Primary School.
Proposed expansion of Complex Learning Needs and Autism Spectrum Condition Specialist Resource Base provision for learners aged 11-19	114 4 formal responses	Of the 101 respondents to the online survey who answered the question, 96% supported the proposed changes.
Willows HS	86	Of the 84 online responses, 86.9% supported the proposal to establish a 30 place Specialist Resource Base at the school for learners with complex learning needs from September 2023
Llanishen HS	84	Of the 83 online responses, 88% supported the proposal to increase the designated number of the Specialist Resource Base at Llanishen High School for learners Autistic Spectrum Condition from 20 to 45 places from September 2022.
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	98	Of the 97 online responses received, 92.8% supported the proposal to establish a 30-place Specialist Resource Base for learners with Autistic Spectrum Condition alongside the existing 30 place Specialist Resource Base from September 2023
Complex Learning Needs and Autism Spectrum Condition provision for learners in primary and all-through (age 3-19) provision	109 11 formal responses	Of the 91 respondents to the online survey who answered the question, 90.1% supported the proposed changes.

Issue	Total number of responses	Extract Summary of Responses
Ty Gwyn Special school	85	Of the 80 online responses, 88.8% supported the proposal to increase the designated number of Ty Gwyn Special School from 198 to 240 places from September 2022.
Meadowbank Special School	85	Of the 82 online responses, 90.2% supported the proposal to increase the designated number of Meadowbank Special School from 40 to 98 places from September 2022.
The Hollies Special School	80	Of the 80 online responses, 91.1% supported the proposal to increase the designated number of The Hollies Special School from 98 to 150 (with a phased expansion to 119 places from September 2022 and a further expansion to 150 places from September 2023).
Llanishen Fach Primary School	79	Of the 78 online responses, 91% supported the proposal to increase the designated number of the Llanishen Fach Primary School Specialist Resource Base from 20 to 30 places from September 2023.
Marlborough Primary School	78	Of the 77 online responses, 90.9% supported the proposal to increase the designated number of the Marlborough Primary School Specialist Resource Base from 20 to 30 places from September 2022.
Pentrebane Primary School	77	Of the 77 online responses, 89.6% supported the proposal to increase the designated number of the of the Pentrebane Primary School Specialist Resource Base from 20 to 24 places from September 2022.
Springwood Primary School	77	Of the 76 online responses, 90.8% supported the proposal to increase the capacity of the Springwood Primary School Specialist Resource Base from 20 to 28 places from September 2022

Views Expressed

22. Further details of responses in relation to support and concerns for individual projects is set out in Appendix A and Appendix 7. This includes pupil views.

Recommendations set out in the Cabinet Proposals

23. The Cabinet is recommended to

- authorise officers to proceed on proceed to publish proposals in accordance with section 48 of The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 on proposals to:
 - establish a 20 place Specialist Resource Base for primary aged children with Complex Learning Needs at Moorland Primary School from September 2023
 - establish a 30 place Specialist Resource Base for learners with complex learning needs at Willows High School from September 2023
 - increase the designated number at the Llanishen High School Specialist Resource Base for learners with Autism Spectrum Condition from 20 to 45 places from September 2022
 - establish a 30 place Specialist Resource Base at Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf alongside the existing 30 place Specialist Resource Base for learners with Autism Spectrum Condition from September 2023
 - increase the designated number of Ty Gwyn Special School from 198 to 240 from September 2022
 - increase the designated number of Meadowbank Special School from 40 to 98 from September 2022
 - increase the designated number of The Hollies Special School from 90 to 119 from September 2022; further increase the designated number of The Hollies Special School from 119 to 150 from September 2023
 - increase the designated number at the Specialist Resource Base at Llanishen Fach Primary School for learners with complex learning needs from 20 to 30 places from September 2023
 - increase the designated number at the Specialist Resource Base at Marlborough Primary School for learners with severe and complex learning needs from 20 to 30 from September 2022

- increase the designated number at the Specialist Resource Base at Pentreban Primary School for learners with Autism Spectrum Condition from 20 to 24 spaces from September 2022
- increase the designated number at the Specialist Resource Base at Springwood Primary School for learners with Autism Spectrum Condition from 20 to 28 from September 2022
- Note that prior to implementation of the proposals a further report will be provided to Cabinet providing details of any objections received, the proposed responses to those objections and recommendations for implementation or otherwise of the proposals.

Scope of Scrutiny

24. The scope of this scrutiny is for Members to consider and provide comments on the draft report to Cabinet, prior to its consideration of the report on the 10 March 2021.

Way Forward

25. Councillor Sarah Merry (Deputy Leader and Cabinet Member for Education Employment, Skills), Melanie Godfrey (Director of Education and Lifelong learning), Richard Portas (Programme Director for the School Organisation Programme), Jennie Hughes (Senior Achievement Leader Inclusion), and Brett Andrewartha (SOP Programme Planning Manager) will present the report to the Committee and be available to answer any questions Members may have.

26. This report will also enable Members to provide any comments, concerns or recommendations to the Cabinet Member prior to its consideration by Cabinet.

Legal Implications

27. The Scrutiny Committee is empowered to enquire, consider, review and recommend but not to make policy decisions. As the recommendations in

this report are to consider and review matters there are no direct legal implications. However, legal implications may arise if and when the matters under review are implemented with or without any modifications. Any report with recommendations for decision that goes to Cabinet/Council will set out any legal implications arising from those recommendations. All decisions taken by or on behalf of the Council must (a) be within the legal powers of the Council; (b) comply with any procedural requirement imposed by law; (c) be within the powers of the body or person exercising powers on behalf of the Council; (d) be undertaken in accordance with the procedural requirements imposed by the Council e.g. Scrutiny Procedure Rules; (e) be fully and properly informed; (f) be properly motivated; (g) be taken having regard to the Council's fiduciary duty to its taxpayers; and (h) be reasonable and proper in all the circumstances.

Financial Implications

28. There are no direct financial implications arising from this report. However, financial implications may arise if and when the matters under review are implemented with or without any modifications.

RECOMMENDATIONS

The Committee is recommended to:

1. Review and assess the information contained in the draft Cabinet Report, attached at **Appendix A**, together with any information provided at the meeting;
2. Provide any recommendations, comments or advice to the Cabinet Member and / or Director of Education and Lifelong Learning prior to the report's consideration by Cabinet.

Davina Fiore

Director of Governance and Legal Services

3 March 2022

**CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARIAETH I
BLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU
YCHWANEGOL (ADY)**

**DARPARIAETH ANGHENION DYSGU CYMHLETH A CHYFLWR
Y SBECTRWM AWTISTIAETH I DDISGYBLION OED CYNRADD
AC UWCHRADD**

**ADDYSG, CYFLOGAETH A SGILIAU (CYNGHORYDD SARAH
MERRY)**

EITEM AGENDA:

Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Cabinet o'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion i ymestyn ac ail-gyflunio ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol (CAA) i ddisgyblion ar hyd a lled Caerdydd gydag Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau Sbectrwm Awtistiaeth.
2. Mae a wnelo'r cynigion a ystyrir yn yr adroddiad hwn â darpariaeth gymunedol a gynhelir. Caiff yr ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau arfaethedig i Ganolfan Marion yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf a'r CAA yn Ysgol yr Eglwys Newydd eu hystyried gan y corff llywodraethu perthnasol.

Cefndir

3. Yn eu cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2021 rhoes y Cabinet awdurdod i swyddogion ymgynghori ar gynigion i sefydlu darpariaeth CAA yn Ysgol Gynradd Moorland i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth o Fedi 2022 ymlaen.
4. Yn eu cyfarfod ar 14 Hydref 2021 rhoes y Cabinet awdurdod i swyddogion ymgynghori ar gynigion i wneud y canlynol:

- sefydlu CAA 30 lle i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o Fedi 2023 ymlaen;
 - cynyddu'r nifer dynodedig yn CAA Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 20 lle i 45 o Fedi 2022 ymlaen;
 - sefydlu Canolfan Adnoddau 30 lle yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r CAA 30 lle sy'n bodoli eisoes i ddysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o Fedi 2023 ymlaen;
 - cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 o 240 o Fedi 2022 ymlaen;
 - cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o Fedi 2022 ymlaen;
 - cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig yr Hollies from 90 to 119 o Fedi 2022;
 - cynyddu ymhellach nifer dynodedig Ysgol Arbennig yr Hollies o 119 i 150 o Fedi 2023 ymlaen;
 - cynyddu'r nifer dynodedig yn y CAA yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach i ddysgwyr with anghenion dysgu cymhleth o 20 i 30 lle o Fedi 2023 ymlaen;
 - cynyddu'r nifer dynodedig yn y CAA at Ysgol Gynradd Marlborough i ddysgwyr gydag anghenion dysgu difrifol a chymhleth o 20 i 30 o Fedi 2022 ymlaen;
 - cynyddu'r nifer dynodedig yn y CAA yn Ysgol Gynradd Pentrebaen i ddysgwyr with Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 20 i 24 lle o Fedi 2022 ymlaen;
 - cynyddu'r nifer dynodedig yn y CAA yn Ysgol Gynradd Springwood i ddysgwyr gyda Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 20 i 28 o Fedi 2022 ymlaen.
5. Nododd y Cabinet y cynnig i gynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol y Marion, yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, o 42 i 66 lle o Fedi 2022 ymlaen, gan gyfarwyddo'r swyddogion i roi pob cymorth rhesymol i gorff llywodraethu yr ysgol fyddai'n ymgynghori ar y cynnig.
 6. Nododd y Cabinet hefyd y cynnig i gynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd o 70 i 100 o Fedi 2022 ymlaen, gan gyfarwyddo'r swyddogion i roi pob cymorth rhesymol i gorff llywodraethu yr ysgol fyddai'n ymgynghori ar y cynnig.

Pynciau

7. Parhaodd y cyfnod ymgynghori ar gynigion i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Moorland o 11 Hydref 2021 tan 17 Ionawr 2022.
8. Parhaodd y cyfnod ymgynghori ar gynigion i ehangu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrwm Awstiaeth i ddysgwyr 11-19 oed o 14 Rhagfyr 2021 tan 01 Chwefror 2022.
9. Parhaodd y cyfnod ymgynghori ar gynigion i ehangu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrwm Awstiaeth i ddysgwyr mewn darpariaeth gynradd a thrwy'r ystod oed (3-19) hefyd o 14 Rhagfyr 2021 tan 01 Chwefror 2022.
10. Yr oedd y broses ymgynghori ar bob cynnig yn golygu:
 - Cyhoeddi dogfennau ymgynghori dwyieithog yn amlinellu'r cefndir, rhesymeg a'r oblygiadau i rieni, staff a llywodraethwyr yr ysgolion yr effeithir arnynt, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ledled y ddinas, Aelodau etholedig, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill (gellir gweld copi o ddogfennau'r ymgynghoriad yn Atodiad 1);
 - Cyhoeddi crynodeb o ddogfennau dwyieithog yn nodi prif bwyntiau'r dogfennau ymgynghori (gellir gweld copi o'r crynodeb o'r dogfennau yn Atodiad 2);
 - Cyhoeddi gwybodaeth yn ieithoedd y gymuned o wneud cais;
 - Cyfarfodydd ymgynghori trwy Microsoft Teams gyda llywodraethwyr a staff yn Ysgol Gynradd Moorland, Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Ysgol Arbennig Meadowbank, Ysgol Arbennig yr Hollies, Ysgol Gynradd Llanisien Fach, Ysgol Gynradd Pentrebaen ac Ysgol Gynradd Springwood (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 3);
 - Cyfarfodydd ymgynghori trwy Microsoft Teams/yn bersonol gyda chynrychiolwyr disgyblion yn Ysgol Gynradd Moorland, Ysgol Uwchradd, Willows Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Ysgol Arbennig Meadowbank, Ysgol Gynradd Llanisien Fach ac Ysgol Gynradd Springwood (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd hyn yn Atodiad 4);
 - Hwylusodd Ysgol Arbennig yr Hollies ymgynghoriad gyda'u disgyblion a darparu manylion o'r farn a gafwyd (gellir gweld manylion yn Atodiad 4);
 - Cafodd yr ymgynghoriadau â'r disgyblion a ddigwyddodd yn bersonol eu cynnal yn unol â'r canllaw lechyd a Diogelwch perthnasol;

- Cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus trwy Microsoft Teams lle'r esboniwyd y cynigion ac atebwyd cwestiynau (gwellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 5);
 - Cynigiwyd sesiynau galw heibio trwy Microsoft Teams lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau (ni fu ceisiadau am sesiynau galw heibio);
 - Anfonwyd llythyrau yn nodi manylion y cynigion a lle'r oedd modd cael mwy o wybodaeth at drigolion a busnesau lleol yn yr ardaloedd o gwmpas safleoedd yr ysgolion fyddai'n destun y newidiadau arfaethedig;
 - Ymgyrch gyfathrebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol;
 - Slip ymateb i'r ymgynghoriad i'w ddychwelyd drwy'r post neu e-bost, wedi ei atodi i'r dogfennau ymgynghori a'r crynodeb o ddogfennau;
 - Ffurflen ymateb ar-lein ar [Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol \(ADY\) \(caerdydd.gov.uk\)](http://Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (caerdydd.gov.uk))
11. I randdeiliaid heb allu cyrchu llwyfannau digidol, yr oedd cyfle i drafod y newidiadau arfaethedig dros y ffôn ar gael.
 12. Cofnodwyd y farn a fynegwyd mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan y Cyngor, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn, ac ar bapur neu yn electronig trwy'r sianeli priodol.
 13. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid oedd â diddordeb trwy arolwg ar-lein a chopi caled o'r arolwg yn y ddogfen ymgynghori.
 14. Yr oedd y manylion a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori. Yr oedd y rhain yn cynnwys yr arolwg rhanddeiliaid ehangach, ymatebion ffurfiol, ymatebion e-bost, barn a fynegwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn a chyfarfodydd ymgynghori â disgyblion.
 15. Mae'r farn a fynegwyd yn yr arolygon rhanddeiliaid ehangach yn adlewyrchu'r hyn a godwyd yn yr ymatebion e-bost a dderbyniwyd.

Ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y bwriad i sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Moorland

16. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y bwriad i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Moorland ar y cyd â'r cynnig i ehangu a throsglwyddo Ysgol Arbennig y Court.
17. Yr oedd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn cynnwys mynegiant o gefnogaeth a phryderon perthnasol i'r naill gynnig a'r llall.
18. Cafwyd cyfanswm o 38 ymateb gan gynnwys 35 ymateb ar-lein a 3 ymateb trwy e-bost i gynnig Ysgol Gynradd Moorland.
19. Derbyniwyd ymatebion ffurfiol gan:

- Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Moorland
 - Pennaeth Ysgol Gynradd Moorland
20. Barn Estyn yn eu hymateb hwy oedd bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.
21. O'r 35 ymateb ar-lein a dderbyniwyd, yr oedd 74.3% yn cefnogi'r cynnig i sefydlu darpariaeth CAA yn Ysgol Gynradd Moorland.
22. Gellir gweld copïau llawn o'r ymatebion ffurfiol yn Atodiad 6.
23. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan yr holl randdeiliaid, a mantoliad o'r farn a fynegwyd, yn Atodiad 7.
24. Mae crynodeb o ddadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 8.

Barn a fynegwyd

25. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
- Cydnabod yr angen i gynyddu nifer y llefydd anghenion dysgu ychwanegol sydd ar gael.
 - Byddai sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn ychwanegiad cadarnhaol i'r ardal hon o Gaerdydd.
 - Byddai'r newid arfaethedig yn helpu i leihau amseroedd teithio i blant.
26. Er bod cefnogaeth i sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol, codwyd nifer o bryderon ynghylch:
- Cwblhau gwaith adeiladu Cyfnod Allweddol 2 a'r Cyfnod Sylfaen cyn derbyn y plant fel na fydd yn rhaid i'r plant symud amgylchedd dysgu ddwywaith.
 - Cyllid ar gael mewn da bryd fel bod modd recriwtio staff.
 - Sicrwydd y bydd cyllid ar gyfer y llefydd ychwanegol yn y ganolfan adnoddau a chostau cysylltiedig eraill yn cael ei ddiogelu, yn ychwanegol at y gyllideb a ddyrannwyd i'r ysgol.
 - Yr agen i wella mynediad i gerddwyr yn yr ysgol, a mesurau rheoli traffig.
 - Y lle fydd ar gael yn yr ysgol ar gyfer darpariaeth awyr agored.

Cynrychiolaeth disgyblion Ysgol Gynradd Moorland

27. Cyfarfod swyddogion yn rhithiol dros Microsoft Teams gyda disgyblion Blwyddyn 5 yn Ysgol Gynradd Moorland i drafod y cynigion a chael eu barn.
28. Ymysg y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yr oedd y canlynol:

- Byddai'n caniatáu i fwy o blant ddod i Moorland.
- Caiff mwy o blant fynediad at addysg dda.
- Gall plant ag anghenion ychwanegol gael yr help arbenigol sydd ei angen.
- Caiff plant y cyfle i gymysgu a chwarae gyda phlant eraill a chael mwy o gyfleoedd dysgu.
- Dylai plant ag anghenion dysgu ychwanegol gael yr un cyfleoedd ag sydd gan y plant yn Moorland.
- Peth da cael cyfle i gwrdd â mwy o bobl a gwneud mwy o ffrindiau.
- Teimlo cyffro i weld sut le fydd yr iard newydd.
- Er y gall yr iard fod yn llai, mae'n gyffrous cael mwy o blant yn dod i'r ysgol.
- Mae pawb yn y dosbarth yn garedig ac eisiau cwrdd â'r plant newydd a gwneud iddynt deimlo'n gartrefol.
- Bydd yn rhoi cyfle i'r plant ddysgu mwy am blant ag anghenion ychwanegol.

29. Roedd gan y disgyblion bryderon ynghylch yr isod:

- Lle'r aiff y plant meithrin pan fydd eu hadeilad yn cael ei ddymchwel, ac a fydd yn effeithio ar weddill yr ysgol?
- Os bydd mwy o blant ar yr iard a hwnnw'n mynd yn llai, allai mwy o anafiadau ddigwydd?
- Efallai na fydd rhoi rhai plant iau gyda phlant hŷn yn syniad da.
- Poeni os bydd mwy o blant y byddai mwy o geir yn dod i'r safle; problemau traffig a pharcio.
- Beth fydd yn digwydd amser chwarae yn ystod y cyfnod adeiladu; fydd hyn yn effeithio ar amser chwarae'r disgyblion?
- Os bydd llawer mwy o blant yn dod i'r ysgol, a fydd hyn yn gwneud yr ysgol yn rhy brysur wrth gyrraedd a gadael?
- Gall swm yr adeiladu effeithio ar ddysgu'r disgyblion.
- Faint o amser gymer y gwaith adeiladu?

Ymateb i'r farn a fynegwyd

30. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Moorland.
31. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod nifer o bryderon yn bod, yn enwedig am gwblhau gwaith adeiladu, cyllid, staffio, a thraffig o gwmpas safle'r ysgol.
32. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ysgol, cytunwyd, yn amodol ar benderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig i sefydlu darpariaeth CAA yn yr ysgol, y dylid gohirio dyddiad cychwyn y ddarpariaeth newydd tan Fedi 2023. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i gwblhau'r gwaith adeiladu angenrheidiol, a bwrw ymlaen gyda threfniadau staffio addas.
33. Mae cyllid ar gyfer lleoliadau CAA yn cael ei ddarparu ar wahân i gyllid prif ffrwd.

34. Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o fwrw ymlaen â gwaith adeiladu ar safleoedd ysgolion lle mae pobl yno, a bydd yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i leihau unrhyw effeithiau ar ddysgu a chwarae yn ystod y cyfnod adeiladu, er mwyn gwneud yn siŵr fod safonau yn cael eu cynnal. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried cyfle i ddefnyddio safle hen Ysgol Glan Morfa fel man tu allan posib yn ystod gwaith adeiladu, i helpu i liniaru'r pwysau.
35. Bydd y cynigion yn cynnwys mesurau a nodwyd eisoes gan Ddatganiad Trafnidiaeth i wneud y mwyaf o deithio llesol a chynaliadwy er mwyn gwella amodau i gerddwyr ger yr ysgol.
36. Byddai rhai disgyblion yn y CAA yn gymwys am gludiant am ddim yn ôl ac ymlaen o'r ysgol a byddai cyfleusterau gollwng teithwyr yn cael eu darparu i'r nifer fechan hon o gerbydau.
37. Byddai adolygiad o gyfyngiadau parcio a llwytho a darparu Stryd Ysgol ar ddwy ochr y strydoedd cyfagos yn gwella diogelwch trwy beidio ag annog cerbydau eraill a lleihau tagfeydd, a phroblemau parcio a diogelwch.
38. Darperir mesurau pellach i annog cerdded a dulliau teithio llesol eraill gyda gwelliannau i droedffyrdd, croesfannau a mynediad trwy'r parc.
39. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y bwriad i ymestyn y ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrum Awtistiaeth i ddysgwyr 11-19 oed

40. Derbyniwyd cyfanswm o 114 ymateb gan gynnwys 106 ymateb ar-lein ac 8 ymateb pellach trwy e-bost ynghylch y cynigion penodol oedd yn destun yr ymgynghoriad.
41. Derbyniwyd ymatebion ffurfiol gan:
 - Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Willows
 - Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Llanisien
 - Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
42. Yn ychwanegol at yr ymatebion hyn, derbyniwyd 17 ymateb pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori nad oedd yn gwneud sylwadau penodol am y cynigion ond a grybwyllodd yr angen am gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg.
43. Croesawodd Estyn y cynigion sydd wedi eu lleoli ochr yn ochr ag eraill ac sydd â'r nod o gael darpariaeth decach i gyfateb yn well i anghenion dysgu'r disgyblion presennol a rhai'r dyfodol ar draws y ddinas.

44. Mae ymateb Estyn yn datgan y farn fod y cynigion yn debyg o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.
45. Mae copïau llawn o'r ymatebion ffurfiol yn Atodiad 6.
46. Yr oedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol yn mynegi cefnogaeth i'r cynigion a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. O'r 101 o ymatebwyr i'r arolwg ar-lein a atebodd y cwestiwn, yr oedd 96% yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig.
47. Yr oedd cydnabod yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn ymateb cyffredin ar draws yr holl gynigion. Yr oedd pryderon am gyllid, lle, traffig a'r angen i ddatblygu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg hefyd yn gyffredin ar draws yr holl gynigion.
48. Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan yr holl randdeiliaid, a mantoliad o'r farn a fynegwyd, yn Atodiad 7.
49. Gellir gweld crynodeb o ddadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 8.

Ysgol Uwchradd Willows

50. Cafwyd cyfanswm o 86 o ymatebion gan gynnwys 84 o ymatebion ar-lein a dau ymateb e-bost. O'r 84 o ymatebion ar-lein, yr oedd 86.9% yn cefnogi'r cynnig i sefydlu CAA 30 lle yn yr ysgol i ddysgwyr gydag anghenion dysgu cymhleth o Fedi 2023 ymlaen.
51. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
 - Cydnabod yr angen am gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.
 - Angen darpariaeth fwy lleol i'r ardal.
52. Er bod cefnogaeth i sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol, codwyd nifer o bryderon ynghylch:
 - Eglurder am neilltuo cyllid i'r ddarpariaeth CAA.
 - Byddai'n well cyflwyno'r ddarpariaeth fel rhan o adeiladau newydd y Willows, oherwydd, ar waethaf y nifer derbyniadau a gyhoeddwyd, nid oes digon i le yn yr ysgol.

Sylwadau disgyblion Ysgol Uwchradd Willows

53. Cyfarfu'r swyddogion â disgyblion yn Ysgol Uwchradd Willows i drafod y cynigion a chasglu eu barn.
54. Yr oedd y disgyblion yn cefnogi'r ddarpariaeth CAA yn yr ysgol.

55. Yr oedd a wnelo'r pwyntiau a godwyd â mynediad at yr adeilad ac y byddai'n syniad da lleoli ddarpariaeth y ganolfan adnoddau ar y llawr isaf. Yr oedd y ffreutur yn brysur amser cinio, ac awgrymwyd y gellid trefnu cinio ar wahanol adegau i osgoi torfeydd.
56. Teimlai'r disgyblion y byddai'n fuddiol i gymuned ehangach yr ysgol i gael peth gwybodaeth gyffredinol am y ddarpariaeth i helpu iddynt ddeall anghenion fyddai'n cefnogi integreiddio disgyblion o'r ganolfan adnoddau i'r ysgol.
57. Awgrymodd y plant y dylai'r ganolfan adnoddau ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd llai lle bo hynny'n briodol am eu bod yn teimlo y gallai dosbarthiadau mwy fod yn llethol os nad ydynt wedi arfer â hwy.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

58. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau yn Ysgol Uwchradd Willows.
59. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod nifer o bryderon am gyllid, y cyfleusterau llety sydd ar gael a'r angen am ddealltwriaeth ehangach o'r ganolfan adnoddau ar draws cymuned ehangach yr ysgol.
60. Byddai'r CAA yn cael ei chyllido'n llawn ac ar wahân i'r cyllid prif ffrwd: byddai'n cael ei warchod.
61. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i nodi llety addas ar gyfer y ganolfan adnoddau arbenigol. Byddai derbyniadau i'r ganolfan gan y Cyngor yn digwydd fesul cyfnod, ac ni fyddai ar yr ysgol felly angen lle i 30 o ddysgwyr adeg ei weithredu.
62. Os aiff y cynnig rhagddo, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth y ganolfan adnoddau arbenigol ar draws y gymuned ysgol ehangach.
63. Mae'r dyddiad gweithredu arfaethedig o Fedi 2023 yn rhoi digon o amser i nodi lle ac i wneud unrhyw addasiadau fydd eu hangen. Fodd bynnag, os na all y Cyngor a'r Corff Llywodraethu fwrw ymlaen gyda'r CAA, byddai cadw at y dyddiad gweithredu arfaethedig o Fedi 2023 yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Cyngor ohirio derbyn disgyblion i'r ganolfan tan ddyddiad yn nes ymlaen os bydd angen.
64. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ysgol Uwchradd Llanisien

65. Cafwyd cyfanswm o 84 ymateb gan gynnwys 83 o ymatebion ar-lein ac 1 ymateb e-bost. O'r 83 o ymatebion ar-lein, yr oedd 88% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu nifer dynodedig y CAA yn Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr a Chyflwr Sbectrwm Awtistig o 20 lle i 45 Fedi 2022 ymlaen.

66. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
- Cydnabod yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.
67. Er bod cefnogaeth i gynyddu'r nifer dynodedig yn CAA Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr gyda Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yr oedd nifer o bryderon ynghylch:
- Effaith cynyddu traffig ar y mannau codi a gollwng a'r sgîl-effaith ar barcio ar y safle.
 - Yr angen i ail-ddylunio'r ardal cludiant ysgolion a'r cwrt blaen.

Sylwadau disgyblion Ysgol Uwchradd Llanisien

68. Cyfarfu swyddogion gyda disgyblion Ysgol Uwchradd Llanisien i drafod y cynigion a chasglu eu barn.
69. Roedd darpariaeth y ganolfan adnoddau arbenigol bresennol wedi ei integreiddio i gymuned ehangach yr ysgol, ac yr oedd y disgyblion yn cefnogi ehangu'r ddarpariaeth hon.
70. Yr oedd a wnelo'r pwyntiau a godwyd â chyfleusterau'r llety a'r adnoddau oedd ar gael i'r ganolfan adnoddau arbenigol, e.e., maint y dosbarthiadau a lefelau staffio. Rhaid sicrhau bod y rhain yn briodol ac nad ydynt yn rhwystro'r ddarpariaeth a gynigir nac ansawdd y dysgu a'r addysgu.
71. Teimlai'r disgyblion y byddai'n fuddiol i gymuned ehangach yr ysgol i wybod mwy am y ganolfan adnoddau ac anghenion y disgyblion sy'n ei defnyddio, gan y byddai hyn yn golygu y gallent fod yn fwy cefnogol ac efallai eu helpu.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

72. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Llanisien.
73. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod nifer o bryderon am reoli traffig ar safle'r ysgol ac o gwmpas, talu am y ddarpariaeth arbenigol, a'r angen am ddealltwriaeth ehangach o'r ganolfan adnoddau ar draws cymuned ehangach yr ysgol.
74. Mae cyllid i ganolfannau adnoddau arbenigol yn cael ei ddarparu ar wahân i gyllido prif ffrwd. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod gan y ganolfan adnoddau arbenigol ddigon o adnoddau.
75. Os aiff y cynnig yn ei flaen, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth y ganolfan adnoddau arbenigol ar draws cymuned ehangach yr ysgol.

76. Gyda'r potensial i gynyddu'r galw am Gludiant Dysgwyr i ddisgyblion Canolfan Adnoddau Arbenigol, byddai'r safle'n cael ei adolygu er mwyn sicrhau y darperid cyfleusterau codi a gollwng addas a digonol ar y safle i wneud lle i'r niferoedd priodol o gerbydau, gan wneud gwelliannau os bydd angen. Efallai y bydd angen addasiadau hefyd i fynedfa'r ysgol.
77. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

78. Cafwyd cyfanswm o 98 o ymatebion gan gynnwys 97 o ymatebion ar-lein ac 1 ymateb e-bost. O'r 97 o ymatebion ar-lein a dderbyniwyd, yr oedd 92.8% yn cefnogi'r cynnig i sefydlu CAA 30 lle i ddysgwyr a Chyflwr Sbectrwm Awtistig ochr yn ochr â'r CAA 30 lle presennol o Fedi 2023 ymlaen.
79. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
- Cydnabod yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg.
 - Hyrwyddo cynhwysiant, gofal ac uchelgais i ddisgyblion a theuluoedd sy'n wynebu heriau cymhleth ac ymarferol.
 - Bydd y ganolfan yn estyniad mawr yng nghymuned yr ysgol, yn ganolbwynt i hyfforddiant staff a gallu cefnogi disgyblion i barhau i dyfu a theimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol brif ffrwd.
80. Er bod cefnogaeth i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol i ddysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol bresennol i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn yr ysgol, yr oedd nifer o bryderon ynghylch:
- Yr angen i sicrhau bod lle (mewnol ac allanol) ar gael i ddysgwyr yn y canolfannau adnoddau arbenigol.
 - Yr hyn y gall adeiladau ysgolion presennol eu dal a'r angen i leihau unrhyw effaith negyddol ar allu'r brif ffrwd.
 - Effaith bosib mwy o draffig o gwmpas safle'r ysgol.
 - Yr angen i ymdrin â'r diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel cynradd a allai olygu bod dysgwyr yn gadael y sector cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar.
 - Yr angen i ymdrin â'r diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'r amrywiaeth eang o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys iechyd a lles emosiynol.

Sylwadau disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

81. Cyfarfu'r swyddogion ar wahan gyda disgyblion prif ffrwd a disgyblion o'r CAA bresennol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf i drafod y cynigion a chasglu eu barn.
82. Yr oedd disgyblion y brif ffrwd yn cefnogi sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ychwanegol yn yr ysgol.

83. Yr oedd y pwyntiau a godwyd yng nghyswllt gwell mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i blant ag anghenion dysgu ychwanegol disgyblion, y ganolfan adnoddau yn gallu elwa o fynediad at gyfleusterau'r ysgol e.e., y cae chwarae, y cyfle i gael gwell cyfleusterau i ddisgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau bresennol a disgyblion allu bod yn rhan o ysgol brif ffrwd.
84. Nid oedd gan y disgyblion bryderon am gynnydd mewn traffig. Yr oedd yr ysgol eisoes yn brysur, ac nid oeddent yn tybio y gwnâi 30 o ddisgyblion ychwanegol yn gwneud llawer o wahaniaeth, ond yr oeddent yn cytuno y gallai fod peth effaith. Yr oedd y disgyblion o'r farn nad oedd y ganolfan adnoddau bresennol yn y lle iawn, sy'n golygu eu bod yn colli mynediad at rai adnoddau ysgol pwysig.
85. Yr oedd disgyblion presennol y CAA yn cefnogi sefydlu canolfan adnoddau ychwanegol yn yr ysgol.
86. Yr oeddent yn teimlo'n gadarnhaol am y cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd ganddynt yn yr ysgol e.e., gwersi, athrawon a'r staff, profiad gwaith, gan gytuno y byddai'n dda rhannu hyn gyda disgyblion eraill.
87. Hoffent weld cyfleusterau newydd i'r ddwy ganolfan adnoddau gan gynnwys man y tu allan, gardd, cynefinoedd bywyd gwyllt, ystafelloedd dosbarth newydd i wneud lle i fwy o ddisgyblion, manau/gofod tawel, gwell Wi-Fi a gwell TG i gefnogi darnau estynedig o waith a chegin. Hoffent hefyd weld man croesawu/caffi fel yr un ym mynedfa'r brif ysgol, ystafell synhwyraidd a gwell cyfleusterau toiled a newid.
88. Dywedasant y byddai'n dda cael mwy o ddisgyblion ar gyfer timau chwaraeon, e.e., rygbi, a mwy o ddisgyblion i wneud gweithgareddau gyda hwy.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

89. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i sefydlu darpariaeth ychwanegol o ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.
90. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod nifer o bryderon yn bodoli, yn enwedig o ran y cyfleusterau lle, y potensial i fwy o draffig, a faint o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.
91. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r ysgol ynghylch darparu adeiladau newydd i'r ddarpariaeth CAA bresennol yn yr ysgol a'r ddarpariaeth CAA ychwanegol arfaethedig.
92. Gyda'r disgwyliad y bydd cynnydd ym maint y galw am Gludiant Dysgwyr, adolygir y cyfleusterau codi a gollwng presennol, i gadarnhau eu bod yn addas i ddal y niferoedd priodol o gerbydau.

93. Mae datblygiad ehangach y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn cael ei ystyried, a chyflwynir cynigion fel rhan o weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor wedi i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r strategaeth a'i fabwysiadu yn ffurfiol.
94. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth i ddysgwyr cynradd a darpariaeth ystod oedran cyflawn (3-19 oed)

95. Derbyniwyd cyfanswm o 109 o ymatebion gan gynnwys 92 o ymatebion i'r arolwg arlein, ac 17 o ymatebion e-bost pellach ynghylch y cynigion penodol oedd yn destun yr ymgynghori.
96. Derbyniwyd ymatebion ffurfiol gan:
- Estyn
 - Corff Llywodraethu Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin
 - Pennaeth Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Arbennig Meadowbank
 - Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Arbennig Meadowbank
 - Staff Ysgol Arbennig Meadowbank
 - Corff Llywodraethu yr Hollies
 - Staff Ysgol Gynradd Llanisien Fach
 - Ysgol Gynradd Marlborough
 - Ysgol Gynradd Springwood (Corff Llywodraethu a Staff)
 - Ysgol Gynradd Pentrebaen (ceisir ymateb gan yr ysgol)
97. Yn ychwanegol at yr ymatebion hyn, derbyniwyd 17 o ymatebion pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori, nad oeddent yn sylwadau uniongyrchol am y cynigion yr ymgynghorwyd â hwy, ond gan grybwyll yr angen am gynyddu yn y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg.
98. Barn Estyn yn eu hymateb hwy oedd bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.
99. Gellir gweld copïau llawn o'r ymatebion ffurfiol yn Atodiad 6.
100. Yr oedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn mynegi cefnogaeth i'r cynigion a roddwyd gerbron i wella'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. O'r 91 ymatebydd i'r arolwg arlein a atebodd y cwestiwn, yr oedd 90.1% yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig.
101. Yr oedd cydnabyddiaeth o'r angen i gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol darpariaeth yn gyffredin ar draws yr holl gynigion. Yr oedd pryderon ynghylch cyllid, llety, recriwtio staff, datblygu proffesiynol a chadw, traffig a'r angen i ddatblygu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg hefyd yn gyffredin ar draws yr holl gynigion.

102. Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan yr holl randdeiliaid, a mantoliad o'r farn a fynegwyd, yn Atodiad 7.
103. Mae crynodeb o ddadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 8

Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

104. Cafwyd cyfanswm o 85 o ymatebion gan gynnwys 80 o ymatebion arlein a 5 o ymatebion e-bost. O'r 80 o ymatebion arlein, yr oedd 88.8% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 lle i 240 o Fedi 2022 ymlaen.
105. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newid arfaethedig yr oedd:
- Cydnabod yr angen i gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.
 - Croesawu'r cyfle i fwy o blant allu cyrchu darpariaeth o ansawdd uchel yn yr ysgol.
106. Er bod cefnogaeth i'r cynnig i gynyddu nifer y llefydd yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, yr oedd nifer o bryderon ynghylch:
- Y gofynion am le ychwanegol yn deillio o'r newidiadau arfaethedig e.e., yr angen am fwy o lefydd ymneilltuo i gefnogi rheoli ymddygiad.
 - Y gofyniad am archwiliad cadarn o'r ddarpariaeth bresennol i roi eglurder ynghylch y galw a thystiolaeth am y gefnogaeth fyddai ei angen petai nifer y disgyblion yn cynyddu.
 - Cyllid i ddisgyblion a sut y bydd y cyllid cyfartalog fesul disgybl yn cael ei gynyddu i ateb lefel yr angen.
 - Yr angen i allu buddsoddi mewn staff er mwyn sicrhau lefelau priodol o hyfforddiant a chefnogaeth.
 - Yr angen i sicrhau bod lefel y ddarpariaeth iechyd yn gymesur ag anghenion y disgyblion e.e., darpariaeth nyrsio, therapi galwedigaethol a ffisiotherapyddion.
 - Argaeledd darpariaeth chwarae y tu allan i amser tymor i ddisgyblion â lefel uchel o angen.
 - Yr angen i gynnal maint dosbarthiadau bychain fel y gall y staff gefnogi'r disgyblion i ddatblygu a chwrrd â'u llawn botensial.
 - Rheoli traffig.

Sylwadau disgyblion Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

107. Cynigiodd yr ysgol hwyluso ymarferiad gyda'r disgyblion gyda'u dysgwyr a bydd manylion am y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei ychwanegu at yr adroddiad a'r atodiadau pan gânt eu derbyn.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

108. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn.
109. Cydnabyddir fodd bynnag fod nifer o bryderon wedi eu lleisio yn benodol yng nghyswllt y cyfleusterau llety, y gofyniad am archwilio'r ddarpariaeth bresennol, cyllido, staffio a darpariaeth iechedd.
110. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Corff Llywodraethu i sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu am y cynnydd yn nifer y disgyblion gan gynnwys darparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol, swyddfeydd a manau Gwasanaethau Oedolion yn hen Ganolfan Ieuenctid Trelái.
111. Cynhelir archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol gyda'r ysgol a fydd yn cynnwys ystyried maint dosbarthiadau. Nid oes cynlluniau i fynd dros y nifer a gynhwysir yn y cynigion presennol. Byddai derbyniadau i'r ysgol gan y Cyngor yn digwydd fesul cyfnod, i gefnogi twf cynaliadwy'r ysgol.
112. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r galw am anghenion dysgu ychwanegol ac yn cyflwyno cynigion yn ôl yr angen.
113. Mae'r Cyngor yn dal i weithio gyda'r Corff Llywodraethu a'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod lefel priodol o ddarpariaeth iechedd ar gael i gwrdd ag anghenion y disgyblion.
114. Mae argaeledd darpariaeth chwarae y tu allan i'r tymor y tu allan i gwmpas y cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad a chaiff ei ystyried ar wahân.
115. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ysgol Arbennig Meadowbank

116. Cafwyd cyfanswm o 85 ymatebion gan gynnwys 82 o ymatebion arlein a 3 o ymatebion e-bost. O'r 82 o ymatebion arlein, yr oedd 90.2% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 lle i 98 o Fedi 2022 ymlaen.
117. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newid arfaethedig yr oedd:
 - Cydnabod yr angen i gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.
118. Er bod cefnogaeth i'r cynnig i gynyddu darpariaeth yn Ysgol Arbennig Meadowbank, yr oedd nifer o bryderon ynghylch:
 - Yr angen i'r cynnydd yn nifer y disgyblion ddigwydd yn raddol er mwyn caniatáu digon o amser i'r holl gynllunio angenrheidiol ynghylch llety, staffio a chynnal ethos cydweithredol yr ysgol.
 - Yr angen i ofalu bod digon o adnoddau ar gael i gefnogi'r newidiadau arfaethedig.

- Y tebygolrwydd y bydd angen llefydd ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a gynigir.
- Effaith bosib ar faint dosbarthiadau presennol; a fydd cynnydd yn nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau neu a fydd dosbarthiadau ychwanegol?
- Siom na roddwyd ystyriaeth i ehangu'r Ddarpariaeth Estyn Allan Blynyddoedd Cynnar.
- Yr angen am gynllunio manwl ac ymwneud rheolaidd â'r ysgol.
- Yr angen i sicrhau bod y lefel o ddarpariaeth iechyd yn gymesur ag anghenion y disgyblion e.e., gweithwyr iechyd proffesiynol ar y safle a all ateb anghenion y disgyblion.

Sylwadau disgyblion Ysgol Arbennig Meadowbank

119. Cyfarfu swyddogion yn rhithiol trwy Microsoft Teams gyda Blynyddoedd 4, 5 a 6 a nifer o athrawon yn Ysgol Arbennig Meadowbank i drafod y cynigion a chasglu eu barn.

120. Yr oedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys yr isod:

- Hapus iawn, mae'r cynnig yn syniad da.
- Edrych ymlaen at wneud ffrindiau newydd.
- Eisiau mwy o blant i chwarae gyda hwy.
- Eisiau mwy o le chwarae, sgwteri, beics, mwy o ffrindiau, siglen corryn, llithren, pwll, cadw'r coed presennol ar y safle.

121. Yr oedd gan y disgyblion bryderon am y canlynol:

- A fydd yr athrawon yn gallu gofalu am ddisgyblion ychwanegol?
- Am ddod ymlaen gydag athrawon newydd.
- Diffyg lle i ddisgyblion newydd.
- Rhedeg allan o ddisgyblion wedi i ddisgyblion blwyddyn chwech adael.
- A fydd yna fwy o doiledau?
- I le'r aiff y disgyblion newydd?
- Sut byddai'r adeiladau newydd yn cysylltu â'r rhai presennol?
- Sut bydd y plant newydd yn cael eu bwydo?
- Pryder am sŵn.
- Lle bydd y plant newydd yn cael cinio os yw'r neuadd ginio bresennol yn rhy fach?
- Faint o amser gymer hyn?
- Mae angen mwy o athrawon.
- Diffyg lle i barcio.
- Sut caiff bwyd ei gludo o'r adeilad newydd i'r neuadd ginio?

Ymateb i'r farn a fynegwyd

122. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu Ysgol Arbennig Meadowbank.
123. Cydnabyddir fodd bynnag fod nifer o bryderon wedi eu lleisio, yn enwedig o ran y cyfleusterau llety, cyllid, darpariaeth iechyd a'r trefniadau trosiannol.
124. Os cytunir i'r cynnig, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion gan gynnwys cynllunio manwl ac ymwneud yn rheolaidd â'r ysgol.
125. Mae'r Cyngor yn dal i weithio gyda'r Corff Llywodraethu a'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod lefel priodol o ddarpariaeth iechyd ar gael i gwrdd ag anghenion y disgyblion.
126. Mae'r Cyngor yn dal i weithio gydag ysgolion arbennig i ddatblygu darpariaeth estyn allan gydag ysgolion prif ffrwd.
127. Nid oes cynlluniau i gynyddu'r niferoedd yn yr ysgol y tu hwnt i'r cynnig presennol. Byddai derbyniadau i'r ysgol gan y Cyngor yn digwydd fesul cyfnod, i gefnogi twf cynaliadwy'r ysgol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r galw am anghenion dysgu ychwanegol ac yn cyflwyno cynigion yn ôl yr angen.
128. Mae argaeledd darpariaeth chwarae y tu allan i'r tymor y tu allan i gwmpas y cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad a chaiff ei ystyried ar wahân.
129. Gyda'r cynnydd disgwylidig yn y galw am Gludiant Dysgwyr, byddai'r safle'n cael ei hadolygu er mwyn sicrhau y darperir cyfleusterau codi a gollwng addas a digonol ar y safle i gynnwys y niferoedd priodol o gerbydau, a gwneud gwelliannau os bydd angen.
130. Ymysg y dewisiadau tebygol yr ymchwilir iddynt y mae addasiadau a all olygu newid i fynedfeydd yr ysgol gyda mwy o gyfyngiadau parcio gyferbyn â'r fynedfa fel na fydd rhwystrau i'r fynedfa.
131. Efallai y bydd y cynnig yn galw am Ddatganiad Cludiant a fyddai'n nodi mesurau i'w cynnwys er mwyn cael y swm mwyaf o deithio trwy ddulliau cynaliadwy. Byddai'r Cynllun Teithio Llesol ar gyfer yr ysgol hefyd yn nodi camau gan yr ysgol a hefyd unrhyw welliannau i seilwaith y safle fydd eu hangen i gefnogi, annog a hwyluso teithio llesol i'r ysgol.
132. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ysgol Arbennig yr Hollies

133. Cafwyd cyfanswm o 80 o ymatebion gan gynnwys 78 ymateb arlein a 2 ymateb e-bost. O'r 80 o ymatebion arlein, yr oedd 91.1% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig yr Hollies o 98 i 150

(gydag ehangu fesul cam i 119 lle o Fedi 2022 ymlaen ac ehangu pellach i 150 lle o Fedi 2023 ymlaen).

134. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
- Cydnabod yr angen i gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.
 - Byddai'r cynnig yn helpu i ymdrin â'r galw am ddarpariaeth arbenigol ar draws yr Awdurdod Lleol a byddai'n gyfle i gyrchu amgylchedd addas i'r pwrpas i'r disgyblion a'r staff.
 - Mae gwelliannau i foderneiddio adeilad yr ysgol ac yn hen bryd eu cael.
135. Er bod cefnogaeth i'r cynnig i gynyddu darpariaeth yn Ysgol Arbennig yr Hollies, yr oedd nifer o bryderon ynghylch:
- Yr effaith bosib ar y disgyblion presennol, e.e., lle, rhannu adnoddau, staffio.
 - Sefydlwyd yr ysgol i 80 o ddisgyblion ond mae 117 o blant ar y llyfrau ar hyn o bryd ac y mae angen buddsoddi yn y cyfleusterau cyn derbyn ychwaneg o ddisgyblion.
 - Mae agwedd cynllunio agwedd strategol at y cynnydd arfaethedig yn niferoedd y disgyblion fyddai'n gorfod digwydd yn raddol er mwyn caniatáu amser i wella'r adeilad a recriwtio staff.
 - Byddai'n rhaid ymdrin â materion diogelu ynghylch y cynnydd mewn traffig ar safle'r ysgol.

Sylwadau disgyblion Ysgol Arbennig yr Hollies

136. Hwylusodd yr ysgol ymgynghori disgyblion gyda sawl aelod o Gyngor yr Ysgol a drafododd y newidiadau arfaethedig i Ysgol Hollies ynghylch cynyddu nifer y disgyblion i 150.
137. Trafododd y disgyblion yr angen am fwy o ystafelloedd dosbarth a rhai mwy, yn ogystal â'r angen am fwy o fyrddau a chadeiriau i'r disgyblion. Dywedodd un disgybl y byddai ar yr ysgol angen mwy o staff i'r disgyblion ychwanegol.
138. Gofynnwyd iddynt a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau am y newidiadau. Gofynasant a fyddai modd iddynt gael mwy o bethau i chwarae â hwy (rhannu) y tu allan i'r disgyblion ychwanegol. Gofynnwyd a fyddai'n golygu mwy o geir yn y maes parcio ac a fyddai'r maes parcio yn fwy.
139. Yn gyffredinol, roeddent yn meddwl ei fod yn syniad da. Dywedasant y bydd ganddynt fwy o gyfeillion i chwarae â hwy ond hefyd y gallai hyn olygu y byddai'r ysgol yn brysurach a mwy swnllyd gyda'r disgyblion ychwanegol.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

140. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu Ysgol Arbennig yr Hollies.
141. Cydnabyddir fodd bynnag y lleisiwyd nifer o bryderon yn enwedig o ran yr effaith bosib ar y disgyblion a'r staff presennol, cyfleusterau llety, y niferoedd a gynhwysir yn y dyfodol, a rheoli traffig.
142. Os cytunir i'r cynnig, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion. Byddai'r ysgol yn elwa o gyfleusterau newydd, gwell fyddai'n gwneud iawn am unrhyw effeithiau posib ar y disgyblion a'r staff.
143. Nid oes unrhyw gynlluniau i ehangu Nid oes cynlluniau i fynd dros y nifer a gynhwysir yn y cynigion presennol. Byddai derbyniadau i'r ysgol gan y Cyngor yn digwydd fesul cyfnod, i gefnogi twf cynaliadwy'r ysgol yn y lle sydd ar gael. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r galw am anghenion dysgu ychwanegol a dwyn cynigion gerbron yn ôl y galw.
144. Gyda'r cynnydd disgwylidig yn y galw am Gludo Dysgwyr, byddai'r safle'n cael ei hadolygu er mwyn sicrhau y darperid cyfleusterau codi a gollwng addas a digonol ar y safle i wneud lle i'r niferoedd priodol o gerbydau, gan wneud gwelliannau os bydd angen.
145. Ymysg dewisiadau i'w hystyried mae newidiadau i fynedfa'r ysgol ac ail-drefnu'r cynllun i wneud lle i'r cynnydd mewn niferoedd a hefyd ymdrin ag unrhyw bryderon diogelwch.
146. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ysgol Gynradd Llanisien Fach

147. Cafwyd cyfanswm o 79 ymatebion gan gynnwys 78 ymateb arlein ac un ymateb e-bost. O'r 79 o ymatebion arlein, yr oedd 91% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu nifer dynodedig canolfan adnoddau arbenigol Ysgol Gynradd Llanisien Fach o 20 lle i 30 o Fedi 2023 ymlaen.
148. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
 - Cydnabod yr angen i gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.
 - Mae'r ddarpariaeth adnoddau arbenigol yn yr ysgol o les i'r holl ddysgwyr a byddai'r ysgol yn croesawu cael mwy o blant i allu cyrchu'r ddarpariaeth.
 - Cyfle i adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol a'i wella, a datblygu mwy ar natur gynhwysol yr ysgol.
149. Er bod cefnogaeth i'r cynnig i gynyddu'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach, yr oedd nifer o bryderon ynghylch:

- Yr angen am gyfleusterau priodol i wneud lle i ddarpariaeth y ganolfan adnoddau.
- Yr angen i leihau unrhyw darfu ar addysg, yn enwedig yng nghydestun yr amgylchiadau presennol cysylltiedig â Covid-19.
- Y tebygolrwydd y bydd angen mwy o lefydd yn ychwanegol i'r hyn a gynigir.
- Rhaid cael mwy o ddewisiadau o ran addysg anghenion dysgu ychwanegol

Sylwadau disgyblion Ysgol Gynradd Llanisien Fach

150. Cyfarfu'r swyddogion yn rhithiol gyda chynrychiolwyr disgyblion Ysgol Gynradd Llanisien Fach i drafod y cynigion a chasglu eu barn.
151. Yr oedd y disgyblion yn cefnogi ehangu'r ddarpariaeth yn y ganolfan adnoddau arbenigol ac yr oeddent yn meddwl ei fod yn syniad da i fwy o blant gael y cyfle i ddod i'r ysgol.
152. Yr oedd a wnelo'r pwyntiau a godwyd gan y disgyblion a'r lle (mewnol ac allanol) i'r ganolfan adnoddau arbenigol, trefniadau yn y neuadd ginio, darpariaeth toiledau a'r effaith ar yr ysgol tra bod y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

153. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu'r ddarpariaeth ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach.
154. Cydnabyddir fodd bynnag y lleisiwyd nifer o bryderon, yn enwedig yng nghyswllt y cyfleusterau llety, y posibilrwydd o darfu, a lle i niferoedd yn dyfodol a'r mathau o ddarpariaeth sydd ar gael.
155. Os cytunir i'r cynnig, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion.
156. Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o fwrw ymlaen â gwaith adeiladu ar safleoedd ysgolion lle mae pobl yno, a bydd yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i leihau unrhyw effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu.
157. Nid oes unrhyw gynlluniau i fynd dros y nifer a gynhwysir yn y cynigion presennol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r galw am anghenion dysgu ychwanegol a dwyn cynigion gerbron yn ôl y galw.
158. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ysgol Gynradd Marlborough

159. Cafwyd cyfanswm o 78 ymateb gan gynnwys 77 o ymatebion arlein ac un ymateb e-bost. O'r 77 o ymatebion arlein, yr oedd 90.9% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu nifer dynodedig Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough o 20 lle i 30 o Fedi 2022 ymlaen.
160. Gwrthododd yr ysgol y cyfle i swyddogion gwrdd â'r Corff Llywodraethu, y staff a'r disgyblion.
161. Yn absenoldeb y Pennaeth, dywedodd y Dirprwy Bennaeth ar ran y Corff Llywodraethu a'r ysgol fod yr ysgol yn hapus iawn â'r gwaith a gwblhawyd eisoes yn Marlborough a'u bod yn teimlo nad oes angen ymgynghori oherwydd bod y gwaith adeiladu ar ben a bod y plant eisoes yn gallu mynychu.
162. Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

163. Mae'r Cyngor yn croesawu ymateb Ysgol Gynradd Marlborough.

Ysgol Gynradd Pentrebaen

164. Cafwyd cyfanswm o 77 ymatebion gan gynnwys 77 o ymatebion arlein. O'r 77 ymateb arlein, yr oedd 89.6% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu nifer dynodedig Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentrebaen o 20 i 24 lle o Fedi 2022 ymlaen.
165. Gwrthododd yr ysgol y cyfle i swyddogion gwrdd â'r Corff Llywodraethu a'r staff.
166. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
- Cydnabod yr angen i gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.
167. Er bod cefnogaeth i'r cynnig i gynyddu darpariaeth yn Ysgol Gynradd Pentrebaen, yr oedd nifer o bryderon ynghylch:
- Dim digon o le i'r plant sydd eisoes yn yr ysgol a'r ganolfan adnoddau arbenigol. Rhaid gwella'r cyfleusterau presennol.
 - Angen datblygu mwy o ddarpariaeth mewn ysgolion eraill, e.e., darpariaeth awtistiaeth.

Sylwadau disgyblion Ysgol Gynradd Pentrebaen

168. Trefnodd swyddogion gydag Ysgol Gynradd Pentrebaen i gwrdd â chynrychiolwyr disgyblion yr ysgol yn ystod y cyfnod ymgynghori i drafod y cynigion a chasglu eu barn. Fodd bynnag, oherwydd problemau staffio

yn sgil Covid-19, gohiriodd yr ysgol y sesiynau a drefnwyd ac ni fu modd hwyluso sesiwn yn y cawd nac arlein yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

169. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu darpariaeth y ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Pentrebaen.
170. Cydnabyddir fodd bynnag y lleisiwyd nifer o bryderon yn enwedig o ran y cyfleusterau llety i ddarpariaeth ychwanegol yn yr ysgol.
171. Os cytunir i'r cynnig, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion.
172. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r galw am anghenion dysgu ychwanegol a dwyn cynigion gerbron yn ôl y galw.
173. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ysgol Gynradd Springwood

174. Cafwyd cyfanswm o 77 ymateb gan gynnwys 76 ymateb arlein ac un ymateb e-bost. O'r 76 ymateb arlein, yr oedd 90.8% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu'r llefydd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood o 20 i 28 lle o Fedi 2022 ymlaen.
175. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
 - Cydnabod yr angen i gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ac yn croesawu'r cynnig
 - Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag ethos yr ysgol o gefnogi pob plentyn.
 - Croesawu mwy o gyllid i wella'r lle (mewnol ac allanol) yn y ganolfan adnoddau arbenigol fydd yn caniatáu i'r ysgol ddarparu'r amgylchedd gorau i'r plant ddysgu a ffynnu.

Sylwadau disgyblion Ysgol Gynradd Springwood

176. Cyfarfu'r swyddogion yn rhithiol a grŵp o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Springwood i drafod y cynigion a chasglu eu barn.
177. Ymysg y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yr oedd cwestiynau ynghylch lle byddai'r disgyblion newydd yn cael eu rhoi, a fyddai angen mwy o staff, a fyddai angen ystafell ddosbarth newydd ac a fydd digon o le.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

178. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu darpariaeth y ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Springwood.

179. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

180. Yn ychwanegol at yr ymatebion a dderbyniwyd ynghylch y cynigion unigol oedd yn destun ymgynghori, derbyniwyd ymatebion ffurfiol ynghylch y ddarpariaeth gyffredinol i blant ac oedolion ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol gan:

- Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Glan Morfa
- Corff Llywodraethu Ysgol Melin Gruffydd
- Corff Llywodraethu Ysgol Glan Ceubal
- Corff Llywodraethu Ysgol Pencae
- Corff Llywodraethu Ysgol Pwll Coch
- Corff Llywodraethu Ysgol y Berllan Deg
- Corff Llywodraethu Ysgol Gwaelod y Garth
- Corff Llywodraethu Ysgol Nant Caerau
- Corff Llywodraethu Ysgol Pen y Gores
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Creigiau
- Corff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan
- Corff Llywodraethu Ysgol Treganna
- Corff Llywodraethu Ysgol Coed y Gof
- Ysgol a Chorff Llywodraethu Ysgol Plasmawr
- Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd
- Merched y Wawr

181. Yr oedd cynnwys yr ymatebion o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fras yn gyson ac fe'i crynhoir isod.

182. Mae'r ysgolion yn cydnabod ac yn croesawu'r cynigion i gynyddu llefydd i'r sector cyfrwng Saesneg ac yn llawn gefnogi darparu ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus yn ein cymunedau. Fodd bynnag, yr oedd teimlad cryf fod diffyg darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg sector a siom nad oedd mwy o newidiadau'n cael eu cynnig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

183. Ymhellach, mynegwyd y farn fod yr ymgynghoriad hwn yn croesddweud yr ymgynghoriad CSCA diweddar oedd yn nodi uchelgais y Cyngor i agor tair uned arbenigol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sector Cynradd a thair CAA arall yn y sector Uwchradd.

184. Mynegwyd pryder, trwy gyfyngu ar y buddsoddiad i un sector, ei fod yn annog teuluoedd i drosglwyddo disgyblion ADY i adael y sector cyfrwng Cymraeg a symud i ysgolion cyfrwng Saesneg lle tybir ar hyn o bryd fod y buddsoddiad a'r adnoddau o safon uwch ac yn fwy abl i gwrdd ag anghenion lefel uwch neu fwy cymhleth.

185. Mae angen buddsoddi yn y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau darpariaeth gyfartal a chynhwysiant llawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
186. Mae'r ddogfennaeth yn cydnabod angen clir sy'n tyfu yn y sector cyfrwng Saesneg ond nid yn y sector cyfrwng Cymraeg, a mynegwyd pryder ynghylch a wnaed digon o ymchwil i adlewyrchu'n gywir yr angen sydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
187. Mynegwyd pryderon hefyd nad oes darpariaeth glir o ran iechyd emosiynol a lles ac ymddygiad yn y sector cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ar Gyfnodau 4-5 (sydd ag anghenion y tu hwnt i ddarpariaeth brif ffrwd) ynghyd â diffyg lle i sefydlu dosbarthiadau magu/lles.
188. Cafwyd barn gyson ar draws y rhan fwyaf o'r ymatebion a gyflwynwyd gan yr ysgolion cyfrwng Cymraeg fod gwir angen am fwy o lefydd ADY cyfrwng Cymraeg ac mai cynyddu y mae'r angen. Er mwyn ymateb i hyn, yn effeithiol galwyd am gynllunio strategol a holistig sy'n rhoi'r plant a'r teuluoedd wrth galon popeth a wnawn, sy'n gyson â'n hymrwymiad ar y cyd i CCUHP a DLICD gydag amcanion corfforaethol eraill megis Caerdydd Un Blaned, Caerdydd 2030 a statws Dinas Sy'n Dda i Blant.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

189. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol i blant a phobl ifanc ledled y ddinas.
190. Yn dilyn sesiynau ymwneud gydag aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd yn haf 2021, ymgynghorodd y Cyngor yn ffurfiol ar ei ddrafft o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 rhwng 15 Hydref 2021 ac 13 Rhagfyr 2021.
191. Dosbarthwyd dolenni i'r cynllun (gan gynnwys y drafft CSCA llawn, y fersiwn hawdd i'w darllen a'r Taflwybr Twf) a thudalennau gwe'r arolwg i randdeiliaid statudol gan gynnwys ysgolion Caerdydd a mudiadau sy'n aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd.
192. Mae'r drafft CSCA yn nodi'r strategaeth am ddatblygu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg, a byddai cynigion yn cael eu dwyn ymlaen fel rhan o weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor wedi i Lywodraeth Cymru gytuno ar y strategaeth a'i fabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor yn nes ymlaen yn 2022.
193. Parheir i adolygu datblygiad cyson y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys darpariaeth newydd a chyfredol er mwyn sicrhau y cyflwynir cynigion mewn ffordd strategol a holistig sydd yn ystyried anghenion ein holl ddysgwyr ac sy'n rhoi cydraddoldeb i'r sector

cyfrwng Cymraeg wrth i lefydd newydd gael eu cyflwyno trwy'r CSCA arfaethedig cyfan.

194. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Darpariaeth iechyd

195. Bydd gan y cynigion i ehangu darpariaeth arbenigol ar safleoedd yr ysgolion uchod oblygiadau i wasanaethau iechyd a rhai arbenigol eraill, gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i gwrdd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ffactor ychwanegol yw Deddf Diwygio ADY 2018, a fydd yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd ar iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i weithio ynghyd i gydgordio asesu a darpariaeth. Gweithredir Deddf 2018 dros gyfnod o dair blynedd, gan gychwyn ym Medi 2020.
196. Er mwyn ymdrin â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion Caerdydd. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, wedi'i oruchwylio gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr iechyd, addysg; gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, a rhieni, yn sail o wybodaeth i ddyluniad y ddarpariaeth arbenigol.

Trefniadau Derbyniad

197. Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i bob un o'r ysgolion arbennig a'r Canolfannau Addysg Arbenigol yn unol â'r Cod ADY.

Trefniadau Cludo Dysgwyr

198. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi cludiant y Cyngor i blant ysgol.
199. Byddai unrhyw ddisgyblion y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt yn cael cynnig yr un gefnogaeth gyda chludiant ag a ddarperir ar hyd a lled Caerdydd yn unol â'r un meini prawf sy'n gymwys yng Nghaerdydd gyfan.
200. Gallwch weld polisi cludiant y Cyngor i blant ysgol ar wefan y Cyngor [Trafnidiaeth Ysgol \(caerdydd.gov.uk\)](http://trafnidiaeth.ysgol.caerdydd.gov.uk).
201. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am Gludo Dysgwyr yn golygu cyllid. Er bod y gost fesul disgybl o gludiant ysgolion yn debyg o ostwng, bydd angen modelu pellach i weld a yw costau cludiant yn debyg o godi neu ostwng.

Effaith ar y Gymuned

202. Cymerir y canlynol i ystyriaeth wrth ystyried cynnig: Man Agored Cyhoeddus, tir parciau, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion, aelodau lleol ac unrhyw grŵp cymunedol i wneud yn siwr fod y cynigion yn osgoi effeithiau negyddol os oes modd.

Ymgynghori ag Aelodau Lleol

203. Mae darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn bodoli ledled y ddinas, ac ymgynghorwyd ag aelodau fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Ystyriaethau Craffu

204. Bydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ystyried yr adroddiad hwn ar 8 Mawrth 2022. Caiff unrhyw sylwadau a dderbynnir eu dosbarthu yng nghyfarfod y Cabinet.

Rhesymau dros yr Argymhellion

205. Cwrdd â'r galw cynyddol am lefydd mewn ysgolion arbennig i ddysgwyr cynradd, uwchradd ac ôl-16 gydag Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectwm Awtistiaeth.

Oblygiadau Ariannol

206. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cais i fwrw ymlaen â'r ymgynghori cyhoeddus ar newidiadau i'r ddarpariaeth ADY a'r nifer a dderbynnir i'r ysgol yn yr 11 ysgol a nodwyd. Nid yw cyhoeddi'r cynigion a argymhellir ynddo'i hun yn ymrwymo'r Awdurdod i wario yn y dyfodol, felly nid oes unrhyw oblygiadau cyfalaf ariannol yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, unwaith y darperir papur dewisiadau ariannol terfynol, bydd angen cynnal gwerthusiad ariannol llawn. Bydd y gwerthusiad hwn yn ystyried oblygiadau cyfalaf a referiw i'r cynigion yn eu cyfanrwydd a phob cynnig unigol. Nod hyn fydd rhoi sicrwydd, wedi ystyried yr holl gostau perthnasol, yr erys pob cynnig yn fforddiadwy a heb gael effaith ar y pwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor.
207. Bydd angen talu am lefydd ychwanegol o gyllideb ddirprwyedig bresennol yr ysgol. Mae adroddiadau blaenorol cyn yr ymgynghoriad wedi amlygu'r ddarpariaeth gostus sy'n digwydd i'r boblogaeth hon o ddisgyblion naill ai trwy Leoliadau Allsirol neu daliadau Cyfoethogi Anghenion Ychwanegol (CAY) i ddisgyblion prif ffrwd. Mae angen mwy o waith i weld a fydd yr arbedion ar Leoliadau Allsirol neu daliadau CAY uwch yn talu am gostau ychwanegol llefydd ychwanegol ac unrhyw gostau trafndiaeth cysylltiedig.
208. O ran referiw, bydd angen adolygu'r gyllideb ar gyfer pob CAA neu Ysgol Arbennig lle bydd cynnydd yn nifer y llefydd. Rhaid i'r diwydrwydd dyladwy a gynhelir roi sicrwydd y cymerir y llefydd ychwanegol ac y bydd cost a niferoedd y Lleoliadau Allsirol ac ychwanegiadau CAY yn gostwng er mwyn sicrhau na fydd pwysau sylweddol ar gyllidebau ysgolion. Dros y tymor canol, bydd angen adolygu a dadansoddi yn rheolaidd i gymharu nifer y llefydd a ragwelir â'r llefydd a gymerir. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr y ceir y manteision mwyaf o'r adnoddau ariannol a ddefnyddir.
209. Mae'r cynnig i roi gwell dosbarthiad o ddarpariaeth mewn ysgolion arbennig a CAA ar draws y ddinas yn golygu bod cost cludiant fesul dysgwr unigol yn debyg o ostwng. Fodd bynnag, fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad a'r oblygiadau trafndiaeth, mae angen gwneud mwy o waith i weld beth fydd yr effaith lawn ar gostau trafndiaeth yn y tymor

byr a'r tymor canol. Rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried y tebygolrwydd y gall arbedion ar leoliadau unigol a rheoli Lleoliadau Allsirol yn fwy effeithiol dalu cost ychwanegol cludo'r niferoedd uwch i CAA. Mae'r adroddiad yn datgan y bydd nifer y llefydd yn cynyddu'n incrementaidd dros y pedair blynedd nesaf ac y mae angen mwy o waith i weld beth fydd y gost / arbediad am bob blwyddyn ariannol. Am 2022/23, mae risg y byddai'r gwariant cyffredinol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, darpariaeth Allsirol a thaliadau CAY uwch i blant a phobl ifanc ag ADY yn cynyddu ym Medi 22, ond mae modd rheoli'r pwysau hyn y tu mewn i gyllidebau dirprwyedig ysgolion. Fodd bynnag, mae'r angen i sicrhau bod modelu cadarn ar waith i sicrhau bod unrhyw bwysau pellach yn cael ei nodi a'i ddeall cyn gweithredu a'u bod yn cael eu modelu'n gadarn a'u cynnwys mewn cynllunio tymor canolig o'r pwys mwyaf.

210. O ran oblygiadau cyfalaf, bydd unrhyw waith pellach fydd ei angen i wneud lle i fwy o ddisgyblion yn gorfod cael ei werthuso'n llawn, gan nodi ffynhonnell gyllid. Petai angen i'r Cyngor wneud cyfraniad tuag at y costau hyn, bydd angen talu amdanynt o adnoddau sy'n bod eisoes neu eu cynnwys mewn fersiynau yn y dyfodol o Raglen Gyfalaf y Cyngor. Fel rhan o'r gwerthuso pellach angenrheidiol, rhaid ystyried oblygiadau TAW fydd yn deillio o drefniadau perchenogaeth tir ac eiddo yng nghyswllt ysgolion Gwirfoddol Dan Gymorth a Sylfaen. Os bydd unrhyw gostau'n gysylltiedig â'r driniaeth TAW angenrheidiol, rhaid cynnwys y rhain yn amlen ariannol gyffredinol y cynllun.
211. Telir am Uned Blynnyddoedd Cynnar Moorland o grant Dechrau'n Deg LIC, sef £1.3m, gyda'r gweddill i'w gyllido o'r gyllideb Adnewyddu Asedau addysgol. Er mwyn gwneud yn siŵr y bydd digon o arian, bydd yn rhaid blaenoriaethu'r cynllun o fewn y rhaglen adnewyddu asedau bresennol, gydag arian ychwanegol i ddod trwy ddyraniad 'buddsoddi i arbed' cyllideb gyfalaf yr ysgolion.

Oblygiadau Cyfreithiol

212. O dan Ddeddf Addysg 1996, mae rhwymedigaeth statudol cyffredinol ar y Cyngor i hyrwyddo safonau uchel o addysg ac i ddarparu digon o lefydd mewn ysgolion i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, gan gynnwys darpariaeth briodol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (neu anghenion dysgu ychwanegol).
213. Gall awdurdod lleol wneud cynigion am drefnu ysgolion, gan gynnwys gwneud 'newidiadau a reoleiddir' i ysgol gymunedol neu ysgol arbennig, dan adrannau 42-44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r cynigion yn yr adroddiad yn 'newidiadau a reoleiddir', a rhaid eu hystyried gan gadw mewn cof ddarpariaethau Deddf 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, sydd yn nodi ffactorau i'w hystyried yng nghyswllt gwahanol gynigion, y gweithdrefnau statudol, gofynion a chanllawiau cyfreithiol.
214. Lle cynigir cynyddu nifer y llefydd mewn ysgol, rhaid i'r Cyngor gadw mewn cof y dystiolaeth am yr angen/galw yn awr ac yn y dyfodol yn yr ardal am fwy o lefydd, gan gyfeirio at gategori iaith yr ysgol (a chymeriad

crefyddol / derbyniadau yn ôl rhyw os yw hynny'n gymwys). Mae'r Cod hefyd yn cynnwys ffactorau penodol i'w hystyried yng nghyswllt cynigion i ad-drefnu darpariaeth Anghenion Dysgu Arbennig (neu Anghenion Dysgu Ychwanegol). Bydd angen i'r Cabinet fod yn fodlon bod yr holl ffactorau perthnasol wedi eu hystyried yn iawn yng nghyswllt y cynigion.

215. Mae gofyn i'r Cyngor, cyn cyhoeddi eu cynigion, i gynnal ymgynghoriad ar y cynigion yn unol ag adran 48 y Ddeddf honno a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi a dosbarthu adroddiad ymgynghori at bawb sydd â diddordeb (a restrir yn y Cod) sy'n gwneud yr isod:
- (i) crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy.
 - (ii) ymateb i'r rhain trwy egluro, newid y cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau dros hyn;
 - (iii) nodi ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
 - (iv) ymateb i ymateb Estyn trwy egluro, newid y cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau dros hyn.
216. Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion i'r Cabinet am sut i fwrw ymlaen, h.y., cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd â hwy, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r status quo neu ail-ffurfio'r cynigion yn sylweddol ac ail-ymgynghori.
217. Yr adroddiad hwn gan y Cabinet, ynghyd a'r atodiadau yw'r adroddiad ymgynghori angenrheidiol; ac y mae'n ceisio caniatâd y Cabinet i fwrw ymlaen i gyhoeddi'r holl gynigion ynghylch Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth a/neu Anghenion Dysgu Cymhleth y cyfeiriwyd atynt yn adroddiadau Cabinet Gorffennaf a Hydref 2021. Argymhellir rhai newidiadau i ddyddiadau gweithredu'r cynigion yn Ysgol Gynradd Moorland ac Ysgol Uwchradd Willows.
218. Wrth ystyried y mater hwn, mae gofyn i'r Cabinet adolygu'r cynigion gan gadw mewn cof pob gwybodaeth berthnasol bellach a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori (ac fel arall). Nid yw'r argymhellion ynghylch Canolfan Marion a'r Ganolfan Adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd o fewn cylch gorchwyl y Cabinet, ond dylid eu nodi fel rhan o'r cynigion ehangach.

Materion Tir

219. Rhagwelir, os aiff y cynigion rhagddynt, bydd angen i'r Cyngor gynnal diwydrwydd dyladwy ar gyfyngiadau posib ar y safle ac yn amodol ar hynny, efallai y bydd angen penderfyniadau pellach i ymdrin â materion eiddo, cynllunio neu gaffael posib a all godi o hyn.

Proses Penderfyniad Statudol ac Ystyriaethau Eraill

220. Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen, rhaid cyhoeddi'r cynigion ymhen 26 wythnos o derfyn y cyfnod ymgynghori (oni cheir

estyniad o'r amser gan Weinidogion Cymru). Rhaid cyhoeddi cynigion trwy hysbysiad statudol, sy'n caniatáu isafswm o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau ('y Cyfnod Gwrthwynebu'). Mae cynnwys yr hysbysiad statudol, y dull cyhoeddi a'r bobl i'w hysbysu yn y Cod.

221. Ymhen 16 wythnos o derfyn y Cyfnod Gwrthwynebu, rhaid i'r Cyngor ystyried yn gydwobodol unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd a phennu a ddylid gweithredu'r cynigion neu beidio (dan adran 53 Deddf 2013). Dylai'r aelodau nodi mai'r argymhelliad fydd i'r Cabinet dderbyn adroddiad pellach yn y cyfnod hwnnw.
222. Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu, mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebiadau sy'n crynhoi'r holl wrthwynebiadau a wnaed (ac na thynnwyd yn ôl) a'i ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny. Rhaid cyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebiadau ymhen 7 diwrnod o'r dyddiad y gwnaeth y Cyngor benderfyniad am y cynigion a pheri eu bod ar gael i'r bobl â diddordeb sydd wedi eu rhestru yn y Cod. Ar yr un pryd â chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebiadau, rhaid i'r Cyngor hefyd hysbysu Gweinidogion Cymru, corff llywodraethu yr ysgol a phawb sydd â diddordeb a restrir yn y Cod am eu penderfyniad.
223. Os bwirir ymlaen â'r cynigion, bydd angen pennu'r trefniadau derbyn, gan gynnwys niferoedd derbyn a dalgylchoedd, yn dilyn ymgynghori, yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion a Rheoliadau Addysg (Pennu Trefniadau Derbyn)(Cymru) 2006.
224. Wrth ystyried y cynigion, rhaid i'r Cyngor gadw mewn cof eu dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus penodol i Gymru). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, rhaid i Gyngorau, wrth wneud penderfyniadau, gadw mewn cof yr angen i (1) ddileu camwahaniaethu anghyfreithlon, (2) hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a (3) meithrin cysylltiadau da ar sail nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, ailbennu rhywedd, rhyw, hil - gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol - lliw neu genedligrwydd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, tueddiad rhywiol, crefydd neu gred - gan gynnwys diffyg cred.
225. Wrth gymryd penderfyniadau strategol, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i gadw mewn cof yr angen i leihau anghydraddoldebau deilliant o ganlyniad i anfantais cymdeithasol-economaidd ('y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd' a osodir dan adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a rhaid iddynt allu dangos sut y maent wedi cyflawni eu dyletswydd.
226. Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i ganlyniadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

227. Rhaid i'r Cyngor hefyd gadw mewn cof Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Iaith Gymraeg ac ystyried effaith eu cynigion ar yr iaith Gymraeg.
228. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn ystyried sut y bydd y cynigion yn cyfrannu at gwrdd â'u hamcanion lles (a nodir yn y Cynllun Corfforaethol). Rhaid i'r aelodau hefyd fod yn fodlon fod y cynigion yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n mynnu cwrdd ag anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion hwy.
229. Rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau fod yn fodlon fod y cynigion yn dod dan bolisi'r Cyngor a gymeradwywyd a fframwaith y gyllideb.

Oblygiadau AD

Oblygiadau AD perthnasol i'r cynigion i sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol

230. Mae a wnelo'r oblygiadau isod â'r cynigion i sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Moorland, Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Glantaf.
231. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i ymdrin â'r oblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu CAA yn yr ysgol a'r angen am staffio ychwanegol sy'n deillio o hyn.
232. Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd fydd yn codi o ganlyniad i sefydlu'r CAA yn rhoi cyfle i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Oblygiadau AD perthnasol i'r cynigion i ehangu Darpariaeth Ysgolion Arbenigol presennol

233. Mae a wnelo'r oblygiadau isod â'r cynigion i gynyddu niferoedd Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Ysgol Arbennig Meadowbank ac Ysgol Arbennig yr Hollies.
234. Bydd y cynnydd arfaethedig yn niferoedd y disgyblion yn yr ysgol yn mynnu bod y Corff Llywodraethu yn cynllunio am y gofynion gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Anogir y Corff Llywodraethu i wneud y gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn darparu cyngor, cefnogaeth a chanllawiau i'r Corff Llywodraethu o ran y prosesau cynllunio gweithlu a recriwtio dilynol.
235. Lle mabwysiadodd y Corff Llywodraethu Bolisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi newydd a gyfyd o ganlyniad i gynydd yn y niferoedd ar y llyfrau yn gyfle i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Oblygiadau AD perthnasol i'r cynigion i ehangu darpariaeth CAA presennol

236. Mae a wnelo'r oblygiadau isod â'r cynigion i gynyddu'r niferoedd yn y CAA yn Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Gynradd Llanisien Fach, Ysgol Gynradd Marlborough, Ysgol Gynradd Pentrebaen ac Ysgol Gynradd Springwood.
237. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i ymdrin â'r oblygiadau AD sy'n deillio o'r cynnydd yn nifer dynodedig y CAA Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn yr ysgol a'r angen am staff ychwanegol sy'n deillio o hyn.
238. Lle mabwysiadodd y Corff Llywodraethu Bolisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi newydd a gyfyd o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer dynodedig y CAA Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth CAA yn rhoi cyfle i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Oblygiadau o ran Eiddo

239. Mae Stadau Strategol yn dal i weithio gyda chydweithwyr mewn Addysg a'u cefnogi trwy'r broses o reoli asedau ac unrhyw faterion eiddo sydd yn ymwneud â'r cynigion ac yn deillio ohonynt. Mae nifer o ddewisiadau yn y papur hwn a fydd angen ymateb ymhen amser pan ddaw'r cyfnod ymgynghori i ben, a ninnau'n symud tuag at achosion busnes.

Oblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth

240. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor (2006-2026) yn cynnwys targed o 50% o bob taith i'w gwneud trwy gludiant cynaliadwy. Gall lleihau'r gyfran o deithiau ysgol a wneir mewn ceir a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i deithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol a chynaliadwy wneud cyfraniad pwysig i gyrraedd y targed hwn a lleihau pwysau ar y rhwydwaith trafndiaeth ar yr adegau prysuraf.
241. Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a CAA, ynghyd â phellteroedd mwy a deithir, o raid yn cyfyngu ar y gallu i gael cyfraddau uwch o deithio llesol o gymharu ag ysgolion prif ffrwd.
242. Mae'r Cyngor yn cymhwyso'r meini prawf cymhwyso pellter cerdded statudol i ddisgyblion i fod yn gymwys am gludiant am ddim yn ôl ac ymlaen i'r ysgol i ysgolion arbennig a CAA. Hefyd, gall rhai dysgwyr sy'n byw o fewn dwy / tair milltir i'r ysgol gael cludiant am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a materion cymdeithasol.
243. Mae'r cynnig i gael gwell dosbarthiad o ddarpariaeth mewn ysgolion arbennig a CAA ledled y ddinas yn golygu fod cost cludiant am bob dysgwr unigol yn debyg o leihau. Fodd bynnag, oherwydd y nifer cynyddol o ddysgwyr cymwys, disgwylir y bydd risg o gostau cludiant uwch, er hynny. Mae angen mwy o fodelu i weld a fydd y galwadau ar y gyllideb cludiant ysgol yn debyg o gynyddu neu o leihau.

244. Nid oes disgwyl i'r niferoedd uchel presennol o ddisgyblion sy'n gymwys am Gludo Dysgwyr yn gyffredinol newid yn sylweddol; fodd bynnag, gall cyfran deithio i'r ysgol yn annibynnol, ac efallai y bydd rhai eisoes yn gwneud. Byddai'r disgyblion hyn, yn ogystal â'r staff ac ymwelwyr â'r ysgol yn elwa o unrhyw welliannau fydd eu hangen mewn cyfleusterau am deithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau cludiant cyhoeddus.
245. Fe all pob un o'r cynigion ysgol i sefydlu, ehangu neu newid dynodiad cyfleusterau ADY ofyn am Aseiad Trafnidiaeth neu Ddatganiad Trafnidiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i deithio cymaint ag sydd modd trwy ddulliau cynaliadwy.
246. Mae ymatebion i farn a fynegwyd yn yr ymgynghoriad wedi eu nodi uchod dan yr ysgolion unigol a CAA i ymdrin â phryderon penodol a godwyd neu i roi manylion am fesurau posib i'w darparu ar safleoedd penodol.
247. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun o'r fath yn nodi camau gan yr ysgol i gefnogi ac annog teithio llesol i'r ysgol a hefyd unrhyw welliannau i seilwaith ar y safle a thu hwnt i hwyluso teithiau llesol.
248. Bydd cynyddu teithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol yn cael effaith cadarnhaol ar iechyd a lles plant a bydd yn cefnogi cyflwyno camau a deilliannau allweddol dan Nod 5 Strategaeth Dinas Gyfeillgar i Blant y Cyngor (2018), sydd yn ymwneud â sicrhau mynediad at amgylcheddau diogel yn yr awyr agored ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, cerdded, beicio a theithio ar sgwteri a theithio llesol i'r ysgol.
249. Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth i deithio llesol a chynaliadwy ymysg y garfan ADY, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hyn, cynnal beiciau a hyfforddiant beicio.
250. Gall rhai disgyblion deithio yn annibynnol neu gyda rhieni/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymhwyso o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys am Gludo Dysgwyr.
251. Byddai darparu gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol yn fanteisiol i'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ag ymwelwyr â'r safleoedd.
252. Bydd niferoedd y disgyblion sy'n dal i ddefnyddio Cludo Dysgwyr am eu taith i'r ysgol yn debygol o gynyddu yn unol â'r duedd y bydd mwy o ddisgyblion angen llefydd mewn ysgolion arbennig neu CAA. Bydd lleoliad pob ysgol lle cynyddir y galw am gerbydau Cludo Dysgwyr angen gwell cyfleusterau a/neu rai wedi ehangu i godi a gollwng ar y safle. Byddai angen i'r ardaloedd wneud lle i niferoedd priodol o gerbydau, a allai olygu fel arfer un tacsï i 3 disgybl ar gyfartaledd. Mewn rhai achosion, gallai bysus mini fod yn addas, ond y mae hyn yn dibynnu ar anghenion y disgybl unigol, lleoliad y cartref a chydgordio llwybrau.

253. Byddai darpariaeth parcio ceir yn unol â safonau parcio'r Cyngor. Cytunir ar ddyraniadau i ysgolion arbennig a CAA fesul achos, ond mae disgwyl i ofynion gyd-fynd yn gyffredinol â lle i un car fesul nifer nodweddiadol y disgyblion mewn dosbarth. Mae hyn yn unol â'r 1 lle safonol fesul 30 disgybl mewn ysgolion prif ffrwd, ond mae'n golygu cymhareb uwch o lefydd oherwydd bod dosbarthiadau gymaint yn llai.

Effaith y cynigion ar yr iaith Gymraeg

254. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu Caerdydd Ddwyeithog.
255. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd 2022-2031 yn nodi cyfres o ymrwymadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau y gall pob plentyn yn y ddinas dderbyn addysg yn yr iaith Gymraeg, y bydd y nifer sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, a thrwy ddefnydd arwyddocaol o'r Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg byddant oll yn cael cyfle i fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.
256. Yn hanesyddol, bu lefel yr anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg yn is nag yn y sector cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, bu hyn yn newid dros y 4-5 blynedd ddiwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am gynnydd yn nifer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, ym mhob maes angen.
257. Cynhaliwyd adolygiad o anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i fod yn sail i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Adroddodd yr ysgolion am nifer bychan ond arwyddocaol o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gadael y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrchu CAA neu ysgolion arbennig.
258. Yr oedd peth tystiolaeth hanesyddol i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn dewis cyfrwng Saesneg yn hytrach os oes gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol, am eu bod yn pryderu y gall fod eu plentyn angen trosglwyddo i'r sector arbenigol yn nes ymlaen.
259. Trwy'r CSCA, buddsoddodd Caerdydd mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys peth gallu i ymateb i dwf yn y galw ac ennyn mwy o hyder fod darpariaeth arbenigol ar gael yn y sector.
260. Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, yn nalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle mae'r ganolfan uwchradd. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chynnal amrywiaeth o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau iaith a lleferydd, ac awtistiaeth.
261. Wrth i'r sector Cymraeg barhau i dyfu, bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol i ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg

cyfrwng Cymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.

262. Yn dilyn sesiynau ymwneud gydag aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd yn haf 2021, ymgynghorodd y Cyngor yn ffurfiol ar ei ddrafft o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 rhwng 15 Hydref 2021 ac 13 Rhagfyr 2021.
263. Dosbarthwyd dolenni i'r cynllun (gan gynnwys y drafft CSCA llawn, y fersiwn hawdd i'w darllen a'r Taflwybr Twf) a thudalennau gwe'r arolwg i randdeiliaid statudol gan gynnwys ysgolion Caerdydd a mudiadau sy'n aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd.
264. Mae'r drafft CSCA yn gosod y strategaeth i ddatblygu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg a byddai cynigion yn cael eu dwyn gerbron fel rhan o weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor wedi i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r strategaeth a'i fabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor yn nes ymlaen yn 2022.
265. Cymeradwyodd y Cabinet CSCA 2022-2031 Caerdydd yn eu cyfarfod ar 24 Chwefror 2022, i'w gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru.
266. Bydd datblygiad cyson y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys darpariaeth newydd a phresennol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau y cyflwynir cynigion mewn dull strategol a holistig sydd yn ystyried anghenion ein holl ddysgwyr ac y mae'n adlewyrchu'r ychwanegiadau sydd eu hangen i sicrhau cydraddoldeb yn y sector cyfrwng Cymraeg wrth i lefydd newydd gael eu cyflwyno trwy'r CSCA arfaethedig.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

267. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion Caerdydd wedi ymrwmo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol, ynghyd ag annog defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio i'r ysgol, megis cerdded a beicio. Mae prosiect pob ysgol yn cymryd i ystyriaeth faterion trafndiaeth allweddol pan gânt eu cynllunio, ac yn ystyried yr angen pendant i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau llesol eraill o deithio i ysgolion.
268. Gyda'r buddsoddi presennol mewn TGCh ledled y ddinas, efallai y bydd myfyrwyr yn teithio llai wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach, gan ganiatáu dulliau dysgu mwy hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy hyblyg a chyfrannu mwy at dargedau'r Cyngor i leihau eu hallyriadau carbon.
269. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith tymor hir y buddsoddiad sylweddol hwn, byddai unrhyw ddyluniad fyddai'n cael ei gyflwyno ar gyfer pob ysgol yn y cynnig hwn yn cael ei ddatblygu i sicrhau y ceir cyfleusterau modern o ansawdd uchel all ymateb i anghenion poblogaethau

disgyblion yn awr ac yn y dyfodol a chefnogi dulliau dysgu effeithiol. Byddant hefyd yn ymgorffori'r hyblygrwydd i ystyried newidiadau yn dibynnu ar anghenion wrth i amser fynd rhagddo, megis newid mewn demograffeg a niferoedd disgyblion, newid yn y cwricwlwm a newid yn y math o anghenion fydd gan ddisgyblion.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

270. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar grŵp arbennig mewn cymdeithas.

271. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn Atodiad 9.

ARGYMHELLION

Argymhellir bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

1. Awdurdodi swyddogion i fynd ati i gyhoeddi cynigion yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i:
 - sefydlu CAA gydag 20 lle i blant oedran cynradd gydag Anghenion Dysgu Cymhleth at Ysgol Gynradd Moorland o Fedi 2023 ymlaen
 - sefydlu CAA gyda 30 lle i ddysgwyr with anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o Fedi 2023 ymlaen
 - cynyddu'r nifer dynodedig yn CAA Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr gyda'r Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 20 i 45 lle o Fedi 2022 ymlaen
 - sefydlu Canolfan Adnoddau 30 lle yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r CAA presennol sydd a 30 lle i ddysgwyr a Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o Fedi 2023 ymlaen
 - cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 o Fedi 2022 ymlaen
 - cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o Fedi 2022 ymlaen
 - cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig yr Hollies o 90 i 119 o Fedi 2022 ymlaen; cynyddu ymhellach nifer dynodedig Ysgol Arbennig yr Hollies o 119 i 150 o Fedi 2023 ymlaen
 - cynyddu'r nifer dynodedig yn y CAA yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth o 20 i 30 lle o Fedi 2023 ymlaen

- cynyddu'r nifer dynodedig yn y CAA yn Ysgol Gynradd Marlborough i ddysgwyr ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth o 20 i 30 o Fedi 2022 ymlaen
- cynyddu'r nifer dynodedig yn y CAA yn Ysgol Gynradd Pentrebaen i ddysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 20 i 24 lle o Fedi 2022 ymlaen
- cynyddu'r nifer dynodedig yn y CAA yn Ysgol Gynradd Springwood i ddysgwyr gyda Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 20 i 28 o Fedi 2022 ymlaen

2. Dylid sylwi, cyn gweithredu'r cynigion, y darperir adroddiad pellach i'r Cabinet fydd yn rhoi manylion am unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd, yr ymatebion arfaethedig i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhellion ar gyfer gweithredu'r cynigion neu fel arall.

UWCH-SWYDDOG CYFRIFOL	Melanie Godfrey Cyfarwyddwraig Addysg a Dysgu Gydol Oes

Atodir yr atodiadau isod:

- Atodiad 1 – Dogfennau'r Ymgynghoriad
- Atodiad 2 – Crynodeb o Ddogfennau
- Atodiad 3 – Nodiadau o gyfarfodydd gyda Chyrff Llywodraethol a Staff ysgolion
- Atodiad 4 – Nodiadau o gyfarfodydd ymwneud â'r cyhoedd
- Atodiad 5 – Nodiadau o gyfarfodydd cyhoeddus
- Atodiad 6 – Ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd
- Atodiad 7 – Crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd a mantoliad barn
- Atodiad 8 – Dadansoddiad cryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- Atodiad 9 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori 2021

Gwella darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):

Ysgol Arbennig The Court
Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Moorland

11 HYDREF – 22 TACHWEDD 2021



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.
Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar **029 2087 2720** er mwyn trefnu hyn.



Tudalen 167



Tabl Cynnwys

Cyflwyniad

- Llyfryn am beth yw hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Ymgynghoriad

- Â phwy ydym yn ymgynghori?
- Barn plant ar y cynigion arfaethedig
- Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

- Digonolrwydd yn y Sector Arbennig
- Dosbarthiad daearyddol Darpariaeth Arbenigol

Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol Oedran Cynradd (4-11 oed)

- Y Ddarpariaeth Bresennol
- Galw am leoedd

Cynigion ar gyfer Ysgol Arbennig The Court

- Ysgol Arbennig The Court
- Nifer y llefydd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Nifer y llefydd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriadau ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Arbennig The Court
- Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin?

Beth yw manteision y newidiadau arfaethedig?

Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig

Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Beth fyddai'n digwydd i safle presennol Ysgol Arbennig The Court?

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

- The Court yn safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- The Court a safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg

Dweud eich dweud

Darpariaeth Gymhleth/Awtistiaeth Sylfaenol (4-11 oed)

- Y Ddarpariaeth Bresennol
- Canolfan Adnoddau Arbennig Anghenion Dysgu Cymhleth
- Galw am leoedd

Tabl Cynnwys

Cynnig ar gyfer darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Moorland

- Ysgol Gynradd Moorland
- Nifer y llyfdd yn yr ysgol
- Y galw am llyfdd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Llety arfaethedig CAA

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Gynradd Moorland

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin?

Ystyried opsiynau amgen

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid arfaethedig

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categorioidio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Gynradd Marlborough

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

YSGOL GYNRADD PENTRE-BAEN

Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Pentre-baen

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Gynradd Pentre-baen

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

- Safonau
- Profïadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

YSGOL GYNRADD SPRINGWOOD

Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Springwood

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Gynradd Springwood

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

- Safonau

- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

GWYBODAETH SY'N BERTHNASOL I BOB CYNNIG

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Trefniadau derbyn

Trefniadau Teithio Dysgwyr

Materion Ariannol

Darpariaeth Iechyd

Trefniadau Llywodraethu

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Cydraddoldeb

Effaith Gymunedol

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Tarfu Posibl i Ddisgyblion

Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Dyddiadau Allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Adroddiad Gwrthwynebu
- Penderfynu ar y cynigion
- Hysbysiad o'r Penderfyniad

Dweud eich dweud

- Ffurflen ymateb i ymgynghoriad

Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd. Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n mynychu neu'n disgwyl mynychu ysgolion arbennig neu Ganolfannau Adnoddau Arbenigol (CAAau) a'r rhai sydd wedi gweithio neu sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'n nodi ystod o gynigion i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr 3-19 oed sydd ag anghenion dysgu cymhleth a chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol i ddysgwyr 3-19 oed sydd ag anghenion dysgu cymhleth a chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth, bwriedir:

- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 119 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Llanisien Fach o 20 i 30 o leoedd o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough o 20 i 30 o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen o 20 i 24 o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood o 20 i 28 o fis Medi 2022

Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn ar y camau cychwynnol. Byddai unrhyw gynllun ysgol neu gynlluniau safle manwl yn cael eu hystyried yn ddiweddarach. Byddai cyfleoedd i roi sylwadau ar gynlluniau manwl yn ystod y camau cyn cynllunio a chais cynllunio, pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 11-19 oed ag anghenion dysgu cymhleth ac awtistiaeth a darpariaeth ar gyfer dysgwyr 11-19 oed ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol mewn amrywiaeth o ysgolion ledled Caerdydd.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cynigion hyn yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Ymgynghoriad

Gyda phwy yr ydym yn ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl gynnig eu barn i ni.

Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:

Tabl 1: Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw	
Plant a phobl ifanc	Gweinidogion Cymru
Rhieni/gofalwyr	Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Staff ysgol	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD)
Cyrff Llywodraethu Ysgolion	Comisiynydd y Gymraeg
Preswylwyr lleol	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
Cynghorau Cymuned	Undebau Llafur
Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS)/Aelodau Seneddol (ASau)	Darparwyr gofal plant
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Mudiad Meithrin
Awdurdodau Cymdogol	Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymdogol o fewn Caerdydd	Clybiau Plant Cymru
Estyn	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Fforwm Addysg Gymraeg
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	Sefydliadau Sector Gwirfoddol
Busnesau/sefydliadau lleol	Comisiynydd Traffig Cymru

Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig

Mae Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r modd y darperir addysg. Mae'n bwysig wrth ddatblygu cynigion, fod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion hyn a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Os na allwch gael mynediad i'r dogfennau ar-lein, bydd copïau print ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio **029 2087 2720**.

Byddwn yn dweud wrth deuluoedd â phlant yn yr ysgolion dan sylw sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.

Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhoi i breswylwyr a busnesau sy'n agos at yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion.

Cynhelir cyfarfodydd ar-lein lle bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Os hoffech fynd i gyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa gyfarfod yr hoffech fynd iddo a byddwn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod hwn.

Bydd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â Chyrff Llywodraethu a staff yr ysgolion dan sylw.

Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i roi eich barn.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus wedi eu nodi isod:

Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad / Amser	Lleoliad
Cyfarfod cyhoeddus ar-lein	Dydd Mercher 19 Ionawr 5:30pm	Ar-lein drwy Microsoft Teams
Sesiynau galw heibio	Ar gais drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk	Ar-lein drwy Microsoft Teams

Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Fynychu cyfarfod cyhoeddus neu'r sesiynau galw heibio uchod.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Cwblhau ffurflen ymateb yr ymgynghoriad, sydd i'w chael ar dudalen 84.
- Cysylltu â'r tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk, dros y ffôn ar (029) 2087 2720 neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Sylwer ar y termau canlynol a ddefnyddir gydol y ddogfen hon:

Nifer Derbyn – mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig o leiaf. Y Nifer Derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddo anawsterau sy'n cael effaith hirdymor sylweddol ar ei ddysgu. Gall anawsterau fod yn gysylltiedig â dysgu; cyfathrebu a rhyngweithio; anabledd corfforol neu synhwyrdd; neu ddatblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

Ysgolion Cymunedol – ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor yn trefnu derbyniadau i'r ysgol.

Dalgylch – ardal y byddai ysgol gymunedol fel rheol yn ei gwasanaethu. Yng Nghaerdydd, mae mwy o flaenoriaeth gan blant o fewn yr ardal hon i gael eu derbyn i'r ysgol na phlant y tu allan i'r ardal.

Anghenion Dysgu Cymhleth – plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o faterion a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu, anableddau corfforol neu synhwyrdd.

Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol – mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol broblemau o ran meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn effeithio ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill, y dewisiadau a wnânt. Weithiau o ganlyniad i drawma. Gall plant a phobl ifanc arddangos gorbryder, hunan-barch isel, ffobia ysgol, neu anawsterau ymddygiadol.

Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) - darpariaeth addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am wahanol resymau, fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae AHY yn cyfeirio at addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac nid yw'n cwmpasu addysg ddewisol yn y cartref.

Prif ffrwd - mae ysgol brif ffrwd yn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor nad yw'n ysgol arbennig. Nid yw ysgolion prif ffrwd/arbennig a gynhelir gan y Cyngor yn dethol disgyblion ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr dalu ffoedd.

Data Nifer ar y Gofrestr – nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin).

CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

Gweithredu gan yr Ysgol – Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy – Pan fo arbenigwyr o'r tu allan yn helpu'r dosbarth neu staff ysgol i roi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn wahanol neu'n ychwanegol i gymorth a roddir drwy Gweithredu gan yr Ysgol.

Ysgol Arbennig – ysgol ar gyfer plant ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol brif ffrwd. Mae gan y disgyblion mewn ysgol arbennig ddatganiad AAA, neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Canolfan Adnoddau Arbennig (CAA) - Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. Mae gan bob disgybl sy'n mynychu CAA ddatganiad AAA ac fe'u haddysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwyrwyr cymorth dysgu, ac maent yn cael cyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu â disgyblion prif ffrwd eraill.

Dosbarthiadau Lles - Mae Caerdydd hefyd yn ariannu nifer o ddsbarthiadau lles sy'n rhoi cymorth dwys byrdymor i blant a phobl ifanc sy'n arddangos anghenion iechyd a lles emosiynol, er mwyn eu cefnogi i barhau â'u lleoliad yn eu hysgol brif ffrwd leol. Mae lleoliad mewn Dosbarth Lles yn un dros dro am flwyddyn: mae'r plentyn yn parhau i fod ar y gofrestr yn ei ysgol leol, a chaiff ei gefnogi i ddychwelyd yn llawn amser i'w ysgol leol erbyn diwedd y rhaglen.

Cefndir

Mae gweledigaeth Caerdydd ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghaerdydd yn 2030 yn gosod nod Hawl Dysgu, lle gall pob plentyn a pherson ifanc:

- gael mynediad at lwybrau priodol i gyfleoedd addysgu a dysgu
- ffynnu a chyflawni eu potensial
- gwireddu eu breuddwydion a'u huchelgeisiau unigol

Er mwyn gwella deilliannau dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd, â llawer ohonynt yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysgu a dysgu, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn allweddol.

Mae gweledigaeth 2030 Caerdydd ar gael i'w gweld yn caerdydd.gov.uk/caerdydd2030

Yr Ymagwedd o ran Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd

Mae ymagwedd effeithiol a chynhwysol o gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Ysgolion a lleoliadau sy'n cyflwyno cwricwlwm arloesol gyda dulliau ysgol-gyfan effeithiol o ran addysgu a dysgu, iechyd a lles emosiynol.
- Gwasanaethau arbenigol rhagorol i wella gallu ysgolion a lleoliadau eraill i gynnwys plant a phobl ifanc ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol.
- Trefniadau effeithiol ar gyfer nodi'n gynnar ac ymyrraeth sy'n seiliedig ar ymchwil i atal anghenion dysgu ychwanegol rhag dwysáu lle bynnag y bo modd.
- Lefelau uchel o hygyrchedd ym mhob adeilad ysgol, gyda digon o ofod hyblyg ym mhob ysgol sy'n briodol i oedran a'r cyfnod dysgu.
- Partneriaethau cryf i sicrhau ymateb holistig, cydweithredol i anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau plant ac oedolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac Addysg Bellach).
- Cynllunio pontio amlasiantaethol effeithiol ar bob cam, o'r blynyddoedd cynnar hyd at gyrchfannau cynradd, uwchradd, ôl-16 ac oedolion, i gefnogi mynediad yn ddi-oed.

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sydd angen lleoliad arbenigol o ganlyniad i'w hanableddau dysgu wedi bod yn cynyddu yng Nghaerdydd dros y 5 mlynedd diwethaf, a chymerwyd camau yn 2018 i gynyddu nifer y lleoedd arbenigol sydd ar gael.

Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ceisio gwella mynediad i addysg yn unol â'r egwyddorion cynhwysiant uchod.

Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbenigol.

Fodd bynnag, cydnabyddir, er mwyn ffynnu a chyflawni eu potensial, fod angen i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol cymhlethaf gael mynediad i amgylcheddau arbenigol ac arbenigedd ysgol arbennig neu Ganolfan Adnoddau Arbenigol.

Mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu.

Mae hyn oherwydd:

- Mae'r boblogaeth disgyblion yn newid, gyda charfanau mwy o ddisgyblion oedran ysgol gynradd bellach yn symud drwodd i'r cam uwchradd.
- Cyfraddau goroesi gwell ar gyfer plant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddisgyblion ag anableddau difrifol a chymhleth.
- Mwy o gymhlethdod o ran anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu. Mae'r ystod o arbenigedd, cymorth arbenigol a chyfleusterau sydd eu hangen mewn ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol hefyd wedi cynyddu.
- Mwy o achosion a mwy o gofnodi mewn perthynas ag anghenion penodol fel awtistiaeth, Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd (ADCG), anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau.
- Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19 ond mae wedi'i waethygu gan gau ysgolion a mesurau eraill i reoli'r pandemig.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd yn cynnal canolfannau adnoddau arbenigol. Mae rhai wedi'u dynodi i gefnogi plant ag anghenion dysgu cymhleth sydd angen cwricwlwm arbenigol a addysgir mewn amgylchedd dosbarth bach; mae rhai wedi'u dynodi ar gyfer dysgwyr ag awtistiaeth neu nam ar eu clyw sydd angen cymorth arbenigol i gael mynediad at ddysgu prif ffrwd, gyda mynediad i ganolfan anogaeth ar gyfer rhywfaint o amser dysgu ac anstrwythuredig.

Diben Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yw galluogi dysgwyr ag anawsterau dysgu i lwyddo mewn ysgol brif ffrwd. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarth bach gan staff arbenigol ac maent yn elwa ar gwricwlwm arbenigol, tra'n elwa ar yr ystod lawn o gyfleoedd addysg sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd 2,265 o blant yng Nghaerdydd gyda datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Wrth i'r boblogaeth dyfu, felly hefyd bydd nifer y plant a'r bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol a chymhleth.

Yn 2020/21:

- ariannwyd cyfanswm o 1,116 o leoedd mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol neu ysgolion arbennig gan Gyngor Caerdydd
- roedd 48 o leoedd dros dro ar gael i ddysgwyr mewn Dosbarthiadau Lles a Dosbarthiadau Lleferydd ac Iaith
- roedd 90 o leoedd ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)

Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd Cyngorau eraill neu mewn ysgolion annibynnol. Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn oedd £6.3m yn 2020/21. Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar £7.3m.

Mae gwariant ar leoedd annibynnol a lleoedd ysgol arbennig mewn ardaloedd Cyngor cyfagos wedi cynyddu i tua £3.8m yn 2020/21. Heb fuddsoddi mewn lleoedd ychwanegol, byddai disgwyl i gost y lleoedd hyn dyfu'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.


Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol

Nid yw Ysgolion Arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol wedi'u dosbarthu'n dda ar draws y ddinas.

Gall diffyg Canolfannau Adnoddau Arbenigol mewn rhai ardaloedd roi dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dan anfantais. Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli. Efallai nad oes gan rieni neu ofalwyr y modd i deithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Er bod trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael i blant o'r fath, mae anfon plentyn ifanc i'r ysgol mewn ardal anghyfarwydd yn benderfyniad anodd i rieni/gofalwyr. Byddai dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ar draws y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion. Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Ysgol Arbenig a Canolfan Adnoddau Arbennigol Caerdydd 2021



Special schools & SRBs: Type & Capacity

- Autism (7)
- Behavioural, Emotional & Social Needs (3)
- Hearing Impairment (2)
- Profound & Multiple Learning Disabilities, Medical Needs, Autism (1)
- Severe Learning Disabilities, Medical Needs, Speech and Language, Autism (10)

This copy is produced specifically to supply County Council information. No further copies may be made. Mae'r copi hwn wedi'i gynhyrchu'n benodol i'r gŕiantal gyhoeddus a Cymgor Sir. Ni ellir gennedur copiâu pellach. © Crown copyright and database rights 2017. Ordnance Survey 100023376. © Haulfars y Gŕiantal a hysbïau corfforaidd 2017. Arddangos Ordnance 100023376.

Lleoedd Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth (3-19)

Darpariaeth bresennol

Ar hyn o bryd, mae gan Gaerdydd 413 o leoedd mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr 3 – 11 oed sydd ag anghenion dysgu cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth.

Mae Tabl 3 yn nodi'r ddarpariaeth Gynradd sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

Tabl 3	
Sefydliad	Anghenion Dysgu Cymhleth/Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth capasiti cynradd cyfredol 2021/2022
Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn	75*
Ysgol Arbennig Riverbank	70
Ysgol Arbennig Meadowbank	40
Ysgol Arbennig The Hollies	90
Ysgol Gynradd Bryn Hafod (Canolfan Adnoddau Arbenigol)	20
Ysgol Gynradd Llanedern (Canolfan Adnoddau Arbenigol)	20
Ysgol Gynradd Llanisien Fach (Canolfan Adnoddau Arbenigol)	20
Ysgol Gynradd Marlborough (Canolfan Adnoddau Arbenigol)	20
Ysgol Gynradd Springwood (Canolfan Adnoddau Arbenigol)	20
Ysgol Pwll Coch (Canolfan Adnoddau Arbenigol)	10
Ysgol Gynradd Pentre-baen (Canolfan Adnoddau Arbenigol)	20
Ysgol Gynradd Allensbank (dosbarth Lleferydd ac Iaith)	8
Cyfanswm lleoedd	413

*Cyfanswm capasiti Ysgol Tŷ Gwyn yw 198 o leoedd. Mae tua 75 ohonynt yn gwasanaethu dysgwyr oedran cynradd gyda'r 123 o leoedd sy'n weddill yn gwasanaethu dysgwyr 11-19 oed.

Bydd cynigion y cytunwyd arnynt yn flaenorol i ymestyn ac ailadeiladu Ysgol Arbennig Riverbank a sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn cynyddu'r cyfanswm i 465 o leoedd erbyn 2025.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 11-19 oed ag anghenion dysgu cymhleth ac awtistiaeth mewn amrywiaeth o ysgolion ledled Caerdydd.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cynigion hyn yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Galw am leoedd

Rhagamcan o'r Galw Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth yn y Cyfnod Cynradd

Mae rhagamcanion o'r galw yn y dyfodol yn seiliedig ar ddata Anghenion Dysgu Ychwanegol 2019 wedi'i gofnodi a'i normaleiddio yn erbyn arolwg CYBLD 2019 sydd wedi'i ddilysu.

Mae Tabl 4 yn nodi'r galw a ragwelir am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth yn y Cyfnod Cynradd

Llefydd cynradd	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Y galw a ragwelir	510	515	522	536	547
Rhagamcan o'r Galw (+10%)	561	567	574	590	602

Mae'r tabl yn dangos y bydd y galw a ragwelir am leoedd yn cynyddu o 510 (561 wrth ystyried y 10% o le sy'n weddill) i 547 (602 gyda'r lle sy'n weddill).

Y Bwlch yn y Ddarpariaeth Gynradd ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

Gan ystyried plant y tu allan i'r sir, a rhai prif ffrwd sy'n aros am leoliad arbenigol, amcangyfrifir mai tua 510 yw cyfanswm y galw am leoedd yn 2021/22, yn codi i 547 erbyn 2025/26. Gan ganiatáu am 10% o le'n weddill i gefnogi hyblygrwydd, y sefyllfa ddelfrydol fyddai 561 o leoedd yn 2021/22, a 602 o leoedd erbyn 2025/26.

Byddai cynigion y cytunwyd arnynt i ehangu Ysgol Arbennig Riverbank, ac ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbennig yn Ysgol Pwll Coch yn lleihau'r diffyg a ragwelir yn 2025/26 gan gyfanswm o 52 o leoedd (42 lle a 10 lle yn y drefn honno). I grynhoi, amcangyfrifir diffyg o 148 o leoedd yn 2021/22. Pe na bai twf pellach y tu hwnt i'r cynlluniau presennol mewn perthynas â Riverbank ac Ysgol Pwll Coch, bydd diffyg o tua 137 o leoedd yn parhau yn 2025/26.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymgynghori ar wahân ar gynigion i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Moorland, a fyddai'n lleihau'r diffyg a ragwelir yn 2025/26 gan 20 lle arall.



Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

Mae Tŷ Gwyn yn ysgol arbennig sydd wedi'i lleoli yn Vincent Road yng Nghaerau. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob rhan o Gaerdydd.

Mae'r ysgol wedi'i dynodi i ddarparu 198 o leoedd ar gyfer dysgwyr 3-19 oed sydd ag anableddau dysgu cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectwm Awtistiaeth, gan gynnwys y rhai ag anableddau lluosog neu ddwys sydd angen lefelau uchel o gymorth.

Mae'r ysgol wedi'i ffedereiddio ag Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands, fel Ffederasiwn Campws Dysgu'r Gorllewin, ers mis Ionawr 2018.



Er mwyn ateb y galw am leoedd cynradd ac uwchradd mewn ysgolion arbennig i ddysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectwm Awtistiaeth, cynigir:

- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 o fis Medi 2022.

Cynigir y byddai'r ysgol yn ehangu drwy addasu hen Ganolfan Ieuencid Trelái i ddarparu llety a chyfleusterau ychwanegol.

Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 5 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

Enw'r ysgol	Ystod Oedran	Cyfrwng iaith/categori'r ysgol	Capasiti Cyhoeddiedig Presennol
Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn	3 -19	Ysgol arbennig cyfrwng Saesneg	198

Capasiti presennol Tŷ Gwyn yw 198o leoedd ac roedd gan yr ysgol 195 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ebrill 2021.

Y galw am lefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 6 isod yn nodi niferoedd diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr

Tabl 6 : Recent and projected numbers on roll at Ty Gwyn										
Ysgol	Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD)					Galw Disgyblion Ysgol *				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/2022	2022/2023	2023/2024	2024/2025	2025/26
Ty Gwyn	172	175	190	196	195	198	240	240	240	240

*Y galw am leodedd ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniad o'r boblogaeth a/neu ddata ar dueddiadau ADY wedi'i gapio ar sail capasiti ysgolion.

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 7 Sgoriau cyflwr ac addasrwydd

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da ac yn gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael, gyda diffygion mawr.	Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol
D	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu.	Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Tŷ Gwyn wedi cael sgôr o C ar gyfer cyflwr ac A ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi darpariaeth ysgol arbennig ehangach.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, fel Cyngor Caerdydd, ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, lles ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- cymorth ac arweiniad gofal
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocera unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 8 isod:

Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd y mae angen iddi wella.
Oren	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha categori lliw y mae ysgol yn ôl sut y caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion, yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr-2.pdf>

Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

Arolygwyd Tŷ Gwyn ddiwethaf gan Estyn ym mis Mai 2012.

Ar yr adeg hon barnwyd bod perfformiad a rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn rhagorol.

Ym mhroses Categoriaddio Ysgolion ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Tŷ Gwyn ei chategoriaddio yn Wyrdd (ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella).

Rhoddodd asesiad gan Gonsortium Canolbarth y De yn hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Mae'r cyfraddau cynnydd a gyflawnwyd yn aml yn uwch na'r disgwyliadau cenedlaethol. Mae'r cynnydd ar draws pob maes yn yr ysgol yn rhagorol.
- Mae'r cwricwlwm yn arloesol iawn, yn ysbrydoledig ac yn briodol i bob disgybl unigol. Mae'r fethodoleg ymgysylltu a ddefnyddir yn canolbwyntio'n fawr ar fuddiannau pob disgybl, sydd yn ei dro wedi arwain at agweddau dysgu cadarnhaol iawn.
- Mae systemau tracio, monitro, asesu a dadansoddi i gyd yn gadarn iawn ac yn cael eu defnyddio gan yr holl staff yn llwyddiannus.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn Nhŷ Gwyn yn dda. Byddai cynyddu nifer y lleoedd yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag anghenion dysgu cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth. Ni ddisgwylir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd y safonau addysgu yn yr ysgol.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu.

Cymorth ac arweiniad gofal

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiâu a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

Arwain a Rheoli

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 9 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig

yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	% y Disgyblion â datganiad ADY	% y Disgyblion Prydau Ysgol am Ddim - cyfartaledd 3 blynedd	% y Disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol	% y Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig
Ty Gwyn	N/A	N/A	100%	44%	N/A	55%

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Byddai arbenigedd presennol yr ysgol yn cael ei gynnal. Byddai ehangu'r ddarpariaeth yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu staff a gwella dysgu disgyblion.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd beri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth gan fod y Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut y caiff disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar Ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr cynradd ac uwchradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth ac yn helpu i ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod rhai disgyblion sy'n byw yng Nghaerdydd yn teithio pellteroedd llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nag y byddent yn ei wneud gyrraedd darpariaeth amgen y tu allan i Gaerdydd.

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y gall newidiadau i adeiladau beri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth arbenigol ledled y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o gynlluniau ehangu eraill, a darpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Gallai opsiynau amgen i ehangu Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn gynnwys:

- ehangu darpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion arbennig eraill
- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae ysgol Tŷ Gwyn yn darparu amgylchedd dysgu mwy arbenigol nag ysgolion a chanolfannau adnoddau eraill yng Nghaerdydd. Ni fyddai'r cynnydd arfaethedig mewn lleoedd yn ddigonol ar gyfer ysgol newydd. Mae'r safonau yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn dda. Mae cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn darparu nifer gynyddol o leoedd ysgol priodol o ansawdd uchel. Felly, ystyrir bod ehangu Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn opsiwn a ffefrir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion ar gyfer yr ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gynllunio ar gyfer y gofynion gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiad. Anogir y Corff Llywodraethu i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer cynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol. Efallai y bydd rhai dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol hefyd yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion unigol a materion cymdeithasol. Mae holl ddysgwyr Tŷ Gwyn yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol, er bod rhai rhieni yn dewis gwneud eu trefniadau eu hunain oherwydd anghenion arbennig eu plentyn.

Efallai y bydd cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau anghenion dysgu ychwanegol yn gofyn am Ddatganiad Trafndiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau cymaint o deithio cynaliadwy â phosibl. Byddai staff ac ymwelwyr â'r ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio llesol i'r ysgol (cerdded, beicio a sgwtio) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Gyda'r galw cynyddol disgwylidig am Dtrafnidiaeth i Ddysgwyr, byddai'r safle'n cael ei adolygu i sicrhau bod cyfleusterau addas a digonol ar gyfer gollwng a chasglu yn cael eu darparu ar y safle i ddarparu ar gyfer y nifer briodol o gerbydau, a gwneir gwelliannau os oes angen. Efallai y bydd angen addasiadau i drefniant lleoedd gyda goleuadau ychwanegol o fewn yr ardal gollwng a chasglu er mwyn darparu ar gyfer cynnydd yn nifer y cerbydau yn well.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi eich barn i'r Cyngor ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 1 Chwefror 2022.

Ysgol Arbennig Meadowbank

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Arbennig Meadowbank

Mae Meadowbank yn ysgol arbennig sydd wedi'i lleoli yn Ystum Taf. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod.

Mae'r ysgol wedi'i dynodi ar gyfer hyd at 40 o leoedd i ddisgyblion 4 - 11 oed sydd ag anghenion lleferydd ac iaith a chyfathrebu ac anghenion dysgu cymhleth.



Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd ysgol arbennig i ddysgwyr ag anghenion cymhleth, cynigir:

- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o fis Medi 2022.

Cynigir y byddai gwaith yn cael ei wneud i ddarparu llety a chyfleusterau newydd ac addasu'r llety presennol, er mwyn hwyluso twf yr ysgol.

Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 10 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Arbennig Meadowbank

Tabl 10			
Enw'r ysgol	Ystod Oedran	Cyfrwng iaith/categori'r ysgol	Capasiti Cyhoedddeg Presennol
Ysgol Arbennig Meadowbank	4 - 11	Ysgol arbennig cyfrwng Saesneg	40

Capasiti presennol Ysgol Arbennig Meadowbank yw 40 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 40 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ebrill 2021.

Y galw am lefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 11 isod yn nodi niferoedd diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr

Tabl 11: Recent and projected numbers on roll at Meadowbank Special Ysgol										
Ysgol	Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD)					Galw Disgyblion Ysgol *				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Meadowbank Special Ysgol	17	14	24	33	40	50	98	98	98	98

*Y galw am leoedd ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniad o'r boblogaeth a/neu ddata ar dueddiadau ADY wedi'i gapio ar sail capasiti ysgolion.

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 12 Cyflwr and AddasrwyddSgôrs

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da ac yn gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael, gyda diffygion mawr.	Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol
D	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu.	Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Arbennig Meadowbank wedi'i sgorio fel B ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi darpariaeth ysgol arbennig ehangach.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, fel Cyngor Caerdydd, ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, lles ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- cymorth ac arweiniad gofal
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system categoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocra unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach

Disgrifir y system categoreiddio yn Nhabl 13 isod:

Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd y mae angen iddi wella.
Oren	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha categori lliw y mae ysgol yn ôl sut y caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion, yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr-2.pdf>

Ysgol Arbennig Meadowbank

Arolygwyd Ysgol Arbennig Meadowbank ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2019.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod y safonau, y profiad addysgu a dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth i gyd yn ddigonol ac angen eu gwella. Barnwyd bod lles ac agweddau'r ysgol at ddysgu yn dda.

Yn y broses Categoriadau Ysgolion ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2020, cafodd Ysgol Arbennig Meadowbank ei chategoriadau'n Oren (Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach).

Rhoddodd asesiad gan Consortiwm Canolbarth y De yn hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Mae data cynnydd disgyblion ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn gyfyngedig oherwydd y gofrestr disgyblion sy'n newid yn barhaus drwy gydol y flwyddyn. O'r disgyblion a oedd yn bresennol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ddiwethaf, dim ond 6 sy'n weddill. Mae'r niferoedd bach hyn o ddisgyblion yn ei gwneud hi'n anodd iawn nodi tueddiadau cynnydd.
- Mae'r cynnydd presennol ar gyfer pob disgybl yn gyson dda gyda llawer yn gwneud cynnydd rhagorol o'u llinellau sylfaen eu hunain mewn cyfnod byr iawn. Yn sgil gwelliant mawr mewn addysgu a dysgu, yn unol ag anghenion newidiol disgyblion dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae cynnydd o ran datblygu sgiliau cymdeithasol, lles a phersonol disgyblion yn dda.
- Mae ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu yn rhagorol ac mae achosion o waharddiadau cyfnod penodol yn brin iawn gan fod darpariaeth wedi'i datblygu i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol poblogaeth fwy cymhleth o ddisgyblion.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau ym mhob ysgol yn gwella. Byddai cynyddu nifer y lleoedd yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag anghenion dysgu cymhleth. Ni ddisgwylir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd y safonau addysg yn yr ysgol.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu.

Cymorth ac arweiniad gofal

Arolygwyd Ysgol Gynradd Marlborough ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2018.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod y safonau, lles ac agweddau at ddysgu, addysgu a'r profiad dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth i gyd yn dda.

Ym mhroses Categori Ysgolion ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Gynradd Marlborough ei chategori' n Wyrdd (Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella).

Rhoddodd asesiad gan Gonsortium Canolbarth y De yn hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Yn gyffredinol, mae safonau cyflawniad wedi bod yn gyson uchel dros amser gyda lefelau da o gynnydd i bron pob disgybl.
- Mae ymddygiad ac agweddau'r disgyblion at ddysgu yn rhagorol.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae data cynnydd yn dangos bod mwyafrif y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn gwneud y cynnydd disgwylidig o leiaf yn y ddau bwnc, ond mae'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng deilliannau cynnydd ar gyfer disgyblion Prydau Ysgol am Ddim a disgyblion nad ydynt yn cael Prydau Ysgol am Ddim yn cael eu heffeithio gan ddisgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol.
- Mae systemau tracio yn gadarn ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cymorth priodol pan fo angen.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda. Byddai cynyddu nifer y lleoedd yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag anghenion dysgu cymedrol, dwys a chymhleth. Ni ddisgwylir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd y safonau addysg yn yr ysgol.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu.

Cymorth ac arweiniad gofal

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

Arwain a Rheoli

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 29 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig ym mhob un o'r ysgolion

yn Ysgol Gynradd Marlborough

Tabl 29						
Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	% y Disgyblion â datganiad ADY	% y Disgyblion Prydau Ysgol am Ddim - cyfartaledd 3 blynedd	% y Disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol	% y Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig
Ysgol Gynradd Marlborough (pob disgybl)	7%	3.7%	5.4%	9.5%	12.1%	32.2%

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Byddai arbenigedd presennol yr ysgol yn cael ei gynnal. Byddai ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu staff a gwella dysgu disgyblion.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd beri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth gan fod y Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut y caiff disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar Ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd sydd ag anghenion dysgu cymedrol, dwys a chymhleth ac yn helpu i ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ychwanegol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yng ngogledd y ddinas yn teithio pellteroedd llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nag y byddent yn ei wneud i gyrraedd darpariaeth amgen.

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y gall newidiadau i adeiladau beri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth arbenigol ledled y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o ehangiadau eraill, a darpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Gallai opsiynau amgen ar gyfer ehangu Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough gynnwys:

- ehangu darpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion cynradd eraill
- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae'r safonau yn Ysgol Gynradd Marlborough yn dda. Mae cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn darparu nifer gynyddol o leoedd ysgol priodol o ansawdd uchel. Felly, ystyrir bod ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Marlborough yn opsiwn a ffefrir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o gynyddu nifer dynodedig y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i Ganolfannau Adnoddau Arbenigol ac ysgolion cynradd. Efallai y bydd rhai dysgwyr mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a materion cymdeithasol. Gall dysgwyr eraill mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafndiaeth i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr â'r ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Efallai y bydd cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau anghenion dysgu ychwanegol yn gofyn am Ddatganiad Trafndiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau cymaint o deithio cynaliadwy â phosibl.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio llesol i'r ysgol (cerdded, beicio a sgwtio) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan anghenion dysgu ychwanegol, a fyddai'n cael ei gynnis i ddysgwyr fel y bo'n briodol, gan gynnwys hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwylidig am Drafndiaeth i Ddysgwyr, byddai'r safle'n cael ei adolygu i sicrhau bod cyfleusterau cyfleus a digonol ar gael ar gyfer gollwng a chasglu i ddarparu ar gyfer y nifer briodol o gerbydau, a gwneir gwelliannau os oes angen. Ystyrir cyflwyno Stryd Ysgol i gyfyngu ar fynediad heb awdurdod ar hyd Agincourt Road ar adegau prysur yr ysgol. Efallai y bydd angen cilfachau trwydded tacsï hefyd ar Agincourt Road.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi eich barn i'r Cyngor ar y cynnis. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnis hwn yw 1 Chwefror 2022.



Ysgol Gynradd Pentre-baen

Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Pentre-baen

Mae Ysgol Gynradd Pentre-baen yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Rhodfa Beechley, Pentre-baen.

Mae'r ysgol yn gartref i Ganolfan Adnoddau Arbenigol gynradd ar gyfer plant â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth.



Er mwyn ateb y galw am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr 4-11 oed â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth, bwriedir:

- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen o 20 i 24 o fis Medi 2022

Cynigir y byddai gwaith yn cael ei wneud i wella ac ymestyn cyfleusterau a llety.

Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 30 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Pentre-baen

Tabl 30				
Enw'r ysgol	Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed)	Llefydd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed)	Meithrin	Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol
Ysgol Gynradd Pentre-baen (lleoedd prif ffrwd)	210	Dd/B	48	Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg
Ysgol Gynradd Pentre-baen (lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol)	20	Dd/B	Dd/B	

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Pentre-baen yw 210 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 182 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ebrill 2021.

Capasiti presennol Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen yw 20 ac roedd gan yr ysgol 24 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Hydref 2020.

Y galw am lefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 31 isod yn nodi niferoedd diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr

Tabl 31: Rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Pentre-baen										
Ysgol	Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD)					Galw Disgyblion Ysgol *				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Ysgol Gynradd Pentre-baen lleoedd prif ffrwd	186	208	196	191	182	170	160	157	148	139
Ysgol Gynradd Pentre-baen Lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol	17	21	23	23	23	20	24	24	24	24

*Y galw am leoedd ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniad o'r boblogaeth a/neu ddata ar dueddiadau ADY wedi'i gapio ar sail capasiti ysgolion.

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 32 Sgoriau cyflwr ac addasrwydd

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da ac yn gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol
B	Bodddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Bodddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael, gyda diffygion mawr.	Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol
D	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu.	Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Gynradd Pentre-baen wedi'i sgorio fel C+ ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygiad darpariaeth ysgol arbennig.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, fel Cyngor Caerdydd, ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, lles ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- cymorth ac arweiniad gofal
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system categoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocra unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system categoreiddio yn Nhabl 33 isod:

Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd y mae angen iddi wella.
Oren	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha categori lliw y mae ysgol yn ôl sut y caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoraidd yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion, yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categori-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr-2.pdf>

Ysgol Gynradd Pentre-baen

Arolygwyd Ysgol Gynradd Pentre-baen ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2015.

Ar yr adeg hon barnwyd bod perfformiad a rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn dda.

Yn y broses Categori Ysgolion ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Gynradd Pentre-baen ei chategori fel Melyn (Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod lle y mae angen iddi wella).

Rhoddodd asesiad gan Gonsortwm Canolbarth y De yn hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Mae data cynnydd yr ysgol ar gyfer 2019 yn dangos bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig o leiaf o'u man cychwyn hyd at ddiwedd y cyfnod sylfaen.
- Mae pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYADd) yn gwneud y cynnydd disgwylidig o leiaf erbyn iddynt adael blwyddyn 2. Mae llawer o ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn gwneud y cynnydd disgwylidig o leiaf o ddiwedd blwyddyn 2 hyd at ddiwedd blwyddyn 6, gydag ambell un yn gwneud cynnydd uwch na'r disgwyl.
- Mae gan arweinwyr a staff ddealltwriaeth glir o'r angen i wella canlyniadau. Fodd bynnag, nid yw targedau a disgwyliadau ar gyfer cyflawniad disgyblion yn y dyfodol bob amser yn ddigon heriol. Mae prosesau i dracio cynnydd disgyblion, nodi anghenion a darparu cymorth yn gadarn ac yn effeithiol ym mron pob achos.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda. Byddai cynyddu nifer y lleoedd yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc â Chyflwr ar y Sbectwm Awtistiaeth. Ni ddisgwylir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd y safonau addysg yn yr ysgol.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu.

Cymorth ac arweiniad gofal

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

Arwain a Rheoli

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 34 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig ym mhob un o'r ysgolion

yn Ysgol Gynradd Pentre-baen.

Tabl 34

Ysgol	% y disgyblion ar	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	% y Disgyblion â datganiad ADY	% y Disgyblion Prydau Ysgol am Ddim - cyfartaledd 3 blynedd	% y Disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol	% y Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig
Ysgol Gynradd Pentre-baen (pob disgybl)	13.4	7.3	15.2	51.3	19.5	26.4

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Byddai arbenigedd presennol yr ysgol yn cael ei gynnal. Byddai ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu staff a gwella dysgu disgyblion mewn cyfleusterau sydd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd beri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth gan fod y Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut y caiff disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar Ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd sydd â Chyflyrau ar y Sbectwm Awtistiaeth ac yn helpu i ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ychwanegol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yng ngorllewin y ddinas yn teithio pellteroedd llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nag y byddent yn ei wneud i gyrraedd darpariaeth amgen.

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y gall newidiadau i adeiladau beri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth arbenigol ledled y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o ehangiadau eraill, a darpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Gallai opsiynau amgen ar gyfer ehangu Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen gynnwys:

- ehangu darpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion cynradd eraill
- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae'r safonau yn Ysgol Gynradd Pentre-baen yn dda. Mae cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn darparu nifer gynyddol o leoedd ysgol priodol o ansawdd uchel. Felly, ystyrir bod ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Pentre-baen yn opsiwn a ffeirir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o gynyddu nifer dynodedig y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i Ganolfannau Adnoddau Arbenigol ac ysgolion cynradd. Efallai y bydd rhai dysgwyr mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a materion cymdeithasol. Gall dysgwyr eraill mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafndiaeth i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr â'r ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Efallai y bydd cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau anghenion dysgu ychwanegol yn gofyn am Ddatganiad Trafndiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau cymaint o deithio cynaliadwy â phosibl.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio llesol i'r ysgol (cerdded, beicio a sgwtio) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan anghenion dysgu ychwanegol, a fyddai'n cael ei gynnig i ddysgwyr fel y bo'n briodol, gan gynnwys hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwylidig am Drafnidiaeth i Ddysgwyr, byddai'r safle'n cael ei adolygu i sicrhau bod cyfleusterau cyfleus a digonol ar gael ar gyfer gollwng a chasglu i ddarparu ar gyfer y nifer briodol o gerbydau, a gwneir gwelliannau os oes angen. Efallai y bydd angen archwilio'r potensial ar gyfer Stryd Ysgol hefyd i fynd i'r afael â thagfeydd traffig presennol a gwella diogelwch i gerddwyr drwy gyfyngu ar fynediad i gerbydau anawdurdodedig ar adegau prysuraf yr ysgol.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi eich barn i'r Cyngor ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 1 Chwefror 2022.

A photograph of a classroom scene. A teacher with curly hair is smiling and looking down at a student's work. The student is a young girl with long blonde hair, resting her chin on her hands. Other students are visible in the background, some looking towards the camera. The entire image has a warm, golden-yellow tint. A white rectangular box is centered over the image, containing the school's name in white text.

Ysgol Gynradd Springwood

Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Springwood

Mae Ysgol Gynradd Springwood yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Circle Way, Llanedern.

Mae'r ysgol yn gartref i ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth.



Er mwyn ateb y galw cynyddol am lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr 4-11 oed â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth, bwriedir:

- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood o 20 i 28 o fis Medi 2022

Gwnaed gwaith i wella ac addasu llety sy'n bodoli eisoes yn yr ysgol.

Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 35 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Springwood

Enw'r ysgol	Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed)	Llefydd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed)	Lleoedd meithrin	Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol
Ysgol Gynradd Springwood (lleoedd prif ffrwd)	420	60	48	Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg
Ysgol Gynradd Springwood (lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol)	20	Dd/b	Dd/b	

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Springwood yw 420 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 205 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Hydref 2020.

Capasiti presennol Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood yw 20 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 28 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Hydref 2020.

Y galw am lefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 36 isod yn nodi niferoedd diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr

Tabl 36: Rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Springwood

Ysgol	Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD)					Galw Disgyblion Ysgol *				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Ysgol Gynradd Springwood lleoedd prif ffrwd	184	185	187	191	181	197	183	180	182	175
Ysgol Gynradd Springwood Lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol	17	21	20	21	26	20	28	28	28	28

*Y galw am leoedd ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniad o'r boblogaeth a/neu ddata ar dueddiadau ADY wedi'i gapio ar sail capasiti ysgolion.

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 37 Sgoriau cyflwr ac addasrwydd

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da ac yn gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael, gyda diffygion mawr.	Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol
D	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu.	Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Gynradd Springwood wedi'i sgorio fel C ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle yn gallu cefnogi datblygiad darpariaeth ysgol arbennig.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, fel Cyngor Caerdydd, ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, lles ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- cymorth ac arweiniad gofal
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocera unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 38 isod:

Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd y mae angen iddi wella.
Oren	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha categori lliw y mae ysgol yn ôl sut y caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion, yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr-2.pdf>

Ysgol Gynradd Springwood

Arolygydd Ysgol Gynradd Springwood ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2018.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod y safonau, lles ac agweddau at ddysgu, addysgu a'r profiad dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth i gyd yn dda. Barnwyd bod gofal, cymorth ac arweiniad yr ysgol yn rhagorol.

Ym mhroses Categoreiddio Ysgolion ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Gynradd Springwood ei chategoreiddio'n Wyrdd (Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella).

Rhoddodd asesiad gan Gonsortium Canolbarth y De yn hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Mae pwyslais clir ar godi safonau. Drwy ei thargedau mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel o ran cyrhaeddiad ei disgyblion.
- Mae gan yr ysgol hanes da iawn o godi cyrhaeddiad pob grŵp o ddisgyblion.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig o leiaf mewn datblygiad mathemategol (MD) a datblygiad personol a chymdeithasol (PSD).
- Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig o leiaf yn Saesneg erbyn iddynt adael blwyddyn 6.
- Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl mewn Saesneg, gyda llawer yn gwneud hynny mewn mathemateg hefyd. Yn 2019, ni wnaeth unrhyw ddisgyblion Prydau Ysgol am Ddim gynnydd gwell na'r disgwyl yn y naill bwnc na'r llall.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â chyryff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda. Byddai cynyddu nifer y lleoedd yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth. Ni ddisgwylir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu.

Cymorth ac arweiniad gofal

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiâu a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

Arwain a Rheoli

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 39 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig ym mhob un o'r ysgolion

yn Ysgol Gynradd Springwood.

Tabl 39						
Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	% y Disgyblion â datganiad ADY	% y Disgyblion Prydau Ysgol am Ddim - cyfartaledd 3 blynedd	% y Disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol	% y Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig
Ysgol Gynradd Springwood	6.3 %	5.8 %	18.8 %	40.3 %	14.7 %	32.5 %

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Byddai arbenigedd presennol yr ysgol yn cael ei gynnal. Byddai ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu staff a gwella dysgu disgyblion.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd beri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth gan fod y Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut y caiff disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar Ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd sydd â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth ac yn helpu i ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ychwanegol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yng ngogledd/dwyrain y ddinas yn teithio pellteroedd llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nag y byddent yn ei wneud i gyrraedd darpariaeth amgen.

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y gall newidiadau i adeiladau beri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.

- Mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth arbenigol ledled y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o ehangiadau eraill, a darpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Gallai opsiynau amgen ar gyfer ehangu Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood gynnwys:

- ehangu darpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion cynradd eraill
- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae'r safonau yn Ysgol Gynradd Springwood yn dda. Mae cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn darparu nifer gynyddol o leoedd ysgol priodol o ansawdd uchel. Felly, ystyrir bod ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Springwood yn opsiwn a ffefrir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o gynyddu nifer dynodedig y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i Ganolfannau Adnoddau Arbenigol ac ysgolion cynradd. Efallai y bydd rhai dysgwyr mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a materion cymdeithasol. Gall dysgwyr eraill mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafndiaeth i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr â'r ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Efallai y bydd cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau anghenion dysgu ychwanegol yn gofyn am Ddatganiad Trafnidiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau cymaint o deithio cynaliadwy â phosibl.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio llesol i'r ysgol (cerdded, beicio a sgwtio) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan anghenion dysgu ychwanegol, a fyddai'n cael ei gynnig i ddysgwyr fel y bo'n briodol, gan gynnwys hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwylidig am Drafnidiaeth i Ddysgwyr, byddai'r safle'n cael ei adolygu i sicrhau bod cyfleusterau addas a digonol ar gael ar gyfer gollwng a chasglu o fewn y safle i ddarparu ar gyfer y nifer briodol o gerbydau, a gwneir gwelliannau os oes angen.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi eich barn i'r Cyngor ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennyh.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 1 Chwefror 2022.

A woman with curly hair is smiling and looking down at a table. On the table, there are several educational cards with text and images. A young girl with long blonde hair is sitting at the table, looking at one of the cards. Another girl is partially visible on the left side of the frame. The background shows a classroom setting with other students seated at desks.

Gwybodaeth sy'n Berthnasol i bob Cynnig

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Mae Ysgolion Arbennig / Canolfannau Adnoddau Arbenigol yng Nghaerdydd yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd gyfan. Nid oes digon o leoedd i ateb y galw yn y ddarpariaeth a gynhelir. Mae hyn yn cael effaith ar ysgolion sy'n bodoli eisoes lle mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o ddisgyblion ar y gofrestr na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) neu'r nifer a ddymunir mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gaerdydd ddibynnu ar brynu rhai lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ac mewn ysgolion annibynnol i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gallai fod effaith tymor hwy ar ddarparwyr y tu allan i'r sir ac ar ysgolion annibynnol gan ei bod yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd a brynir gan y Cyngor.

Trefniadau derbyn

Does dim cynlluniau ar waith i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

Rheolir derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol gan y Cyngor, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). O dan y Cod ADY, bydd y lleoliad yn destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Trefniadau Teithio Dysgwyr

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac yn ôl o ysgolion.

Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth gyda thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafndiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw anabledd sydd gan blentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA).

Materion Ariannol

Byddai rhai o'r newidiadau arfaethedig a nodir yn y ddogfen hon yn arwain at gostau cyfalaf i'r Cyngor, ar gyfer cynnal gwaith ar adeiladu a/neu addasu adeiladau. Byddent hefyd yn arwain at gostau referniw i'r Cyngor, wrth gyflogi staff.

Nid oes unrhyw ymrwymadau ariannol ar y cam hwn o'r ymgynghoriad. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelir gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

Byddai angen i'r lleoedd ychwanegol hyn gael eu hariannu o'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig bresennol. Ar hyn o bryd, cyflwynir darpariaeth cost uchel i rai disgyblion mewn nifer o ffyrdd. Mae rhai dysgwyr yn cael eu lleoli mewn ysgolion y tu allan i Gaerdydd, neu mewn ysgol annibynnol. Mae rhai dysgwyr yn aros mewn ysgolion prif ffrwd, gyda thaliadau "Gwella Anghenion Cymhleth" yn cael eu gwneud i'r ysgol i ddarparu cymorth priodol.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ganfod a fydd yr arbedion ar y lleoliadau hyn, neu ar daliadau chwyddo i ysgolion, yn talu costau ychwanegol y lleoedd ychwanegol arfaethedig.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried sut y byddai costau trafniadaeth rhwng y cartref a'r ysgol y Cyngor yn newid. Gall y nifer gynyddol o leoedd arbenigol a gynigir gynyddu nifer y plant sy'n cael eu cludo rhwng y cartref a'r ysgol gan y Cyngor. Gall y nifer gynyddol o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion a chanolfannau arbennig leihau'r pellter teithio cyfartalog a'r gost teithio gyfartalog.

Darpariaeth iechyd

Bydd gan y cynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn oblygiadau i iechyd a gwasanaethau arbenigol eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ffactor ychwanegol yw Deddf Diwygio ADY 2018, a fydd yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd i iechyd, addysg a gofal cymdeithasol gydweithio i gydlynu asesiadau a darpariaeth. Bydd Deddf 2018 yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd ac mewn unedau cyfeirio disgyblion. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, a oruchwylir gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr o'r meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a rhieni, yn llywio dyluniad y ddarpariaeth arbenigol.

Trefniadau Llywodraethu

Ni chynigir unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu fel rhan o'r cynnig hwn.

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Mae lefel anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae hyn wedi bod yn newid dros y 4-5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o Anghenion Dysgu Ychwanegol, ym mhob maes angen.

Cynhaliwyd adolygiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i lywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Nododd ysgolion nifer fach ond arwyddocaol o enghreifftiau o ddisgyblion ag ADY yn gadael y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn dewis yn hytrach addysg cyfrwng Saesneg os oes gan eu plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol, drwy bryder y gallai fod angen i'w plentyn drosglwyddo i'r sector arbenigol yn ddiweddarach.

Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.

Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle sefydlir y ganolfan uwchradd. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chefnogi ystod o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau lleferydd ac iaith ac awtistiaeth.

Yn 2021 mae galw cynyddol am ganolfannau adnoddau ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, sy'n gyflawnwyr uchel ar gyfartaledd, a byddai angen model cymorth mwy integreiddiol na'r hyn a ddarperir gan y ddwy ganolfan bresennol. Ar hyn o bryd mae 8 dysgwr oedran uwchradd, a 15 o ddysgwyr oed cynradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a fyddai'n elwa o leoliad mewn canolfan Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth. Mae hon yn flaenoriaeth byrdymor, o ystyried y risg, os bydd y lleoliadau presennol yn methu, mai'r unig opsiwn fyddai cynnig trosglwyddia d i leoliad cyfrwng Saesneg.

Mae dosbarth lles cynradd wedi'i sefydlu, a gynhelir yn Ysgol Gynradd Pen y Groes. Mae'r dosbarth lles yn gweithio'n hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion mewn gwahanol gyfnodau oedran, neu i ddarparu model allgymorth, yn dibynnu ar yr angen presennol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu cynigion i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer Cyflyrau'r sbectrwm awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ogystal â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle presennol yn yr ysgol.

Er mwyn cefnogi anghenion iechyd a lles emosiynol yn y cyfnod uwchradd, mae canolfan 'rithwir'/Uned Cyfeirio Disgyblion wedi'i threialu ar draws y tair ysgol uwchradd, gan ddechrau yn 2018. Disgwylir i'r peilot gael ei adolygu ymhellach yn 2021.

Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y tair ysgol gyfleusterau a llety digonol i ddarparu darpariaeth Cam 3 a 4 effeithiol, wedi'i hategu gan y ganolfan rithwir/UCD. Yn y tymor canolig, bydd angen lleoliad sefydlog ar y ganolfan rithwir / UCD yn un o'r ysgolion, gyda llety dynodedig, er mwyn lleihau'r risg y gallai fod angen i bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth adael y sector Cymraeg i gael mynediad at ddarpariaeth fwy arbenigol.

Wrth i'r sector Cymreig barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cymhleth.

Mae nifer cyfyngedig o staff addysgu cymwys a phrofiadol Anghenion Dysgu Ychwanegol, o'i gymharu â'r sector yn Lloegr. Bydd angen i unrhyw gynllun i ddatblygu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg gael ei gefnogi gan Gynllun Datblygu'r Gweithlu ADY.

Yn unol â'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid ar Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd i ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd newydd ar gyfer y ddinas

Mae ymgynghoriad ar wahân ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 2032 drafft ar y gweill ac mae'n gofyn am farn ar y ffordd orau o dyfu addysg cyfrwng Cymraeg a sut i gyrraedd y targedau lleol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn llywio cynigion yn y dyfodol. Bydd y Rhaglen yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymgynghoriad hwn i'w weld yn <https://www.cardiff.gov.uk/YmgynghoriadauStrategaethCymraeg>.

Yn dilyn ymgynghoriad, disgwylir y bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022. Bydd y Cynllun 10 mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032.

Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a gynigir yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen. Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb arall yn cael ei wneud ar yr adeg dylunio. Byddai hyn yn nodi hygyrchedd i'r ddarpariaeth newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisiau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, NCT 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol.

Effaith Gymunedol

Ystyrir y canlynol wrth ystyried cynnig: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, sŵn a thagfeydd. Bydd yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion hyn a'r Cyngor yn gweithio gydag unrhyw grwpiau cymunedol i sicrhau bod y cynigion yn osgoi unrhyw effeithiau negyddol os yn bosibl.

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer y cynigion hyn ac mae ar gael i'w weld yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae rhaglen Band B Caerdydd wedi ymrwmo i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol, ynghyd ag annog y defnydd o dulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafndiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.

Yng ngoleuni'r pandemig a chyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gellir lleihau symudiadau myfyrwyr ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith hirdymor y buddsoddiad sylweddol hwn, byddai unrhyw ddyluniad a aiff yn ei flaen ar gyfer pob ysgol sy'n rhan o'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau cyfleusterau modern o safon uchel sy'n gallu ymateb i anghenion y boblogaeth bresennol o ddisgyblion a chefnogi gweithrediad dulliau addysgu a dysgu effeithiol. Byddent hefyd yn ymgorffori'r hyblygrwydd i ystyried newidiadau yn dibynnu ar yr angen wrth i amser fynd rhagddo, megis newid yn y ddemograffeg a niferoedd disgyblion, newid yn y cwricwlwm a newid ym math anghenion disgyblion.

Tarfu Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion a feddiannir o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol.

Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg a safonau diogelwch uchel yn cael eu cynnal.

Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

Beth sy'n digwydd nesaf?

Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion y Cyngor wedyn yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor i roi gwybod i aelodau etholedig am farn rhanddeiliaid, ac i fwydo'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 40 isod:

Tabl 40: Camau yn y dyfodol (Mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn newid)

Proses Statudol	Amserlen
Y Cyfnod Ymgynghori	14 Rhagfyr 2021 – 1 Chwefror 2022
Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor	Mawrth 2022
Dyddiad cychwyn disgwylidig ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu wedi cyflwyno'r hysbysiad statudol (pan ellir gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol)	Mai 2022
Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben	Mehefin 2022
Y penderfyniad terfynol (pennu) gan Gabinet y Cyngor	Gorffennaf 2022
Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet	Gorffennaf 2022

Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 14 Rhagfyr 2021 ac yn dod i ben ar 1 Chwefror 2022.

Gweler tudalen 84 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

Gallwch ofyn hefyd am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn trafod y materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir neu beidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad(au) statudol hwn ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copïau o'r hysbysiad(au) yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt. Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Penderfynu ar y cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Hysbysiad o'r Penderfyniad

Wedi penderfynu, byddai Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i bawb y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth oedd y penderfyniad hwnnw. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Dweud eich dweud!

Gallwch gwblhau'r ffurflen ymateb hwn ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Rydym yn cynnig:

- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 150 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Llanisien Fach o 20 i 30 o leoedd o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough o 20 i 30 o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen o 20 i 24 o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood o 20 i 28 o fis Medi 2022

Mae eich barn o bwys. Rhannwch eich barn am y cynigion gyda ni drwy:

- Lenwi a dychwelyd yr holiadur cysylltiedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Os yw'n well gennych, gallwch e-bostio eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw Dydd Mawrth 1 Chwefror 2022.

Yn anffodus ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

1. Fel pa un o'r canlynol ydych chi'n ymateb?

- Rhiant
- Athro – nodwch eich ysgol _____
- Llywodraethwr ysgol – nodwch eich ysgol _____
- Arall - rhwch fanylion _____

2. A oes gennych chi blentyn/plant wedi eu cofrestru yn yr ysgolion canlynol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | <input type="checkbox"/> Ysgol Gynradd Pentre-baen |
| <input type="checkbox"/> Ysgol Arbennig Meadowbank | <input type="checkbox"/> Ysgol Gynradd Springwood |
| <input type="checkbox"/> Ysgol Arbennig The Hollies | <input type="checkbox"/> Arall - rhwch fanylion _____ |
| <input type="checkbox"/> Ysgol Gynradd Llanisien Fach | |
| <input type="checkbox"/> Ysgol Gynradd Marlborough | <input type="checkbox"/> Dd/B |

3. A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

YDW

NAC YDW

DDIM YN GWYBOD

4. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un o'r safleoedd ysgol?

Ysgol a'r cynnig yn gryno	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
<p>Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 o fis Medi 2022 			
<p>Ysgol Arbennig Meadowbank</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o fis Medi 2022 			
<p>Ysgol Arbennig The Hollies</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 119 o fis Medi 2022 cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 o fis Medi 2023 			
<p>Ysgol Gynradd Llanisien Fach</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Llanisien Fach o 20 i 30 o leoedd o fis Medi 2023 			
<p>Ysgol Gynradd Marlborough</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough o 20 i 30 o fis Medi 2022 			
<p>Ysgol Gynradd Pentre-baen</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen o 20 i 24 o fis Medi 2022 			
<p>Ysgol Gynradd Springwood</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood o 20 i 28 o fis Medi 2022 			

5. Os ydych chi, neu nad ydych chi, yn cefnogi'r newidiadau a gynigir, eglurwch pam.

6. A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen?

7. Sylwadau ychwanegol

Enw _____

Cyfeiriad _____

Cod post _____

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **1 Chwefror 2022**.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni gysylltu â chi.

Diolch i chi am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon i'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW erbyn 1 Chwefror 2022 fan pellaf.

AMDANOCH CHI

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- Dan 16 oed 25-34 45-54 65-74 Mae'n well gennyf beidio â dweud
 16-24 35-44 55-64 75+

Ydych chi yn.....?

- Benyw Gwryw Arall Mae'n well gennyf beidio â dweud

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- Byddwn Nac oes Mae'n well gennyf beidio â dweud

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- Byddar/Wedi colli clyw/Yn drwm eich clyw Nam ar y golwg Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor
(e.e. canser, diabetes neu asthma)
 Anawsterau iechyd meddwl Defnyddiwr cadair olwyn Mae'n well gennyf beidio â dweud
 Nam/anawsterau dysgu Nam symudedd Arall

Rhowch fanylion _____

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad gartref, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Bangladeshaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Caribiaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd | <input type="checkbox"/> Arabaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall | <input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd | |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Pacistanaidd | |
- _____ Mae'n well gennyf beidio â dweud

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Mae angen prosesu data personol er mwyn cyflawni tasgau penodol er budd y cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori 2021

DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG
ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL:
ANGHENION DYSGU CYMHLETH A DARPARIAETH CYFLWR
SBECTRWM ARTISTIAETH AR GYFER DYSGWYR 11-19 OED
14 RHAGFYR 2021 – 1 CHWEFROR 2022



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar **029 2087 2720** er mwyn trefnu hyn



Tudalen 304



Tabl Cynnwys

Cyflwyniad

- Llyfryn am beth yw hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Ymgynghoriad

- Â phwy ydym yn ymgynghori?
- Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig
- Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Cefndir

Y Dull o Gefnogi ADY yng Nghaerdydd

Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Dosbarthiad daearyddol Darpariaeth Arbenigol

Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth ar gyfer dysgwyr 11 - 19 oed

- Y Ddarpariaeth Bresennol
- Galw am leoedd
- Rhagamcan o Angen Dysgu Cymhleth/Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth Galw Cyfnod Uwchradd

Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

Sut y byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

Cynnig ar gyfer sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Willows

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Uwchradd Willows

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Llanisien

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Uwchradd Llanisien

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Ychwanegol yng Nghanolfan Marion, Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

Cynnig ar gyfer sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

Gwybodaeth sy'n berthnasol i bob cynnig

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Trefniadau derbyn

Trefniadau Teithio Dysgwyr

Materion Ariannol

Darpariaeth Iechyd

Trefniadau Llywodraethu

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Cydraddoldeb

Effaith Gymunedol

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Amhariad Posibl i Ddisgyblion

Camau nesaf, sut y gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Dyddiadau allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Adroddiad Gwrthwynebu
- Penderfynu ar y Cynigion
- Hysbysu'r Penderfyniad

Dweud eich dweud

- Ffurflen ymateb i ymgynghoriad

Cyflwynaid

Llyfryn am beth yw hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd. Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n mynychu neu'n disgwyl mynychu ysgolion arbennig neu Ganolfannau Adnoddau Arbenigol a'r rhai sydd wedi neu sy'n gweithio ar hyn o bryd gyda phlant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'n nodi ystod o gynigion i gynyddu nifer y lleoedd adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr 11-19 oed sydd ag anghenion dysgu cymhleth, a chyflwr sbectrwm awtistiaeth a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw am leoedd canolfannau adnoddau arbenigol uwchradd i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth, cynigir:

- **cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd o 70 i 100 o fis Medi 2022**
- **sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol â 30 lle yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023**

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol uwchradd i ddysgwyr â chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth, cynigir:

- **cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Awtistiaeth Ysgol Uwchradd Llanisien o 20 i 45 o fis Medi 2022**
- **cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Awtistiaeth Canolfan Marion o 42 i 66 o fis Medi 2022**
- **sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Awtistiaeth â 30 lle ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle presennol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf o fis Medi 2023**

Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn ar y camau cychwynnol. Byddai unrhyw gynllun ysgol manwl neu gynlluniau safle yn cael eu hystyried yn ddiweddarach. Byddai cyfleoedd i roi sylwadau ar gynlluniau manwl yn ystod y camau cyn cynllunio a chais cynllunio, pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol rhwng 11 a 19 oed a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth a chyflwr sbectrwm awtistiaeth rhwng 4 a 19 oed mewn amrywiaeth o ysgolion ledled Caerdydd.

Gallwch weld rhagor o fanylion am y cynigion hyn yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Ymgynghoriad

Â phwy ydym yn ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl ffordd y gall pobl roi eu barn i ni.

Tabl 1: Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw

Plant a phobl ifanc	Gweinidogion Cymru
Rhieni / gofalwyr	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Staff ysgol	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD)
Cyrff Llywodraethu Ysgolion	Comisiynydd y Gymraeg
Preswylwyr lleol	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
Cynghorau Cymuned	Undebau Llafur
Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS) /Aelodau Seneddol (ASau)	Darparwyr gofal plant
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Mudiad Meithrin
Awdurdodau Cymdogol	Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymdogol o fewn Caerdydd	Clybiau Plant Cymru Kids Club
Estyn	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Fforwm Addysg Gymraeg
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	Sefydliadau y Sector Gwirfoddol
Busnesau a sefydliadau lleol	Comisiynydd Traffig Cymru

Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig

Mae Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r ffordd y darperir addysg. Mae'n bwysig wrth ddwyn cynigion ger bron, bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion hyn a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor ar www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Os na allwch gael mynediad i'r dogfennau ar-lein, bydd copiâu print ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio **029 2087 2720**.

Byddwn yn dweud wrth deuluoedd gyda phlant yn yr ysgol cysylltiedig sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.

Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhoi i breswylwyr a busnesau yn agos at safleoedd yr ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion.

Cynhelir cyfarfodydd ar-lein lle bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Os hoffech fynd i gyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa gyfarfod yr hoffech fod yn bresennol ynddo a byddwn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod hwn.

Bydd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â Chyrff Llywodraethu a staff yr ysgolion cysylltiedig.

Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i ddweud beth yw eich barn wrthym.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus wedi eu nodi isod:

Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori		
Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad / Amser	Lleoliad
Cyfarfod cyhoeddus ar-lein	Dydd Mercher 19 Ionawr 5:30pm	Ar-lein drwy Microsoft Teams
Sesiynau galw heibio	Ar gais drwy e-bostio: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk	Ar-lein drwy Microsoft Teams

Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym ni beth rydych yn feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Mynychu un o'r cyfarfodydd neu'r sesiynau galw heibio a restrir uchod.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Cwblhau y ffurflen ymateb i ymgynghoriad, sydd i'w chael ar dudalen 79.
- Cysylltu â'r tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk dros y ffôn ar (029) 2087 2720 neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwrch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Sylwer ar y termau canlynol a ddefnyddir gydol y ddogfen hon:

Nifer Derbyn – mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion o leiaf hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddus. Y Nifer Derbyn yw nifer y llefydd i ddisgyblion sydd ar gael ym mhob un grŵp blwyddyn.

ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddo anawsterau sy'n cael effaith hirdymor sylweddol ar eu dysgu. Gall anawsterau fod yn gysylltiedig â dysgu; cyfathrebu a rhyngweithio; anabledd corfforol neu synhwyrdd; neu ddatblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

Ysgolion Cymunedol – ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor sydd yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

Anghenion Dysgu Cymhleth - mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth amrywiaeth o faterion a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu, anabledau corfforol neu synhwyrdd.

Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol – mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol broblemau o ran meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn effeithio ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill, y dewisiadau a wnânt. Weithiau mae hyn o ganlyniad i drawma. Gall plant a phobl ifanc arddangos pryder, hunan-barch isel, ffobia ysgol, neu anawsterau ymddygiadol.

Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) - darpariaeth addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am wahanol resymau, fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae EOTAS yn cyfeirio at addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac nid yw'n cwmpasu addysg ddewisol yn y cartref.

Prif ffrwd - mae ysgol prif ffrwd yn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor nad yw'n ysgol arbennig. Nid yw ysgolion prif ffrwd a gynhelir gan y Cyngor/ysgolion arbennig yn dethol disgyblion ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr dalu ffioedd.

Data Nifer ar y Gofrestr – nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

CYBLD – Cyfrifiad Ysgol Blyneddol Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

Gweithredu gan yr Ysgol – Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy – Pan fo arbenigwyr o'r tu allan yn helpu'r dosbarth neu staff ysgol i roi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu tchwanegol. Mae hyn yn wahanol neu yn ychwanegol i gymorth a roddir drwy Gweithredu gan yr Ysgol.

Ysgol Arbennig – ysgol ar gyfer plant ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol prif ffrwd. Mae gan ddisgyblion ysgol arbennig ddatganiad AAA, neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Canolfan Adnoddau Arbenigol - Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. Mae gan bob disgybl sy'n mynychu Canolfan Adnoddau Arbenigol ddatganiad AAA ac fe'u haddysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwyr cymorth dysgu, ac maent yn cael cyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu â disgyblion prif ffrwd eraill.

Dosbarthiadau Lles - Mae Caerdydd hefyd yn ariannu nifer o ddsbarthiadau lles sy'n darparu cymorth dwys tymor byr i blant a phobl ifanc sy'n arddangos anghenion iechyd a lles emosiynol, i gefnogi eu lleoliad parhaus yn eu hysgol brif ffrwd leol. Mae lleoliad mewn Dosbarth Lles dros dro am flwyddyn: mae'r plentyn yn parhau i fod ar y gofrestr yn ei ysgol leol a chânt gymorth i ddychwelyd yn llawn amser i'w hysgol leol erbyn diwedd y rhaglen.

Cefndir

Mae gweledigaeth Caerdydd ar gyfer addysg a dysgu yng Nghaerdydd yn 2030 yn gosod nod o Hawl Dysgu, lle gall pob plentyn a pherson ifanc:

- gael mynediad at lwybrau priodol i gyfleoedd addysg a dysgu
- ffynnu a chyflawni eu potensial
- gwireddu eu breuddwydion a'u huchelgeisiau unigol

Er mwyn gwella deilliannau dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd, y mae llawer ohonynt yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysg a dysgu, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn allweddol.

Mae gweledigaeth Caerdydd ar gyfer 2030 ar gael i'w gweld yn caerdydd.gov.uk/caerdydd2030

Y Dull o Gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd

Mae dull effeithiol a chynhwysol o gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Ysgolion a lleoliadau sy'n cyflwyno cwricwlwm arloesol gyda dulliau ysgol gyfan effeithiol o addysgu a dysgu, iechyd emosiynol a lles.
- Gwasanaethau arbenigol rhagorol i wella gallu ysgolion a lleoliadau eraill i gynnwys plant a phobl ifanc ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol.

- Nodi'n gynnar yn effeithiol ac ymyrraeth sy'n seiliedig ar ymchwil er mwyn atal anghenion dysgu ychwanegol rhag gwaethygu lle bynnag y bo modd.
- Lefelau uchel o hygyrchedd ym mhob adeilad ysgol gyda digon o lety hyblyg ym mhob ysgol sy'n briodol i oedran a chyfnod y dysgu.
- Partneriaethau cryf i sicrhau ymateb cyfannol, cydweithredol i anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau plant ac oedolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac Addysg Bellach).
- Cynllunio pontio amlasiantaethol effeithiol ar bob cam, o'r blynyddoedd cynnar hyd at gyrchfannau cynradd, uwchradd, ôl-16 ac oedolion, i gefnogi mynediad yn ddi-oed.

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sydd angen lleoliad arbenigol o ganlyniad i'w hanableddau dysgu wedi bod yn cynyddu yng Nghaerdydd dros y 5 mlynedd diwethaf, a chymerwyd camau yn 2018 i gynyddu nifer y lleoedd arbenigol sydd ar gael.

Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ceisio gwella mynediad i addysg yn unol â'r egwyddorion cynhwysiant uchod.

Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwmo i egwyddorion cynhwysiant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbenigol.

Fodd bynnag, cydnabyddir, er mwyn ffynnu a chyflawni eu potensial, fod angen i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth gael mynediad i amgylcheddau ac arbenigedd arbenigol ysgol arbennig neu Ganolfan Adnoddau Arbenigol

Mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol, wedi parhau i dyfu.

Mae hyn oherwydd:

- Mae'r boblogaeth disgyblion yn newid, gyda charfanau mwy o ddisgyblion oedran ysgol gynradd bellach yn symud drwodd i'r cyfnod oedran uwchradd.
- Cyfraddau goroesi gwell ar gyfer plant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddisgyblion ag anableddau difrifol a chymhleth.
- Mwy o gymhlethdod mewn anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu. Mae'r ystod o arbenigedd, cymorth arbenigol a chyfleusterau sydd eu hangen mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol hefyd wedi cynyddu.

- Mwy o achosion ac adnabod anghenion penodol fel awtistiaeth, ADCG, anabledau corfforol a nam ar y synhwyrau.
- Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19 ond mae wedi'i waethgu gan gau ysgolion a mesurau eraill i reoli'r pandemig.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd yn cynnal darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol. Mae rhai wedi'u dynodi i gefnogi plant ag anghenion dysgu cymhleth sydd angen cwricwlwm arbenigol a addysgir mewn amgylchedd dosbarth bach; mae rhai wedi'u dynodi ar gyfer dysgwyr â nam ar eu clyw ar gyflwr sbectrwm awtistiaeth sydd angen cymorth arbenigol i gael mynediad at ddysgu prif ffrwd, gyda mynediad i ganolfan feithrin ar gyfer rhywfaint o amser dysgu a heb ei strwythuro.

Diben Canolfan Adnoddau Arbenigol yw galluogi dysgwyr ag anawsterau dysgu i lwyddo mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarth bach gan staff arbenigol ac maent yn elwa ar gwricwlwm arbenigol, tra'n elwa ar yr ystod lawn o gyfleoedd addysg sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd 2,265 o blant yng Nghaerdydd gyda datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Wrth i'r boblogaeth dyfu, felly hefyd nifer y plant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol a chymhleth.

Yn 2020/21:

- Ariannwyd 1,116 o leodd mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol neu ysgolion arbennig gan Gyngor Caerdydd.
- Roedd 48 o leodd dros dro i ddysgwyr ar gael mewn Dosbarthiadau Lles a Dosbarthiadau Lleferydd ac Iaith
- Roedd 90 o leodd ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)

Er bod nifer o leoliadau arbenigol presennol ledled Caerdydd, nid oes digon o leodd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Gan nad oes digon o leodd ysgol arbennig yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd eraill o'r Cyngor neu mewn ysgolion annibynnol. Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn oedd £6.3m yn 2020/21. Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 ar gyfer y mathau hyn o leodd wedi'i phennu ar £7.3m.

Mae gwariant ar leodd annibynnol a lleoedd ysgol arbennig mewn ardaloedd Cyngor cyfagos wedi cynyddu i £3.8m yn 2020/21. Heb fuddsoddi mewn lleoedd ychwanegol, byddai disgwyl i gost y lleoedd hyn dyfu'n sylweddol yn y dyfodol


Dosbarthiad daeryddol darpariaeth arbenigol

Nid yw lleoliad Canolfannau Adnoddau Arbenigol a Dosbarthiadau Lles wedi'i ddsbarthu'n dda ar draws y ddinas.

Gall diffyg Canolfannau Adnoddau Arbenigol mewn rhai ardaloedd roi dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dan anfantais. Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli. Efallai nad oes gan rieni neu ofalwyr y modd i deithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Byddai dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ar draws y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion. Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Ysgol Arbenigol a Canolfan Adnoddau Arbennigol Caerdydd 2021



Special schools & SRBs: Type & Capacity	
Autism	(7)
Behavioural, Emotional & Social Needs	(3)
Hearing Impairment	(2)
Profound & Multiple Learning Disabilities, Medical Needs, Autism	(1)
Severe Learning Disabilities, Medical Needs, Speech and Language, Autism	(10)

This map is produced specifically to supply County Council information. No further copies may be made. Plans may have been amended since the original publication. Copyright © All rights reserved. © Crown copyright and database right 2017. Ordnance Survey 100023276. © Hushbury & Coles a hysbysu masnach 2017. Arlyng Ordnance 100023276.

Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrw Awtistiaeth ar gyfer dysgwyr 11-19 oed

Y Ddarpariaeth Bresennol

Yn 2020/21 mae cyfanswm o 461 o leoedd arbenigol ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrw Awtistiaeth ar gyfer dysgwyr 11-19 oed yng Nghaerdydd. Cymeradwywyd cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd Coetiroedd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2019 a byddant yn darparu 100 o leoedd ychwanegol i bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Cymhleth.

Mae Tabl 3 yn nodi'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth Uwchradd a Chyflwr Sbectrw Awtistiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghaerdydd	
Llefydd uwchradd	Capasiti 11-19 oed Anghenion Dysgu Cymhleth/ Cyflwr Sbectrw Awtistiaeth (2021/22)
Ysgol Tŷ Gwyn	123
Ysgol Uwchradd Woodlands	140
Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	70
Canolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion	42
Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Cathays	16
Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Cantonian	20
Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien	20
Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	30
Lleoedd	461

*Cyfanswm capasiti Ysgol Tŷ Gwyn yw 198 lleoedd 3-19 oed, ac mae tua 123 ohonynt yn gosod disgyblion 11-19 oed

Galw am leoedd

Anghenion Dysgu Cymhleth Rhagamcanol/ Cyflwr Sbectrw Awtistiaeth Galw Cyfnod Uwchradd

Mae Tabl 4 isod yn nodi'r galw a ragwelir yn y dyfodol am leoedd anghenion dysgu cymhleth/Cyflwr Sbectrw Awtistiaeth ar gyfer pobl ifanc 11-19 oed.

Llefydd uwchradd	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Y galw a amcanestynnir	580	600	617	623	629
Amcanestyniad galw (+10%)	638	660	679	685	692

Gan ystyried yr holl blant sydd angen lleoedd gan gynnwys y rhai a leolir y tu allan i'r sir ac yn y brif ffrwd sy'n aros am leoliad arbenigol, amcangyfrifir bod y galw am leoedd tua 580 yn 2021/22, gan godi i 629 erbyn 2025/26.

Gan ganiatáu gwarged o 10% i gefnogi hyblygrwydd, y sefyllfa ddelfrydol fyddai 638 o leoedd yn 2021/22 a 692 o leoedd erbyn 2025/26.

I grynhoi, amcangyfrifir bod diffyg o 177 o leoedd yn 2021/2022, gan leihau i 131 o leoedd erbyn 2025/2026.

Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn ysgol sefydledig cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Lleolir yr ysgol dros ddau safle yn Manor Way a Heol Pen-llin yn yr Eglwys Newydd.

Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol sydd wedi'i dynodi ar gyfer anghenion dysgu cymhleth.

Er mwyn ateb y galw am leoedd canolfannau adnoddau arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth 11-19 oed, cynigir:

- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd o 70 i 100 o fis Medi 2022

Cynigir y byddai'r adeilad canolfan adnoddau arbenigol presennol yn cael ei wella a'i adnewyddu, gan greu ystafelloedd dosbarth a manau dysgu ychwanegol. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes wedi'i wneud er mwyn i'r ysgol, a'r Cyngor, sicrhau bod digon o leoedd ar gael i blant ag anghenion dysgu cymhleth.

Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 5 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd.

Tabl 5: Lleoedd ar gael yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd				
Enw'r Ysgol	Capasiti cyhoeddedig presennol (11 - 16 oed)	Lleoedd fesul grwp blwyddyn (11 - 16 oed)	Lleoedd chweched dosbarth	Cyfrwng iaith a chategori'r ysgol
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (lleoedd prif ffrwd)	1950	390	450	Ysgol uwchradd sefydledig cyfrwng Saesneg
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (Lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol)		70		



Capasiti presennol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yw 2,400 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 2416 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ebrill 2021, gan gynnwys disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol.

Capasiti presennol y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yw 70 o leoedd, fodd bynnag roedd gan y ganolfan 96 o ddysgwyr ar y gofrestr ym mis Hydref 2021.

Y galw am leoedd yn yr ysgol.

Mae Tabl 6 isod yn nodi manylion rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr

Ysgol	Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD)					Galw Disgyblion Ysgol *				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd lleoedd prif ffrwd	2206	2229	2270	2289	2335	2308	2308	2296	2289	2287
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol	49	56	69	84	81	90	91	100	100	100

* Galw disgyblion ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y dalgylch lleol

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i Ch (oes wedi dirwyn i ben / wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da a gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael a diffygion mawr.	Gwael. Llesteirio dulliau addysgu / effaith wael ar drefn yr ysgol.
Ch	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol.	Gwael iawn. Adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn cael ei graddio C+ am gyflwr a B ar gyfer addasrwydd. Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi ehangu'r sylfaen.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yw'r Gwasanaeth Gwellu Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu

- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocra unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 8 isod:

Tabl 8: system gategoreiddio	
Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella.
Melyn	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha categori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yma:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy.pdf>

Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

Arolygwyd Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ddiwethaf gan Estyn ym mis Ionawr 2016.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod perfformiad a rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn ddigonol ac angen eu gwella.

Yn dilyn ymweliad monitro pellach ym mis Tachwedd 2017, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol ac fe'i tynnwyd oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn.

Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ei chategoreiddio fel Melyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod lle y mae angen iddi wella).

Rhoddodd asesiad gan Consortiwm Canolbarth y De yn Hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Roedd cyfran y disgyblion sy'n gwneud dwy lefel neu fwy o gynnydd o Gyfnod Allweddol 2 (7 – 11 oed) i Gyfnod Allweddol 3 (11 – 14 oed), o'i gymharu â chyfartaleddau lleol a rhanbarthol, yn fwy ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth ac roedd yn unol â'r lleill o ran Saesneg.
- Mae'r cynnydd cyffredinol a wnaed gan yr ysgol ers yr arolygiad craidd ym mis Ionawr 2016 yn gryf. Mae'r cynnydd hwn wedi deillio o'r gallu llwyddiannus a pharhaus i gynllunio a gweithredu newid gan arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk/).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn dda.

Mae safonau yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn dda. Byddai cynyddu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag anghenion dysgu cymhleth. Ni ddisgwylir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd.

Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiâu a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth gofal ac arweiniad.

Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 9 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

Tabl 9: Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

Pob disgybl	%
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	1.1
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	3.5
% y disgyblion â datganiad ADY	4.9
% y Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd	14.8
% y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt	3
% y disgyblion o Leiafrif Ethnig	22.5

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Byddai'r arbenigedd presennol yn yr ysgol yn cael ei gynnal. Byddai ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac ar gyfer gwella dysgu disgyblion.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr ac yn peri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y câi'r cynnig effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion dysgu cymhleth a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ychwanegol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yn ardaloedd gogleddol y ddinas yn teithio pellteroedd byrrach i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol na darpariaeth amgen.

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd newid. Efallai y byddant yn dod o hyd i newidiadau i adeiladau sy'n ansefydlog. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi newidiadau megis.
- Mae potensial am gynnydd bach mewn traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ledled y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o ehangiadau eraill, a darpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Gallai'r opsiynau amgen ar gyfer ehangu Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd gynnwys:

- ehangu darpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion uwchradd eraill
- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y seiliau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae'r safonau yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn dda. Mae cynyddu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn darparu nifer cynyddol o leoedd ysgol priodol o ansawdd uchel. Felly, ystyrir bod ehangu'r ganolfan lwyddiannus yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd i 100 o leoedd yn opsiwn a ffefrir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o gynyddu nifer dynodedig y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol dwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ganolfannau adnoddau arbenigol. Efallai y bydd rhai dysgwyr mewn canolfan adnoddau arbenigol sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a'u materion cymdeithasol. Gall dysgwyr eraill deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os nad yw'n preswyllo o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fydd yn gymwys ar gyfer Trafndiaeth i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Gall cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau Anghenion Dysgu Ychwanegol ofyn am Ddatganiad Trafndiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio i'r ysgol drwy ddulliau llesol (cerdded, beicio a sgwtera) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fyddai'n cael ei chynnig i ddysgwyr fel y bo'n briodol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn (i'w hadolygu bob blwyddyn), cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwylidig am Drafnidiaeth i Ddysgwyr yn addas ar gyfer gollwng a chasglu, efallai y bydd angen cyfleusterau gollwng a chasglu o fewn y safle i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau. Gall gwelliannau eraill gynnwys addasiadau i'r cynllun, arwyddion a'r mesurau rheoli traffig.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel y mae'n well gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 1 Chwefror 2022.

**Cynnig ar gyfer sefydlu
Canolfan Adnoddau
Arbenigol yn Ysgol
Uwchradd Willows**

Cynnig ar gyfer sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Willows

Mae Ysgol Uwchradd Willows yn ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11 – 16 oed.

Lleolir yr ysgol yn Willows Avenue, Tremorfa. Mae cynlluniau i drosglwyddo'r ysgol i adeiladau newydd yn Heol Lewis yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd gan Ysgol Uwchradd newydd Willows gynllun modern a chyfleusterau newydd gan gynnwys amwynderau addysgol o'r radd flaenaf mewn adeilad newydd sbon.

Er mwyn ateb y galw am leoedd canolfannau adnoddau arbenigol uwchradd i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth, cynigir:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol â 30 lle yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023

Cynigir y byddai'r sylfaen newydd yn cael ei darparu i ddechrau yn yr adeiladau presennol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud. Yna byddai llety arbenigol yn cael ei ddarparu fel rhan o ddatblygiad Ysgol Uwchradd newydd Willows.

Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 10 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd Willows.

Tabl 10: Lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd Willows				
Enw'r Ysgol	Capasiti cyhoeddedig presennol (11 - 16 oed)	Lleoedd fesul grwp blwyddyn (11 - 16 oed)	Lleoedd chweched dosbarth	Cyfrwng iaith a chategori'r ysgol
Ysgol Uwchradd Willows	1121	224	0	Ysgol Uwchradd Cymunedol Saesneg

Capasiti presennol Ysgol Uwchradd Willows yw 1121 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 704 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Hydref 2020. Mae gan yr ysgol ddigon o le yn yr ystafell ddosbarth i ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion ac mae wedi ail-ddynodi'r ystafelloedd hyn at ddibenion eraill. Bydd yr ysgol yn trosglwyddo i adeiladau newydd yn Heol Lewis o fis Medi 2025. Darperir llety arbenigol fel rhan o hyn.



Y galw am leoedd yn yr ysgol.

Mae Tabl 11 isod yn nodi manylion rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr

Tabl 11: Rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Willows										
Ysgol	Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD)					Galw Disgyblion Ysgol *				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Ysgol Uwchradd Willows lleoedd prif ffrwd	554	581	619	665	730	734	744	748	731	778
Ysgol Uwchradd Willows Lle Canolfan Adnoddau Arbenigol	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	5	10	15	20

* Galw disgyblion ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y dalgylch lleol

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i Ch (oes wedi dirwyn i ben / wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da a gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael a diffygion mawr.	Gwael. Llestierio dulliau addysgu / effaith wael ar drefn yr ysgol.
Ch	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol.	Gwael iawn. Adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae adeiladau presennol Ysgol Uwchradd Willows yn cael eu graddio D ar gyfer cyflwr ac C ar gyfer addasrwydd. Fodd bynnag, mae cynlluniau i drosglwyddo'r ysgol i adeiladau newydd yn Heol Lewis yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn trosglwyddo i lety adeiladu newydd yn Heol Lewis o fis Medi 2025.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoriaddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocra unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 13 isod:

Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella.
Melyn	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha categori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun gategoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion yma:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy.pdf>

Ysgol Uwchradd Willows

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Willows ddiwethaf gan Estyn ym mis Ebrill 2018.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod y safonau, lles ac agweddau at brofiad dysgu, addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigonol ac angen eu gwella. Barnwyd bod gofal, cymorth ac arweiniad yr ysgolion yn dda.

Yn y Categoriaddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Uwchradd Willows ei chategoriaddio fel Melyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod lle y mae angen iddi wella).

Rhoddodd asesiad gan Gonsortium Canolbarth y De yn Hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Roedd cyfran y disgyblion sy'n gwneud dwy lefel neu fwy o gynnydd o Gyfnod Allweddol 2 (7 – 11 oed) i Gyfnod Allweddol 3 (11 – 14 oed), o'i gymharu â chyfartaleddau lleol a rhanbarthol, yn fwy o lawer yn y Saesneg ond yn llawer is mewn mathemateg a gwyddoniaeth.
- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf o ran cefnogi'r rhan fwyaf o athrawon i ddatblygu strategaethau cyson i wella profiadau dysgu'r rhan fwyaf o ddisgyblion.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (<http://www.addewidcaerdydd.co.uk/>).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn dda.

Safonau yn Ysgol Uwchradd Willows yn dda. Byddai sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol darparu lleoedd ysgol priodol o safon uchel i bobl ifanc ag anghenion dysgu cymhleth.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Uwchradd Willows.

Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth gofal ac arweiniad.

Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 14 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig ym mhob un o'r ysgolion. yn Ysgol Uwchradd Willows.

Table 14: Ysgol Uwchradd Willows

Pob disgybl	%
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	7.5
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	11.4
% y disgyblion â datganiad ADY	1.5
% y Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd	48.5
% y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt	22.5
% y disgyblion o Leiafrif Ethnig	53.6

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Byddai arbenigedd ac arfer cynhwysol presennol yn yr ysgol yn cael eu cynnal. Byddai sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac i wella dysgu disgyblion mewn cyfleusterau pwrpasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr ac yn peri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y câi'r cynnig effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion dysgu cymhleth a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yn ardal ddeheuol y ddinas yn teithio llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nag i ddarpariaeth amgen

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd newid. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri anniddigrwydd. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae potensial am gynydd bach mewn traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ar draws y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o ehangiadau eraill, a darpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Gallai opsiynau amgen ar gyfer sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Willows gynnwys:

- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu
- ehangu'r ddarpariaeth bresennol ar safleoedd ysgolion uwchradd eraill, a/neu nifer wahanol o leoedd yn y seiliau presennol neu arfaethedig.

Nid oes darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ardal a wasanaethir gan Ysgol Uwchradd Willows ar hyn o bryd. Mae pob plentyn yn y maes hwn sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol yn teithio i ardaloedd eraill ar hyn o bryd. Mae'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol agosaf ar gyfer dysgwyr 11-16 oed sydd ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, tua chwe milltir o Ysgol Uwchradd Willows. Ni fyddai sefydlu darpariaeth mewn mannau eraill, nac ehangu'r ddarpariaeth bresennol, yn gwella mynediad i blant sy'n byw yn yr ardal a wasanaethir gan Ysgol Uwchradd Willows.

Gellid gohirio sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol hyd nes y bydd adeilad newydd Ysgol Uwchradd Willows wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu y byddai angen i blant sydd angen cymorth sylfaen adnoddau gymryd lle mewn mannau eraill, ac efallai y bydd angen darparu lleoedd ychwanegol mewn llety newydd am gost sylweddol am gyfnod estynedig dros dro.

Felly, ystyrir mai sefydlu'r ddarpariaeth hon yn Ysgol Uwchradd Willows cyn trosglwyddo i lety adeiladu newydd yw'r opsiwn a ffeifrir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol dwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ganolfannau adnoddau arbenigol. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a'u materion cymdeithasol.

Gall dysgwyr eraill deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os nad yw'n preswyllo o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fydd yn gymwys ar gyfer Trafndiaeth i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Gan fod hwn yn gynnig ar gyfer ysgol newydd sydd hefyd i sefydlu cyfleusterau Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, bydd angen Asesiad Trafndiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio i'r ysgol drwy ddulliau llesol (cerdded, beicio a sgwtera) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fyddai'n cael ei chynnig i ddysgwyr fel y bo'n briodol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Bydd cyfleusterau addas ar gyfer gollwng a chasglu cerbydau Trafndiaeth i Ddysgwyr yn cael eu hymgorffori o fewn dyluniad safle newydd yr ysgol i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau sydd â mynediad dynodedig.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel y mae'n well gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 1 Chwefror 2022.

Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Llanisien

Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Llanisien

Mae Ysgol Uwchradd Llanisien yn ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-19 oed. Lleolir yr ysgol yn Heol Hir yn Llanisien.

Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol sydd wedi'i dynodi ar gyfer Cyflyrau'r Sbectrwm Awtistig a Chanolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar eu clyw.

Ni chynigir unrhyw newidiadau i Ganolfan Adnoddau Arbenigol yr ysgol ar gyfer dysgwyr â nam ar eu clyw.

Er mwyn ateb y galw am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig rhwng 11 a 19 oed, bwriedir:

- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien o 20 i 45 o fis Medi 2022

Gwnaed gwaith dros dro a byddai angen gwneud rhagor o waith i wella ac ymestyn y cyfleusterau a'r llety Canolfan Adnoddau Arbenigol presennol. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes wedi'i wneud er mwyn i'r ysgol, a'r Cyngor, sicrhau bod digon o leoedd ar gael i blant sydd angen cefnogaeth y ganolfan.

Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 15 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd Llanisien.

Tabl 15: Lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd Llanisien				
Enw'r Ysgol	Capasiti cyhoeddus presennol (11 - 16 oed)	Lleoedd fesul grwp blwyddyn (11 - 16 oed)	Lleoedd chweched dosbarth	Cyfrwng iaith a chategori'r ysgol
Ysgol Uwchradd Llanisien (lleoedd prif ffrwd)	1500	300	300	Ysgol Gynradd Gymunedol Saesneg
Ysgol Uwchradd Llanisien (lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol)		20		



Capasiti presennol Ysgol Uwchradd Llanisien yw 1800 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 1632 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ebrill 2021, gan gynnwys disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol.

Capasiti presennol y Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Uwchradd Llanisien yw 20 o leoedd, fodd bynnag roedd gan y ganolfan 45 o ddysgwyr ar y gofrestr ym mis Hydref 2021.

Y galw am leoedd yn yr ysgol.

Mae Tabl 16 isod yn nodi manylion rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr

Tabl 16: Rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Llanisien										
Ysgol	Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD)					Galw Disgyblion Ysgol *				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Ysgol Uwchradd Llanisien lleoedd prif ffrwd	1517	1530	1536	1568	1587	1608	1631	1640	1631	1607
Ysgol Uwchradd Llanisien lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA)	25	27	27	33	45	45	45	45	45	45

* Galw disgyblion ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y dalgylch lleol

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i Ch (oes wedi dirwyn i ben / wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 17: Sgorau cyflwr ac addasrwydd

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da a gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael a diffygion mawr.	Gwael. Llesteirio dulliau addysgu / effaith wael ar drefn yr ysgol.
Ch	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol.	Gwael iawn. Adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Uwchradd Llanisien yn cael ei graddio'n C am gyflwr ac C ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi ehangu'r sylfaen.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyd addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yw'r Gwasanaeth Gwellu Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocra unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 18 isod:

Tabl 18: System gategoreiddio	
Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella.
Melyn	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha gategori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yma:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy.pdf>

Ysgol Uwchradd Llanisien

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Llanisien ddiwethaf gan Estyn ym mis Chwefror 2016.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod perfformiad a rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn ddigonol ac angen eu gwella.

Yn dilyn ymweliad monitro pellach ym mis Tachwedd 2016, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da a thynnwyd yr ysgol o'r rhestr o ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn.

Ym mhroses Categoreiddio Ysgolion diweddaraf Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Uwchradd Llanisien ei chategoreiddio yn Wyrdd (ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella).

Rhoddodd asesiad gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn Hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Mae cynnydd o Gyfnod Allweddol 2 (7 – 11 oed) i Gyfnod Allweddol 3 (11 – 14 oed) wedi parhau i fod yn gryf iawn, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd disgwylidig neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- Mae'r Grant Datblygu Disgyblion wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella deilliannau i ddysgwyr, enghraifft o perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ar draws pob pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 (14 – 16 oed).
- Mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli'n dda iawn gan y pennaeth a'r uwch dîm arwain. Maent wedi gweithio'n effeithiol iawn i wella cyflawniad bron pob disgybl a gwella addysgu ac maent yn cael eu cefnogi'n dda gan y prif gorff o staff sy'n awyddus i'r ysgol wella ymhellach.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (<http://www.addewidcaerdydd.co.uk/>).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn dda.

Safonau yn Ysgol Uwchradd Llanisien yn dda. Byddai cynyddu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyflyrau'r Sbectwm Awtistig yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag anghenion dysgu cymhleth. Ni ddisgwylir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanisien.

Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiâu a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth gofal ac arweiniad.

Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 19 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig ym mhob un o'r ysgolion.

Tabl 19: Ysgol Uwchradd Llanisien

Pob disgybl	%
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	7.1
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	3.4
% y disgyblion â datganiad ADY	5.3
% y Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd	21.9
% y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt	3.8
% y disgyblion o Leiafrif Ethnig	24.7

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Byddai'r arbenigedd presennol yn yr ysgol yn cael ei gynnal. Byddai ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac ar gyfer gwella dysgu disgyblion.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr ac yn peri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y câi'r cynnig effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd sydd â chyflwr y sbectrwm awtistig yn cyfrannu at ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ychwanegol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yng ngogledd y ddinas yn teithio llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nag i ddarpariaeth amgen.

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd newid. Gallai newidiadau i adeiladau wneud iddynt deimlo'n ansefydlog. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi newid megis.
- Mae potensial am gynnydd bach mewn traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ar draws y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o ehangiadau eraill, a ddarpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Gallai opsiynau amgen ar gyfer ehangu Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien gynnwys:

- ehangu ddarpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion uwchradd eraill
- sefydlu ddarpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y seiliau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae'r safonau yn Ysgol Uwchradd Llanisien yn dda. Mae cynyddu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn darparu nifer cynyddol o leoedd ysgol priodol o ansawdd uchel. Felly, ystyrir bod ehangu'r ganolfan lwyddiannus yn Ysgol Uwchradd Llanisien i 45 o leoedd yn opsiwn a ffefrir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o gynyddu nifer dynodedig y Ganolfan Adnoddau Arbenigol i Gyflyrau'r Sbectrwm Awtistig yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol i Gyflyrau'r Sbectrwm Awtistig yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol dwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ganolfannau adnoddau arbenigol. Efallai y bydd rhai dysgwyr mewn canolfan adnoddau arbenigol sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a'u materion cymdeithasol.

Gall dysgwyr eraill deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os nad yw'n preswyllo o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fydd yn gymwys ar gyfer Trafndiaeth i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Gall cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau Anghenion Dysgu Ychwanegol ofyn am Ddatganiad Trafnidiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio i'r ysgol drwy ddulliau llesol (cerdded, beicio a sgwtera) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fyddai'n cael ei chynnig i ddysgwyr fel y bo'n briodol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn (i'w hadolygu bob blwyddyn), cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwylidig am Drafnidiaeth i Ddysgwyr, byddai'r safle'n cael ei adolygu i sicrhau bod cyfleusterau addas a digonol ar gyfer gollwng a chasglu yn cael eu darparu o fewn y safle i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau a gwelliannau a wneir os oes angen. Efallai y bydd angen addasiadau i fynediad yr ysgol.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel y mae'n well gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 1 Chwefror 2022.

**Cynnig ar gyfer lleoedd
Canolfan Adnoddau
Arbenigol Ychwanegol
yng Nghanolfan Marion,
Ysgol Uwchradd yr
Eglwys yng Nghymru
Esgob Llandaf**

Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Ychwanegol yng Nghanolfan Marion, Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn ysgol uwchradd wirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Lleolir yr ysgol yn Rookwood Close yn Llandaf.

Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol, Canolfan Marion, sydd wedi'i dynodi ar gyfer disgyblion â Chyflwr Sbectwm Awtistig.

Er mwyn ateb y galw am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr â Chyflwr y Sbectwm Awtistig rhwng 11 a 19 oed, bwriedir:

- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Awtistiaeth Canolfan Marion o 42 i 66 o leoedd o fis Medi 2022

Cynigir y byddai'r adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol presennol yn cael ei wella a'i adnewyddu, gan greu ystafelloedd dosbarth a manau dysgu ychwanegol.

Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 20 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael

Enw'r Ysgol	Capasiti cyhoeddus presennol (11 - 16 oed)	Lleoedd fesul grwp blwyddyn (11 - 16 oed)	Lleoedd chweched dosbarth	Cyfrwng iaith a chategori'r ysgol
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf (lleoedd prif ffrwd)	900	180	185	Ysgol Uwchradd Cymunedol Saesneg
Canolfan Marion (Lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol)		42		



Capasiti presennol Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf yw 1085 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 1231 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ebrill 2021, gan gynnwys disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol.

Y galw am leoedd yn yr ysgol.

Mae Tabl 21 isod yn nodi manylion rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr

Ysgol	Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD)					Galw Disgyblion Ysgol *				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf lleoedd prif ffrwd	1228	1252	1245	1240	1239	1257	1260	1258	1261	1260
Lleoedd Canolfan Marion Canolfan Adnoddau Arbenigol	52	49	51	51	56	65	66	66	66	66

* Galw disgyblion ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y dalgylch lleol

Cyflwr ac Addaswydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i Ch (oes wedi dirwyn i ben / wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addaswydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 22: Sgorau cyflwr ac addaswydd

Sgôr	Cyflwr	Addaswydd
A	Da a gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael a diffygion mawr.	Gwael. Llestierio dulliau addysgu / effaith wael ar drefn yr ysgol.
Ch	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol.	Gwael iawn. Adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn cael ei graddio C am gyflwr ac C ar gyfer addaswydd.

Mae Canolfan Marion yn cael ei lletya mewn llety arbenigol sydd o safon uchel. Cynigir y byddai'r adeilad canolfan adnoddau arbenigol presennol yn cael ei wella a'i adnewyddu, gan greu ystafelloedd dosbarth a mannau dysgu ychwanegol.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi ehangu Canolfan Marion.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocera unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 23 isod:

Tabl 23: System gategoreiddio	
Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella.
Melyn	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

enderfynir ym mha gategori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoraidd yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion yma:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy.pdf>

Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf

Arolygwyd Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf ddiwethaf gan Estyn ym mis Chwefror 2018.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod y safonau, lles ac agweddau at ddysgu, addysgu a phrofiad dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth i gyd yn rhagorol.

Ym mhroses Categori Ysgolion diweddaraf Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf ei chategori yn Wyrdd (ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella).

Rhoddodd asesiad gan Gonsortwm Canolbarth y De yn Hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Roedd cyfran y disgyblion sy'n gwneud dwy lefel neu fwy o gynnydd o Gyfnod Allweddol 2 (7 – 11 oed) i Gyfnod Allweddol 3 (11 – 14 oed), o'i gymharu â chyfartaleddau lleol a rhanbarthol, yn fwy o lawer yn y Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- Mae cynllun gwella'r ysgol (CGY) yn nodi blaenoriaethau allweddol yn glir. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant cadarn, targedau heriol a cherrig milltir clir i fesur cynnydd.
- Mae prosesau i olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn ac yn hynod effeithiol ar bob lefel, gan gynnwys yng Nghanolfan Marion, lle mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn dros amser, o'u manau cychwyn.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (<http://www.addewidcaerdydd.co.uk/>).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn dda.

Mae safonau yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf yn dda. Byddai cynyddu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag awtistiaeth. Ni ddisgwylir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf.

Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth gofal ac arweiniad.

Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 24 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf

Tabl 24: Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf

Pob disgybl	%
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	7.8
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	0.8
% y disgyblion â datganiad ADY	7.1
% y Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd	8.6
% y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt	3.3
% y disgyblion o Leiafrif Ethnig	27.2

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r arbenigedd presennol yn yr ysgol yn cael ei chynnal. Byddai ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac ar gyfer gwella dysgu disgyblion mewn cyfleusterau pwrpasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr ac yn peri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y câi'r cynnig effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd sydd â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yng ngorllewin y ddinas yn teithio llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nag i ddarpariaeth amgen.

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd newid. Gallai newidiadau i adeiladau wneud iddynt deimlo'n ansefydlog. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi newid megis.
- Mae potensial am gynydd bach mewn traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ar draws y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o ehangladau eraill, a darpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Gallai opsiynau amgen ar gyfer ehangu Canolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion gynnwys:

- ehangu darpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion uwchradd eraill
- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig

Fodd bynnag, mae safonau yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf yn dda. Mae cynyddu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn darparu nifer cynyddol o leoedd ysgol priodol o ansawdd uchel. Felly, ystyrir bod ehangu'r ganolfan lwyddiannus yng Nghanolfan Marion i 66 o leoedd yn opsiwn a ffefrir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o gynyddu nifer dynodedig y Ganolfan Adnoddau Arbenigol i Gyflyrau'r Sbectwm Awtistig yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol dwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ganolfannau adnoddau arbenigol. Efallai y bydd rhai dysgwyr mewn canolfan adnoddau arbenigol sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a'u materion cymdeithasol.

Gall dysgwyr eraill deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os nad yw'n preswyllo o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fydd yn gymwys ar gyfer Trafndiaeth i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Gall cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau Anghenion Dysgu Ychwanegol ofyn am Ddatganiad Trafndiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio i'r ysgol drwy ddulliau llesol (cerdded, beicio a sgwtera) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fyddai'n cael ei chynnig i ddysgwyr fel y bo'n briodol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn (i'w hadolygu bob blwyddyn), cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwylidig am Drafnidiaeth i Ddysgwyr yn addas ar gyfer gollwng a chasglu, efallai y bydd angen cyfleusterau gollwng a chasglu o fewn y safle i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau. Gall gwelliannau eraill gynnwys addasiadau i'r cynllun gan gynnwys ehangu'r ffordd fynediad fewnol a darparu mesurau arafu traffig.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel y mae'n well gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 1 Chwefror 2022.

Cynnig ar gyfer sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Cynnig ar gyfer sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i lleoli yn Heol y Bont yn Ystum Taf ar gyfer disgyblion 11-18 oed.

Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol sydd wedi'i dynodi ar gyfer anghenion dysgu cymhleth.

Er mwyn ateb y galw am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig rhwng 11 a 19 oed, yn y sector cyfrwng Cymraeg cynigir:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle presennol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth o fis Medi 2023

Cynigir y byddai llety newydd yn cael ei ddatblygu ar y safle i ddarparu cyfleusterau pwrpasol ar gyfer y ddwy ganolfan adnoddau.

Ni chynigir unrhyw newidiadau i Ganolfan Adnoddau Arbenigol yr ysgol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth.

Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 25 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Tabl 25: Lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf				
Enw'r Ysgol	Capasiti cyhoeddedig presennol (11 - 16 oed)	Lleoedd fesul grwp blwyddyn (11 - 16 oed)	Lleoedd cheched dosbarth	Cyfrwng iaith a chategori'r ysgol
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (lleoedd prif ffrwd)	1200	240	300	Ysgol Uwchradd Gymunedol Gymraeg
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol)		30		



Capasiti presennol Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf 1500 o leodd ac roedd gan yr ysgol 1329 oddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ebrill 2021, gan gynnwys disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol.

Y galw am leodd yn yr ysgol.

Mae Tabl 26 isod yn nodi manylion rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr

Tabl 26: Rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf										
Ysgol	Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD)					Galw Disgyblion Ysgol *				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf lleoedd prif ffrwd	1121	1154	1195	1257	1308	1373	1404	1433	1427	1431
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol	11	12	14	15	21	19	21	23	25	27

* Galw disgyblion ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y dalgylch lleol

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i Ch (oes wedi dirwyn i ben / wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 27: Sgorau cyflwr ac addasrwydd

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da a gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael a diffygion mawr.	Gwael. Llesteirio dulliau addysgu / effaith wael ar drefn yr ysgol.
Ch	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol.	Gwael iawn. Adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn cael ei graddio C am gyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ychwanegol. Byddai llety newydd o fudd i ddysgwyr â Chyflwr Sbectwm Awtistig sy'n mynychu'r ganolfan newydd a byddai hefyd o fudd i'r rhai sy'n mynychu'r ganolfan ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyd addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yw'r Gwasanaeth Gwellu Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocra unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 28 isod:

Tabl 28: System gategoreiddio	
Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella.
Melyn	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha categori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yma:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy.pdf>

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Arolygwyd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ddiwethaf gan Estyn ym mis Mai 2017.

Ar yr adeg hon barnwyd bod perfformiad yr ysgol yn dda a barnwyd bod y rhagolygon ar gyfer gwella yn ddigonol.

Yn dilyn ymweliad monitro pellach ym mis Tachwedd 2018, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol a thynnwyd yr ysgol o'r rhestr o ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn.

Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ei chategoreiddio fel Melyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod lle y mae angen iddi wella).

Rhoddodd asesiad gan Gonsortiw Canolbarth y De yn Hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Yng nghyfnod allweddol 3 (11 – 14 oed), mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddo i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC) ac mae'r canlyniadau dros y tair blynedd diwethaf yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol ar draws yr holl bynciau craidd ar lefel 5+, 6+ a 7+. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud 1 lefel o gynnydd neu fwy yn ystod y cyfnod allweddol.
- Mae gan yr ysgol systemau priodol i olrhain cynnydd sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i staff am gyflawniad gwahanol grwpiau o ddisgyblion.
- Drwy gydweithio â nifer o asiantaethau allanol, mae'r ysgol yn gwneud gwaith da iawn gyda disgyblion sy'n agored i niwed i gefnogi lles, iechyd a datblygiad cymdeithasol y disgyblion hyn er mwyn sicrhau agwedd iach at ddysgu.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (<http://www.addewidcaerdydd.co.uk/>).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn dda.

Safonau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn dda. Byddai cynyddu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc â chyflwr y sbectrwm awtistig. Ni ddisgwylir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth gofal ac arweiniad.

Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 29 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Table 29: Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Pob disgybl	%
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	9.9
% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	5.8
% y disgyblion â datganiad ADY	2.1
% y Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd	8.7
% y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt	Amh
% y disgyblion o Leiafrif Ethnig	11.1

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r arbenigedd presennol yn yr ysgol yn cael ei chynnal. Byddai sefydlu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr â chyflwr sbectrwm awtistiaeth yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac i wella dysgu disgyblion.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr ac yn peri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd sydd â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ychwanegol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth am fanteision ehangu darpariaeth arbenigol wedi'i nodi ar dudalen 80 o'r ddogfen hon.

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd newid. Gallai newidiadau i adeiladau wneud iddynt deimlo'n ansefydlog. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi newid megis.
- Mae potensial am gynnydd bach mewn traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ar draws y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o ehangiadau eraill, a darpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol cyfrwng Cymraeg pwrpasol ar gyfer dysgwyr 11 - 19 oed sydd â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig yng Nghaerdydd

Gallai opsiynau amgen i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf gynnwys:

- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu rhoi cymorth mewn ysgolion heb sefydlu canolfan yn ffurfiol.

Fodd bynnag, mae'r safonau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn dda. Mae gan yr ysgol brofiad o weithredu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn llwyddiannus. Byddai sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn yr ysgol yn darparu mwy o leoedd ysgol o ansawdd uchel priodol mewn cyfleusterau pwrpasol.

Felly, ystyrir bod sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn opsiwn a ffefrir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer Cyflyrau'r Sbectrwm Awtistig yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer Cyflyrau'r Sbectrwm Awtistig yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol dwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ganolfannau adnoddau arbenigol. Efallai y bydd rhai dysgwyr mewn canolfan adnoddau arbenigol sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a'u materion cymdeithasol.

Gall dysgwyr eraill deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os nad yw'n preswyllo o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fydd yn gymwys ar gyfer Trafndiaeth i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Gall cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau Anghenion Dysgu Ychwanegol ofyn am Ddatganiad Trafnidiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio i'r ysgol drwy ddulliau llesol (cerdded, beicio a sgwtera) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fyddai'n cael ei chynnig i ddysgwyr fel y bo'n briodol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn (i'w hadolygu bob blwyddyn), cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwyliedig am Drafnidiaeth i Ddysgwyr, bydd y cyfleusterau presennol ar gyfer gollwng a chasglu yn cael eu hadolygu i gadarnhau eu bod yn addas ar gyfer y nifer priodol o gerbydau.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel y mae'n well gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 1 Chwefror 2022.

**Gwybodaeth sy'n
Berthnasol i bob Cynnig**

Gwybodaeth sy'n Berthnasol i bob Cynnig

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Mae Canolfannau Adnoddau Arbenigol yng Nghaerdydd yn darparu darpariaeth arbenigol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd gyfan. Nid oes digon o leoedd i ateb y galw mewn darpariaeth a gynhelir. Mae hyn yn cael effaith ar ysgolion sy'n bodoli eisoes lle mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o ddisgyblion ar y gofrestr na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) neu'r nifer a ddymunir mewn canolfan adnoddau arbenigol.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gaerdydd ddibynnu ar brynu rhai lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ac ysgolion annibynnol i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gallai fod effaith tymor hwy ar ddarparwyr y tu allan i'r sir ac ar ysgolion annibynnol gan ei bod yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd a brynir gan y Cyngor.

Trefniadau derbyn

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk.

Rheolir derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol gan y Cyngor, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). O dan y Cod ADY, bydd y lleoliad yn destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Trefniadau Teithio Dysgwyr

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac o ysgolion.

Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth â thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafndiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y'i mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw anabledd sydd gan blentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA).

Materion Ariannol

Byddai rhai o'r newidiadau arfaethedig a nodir yn y ddogfen hon yn arwain at gostau cyfalaf i'r Cyngor, ar gyfer cynnal gwaith ar adeiladu a / neu addasu adeiladau. Byddent hefyd yn arwain at gostau referniw i'r Cyngor, wrth gyflogi staff.

Nid oes unrhyw ymrwymadau ariannol ar y cam hwn o'r ymgynghoriad. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelir gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

Byddai angen i'r lleoedd ychwanegol hyn gael eu hariannu o'r gyllideb ysgolion dirprwyedig bresennol. Ar hyn o bryd, cyflwynir darpariaeth cost uchel i rai disgyblion mewn nifer o ffyrdd. Mae rhai dysgwyr yn cael eu lleoli mewn ysgolion y tu allan i Gaerdydd, neu mewn ysgol annibynnol. Mae rhai dysgwyr yn aros mewn ysgolion prif ffrwd, gyda thaliadau "Gwella Anghenion Cymhleth" yn cael eu gwneud i'r ysgol i ddarparu cymorth priodol.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ganfod a fydd yr arbedion ar y lleoliadau hyn, neu ar daliadau chwyddo i ysgolion, yn talu costau ychwanegol y lleoedd ychwanegol arfaethedig.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried sut y byddai costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol y Cyngor yn newid. Gall y nifer gynyddol o leoedd arbenigol a gynigir gynyddu nifer y plant sy'n cael eu cludo rhwng y cartref a'r ysgol gan y Cyngor. Gall y nifer gynyddol o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion a chanolfannau arbennig leihau'r pellter teithio cyfartalog a'r gost teithio gyfartalog.

Darpariaeth iechyd

Bydd gan y cynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn oblygiadau i iechyd a gwasanaethau arbenigol eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ffactor ychwanegol yw Deddf Diwygio ADY 2018, a fydd yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd i iechyd, addysg a gofal cymdeithasol gydweithio i gydlynu asesu a darparu. Bydd Deddf 2018 yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd ac unedau cyfeirio disgyblion. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, a oruchwylir gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr o iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a rhieni, yn llywio dyluniad y ddarpariaeth arbenigol.

Trefniadau Llywodraethu

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethu yn deillio o'r cynnig hwn.

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Mae lefel anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae hyn wedi bod yn newid dros y 4-5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o Anghenion Dysgu Ychwanegol, ym mhob maes angen.

Cynhaliwyd adolygiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i lywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Nododd ysgolion nifer fach ond arwyddocaol o enghreifftiau o ddisgyblion ag ADY yn gadael y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn dewis yn hytrach addysg cyfrwng Saesneg os oes gan eu plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol, drwy bryder y gallai fod angen i'w plentyn drosglwyddo i'r sector arbenigol yn ddiweddarach.

Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.

Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle sefydlir y ganolfan uwchradd. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chefnogi ystod o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau lleferydd ac iaith ac awtistiaeth.

Yn 2021 mae galw cynyddol am ganolfannau adnoddau ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, sy'n gyflawnwyr uchel ar gyfartaledd, a byddai angen model cymorth mwy integreiddiol na'r hyn a ddarperir gan y ddwy ganolfan bresennol. Ar hyn o bryd mae 8 dysgwr oedran uwchradd, a 15 o ddysgwyr oed cynradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a fyddai'n elwa o leoliad mewn canolfan Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth. Mae hon yn flaenoriaeth byrdymor, o ystyried y risg, os bydd y lleoliadau presennol yn methu, mai'r unig opsiwn fyddai cynnig trosglwyddiad i leoliad cyfrwng Saesneg.

Mae dosbarth lles cynradd wedi'i sefydlu, a gynhelir yn Ysgol Gynradd Pen y Groes. Mae'r dosbarth lles yn gweithio'n hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion mewn gwahanol gyfnodau oedran, neu i ddarparu model allgymorth, yn dibynnu ar yr angen presennol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu cynigion i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer Cyflyrau'r sbectrwm awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ogystal â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle presennol yn yr ysgol.

Er mwyn cefnogi anghenion iechyd a lles emosiynol yn y cyfnod uwchradd, mae canolfan 'rithwir'/Uned Cyfeirio Disgyblion wedi'i threialu ar draws y tair ysgol uwchradd, gan ddechrau yn 2018. Disgwylir i'r peilot gael ei adolygu ymhellach yn 2021.

Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y tair ysgol gyfleusterau a llety digonol i ddarparu darpariaeth Cam 3 a 4 effeithiol, wedi'i hategu gan y ganolfan rithwir/UCD. Yn y tymor canolig, bydd angen lleoliad sefydlog ar y ganolfan rithwir / UCD yn un o'r ysgolion, gyda llety dynodedig, er mwyn lleihau'r risg y gallai fod angen i bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth adael y sector Cymraeg i gael mynediad at ddarpariaeth fwy arbenigol.

Wrth i'r sector Cymreig barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cymhleth.

Mae nifer cyfyngedig o staff addysgu cymwys a phrofiadol Anghenion Dysgu Ychwanegol, o'i gymharu â'r sector yn Lloegr. Bydd angen i unrhyw gynllun i ddatblygu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg gael ei gefnogi gan Gynllun Datblygu'r Gweithlu ADY.

Yn unol â'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid ar Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd i ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd newydd ar gyfer y ddinas

Mae ymgynghoriad ar wahân ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 2032 drafft ar y gweill ac mae'n gofyn am farn ar y ffordd orau o dyfu addysg cyfrwng Cymraeg a sut i gyrraedd y targedau lleol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn llywio cynigion yn y dyfodol. Bydd y Rhaglen yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymgynghoriad hwn i'w weld yn <https://www.cardiff.gov.uk/YmgynghoriadauStrategaethCymraeg>.

Yn dilyn ymgynghoriad, disgwylir y bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022. Bydd y Cynllun 10 mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032.

Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a gynigir yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen. Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd asesiad effaith ar gydraddoldeb arall yn cael ei wneud ar yr adeg dylunio. Byddai hyn yn nodi hygyrchedd i'r ddarpariaeth newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisiau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, NCT 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis, BS8300, Rhan M a Bwletin Adeiladu perthnasol.

Effaith Gymunedol

Ystyrir y canlynol wrth ystyried cynnig: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, sŵn a thagfeydd. Bydd yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion hyn a'r Cyngor yn gweithio gydag unrhyw grwpiau cymunedol i sicrhau bod y cynigion yn osgoi unrhyw effeithiau negyddol os yn bosibl.

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer y cynigion hyn ac mae ar gael i'w weld yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae rhaglen Band B Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol, ynghyd ag annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect Ysgol yn ystyried materion trafniadaeth allweddol pan maen nhw'n cael eu dylunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.

Gyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gellir lleihau symudiadau myfyrwyr ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith hirdymor y buddsoddiad sylweddol hwn, byddai unrhyw ddyluniad a aiff yn ei flaen ar gyfer pob ysgol sy'n rhan o'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau cyfleusterau modern o safon uchel sy'n gallu ymateb i anghenion y boblogaeth bresennol o ddisgyblion a chefnogi gweithredu dulliau addysgu a dysgu effeithiol. Byddent hefyd yn ymgorffori'r hyblygrwydd i ystyried newidiadau yn dibynnu ar yr angen wrth i amser fynd rhagddo, megis newid yn y ddemograffeg a niferoedd disgyblion, newid yn y cwricwlwm a newid ym math anghenion disgyblion.

Amhariad Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion sydd wedi'u meddiannu o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr ac sy'n tyfu.

Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn i sicrhau bod y cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflawni a bod safonau addysg uchel a safonau diogelwch yn cael eu cynnal.

Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

Beth sy'n digwydd nesaf?

Dyddiadau allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion y Cyngor wedyn yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor i roi gwybod i aelodau etholedig am farn rhanddeiliaid i aelodau etholedig, ac i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 30 isod:

Tabl 30: Camau yn y dyfodol (Mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn newid)

Proses Statudol	Amserlen
Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor	14 Rhagfyr 2021 – 1 Chwefror 2022
Dyddiad cychwyn a ddisgwyllir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu wedi cyflwyno'r hysbysiad statudol (ar ôl gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol)	Mawrth 2022
Dyddiad y disgwyllir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben	Mai 2022
(Pennu) Y penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor	Mehefin 2022
Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet	Gorffennaf 2022
Objection report published on the Council website and notification of Cabinet's decision	Gorffennaf 2022

Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 14 Rhagfyr 2021 – 1 Chwefror 2022

Bydd y Cyngor a Chyrff Llywodraethu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar eu gwefannau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi unrhyw hysbysadau statudol.

Gallwch ofyn am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor / Cyrff Llywodraethu i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ai peidio.

Bydd Cyrff Llywodraethu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig sy'n berthnasol i'w hysgol ai peidio.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau i Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

Os bydd Cyrff Llywodraethu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid iddynt hefyd gyhoeddi 'hysbysiad statudol'.

Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor / Corff Llywodraethu roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet / Corff Llywodraethu. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad(au) statudol hwn ar ei wefan. Byddai'r Cyrff Llywodraethu yn cyhoeddi'r hysbysiad(au) ar wefan yr ysgol a Chyngor Caerdydd. Byddai hefyd yn rhoi copiâu o'r hysbysiad yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt.

Rhoddir copiâu o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor / Corff Llywodraethu perthnasol o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Penderfynu ar y Cynigion

Byddai Cabinet Cyngor Caerdydd yn penderfynu ar y cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Os nad oes gwrthwynebiad i'r cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, byddai'r Cyrff Llywodraethu yn penderfynu ar y cynigion. Gallai'r Cyrff Llywodraethu benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynigion gydag addasiadau. Bydd y Cyrff Llywodraethu'n ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Pe bai gwrthwynebiadau i'r cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd neu Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, byddai'r cynigion yn cael eu cyfeirio at yr Awdurdod Lleol (Cyngor Caerdydd) i'w penderfynu o fewn 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Mae gan yr Awdurdod Lleol 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu i benderfynu ar y cynigion.

Hysbysu'r Penderfyniad

Ar ôl penderfynu ar y cynigion, bydd pob parti buddiant yn cael gwybod am y penderfyniadau. Bydd penderfyniadau hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefannau'r Cyngor a'r ysgol.

Dweud Eich Dweud

Gallwch gwblhau'r ymateb hwn ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Rydym yn cynnig:

- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd i ddysgwyr ag anghenion cymhleth o 70 i 100 o fis Medi 2022
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023
- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr â chyflwr y Sbectwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion i ddysgwyr â chyflwr y Sbectwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr â Chyflwr y Sbectwm Awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle bresennol o fis Medi 2023

Mae eich barn yn bwysig, felly rhannwch hi gyda ni trwy wneud un o'r canlynol:

- Llenwi a dychwelyd yr holiadur cysylltiedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Neu, os oes yn well gennych, e-bostiwch eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw

1. Pa un o'r canlynol ydych chi'n ymateb fel?

- Rhiant
- Athro – nodwch eich ysgol:
- Llywodraethwr ysgol – nodwch eich ysgol:
- Arall - rhowch fanylion :

2. Oes gennych chi blentyn/plant wedi'u cofrestru yn yr ysgolion canlynol?

(ticiwch bob un sy'n berthnasol)

<input type="checkbox"/> Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	<input type="checkbox"/> Ysgol Uwchradd Willows
<input type="checkbox"/> Ysgol Uwchradd Llanisien	<input type="checkbox"/> Ysgol Esgob Llandaf
<input type="checkbox"/> Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	<input type="checkbox"/> Dd/B
<input type="checkbox"/> Arall; rhowch fanylion: :	<input type="text"/>

3. A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

Ydw
 Nac ydw
 Ddim yn gwybod

4. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un safle ysgol?

Ysgol a chynnig yn gwyno	Ydw	Nac ydw	Dim barn
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd - cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth o 70 i 100 o fis Medi 2022			
Ysgol Uwchradd Willows - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023			
Ysgol Uwchradd Llanisien - cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr â chyflwr y Sbectwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022			

Ysgol a chynnig yn gwyno	Ydw	Nac ydw	Dim barn
Canolfan Marion, Ysgol Esgob Llandaf - cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion i ddysgwyr â chyflwr y Sbectwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022			
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr â Chyflwr y Sbectwm Awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle bresennol o fis Medi 2023			

5. Os ydych chi, neu nad ydych chi, yn cefnogi'r newidiadau a gynigir, eglurwch pam?

6. A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen?

7. Sylwadau ychwanegol

Enw: Cod Post:

Cyfeiriad:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost.

Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni gysylltu â chi.

E-bost:

Dychwelwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn 1 Chwefror 2022.

DIOLCH I CHI AM EICH SYLWADAU.

Amdanoch chi

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- Dan 16 oed 16-24 25-34 35-44 45-54 55-64 65-74 75+ Mae'n well gen i beidio â dweud

Ydych chi yn...?

- Benyw Gwryw Arall Mae'n well gen i beidio â dweud

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- Ydw Nac ydw Mae'n well gen i beidio â dweud

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- Byddar / Wedi colli clyw / Yn drwm fy nghlyw Nam ar y golwg Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)
 Anawsterau iechyd meddwl Defnyddiwr cadair olwyn Mae'n well gen i beidio â dweud
 Nam/anawsterau dysgu Nam symudedd Arall

Rhowch fanylion

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Bangladeshaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Affricanaiddn |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Caribiaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd | <input type="checkbox"/> Arabaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall | <input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Pacistanaidd | |

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Diben prosesu data personol yw oherwydd bod angen perfformio tasg benodol sydd o fudd i'r cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwiadol

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Grynhoi 2021

DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU
YCHWANEGOL (ADY)

DARPARIAETH AR GYFER ANGHENION DYSGU CYMHLETH A CHYFLYRAU
AR Y SBECTRWM AWTISTIAETH AR GYFER DYSGWYR 3 - 19 OED

14 RHAGFYR 2021 – 1 IONAWR 2022



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn lawn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn:

www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar **029 2087 2720** i drefnu hyn .



Tudalen 347



Cefndir

Mae gweledigaeth 2030 Caerdydd ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghaerdydd yn gosod nod Hawl Dysgu, lle gall pob plentyn a pherson ifanc:

- gael mynediad at lwybrau priodol i gyfleoedd addysgu a dysgu
- ffynnu a chyflawni eu potensial
- gwireddu eu breuddwydion a'u huchelgeisiau unigol

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys crynodeb o wybodaeth am gynigion i wella mynediad i addysg yn unol â'r egwyddorion cynhwysiant uchod.

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Rydym am wybod eich barn oherwydd mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod unrhyw gynigion sy'n mynd yn eu blaenau wir yn gweithio i blant, pobl ifanc a chymunedau lleol yr ysgolion dan sylw.

Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig:

- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 lle o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 lle o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 119 lle o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 lle o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Llanisien Fach i blant ag anghenion dysgu cymhleth o 20 i 30 lle o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough i blant ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth o 20 i 30 lle o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen i blant ag awtistiaeth o 20 i 24 lle o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood i blant ag awtistiaeth o 20 i 28 lle o fis Medi 2022

Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth?

- Ceir manylion llawn yn y Ddogfen Ymgynghori ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Os na allwch weld y ddogfen ar-lein, bydd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy ffonio **02920 872720**.
- Rydym wedi trefnu cyfarfod ar-lein a sesiynau galw heibio y gallwch fynd iddynt os hoffech i ni esbonio'r newidiadau arfaethedig i chi. Gallwch hefyd ofyn cwestiynau. Os hoffech fynychu cyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan ddweud pa gyfarfod yr hoffech ei fynychu. Byddwn wedyn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar gyfer mynychu'r cyfarfod.

Mae dyddiadau'r cyfarfod ymgynghori cyhoeddus a'r sesiynau galw heibio wedi eu nodi isod:

Tabl 1: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad / Amser	Lleoliad
Cyfarfod Cyhoeddus Ar-lein	Dydd Mercher 19 Ionawr 2022 5:30pm	Ar-lein drwy Microsoft Teams
Sesiynau galw heibio	Ar gais drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk	Ar-lein drwy Microsoft Teams

Mae cyfarfodydd ar wahân wedi eu trefnu ar gyfer staff a llywodraethwyr.

Mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r modd y darperir addysg. Byddwn yn ymgynghori â disgyblion ym mhob ysgol ac yn cynnwys eu hadborth yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Sut gallaf roi fy marn?

- Gallwch fynychu'r cyfarfod cyhoeddus neu sesiwn galw heibio
- Gallwch roi eich barn ar www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Gallwch lenwi'r ffurflen ymateb ar dudalennau 11-14 y llyfryn hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022.

Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?

Llefydd ysgol – Rhaid i bob cyngor yng Nghymru gynnig digon o lefydd ysgol i ddisgyblion o bob oed. Rhaid i lefydd ysgol ateb anghenion yr holl ddisgyblion a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Pam fod angen mwy o lefydd?

Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol ac yn cael cymorth ychwanegol yno. Mae dysgwyr sydd ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth yn mynychu ysgol arbennig neu Ganolfan Adnoddau Arbenigol. Mae nifer y disgyblion sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu.

Mae Canolfan Adnoddau Arbenigol yn galluogi dysgwyr ag anawsterau dysgu i lwyddo mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd. Gall hyn gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth.

Caiff disgyblion mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol eu haddysgu mewn dosbarth bach gan staff arbenigol ac maent yn elwa ar gwricwlwm arbenigol. Maent hefyd yn elwa o'r ystod lawn o gyfleoedd addysg sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

Gellir addysgu disgyblion ag anghenion mwy cymhleth neu ddifrifol mewn ysgol arbennig.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd gan 2,265 o blant yng Nghaerdydd ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Wrth i'r boblogaeth dyfu, felly hefyd bydd nifer y plant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol a chymhleth.

Yn 2020/21

- ariannwyd cyfanswm o 1,116 o leoedd mewn canolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig gan Gyngor Caerdydd
- roedd 48 o leoedd dros dro ar gael i ddysgwyr mewn Dosbarth Lles a Dosbarthiadau Lleferydd ac Iaith
- roedd 90 o leoedd ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)

Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le arbenigol yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Galw am leoedd – oedran cynradd

Yn 2021/22 mae cyfanswm o 413 o leoedd arbenigol ar gyfer disgyblion o oedran cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth neu Gyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth wedi'u hariannu gan Gyngor Caerdydd. Roedd y rhain mewn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd ac mewn sefydliadau eraill a gomisiynwyd gan y Cyngor.

Bydd cynigion cymeradwy i ehangu Ysgol Arbennig Riverbank a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn cynyddu'r capasiti yng Nghaerdydd i 465 o leoedd arbenigol erbyn 2025/26.

Gan ganiatáu rhywfaint o le dros ben i gefnogi hyblygrwydd, y capasiti digonol fyddai 561 o leoedd yn 2021/22, a 602 o leoedd erbyn 2025/26.

I grynhoi, amcangyfrifir diffyg o 148 o leoedd ar gyfer dysgwyr o oedran cynradd yn 2021/22, gan ostwng i 137 erbyn 2025/26.

Galw am leoedd – oedran uwchradd

Yn 2021/22 mae cyfanswm o 461 o leoedd arbenigol ar gyfer disgyblion oedran uwchradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth neu Gyflwr ar y Sbectwm Awtistiaeth wedi'u hariannu gan Gyngor Caerdydd. Roedd y rhain mewn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd ac mewn sefydliadau eraill a gomisiynwyd gan y Cyngor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynnig i ehangu Ysgol Uwchradd Woodlands, a fyddai'n cynyddu'r capasiti yng Nghaerdydd i 561 o leoedd arbenigol erbyn 2025/26.

Gan ganiatáu rhywfaint o le dros ben i gefnogi hyblygrwydd, y capasiti digonol fyddai 638 o leoedd yn 2021/22, a 692 o leoedd erbyn 2025/26.

I grynhoi, amcangyfrifir diffyg o 177 o leoedd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed yn 2021/22, gan ostwng i 131 erbyn 2025/26.

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Mae cyflwr adeiladau pob ysgol yng Nghaerdydd wedi eu hasesu. Maent wedi derbyn sgôr o A i D, gyda'r ysgolion â sgôr o D yn y cyflwr gwaethaf. Mae'r broses hon yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu pa ysgolion sydd angen gwelliannau i'w hadeiladau a pha rai sydd angen buddsoddiad.

Mae manylion pellach am y sgorio yn y ddogfen ymgynghori yn:

www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol


Nid yw lleoliad ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau arbenigol a Dosbarthiadau Lles wedi'u dosbarthu'n dda ar draws y ddinas.

Gellir gweld map sy'n dangos lleoliad y ddarpariaeth arbenigol bresennol ar dudalen 6.

Gall diffyg canolfannau adnoddau arbenigol mewn rhai ardaloedd roi dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dan anfantais. Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli. Mae'n bosibl na all rhieni neu ofalwyr deithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Byddai dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ar draws y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion. Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Ysgol Arbenning a Canolfan Adnoddau Arbennigol Caerdydd 2021



Special schools & SRBs: Type & Capacity

● Autism	(7)
● Behavioural, Emotional & Social Needs	(3)
● Hearing Impairment	(2)
● Profound & Multiple Learning Disabilities, Medical Needs, Autism	(1)
● Severe Learning Disabilities, Medical Needs, Speech and Language, Autism	(10)

This copy is produced specifically to supply County Council information. No further copies may be made. Mae'r copi hwn wedi'i gyflwynu'n benodol i gyfnewid gwybodaeth y Cynghor Sir. Ni ellir gennedol copïau pellach. © Crown copyright and database rights 2017. Ordnance Survey 100023376. © Hantfawr y Goron a hysbysu cronfa ddata 2017. Awdur Ordnance 100023376

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu cymhleth neu awtistiaeth

Mae Tŷ Gwyn yn ysgol arbennig sydd wedi'i lleoli yn Vincent Road yng Nghaerau. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod. Mae'r ysgol wedi'i ffedereiddio ag Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands, fel Ffederasiwn Campws Dysgu'r Gorllewin, ers mis Ionawr 2018.

Mae'r ysgol wedi'i dynodi i ddarparu 198 o leoedd ar gyfer dysgwyr 3-19 oed ag anghenion dysgu cymhleth neu awtistiaeth.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd, bwriedir:

- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 lle o fis Medi 2022.

Cynigir y byddai'r ysgol yn ehangu drwy addasu hen Ganolfan Ieuenctid Trelái i ddarparu llety a chyfleusterau ychwanegol.

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Arbennig Meadowbank ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu cymhleth

Mae Meadowbank yn ysgol arbennig sydd wedi'i lleoli yn Ystum Taf. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod.

Mae'r ysgol wedi'i dynodi ar gyfer hyd at 40 o leoedd i ddisgyblion 4 - 11 oed sydd ag anghenion lleferydd ac iaith a chyfathrebu ac anghenion dysgu cymhleth.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd, bwriedir:

- cynyddu'r nifer dynodedig yn Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o fis Medi 2022.

Cynigir y byddai gwaith yn cael ei wneud i ddarparu llety a chyfleusterau newydd ac addasu'r llety presennol, er mwyn hwyluso twf yr ysgol.

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Arbennig The Hollies i ddisgyblion ag awtistiaeth

Mae'r Hollies yn ysgol arbennig ym Mryn Heulog ym Mhentwyn. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod.

Mae'r ysgol wedi'i dynodi i ddarparu 90 o leoedd ar gyfer dysgwyr 4-11 oed ag awtistiaeth.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd, bwriedir:

- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 119 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 o fis Medi 2023

Cynigir y byddai adeiladau'r ysgol yn cael eu hymestyn i ddarparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol, yn ogystal â gwaith sy'n mynd rhagddo nawr i wella'r cyfleusterau presennol ac i sefydlu ystafelloedd dosbarth ychwanegol yn y llety presennol.

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) Ysgol Gynradd Llanisien Fach ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu cymhleth

Mae Ysgol Gynradd Llanisien Fach yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol yn Heol Uchaf, Rhiwbeina.

Mae'r ysgol yn gartref i Ganolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle i blant ag anghenion dysgu cymhleth.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd, bwriedir:

- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Llanisien Fach i blant ag anghenion dysgu cymhleth o 20 i 30 lle o fis Medi 2023

Cynigir y byddai gwaith yn cael ei wneud i ddarparu llety a chyfleusterau newydd, er mwyn hwyluso twf y ganolfan adnoddau.

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) Ysgol Gynradd Marlborough ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth

Mae Ysgol Gynradd Marlborough yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Heol Blenheim, Pen-y-lan.

Mae'r ysgol yn gartref i Ganolfan Adnoddau Arbenigol i ddisgyblion ag anghenion dysgu dwys a chymhleth.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd, bwriedir:

- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough i blant ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth o 20 i 30 o fis Medi 2022

Gwnaed gwaith i addasu'r llety sy'n bodoli eisoes yn yr ysgol i gynyddu capasiti'r ganolfan adnoddau ac i ddarparu ystafell synhwyaidd.

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) Ysgol Gynradd Pentre-baen ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth

Mae Ysgol Gynradd Pentre-baen yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Rhodfa Beechley, Pentre-baen.

Mae'r ysgol yn gartref i ganolfan adnoddau arbenigol gynradd ar gyfer plant ag awtistiaeth.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd, bwriedir:

- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen i blant ag awtistiaeth o 20 i 24 lle o fis Medi 2022

Cynigir y byddai gwaith yn cael ei wneud i wella ac ymestyn cyfleusterau a llety.

Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) Ysgol Gynradd Springwood ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth

Mae Ysgol Gynradd Springwood yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Circle Way, Llanedern.

Mae'r ysgol yn gartref i ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag awtistiaeth.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd, bwriedir:

- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood i blant ag awtistiaeth o 20 i 28 o fis Medi 2022

Gwnaed gwaith i wella ac addasu'r llety sy'n bodoli eisoes yn yr ysgol.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion oedran cynradd fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol. Ar gyfer oedran uwchradd, tair milltir yw'r pellter hwn. Efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n byw o fewn y pellteroedd hyn yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion unigol a materion cymdeithasol.

Disgwylir i'r cynigion gynyddu'r galw am Drafndiaeth i Ddysgwyr mewn nifer o ysgolion. Efallai y bydd angen cyfleusterau gwell a/neu ehangach priodol ar gyfer gollwng a chasglu o fewn y safleoedd i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol.

Ceir rhagor o wybodaeth am faterion trafndiaeth yn y ddogfen ymgynghori yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Ansawdd a Safonau

Mae pob ysgol yng Nghymru yn cael ei harolygu gan Estyn.

Mae Estyn yn sicrhau bod ysgolion yn cynnig safon dda o addysg i'w disgyblion a bod pob plentyn yn cael ei gefnogi i ddysgu gan staff addysgu a dysgu rhagorol.

Mae ysgolion hefyd yn cael eu gosod i mewn i un o bedwar categori cymorth lliw (gwyrd, melyn, oren a choch) fel rhan o System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion Llywodraeth Cymru. Ysgolion Oren a Choch yw'r rhai sydd angen y cymorth mwyaf.

Amlinellir manylion y safonau ym mhob ysgol, fel y nodwyd yn ei hadroddiad Estyn diweddaraf, yn y tabl isod.

Mae'r lliwiau a ddefnyddir yn dangos y categori diweddaraf, gan ddefnyddio proses Categori Ysgolion Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.

Ysgol	Dyddiad yr Arolwg	Safonau	Cynnydd
Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn	Mai 2012	Ardderchog	Dd/b
Ysgol Arbennig Meadowbank	Tachwedd 2019	Digonol	Dd/b
Ysgol Arbennig The Hollies	Hydref 2019	Da	Dd/b
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	Ebrill 2014	Da	Dd/b
Ysgol Gynradd Marlborough	Tachwedd 2018	Da	Dd/b
Ysgol Gynradd Pentre-baen	Mawrth 2015	Da	Dd/b
Ysgol Gynradd Springwood	Mawrth 2018	Da	Dd/b

Ceir rhagor o fanylion am ansawdd a safonau yn y ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Beth yw manteision y newidiadau arfaethedig?

- Byddai pob un o'r cynigion yn cynyddu nifer y lleoedd arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth ac yn helpu i ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cynnig i ehangu Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn hefyd yn cynyddu nifer y lleoedd arbenigol ar gyfer dysgwyr 3-19 oed sydd â'r Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth mwyaf cymhleth / difrifol.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ychwanegol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol mewn ysgolion. Byddai hyn o fudd i bob disgybl ym mhob ysgol.
- Byddai'r cynnig i ehangu lleoedd yn caniatáu i ddisgyblion deithio pellteroedd llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol leol.

Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag ADY. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safleoedd ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Beth fyddai'r effaith ar staff?

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu pob ysgol i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o'r newidiadau a gynigir. Efallai y bydd angen staff ychwanegol.

Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i'r newidiadau a gynigir yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Gabinet y Cyngor. Bydd hyn yn helpu'r aelodau etholedig i ddeall barn rhanddeiliaid a bydd yn rhoi gwybodaeth iddynt i'w helpu i wneud eu penderfyniad.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynigion, rhaid iddo gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Byddai'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Unwaith y bydd penderfyniad yn cael ei wneud, byddwn yn rhoi gwybod i bawb y mae'r cynnig yn effeithio arnynt. Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Dweud Eich Dweud

Gallwch gwblhau'r ymateb hwn ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Rydym yn cynnig:

- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 lle o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 lle o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 119 lle o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 lle o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Llanisien Fach i blant ag anghenion dysgu cymhleth o 20 i 30 lle o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough i blant ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth o 20 i 30 lle o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen i blant ag awtistiaeth o 20 i 24 lle o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood i blant ag awtistiaeth o 20 i 28 lle o fis Medi 2022

Mae eich barn o bwys. Rhannwch eich barn ar y cynigion gyda ni drwy:

- Lenwi a dychwelyd yr holiadur cysylltiedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Os byddai'n well gennych, gallwch e-bostio eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw Dydd Llun 1 Chwefror 2022.

Yn anffodus ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

1. Fel pa un o'r canlynol ydych chi'n ymateb?

- Rhiant
- Athro – nodwch eich ysgol _____
- Llywodraethwr ysgol – nodwch eich ysgol _____
- Arall - rhwch fanylion _____

2. A oes gennych chi blentyn/plant wedi eu cofrestru yn yr ysgolion canlynol? (ticiwch

- | | |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | <input type="checkbox"/> Ysgol Gynradd Pentre-baen |
| <input type="checkbox"/> Ysgol Arbennig Meadowbank | <input type="checkbox"/> Ysgol Gynradd Springwood |
| <input type="checkbox"/> Ysgol Arbennig The Hollies | <input type="checkbox"/> Arall - nodwch..... |
| <input type="checkbox"/> Ysgol Gynradd Llanisien Fach | _____ |
| <input type="checkbox"/> Ysgol Gynradd Marlborough | <input type="checkbox"/> Dd/B |

3. A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

YDW

NAC YDW

DDIM YN GWYBOD

4. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un o'r safleoedd ysgol?

Ysgol a'r cynnig yn gryno	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
<p>Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 lle o fis Medi 2022 			
<p>Ysgol Arbennig Meadowbank</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 lle o fis Medi 2022 			
<p>Ysgol Arbennig The Hollies</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 119 lle o fis Medi 2022 cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 lle o fis Medi 2023 			
<p>Ysgol Gynradd Llanisien Fach</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Llanisien Fach i blant ag anghenion dysgu cymhleth o 20 i 30 lle o fis Medi 2023 			
<p>Ysgol Gynradd Marlborough</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough i blant ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth o 20 i 30 lle o fis Medi 2022 			
<p>Ysgol Gynradd Pentre-baen</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen i blant ag awtistiaeth o 20 i 24 lle o fis Medi 2022 			
<p>Ysgol Gynradd Springwood</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood i blant ag awtistiaeth o 20 i 28 lle o fis Medi 2022 			

5. Os ydych chi neu os nad ydych chi'n cefnogi'r newidiadau a gynigir, eglurwch pam.

6. A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen?

7. Sylwadau ychwanegol

Enw _____

Cyfeiriad _____

Cod post _____

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cyflwyno gwrthwynebiadau.

Os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Diolch i chi am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon at y Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn 1 Chwefror 2022 ar yr hwyraf.

Tudalen 360

AMDANOCH CHI

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- Dan 16 oed 25-34 45-54 65-74 Mae'n well gennyf beidio â dweud
 16-24 35-44 55-64 75+

Ydych chi yn.....?

- Benyw Gwryw Arall Mae'n well gennyf beidio â dweud

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- Byddwn Nac oes Mae'n well gennyf beidio â dweud

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- Byddar/Wedi colli clyw/Yn drwm eich clyw Nam ar y golwg Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor
(e.e. canser, diabetes neu asthma)
 Anawsterau iechyd meddwl Defnyddiwr cadair olwyn Mae'n well gennyf beidio â dweud
 Nam/anawsterau dysgu Nam symudedd Arall

Rhowch fanylion _____

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad gartref, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Bangladeshaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Caribiaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd | <input type="checkbox"/> Arabaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall | <input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd | _____ |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Pacistanaidd | Mae'n well gennyf beidio â dweud |

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Mae angen prosesu data personol er mwyn cyflawni tasgau penodol er budd y cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Grynhoi 2021

DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU
YCHWANEGOL (ADY):

DARPARIAETH AR GYFER ANGHENION DYSGU CYMHLETH A CHYFLYRAU
AR Y SBECTRWM AWTISTIAETH AR GYFER DYSGWYR 11 - 19 OED

14 RHAGFYR 2021 – 1 CHWEFOR 2022



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn lawn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn:

www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar **029 2087 2720** i drefnu hyn



Cefndir

Mae gweledigaeth 2030 Caerdydd ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghaerdydd yn gosod nod Hawl Dysgu, lle gall pob plentyn a pherson ifanc:

- gael mynediad at lwybrau priodol i gyfleoedd addysgu a dysgu
- ffynnu a chyflawni ei botensial
- gwireddu ei freuddwydion a'i uchelgeisiau unigol

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys crynodeb o wybodaeth am gynigion i wella mynediad i addysg yn unol â'r egwyddorion cynhwysiant uchod.

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau. Rydym am wybod eich barn oherwydd mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod unrhyw gynigion sy'n mynd yn eu blaenau wir yn gweithio i blant, pobl ifanc a chymunedau lleol yr ysgolion dan sylw.

Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig:

- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth o 70 i 100 o fis Medi 2022
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr â chyflwr y Sbectrwm Awtistig o 20 i 45 o lefydd a hynny o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf i ddysgwyr â chyflwr y Sbectrwm Awtistig o 42 i 66 o lefydd o fis Medi 2022
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle yn Ysgol Gyfun Glantaf ar gyfer dysgwyr ag awtistiaeth i gyd-fynd â'r yn Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle bresennol, a hynny o fis Medi 2023

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

- Ceir manylion llawn yn y Ddogfen Ymgynghori ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Os na allwch weld y ddogfen ar-lein, bydd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy ffonio 02920 872720.

- Rydym wedi trefnu cyfarfod ar-lein a sesiynau galw heibio y gallwch fynd iddynt os hoffech i ni esbonio'r newidiadau arfaethedig i chi. Gallwch hefyd ofyn cwestiynau. Os hoffech fynd i gyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan nodi'r cyfarfod yr hoffech fynd iddo. Byddwn wedyn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar gyfer mynychu'r cyfarfod.

Mae dyddiadau'r cyfarfod ymgynghori cyhoeddus a'r sesiynau galw heibio wedi eu nodi isod:

Tabl 1: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori		
Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad / Amser	Lleoliad
Cyfarfod Cyhoeddus Ar-lein	Dydd Mercher 19 Ionawr 2022 5:30pm	Ar-lein drwy Microsoft Teams
Sesiynau galw heibio	Ar gais drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk	Ar-lein drwy Microsoft Teams

Mae cyfarfodydd ar wahân wedi eu trefnu ar gyfer staff a llywodraethwyr.

Mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r modd y darperir addysg. Byddwn yn ymgynghori â disgyblion ym mhob ysgol ac yn cynnwys eu hadborth yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Sut gallaf roi fy marn?

- Gallwch fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn galw heibio
- Gallwch roi eich barn ar www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Gallwch lenwi'r ffurflen ymateb yng nghefn y llyfryn hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022.

Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?

Lleoedd ysgol

Rhaid i bob cyngor yng Nghymru gynnig digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o bob oed. Rhaid i lefydd ysgol ateb anghenion yr holl ddisgyblion a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Pam fod angen mwy o leoedd?

Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol ac yn cael cymorth ychwanegol yno. Mae dysgwyr sydd ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth yn mynychu ysgol arbennig neu Ganolfan Adnoddau Arbenigol. Mae nifer y disgyblion sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu.

Mae Canolfan Adnoddau Arbenigol yn galluogi dysgwyr ag anawsterau dysgu i lwyddo mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd. Gall hyn gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth.

Caiff disgyblion mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol eu haddysgu mewn dosbarth bach gan staff arbenigol ac maent yn elwa ar gwricwlwm arbenigol. Maent hefyd yn elwa o'r ystod lawn o gyfleoedd addysg sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd gan 2,265 o blant yng Nghaerdydd ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Wrth i'r boblogaeth dyfu, felly hefyd bydd nifer y plant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol a chymhleth.

Yn 2020/21

- ariannwyd cyfanswm o 1,116 o leoedd mewn canolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig gan Gyngor Caerdydd
- roedd 48 o leoedd dros dro ar gael i ddysgwyr mewn Dosbarth Lles a Dosbarthiadau Lleferydd ac Iaith
- roedd 90 o leoedd ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)

Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le arbenigol yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Galw am leoedd

Yn 2021/22 mae cyfanswm o 461 o leoedd arbenigol ar gyfer disgyblion oedran uwchradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth neu Gyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth wedi'u hariannu gan Gyngor Caerdydd. Roedd y rhain mewn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd ac mewn sefydliadau eraill a gomisiynwyd gan y Cyngor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynnig i ehangu Ysgol Uwchradd Woodlands, a fyddai'n cynyddu'r capasiti yng Nghaerdydd i 561 o leoedd arbenigol erbyn 2025/26.

Gan ganiatáu rhywfaint o le dros ben i gefnogi hyblygrwydd, y capasiti digonol fyddai 638 o leoedd yn 2021/22, a 692 o leoedd erbyn 2025/26.

I grynhoi, amcangyfrifir diffyg o 177 o leoedd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed yn 2021/22, gan ostwng i 131 erbyn 2025/26.

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Mae cyflwr adeiladau pob ysgol yng Nghaerdydd wedi ei asesu. Mae pob adeilad wedi derbyn sgôr o A i D, gyda'r ysgolion â sgôr o D yn y cyflwr gwaethaf. Mae'r broses hon yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu'r ysgolion sydd angen gwelliannau i'w hadeiladau a'r ysgolion sydd angen buddsoddiad.

Mae manylion pellach am y sgorio yn y ddogfen ymgynghori yn:

www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol


Nid yw lleoliad canolfannau adnoddau arbenigol a Dosbarthiadau Lles wedi'u dosbarthu'n dda ar draws y ddinas.

Gellir gweld map sy'n dangos lleoliad y ddarpariaeth arbenigol bresennol isod.

Gall diffyg canolfannau adnoddau arbenigol mewn rhai ardaloedd roi dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dan anfantais. Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli. Mae'n bosibl na all rhieni neu ofalwyr deithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Byddai dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ar draws y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion. Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Ysgol Arbenigol a Canolfan Adnoddau Arbennigol Caerdydd 2021



Special schools & SRBs: Type & Capacity	
Autism	(7)
Behavioural, Emotional & Social Needs	(3)
Hearing Impairment	(2)
Profound & Multiple Learning Disabilities, Medical Needs, Autism	(1)
Severe Learning Disabilities, Medical Needs, Speech and Language, Autism	(10)

This map is intended as a guide only. It does not represent the actual locations of all special schools and SRBs in Cardiff. For more information, please contact the City of Cardiff Council.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o dair milltir i ddisgyblion uwchradd fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol. Efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n byw o fewn tair milltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion unigol a materion cymdeithasol.

Disgwylir i'r cynigion gynyddu'r galw am Drafndiaeth i Ddysgwyr mewn nifer o ysgolion. Efallai y bydd angen cyfleusterau gwell a/neu ehangach priodol ar gyfer gollwng a chasglu o fewn y safleoedd i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol.

Ceir rhagor o wybodaeth am faterion trafndiaeth yn y ddogfen ymgynghori yn

www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Ehangu'r ddarpariaeth Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Cymhleth

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn ysgol Sefydledig Saesneg ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol sydd wedi'i dynodi ar gyfer anghenion dysgu cymhleth. Lleolir yr ysgol dros ddwy safle ar Ffordd y Faenor a Heol Pen-Illin yn yr Eglwys Newydd.

Er mwyn ateb y galw am leoedd canolfannau adnoddau arbenigol uwchradd i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth, cynigir:

- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd o 70 i 100 o fis Medi 2022

Cynigir y byddai'r adeilad canolfan adnoddau arbenigol presennol yn cael ei wella a'i adnewyddu, gan greu ystafelloedd dosbarth a manau dysgu ychwanegol.

Sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Willows ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Cymhleth

Mae Ysgol Uwchradd Willows yn ysgol uwchradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Lleolir yr ysgol ar hyn o bryd yn Rhodfa Willows, Tremorfa.

Er mwyn ateb y galw am leoedd canolfannau adnoddau arbenigol uwchradd i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth, cynigir:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol â 30 lle yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023

Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei darparu i ddechrau yn yr adeiladau presennol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud. Yna byddai gofod arbenigol yn cael ei ddarparu fel rhan o ddatblygiad Ysgol Uwchradd newydd Willows.

Ehangu'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien ar gyfer disgyblion â Chyflwr Sbectwm Awtistiaeth

Mae Ysgol Uwchradd Llanisien yn ysgol uwchradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 11-19 oed. Mae'r ysgol yn cynnal canolfan Cyflwr Sbectwm Awtistiaeth a chanolfan ar gyfer dysgwyr â nam ar eu clyw. Lleolir yr ysgol yn Heol Hir, Llanisien.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol oedran uwchradd, cynigir:

- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Awtistiaeth Ysgol Uwchradd Llanisien o 20 i 45 o fis Medi 2022.

Gwnaed gwaith dros dro a byddai gofyn gwneud rhagor o waith i wella ac ymestyn y cyfleusterau a'r llety yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol bresennol.

Ehangu'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion, Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf ar gyfer disgyblion â Chyflwr Sbectwm Awtistiaeth

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn ysgol uwchradd wirfoddol a gynorthwyr Saesneg ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol, Canolfan Marion, sydd wedi'i dynodi ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth. Lleolir yr ysgol yng Nghlos Rookwood yn Llandaf.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol uwchradd i ddysgwyr â chyflyrau ar y sbectwm awtistiaeth, cynigir:

- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Awtistiaeth Canolfan Marion o 42 i 66 o fis Medi 2022.

Cynigir y byddai adeilad presennol y ganolfan adnoddau arbenigol yn cael ei wella a'i adnewyddu, gan greu ystafelloedd dosbarth a manau dysgu ychwanegol.

Sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ar gyfer disgyblion â Chyflwr Sbectwm Awtistiaeth

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ysgol uwchradd gymunedol Gymraeg sydd wedi'i lleoli yn Heol y Bont yn Ystum Taf ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol ddynodedig ar gyfer anghenion dysgu cymhleth.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol uwchradd i ddysgwyr â chyflyrau ar y sbectwm awtistiaeth, cynigir:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag awtistiaeth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle bresennol o fis Medi 2023.

Cynigir y byddai gofod newydd yn cael ei ddatblygu ar y safle i ddarparu cyfleusterau pwrpasol ar gyfer y ddwy ganolfan adnoddau.

Ansawdd a Safonau

Mae pob ysgol yng Nghymru yn cael ei harolygu gan Estyn.

Mae Estyn yn sicrhau bod ysgolion yn cynnig safon dda o addysg i'w disgyblion a bod pob plentyn yn cael ei gefnogi i ddysgu gan staff addysgu a dysgu rhagorol.

Mae ysgolion hefyd yn cael eu rhoi mewn un o bedwar categori cymorth lliw (gwyrdd, melyn, oren a choch) fel rhan o System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion Llywodraeth Cymru. Ysgolion Oren a Choch yw'r rhai sydd angen y cymorth mwyaf.

Amlinellir manylion y safonau ym mhob ysgol, fel y nodwyd yn eu hadroddiad Estyn diweddaraf, yn y tabl isod.

Mae'r lliwiau a ddefnyddir yn dangos y categori diweddaraf, gan ddefnyddio proses Categori Ysgolion Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.

Ysgol	Dyddiad yr Arolwg	Safonau	Cynnydd
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	Ionawr 2016	Digonol – monitro'n ofynnol	Tynnwyd o'r rhestr fonitro Tach 2017
Ysgol Uwchradd Willows	Ebrill 2018	Digonol / da	
Ysgol Uwchradd Llanisien	Chwefror 2016	Digonol – monitro'n ofynnol	Tynnwyd o'r rhestr fonitro Tach 2016
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Yng Nghymru Esgob Llandaf	Chwefror 2018	Ardderchog	
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Mai 2017	Da / digonol	Tynnwyd o'r rhestr fonitro Tach 2018

Ceir rhagor o fanylion am ansawdd a safonau yn y ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Beth yw manteision y newidiadau arfaethedig?

- Byddai pob un o'r cynigion yn cynyddu nifer y lleoedd arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a / neu Gyflwr ar y Sbectwm Awtistiaeth ac yn helpu i ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ychwanegol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol mewn ysgolion. Byddai hyn o fudd i bob disgybl ym mhob ysgol.
- Byddai'r cynnig i ehangu lleoedd yn caniatáu i ddisgyblion deithio pellteroedd llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol leol.

Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag ADY. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safleoedd ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Beth fyddai'r effaith ar staff?

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu pob ysgol i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o ehangu / sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol. Efallai y bydd angen rhagor o staff.

Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i ehangu / sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Cabinet y Cyngor mewn adroddiad ymgynghori. Bydd hyn yn helpu'r aelodau etholedig i ddeall barn rhanddeiliaid a bydd yn rhoi gwybodaeth iddynt i'w helpu i wneud eu penderfyniad.

Bydd y Cyngor a Chyrff Llywodraethu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar eu gwefannau. Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor / Cyrff Llywodraethu i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Disgwyliwn adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad ym mis Mawrth 2021.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau i Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt. Os bydd Cyrff Llywodraethu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid iddynt hefyd gyhoeddi 'hysbysiad statudol'.

Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor / Corff Llywodraethu perthnasol o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Byddai'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Os nad oes gwrthwynebiad i'r cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, byddai'r Cyrff Llywodraethu yn penderfynu ar y cynigion. Gallai'r Cyrff Llywodraethu benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynigion gydag addasiadau. Bydd y Cyrff Llywodraethu'n ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Pe bai gwrthwynebiadau i'r cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd neu Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, byddai'r cynigion yn cael eu cyfeirio at y Cyngor i'w penderfynu o fewn 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, byddwn yn rhoi gwybod i bawb y mae'r cynnig yn effeithio arnynt. Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Dweud Eich Dweud

Gallwch gwblhau'r ymateb hwn ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Rydym yn cynnig:

- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd i ddysgwyr ag anghenion cymhleth o 70 i 100 o fis Medi 2022
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023
- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr â chyflwr y Sbectwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion i ddysgwyr â chyflwr y Sbectwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr â Chyflwr y Sbectwm Awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle bresennol o fis Medi 2023

Mae eich barn yn bwysig, felly rhannwch hi gyda ni trwy wneud un o'r canlynol:

- Llenwi a dychwelyd yr holiadur cysylltiedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Neu, os oes yn well gennych, e-bostiwch eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw

1. Pa un o'r canlynol ydych chi'n ymateb fel?

- Rhiant
- Athro – nodwch eich ysgol:
- Llywodraethwr ysgol – nodwch eich ysgol:
- Arall - rhowch fanylion :

**2. Oes gennych chi blentyn/plant wedi'u cofrestru yn yr ysgolion canlynol?
(ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

<input type="checkbox"/> Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	<input type="checkbox"/> Ysgol Uwchradd Willows
<input type="checkbox"/> Ysgol Uwchradd Llanisien	<input type="checkbox"/> Ysgol Esgob Llandaf
<input type="checkbox"/> Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	<input type="checkbox"/> Dd/B
<input type="checkbox"/> Arall; rhowch fanylion: :	<input type="text"/>

3. A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

4. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un safle ysgol?

Tudalen 368

Ysgol a chynnig yn gwyno	Ydw	Nac ydw	Dim barn
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd - cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth o 70 i 100 o fis Medi 2022			
Ysgol Uwchradd Willows - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023			
Ysgol Uwchradd Llanisien - cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr â chyflwr y Sbectrwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022			

Ysgol a chynnig yn gwyno	Ydw	Nac ydw	Dim barn
Canolfan Marion, Ysgol Esgob Llandaf - cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion i ddysgwyr â chyflwr y Sbectrwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022			
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle bresennol o fis Medi 2023			

5. Os ydych chi, neu nad ydych chi, yn cefnogi'r newidiadau a gynigir, eglurwch pam?

6. A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen?

7. Sylwadau ychwanegol

Enw: Cod Post:

Cyfeiriad:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni gysylltu â chi.

E-bost:

Dychwelwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn 1 Chwefror 2022.

DIOLCH I CHI AM EICH SYLWADAU.

Amdanoch chi

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- Dan 16 oed 16-24 25-34 35-44 45-54 55-64 65-74 75+ Mae'n well gen i beidio â dweud

Ydych chi yn...?

- Benyw Gwryw Arall Mae'n well gen i beidio â dweud

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- Ydw Nac ydw Mae'n well gen i beidio â dweud

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- Byddar / Wedi colli clyw / Yn drwm fy nghlyw Nam ar y golwg Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)
 Anawsterau iechyd meddwl Defnyddiwr cadair olwyn Mae'n well gen i beidio â dweud
 Nam/anawsterau dysgu Nam symudedd Arall

Rhowch fanylion

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Bangladeshaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Affricanaiddn |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Caribiaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd | <input type="checkbox"/> Arabaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall | <input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Pacistanaidd | |

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Diben prosesu data personol yw oherwydd bod angen perfformio tasg benodol sydd o fudd i'r cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwiadol

**CYNIGION AD-DREFNU YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER
PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
(ADY)**

**DARPARIAETH GYNRADD AC UWCHRADD AR GYFER
DISGYBLION AG ANGHENION DYSGU CYMHLETH A CHYFLYRAU
AR Y SBECTRWM AWTISTIG**

Atodiad 3 - Nodiadau o gyfarfodydd â staff a chyrrff llywodraethu



Yn bresennol: Michele Duddridge-Friedl (CTY), Mian Saleem (CTY), Jenny Hughes (ADY), Hibah Iqbal (CTY), Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Moorland

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Michele Duddridge-Friedl y cyfarfod, croesawodd y llywodraethwyr ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd
- Cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Llety'r CAA arfaethedig
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Derbyniadau
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd MDF gwestiynau/sylwadau gan staff

C - ar ba bwynt y byddai cyllid pendant gennym i ddechrau recriwtio staff newydd?

JH - mewn trafodaethau gyda'r Pennaeth dros yr wythnosau nesaf ynglŷn â hyn, faint o blant rydym am eu derbyn cyn i'r dosbarth agor a gweithio ar gyfnodau pontio. Byddem yn cadarnhau cyn diwedd y tymor neu ddechrau'r nesaf.

C - I ddechrau, dwedwyd y byddai'r CAA yn mynd yn y Cyfnod Sylfaen (CS) ond bellach dywedir y bydd y CS yn mynd i'r prif adeilad; dryswch gan ein bod yn



credu y byddai'r CS mewn uned newydd pan fyddai wedi ei adeiladu a CA2 yn y prif adeilad.

JH - Bydd y CS yn rhan o adeilad newydd a bydd CA2 yn yr ystafell bresennol i fyny'r grisiau sydd wedi'i chynllunio a'i chytuno. O ran gwaith adeiladu'r CS, ni fydd hyn yn barod ar gyfer Medi 2022, ond gan obeithio y bydd y dosbarth CA2. Rydym am ddechrau lleoli plant o fis Medi 2022; mae yna o hyd blant CA2 sydd angen eu lleoli, felly byddai'n ddefnyddiol dechrau dosbarth hyd yn oed os mai dim ond CA2 ydyw ac nid CS ydyw. Os oes angen i ni leoli plant y CS, efallai y bydd ystafell arall, ond ansicr ai dyma'r opsiwn gorau; parchu barn yr ysgol ar yr hyn sy'n briodol ac yn bosibl o fis Medi 2022.

C – o safbwynt corff llywodraethu, rydym am i'r ddarpariaeth fod yn gynhwysol; gall fod yn frawychus anfon plant i rywle newydd ac nid yw'n ymddangos yn deg ar y plant. Os dechreuwn o CA2 a dyma fydd eu lleoliad parhaol, byddai hynny'n tawelu pethau.

C – o ran cyllid, mae'n rhan o'r gyllideb ddirprwyedig; yr ydych wedi egluro y daw'r cyllid ar gyfer adnoddau addysgu yn gynharach ond o ran y cyllid cyffredinol, pryd y daw hwnnw i mewn?

JH - cyn y flwyddyn ariannol nesaf; hyn wedi ei nodi yn glir a'r angen parhaus ac yna'n tyfu wrth i staffio dyfu.

C – o ran recriwtio, onid oes unrhyw un yn colli ei swydd gyda'r ganolfan newydd?

JH – nid oes unrhyw gau ond os oes unrhyw staff gennym ar y gofrestr adleoli, byddem yn edrych ar hynny ond byddai hyn yn dibynnu ar sgiliau a rolau; rydym yn edrych i gynyddu'r staff yma, fodd bynnag mae'n fwyaf tebygol o fod yn recriwtio agored gan ei fod yn arbenigol

C – o ran gwaith adeiladu, mae angen gwneud gwaith i'r prif adeilad i'w wneud yn addas. Pryd fydd yn dechrau a pha mor hir fydd yn ei gymryd ar gyfer derbyn Medi 22? A oes lle i fod yn hyblyg?

MS - mae'r rhaglen bresennol yn dangos y byddwn yn dechrau adeiladu ym mis Gorffennaf y flwyddyn nesaf ac yn adnewyddu ardal CA2 i fyny'r grisiau o fewn y 4-6 wythnos gyntaf. Byddai'r uned honno'n barod o fis Medi ymlaen.

Dywedodd MDF wrth y llywodraethwr am y ffyrdd y gellid ymateb i'r ymgynghoriad.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd MDF i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Michele Duddridge-Friedl (CTY), Mian Saleem (CTY), Jenny Hughes (ADY), Hibah Iqbal (CTY), Aelodau staff

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Michele Duddridge-Friedl y cyfarfod, croesawodd y staff ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd
- Cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Llety'r CAA arfaethedig
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Derbyniadau
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd MDF gwestiynau/sylwadau gan staff

C - pryderon am ofod tra bod gwaith adeiladu yn cael ei wneud; sut bydd yr ysgol yn gweithredu gyda 400 o blant ar y safle?

MS – yn ymwybodol bod hwn yn gynllun adeiladu fesul cam heriol; dwy agwedd iddo, Dechrau'n Deg ac uned y Blynyddoedd Cynnar a fydd yn cael eu cyflwyno'n raddol i leihau'r effaith. Bydd adeilad presennol y Blynyddoedd Cynnar yn parhau i fod yn weithredol, gyda phlant yn symud i'r gofod newydd ar ôl ei gwblhau. Yr her fawr o safbwynt adeiladu yw cydymffurfio â deddfwriaeth ddraenio newydd gyda'r angen i adeiladu tanciau o dan y ddaear. Bydd yn chwe mis heriol, fodd bynnag, ceisir defnyddio cyfnod gwyliau'r ysgol i fwrw ymlaen â'r gwaith.

MDF – fe fydd effaith yn y tymor byr ond bydd y gwaith yn arwain at gyfleusterau lawer gwell.

C – mae ardal sylweddol o ofod yn cael ei chymryd; mae'r plant yn defnyddio llawer o ofod awyr agored.

MDF – gellir trafod y ffordd orau o ddefnyddio'r lle sydd ar gael gyda'r Pennaeth; mae amseroedd chwarae graddol wedi'u defnyddio gydag ysgolion eraill.

C – gyda'r cwricwlwm newydd mae plant yn yr awyr agored drwy'r amser.

MDF – bydd llif rhydd yn cael ei leihau yn ystod y gwaith adeiladu, ond bydd y sefyllfa hirdymor yn llawer gwell.

C – y plant iau fydd yn dioddef, sydd wedi dioddef trwy covid a thrwy hyn.

MS – byddwn yn ceisio rhyddhau ardaloedd wrth iddynt gael eu cwblhau. Bydd gennym ddarlun clir o'r hyn y gellir ei wneud unwaith y penodir contractwr a byddwn yn gweithio gyda'r ysgol i weld sut orau i wneud pethau.

C - Gallaf weld ardal chwarae Blwyddyn 2 yn cael ei ddefnyddio, y prif un, a yw hynny'n wir?

MDF - bydd yn rhaid iddo gael ei leihau. Mae hyn yn rhywbeth y gallwn ail ymweld ag ef gyda'r Pennaeth; efallai y gall yr ysgol ddefnyddio cyfleusterau eraill yn yr ardal leol. Mae heriau ar safleoedd ysgolion trefol fel Moorland ond mae angen adeilad y Blynyddoedd Cynnar newydd; nid yw plant yn cael safon y cyfleusterau sydd eu hangen arnynt.

C – o'r llun mae'r cyfan o'r maes chwarae wedi mynd; bydd yn rhaid i blant aros y tu mewn tra bydd y lleill yn chwarae.

C – a yw'n bosibl adeiladu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ger yr Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd, dymchwel uned y Blynyddoedd Cynnar wrth i ni fynd i mewn i'r adeilad arall

MDF - nodwn eich pryderon ynghylch mynediad i gyfleusterau a bydd angen i ni ddod yn ôl at eich ysgol y tu allan i'r broses hon

C – a allem ddefnyddio'r ardal fechan wrth ymyl hen adeilad Ysgol Glan Morfa yn ystod y dydd?

MDF – dyma'r math o opsiwn y gallwn edrych arno gyda'r ysgol.

C - a allech egluro'r hyn a olygwch wrth anghenion cymhleth a'r mathau o ddisgyblion a fyddai'n defnyddio'r CAA.

JH – plant ag anawsterau dysgu hirdymor sylweddol; darpariaeth sydd eisoes mewn ysgolion eraill e.e. Ysgol Gynradd Llanisien Fach. Rydym yn ariannu amrywiaeth o anghenion; yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw anawsterau dysgu ond mae hefyd yn ymwneud â phroblemau cyfathrebu, corfforol a meddygol, CSA ac ADCG. Nid yw anghenion cymhleth yn hawdd eu crynhoi ond mae'n cynnwys plant sydd angen cymorth/dulliau addysgu arbenigol.

C - A yw'r 20 lle wedi'u rhannu?



JH – Ydyn, 10 lle ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a 10 lle ar gyfer CA2, ond weithiau rhennir lleoedd yn ôl angen yn hytrach nag oedran a gallant fod yn hyblyg yn hynny o beth.

C - yn pryderu am blant ag anghenion cymhleth yn yr adeilad arall e.e., y grisiau. Pryderon hefyd ynglŷn â'r anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol, y strwythur staffio a rheoli, un ystafell ddosbarth i fyny'r grisiau, plant yn gorfod mynd mewn lifftiau i fynd allan i chwarae. Bydd angen i'r strwythur staffio sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu'n briodol; bydd angen llawer mwy o amser ar 20 o blant ychwanegol.

JH - cyflogir staff gan yr ysgol gyda staff ac adnoddau yn cael eu hariannu'n llawn gan yr ALI. Mae ysgolion sydd â darpariaeth CAA yn canfod ei fod yn dod ag arbenigedd a chyfleoedd ychwanegol i'r ysgol gan ganiatáu datblygu model mwy hyblyg dros gyfnod o amser sydd o fudd i ystod ehangach o blant. Cyfleoedd i weld sut y gall plant mewn CAA elwa ar y prif ffrwd hefyd. Mae athro a 2 gynorthwydd addysgu i bob dosbarth yn safonol ond bydd angen i lywodraethwyr weithio drwy hyn wrth sefydlu'r ganolfan.

Pennaeth – byddai cyfleoedd i drosglwyddo sgiliau. Y gobaith yw y byddai'n cynnig cyfleoedd hyblyg i staff sy'n gweithio yn yr ysgol ar hyn o bryd wneud cais i weithio yno.

JH – er bod cyfyngiadau enfawr ar hyn o bryd, byddai'n werth ymweld â chanolfannau presennol. Agorodd Ysgol Gynradd Marlborough dydydd dosbarth a lenwodd bron yn syth; mae'r uned yno'n mynd yn dda iawn ac yn darparu model hyblyg cryf.

C - Beth am fannau ymgynnull tân? Rydym fel arfer yn cyfarfod yn yr iard chwarae

MDF - byddai angen ail edrych ar hynny, fel rhan o'r drefn arferol.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd MDF i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (Cyflawniad a Chynhwysiant), Rachel Burgess Willis (CTY), llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Willows

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Michele Duddridge-Friedl (MDF) y cyfarfod, croesawodd y llywodraethwyr a chyflwynodd y swyddogion.

Dwedodd MDF fod nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

Rhoddodd BA gyflwyniad PowerPoint yn nodi manylion y cynnig yn seiliedig ar gynnwys y ddogfen ymgynghori ar gyfer newidiadau arfaethedig yn y sector Anghenion Dysgu Cymhleth 11-19 oed ac yn benodol yr ehangu ar y ddarpariaeth yn Ysgol Uwchradd Willows.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Willows?
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth ADC/CSA presennol 11 - 19
- Y galw am leoedd ADC/CSA 11 - 19
- Niferoedd disgyblion yn Ysgol Uwchradd Willows
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Holi ac Ateb

Gwahoddodd MDF gwestiynau gan y llywodraethwyr.

Nodir y cwestiynau a holwyd gan y llywodraethwyr mewn *print italig* isod gydag ymateb y swyddog yn syth oddi tanodd.



C – A yw'r Cyngor wedi meddwl yn lle fydd y ganolfan? A fydd yn yr ystafelloedd dosbarth presennol?

A: Bydd yn ofod penodol a adeiladwyd ar ei gyfer, ar hyn o bryd nid yw wedi'i gynllunio'n fanwl.

C – Mae chwe milltir yn ffordd bell i blant deithio (mae'n rhaid i rai disgyblion deithio'n bell o fewn y dalgylch) felly mae dod â'r ysgol yn nes at fwy o blant yn beth da.

A- Rydym yn croesawu'r holl sylwadau a syniadau ar y cynnig a byddem yn eich annog i gynnwys unrhyw bwyntiau yr hoffech eu codi yn eich ymateb ffurfiol. Rydym yn croesawu cymaint o ymatebion â phosibl.

C – Sut y dylem ymateb i'r ymgynghoriad?

A: Byddem yn disgwyl gweld ymateb ffurfiol gan y Corff Llywodraethu.

C- Byddwn yn ymateb fel CLI ac yn unigol.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd MDF i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (Cyflawniad a Chynhwysiant), Louise Flynn (AD), Rachel Burgess Willis (CTY)

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Michele Duddridge Friedl (MDF) y cyfarfod, croesawu'r staff a chyflwyno swyddogion.

Dwedodd MDF fod nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

Cyflwynodd MDF PowerPoint yn nodi manylion y cynnig:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir (Ysgolion y 21ain Ganrif) Gweledigaeth Caerdydd 2030
- Digonolrwydd lleoedd
- Darpariaeth bresennol 11-19
- Y Galw am leoedd Anghenion Dysgu Cymhleth CSA 11-19
- Galw am leoedd yn Ysgol Uwchradd Willows
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Ystyriaethau trafnidiaeth
- Buddion y cynnig
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Dywedodd Louise Flynn (LF) fod y cynnig yn gadarnhaol. Byddai trafodaethau rheolaidd gydag undebau llafur, staff a chyrrff llywodraethu gydol y broses.

Holi ac Ateb

Gwahoddodd MDF gwestiynau gan staff.

Nodir y cwestiynau a ofynnwyd gan staff mewn *print italig* isod gydag ymateb y swyddog yn syth oddi tanodd.

C – Pwy fydd yn goruchwyllo diogelu disgyblion a staff?

A: Bydd disgyblion yn rhan o'r ysgol, felly bydd yn fater i'r uwch dîm Arweinyddiaeth. Bydd yr holl staff yn cael eu cyflogi gan yr ysgol.



C – Beth fydd y gymhareb disgybl/staff ar gyfer y CAA?

A - Ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol, 1 athro fesul 10 disgybl fydd hi, ynghyd â Chynorthwy-ydd Addysgu.

C - Beth fydd maint y dosbarthiadau?

A – Dim mwy na 10 disgybl y dosbarth.

C – A oes unrhyw un o'n disgyblion yn cael mynd i CAA yr Eglwys Newydd Ôl-16?

A – Mae hyn yn rhywbeth a allai fod yn opsiwn. Efallai y bydd rhai hefyd am fynd i'r coleg ond efallai y byddent am gael lle mewn ysgol yn gyntaf.

C – A oes lle i ychwanegu gofod?

A – Mae gan Willows le dros ben ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddem yn ystyried unrhyw geisiadau neu bryderon a leisiwyd yn eich ymateb ar y cyd, pe baech yn teimlo bod angen hyn ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd MDF i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Llanisien
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (11-19 oed)
17 Ionawr 2022 am 5.00pm



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jenny Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Ian Warburton (CTY), 8 Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Llanisien

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr.

Rhoddodd BA gyflwyniad yn amlinellu manylion y newidiadau arfaethedig yn y sector ADC/CSA 11-19 oed ac yn benodol ehangu'r ddarpariaeth CSA yn Ysgol Uwchradd Llanisien.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanisien?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth ADC/CSA presennol 11 - 19
- Y galw am lleoedd ADC/CSA 11 - 19
- Niferoedd disgyblion yn Ysgol Uwchradd Llanisien
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb a roddwyd

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y llywodraethwyr

- C** **A fydd y lleoedd ar gael o fis Medi 2022; beth yw statws y gwaith adeiladu sydd ei angen?**



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Llanisien
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (11-19 oed)
17 Ionawr 2022 am 5.00pm



- RP Mae llety dros dro yn cael ei gyrchu fel ei fod yn ei le erbyn mis Chwefror; mae'r adeilad parhaol yn mynd rhagddo'n dda a dylai fod ar waith erbyn mis Medi 2022.
- JH Mae'r ganolfan eisoes yn lletya 45 o ddisgyblion ac felly mae angen rhoi darpariaeth barhaol ar waith.
- C Mae'r cynllun yn lleihau parcio, a oes cynllun i ddarparu parcio ychwanegol? Byddai man parcio mezzanine yn darparu lleoedd ychwanegol ar yr un ôl troed.**
- RP Edrychaf ar y cynlluniau, ond dylai ystyriaethau parcio fod yn rhan o'r cais cynllunio. Byddaf yn cysylltu nôl gydag unrhyw fanylion sydd ar gael.
- C Mae cymhlethdod o ran anghenion yn cynyddu. A fydd ariannu'r CAA yn adlewyrchu'r adnoddau sydd eu hangen?**
- JH Rydym yn cydnabod bod cymhlethdod o ran anghenion wedi cynyddu y tu hwnt i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol ar gyfer y ddarpariaeth. Rydym yn bwriadu darparu lleoliad sy'n addas iawn i'r ddarpariaeth, gan ddyrannu mwy o ddisgyblion y gellir eu lletya mewn darpariaeth prif ffrwd. O ran cyllid, bydd model ariannu ysgolion arbennig yn berthnasol i ddarparu lefel dda o adnoddau ariannol.
- C Mae'r adnodd presennol yn lletya 45 o ddisgyblion ar hyn o bryd, pa mor gynaliadwy fydd y nifer hwn wrth edrych ymlaen?**
- JH Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw gynlluniau i dderbyn mwy na 45 o ddisgyblion.

Ni chafwyd cwestiynau pellach.

Gwahoddodd RP y corff llywodraethu i gyflwyno ymateb i'r cynnig ac roedd yn hapus i lywodraethwyr rannu dolenni i'r cynnig.

Diolchodd RP i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Hibah Iqbal (CTY), James Eul (Cyfieithydd), llywodraethwyr Ysgol Glantaf

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr.

Dwedodd MDF fod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar Zoom i ganiatáu cyfieithu ar y pryd gyda chyfraniadau i'r cyfarfod yn Gymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg.

Rhoddodd MDF gyflwyniad yn amlinellu manylion y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ADY.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Yr hyn sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas
- Yr hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gyfun Glantaf
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth ADC/CSA presennol 11 - 19
- Y galw am leoedd ADC/CSA 11 - 19
- Galw am lefydd yn Ysgol Glantaf
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynnig
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb a roddwyd

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y llywodraethwyr.



C - Eisiau cadarnhad a fydd y CAA mwy ei faint i gyd mewn un strwythur newydd?

RP - nid o reidrwydd, rydym yn gynnar iawn yn y broses ddylunio, mae angen inni gyrraedd yr ateb cywir, gallai fod mewn un neu strwythur neu fe allai fod rhywfaint o ddarpariaeth nad yw'n ddarpariaeth CAA yn yr un bloc. Byddem yn gwneud hynny gyda'r ysgol.

C - O ran cyllid, ar ba bwynt yr ydym yn deall yr effaith ar gyllideb yr ysgol gan ein bod am i hynny fod cyn lleied â phosibl neu'n niwtral

RP - Mae angen gweithio drwy hynny'n iawn

JH - Mae'n dal yn gynnar ond byddwn yn cael y sgyrsiau hynny gyda chi am y model ariannu ac efallai y symudwn at fodel ariannu ysgolion arbennig. Ein nod yw iddo fod yn niwtral o ran cost ac o fudd i'r ysgol.

C - Pryd fyddem yn deall yr effaith honno?

JH - gallai hyn ddechrau drwy edrych ar sut mae'r model staffio yn edrych, recriwtio staff a chyllid yn ddiweddarach eleni wrth i'r CAA agor yn 2023.

C - Mae cyflwr yr ysgol wedi'i ddisgrifio fel band C - gwael gyda diffygion mawr, beth yw cynllun y cyngor ar gyfer hynny?

RP - Nid ydym wedi dechrau cynllunio ar gyfer Band C eto, wrth ddwyn hynny ger bron bydd angen inni ymgynghori'n sylweddol ag ysgolion eraill yn yr un sefyllfa. Rwy'n goruchwyllo'r rhaglen asedau, yr ydym ac rydym wedi bod yn buddsoddi yn yr ysgol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae gennym anghenion sylweddol ledled y ddinas. Bu tanfuddsoddi hanesyddol ers 40-50 mlynedd.

MDF - Nid y cyflwr yn unig ond mewn cyd-destun strategol ehangach mae'n ymwneud â sut rydym yn cynyddu nifer y lleoedd Cymraeg ledled Caerdydd fel bod lleoedd cyfrwng Cymraeg priodol ar draws y ddinas, a'r prif arf yw'r Rhaglen Ysgolion y 21ain ganrif. Bydd honno'n edrych ar ddigonolrwydd a chyflwr, weithiau maent yn cyd-daro.

C - A ydych wedi tanbriso'r angen mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yng Nghaerdydd o gofio bod nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg gynradd yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sylweddol?

RP - Dyma'r cynnig cychwynnol mewn cyfres o gynigion. Rydym yn hynod ymwybodol o'r anghenion sydd am ddod ger bron. Rydym yn ceisio gyrru'r agenda yn ei blaen, mae gennym agenda ADY sylweddol ac rydym yn disgwyl mwy o waith i ddod drwedd dros y blynyddoedd nesaf.

MDF - Nodwyd hyn yn y CSCA drafft yn ddiweddar. Gallwn weld y bydd angen inni gynyddu dros dro, ond yn y tymor hir byddai'n golygu buddsoddiad Band C. Rydym yn hyderus bod capasiti gennym yn y sector Cymraeg ym mlwyddyn 7. O ran niferoedd disgyblion Cymraeg, mae carfanau mawr yn dod drwedd o'r ysgolion cynradd, rydym yn disgwyl iddynt gael lleoedd ond nid yw hynny'n ystyried y rhai sy'n symud ganol y flwyddyn na'r rhai sy'n trosglwyddo o'r sector Saesneg i'r sector Cymraeg. Os byddwn yn hyrwyddo trochi Cymraeg gallai hynny gynyddu wrth symud ymlaen, mae angen sicrhau ein bod yn gallu cynnig lle i'r rhai sy'n dod. Angen siarad â chyrrff llywodraethu yn y tymor byr, ac ar gyfer y tymor hir mae angen rhywbeth mwy sylweddol arnom ar



gyfer ysgogi twf yn ehangach. Rydym am i 25% fynd i ddosbarthiadau derbyn erbyn 2031, os bydd rhagor na hynny, bydd yn cael effaith ganlyniadol

C - Rwy'n golygu darpariaeth CAA yn benodol. Yn y CSCA, roedd yn dweud y byddai tair darpariaeth CAA arbenigol. Nid Ysgol Glantaf yn unig ond addysg Gymraeg yn ei chyfanrwydd. Os oes angen cymorth ADY ar rywun, dylent gael y gefnogaeth honno yn yr Gymraeg. Mae cynnydd sylweddol ac nid yw 60 yn ddigonol i gwmpasu hynny, a edrychwyd yn fanwl ar hynny? Am ba hyd yr ydym yn edrych? Mae potensial i bobl ifanc ADY lithro drwy'r rhwyd a mynd drwy'r sector Saesneg yn lle hynny.

MDF- Rydym wedi cynnwys gwaged ar gyfer mwy nag Ysgol Glantaf yn y CSCA. Ond nid oes angen lleoliad arbenigol ar bob plentyn sy'n derbyn datganiad. Rydym am ymateb iddynt mewn modd lle nad oes angen iddynt adael addysg Gymraeg i gael mynediad at ddarpariaeth ADY. Nid yn unig ar gyfer disgyblion yn y system yn barod ond hefyd ar gyfer disgyblion yn y dyfodol.

JH - Mae'r niferoedd ar gyfer Ysgol Glantaf yn iawn ac o flaen y galw dros y blynyddoedd nesaf, ond yn gyffredinol rydym yn ailedrych ar y data hwnnw'n rheolaidd. Rydym yn edrych ar ein prosiectau, hefyd yn edrych ar y sector cynradd, cyfle i ehangu yn Ysgol Pwll Coch ac i agor ail ddarpariaeth CAA. Cydnabod yr angen am fwy o ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd ag anghenion lechyd a Lles Emosiynol (ILIE). Gwaith sydd ar y gweill yw hwn, mae angen inni olrhain amcanestyniadau a data drwy'r amser, fel ein bod ar y blaen ac yn aros ar y blaen. Mae angen inni gael mwy o leoedd nag sydd eu hangen fel y gallwn annog teuluoedd i'r sector a diwallu eu hanghenion.

C - O ran 60 o leoedd, beth yw'r rhesymau y gwrthodwyd Ysgol Plasmawr ac Ysgol Bro Edern?

MDF- Nid oes canolfan gonfensiynol gan Ysgol Plasmawr ond mae'n cefnogi disgyblion sydd â lefel uwch o anghenion ILIE. Yn y tymor hir mae angen inni weld mai'r model hwnnw yw'r model gorau o hyd neu gynnig darpariaeth ychwanegol. Does gan Ysgol Bro Edern ddim llawer o le ychwanegol, ar y cyfan, mae'r safle yn weddol gyfyngedig. Byddai darpariaeth barhaol yn fwy heriol. Mae gan Ysgol Glantaf fwy o le, ac mae'r arbenigedd yn Ysgol Glantaf ac mae'n gwneud gwaith da, felly mae cyfle i wneud y mwyaf o hynny ac adeiladu arno. Ond nid yw hynny yn golygu nad ydym yn credu y dylai fod ar gael ym mhob un o'r tair ysgol uwchradd Gymraeg. Yn y tymor hir byddem yn edrych ar leoliad, maint, cwmpas ychwanegol ar gyfer CAAau.

C - Sonioch am fwy o draffig, mae hyn yn bryder mawr i mi fel rhiant. Nid ydym am gael mwy o draffig ac ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, nid yw'n teimlo'n iawn i gael mwy o draffig oherwydd canolbwyntio ar un safle cyfrwng Cymraeg.

RP - Mae hynny'n bwynt dilys. Rydym yn gweithio o fewn ffiniau cyfyngiadau. Dyna pam mae angen inni weithio drwy gynigion strategol tymor hwy gyda chynlluniau cyfalaf yn y dyfodol, fel bod y dull cyfannol cywir gennym. Ar hyn o bryd mae gormod o gyfyngiadau ar safleoedd uwchradd Cymraeg, felly mae teithio llesol yn bwysig iawn. Mae angen ystyried problemau priffyrdd a pharcio fel rhan o'r cynllun. Nid ymgynghoriad cynllunio yw hwn. Mae ein hymgyngoriadau statudol yn cynnwys priffyrdd. Ond nid ydym yn y sefyllfa honno eto.



C - Chwilfrydig ynghylch o le y daw disgyblion ar gyfer Medi 2023. A ydynt ar gyfer lleoedd y rhai sydd tu allan i'n hawdurdod lleol? A oes cynllun ar gyfer rhifau'n dod drwodd?

JH - Mae angen darpariaeth arbenigol ar ddisgyblion ar wahanol adegau mewn addysg. Mae rhai yn gwneud yn dda iawn yn y brif ffrwd ond angen trosglwyddo i ddarpariaeth CAA ym mlwyddyn 7. Gall ddigwydd yn unrhyw flwyddyn, gwyddom am rai'n dod i'r uwchradd nawr a fyddai'n elwa. Rydym yn rhoi pethau ar waith i'w cefnogi nawr, mae rhai sy'n iawn mewn ysgolion cynradd prif ffrwd, ond gallwn ragweld y bydd angen cymorth arnynt yn y sector uwchradd. Yr un fath ag yn y sector Saesneg.

RP - Yn amlwg, mae angen gweithio gyda'r ysgol a chi i sicrhau bod y newid o 30 i 60 yn cael ei reoli'n llwyddiannus. Rydym yng nghamau cynnar y dyluniad a byddem yn datblygu hynny ymhellach yn ddiweddarach.

C - Faint sydd wedi symud i'r sector cyfrwng Saesneg o'r cynradd yn dilyn diagnosis? Ond yn gwerthfawrogi cynlluniau ar gyfer mwy o ddarpariaeth gynradd.

JH- Rydym yn olrhain hyn. Roeddem wedi gweld plant yn symud o'r Cylch Meithrin i'r cyfrwng Saesneg ond hefyd wedi eu gweld nawr yn mynd i Ysgol Pwll Coch. Roedden ni'n arfer gweld teuluoedd yn meddwl ymlaen ond nawr rydyn ni'n gweld mwy yn y sector cynradd Cymraeg yn aros sy'n gadarnhaol iawn. Mae gan deuluoedd fwy o hyder yn y sector prif ffrwd i ddiwallu anghenion disgyblion.

C - Pa mor hyderus ydych chi y bydd modd cyflawni'r hyn rydych chi'n ei awgrymu? Mae'n ymddangos yn uchelgeisiol. Yn croesawu'r potensial i ddatblygu lleoliad cynradd Ysgol Pwll Coch, yng nghyd-destun teithio llesol oni fyddai'n dda datblygu rhywbeth yng ngogledd yn ogystal â de'r ddinas? Plant yn y gogledd yn teithio i'r de ar gyfer y CAA.

RP- Gyda dogfennau mae'n rhaid i ni roi dyddiad ynddynt, gallwn symud dyddiadau yn y dyfodol, ond ni allwn eu dwyn ymlaen yn gynt. Mae angen sylweddol yn dod drwodd ac nid yw'r safle'n ddelfrydol o safbwynt llifogydd. Rydym am gyflwyno'r cynllun cywir nid cynllun brysiog, sy'n dda ar gyfer y tymor hir. Gallai hynny gynnwys y bloc cyfan ar gyfer CAA mewn pryd ar gyfer Medi 2023, efallai y bydd angen inni wthio hynny ymlaen ar gyfer y cynllun parhaol. Rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer cynradd. Os gallwch chi, fel corff llywodraethu, wneud ymateb ffurfiol ar gyfer y cynnig byddai hynny'n dda, rydym yn chwilio am draws-doriad da ar draws y ddinas.

Pennaeth - Mae pwyntiau'r corff llywodraethu yn ddiddorol. Gyda rhieni'r dyfodol yn gwneud dewis o blaid addysg Gymraeg. Diffyg buddsoddiad cynradd. Os ydych chi'n riant i blentyn ag ADY, gallaf weld ble mae'r adnoddau ac eisiau symud plant i amgylcheddau'r 21ain Ganrif. Mae'n newyddion da iawn i Ysgol Glantaf gael yr amgylchedd 21ain Ganrif hwnnw. Ond mae bwlch yn y ddarpariaeth gynradd yma yr ydym am ei llenwi cyn gynted â phosibl. Os yw rhieni'n penderfynu pa ysgol i fynd iddi, o edrych ar y buddsoddiad ADY ar draws y ddinas - nid yw addysg Gymraeg ynddi heblaw am Ysgol Glantaf. Os ydych chi yn Nhremorfa neu Butetown, nid yw'n helpu ei fod ar gael yn Ysgol



Glantaf. Hefyd yn pryderu am gapasiti ar y safle, 1500 ond yn dynn. Gofynnwn i chi edrych yn greadigol fel nad yw disgyblion yn cael eu gwasgu i gorneli. Ni fydd sgôr C yr adeilad yn helpu gyda gorlenwi. Rydym yn hapus iawn am y CAA yn Ysgol Glantaf ond yn cydweithio i ddatrys gorlenwi a thwf addysg Cymraeg fel bod y neges yn cael ei chlywed fod addysg Gymraeg yn gynhwysol, rydym yn croesawu pob disgybl, waeth beth fo'u hoedran. Eisiau parhad o ran cefnogaeth. Byddwn yn ymateb fel corff llywodraethu i'r ymgynghoriad.

RP - Mae cynllunio'n mynd i'r cyfeiriad cywir, rydym yn ceisio dal i fyny ac aros ar y blaen. Rhaid i'r sefyllfa strategol ddod gyda Band C, mae pwyntiau wedi'u nodi yn y CSCA. Mae modd i chi ymateb i'r ymgynghoriad. A oes unrhyw beth arall gan y staff yr oeddech am eu codi?

Pennaeth - Yn falch o glywed y bydd gennym adeilad sy'n deilwng o'r disgyblion hyn, nid yw'r adeilad sydd gennym yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yr 21ain ganrif. Gobeithio pan fyddwn yn cynllunio'r adeilad y bydd yr athrawon a'r pennaeth sy'n delio â'r disgyblion yn cael mewnbwn sylweddol ac y bydd pobl yn gwrandao ar yr anghenion, y gwyddom sydd gan y disgyblion. Mae safle Ysgol Glantaf yn dynn, cyfyngedig. Mae Ysgol Glantaf fel Ysgol Bro Edern wedi cael ei gwthio i'r gornel. Cofiaf fod y broblem yn nes at yr afon nag oedd o'r blaen. Rhywbeth i'w wneud â dŵr yn ei gyrraedd. Hefyd yn teimlo eich bod yn optimistaidd gyda'r amserlen; pwysig bod gan y staff fewnbwn. Gobeithio y bydd y CAA mewn un adeilad, i gyd mewn un lle. Ar hyn o bryd mae'n anodd at ddibenion hylendid y disgyblion hyn. Angen cael cyfleusterau toiled a chawod da, mae gan ddisgyblion ADY ac anghenion corfforol. Lle i 60 swnio'n fach iawn. Mae angen i chi edrych ar ddarpariaethau cynradd ac Ysgol Glantaf. Ddim yn ddigonol yn y tymor hir.

RP - Gwerthfawrogi sylwadau cadarnhaol. Meddyliwch ein bod yn dechrau mynd i'r cyfeiriad cywir. Ddim yn rhagweld mai dyma'r unig gynnis a ddaw ymlaen. Mae cyfyngiadau sylweddol ar y safle, rydych chi'n gywir. Wedi edrych ar arian loteri ar gyfer neuadd chwaraeon. Angen bod yn greadigol. Bydd rhagor o gyfyngiadau llifogydd a ddaw ymhen 1.5 mlynedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r pennaeth a'r tîm a staff arbenigol i sicrhau bod y gofod yn iawn wrth symud ymlaen. Mae gennym gyfarfodydd dylunio eisoes ar y gweill ac mae hynny'r un peth gydag adeiladau newydd, rydym yn llawer mwy cydweithredol gydag ysgolion. Ddim yn siŵr sut roedd yn gweithio o'r blaen ond dyna sut mae hi nawr. Byddwn yn cofnodi eich pwyntiau ac yn ymateb ym mhapur y cabinet. Bu gostyngiad yn y gyfradd enedigaethau, dros 20% o ostyngiad ar draws y ddinas, sydd wedi'i gynnwys yn yr amcanestyniadau, felly rydym yn hyderus gyda'r rheini, ond mae hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir, mae angen inni barhau ar y llwybr hwn.

MDF - Y prif bwyntiau a wnaed gan staff oedd digonolrwydd gweithlu rhugl sy'n siarad Cymraeg, cynlluniau ar gyfer datblygu'r gweithlu a hefyd pam Ysgol Glantaf ac nid ysgolion eraill.

RP - Cytuno â sefyllfa'r toiledau, nid yw'n addas fel y mae. Wedi ymrwymo i ddatrys hynny.

Pennaeth - Diolch i bawb am fynychu.



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Corff Llywodraethu Ysgol Glantaf
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (11-19 oed)
18 Ionawr 2022



Nid oedd unrhyw gwestiynau/sylwadau pellach. Diolchodd RP i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Ceri Tanti (CTY), staff Ysgol Glantaf

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd yr aelodau staff.

Dywedodd MDF fod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar Zoom i ganiatáu cyfieithu ar y pryd gyda chyfraniadau i'r cyfarfod yn Gymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg.

Rhoddodd MDF gyflwyniad yn amlinellu manylion y newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth ADY.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Yr hyn sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas
- Yr hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gyfun Glantaf
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth ADC/CSA presennol 11 - 19
- Y galw am leoedd ADC/CSA 11 - 19
- Galw am lefydd yn Ysgol Glantaf
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynnig
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb a roddwyd

Gwahoddodd RP gwestiynau gan staff.



C - croesawu'r buddsoddiad mewn ADY ar draws y ddinas. Cwestiynu pam nad yw buddsoddiad ADY yn cynnwys ysgolion cynradd Cymraeg, a hefyd y twf o ran lles emosiynol, gan fod yr holl leoedd ILIE ychwanegol yn cael eu rhoi yn y sector Saesneg.

RP - wrth gyflwyno unrhyw ddarpariaeth, mae angen cydbwysu y galw yn erbyn capasiti cyn buddsoddi. Mae'r Cyngor wedi bod yn y sefyllfa lle'r ydym ar fan cychwyn a chynigion ar gyfer y sector Cymraeg wedi eu nodi yn y CSCA. Mae'r buddsoddiad yn hwyr, nid yw wedi'i ddatblygu gydol y sector.

MDF – poblogaeth llawer mwy amrywiol yn mynd i addysg Gymraeg. Yn y gorffennol gwelwyd canran is o blant ag ADY sylweddol yn dechrau ar addysg Gymraeg ond yn ddiweddar mae'r sefyllfa wedi newid. Fel y nodwyd yn y CSCA, yn edrych ar gynyddu'r ddarpariaeth yn Ysgol Plasmawr a hefyd ar lefel gynradd. Cyfleoedd i sefydlu mwy o ddarpariaethau a gwasgaru ar draws y ddinas. Angen gwneud y defnydd gorau o'r ddarpariaeth ar draws y ddinas. Bydd angen i'r ddarpariaeth dyfu dros y 10 mlynedd nesaf.

C - yn cymeradwyo'r dyhead, fodd bynnag, mae hwn yn ymgynghoriad mawr, nid oes digon o ddarpariaeth yn y cynradd, ac yn yr achos hwn, bydd plant yn gadael y sector yn yr oedran cynradd ac yn symud i'r sector Saesneg.

JH – pwynt pwysig. Dyma'r unig gynnig cyfrwng Cymraeg yn yr ymgynghoriad presennol, fodd bynnag, mae cynigion ADY eraill yn cael eu paratoi i'w dwyn ger bron yn fuan. Yn yr oedran cynradd mae plant sydd angen darpariaeth yn barod, ac mae JH mewn trafodaethau gyda phenaethiaid. Mae dosbarth lles, ond nid yw'r math iawn o leoedd ganddo; mewn trafodaeth am yr hyn sydd ei angen ac a oes angen model gwahanol ar gyfer addysg Cymraeg. Edrych ar frys ar hyn, gyda'r bwriad o fwrw ymlaen y tymor hwn. Pwysleisiodd JH fod hyn yn cael ei gyflwyno yn y tymor byr yn hytrach na bod hyn yn rhywbeth na fydd yn cael ei roi ar waith am amser maith. Angen nodi ysgol gynradd a fydd â chanolfan awtistiaeth i fwydo'r ganolfan uwchradd a gynnig ar gyfer Ysgol Glantaf.

C – a oes unrhyw gynlluniau ar waith ar gyfer datblygu'r gweithlu, gan fod staff ADY sy'n siarad Cymraeg yn brin.

JH - cynhaliwyd sgwrsiau gydag Ann Hodgson ynghylch datblygu arbenigedd awtistiaeth. Yn awyddus i gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff. Hefyd wedi siarad ag ysgolion gan gynnwys Ysgol Glantaf am gefnogi staff sydd am wneud gwaith ôl-raddedig.

C – cwestiwn ynghylch dichonoldeb yr amserlen; nodau ymgynghori ar gyfer mis Medi 2023. Cafodd y CAA presennol ei ehangu beth amser yn ôl i hyd at 30. Gofyn pryd y bydd y gwaith yn digwydd ac a yw'n cael ei ariannu, gan fod adeilad newydd yn cael ei gynnig. Disgyblion y CAA presennol mewn adeiladau dros dro.

Cytunodd RP nad yw'r adeiladau hyn yn ddelfrydol. Gallai fod angen ymestyn yr amserlenni; gallwn symud dyddiad yn ôl ond nid ei dynnu ymlaen â'r cynigion hyn felly weithiau mae'r dyddiad a gaiff ei nodi yn gynt nag sy'n debygol. Fel rhan o'r cynigion



**Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Staff Ysgol Glantaf
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (11-19 oed)
18 Ionawr 2022**



dylunio, byddai'n darparu llety dros dro erbyn Medi 22; o bosib yn gallu bod yn hyblyg, edrych ar weithredu graddol; cael amserlen gychwynnol o ran adeiladu Hefyd, mae rhai cyfyngiadau ar y safle gan gynnwys materion llifogydd, sy'n golygu y dylem fwrw ymlaen yn gyflym, gan gofio cyfyngiadau cynllunio sydd ar fin newid. Mae angen sylweddol yn dod drwodd, felly mae angen bwrw ymlaen cyn gynted â phosibl.

Ni chafwyd cwestiynau pellach.

Anogodd RP y staff i gyflwyno eu hadborth, boed hynny'n gefnogol neu yn erbyn.

Amlinellodd MDF y gellir rhoi adborth i'r ymgynghoriad ar-lein drwy'r ffurflen neu drwy e-bost a bod ymatebion grŵp yn cael eu cyhoeddi'n llawn ond bod ymatebion unigol yn ddienw ac yn cael eu crynhoi.

Diolchodd RP i'r staff am eu hamser a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Jenny Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Neil Hardee (ALI), Ceri Tanti (CTY), Llywodraethwyr

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Ymunodd swyddogion â chyfarfod o Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin, sy'n cynnwys ysgolion gan gynnwys Tŷ Gwyn.

Anfonwyd y cyflwyniad ymlaen llaw a chadarnhaodd y llywodraethwyr fod hwnnw wedi dod i law.

Aeth RP drwy'r cyflwyniad a oedd yn cwmpasu:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth bresennol – cyfnod oedran cynradd
- Darpariaeth bresennol – cyfnod oedran uwchradd
- Galw am leoedd
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynnig
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai ymateb drafft y corff llywodraethu yn cael ei ddosbarthu i'r corff llywodraethu yr wythnos nesaf er mwyn iddynt ymateb erbyn yr amserlen.

Cwestiynau / Sylwadau ac ymateb a roddwyd

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y llywodraethwyr



C - Pennaeth Ysgol Tŷ Gwyn): Pryder am raddio cyflwr categori C

RP – categoreiddio yn cael ei wneud ar adegau penodol mewn amser, felly nid yw o reidrydd yn adlewyrchu'r cyflwr presennol.

C - A yw dysgwyr yn debygol o fod â'r un math o anghenion cymhleth â'r disgyblion presennol neu'n llai dwys?

JH – gallai lefel yr angen amrywio yn dibynnu ar y plant sy'n dod ymlaen; disgwyliad i'r cylch gwaith ar gyfer Tŷ Gwyn aros yr un fath yn fras; ystod debyg iawn a dim bwriad i hyn newid. Mae cymhlethdod anghenion wedi bod yn cynyddu ac nid yw'n ymddangos ei fod wedi dod i ben eto.

Wedi cael pedwar disgybl newydd, hyd at 207 gyda disgybl yn dechrau'r wythnos hon. Wedi canfod bod angen dosbarthiadau o dri ar rai plant ag awtistiaeth wirioneddol ddwys, sy'n cael effaith am ei fod yn anodd i'r staff.

C – a fydd hyn yn cael effaith ar y fformiwla ariannu? Sut y bydd hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth iechyd sy'n gweithredu ar hyn o bryd? Cymorth ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r tymor? Yr amgylchedd ei hun – sut rydym yn edrych ar ofodau, sut rydym yn strwythuro'r ysgol yng ngoleuni'r cymhlethdod.

RP – gweithgorau yn parhau o fewn y Cyngor, hefyd yn edrych ar y gyllideb mewn ysgolion arbennig. O ran y cynigion penodol hyn, byddid fel arfer yn ystyried gwneud y rhain yn fwy ymlaen llaw, mae'r un hwn ychydig yn ôl-weithredol.

Soniodd JH fod y ddarpariaeth oedolion eisoes wedi dechrau. Mae trafodaethau gydag lechyd wedi'u cynnal. Mae cynnydd wedi bod o ran cynllunio a pherthynas waith ag lechyd. Bydd darpariaeth y tu allan i'r tymor yn gweithio gyda'r ysgol ynglŷn â pha ddarpariaeth y gellir ei rhoi ar waith.

C - a yw'r ysgol yn debygol o gael cynnydd yn y fformiwla ariannu?

NH – wedi gwneud llawer o waith o ran cyllid ar draws pob sector. Y casgliadau sy'n benodol i ysgolion arbennig oedd nad yw twf yn y gyllideb wedi bod mor fawr ag y bu yn y brif ffrwd o ran twf fesul disgybl. Mae cymharu ag awdurdodau eraill yn anodd gan fod gan Gaerdydd fwy o ysgolion arbennig (7 o'r 40 ledled Cymru). Yr argymhelliad cyntaf yw mwy o gyllid ar gyfer ysgolion arbennig yng nghyllideb y flwyddyn nesaf. O ran amseru, pennir y gyllideb ym mis Mawrth. Llawer o waith i'w wneud gan gynnwys trafodaeth fanwl gyda'r pennaeth gweithredol o ran dysgwyr sy'n dod i'r ysgol, weithiau yn ystod y flwyddyn sy'n troi allan i fod ag anghenion uwch nag y cyllidebwyd ar eu cyfer. Roedd pob grŵp yn cytuno y dylai ysgolion arbennig fod yn flaenoriaeth.

Bu'n rhaid i RP a JH adael y cyfarfod ar y pwynt yma i fynd i'r cyfarfod cyhoeddus ond cynigiont gyfarfod â'r Pennaeth neu lywodraethwr arall yn ddiweddarach os oedd angen.

Mynegodd llywodraethwr eu hanfodlonrwydd bod yn rhaid i'r swyddogion adael gan fod ganddynt gwestiynau i'w gofyn na fyddai NH yn gallu ymateb iddynt; cwestiynau megis ble bydd y disgyblion yn mynd a chydabyddiaeth bod angen



amser ar staff i addasu i'r plant sy'n dod i mewn, yn enwedig os yw'r plant ag angen uwch arnynt, gan mai'r staff y mae angen iddynt ddelio â hwy yw'r staff mwy profiadol. Poeni am wanhau'r staff. Gall fod yn anodd recriwtio staff o'r safon sydd eu hangen.

NH – yn bwysig bod cwestiynau'n cael eu gofyn o safbwynt llywodraethwr ac o safbwynt rhieni. Cais i drefnu cyfarfod arall gyda'r Pennaeth a'r llywodraethwyr perthnasol. Roedd Clerc y Llywodraethwyr wedi cofnodi'r cwestiynau i'w codi. Byddwch yn sicr bod y Cyngor yn gefnogol i'r ysgolion arbennig a bydd yn cyfarfod â'r Pennaeth i drafod cynigion staff. Weithiau gyda'r cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth os gwneir hynny'n gynharach fel y soniodd RP, gellir recriwtio staff cyn i blant ag angen uchel ddechrau yn yr ysgol a chaniatáu uwchsgilio staff.

C - Coleg Star ôl-19; Dwedodd Gyrfa Cymru fod cyllid yn newid, yn arfer dod gan Lywodraeth Cymru, ond bellach yn dod drwy benderfyniad gan y Cyngor; methu cael ateb clir ar hyn, a gwybod bod rhieni eraill yn yr un cwch.

Gofynnodd NH am i gwestiwn gael ei drosglwyddo iddo, oherwydd mae yna ateb i hyn, a bydd yn ymateb drwy e-bost.

C - dechreuodd fel llywodraethwr yn 2015. Cwestiwn bob amser yw pam fod anghenion arbennig wedi eu tanariannu cymaint, yn gyffredinol. Eisiau gwneud sylwadau ar egwyddorion yn y ddogfen – mae llawer o faterion yn codi yn sgil tanariannu. Efallai nad oes mwy o le, staff nac adnoddau ychwanegol erbyn i ddisgyblion newydd ddechrau, nid ydynt am i staff fod o dan fwy o bwysau nag y maent eisoes.

NH – mae'r Cyngor yn gwrando; ond yn gallu gwneud hyn a hyn gyda'r adnoddau sydd gennym, ond byddwch yn sicr ein bod wedi cwrdd â'r Pennaeth, wedi gwrando ar anghenion, ac yn cyfeirio'n ôl at y Fforwm Cyllideb Ysgolion i edrych ar gyllidebau ysgolion arbennig gyda'r nod o wella'r sefyllfa.

C – mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn allweddol, am i'r Cyngor gefnogi'r datganiad hwn gyda chymau gweithredu.

Pennaeth - yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

C - mae cynigion yn dangos cynnydd graddol; pam fod Tŷ Gwyn yn cymryd un ergyd yn unig?

NH – ei ddealltwriaeth yw y byddai ganddo gapasiti ar gyfer 240.

Pennaeth - cytuno, yn seiliedig ar gapasiti o 240, ond yn edrych ar gynyddu'n fwy graddol.

Diolchodd y Cadeirydd i NH am fynychu ac ailadroddodd yr hoffent gael cyfarfod pellach gyda RP a JH.

Gadawodd swyddogion y cyfarfod.



Rhaglen Ysgolion
Cefnfarfod Rhithwir Corff Llywodraethu Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (3 -19 oed)
19 Ionawr 2022





**Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Staff Ysgol Tŷ Gwyn
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (3-19 oed)
25 Ionawr 2022 am 3:30pm**



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Jo Phillips (CTY), 41 Aelod o Staff Tŷ Gwyn

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Rhoddodd MDF gyflwyniad yn amlinellu manylion y newidiadau arfaethedig yn y sector 3-19 oed ADC/CSA ac yn benodol ehangu'r ddarpariaeth yn Ysgol Tŷ Gwyn.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth ADC/CSA presennol 3 - 19
- Y galw am leoedd ADC/CSA 3 - 19
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Tŷ Gwyn?
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb a roddwyd

Gwahoddodd RP gwestiynau gan staff.

Nid oedd unrhyw gwestiynau.

Gwahoddodd RP y staff i gyflwyno ymateb i'r cynnig. Cytunodd y staff i gydweithio ar gynhyrchu un ymateb ffurfiol.

Rhannodd MDH y ddolen i'r arolwg ar-lein.



**Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Staff Ysgol Tŷ Gwyn
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (3-19 oed)
25 Ionawr 2022 am 3:30pm**



Diolchodd RP i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.



**Rhaglen Ysgolion
Ysgol Arbennig Meadowbank
Cyfarfod Rhithwir y Corff Llywodraethu
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
11 Ionawr 2022**



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Hibah Iqbal (CTY), staff yr ysgol

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) yn nodi manylion y cynnig:

- Beth sy'n cael ei gynnig
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth bresennol – cyfnod oedran cynradd
- Galw am leoedd – cyfnod oedran cynradd
- Cynnig ar gyfer Ysgol Arbennig Meadowbank
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion trafndiaeth
- Manteision y cynnig
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Gwahoddodd RP gwestiynau gan staff

Cwestiynau ac ymateb

C - Mae'r ddogfen yn dweud na fyddai tarfu ar arweinyddiaeth a llywodraethiant ac y byddent yn gweithio gyda'r ysgol, sut y byddai hynny'n digwydd gyda'r amserlen byr?

RP: Am siarad â'r Pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth a sicrhau cefnogaeth i recriwtio'r cymorth ychwanegol sydd ei angen i ddarparu ar gyfer y twf.

JH: Gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth i nodi derbyniadau cynnar newydd ac yn y dyfodol, yr ystod o anghenion a fydd yn yr ysgol a'r staffio fydd ei angen fel bod ganddynt lais yn y broses honno.



**Rhaglen Ysgolion
Ysgol Arbennig Meadowbank
Cyfarfod Rhithwir y Corff Llywodraethu
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
11 Ionawr 2022**



Pennaeth: Byddwn yn cyfarfod i edrych ar dderbyniadau a'r opsiynau o ddsbarthiadau ychwanegol unigol ac rydym yn edrych ar staffio a recriwtio. Eisiau cael y swyddi allan fel y gall pobl wneud cais cyn mis Medi. Wedi cael rhywfaint o gynnydd yn y niferoedd cyn yr adeilad newydd felly maent yn edrych ar rai dros dro.

C - Beth sy'n digwydd o ran darparu allgymorth y Blynnyddoedd Cynnar?

JH: Dim cynlluniau i ehangu ond bydd yn cynnal gwasanaeth allgymorth cynnar. Bydd yn gweithio gyda Meadowbank ac eraill i ddatblygu darpariaeth allgymorth.

C - A fyddai'r niferoedd yn cael eu graddoli yn dibynnu ar y galw?

Pennaeth: Byddwn yn gweithio hynny allan wrth i ni fynd yn ein blaenau.

C - Sut bydd teithio'n cael ei reoli gyda'r lle sydd ar gael ar gyfer darpariaeth tacsis?

RP: Os ydych yn defnyddio'r ardal flaen, i ddechrau gallai hyn gyflwyno rhai opsiynau.

Pennaeth: Mae lleoli bysiau mini yn y maes parcio ac unrhyw geir eraill yn y safle tacsis yn gweithio'n dda. Yn dibynnu ar le mae disgyblion yn byw, gall fod yn haws defnyddio bysiau mini ond gweithio gyda chludiant ar hynny.

C - Pa fewnbwn sydd gan y bwrdd iechyd; beth yw'r weledigaeth ar gyfer therapi lleferydd yn y cynlluniau newydd? Yn wreiddiol, dynodwyd yr ysgol i therapi lleferydd ac iaith symud i ddarpariaeth prif ffrwd. Sut mae hynny'n ffitio i mewn?

C - Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth a arweinir gan anghenion wedi mynd ar goll dros amser; i gyd ynghlwm a gwelliannau o ran cost a fawr ddim buddsoddiad gan lechyd. Yr angen yng Nghaerdydd yn cynyddu, a mwy o CSA; Nid yw'r ddarpariaeth lechyd wedi cadw'i fyny; nid yw'r Cyngor a'r bwrdd lechyd wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd. Pan fydd gennych nyrsys sy'n arbenigo ar weld newid mewn plant, maent yn gyflymach i nodi camdriniaeth. Disgwylir i Meadowbank gymryd ystod eang iawn o blant; mae o 40 i 98 yn naid enfawr, mae angen llawer mwy o ddarpariaeth lechyd; beth mae'r Cyngor yn ei wneud i ymgysylltu â'r Bwrdd lechyd o ystyried y lefelau uchel o ADY?

JH: Yn hanesyddol, canolbwyntiodd Meadowbank ar anawsterau iaith lleferydd. Rydym wedi parhau i weld y symudiad i ddiwallu'r anghenion hynny mewn ysgolion prif ffrwd gan rieni Rydym wedi gweithio'n agos gyda lleferydd ac iaith, gan fynd i'r afael â'r anghenion hynny'n gynnar. Bu cynnydd yn nifer y disgyblion yn gyffredinol a chynnydd mewn ADY. Er bod gostyngiad yn nifer y grwpiau blwyddyn iau, nid oes gostyngiad yn nifer yr ADY, felly yr ydym yn gweld cynnydd gwirioneddol. Mae cymhlethdod cyffredinol anghenion yn cynyddu; mae'r un peth yn digwydd yn



**Rhaglen Ysgolion
Ysgol Arbennig Meadowbank
Cyfarfod Rhithwir y Corff Llywodraethu
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
11 Ionawr 2022**



Meadowbank a'n holl ddarpariaethau. Ni allwn ddweud bod gennym fwy o achosion yng Nghaerdydd na dinasoedd eraill ond mae gennym lefel uwch o anawsterau dysgu dwys a lluosog. Gallai fod yn gysylltiedig ag ysbyty plant Cymru yng Nghaerdydd, sy'n denu teuluoedd sy'n symud yma ar gyfer hynny. O ran gwaith gyda'r Bwrdd Iechyd, mae problemau, mae'r ddarpariaeth iechyd wedi gostwng, ac mae'r boblogaeth wedi tyfu, ac mae cymhlethdod wedi tyfu. Yr ydym yn cael y sgrysiâu hynny. Mae cyfrifoldebau newydd dros lechyd yn y cod newydd. Ac yr ydym wedi gweld manteision o hynny. Rydym yn parhau i fod â pherthynas dda ag lechyd i feithrin capasiti a sgiliau a gwybodaeth. Cytuno yr hoffem weld presenoldeb uwch gan lechyd.

C - Beirniadaeth ar y Bwrdd Iechyd gan fod plant anabl yn flaenoriaeth isel.

JH: Rhan o'r cod newydd yw bod yn rhaid i'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) fod yn rhan o'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn wedi bod yn statudol ers mis Ionawr diwethaf ac rydym wedi gweld hynny'n gwneud gwahaniaeth.

Pennaeth: Ar hyn o bryd yn edrych ar fodel o gael nyrs ysgol ar y safle a rhannu gydag ysgol arall. Rydym yn sicrhau ein bod yn mynd â'r grŵp cyfan o ysgolion arbennig ar y daith honno, nid ein un ni yn unig. Yn ariannol, dylai fod yn ddichonadwy.

JH: yn cael trafodaethau cynnar gydag lechyd, maent yn gwybod bod angen iddynt wneud archwiliad o angen, ond ni allwn aros, mae angen i ni roi rhywbeth ar waith yn awr.

Pennaeth: wedi'i galonogi o gael DECLO yn y sefyllfa honno sy'n gwrando ar heriau sy'n wynebu ysgolion ac yn meddwl yn rhagweithiol sut y gallwn ddatrys problemau.

C - A oes terfyn amser ar gyfer yr ymgynghoriad ar 1 Chwefror?

BA: dim terfyn, croesawu'r holl ymatebion, fel corff llywodraethu, staff, rhieni, unrhyw ymateb yn cael ei werthfawrogi.

Ni chafwyd cwestiynau pellach. Diolchodd RP i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



**Rhaglen Ysgolion
Ysgol Arbennig Meadowbank
Cyfarfod Staff Rhithwir
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
26 Ionawr 2022**



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Hibah Iqbal (CTY), staff yr ysgol

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) yn nodi manylion y cynnig:

- Beth sy'n cael ei gynnig
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth bresennol – cyfnod oedran cynradd
- Galw am lleoedd – cyfnod oedran cynradd
- Cynnig ar gyfer Ysgol Arbennig Meadowbank
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion trafndiaeth
- Manteision y cynnig
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Gwahoddodd RP gwestiynau gan staff

Cwestiynau ac ymateb

Pennaeth - Wedi bod yn cysylltu ag AD, JH ac RP. Mae llawer o gyfarfodydd gyda phenseiri ynghylch lle ar gyfer ehangu niferoedd. Gwnaed dadansoddiad SWAT i nodi diwedd taith arolygiad Estyn; roedd y staff yn poeni bod yr ysgol yn rhy fawr yn rhy fuan a chysylltiad rhwng y ddau adeilad. Ddim eisiau colli'r teimlad teuluol. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gysylltu'r adeiladau, pryderon am sut beth fyddai golwg hynny i dewi ofnau staff.

RP- Pwysig gweithio gyda thîm arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau ei fod yn synhwyrol. Mae angen sylweddol yn dod drwy'r system ac am gefnogi'r ochr Adnoddau Dynol a'r



**Rhaglen Ysgolion
Ysgol Arbennig Meadowbank
Cyfarfod Staff Rhithwir
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Dardpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
26 Ionawr 2022**



ystod eang o wahanol feysydd. Gallaf edrych ar gyswllt adeilad â'r tîm dylunio. Angen sicrhau bod llwybrau addas yn berthnasol.

Pennaeth - Buom yn siarad am adeiladau dros dro, ond bu'n rhaid addasu'r adeilad yn sylweddol i wneud lle i ddisgyblion ychwanegol. Rydym yn cael trafferth gyda gofod awyr agored. Mae angen mynediad i fannau awyr agored ar y pant sydd gennym. Byddai angen gallu eu symud i'r mannau hynny ond nid yw'r lle y maent yn ei adael o'u hôl yn briodol i'w ôl-lenwi.

RP- Gallwn edrych ar hynny gyda'r penseiri.

C - Wedi bod yn sôn am yr ystafell synhwyaidd a'r ystafell chwarae feddal mae'r holl ddsbarthiadau'n eu defnyddio, a'r effaith gaiff rheiny, mae angen hynny ar lawer o blant. Os oes gennym ddisgyblion ychwanegol yn dod, bydd hynny'n cael effaith enfawr ar amserlennu'r ystafelloedd hynny. Pa mor gyflym y bydd y ddardpariaeth newydd ar gael i ni?

RP- Mae gennym gyfnod pontio o fis Medi i fis Mawrth. Gallwn edrych ar offer synhwyaidd symudol, maent yn defnyddio hyn yn yr Hollies. Hefyd yn gallu cael golwg ar y chwarae meddal. Diolch am sôn amdano

Yn y pen draw, rydym am greu mannau amlswyddogaethol, fel yn Nhŷ Gwyn lle mae ganddynt adnoddau i'w droi yn unrhyw beth. Gobeithio y byddwn yn cael adeilad ond hefyd yr adnoddau; symud disgyblion hefyd yn heriol. Angen cyfleusterau cywir i greu lleoedd amlswyddogaethol.

RP- Byddwn yn helpu staff i ddatgysylltu a symud offer ar draws yr ysgol.

C - Mae gennym bryderon enfawr dros blant sydd wir angen y ddardpariaeth honno. A gaiff y modd y byddwn yn darparu'r profiadau hynny eu hystyried?

C - Beth am ddardpariaethau ar gyfer parcio i staff a'r tacsis? Yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd.

RP- Edrych ar hynny'n fanwl.

Pennaeth- Mae lle gan bob un ohonom, nid yw'n wir mewn ysgolion eraill. Angen ystyried atebion draenio cynaliadwy neu cawn ddŵr yn gorlifo o'r tarmac. Gan edrych ar opsiynau ecogyfeillgar, byddai un dull yn darparu 22 o leoedd parcio ceir, felly gall nifer uwch o ddisgyblion ddod i mewn i'r safle yn haws. Efallai y gall y Cyngor gefnogi hynny.

RP - Angen gwirio gyda'r tîm cynllunio a chynaliadwy.



**Rhaglen Ysgolion
Ysgol Arbennig Meadowbank
Cyfarfod Staff Rhithwir
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
26 Ionawr 2022**



C - O ran pen uchaf yr ysgol, a yw'n bosibl gweithio gyda'r ysgol i gael prosiect fel bod y disgyblion yn gwybod beth sy'n digwydd, gan roi rhywfaint o reolaeth iddynt drosto fel eu bod yn rhan o'r broses.

RP- Syniad da iawn, yn aml yn gwneud hynny.

C - A yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored wedi ei chynnwys? Cael ystafell ddsbarth awyr agored briodol.

RP- Byddai'n syniad da.

Pennaeth- [yn dangos map o'r ysgol] Cwrt canolog gyda chwe ystafell ddsbarth ar y tu allan. Mannau neilltuo i'w defnyddio yn ôl yr angen. Cyfres o swyddfeydd, ystafell wasanaeth ganolog. Nod yw i gael llwybr cysylltu a chanopiâu.

RP- Rydym yn defnyddio'r Building Bulletin sy'n ganllaw cenedlaethol ar gyfer ysgolion. Mae pob un o'r manau wedi'u cynllunio gyda hynny mewn golwg. Mae'r safonau hynny wedi'u profi. Mae gan Dŷ Gwyn fath tebyg o adeilad.

C - Tipyn o daith gerdded i ddisgyblion wrth ddod i mewn, a ellid ymdrin â hynny os ydynt yn gwrthod dod i mewn? Yn enwedig mewn tywydd gwael.

Pennaeth - Wedi codi hyn ac awgrym o ganopiâu. Nid yw'r canopiâu'n atal gwynt a glaw oni bai bod ganddynt walïau. Does dim modd dod o hyd i ateb i uno'r adeiladau. Gall fod yn heriol cael plentyn pedair oed ag awtistiaeth i mewn ac weithiau mae angen dau oedolyn arno. Mae Tŷ Gwyn yn nes at yr adeiladau roedd ganddynt felly lai o broblem gyda phellter.

RP- Dealladwy. Nid yw realiti'n ateb da iawn. Pe bai'n cael ei orchuddio'n llwyr, byddai'n torri'n syth drwy'r safle ac ni fyddai'n synhwyrol. Unwaith y byddwn wedi gwneud cais cynllunio, gallwn barhau i wneud mân ddiwygiadau, mae llwybrau cerdded dan do yn anodd dros bellter estynedig.

Pennaeth - Hapus i'r staff awgrymu syniadau.

C - A fydd dwy ystafell staff? Ar hyn o bryd, ni allwn ffitio'r holl staff ar yr un pryd. Cafodd ystafell staff flaenorol ei throi'n ystafell ddsbarth a daeth ystafell gyfarfod yn ystafell staff.

RP- Os oes angen i ni dyfu cyfleusterau ategol wrth i'r ysgol dyfu, mae hynny'n iawn.

Pennaeth - Mae pob ystafell ddsbarth wedi newid bron bob blwyddyn o ran sut mae'n cael ei defnyddio. Gallwn fod yn greadigol.



**Rhaglen Ysgolion
Ysgol Arbennig Meadowbank
Cyfarfod Staff Rhithwir
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
26 Ionawr 2022**



C - Mae mwy o ddisgyblion yn golygu cynnydd mewn staff ar draws y ddinas. Mae recriwtio staff arbenigol yn anodd Pwy fyddai'n rheoli hynny ac o ble?

RP- Yn ymwybodol iawn o hynny. Eisiau cefnogi ysgolion.

JH- Byddwn yn gweithio i dyfu'r ysgol yn raddol, fel y gallwch adeiladu'r staffio. Byddwn yn gweithio gyda chi ar hynny. Bydd rhan o hynny yn golygu cynllunio'r gyllideb ymhell ymlaen llaw.

LF- Cyfarfod yr wythnos nesaf ynghylch gofynion y gweithlu. Gallwn gefnogi gyda phrosesau gofynion.

C - Ynghylch dod o hyd i'r bobl hynny sydd â sgiliau o safon.

Pennaeth - O ran adleoli, symud o sectorau ysgolion eraill, mae staff yn arbenigol iawn ac mae'r rôl yn heriol. Mae gennym dîm gwych o weithwyr proffesiynol. Treulio amser yn gwneud yn siŵr bod y bobl iawn yn gweithio yn y ysgol. A fyddwn ynghlwm wrth y rhai sydd ar y gofrestr?

LF- Mae'n dibynnu ar bwy sydd ar y rhestr ar y pryd, eu sgiliau a'u profiad, beth sydd ei angen ar gyfer y rôl i weld a ydynt yn addas.

C - Diffyg hyfforddiant mewn prifysgolion a cholegau ar gyfer lleoliadau ADY. Mae dod o hyd i bobl sy'n angerddol yn anodd.

Pennaeth - Mae anhyblygrwydd o ran y gallu i hyfforddi. Mae angen i bobl ddod i mewn i weld sut beth yw'r lleoliad.

JH- Oes angen gweithio gyda phrifysgolion ar hynny; mae'n fater polisi; hefyd, yr hyn sy'n rhan o raglen hyfforddiant cychwynnol athrawon. Byddem yn gwerthfawrogi hyfforddiant ADY yn y rhaglenni hynny ar gyfer pob athro. Cyn hynny, mae angen i ysgolion arbennig fod yn rhan o'r hyfforddiant. Dylid ystyried cael staff o ansawdd uchel sydd â gwir awydd i symud i'r sector ac yna darparu'r hyfforddiant ar eu cyfer.

RP- Os yw staff am roi ymateb ffurfiol fel grŵp a'i anfon i mewn, gallwch hefyd ei wneud yn unigol. Byddwn yn edrych ar themâu ar y cyd ac yn ymateb.

Pennaeth - Yn gyfreithiol rhaid trafod unrhyw beth a gyflwynir ger bron. Angen sicrhau bod yr ysgol yn tyfu mewn ffordd raddol, nid yn rhy gyflym.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd RP i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Corff Llywodraethu Hollies
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (3-19 oed)
18 Ionawr 2022 am 5pm



Yn bresennol: Rachel Smith (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Rosalie Phillips (CTY), Llywodraethwyr Ysgol Arbennig Hollies

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Ymunodd aelodau o'r tîm CTY â chyfarfod corff llywodraethu a oedd wedi'i drefnu. Diolchodd Brett Andrewartha i'r llywodraethwyr am y cyfle i gyfarfod â nhw.

Rhoddodd BA gyflwyniad yn amlinellu manylion y newidiadau arfaethedig yn y sector 3-19 oed ADC/CSA ac yn benodol ehangu'r ddarpariaeth yn yr Hollies.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth ADC/CSA presennol – cyfnod oedran cynradd
- Y galw am leoedd ADC/CSA – cyfnod oedran cynradd
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Arbennig Hollies?
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymatebion a roddwyd

Gwahoddodd BA gwestiynau/sylwadau gan y llywodraethwyr.

C A fyddai gwaith yn cael ei wneud tra bo plant yn yr ysgol?

RS Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r ysgol i wneud addasiadau fel rhai sy'n cymryd 117 o ddisgyblion. Gwaith mwy ei faint ar gyfer 2023 ac wedi bod yn edrych ar gynlluniau ar gyfer hyn gyda chyllid wedi'i ddyrannu; adnewyddu mawr ac edrych ar ofynion a rhaglen waith. Efallai y bydd angen gwneud gwaith



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Corff Llywodraethu Hollies
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (3-19 oed)
18 Ionawr 2022 am 5pm



gyda phlant ar y safle ond bydd yn gweithio gyda'r Pennaeth i gefnogi hyn. Bydd yr ysgol yn elwa o waith adnewyddu mawr a bydd yn trafod ar bob cam.

- C Y pryder yw amharu ar gymuned yr ysgol.**
RS Gweithio ar gynlluniau a bydd yn rhannu gyda'r ysgol; problem gyda pharcio hefyd yn cael sylw. Datblygu gwaith cynllunio ond heb allu mynd i mewn i unrhyw gontractau.
- C Byddem yn croesawu gweld unrhyw gynlluniau ac ymagwedd gydweithredol.**
BA Mynd drwy broses ffurfiol ar hyn o bryd; 117 o ddisgyblion ar y gofrestr ac ni fyddant yn neidio i 150 mewn un naid
- C Sut y gellir datblygu ardaloedd allanol yn unol â'r gwaith hwn?**
RS Byddai am i'r gwaith hwn allu parhau a bydd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwaith cynllunio.
- C/C Eisoes yn 117 gyda 150 o 2023. Rhaid i'r ysgolion gael y seilwaith i gefnogi'r twf yn nifer y disgyblion e.e., ystafell staff, ffreutur.**
RS Byddwn yn edrych ar hyn fel rhan o gynllunio.
- C A fydd rhannau eraill o'r ysgol yn cael eu hystyried hefyd?**
RS Byddwn yn edrych ar rannau eraill fel rhan o'r prosiect cyffredinol.
- C Bydd effaith ar ddisgyblion a staff tra bod gwaith yn cael ei wneud. Sut y caiff hyn ei reoli?**
RS Byddai'n rhaid rheoli logisteg yn ofalus a byddent sefydlu sianeli cyfathrebu da; profiad o reoli prosiectau ar safleoedd byw a bydd yn sicrhau yr eir i'r afael â materion.
- C Bydd angen manau therapi ychwanegol hefyd. Wedi sôn am gefnogaeth i'r UDRh wrth reoli, sut bydd hyn yn gweithio?**
RS Bydd rheolwr prosiect yn cael ei benodi a bydd protocolau y cytunwyd arnynt yn cael eu sefydlu. Bydd yn edrych ar y Building Bulletin o ran yr hyn sydd angen ei ddarparu a'i drafod wedyn gyda'r ysgol.
- C Gweithio tuag at 150 o ddisgyblion, a yw hyn yn realistig neu a fydd mwy o blant?**
JH Ceisio mynd i'r afael â materion ledled y ddinas ac mae prosiectau eraill ar y gweill hefyd e.e., Riverbank a Meadowbank. Edrych ar y galw yn y dyfodol ac mae angen iddo ystyried darpariaeth newydd; mae'r gyfradd genedigaethau yn gostwng ac yn disgwyl gweld effaith ar y niferoedd ADY; olrhain hynny a'i adolygu'n barhaus.
- C Mae trafodaethau yn digwydd gyda'r penseiri ynglŷn â'r gofod i fyny'r grisiau. Bydd angen i'r ysgol fod yn gydlynol a llifo gyda manau dysgu**



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Corff Llywodraethu Hollies
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (3-19 oed)
18 Ionawr 2022 am 5pm



awyr agored ar gael yn ystod y rhaglen adeiladu; mae angen eglurhad ynghylch pa waith awyr agored y gellir ei wneud. Hefyd, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol gydag 16 yn gadael a mwy yn dod i mewn; terfyn ar niferoedd y gellir eu derbyn heb gwblhau'r gwaith.

- C Pryderon ynghylch oedi/amserlenni; pa botensial sydd i bethau newid ar ôl yr etholiadau.**
- BA Cyflwynwyd cynigion yn unol â chanllawiau etholiadau/rheoliadau trefniadaeth ysgolion; yn gallu mynd i'r Cabinet ym mis Medi os oes angen.
- C Beth fyddai'n digwydd pe bai Cabinet gwahanol a blaenoriaethau yn newid?**
- BA Does dim modd siarad ar ran unrhyw weinyddiaeth newydd, achos cadarn dros ehangu buddsoddiad yn yr Hollies.
- C Os bydd cynnydd y gwaith yn pallu, pa gynlluniau wrth gefn fydd ar waith?**
- RS Byddwn yn edrych ar gynlluniau wrth gefn fel rhan o gynllunio.

Ni chafwyd cwestiynau pellach.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Tîm CTY. Bydd llywodraethwyr yn ystyried y newidiadau arfaethedig ac yn cyflwyno ymateb erbyn 01 Chwefror 2022.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Hibah Iqbal (CTY), Staff Ysgol Arbennig Hollies

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Rhoddodd BA gyflwyniad yn amlinellu manylion y newidiadau arfaethedig yn y sector 3-19 oed ADC/CSA ac yn benodol ehangu'r ddarpariaeth yn Yr Hollies.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth ADC/CSA gyfredol – cyfnod oedran cynradd
- Y galw am lleoedd ADC/CSA – cyfnod oedran cynradd
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Arbennig Hollies?
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymatebion a roddwyd

Gwahoddodd FP gwestiynau/sylwadau gan staff

Pennaeth - Meddwl fod y staff yn hapus, byddent yn gwerthfawrogi adeilad newydd braf. Mae teuluoedd yn llai pryderus am sut mae'r ysgol yn edrych ond mae angen ailwampio a phaentio arnom ac mae'r newidiadau arfaethedig yn caniatáu i fwy o blant ddod yma.

Balch fod yr angen i wella'r adeilad wedi'i amlygu. Eisiau holi am bob plentyn sy'n mynd dros y rhif hwn.



RP- Mae angen ei wneud mewn ffordd synhwyrol gynaliadwy, byddai'n cael ei wneud gyda'r tîm arweinyddiaeth. Bydd yn gyfnod anodd.

C - Rydym eisoes bron ar y rhif newydd, dim ond eisiau cadarnhau bod hynny'n cael ei ystyried, heb ychwanegu hyd yn oed mwy o fewn y gofod cyfyngedig?

JH- Ydy mae hyn yn rhan o'r cyfrif, rydym yn cydnabod bod Hollies eisoes dros ei nifer ac yn bwriadu ehangu ymhellach. Mae'r ffigur o 150 wedi'i bennu ar gyfer mis Medi 2023. Dyna pryd y gallwch ofalu amdanynt.

C - Gwych ein bod yn cael yr ysgol wedi'i hadnewyddu a'i hymestyn. Mae'n wych i'r disgyblion; mae gennym staff enfawr yma eisoes. Beth am ochr barcio pethau? Rydym mewn ardal breswyl, felly ni allem barcio y tu allan pe bai hynny'n digwydd, ac rydym eisoes wedi cyrraedd ein capasiti.

RP- Ar hyn o bryd yn edrych i roi trefn ar barcio fel rhan o'r adeilad. Byddwn yn ceisio ailwampio hynny hefyd. Mae rhywfaint o waith allanol yn digwydd cyn hynny, ond bydd y prif waith yn digwydd gydag adeiladau newydd.

A fyddai disgwyl i ni dderbyn mwy o niferoedd yn y dosbarth cyn yr adeilad newydd neu a allai ddigwydd cyn hynny?

RP- angen bod yn synhwyrol. Bydd y gwaith adnewyddu yn dechrau'n fuan. Nid oes ateb cadarn gennym ond byddwn yn gweithio i sicrhau ei fod yn briodol.

RP- Os ydych am ddod at eich gilydd fel grŵp, gallwn atodi hynny'n ffurfiol ac ymateb yn y papur cabinet, ond mae gennym hefyd yr e-bost ymatebion ysgol. Da neu ddrwg, yna gallwn adrodd nôl ar eich barn.

Ni chafwyd cwestiynau pellach.

Diolchodd RP i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Michele Duddridge Hossain (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Hibah Iqbal (CTY), Ilywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanisien Fach

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Rhoddodd BA gyflwyniad yn amlinellu manylion y newidiadau arfaethedig yn y sector 3-19 oed ADC/CSA ac yn benodol ehangu'r ddarpariaeth yn Yr Hollies.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth ADC/CSA gyfredol – cyfnod oedran cynradd
- Y galw am leoedd ADC/CSA – cyfnod oedran cynradd
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Llanisien Fach?
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymatebion a roddwyd

C - Mae'r adeilad yn teimlo fel ystafell haul fawr, yn rhewi ac yn rhy boeth pan na ddylai fod. Gwell dymchwel a chael adeiladau newydd, newydd yn well. Roedd yr adroddiad am y cyflwr o'r cyfnod cyn-Covid.

MDF- Mae hyn yn benodol ar gyfer ehangu ADY, ond efallai yr hoffech wneud sylwadau ar faterion a heriau cyffredinol megis mwy o niferoedd yn barhaol, pryderon ynghylch cyflwr ac addasrwydd. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag ADY ond nid ar wahân i weddill yr ysgol.



C - O ran y galw a ragamcennir, a'r meini prawf a ddefnyddiwyd, fe ddwedoch fod y niferoedd yn gostwng yn y cynradd ac yn cynyddu mewn ysgolion uwchradd. A yw'r cynnydd o 10 lle yn ddigonol ac a fydd angen mwy na 10 ymhen blwyddyn? A yw'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer y galw a ragamcennir yn ddigon cywir? Gyda'r glustog o 10% mewn niferoedd, mae hynny'n swm sylweddol ar draws y ddinas.

MDF- Nid ydym yn rhagamcannu gostyngiad yn y galw am ADY. Mae cynnydd ar draws ADY yng Nghaerdydd. Mae'r data presennol yn dangos gostyngiad oherwydd bod llai o blant yn cael eu geni. Ond rhagwelir y bydd ADY ADC yn tyfu, y 10% yw sicrhau bod gennym ddigon o leoedd yn y cyfnod cynradd a mynd i'r uwchradd.

BA- Roedd y cyfraddau geni uchaf yng Nghaerdydd yn 2011/12, gan arwain at niferoedd disgyblion uchel yn 2016/17. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae wedi bod yn gostwng, yn gyffredinol ar i lawr; rydym yn disgwyl gostyngiad o 25% ledled y ddinas ond oherwydd cymhlethdod anghenion newidiol, mae rhai ysgolion yn darparu uwchlaw eu niferoedd. Rydym yn cyrraedd y pwynt o 600 o leoedd drwy'r ymgynghoriadau ond ni allwn warantu na fydd angen mwy o leoedd arnom yn y dyfodol ond byddwn yn gweithio ar draws y ddinas.

JH- Mae bwlch o hyd, mae ysgolion yn gweld pwysau parhaus ar gyfer ADY. Rydym yn cynyddu'r niferoedd yn Llanisien Fach sy'n dda iawn, ond rydym am i hyn fod ar draws y ddinas fel ei fod yn fwy lleol. Mae gennym lai nag yr hoffem ond yn edrych i ehangu yn y dyfodol. Mae gan ragamcanion lwfans ansicrwydd bob amser. Maent yn seiliedig ar niferoedd yn gostwng, gostyngiad yn y boblogaeth cyn-ysgol ond dim gostyngiad yn nifer y disgyblion ADC. Mae ystod a chymhlethdod yr angen yn cynyddu dros amser; mae'r rhai a oedd mewn CAAau yn y gorffennol bellach wedi mynd i'r brif ffrwd oherwydd y cymorth sydd ar gael. O ganlyniad, mae'n anodd rhagweld; Mae 30 o leoedd yn nifer dda ar gyfer ysgol gynradd, os oes angen mwy, caiff ei ddarparu mewn ysgolion cynradd eraill.

C – O ran yr ehangu arfaethedig sy'n dod allan o'r CDLI, efallai y daw pobl o'r Cymoedd. Tybiwn y caiff y niferoedd hyn eu rhoi yn y model rhagamcanu, gan ystyried y bydd y CDLI yn cyflawni'r hyn y bwriedir iddo ei gyflawni.

JH- Byddwn yn meddwl am yr ysgolion newydd a'r hyn y gallant ei gyflawni a'r galw yn yr ardaloedd hynny.

MDF- Gydag unrhyw ysgol newydd byddwn yn ystyried a yw'n lleoliad priodol ar gyfer CAA, darpariaeth gofal plant, agweddau cymunedol eraill ac ati wrth i'r ddinas dyfu, rydym am gael cynifer o leoedd lleol â phosibl.

C - O ran y gyllideb a'r arian, dywedwyd y byddai'r gost barhaus yn dod o'r gyllideb bresennol, a yw hyn yn rhan o'r cynnig i arbed arian o'r £7.3m? Ai y cynllun yw symud hynny o'r gyllideb ar gyfer y lleoedd hyn?



C - Ydych chi wedi meddwl am logisteg ac i le mae hyn yn mynd? Neu nad ydych chi wedi nodi ymhle ar y safle?

MDF- Gallwn gyflawni'r ddau, ni fydd yn rhaid i ddisgyblion deithio ymhellach ac yn hytrach na chyrchu darpariaeth annibynnol gallant aros yn ein hysgolion da. Y materion sy'n ein hwynebu yw poblogaethau mwy ac adnabod anghenion arbennig; bydd angen y lleoedd annibynnol yna hefyd ond nifer cyfyngedig y gallwn eu prynu.

Pennaeth - Wedi bod yn gobeithio am ofod CAA ers amser maith. Gan feddwl ynghylch lle y gallai fynd, rydym wedi gwneud gweithgareddau, yr hyn y byddai ar blant ei angen, lleoliad, mae'r ysgol yn ganolfan integreiddio, yn canolbwyntio ar integreiddio i'r gymdeithas a chyda disgyblion prif ffrwd. Wedi gallu rhoi'r meddylfryd hwn i'r tîm cynllunio ac maent wedi llunio rhai cynlluniau amlinellol y mae staff wedi cael amser i'w datgymalu. Gweithio gyda'r rheolwr ystadau a'r tîm dylunio i edrych ar hygyrchedd.

C - Tarfu yn sgil gwaith yn dod ar ôl yr amser mwyaf aflonyddgar i blant, y plant yn yr uned a phlant prif ffrwd. Eisiau i'r amhariadau gael eu lleihau gymaint ag y bo modd, gan ystyried pa mor anodd yw hi i blant addasu.

MDF- Eisiau tarfu cyn lleied ag y bo modd. Mae gennym brofiad o gyflwyno adeiladau ledled Caerdydd a cheisio gwneud hynny drwy wyliau ysgol. Efallai y bydd rhywfaint o darfu.

Pennaeth - Roeddwn i mewn ysgol arall bum mlynedd yn ôl lle'r oedd yr ysgol yn parhau i weithio. Byddaf yn gweithio i sicrhau ei fod yn digwydd yn ddi-dor, felly ychydig iawn o darfu. Dyma fydd fy unig bwrpas i'w sicrhau.

C - Beth yw'r amserlen arfaethedig?

Pennaeth - Mae'n gynnar yn y broses ond wedi cyfarfod â Rheolwr y Prosiect; gallai gymryd 4 - 8 mis yn dibynnu ar gymhlethdod yr adeilad; mae arolwg yfory, o hynny byddant yn penderfynu beth sydd angen iddynt ei ddylunio a'i adolygu felly bydd gennym well syniad wedyn.

C - A oes sicrwydd na fydd y tarfu anochel yn effeithio ar y disgyblion sydd eisoes yn y ganolfan?

Pennaeth - mae lleoliad y dyluniad arfaethedig ar ben draw adeilad yr ysgol, ochr dde'r fynedfa. Dewiswyd hynny er mwyn tarfu cyn lleied ag y bo modd

ac mae dau ddsbarth CAA wedi'u lleoli yno ar hyn o bryd; mae gennym fynedfeydd eraill y gallwn eu defnyddio. Ar ôl Covid bydd yn hawdd.

Pennaeth - Cyffrous y gellir gwella ac ymestyn y CAA, sylwi ar y gwahaniaeth y mae'n ei wneud, i allu derbyn gwahaniaeth, i fod yn chwilfrydig mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r rhyngweithio wedi bod yn llai oherwydd Covid, a byddai'n dda gweld hynny'n dod yn ôl. Mae hygyrchedd yn bwysig iawn, i allu symud y ddwy ffordd. Ar gyfer prif ffrwd, mae'n hawdd mynd i mewn ac allan, i ddisgyblion



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Corff Llywodraethu Llanisien Fach
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (3-19 oed)
25 Ionawr 2022



ADY, mae'n bwysig eu bod hefyd yn gallu symud y ddwy ffordd i allu integreiddio.

MDF- Dyma'r hyn y byddem yn gofyn i'r corff llywodraethu ei gynrychioli yn yr ymateb, gan sicrhau bod y cadarnhaol yn cael ei gofnodi yno. Mae gennych brofiad o'r CAA ond hefyd y brif ffrwd, rydych yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cael eu hintegreiddio mewn gwersi prif ffrwd. Sicrhewch fod eich awydd i allu cyrchu'r cyfleusterau yn cael ei gynrychioli.

Cadeirydd - Hoffwn ddiolch i'r Cyngor a chydweithwyr am y cyflwyniad ac am ateb y cwestiynau ac rwy'n siŵr y bydd pobl yn ymateb i'r cynnig.

MDF - rydym yn gofyn am ymateb gan y corff llywodraethu, yr un fath â staff ond os ydych am ymateb yn unigol, eich safbwynt eich hun. Ni fyddai'r ymateb unigol yn cael ei briodoli i chi. Rydym yn falch eich bod yn teimlo'n gadarnhaol i raddau helaeth, y dyddiad cau yw 1 Chwefror.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd RP i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Jo Phillips (CTY), Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Springwood

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Brett Andrewartha (BA) y cyfarfod a chroesawodd llywodraethwyr.

Rhoddodd BA gyflwyniad yn amlinellu manylion y newidiadau arfaethedig yn y sector 3-19 oed ADC/CSA ac yn benodol ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Springwood.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth ADC/CSA presennol 3 - 19
- Y galw am leoedd ADC/CSA 3 - 19
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Springwood?
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymatebion a roddwyd

Gwahoddodd BA gwestiynau gan y llywodraethwyr.

- C Mae'n dda gweld y cynigion; mae'r llywodraethwyr yn falch o'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol a'r Dosbarth Lles. A allem edrych ar y wybodaeth am gyflwr ac addasrwydd yr adeiladau eto?**



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Springwood
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth (3-19 oed)
20 Ionawr 2022 am 4:00pm



BA Mae Ysgol Gynradd Springwood wedi'i sgorio fel C ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd. Mae adeiladau ysgol a raddiwyd yn D o ran cyflwr o fewn cyllid Band B. Mae'r sgôr addasrwydd ar gyfer pa mor dda y mae'r adeilad yn cefnogi'r ysgol.

C Mae'r CAA ar y llawr gwaelod ac nid yw'r ardal y tu allan yn dda iawn. Ble'r ydym ni arni gyda'r cais CTY am fwy o arian?

JH Daw'r arian o'r gyllideb Asedau. Gallwn ailymweld ag ef a gweld lle'r ydym yn y broses. Byddai'n fantais agor allan yr ardal y tu allan.

C Diolch am gael ail athro ar gyfer y CAA.

JH Diolch i'r llywodraethwyr am fod yn gadarnhaol ac yn barod i weithio gyda'r Cyngor. Mae'n bleser gweithio gyda'r ysgol.

C A fydd unrhyw effaith ar y Dosbarth Lles?

JH Nid yw'r ymgynghoriad yn ymdrin â'r Dosbarth Lles, gan fod y plant yn y dosbarth wedi'u cofrestru'n ddeuol. Fodd bynnag, rydym yn croesawu sylwadau am y Dosbarth Lles.

Q Mae'r ysgol wedi cael problemau staffio gyda Covid-19 ac mae athrawon yn cael y cyfle i fynd i mewn i'r CAA a phrofi hynny, sydd wedi bod yn gadarnhaol.

JH Bydd sgyrsiau unigol am staffio.

Ni chafwyd cwestiynau pellach.

Gwahoddodd BA y corff llywodraethu i gyflwyno ymateb i'r cynnig.

Diolchodd BA i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYNIGION AD-DREFNU YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER
PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
(ADY)**

**DARPARIAETH GYNRADD AC UWCHRADD AR GYFER
DISGYBLION AG ANGHENION DYSGU CYMHLETH A CHYFLYRAU
AR Y SBECTRWM AWTISTIG**

Atodiad 4 – Nodiadau Ymgysylltu â Disgyblion



Yn bresennol: Rosalie Phillips (CTY), Hibah Iqbal (CTY), Ceri Tanti (CTY), Rachel Burgess Willis (CTY), disgyblion Cynradd Moorland Y5

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Cyfarfu swyddogion CTY â dosbarth Blwyddyn 5 yn Ysgol Gynradd Moorland i siarad â disgyblion ynglŷn â'r ymgynghoriad i ddarparu lleoedd ychwanegol ar gyfer ADY.

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad, gan esbonio cynigion fel y maent yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Moorland. Mae'r cynnig ar gyfer CAA i blant ag anghenion dysgu cymhleth i'w ychwanegu. Cynigir hefyd y dylid adnewyddu adeilad y feithrinfa.

Roedd gan y disgyblion nifer o awgrymiadau a sylwadau i'w gwneud:

Pethau da am y cynnig

Nododd y disgyblion y canlynol:

- Byddai'n caniatáu i fwy o blant ddod i Moorland.
- Byddai gan fwy o blant fynediad i addysg dda.
- Gall plant ag anghenion ychwanegol gael y cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt.
- Bydd cyfle i gymysgu a chwarae gyda phlant eraill a chael mwy o gyfleoedd dysgu.
- Dylai plant ag anghenion dysgu ychwanegol gael yr un cyfleoedd ag sydd gan y plant yn Moorland.
- Hoffi cael cyfle i gwrdd â mwy o bobl a gwneud mwy o ffrindiau.
- Cyffrous i weld sut olwg fydd ar yr iard newydd.
- Er y gallai'r iard fleihau mae'n gyffrous cael mwy o blant yn dod i'r ysgol.
- Mae pawb yn y dosbarth yn garedig a hoffent gwrdd â'r plant newydd a gwneud iddynt deimlo bod croeso iddynt.
- Bydd yn rhoi cyfle i blant ddysgu mwy am blant ag anghenion ychwanegol.

Pethau a allai fod yn well / Unrhyw bryderon

Trafodwyd y pwyntiau canlynol

Pryder ynghylch ble y bydd plant y feithrinfa'n mynd pan fydd eu hadeilad yn cael ei ddymchwel, ac a fydd yn effeithio ar weddill yr ysgol.

RBW - byddai hyn yn cael ei gynllunio'n ofalus gyda'r ysgol.

Os oes mwy o blant ar yr iard chwarae a bod yr iard chwarae'n lleihau, a allai fod mwy o anafiadau?



RBW - mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r Cyngor a'r ysgol feddwl amdano, ond mae safle'r ysgol yn ddigon mawr ac nid yw'n credu y bydd hyn yn broblem.

Efallai na fydd rhoi rhai plant iau gyda phlant hŷn yn syniad da.

RBW - roedd opsiwn i edrych ar amseroedd chwarae gwahanol.

Os oes mwy o blant byddai mwy o geir yn dod i'r safle, problemau traffig a pharcio.

RBW - byddai mwy o deithiau, ond anogir teuluoedd i gerdded, a bydd pawb yn cael eu cadw'n ddiogel.

Pryder am yr hyn a fydd yn digwydd gydag amseroedd egwyl yn ystod y gwaith adeiladu; a fydd yn effeithio ar amseroedd chwarae disgyblion?

RBW - mae gan y Cyngor lawer o brofiad o weithio ar safleoedd ysgolion; byddai asesiad diogelwch llawn ar waith i sicrhau bod disgyblion yn dal i chwarae yn ystod amser egwyl.

Os oes llawer mwy o blant yn dod i'r ysgol, a fydd yn gwneud yr ysgol yn rhy brysur wrth gyrraedd a gadael yr ysgol?

RBW - roedd safle'r ysgol yn ddigon mawr a bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod popeth yn gweithio.

Gallai sŵn adeiladu effeithio ar ddysgu'r disgyblion.

RBW - byddai rhywfaint o sŵn, ond gwneir pob ymdrech i darfu cyn lleied ag y bo modd.

Faint o amser bydd y gwaith adeiladu yn ei gymryd?

RBW - bydd angen i ni wirio hyn a byddwn yn rhoi gwybod i'ch athro/athrawes

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd RBW i'r disgyblion a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Rosalie Phillips (CTY), Ceri Tanti (CTY), cynrychiolwyr disgyblion Ysgol Uwchradd Willows

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Croeso a Chyflwyniadau

Esboniodd swyddogion fod angen rhagor o leoedd ADY ar draws y ddinas, ac fel rhan o'r cynigion, cynigiwyd sefydlu CAA â 30 lle yn Ysgol Uwchradd Willows yn 2023. Byddai'r ganolfan yn cael ei sefydlu ar safle presennol yr ysgol, cyn i'r ysgol symud i'w hadeiladau newydd. Bydd y lleoedd ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth megis dysgu, cyfathrebu, synhwyraidd neu anabledd corfforol. Gall y disgyblion dreulio'r cyfan neu ran o'u hamser yn y CAA; bydd hyn yn dibynnu ar lefel eu hangen a'r hyn sy'n briodol iddynt yn unigol.

Gofynnwyd i'r disgyblion a oedd ganddynt unrhyw ymholiadau, pryderon neu gwestiynau.

Holi ac Ateb

Sylw - mae'r llwybrau cerdded yn wastad ond mae llawer o risiau yn Willows. Mae lifft ond dim ond nifer cyfyngedig o bobl sydd â'r cerdyn mynediad ar gyfer hwn. Byddai'n syniad da i'r CAA ddefnyddio ystafell ddosbarth llawr gwaelod gan y byddai'n haws iddynt gael mynediad iddi.

Gofynnwyd i'r grŵp a oeddent yn pryderu am 30 o ddisgyblion eraill yn ymuno â'r ysgol.

Roeddent yn cytuno bod digon o le o ran ystafelloedd dosbarth, ond bod y ffreutur yn orlawn amser cinio. Awgrymwyd y gallai disgyblion y CAA fynd i ginio ar adeg wahanol fel y gallent osgoi'r torfeydd.

Gofynnodd swyddogion a fyddai'n helpu'r disgyblion prif ffrwd i gael mwy o wybodaeth am y math o anghenion sydd gan ddisgyblion y CAA?

Roedd pryderon y gallai hyn beryglu preifatrwydd disgyblion y CAA, ond teimlai'r grŵp hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol cael gwybodaeth gyffredinol er mwyn helpu i roi dealltwriaeth iddynt o'r anghenion a allai fod gan ddisgyblion yn y CAA, gan y byddai'n helpu i integreiddio disgyblion y CAA i'r ysgol pe bai disgyblion prif ffrwd yn deall eu hanghenion.

Soniodd y grŵp fod rhai o'r cynteddau'n gul ac yn aml yn mynd yn orlawn.

Cafwyd trafodaeth am ddisgyblion y CAA yn ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd. Dwedodd un disgybl y gallai'r dysgwyr o'r CAA deimlo'n fwy cyfforddus yn eu dosbarth eu hunain yn hytrach na mynychu gwersi prif ffrwd gan nad yw'r disgyblion prif ffrwd efallai'n deall eu hanghenion.



**Rhaglen Ysgolion
Cofnodion Ymgysylltu â Disgyblion
Ysgol Uwchradd Willows
28 Ionawr 2022**



Dyweddodd disgybl arall efallai na fydd disgyblion y CAA yn hoffi cael eu gwahanu bob amser, gan eu bod eisoes yn teimlo'n wahanol i ddisgyblion eraill, ac efallai y byddant yn teimlo'n fwy rhan o'r ysgol pe baent yn ymuno â'r brif ffrwd.

Awgrymwyd pe bai disgyblion y CAA yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd y dylai'r rhain fod yn ddosbarthiadau llai fel nad yw'n rhy llethol iddynt.

Ni chafwyd cwestiynau na sylwadau pellach.

Diolchodd swyddogion i'r grŵp am eu hamser a'u mewnbwn a dweud y byddai'r adborth yn cael ei fwydo i'r adroddiad ymgynghori a fydd yn mynd ymlaen i Gabinet y Cyngor maes o law.

Daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Disgyblion Ysgol Uwchradd Llanisien (cyngor ysgol), Andrew Mee (athro), Rosalie Phillips (CTY), Shirley Karseras (CTY)

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Rosalie Phillips (RP) y cyfarfod, cyflwynodd swyddogion y Cyngor ac esboniodd rôl cynllunio ysgolion. Dywedodd wrth y disgyblion fod newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ADY ar draws y ddinas a beth fyddai hyn yn ei olygu i'w hysgol nhw Esboniodd mai diben y cyfarfod oedd casglu eu barn ar y newidiadau hyn a'u cofnodi fel rhan o'r adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad a fyddai'n mynd i'r Cabinet.

Esboniodd fod angen cynnydd yn y ddarpariaeth ADY oherwydd:

- Cynnydd yn yr angen am ADY wrth i fwy o blant gael eu nodi yn y boblogaeth bresennol
- Mae twf yn y boblogaeth ac felly mae mwy o ADY o fewn y boblogaeth hon
- Mae gan Gaerdydd ystod eang o ddarpariaeth ADY a all ddenu teuluoedd i symud yma i gael mynediad i'r cyfleusterau hyn

Holi ac Ateb

Cwestiwn/Sylw 1

Credwch fod yr CSA a'r unedau nam ar y clyw yn y CAA wedi'u hintegreiddio'n dda iawn i gymuned ehangach yr ysgol. Mae safle'r CAA yn ganolog i'r ysgol sy'n bwysig. O brofiad, mewn dosbarth Safon Uwch, lle mae myfyrwyr o'r uned CSA a nam ar y clyw, nid oes unrhyw wahaniaeth academaidd.

Cwestiwn/Sylw 2

Mae disgyblion o'r CAA yn fy nosbarth cofrestru. Rwyf wedi sylwi y gall maint ffisegol yr ystafelloedd dosbarth ddod yn her pan fydd ganddynt eu cynorthwywyr addysgu unigol gyda hwy. Mae'r CAA yn dda iawn cyn belled â bod yr ystafelloedd dosbarth a ddefnyddir yn gallu darparu ar gyfer y cynorthwywyr sydd eu hangen i gefnogi anghenion dysgu'r disgyblion hynny.

Cwestiwn/Sylw 3

Brodyr a chwiorydd yn cael mynediad i'r CAA yn Ysgol Uwchradd Llanisien. Mae'r ddarpariaeth yma yn llawer gwell nag yn yr ysgol gynradd. Credaf ei bod yn dda bod disgyblion yn integreiddio â gweddill yr ysgol a bod gan y brawd neu chwaer hwnnw eu cynorthwywyr gyda hwy gan eu bod yn gwybod eu hanghenion.

Rwy'n credu y dylai pob disgybl yn yr ysgol gael mwy o addysg am y CAA ac anghenion y myfyrwyr sy'n ei ddefnyddio. Byddai hyn yn golygu y gallent fod yn fwy cefnogol tuag atynt ac efallai helpu mwy.



RP – mae'n amlwg eich bod yn gefnogol iawn i'r CAA. Ydych chi'n meddwl bod/byddai 45 o fyfyrwyr yn ormod?

Cwestiwn/Sylw 4

Yr wyf yn ymwybodol o sylwadau a wnaed gan gynorthwydd a oedd yn gweithio yn yr uned CSA, gan ddweud eu bod dan straen. Felly, mae'n bwysig bod gan y CAA ddigon o adnoddau i ymdopi â'r cynnydd i 45 o fyfyrwyr.

Cwestiwn/Sylw 5

Mae'n hanfodol na ddylai unrhyw gynnydd yn nifer y myfyrwyr yn y CAA gael effaith negyddol ar y myfyrwyr sy'n ei gyrchu. Pe bai straen yn cael ei roi ar y staff a'r adnoddau yn y CAA, megis llai o amser 1:1 neu lai o le ar gyfer dysgu, yna gallai hyn gael effaith negyddol. Ni ddylai unrhyw gynnydd mewn disgyblion ADY rwystro'r ddarpariaeth a gynigir ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Ni chafwyd cwestiynau na sylwadau pellach.

Diolchodd RP i'r disgyblion am eu hadborth a daeth â'r sesiwn i ben.



Yn bresennol: Cynrychiolwyr disgyblion Ysgol Glantaf, Rosalie Phillips (CTY), Cerys Richardson (Derbyniadau)

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y sesiwn yn Gymraeg ar gais yr ysgol

Croeso a Chyflwyniadau

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr disgyblion prif ffrwd o Ysgol Glantaf. Agorodd Cerys Richardson y cyfarfod a chroesawodd y disgyblion. Amlinellodd fanylion y bwriad i sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth a dywedodd ein bod yn gofyn am eu barn ar ran Cyngor Caerdydd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Pwyntiau trafod

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

C – faint o ddisgyblion fyddai'n mynychu'r ganolfan adnoddau

A - 30

C – ble y byddai'r ganolfan adnoddau newydd yn cael ei chodi?

A – nid yw hyn wedi'i benderfynu eto; cytunir ar hyn gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu

C – pryd y byddai'n cael ei adeiladu?

A – byddai'r ganolfan newydd yn agor ym mis Medi 2023.

C – pa oedran fyddai'r disgyblion?

A – byddai disgyblion o B7 hyd at y chweched dosbarth

C – a fyddent i gyd yn dechrau ar unwaith; a fyddai 30 o ddisgyblion yn dechrau ar unwaith?

A – byddai'r ganolfan adnoddau yn gallu darparu ar gyfer hyd at 30 o blant ond yn debygol o gychwyn gyda llai o ddisgyblion i ddechrau.

C – a fyddai gan ddisgyblion yn y ganolfan Awtistiaeth â'r un athrawon â'r ganolfan adnoddau bresennol?

A – byddai cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer staff addysgu a staff cymorth i weithio yn y ganolfan newydd ond yn debygol y byddent yn cysylltu â'r ganolfan bresennol ac yn gallu cyrchu adnoddau yn y brif ysgol.

Pethau y meddyliai'r disgyblion fyddai'n fuddiol

Nododd y disgyblion y canlynol:



- Disgyblion y ganolfan adnoddau arbenigol yn gallu cael gafael ar adnoddau'r ysgol e.e., y cae chwarae
- Disgyblion y ganolfan adnoddau arbenigol yn gallu cael mynediad i addysg Gymraeg
- Y cyfleoedd y byddai'n eu rhoi i'r disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol bresennol e.e., cyfleusterau gwell
- Y disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol yn gallu bod yn rhan o'r ysgol brif ffrwd, astudio a gwneud ffrindiau

Pethau a oedd yn destun pryder

Nid oedd y disgyblion yn poeni am unrhyw botensial o ran traffig, ond fe wnaethant nodi'r canlynol:

- Roedd yr ysgol eisoes yn brysur, ac nid oeddent yn credu y byddai'n gwneud llawer o wahaniaeth i gael 30 o ddisgyblion ychwanegol, ond gallai fod rhywfaint o effaith
- Lleoliad y ddarpariaeth CAA; pe bai'n cael ei roi yn y lle anghywir, gallent gollu mynediad i rai adnoddau ysgol pwysig

Ni chafwyd cwestiynau pellach. Gofynnodd y disgyblion ble y gallent ddod o hyd i ragor o fanylion am y newidiadau arfaethedig ac fe'u cyfeiriwtd at wefan y Cyngor.

Daeth y sesiwn i ben ac aeth swyddogion i gwrdd â disgyblion o'r ganolfan adnoddau arbenigol bresennol yn yr ysgol.



Yn bresennol: Cynrychiolwyr disgyblion Ysgol Glantaf, Rosalie Phillips (CTY), Cerys Richardson (Derbyniadau)

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y sesiwn yn Saesneg ar gais disgyblion

Croeso a Chyflwyniadau

Cyfarfu swyddogion â disgyblion o'r ganolfan adnoddau arbenigol bresennol yn Ysgol Glantaf.

Cynhaliwyd y sesiwn yn Saesneg ar gais y disgyblion.

Agorodd RP y cyfarfod a chroesawodd y disgyblion. Esboniodd y cynnig ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol arall yn yr ysgol a fyddai ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth a dywedodd wrth y disgyblion ein bod am wybod beth oedd eu barn am hyn.

Pwyntiau trafod

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

Roedd y disgyblion yn hoffi'r syniad o gael canolfan adnoddau ychwanegol yn yr ysgol a byddent yn hapus i'w rhannu. Roeddent yn elwa o'u gwersi, cefnogaeth eu hathrawon a'u staff ac yn cael llawer o gyfleoedd a fyddai'n dda i blant a phobl ifanc eraill hefyd.

Dywedon nhw y byddai'n dda cael mwy o bobl ar gyfer timau chwaraeon e.e., rygbi a gwneud gweithgareddau.

Roeddent yn hoffi'r syniad o adeilad newydd gan fod angen mwy o le i nifer y plant.

Roeddent o'r farn y dylai'r lle newydd gynnwys y canlynol:

- Ardal awyr agored
- Ardal gardd
- Cynefin bywyd gwyllt
- Gwell wi-fi
- Mynediad i gyfrifiaduron/gliniaduron i allu gwneud darnau hirach o waith
- Mannau tawel ar gyfer yr adeg yr oedd angen rhywfaint o le i anadlu arnynt
- Ardal gegin
- Ardal groesawgar/siop goffi yn yr ardal groeso fel yr un yn y brif ysgol
- Ystafell synhwyraidd
- Mwy o doiledau/ardaloedd newid (nid yw un yn ddigon)
- Ardal ymarfer corff/trampolîn (a allai hwn fod yn y llawr)
- Gwahanol fathau o ofod dosbarth e.e., 1:1 a dysgu mewn grwpiau



Gofynnwyd sut y byddai'r adeilad yn gweithio, a fyddai'r ddwy ganolfan adnoddau arbenigol ar wahân neu gyda'i gilydd

Dywedodd RP fod dyluniad y ganolfan newydd yn cael ei drafod gyda'r Pennaeth a'r staff ac nad oedd penderfyniad wedi'i wneud ar hyn.

Ni chafwyd cwestiynau/sylwadau pellach.

Esboniodd RP yr hyn fyddai'n digwydd nesaf, diolchodd i'r disgyblion a daeth y sesiwn i ben.



Yn bresennol: Rachel Burgess Willis (CTY), Hibah Iqbal, disgyblion Ysgol Arbennig Meadowbank, Pennaeth Meadowbank, staff addysgu a chefnogi Meadowbank

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Roedd yr ysgol wedi gwneud gwaith gyda'r disgyblion cyn y sesiwn i esbonio'r cynigion ac i drafod eu meddyliau/teimladau am y newidiadau arfaethedig.

Roedd y plant yn deall y newidiadau arfaethedig ac wedi meddwl am y pwyntiau canlynol:

Syniad da

Pan fyddwch yn mynd i'r ysgol uwchradd, efallai y byddwn yn rhedeg allan o blant
Bydd mwy o ffrindiau
Mwy o Blant yn yr ysgol i chwarae gyda nhw
Rhannu'r sgwteri'n beth da

Syniad Gwael

Bydd y plant yn ddieithr
Dim mwy o le yn yr ysgol

Ble bydden nhw'n mynd?

Yn y ffreutur
Adeiladu dosbarth newydd a chael mwy o athrawon
Yn y maes parcio
Adeiladu ail a thrydydd llawr
Yn y cwrt ac adeiladu twnnel
Ar y glaswellt
Y berllan

Ble bydden nhw'n chwarae?

Ochr arall i ffens ddu. Rhy fwdlyd

Bydd ystafelloedd dosbarth newydd yn cael eu hadeiladu. A oes gennych unrhyw gwestiynau?

Beth ydym ni'n mynd i'w roi'n enwau ar y dosbarthiadau?
Ble rydyn ni'n mynd am dacsis?
Ble maen nhw'n mynd i fwyta?
Sut ydyn ni'n prynu tacsî newydd?
A fydd mwy o doiledau?
A fydd llawer o sŵn?
Allwch chi ei wneud yn ddiogel?



Cwestiynau ac atebion ar y diwrnod

Pennaeth - mae llawer o ddisgyblion yn meddwl ei fod yn syniad da, yn hapus iawn

C- Ni all athrawon pryderus ofalu am yr holl ddisgyblion

RBW- am edrych i weld faint o athrawon sydd eu hangen, efallai y bydd angen rhai newydd.

Sylw - Mwy o ffrindiau

Sylw - Poeni am redeg allan o blant ar ôl i ddisgyblion blwyddyn 6 adael.

RBW- Mae llawer o blant eisiau dod i Meadowbank, os byddwn yn creu mwy o leoedd y byddant yn dod.

Pennaeth - maen nhw'n poeni am ddieithriaid, gall cael staff newydd fod yn bryderus, maen nhw'n hoffi'r staff presennol

Pennaeth - Mae'r plant yn poeni na fydd lle i fwy o ddisgyblion. Rydym wedi treulio amser yn gwneud ystafelloedd dosbarth yn fwy, yn chwalu waliau.

RBW - Bydd yn gwneud yn siŵr bod digon o le.

Pennaeth - Mae disgyblion newydd yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, yn enwedig plant ifanc, maen nhw eisiau mwy o sgwteri, offer talu a beiciau.

A fydd mwy o doiledau?

RBW- Byddwn yn cynllunio gydag adeiladwyr i sicrhau bod digon.

Sylw - Eisiau mwy o blant i chwarae gyda nhw.

Pennaeth - Ddiffyg lle yn yr ysgol, adeiladwyd ar gyfer 40, ac erbyn hyn mae ganddi 50. Ble byddai disgyblion yn cael gwersi? Adeilad newydd neu ydyn ni'n adeiladu i fyny'r grisiau?

RBW- Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol ar hyn.

Roeddent yn poeni am uno adeiladau gyda'i gilydd, awgrymodd un plentyn dwnnel i gysylltu â'r adeilad newydd. Rydym wedi cael cegin newydd. Mae disgyblion yn poeni na fydd chawn un arall, sut y byddwn yn bwydo plant newydd? Yn poeni y bydd yn rhy swnllyd, dyw rhai disgyblion ddim yn hoffi sŵn.

RBW- bydd hyn yn cael ei ystyried yn ofalus fel bod sŵn ac aflonyddwch yn cael ei leihau.

Pennaeth - Plant yn gofyn ble bydd disgyblion newydd yn cael cinio os yw'r neuadd ginio bresennol yn rhy fach?

RBW- Byddwn yn ceisio darganfod ac yn dod nôl atoch Pwysig iawn eich bod yn holi. Bydd yn cael ei weithio allan gyda'r Pennaeth a'r staff.



Pennaeth - Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd?

RBW- Mae ar gyfer mis Medi eleni.

Pennaeth - Rydym yn cael dwy ystafell ddosbarth dros dro, felly bydd adeilad newydd yn barod erbyn mis Mawrth. Mae'n bwysig ein bod yn adeiladu'n raddol.

RBW- Falch eich bod wedi bod yn siarad â chynllunwyr wrth i waith adeiladu fynd rhagddo.

Pennaeth- Yn gobeithio cael chwe ystafell ddosbarth arall, gan wneud yr ysgol ddwywaith mor fawr. Rydym wedi meddwl am faint dosbarthiadau. Bydd yn darparu ardal awyr agored, nid oes darpariaeth cyfnod sylfaen ar gyfer dosbarth Foxglove. Bydd hyn yn helpu disgyblion newydd ym mis Medi. Bydd manau awyr agored yn cael eu cysylltu â'i gilydd fel y gall plant chwarae gyda'i gilydd.

Sylw - Mae angen mwy o athrawon ac enwau ar gyfer y dosbarthiadau newydd.

Pennaeth - Rydyn ni'n mynd i gael dwbl, yn pryderu am le ar gyfer tacsis. Mae gennym dri bws mini mawr, llawer o dacsis a cheir rhieni. Os oes gennym ddwywaith cymaint o ddisgyblion, ble bydd ceir yn mynd? Bydd angen iddynt hefyd i ddod o hyd i athrawon arbennig. Sut y cawn fwyd o'r ffreutur i'r adeilad newydd, byddai bwyd yn mynd yn oer, ac mae rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd cerdded yn synhwyrol a chyda bwyd poeth.

RBW- Byddwn yn mynd â'r cwestiynau hyn yn ôl i'r Cyngor, efallai edrych ar gegin arall. Beth hoffech chi yn yr ysgol?

Hoffai'r plant y canlynol:

- Gofod iard chwarae
- Mwy o sgwteri
- Mwy o feiciau
- Mwy o ffrindiau
- Siglen bryf cop
- Sleid
- Pwll
- peidiwch â difrodi coed yr ysgol

Nid oedd unrhyw gwestiynau/sylwadau pellach a daeth y cyfarfod i ben.



Cyflwyniad

O ystyried anghenion disgyblion sy'n mynychu'r Hollies a'r cyfyngiadau Covid parhaus, cytunwyd gyda'r ysgol mai eu hathrawon a'u staff cymorth fyddai'n casglu barn disgyblion am y newidiadau arfaethedig .

Darparodd yr ysgol y wybodaeth ganlynol ar 28 Ionawr 2022

Llais Disgyblion yr Hollies

Cyfarfu sawl aelod o'r Cyngor Ysgol yr wythnos hon i drafod y newidiadau arfaethedig i Ysgol Hollies - i gynyddu nifer y disgyblion i 150.

Trafododd y disgyblion yr angen am fwy o ystafelloedd dosbarth mwy eu maint yn ogystal â'r angen am fwy o fyrddau a chadeiriau i'r disgyblion.

Dywedodd un disgybl y byddai angen mwy o staff ar yr ysgol ar gyfer y disgyblion ychwanegol.

Gofynnwyd iddynt a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau am y newidiadau. Gofynnwyd a allent gael mwy o bethau i chwarae a nhw (rhannu) y tu allan ar gyfer y disgyblion ychwanegol.

Gofynnwyd a fyddai'n golygu mwy o geir yn y maes parcio, ac a fyddai'r maes parcio'n fwy?

Ar y cyfan, roeddent yn meddwl ei fod yn syniad da. Dywedasant y byddai ganddynt fwy o ffrindiau i chwarae â nhw ond dywedont hefyd y gallai hyn olygu y byddai'r ysgol yn swnllyd ac yn brysurach gyda disgyblion ychwanegol.



Yn bresennol: Rosalie Phillips (CTY), Ceri Tanti (CTY), cynrychiolwyr disgyblion Llanisien Fach, athro dosbarth ADY, Pennaeth

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd swyddogion y cyfarfod drwy egluro bod dosbarth ADY yn yr ysgol o'r enw Dosbarth Enfys. Mae mwy o blant ledled Caerdydd sydd angen lle mewn dosbarth ADY, ac mae'r Cyngor yn ymgynghori ar sicrhau bod mwy o leoedd ar gael ar draws y ddinas. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu maint y dosbarth yn yr ysgol o 20 disgybl i 30 ac mae am siarad â'r disgyblion ynghylch a oeddent yn credu bod hyn yn syniad da ac a oedd ganddynt unrhyw bryderon, cwestiynau neu sylwadau.

Holi ac Ateb

C: A fydd maint yr iard chwarae yn newid?

A: Ddim yn siŵr. Byddai angen i swyddogion ddod allan i edrych i weld pa ofod newydd sydd ei angen ond byddai'n blaenoriaethu cadw maint yr iard chwarae mor fawr â phosibl.

Sylwadau: Byddai angen seddi ychwanegol yn y ffreutur.

A: Byddai, byddai angen mwy o leoedd ar yr ysgol, neu efallai y bydd yr ysgol yn penderfynu rheoli amser cinio drwy gael amseroedd gwahanol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.

C: Dywedodd yr athro o Ddosbarth Enfys fod integreiddio yn rhan allweddol o'r hyn a wnawn; sut y gallwn gefnogi integreiddio gyda mwy o ddisgyblion? Sut byddai'r ysgol yn cael ei chefnogi?

A: Byddai cydweithwyr yn y tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol yn darparu cymorth a byddent yn trosglwyddo yr ymholiad iddyn nhw.

Sylwadau: Byddai angen mwy o doiledau hefyd.

A: Byddai, byddai angen i ni sicrhau bod digon o le, staff a chyfleusterau i bawb yn yr ysgol.

Cytunodd y disgyblion ei bod yn syniad da rhoi cyfle i fwy o blant ddod i'r ysgol.

Athro: mae plant dosbarth Enfys yn cyfeillio gyda disgyblion prif ffrwd ac yn ymuno â dosbarthiadau. Mae cael mwy o le a mwy o ddisgyblion yn gadarnhaol, yn rhan o fywyd yr ysgol. Roedd y disgyblion yn cytuno â hyn.

C: A fyddai mwy o blant yn dod i ddosbarthiadau?

A: Byddai, efallai y bydd un neu ddau yn fwy y flwyddyn.

C: A fydd gan Dosbarth Enfys ddigon o le y tu allan ar yr iard chwarae?



A: Mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn canllawiau ar gyfer ysgolion sy'n nodi faint o le, maint yr ystafell ddosbarth, toiledau, a'r gofod y tu allan y mae'n rhaid ei gael. Yn bwriadu sicrhau bod digon o le ym mhob ardal.

C: Dywedodd un disgybl y byddai gan ddisgyblion iau Dosbarth Enfys ffordd bell i gerdded i ymuno â'r dosbarthiadau prif ffrwd gan fod y dosbarth ar un pen i'r adeilad ac mae'r dosbarthiadau ieuengaf yn y pen arall.

A: Eglurodd athro Dosbarth Enfys mai'r cynllun yw i rai o'r dosbarthiadau iau symud i ardal newydd. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r pennaeth a'r ysgol i ystyried y manylion hyn.

C: Roedd gan B5/B6 lawer o gwestiynau am gyfluniad, p'un a fyddant yn un llawr neu ddau, os bydd yr adeilad yn mynd yn hirach, a allai'r llwybrau presennol o amgylch yr adeilad i fynedfeydd gael eu torri i ffwrdd ac ati.

A: Ni allwn ateb cwestiynau manwl ar y cynllun, ond gallwn ofyn i swyddogion yn y tîm am eu mewnbwn ac ymateb i athrawon gyda'r hyn sydd wedi'i gynllunio ar hyn o bryd.

C: Pa effaith fydd ar yr ysgol tra bod gwaith adeiladu yn digwydd a sut y bydd disgyblion yn cael eu cadw'n ddiogel?

A: Mae gan y Cyngor lawer o brofiad o adeiladu gwaith ar ysgolion sy'n bodoli eisoes. Bydd swyddogion Iechyd a Diogelwch yn sicrhau bod ffensys, a bydd yr adeiladwyr wedi eu hyfforddi ym maes iechyd a diogelwch er mwyn cadw pawb yn ddiogel.

C: A fydd angen rheiddiaduron ychwanegol arnom?

A: Dywedodd y pennaeth fod Syrffewyr Meintiau sy'n helpu i gynllunio gwaith adeiladu ar y safle ar hyn o bryd yn edrych ar ba reiddiaduron ychwanegol ac ati fydd eu hangen.

Ni chafwyd cwestiynau pellach. Dywedodd swyddogion y byddai sylwadau'r disgyblion yn cael eu rhoi yn yr adroddiad i'w hanfon at y Cabinet ac y byddem yn hysbysu'r pennaeth pan wneir hyn.

Dywedwyd wrth y grŵp, os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau pellach yr oeddent yn meddwl amdanynt ar ôl y cyfarfod, y gallent roi gwybod i'w hathrawon fel y gellir anfon y cwestiynau at swyddogion, a byddwn yn ymateb drwy'r pennaeth.

Diolchodd swyddogion i'r grŵp am eu cwestiynau a'u mewnbwn a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Rosalie Phillips (CTY), Hibah Iqbal (CTY), cynrychiolwyr disgyblion Ysgol Gynradd Springwood, Cynorthwydd Addysgu

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Rosalie Phillips (RP) y cyfarfod, cyflwynodd swyddogion y Cyngor ac esboniodd rôl cynllunio ysgolion. Dywedodd wrth y disgyblion fod newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ADY ar draws y ddinas a beth fyddai hyn yn ei olygu i'w hysgol. Esboniodd mai diben y cyfarfod oedd casglu eu barn ar y newidiadau hyn a'u cofnodi fel rhan o'r adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad a fyddai'n mynd i'r Cabinet.

Holi ac Ateb

Felly rydych chi eisiau i fwy o ddisgyblion ddysgu yn yr ysgol?

RP- Ie, mwy o ddisgyblion eich oedran chi sydd angen cymorth ychwanegol.

Ble bydd y disgyblion yn mynd?

RP- Mae gennych ganolfan yn eich ysgol yn barod, ar gyfer plant 25/26 o blant ag awtistiaeth. Mae plant o'r ganolfan yn defnyddio'r lle hwnnw ond gallant hefyd ddefnyddio rhai rhannau eraill o'r ysgol e.e., llyfrgell, gofod awyr agored, ffreutur.

Ydych chi'n ceisio gwneud y ganbolfan yn fwy?

RP- Ydyn

Oes rhaid i chi gyflogi mwy o staff?

RP - Bydd angen mwy o staff yn unol â nifer y disgyblion. Bydd eich pennaeth yn edrych ar nifer y disgyblion ac yna'n cyfrifo faint o staff sydd eu hangen.

Oes rhaid i chi wneud ystafell ddosbarth arall?

RP - bydd rhai pobl eraill o'n tîm yn ymweld â'r ysgol ac yn cynllunio ar gyfer yr hyn sydd ei angen.

Pryd ydych chi'n mynd i wneud ysgol arbennig yng Nghaerdydd?

RP- Rydym yn gwneud hynny hefyd. Mae dwy ysgol arbennig arall yng Nghaerdydd, yr Hollies, a Thŷ Gwyn, yr ydym hefyd yn gwneud newidiadau iddynt, gan wneud yr ysgolion hynny'n fwy hefyd; a hefyd yn mynd i edrych eto i weld a oes angen mwy o leoedd arnom yn y dyfodol.

TA- Pryd fydd gan staff lais ar hyn?

RP- Cafwyd cyfarfod o'r corff llywodraethu ddoe, mae ffurflen ymateb ar safle'r cyngor, neu gallwch anfon e-bost atom ar wahân.

TA- Pan fyddwch chi'n taro'r capasiti, beth sy'n digwydd bryd hynny? Mae hwn yn faes sy'n tyfu'n gyflym.



Rhaglen Ysgolion
Cofnod o Gyfarfod Rhithwir Ymgysylltu â Disgyblion
Ysgol Gynradd Springwood
21 Ionawr 2022



RP- Bydd trafodaethau gyda'r ysgol am nifer y plant, y ffordd orau o letya disgyblion a pha gyfleusterau sydd eu hangen ac ati.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach, diolchodd RP i'r disgyblion a daeth y sesiwn i ben.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYNIGION AD-DREFNU YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER
PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
(ADY)**

**DARPARIAETH ANGHENION DYSGU CYMHLETH A CHYFLYRAU'R
SBECTRWM AWTISTIAETH AR GYFER DISGYBLION OEDRAN
CYNRADD AC UWCHRADD**

Atodiad 5 – Nodiadau Cyfarfodydd Cyhoeddus



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Jenny Hughes (ADY), Jamyn Beesley (Pennaeth y Llys), Sarah Pritchard (CTY), Cath Keegan Smith (ADY), Kassia Morris (ADY) Rosalie Phillips (CTY), Aelodau o'r cyhoedd

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod, croesawodd y mynychwyr ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad gan MDF a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd
- Cynigion ar gyfer Ysgol The Court
- Safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd Moorland
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd RP gwestiynau/sylwadau gan y rhai a oedd yn mynychu

C/C – Rhiant plentyn yn Ysgol Gynradd Moorland. Ble bydd llety blynyddoedd cynnar ar y safle?

RP – edrych ar ddau adeilad gyda bloc meithrin wrth ymyl y Dderbynfa a bloc arall wrth ymyl tŷ'r gofalwr.



C/C – mae traffig o amgylch safle'r ysgol eisoes yn brysur; faint yn fwy o draffig fydd?

RP – ceisio gwneud newidiadau i barcio ac edrych ar effaith traffig fel rhan o'r cais cynllunio ar gyfer y gwaith arfaethedig.

C/C – beth fyddai'r effaith ar adnoddau/staffio ysgolion?

JH – byddai dau ddsbarth CAA gyda chyllid yn cael ei ddarparu er mwyn i'r ysgol gyflogi staff addysgu a chynorthwyr addysgu ychwanegol. Ceisio rhoi cyfleoedd i'r ddwy set o ddisgyblion.

C/C – croesawu dull cynhwysol.

C/C – a fydd The Court yn dal i gael ei rhedeg fel un ysgol er ar draws dau safle?

RP – edrych ar un ysgol ar draws dau safle (trefniant safle hollt). Mae amrywiaeth o arbenigedd o fewn yr ysgol bresennol ac yn adeiladu ar hyn.

JB – byddai un pennaeth gydag uwch reolwyr ar bob safle yn cefnogi gwerthoedd a gweledigaeth.

JH – mae angen mwy o leoedd; fodd bynnag, mae plant yn elwa o amgylcheddau meithrin llai. Mae safleoedd hollt yn caniatáu amseroedd teithio byrrach. Mae'r ddau safle arfaethedig yn gyfagos i ysgolion prif ffrwd a fydd yn rhoi cyfleoedd i staff a disgyblion yn y ddwy ysgol.

JB – yn caniatáu datblygu perthynas â chymunedau.

C/C – a fydd y Dosbarth Lles yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn parhau?

JH – bydd y Dosbarth Lles yn aros. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei hadolygu'n gyson ond bydd lleoli'r Llys yn y Tyllgoed yn cynnig manteision e.e., hyfforddiant a rennir.

Amlinellodd MDF y ffyrdd y gellir ymateb i'r ymgynghoriad, drwy e-bost, ymateb copi caled neu arolwg ar-lein ar wefan y Cyngor

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach, diolchodd RP i bawb a fynychodd, a daeth y cyfarfod i ben.

Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jenny Hughes (ADY), Shirley Karseras, Rosalie Phillips (CTY), Aelodau o'r cyhoedd

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod, croesawodd y mynychwyr ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad gan BA a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd
- Cynigion ar gyfer Ysgol The Court
- Safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd Moorland
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd RP gwestiynau/sylwadau gan y rhai a oedd yn mynychu

C/C – Sut bydd hyn yn effeithio ar safle Ysgol Gynradd Pen y Bryn?

BA – bu trafodaeth gydag Ysgol Gynradd Pen y Bryn a oedd yn cefnogi'r angen i gynyddu'r cyflenwad o leoedd ILIE. Roedd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn symud i safle newydd a byddai'r safle presennol yn dychwelyd i'r Cyngor. Byddai angen addasiad bach i'r ffin rhwng y ddau safle gyda gwelliannau i'r ardal awyr



agored ym Mhen y Bryn. Gallai traffig ychwanegol gael effaith, ond dangosodd y gwaith cychwynnol ei bod yn debygol y byddai llai o draffig yn gyffredinol.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach, diolchodd RP i bawb a fynychodd, a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jenny Hughes (ADY), Rosalie Phillips (CTY), Aelodau o'r cyhoedd

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod, croesawodd y mynychwyr ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad gan BA a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd
- Darpariaeth gyfredol 11 -19
- Y galw am leoedd ADC/CSA 11 - 19
- Darpariaeth gyfredol 3 – 11
- Y galw am leoedd ADC/CSA 3 - 11
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd RP gwestiynau/sylwadau gan y rhai a oedd yn mynychu

C/C – beth yw'r cynlluniau i alluogi i nifer y lleoedd yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Ysgol Uwchradd Llanisien ac Esgob Llandaf ehangu.

RP – mae'r niferoedd eisoes ar gapasiti ac yn ceisio atgyfnerthu; peidio â rhagweld unrhyw wariant cyfalaf ychwanegol ond efallai y bydd rhai newidiadau staffio.

C/C – Mae Ysgol Uwchradd Llanisien yn defnyddio llety dros dro ac yn cael mynediad i le yn y clwb rygbi.



RP – mae hynny'n wir. Darparu llety dros dro gydag adeilad parhaol yn barod ar gyfer mis Medi; staffio a chyllid ar waith.

C/C – a yw'r sleidiau cyflwyno ar gael i'w gweld yn gyhoeddus; addysg gartref i rieni ar hyn o bryd ac sydd â diddordeb mewn capasiti ar gyfer eleni a blwyddyn nesaf.

MDF – mae'r holl wybodaeth i'w gweld yn y ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor.

RP – rhestrir y manylion cyswllt ar y wefan a rhowch unrhyw gwestiynau yn ôl atom.

MDF – sesiynau galw heibio (ar-lein/dros y ffôn) ar gael pe bai hynny'n ddefnyddiol.

C/C – ble mae plant Gweithrediad Uchel sydd â Chyflwr Sbectrum Awtistig (CSA) yn cyd-fynd â chynigion?

RP – edrych ar gapasiti ychwanegol ledled y ddinas er mwyn diwallu amrywiaeth o anghenion; cymysgedd o CAA, ysgolion arbennig a darpariaeth prif ffrwd.

JH – llawer o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ond nad oes angen lleoliad arbenigol arnynt ac sy'n ceisio gwella cymorth yn barhaus.

C/C - mae pobl yn cyfrif nid yn unig adeiladau ac mae angen iddynt sicrhau bod adnoddau dynol ar gael a bod anghenion y rhai sydd angen cymorth yn y brif ffrwd yn cael eu diwallu.

C/C - rhiant plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol a fydd yn mynd i'r ysgol uwchradd ym mis Medi; profiad siomedig ac nid ydynt yn teimlo bod unrhyw le i fynd wedyn. Ar hyn o bryd yn y brif ffrwd a bydd angen lefel uchel o gymorth gyda llythrennedd a rhifedd. Wedi edrych ar bob opsiwn gan gynnwys trochi Cymraeg er mwyn mynychu Ysgol Glantaf. Cynigir Canolfannau Adnoddau Arbenigol (CAAau) ar sail diagnosis a'r unig un addas fyddai'r Eglwys Newydd heb unrhyw opsiwn i gael mynediad i ddarpariaeth prif ffrwd. Byddai'n well cael esgob Llandaf ond am nad oes gan y plentyn ddiagnosis CSA nid yw hyn yn addas. Nid oes darpariaeth gyffredinol ar gael yng ngorllewin y ddinas. Mae manteision i blant o ran gallu cerdded i'r ysgol ac nid ydynt am roi plentyn mewn tacsï bob dydd; am iddynt allu cael gafael ar ddarpariaeth sy'n addas i'w hanghenion yn yr ardal leol.

Mae CAA yn Cantonian ar gyfer CSA hefyd. Byddai trochi cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn her ond mae angen mwy o ddarpariaeth fel y ddarpariaeth yn Ysgol Glantaf. Pryder bod hwn yn benderfyniad diymdroi ac yn mynd drwy'r broses pan fo angen mwy o opsiynau.

RP – ffurfioli rhai trefniadau a chynnig darpariaeth newydd hefyd. Ceisio cynyddu maint y ddarpariaeth; cydnabod nad yw'r cydbwysedd yno eto a gweithio i gyflwyno cynigion pellach.

Cynigiodd JH gyfarfod i drafod amgylchiadau unigol pe bai hyn o gymorth.

C/C – rhennir teimladau ynghylch CAAau. Mae disgyblion Cymraeg mewn gwell sefyllfa ac yn siomedig bod gwahaniaethu. Mae angen cydnabod bod angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol.



JH – cydnabod pryderon. CAA yn Ysgol Glantaf ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth ac yn disgwyl yr un arfer mewn ysgolion prif ffrwd eraill. Byddai'n ddefnyddiol deall pryderon ac amgylchiadau unigol.

C/C – bydd rhieni na fydd mewn sefyllfa i glywed eu llais. Mae angen amrywiaeth eang o safbwyntiau ac mae'n rhaid ystyried yr agenda werdd ac iechyd a lles hefyd.

RP – camau i'r cyfeiriad cywir ac edrych i adeiladu ar hyn. Gwerthfawrogi pwyntiau sy'n cael eu gwneud ac yn edrych i ymgysylltu mor eang â phosibl; fel arfer yn cynnal sesiynau wyneb yn wyneb mewn ardaloedd lleol; gallu cynnig sesiynau galw heibio ar-lein ac mae mawr eisiau adborth gan ystod mor eang â phosibl o randdeiliaid.

C/C – Mae model Ysgol Uwchradd Llanisien yn rhedeg ar yr un trywydd ag Ysgol Glantaf, ond mae hyn yn dibynnu ar niferoedd staff.

RP – ystyrir staffio fel rhan o'r model ariannu. Cydnabod yr angen i wneud gwaith dilynol ac ystyried sut mae pethau'n rhedeg.

C/C – dau blentyn a aeth drwy Ysgol Uwchradd Llanisien gyda'r ddau yn symud o'r brif ffrwd i'r CAA. Mae'r Adran Cymorth Dysgu yn gweithredu fel CAA ac yn gweithio'n dda o fewn yr ysgol. Mae angen darpariaeth ar gyfer plant ar lefel ysgol ac mae angen y trafodaethau hyn gydag ysgolion eraill hefyd.

C/C – yn pryderu bod cynigion yn ffurfioli'r ddarpariaeth bresennol e.e., mae gan Llanisien 44 o ddisgyblion ar hyn o bryd ac yn mynd i fyny i 45, gyda'r un sefyllfa yn Esgob Llandaf. Bydd bwlbch darpariaeth o hyd. Mae gan Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol Caerdydd ddelwedd broblemus ymhlith rhieni a byddai cyfathrebu gwell yn helpu.

JH – mae llawer o newidiadau'n cael eu gwneud yn y ffordd y mae pethau'n gweithio. Mae Grwpiau Cyfeirio Rhieni yn cael eu datblygu ac yn cydnabod yr angen i edrych ar newidiadau pellach y gellid eu gwneud i wella pethau. Cydnabod bod rhywfaint o'r twf yn y ddarpariaeth yn ôl-weithredol ond mae hwn yn fan cychwyn a bydd yn parhau i edrych ar hyn. Ystyried hefyd sut i gefnogi disgyblion yn ehangach; ble mae'r bylchau yn y ddarpariaeth a beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn.

RP – sy'n ceisio mynd i'r afael â darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth drwy Fand B gyda buddsoddiad sylweddol gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth bresennol ac yn y dyfodol.

C/C – Rhaid ystyried darpariaeth CAA yng ngorllewin y ddinas a'r ystod o anghenion. Gall darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol arwain at wahanu drwy gydol oes; mae angen cyfleoedd ar blant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu; angen iddynt fod yn wirioneddol gynhwysol ac integreiddio disgyblion gan ganiatáu iddynt fod y gorau y gallant fod.

JH – Mae CAA a darpariaeth ysgol arbennig ar gyfer plant ag anghenion cymhleth iawn nad yw'r brif ffrwd yn addas ar eu cyfer. Ymddengys mai'r ddarpariaeth ar gyfer plant yn y brif ffrwd yw'r broblem.

C/C – mae dull Ysgol Glantaf yn ymddangos yn gynhwysol ac mae'n apelio fel rhiant.



C/C - dylid rhannu'r manylion gyda phob ysgol a dysgwr.

Rhoddodd MDF fanylion am sut y gellid gwneud ymatebion i'r ymgynghoriadau (e-bost, arolwg ar-lein, llythyrau), gyda'r holl ymatebion i'w croesawu. Roedd nodiadau'r cyfarfod hefyd yn cael eu gwneud. Ymgynghorir â disgyblion ym mhob un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion; ieithoedd a ddarperir i bob ysgol a byddant yn gwirio bod y rhain wedi'u rhannu.

C/C – rhedeg CAA yn Ysgol Glantaf; mae gan yr ysgol CAA swyddogol ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth ac mae hefyd wedi sefydlu dosbarth lles tebyg i ddarpariaeth mewn ysgolion eraill; mae'r sector Cymraeg hefyd yn dysgu gan y sector Saesneg.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach, diolchodd RP i bawb a fynychodd, a daeth y cyfarfod i ben.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**COMPLEX LEARNING NEEDS AND AUTISM SPECTRUM CONDITION
PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6 –**
Formal responses received

Estyn Responses

Response from Estyn – The Court School / Moorland Primary School

Estyn response to the proposal to increase the capacity at the Court special school and transfer it to two sites, in new build accommodation on the site of Fairwater Primary School and to the current St Mellons, church in Wales primary school site in Llanrumney and to establish a specialist resource base (SRB) for primary aged children with Complex Learning Needs at Moorland Primary School

These appear to be two proposals and so will be responded to as such although there are some aspects that are relevant to both proposals.

Estyn response to the proposal to increase the capacity at the Court special school and transfer it to two sites, in new build accommodation on the site of Fairwater Primary School and to the current St Mellons, church in Wales primary school site in Llanrumney

Introduction

This report has been prepared by Her Majesty's Inspectors of Education and Training in Wales.

Under the terms of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and its associated Code, proposers are required to send consultation documents to Estyn. However, Estyn is not a body which is required to act in accordance with the Code and the Act places no statutory requirements on Estyn in respect of school organisation matters. Therefore, as a body being consulted, Estyn will provide their opinion only on the overall merits of school organisation proposals.

Estyn has considered the educational aspects of the proposal and has produced the following response to the information provided by the proposer.

Summary/ Conclusion

This proposal is by Cardiff council. The proposal is to Increase the capacity of The Court Special School from 42 to 72 places. The school would transfer to two sites, in new build accommodation on the site of Fairwater Primary School and to the current St Mellons, church in Wales primary school site in Llanrumney, with 36 pupils on each site from September 2025.

COMPLEX LEARNING NEEDS AND AUTISM SPECTRUM CONDITION PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6 –

Formal responses received

It is Estyn's view that this proposal is likely to at least maintain the standard of education provision in the area. However, there are ways in which this proposal could be strengthened.

Description and benefits

The council has provided a clear rationale for the proposal. It has provided a table that sets out the current primary age specialist provision available for children with emotional health and wellbeing needs and the projected future demand for school places for these pupils. The table shows a current deficit in the number of places available in relation to the number of places needed. The projections show an increase in these numbers over the next few years. The proposed increase in capacity would help to reduce this deficit in numbers.

In addition, the condition of the buildings at the Court special school is very poor, with 'unsuitable' learning environments, which seriously inhibit the school's capacity to deliver the curriculum. Under this proposal, the buildings currently occupied by the Court special school would be vacated.

The council has suitably demonstrated that there is sufficient space and capacity at the Fairwater primary school site to accommodate pupils and new purpose-built accommodation. The council asserts that the current St Mellons, Church in Wales primary school site in Llanrumney will be vacant in Autumn 2022 and will transfer to ownership of the council at this time. This site is located adjacent to Pen y Bryn primary school and the council intends to work closely with both Pen y Bryn primary school and the Court special school to ensure that the requirements of the building bulletin guidance for schools are met. We feel that this could be further strengthened with the addition of information about any adjustments which would need to take place to these buildings to ensure that they meet the individual needs of the pupils at the Court school. For example:

- specific considerations around acoustics or lighting and
- adequate separation from the primary school on the proposed sites.

The council has provided some detail as to how the proposal would be funded. However, it lacks any significant information that details whether any savings will be made as a result of the proposal. For example, through a reduction in numbers of pupils being placed out of county. The council has provided sufficiently detailed descriptions of the proposals and the projected timetable for statutory procedures. However, there is no indication of timescales for implementation of the proposal, and any proposed interim arrangements, which might be necessary for their implementation. Furthermore, the school currently funds a psychotherapist, we believe that it would be beneficial to explain how continuity of this provision will be secured when the school has higher pupil numbers and is split over different sites.

COMPLEX LEARNING NEEDS AND AUTISM SPECTRUM CONDITION PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6 –

Formal responses received

The council has suitably outlined the benefits and potential disadvantages of the proposed changes. The benefits include increasing the number of special school places to contribute towards meeting projected demand and the establishment of a new school building. The potential disadvantages include the difficulties faced by some ALN pupils due to the changes and the potential for increased traffic congestion. We feel that this proposal could be strengthened with the addition of more detail illustrating how these changes will be managed to reduce the impact on learners currently at the school. For example, a description of the timescale of changes and whether they would take place simultaneously or consecutively. In addition to this, a plan which demonstrates if any current pupils would be subject to more than one school move. These potential changes could have a significant impact on the wellbeing and educational outcomes for this cohort and should be managed appropriately to reduce their negative impact. The council has outlined mitigation measures to address some potential disadvantages. These appear to be fair and reasonable. In addition, the council has identified some risks associated with the proposed changes and appear to be managing these appropriately.

The council references a feasibility study that explored possible alternative options and says that a few alternative sites were considered but were dismissed because of issues around access, site constraints, traffic and flood management. However, no further detail has been provided regarding this feasibility study.

The council has suitably considered learner travel arrangements as a result of this proposal. It states that it is committed to ensuring that every school in Cardiff has an 'active travel plan' which identifies actions by the school to support and encourage active travel where appropriate and identifies improvements needed on-site and off-site to facilitate active journeys. The council iterates that there are no planned changes to the council's policies on admission arrangements and learner travel arrangements.

The consultation paper makes no reference to the impact of this proposal on Welsh medium provision within the local authority or how this the proposal would support the targets in the local authority's Welsh in Education Strategic Plan (WESP). It talks generally about Welsh medium education in Cardiff and references some Welsh medium schools. It is unclear therefore how this proposal will impact on Welsh speaking pupils with ALN.

Educational aspects of the proposal

The council has suitably considered the impact of the proposal on standards, teaching and learning experiences, care support and guidance and leadership and management. It has concluded that the proposal is not expected to have any negative impact on standards of education or teaching and learning experiences. In addition, it intends to work with the leadership of both schools to help improve and sustain support, care and guidance and ensure that changes are planned carefully

COMPLEX LEARNING NEEDS AND AUTISM SPECTRUM CONDITION PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6 –

Formal responses received

so that leadership and governance are not disrupted. We feel that this proposal could be strengthened by:

- highlighting how leaders plan to secure the staffing levels needed for such a large increase in capacity
- showing how these staff will be appropriately trained to work with a complex cohort of young people
- showing how leadership capacity is not negatively impacted by these changes.

The council has included a summary of the last Estyn inspection report for the Court special school and Fairwater primary school. Estyn judged that The Court special school's performance and prospects for improvement were both good. Also, all inspection areas in Fairwater primary school's inspection report were judged to be good.

recommended, therefore, that work is undertaken immediately to collect data on the needs and experiences of children in the primary Welsh-medium sector and that this is introduced and treated as part of the consultation and planning work. At present these experiences are not reflected in the document and yet there is a serious disparity facing children with additional education needs who choose Welsh-medium education – lack of space, lack of resources, lack of specialist provision. Cardiff missed huge opportunities to strengthen the opportunities and provision in the new Welsh-medium primary schools and to ensure equal opportunities across the city. In establishing autism centres for the secondary sector there must also be planning for better provision for autism in the Welsh-medium primary sector.

It is important to ensure a rich Welsh-medium training programme for current staff and to attract Welsh-medium teachers and specialist workers, including securing more provision on the professional psychology courses.

We very much hope that you will take these comments seriously as you refine the evidence and when planning for additional needs education provision that is part of your commitment to Cardiff where the Welsh language is alive and part of all elements of policy.

Sincerely

Dr Rosina Davies (Chair of Merched y Wawr's Cardiff Branch)

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a gwerthusiad o'r farn a fynegwyd

1. Mae'r farn a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad wedi ei nodi mewn *print italaidd* isod ac wedi ei grwpio yn unol â'r pwyntiau a godwyd pan fo hynny'n briodol.
2. Gweler ymateb y Cyngor i bob pwynt isod, o dan y pennawd "Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd".

Ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Moorland

3. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:
 - Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Moorland
 - Pennaeth Ysgol Gynradd Moorland

Estyn

4. Roedd ymateb gan Estyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Mae'r cyngor wedi darparu rhesymeg clir dros y cynnig. Mae'n cyfeirio at y ffaith fod nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu'n y blynyddoedd diweddar. Yn ogystal, mae'n mynnu nad yw lleoliad CAAau a dosbarthiadau llesiant wedi'u dosbarthu'n dda ar draws y ddinas.*
 - *Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safonau'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Fodd bynnag, mae sawl modd y gellid cryfhau'r cynnig hwn.*
 - *Mae'r cyngor yn bwriadu ymgorffori cynnig llety ar gyfer y CAA fel rhan o'r gwaith ailddatblygu arfaethedig yn ysgol gynradd Moorland. Mae'n ymddangos bod hyn yn ddull teg a phriodol.*
 - *Mae'r cyngor wedi rhoi rhywfaint o fanylion ynghylch sut y byddai'r cynnig yn cael ei ariannu. Fodd bynnag, nid oes ganddo unrhyw wybodaeth o sylwedd sy'n nodi a wneir unrhyw arbedion o ganlyniad i'r cynnig. Er enghraifft, drwy leihau nifer y disgyblion sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir. Mae'r cyngor wedi rhoi disgrifiadau digon manwl o'r cynnig a'r amserlen a ragamcennir ar gyfer gweithdrefnau statudol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw*

arwydd o amserlenni ar gyfer gweithredu'r cynnig, nac unrhyw drefniadau interim arfaethedig, a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer eu gweithredu

- *Mae'r cyngor wedi amlinellu manteision ac anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig yn briodol. Mae'r manteision yn cynnwys cynyddu nifer y lleoedd adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oed cynradd ag anghenion dysgu cymhleth i gyfrannu tuag at ateb y galw a ragamcennir ac y byddai gan rai disgyblion bellteroedd teithio byrrach i gyrchu darpariaeth arbenigol. Mae'r anfanteision posibl yn cynnwys yr anawsterau a wynebir gan rai disgyblion ADY oherwydd y newidiadau a'r potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig. Mae'r cyngor wedi amlinellu mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r anfanteision posibl. Mae'n ymddangos bod y rhain yn deg ac yn rhesymol. Yn ogystal, mae'r cyngor wedi nodi un risg sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau datblygu sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig ac mae'n ymddangos bod ganddynt ddigon o i gamau lliniaru i fynd i'r afael â'r risg hon os oes angen.*
- *Mae'r Cyngor wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar drefniadau teithio'r dysgwyr. Byddai'r CAA arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Moorland yn lleihau'r pellter y byddai plant yn ei deithio i'r ysgol yn Adamsdown a Sblot sydd angen lleoliad mewn CAA ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd. Gan y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd gyda chcludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, mae'r cyngor yn bwriadu darparu cyfleusterau priodol ar gyfer gollwng a chasglu fel rhan o'r cynigion. Mae'r cyngor yn ailadrodd nad oes unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisiau'r cyngor ar drefniadau derbyn a threfniadau teithio gan ddysgwyr.*
- *Dywed y cyngor fod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi ei gynnal a chanfuwyd na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar grŵp penodol o'r gymdeithas. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw fanylion am yr asesiad hwn.*
- *Dywed y cyngor fod asesiad o'r effaith ar y gymuned wedi'i gynnal ar gyfer y cynigion hyn ac mae'n darparu dolen i'r asesiad hwn. Fodd bynnag, nid oes dogfen o'r fath wrth ddilyn y ddolen hon. Hefyd, ni wneir unrhyw sylw ynghylch canfyddiadau'r asesiad effaith cymunedol hwn.*
- *Nid yw papur yr ymgynghoriad yn cyfeirio at effaith y cynnig hwn ar ddarpariaeth Gymraeg o fewn yr awdurdod lleol na sut y byddai hyn yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'n sôn yn gyffredinol am addysg Gymraeg yng Nghaerdydd ac yn cyfeirio at rai ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n glir felly sut y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg sydd ag ADY.*
- *Mae'r cyngor wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar safonau, addysgu a phrofiadau dysgu, cymorth gofal ac arweiniad ac arweinyddiaeth a*

rheolaeth. Daw i'r casgliad na ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar safonau addysg nac ar brofiadau addysgu a dysgu. Yn ogystal, mae'n bwriadu gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i helpu i wella a chynnal cymorth, gofal ac arweiniad a sicrhau bod newidiadau'n cael eu cynllunio'n ofalus fel na fydd tarfu ar arweinyddiaeth na llywodraethiant.

- Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, na'r modd y caiff y cyfnod sylfaen nac unrhyw gyfnod allweddol arall eu haddysgu yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig. Mae'n ymddangos bod hyn yn deg ac yn rhesymol.
- *Mae'r cyngor wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, y rhai sy'n cael pryddau ysgol am ddim a'r rhai sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae wedi datgan y byddai'r rhai sydd ag ADY yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig ac nad oes gwybodaeth ar gael i awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y grwpiau eraill o ddisgyblion sy'n agored i niwed.*
- *Nid yw'r cyngor wedi darparu unrhyw fanylion penodol sy'n ymwneud â tharfu posibl ar ddisgyblion o ganlyniad i'r cynnig hwn, ond mae'n siarad yn fwy cyffredinol am sicrhau bod y cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg a diogelwch uchel yn cael eu cynnal.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

5. Mae'r Cyngor yn cydnabod casgliadau Estyn ar rinweddau cyffredinol y cynigion.
6. Bydd Uned Blynyddoedd Cynnar Moorland yn cael ei hariannu'n rhannol gan grant Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru, gyda'r gweddill i'w ariannu o'r gyllideb Adnewyddu Asedau Addysg gyda chyllid ychwanegol ar gael drwy ddyraniad Buddsoddi i Arbed y gyllideb gyfalaf i ysgolion.
7. Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd Cynghorau eraill neu mewn ysgolion annibynnol. Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn oedd £6.3m yn 2020/21. Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar £7.3m.
8. Bydd sefydlu darpariaeth ychwanegol yng Nghaerdydd yn caniatáu i blant gael eu haddysgu'n agosach i'w cartrefi a chynnal cysylltiadau â'u cymunedau lleol. Mae'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn cynrychioli buddsoddiad cyfalaf a

refeniw sylweddol a fydd yn cael ei ariannu'n rhannol gan ostyngiad mewn costau y tu allan i'r sir.

9. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ysgol, cytunwyd, yn amodol ar benderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynigion, y byddai'r dyddiad cychwyn arfaethedig ar gyfer y ddarpariaeth newydd yn cael ei wthio nôl i fis Medi 2023. Byddai hyn yn caniatáu digon o amser i gwblhau'r gwaith adeiladu angenrheidiol ac i'r trefniadau staffio gael eu datblygu.
10. Mae lefel anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector Saesneg. Fodd bynnag mae hyn wedi bod yn newid dros y 4-5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o ADY, ym mhob maes angen.
11. Cynhaliwyd adolygiad o ADY yn y sector Cymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i lywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Nododd ysgolion nifer fach ond arwyddocaol o enghreifftiau o ddisgyblion ag ADY yn gadael y sector Cymraeg er mwyn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig.
12. Roedd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg Gymraeg yn dewis addysg Saesneg yn lle hynny os oedd ADY gan eu plentyn, oherwydd pryder y gallai fod angen i'w plentyn drosglwyddo i'r sector arbenigol yn ddiweddarach.
13. Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.
14. Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle mae'r ganolfan uwchradd wedi ei sefydlu. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chefnogi ystod o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau lleferydd ac iaith ac awtistiaeth.
15. Wrth i'r sector Cymraeg barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag ADY cymhleth.
16. Yn dilyn sesiynau ymgysylltu ag aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd yn haf 2021, ymgynghorodd y Cyngor yn ffurfiol ar ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft (CSCA) 2022-2032 rhwng 15 Hydref 2021 ac 13 Rhagfyr 2021.

17. Dosbarthwyd dolenni i'r cynllun (gan gynnwys y CSCA drafft llawn, y fersiwn gryno hawdd ei deall a'r Taflwybr Twf) a thudalen we'r arolwg hefyd i randdeiliaid statudol gan gynnwys ysgolion Caerdydd a sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd.
18. Mae'r CSCA drafft yn nodi y bydd y strategaeth ar gyfer datblygu darpariaeth a chynigion anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn cael eu dwyn ger bron fel rhan o'r broses o weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn dilyn cytuno ar y strategaeth gan Lywodraeth Cymru a mabwysiadu ffurfiol gan y Cyngor yn ddiweddarach yn 2022.
19. Bydd datblygiad parhaus darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys darpariaeth newydd a phresennol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod cynigion yn cael eu cyflwyno mewn ffordd strategol a chyfannol sy'n ystyried anghenion ein holl ddysgwyr ac yn adlewyrchu'r ychwanegedd sydd ei angen i sicrhau bod y sector cyfrwng Cymraeg yn gydradd wrth i leoedd newydd gael eu darparu drwy'r CSCA arfaethedig.
20. Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion a feddiannir o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol.
21. Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol gan ymgynghori â'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg uchel a safonau diogelwch yn cael eu cynnal.

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Moorland

22. Cyflwynodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Moorland eu hymateb drwy e-bost. (Ceir copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6).
 - *Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Moorland yn croesawu'r cyfle i helpu i wella a chynyddu'r mynediad sydd ar gael i amgylcheddau arbenigol er mwyn helpu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae Moorland yn ymfalchïo yn ei hethos cynhwysol ac mae'n deall y bydd darparu amgylchedd priodol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu helpu i ffynnu a bod y gorau allant fod. Croesewir ychwanegu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Moorland gan y Corff Llywodraethu a byddai'n ychwanegiad cadarnhaol i'r ardal hon yng Nghaerdydd lle mae gan blant ag anghenion dysgu ychwanegol amseroedd teithio hir yn aml i gyrraedd eu hysgol.*
 - *Rydym yn teimlo'n gryf, er mwyn hwyluso pontio llyfn i blant a theuluoedd a chyfyngu ar darfu diangen i bob dysgwr, y dylai dysgwyr CA2 o fewn y dyraniad arfaethedig o leoedd CAA, ddechrau ar eu taith gyda Moorland unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau yn y prif adeilad. Dylai dysgwyr y cyfnod sylfaen ymuno â ni unwaith y bydd yr uned blynyddoedd cynnar newydd wedi'i chwblhau. Er ein bod yn cydnabod bod pwysau ar leoedd ADY cyfnod sylfaen, teimlwn y bydd yn amharu'n fawr ar y plant a'r*

teuluoedd i orfod symud amgylchedd dysgu ddwywaith. Rydym hefyd yn teimlo'n gryf y dylai pob plentyn cyfnod sylfaen allu cyrchu'r amgylchedd y tu allan yn rhwydd a bydd yr adeilad newydd yn cyflawni hyn ar gyfer ein holl blant cyfnod sylfaen. Mae'n bwysig i ni fod teuluoedd ein plant newydd yn teimlo'n hyderus a bod y plant yn gallu ymgartrefu cyn gynted â phosibl a dod yn rhan o deulu Moorland.

- Fel rhan o hyn, rydym am sicrhau bod gennym gyfnod pontio mor llyfn â phosibl a bydd angen cyllid arnom mewn modd amserol er mwyn recriwtio staff priodol waeth beth fo'r oedi posibl wrth gwblhau'r adeilad. Byddai angen i hyn gynnwys cyllid i athro ddechrau yn Moorland ar gyfer ail hanner tymor yr haf os yw'r dosbarth CAA cychwynnol i ddechrau ym mis Medi 2022. Fel Corff Llywodraethu, byddem am gael sicrwydd bod y cyllid ar gyfer lleoedd ychwanegol ar gyfer y CAA ac unrhyw gostau cysylltiedig eraill wedi'u 'clustnodi' ac yn ychwanegol at ein cyllideb a ddyrannwyd ac nid drwy wneud arbedion o fewn y gyllideb.*
- Fel ysgol rydym yn awyddus i hyrwyddo teithio llesol a byddai gwelliannau i lwybrau teithio llesol o fudd i'n holl blant a'n cymuned. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r cyngor i gyflawni'r gwelliannau hyn a gwneud teithiau i'r ysgol yn fwy diogel ac yn wyrddach i bob un ohonom. Ein pryder penodol yw'r diffyg croesfan ddiogel i gerddwyr wrth fynedfa Heol y Morfa i'r ysgol. Mae pob disgybl yn gorfod wynebu croesi ffordd lydan heb groesfan i gerddwyr neu groesi rhwng ceir sydd wedi'u parcio'n agos, ac nid yw'r naill na'r llall yn ddymunol a byddai'n bryder ychwanegol i blant ADY ymuno â ni, yn enwedig gan na fyddant o reidrwydd yn cyrraedd mewn ceir/tacsis os ydynt yn byw'n lleol. Gan y bwriedir i'r CAA agor ym mis Medi 2022, byddem yn awyddus i'r mesurau hyn gael eu cynllunio a'u gweithredu mewn modd amserol er mwyn hwyluso pontio llyfn i'n disgyblion newydd, annog teithio diogel llesol ac yn ei dro helpu i wneud Caerdydd yn ddinas sy'n dda i blant sy'n werddach a mwy diogel.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

23. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth y Corff Llywodraethu i'r cynnig.
24. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â tharfu ym mharagraff(au) 19 - 21.
25. Bydd y Cyngor yn cefnogi'r ysgol gyda chynllunio pontio. Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol yn cael ei hariannu'n llawn ac ar wahân i gyllid prif ffrwd a fyddai'n cael ei ddiogelu. Byddai hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu cyflogi staff â chymwysterau a phrofiad addas ar yr adeg briodol.
26. Byddai rhai disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol a byddai cyfleusterau ar gyfer gollwng yn cael eu darparu ar gyfer y nifer fach hon o gerbydau.
27. Mae'r Cyngor yn cymeradwyo dymuniad yr ysgol i hyrwyddo teithio llesol a gwneud yr ysgol yn fwy diogel. Bydd y cynigion yn cynnwys mesurau a

nodwyd eisoes gan Ddatganiad Trafnidiaeth i sicrhau'r teithio llesol a chynaliadwy gorau posibl er mwyn gwella amodau i gerddwyr ger yr ysgol.

28. Byddai adolygiad o gyfyngiadau parcio a llwytho a gweithredu Stryd Ysgol ar y ddwy stryd gyfagos yn gwella diogelwch drwy annog cerbydau eraill i beidio â dod y ffordd honno, a lleihau tagfeydd a phroblemau parcio a diogelwch.
29. Bydd mesurau pellach i annog cerddwyr a mynediad teithio llesol eraill yn cael eu darparu gyda gwelliannau i lwybrau troed, croesfannau a mynediad drwy'r parc.

Pennaeth Ysgol Gynradd Moorland

30. Cyflwynodd Pennaeth Ysgol Gynradd Moorland yr ymateb canlynol drwy e-bost. (Ceir copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Fel Pennaeth Ysgol Gynradd Moorland, rwy'n croesawu'r cyfle i ddatblygu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a chydnabod yr angen am ddarpariaeth o'r fath yn y rhan hon o'r ddinas. Byddwn yn gweithio i sicrhau y bydd y ganolfan yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel i blant ag anghenion ychwanegol ac i sicrhau bod y ganolfan yn cael ei chynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.*
 - *Yn gyntaf, yr wyf yn pryderu am y cynnig i ddefnyddio'r ystafell a gynlluniwyd ar gyfer darpariaeth CA2 yny lle cyntaf ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ystafell yn anaddas i ddysgwyr iau o ystyried ei bod i fyny'r grisiau a chryn bellter o'r ddarpariaeth awyr agored y bydd ei hangen arnom i alluogi plant gael mynediad i gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ystafell wedi'i lleoli ar hyd coridor ac i fyny'r grisiau ac rhwng ystafelloedd dosbarth Blynnyddoedd 5 a 6. Yr wyf hefyd yn pryderu am blant y Cyfnod Sylfaen yn dechrau yn yr ystafell hon ac yna'n gorfod trosglwyddo i'r adeilad newydd unwaith y bydd wedi'i gwblhau, yn enwedig os yw'r cyfnod pontio hwn yng nghanol blwyddyn. Bydd hyn yn aflonyddgar ac yn anodd iawn i blant a'u teuluoedd.*
 - *Yn ail, yr wyf yn awyddus i sicrhau bod y ganolfan adnoddau'n cael ei chynllunio a'i threfnu'n dda mewn modd amserol. Bydd yn bwysig i'r ysgol gael digon o rybudd i gyflogi staff. Rwy'n teimlo bod angen gwarant ar gyllid ar yr ysgol hefyd mewn sefyllfa lle byddai aelod o staff yn cael ei gyflogi cyn agor y ganolfan ac yna oedi ar agor honno. Ni ddylai'r ysgol fod yn atebol am gostau staffio yn achos oedi.*
 - *Yn drydydd, mae'n bwysig bod y cynnydd yn y cyllid a roddir i'r ysgol i roi cartref i'r ganolfan adnoddau yn cydnabod y llwyth gwaith ychwanegol sylweddol o sicrhau bod ugain o blant ag anghenion cymhleth yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn yr ysgol. Mae'r ehangu'n gynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith ar gyfer y Cydlynwyr ADY yn yr ysgol ac i'r uwch dîm arwain.*

- *Yn bedwerydd, mae gennyf bryderon am yr ystafell ddosbarth a ddewiswyd ar gyfer y ganolfan adnoddau CA2. Mae'n ymddangos bod y cynllun presennol yn golygu atal llawer iawn o olau i greu ystafell wlyb ac ystafell adnoddau. Bydd hyn yn gadael yr ystafell ddosbarth gyda dim ond un ffenestr fach a fydd yn gwneud hon yn ystafell ddosbarth dywyll iawn.*
- *Yn olaf, hoffwn gael sicrwydd bod y trefniadau trafniadaeth yn cael eu hystyried yn drylwyr iawn. Mae cryn bryder eisoes ynghylch nifer y ceir, tacsis a bysiau ysgol sy'n gollwng y tu allan i'r ysgol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw groesfannau diogel ger yr ysgol a chyda chynnydd arfaethedig mewn cerbydau mae hyn yn rhywbeth sydd angen ei ystyried yn ofalus.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

31. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth y Pennaeth i'r cynnig.
32. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â chynllunio a phontio ym mharagraffau 19 – 21 a 25.
33. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â chyllid ym mharagraff 25.
34. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â threfniadau cludiant Ysgol Gynradd Moorland ym mharagraff(au) 27 – 29.

Ymatebion a gafwyd ynghylch sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol 11-19 ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrwm Awtistig yn ystod y cyfnod ymgynghori

35. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:
 - Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Willows
 - Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Llanisien
 - Pennaeth Ysgol Uwchradd Llanisien
 - Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Estyn

36. Roedd ymateb gan Estyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Rydym yn croesawu'r cynnig hwn sy'n eistedd ochr yn ochr ag eraill ac yn anelu at sicrhau darpariaeth decach i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ar draws y Ddinas ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.*
 - *Ystyriwn fod y cynnig yn debygol o, o leiaf, gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.*

- *Mae'r cynigion yn amlinellu'n glir iawn bum egwyddor gyffredinol y dylai pob ysgol a lleoliad anelu atynt a'u cyflawni wrth gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol... Fodd bynnag, nid yw'n glir, os oes fframwaith cyffredinol a fydd yn helpu i sicrhau bod yr egwyddorion yn cael eu gwireddu. Gellid defnyddio fframwaith cyffredinol hefyd i arwain a chynorthwyo ysgolion sydd naill ai'n sefydlu neu'n datblygu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol. Nid yw'n glir ychwaith pa gymorth neu rwydweithiau sy'n bodoli, neu a gaiff eu creu, i gefnogi arweinwyr a staff wrth iddynt ddatblygu ac ymgorffori arferion effeithiol wrth ddiwallu anghenion disgyblion.*
- *Dywed y cynigydd fod adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd a'r unedau cyfeirio disgyblion yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd cwmpas a chanlyniadau'r adolygiad o fudd i ddisgyblion mewn canolfannau adnoddau arbenigol ledled y ddinas. Nid yw'n glir ychwaith a fydd yr adolygiad yn edrych ar y ddarpariaeth Gymraeg ochr yn ochr â'r ddarpariaeth Saesneg.*
- *Mae'r cynnig yn rhoi sylw priodol i'r capasiti presennol a sut nad yw'n gallu bodloni'r galw am leoedd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu cymhleth a chyflwr sbectrwm awtistig a'r diffyg lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd.*
- *Mae'r cynigydd yn diffinio canolfannau adnoddau arbenigol fel "dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. Mae gan bob disgybl sy'n mynychu canolfan adnoddau arbenigol ddatganiad AAA ac fe'u haddysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu, ac maent yn cael cyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu gyda disgyblion prif ffrwd eraill..." Nid yw'n glir o'r diffiniad a all disgyblion, lle y bo'n briodol, gyrchu gwersi, gyda chymorth priodol lle bo angen, ochr yn ochr â disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru] mae angen i'r cynigydd ystyried derbyn disgyblion â chynlluniau datblygu unigol.*
- *Ymddengys bod y cynnig yn rhoi cyfleoedd effeithiol i randdeiliaid, sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd ymateb. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gael mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar-lein. Mae'r broses wedi'i nodi'n glir gydag amserlenni a sut y caiff yr ymgynghoriad ei ddefnyddio.*
- *Mae datganiadau a wnaed gan y cynigydd ar gyfer pob ysgol, er enghraifft, profiad addysgu a dysgu a gofal, cymorth ac arweiniad yn union yr un fath ac nid ydynt yn rhoi cyfrif digon da o sut y caiff y rhain eu teilwra i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol penodol y disgyblion.*
- *Mae'r cynnig yn ystyried dewisiadau amgen addas, ar gyfer pob ysgol, ac yn amlinellu'r manteision a'r anfanteision posibl yn briodol.*
- *Mae'r cynigion yn ystyried yn briodol y goblygiadau teithio i ddisgyblion. Mae pob cynnig yn rhagweld y tebygolrwydd o leihau amser teithio o'r cartref*

i'r ysgol i rai disgyblion. Maent hefyd yn nodi'r angen i asesu ymhellach addasrwydd man gollwng a chasglu ar bob safle ysgol.

- Mae'r cynnig cyffredinol yn ystyried y ddarpariaeth Gymraeg ond nid yw'n adlewyrchu'r uchelgais a nodwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft yr awdurdod lleol 2022-2032. Dywed y cynllun fod yr awdurdod yn anelu i gynyddu nifer y lleoedd arbenigol uwchradd i'w darparu mewn CAA sydd wedi'u lleoli ym mhob ysgol uwchradd Gymraeg gydag anghenion arbenigol gwahanol ym mhob canolfan i gyflawni lefel o ddarpariaeth arbenigol sy'n gydradd â sectorau eraill ac sy'n ymateb yn briodol i anghenion unigol. Nid yw'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â'r nod penodol hwn yn ddigon da.*
- Dywed y cynigydd fod cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, ni ddarperir rhagor o fanylion ac nid oes sicrwydd y bydd y cyfle'n troi'n ymrwymiad neu'n realiti cadarn. Dywed y cynigydd ymhellach fod y nifer o staff addysgu ADY cymwys a phrofiadol Cymraeg eu hiaith, yn gyfyngedig o ran nifer, o'i gymharu â'r sector Saesneg. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y bydd angen i unrhyw gynllun i ddatblygu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg gael ei gefnogi gan Gynllun Datblygu'r Gweithlu Anghenion Dysgu Ychwanegol ond nad oes unrhyw fanylion nac ymrwymiad ynghylch sut y bydd hyn yn digwydd.*
- Mae'r cynigydd yn honni'n gywir y gallai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gael newid yn anodd. Heblaw am gydnabod bod angen cynllunio newid yn ofalus, mae gwybodaeth am gynllunio pontio yn gyfyngedig iawn.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

37. Mae'r Cyngor yn cydnabod casgliadau Estyn ar rinweddau cyffredinol y cynigion.
38. Mae'r egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn adlewyrchu'r ymagwedd y mae'r Cyngor yn ei chymryd wrth ddatblygu darpariaeth ADY.
39. Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth i leoliadau arbenigol gan gynnwys staff arbenigol, cymorth DPP i staff ddatblygu, fforymau Cydlynwyr ADY, cyfarfodydd Cydlynwyr ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol ar gyfer Penaethiaid a diweddariadau rheolaidd i gyrff llywodraethu.
40. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r bwrdd lechyd i adolygu gwasanaethau. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys ystyried darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn ogystal â darpariaeth ysgolion arbennig

41. Mae disgyblion sy'n mynychu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn elwa ar gwricwlwm arbenigol sydd wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, lle bo'n briodol, gall disgyblion gyrchu darpariaeth prif ffrwd.
42. Yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru], mae'r newid i gynlluniau datblygu unigol yn cael ei ddatblygu.
43. Eir i'r afael â materion sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg ym mharagraff(au) 10 - 19.
44. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gydag ysgolion i nodi trefniadau pontio priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau hyn yn dibynnu ar anghenion unigol ac yn cael eu datblygu yn ôl y gofyn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys darparu/amseru cyllid, cymorth gyda recriwtio a hyfforddi staff, nodi anghenion ac adolygiadau parhaus.

Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Willows

45. Cyflwynodd Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Willows eu hymateb drwy e-bost. (Ceir copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Rydym yn croesawu amcan y Cyngor o ddod â'r ddarpariaeth hon yn agos at y disgyblion a fydd yn ei defnyddio ac sy'n byw'n lleol.*
 - *Rydym yn croesawu ymrwymiad gan y Cyngor na fydd rheoli ac adnoddau'r cyfleuster o ddydd i ddydd yn effeithio ar weddill yr ysgol ond hoffem gael eglurhad pellach ar gyllid a neilltuwyd ar gyfer y ddarpariaeth.*
 - *Bydd amcan Caerdydd o gynnig darpariaeth anghenion dysgu cymhleth ar draws y ddinas ac mewn canolfannau adnoddau arbenigol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y disgyblion dan sylw ac rydym yn croesawu hyn.*
 - *Y ffordd orau o gyflwyno'r ddarpariaeth hon fyddai fel rhan o'r adeiladau Willows newydd, er gwaethaf y rhif niferoedd derbyn a gyhoeddwyd, nid oes digon o le yn yr ysgol.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

46. Mae'r Cyngor yn cydnabod cefnogaeth y Corff Llywodraethu i'r cynnig.
47. Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol yn cael ei hariannu'n llawn ac ar wahân i'r cyllid prif ffrwd a fyddai'n cael ei ddiogelu.
48. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i nodi llety addas ar gyfer y ganolfan adnoddau arbenigol. Byddai derbyniadau i'r ganolfan gan y Cyngor yn cael eu cyflwyno'n raddol, ac felly ni fyddai angen llety ar yr ysgol ar gyfer 30 o ddysgwyr ar adeg ei gweithredu.

49. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo i'w weithredu, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth y ganolfan adnoddau arbenigol ar draws y gymuned ysgol ehangach.

Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Llanisien

50. Cyflwynodd Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Llanisien eu hymateb drwy e-bost. (Ceir copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
- *Yn dilyn ein cyfarfod ymgynghori â swyddogion ar 17 Ionawr, fel Cadeirydd y Corff Llywodraethu, gallaf gadarnhau ein cefnogaeth i'r cynlluniau i ffurfioli'r ddarpariaeth estynedig a gynigir ar hyn o bryd o fewn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol i 45 o fyfyrwr yn Ysgol Uwchradd Llanisien.*
 - *Rydym eisoes yn sicrhau staffio priodol ac wedi ystyried pob agwedd iechyd a diogelwch ar integreiddio i arferion dyddiol a bywyd yr ysgol yn Llanisien. Rydym eisoes wedi ystyried ein cynlluniau teithio llesol ac wedi ymgorffori'r ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon ynghylch y man gollwng a chasglu yn ogystal â'r effaith ar barcio ar y safle. Bydd angen i lawer o'r disgyblion hyn gael eu gollwng a'u casglu gan gludiant dynodedig, yn aml ar sail 1:1. O'r herwydd, bydd angen ailgynllunio ein cludiant ysgol cyffredinol a'n hardal cwrt blaen i fod yn addas i'r diben ac yn ddiogel i bob defnyddiwr, yn enwedig myfyrwr y CAA.*
 - *Mae gennym ddarpariaeth ragorol ac rydym yn agored i agor yr adnodd hwn ledled y ddinas er budd yr holl fyfyrwr, ond mae angen i ni sicrhau mai iechyd a diogelwch sydd bwysicaf yn ogystal â rhwyddineb pontio – gall rheoli newid fod yn anodd i'r myfyrwr hyn a'u teuluoedd. Fel ysgol gyfun leol gwbl gynhwysol, byddem am wasanaethu anghenion y gymuned leol yn gyntaf ac yn bennaf.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

51. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth y Corff Llywodraethu i'r cynnig.
52. Gyda'r galw cynyddol disgwylidig am Drafnidiaeth i Ddysgwyr ar gyfer disgyblion y Ganolfan Adnoddau Arbenigol, byddai'r safle'n cael ei hadolygu i sicrhau bod cyfleusterau addas a digonol ar gyfer gollwng a chasglu ar gael ar y safle i ddarparu ar gyfer y nifer briodol o gerbydau, ac fe wneir gwelliannau os oes angen. Efallai y bydd angen addasu mynediad yr ysgol yn ogystal.

Corff Llywodraethu a Phennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

53. Cyflwynodd Corff Llywodraethu a Phennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf eu hymateb drwy e-bost. (Ceir copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
- *Rydym yn croesawu cyhoeddi dogfennaeth ymgynghoriad Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ar gynlluniau i gynyddu a gwella adnoddau addysg arbenigol ledled y ddinas. Mae hwn yn fuddsoddiad ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a rhai sydd eisoes yn wynebu heriau sylweddol mewn bywyd y gall y*

cyngor fod yn wirioneddol falch ohono. Yn ogystal, byddwn yn cytuno'n llwyr fod y galw am y ddarpariaeth arbenigol yma i anghenion mwy cymhleth, yn enwedig o ran anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol, wedi cynyddu'n amlwg iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

- Mae uchelgais a dyhead y Cyngor Sir i ymateb i angen a thwf i'w croesawu'n llawn drwy sicrhau'r lleoedd a'r amgylchedd gorau posibl yn Ysgolion yr 21ain Ganrif. Drwy fabwysiadu'r dull hwn, mae'r Cyngor yn hyrwyddo cynhwysiant, gofal ac uchelgais i ddisgyblion a theuluoedd sy'n wynebu heriau ymarferol a chymhleth. Byddem ni fel corff yn falch o weld y cynlluniau hyn yn lliniaru ac yn cefnogi'r unigolion hynny yn sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.*
- Rydym yn croesawu'r buddsoddiad hwn yn y Ganolfan, a fydd yn sicrhau adnoddau a chanolfan bwrpasol i'n dysgwyr ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r amserlen yn rhy uchelgeisiol, ac mae'n annhebygol iawn y bydd y Ganolfan newydd ar agor erbyn mis Medi 2023. Gofynnwn am gymorth ymarferol i wella adnoddau ein Canolfan bresennol i ddiwallu anghenion ein disgyblion nes bod y Ganolfan newydd yn agor. Mae hyn yn arbennig o wir o ran sicrhau y byddwn yn gallu croesawu a chynnig darpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr newydd ym mis Medi 2022 a 2023.*
- Er gwaethaf y bwriad i sefydlu'r Ganolfan hon fel cam cyntaf, credwn fod methu â sefydlu canolfan debyg ar gyfer disgyblion cynradd Cymraeg yn wendid sylfaenol. Mae'n debygol o wanhau ein gallu i sicrhau llwybr dysgu cyson a gofalgwr i ddisgyblion awtistig o'r Cyfnod Sylfaen drwy CA2 ac i'r adran arbenigol uwchradd. Ofnwn y bydd llawer o ddisgyblion awtistig yn gadael y sector Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar oherwydd y diffyg hwn. Dylid edrych yn fuan iawn ar sefydlu Canolfan oedran cynradd arbenigol i ddarparu'r cymorth allweddol hwn yn y blynyddoedd cynnar er mwyn cefnogi dysgwyr a'u teuluoedd. Byddai hyn yn debyg i'r cymorth awtistig sydd eisoes yn bodoli yn y sector cynradd Saesneg yng Nghaerdydd.*
- Er ein bod ni fel Corff Llywodraethu yn croesawu'r buddsoddiad yn y ddwy Ganolfan, mae angen rhoi sylw manwl i gapasiti ein campws a'n hadeiladau presennol. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, mae addasrwydd adeiladau Glantaf yn dod o fewn Categori C (er y byddai Canolfan Glantaf ar ei phen ei hun yn debygol o ddod o dan gategori D). Mae hyn yn dangos nad yw addasiadau i adeiladau presennol yng Nglantaf yn debygol o fod yn fuddsoddiad gwerth am arian, ac nid ydynt yn debygol o fod yn effeithiol o ystyried poblogaeth bresennol yr ysgol a'r niferoedd a ragamcennir. Mae cynlluniau'r Awdurdod yn nodi y bydd y niferoedd yng Nglantaf yn dal i fod o dan gapasiti yn y blynyddoedd i ddod, ond mae hyn yn annhebygol.*
- Felly, rydym yn ei gwneud yn glir y dylai'r ymgynghoriad hwn sicrhau buddsoddiad digonol i beidio â lleihau capasiti adeiladau presennol yr ysgol, ond yn hytrach i ymestyn ac ehangu ein cyfleusterau a'n hadnoddau.*

- *Wrth groesawu'r buddsoddiad, rydym yn gwerthfawrogi y bydd y gwaith adeiladu yn golygu colli ardal chwarae/cae pêl-droed ac felly'n nodi na ddylid cyfyngu ar ardaloedd dysgu presennol yr ysgol hefyd. Yn ogystal, dylai'r buddsoddiad mewn addysg arbenigol hefyd fod yn fodd o wella ac ehangu adnoddau ar gyfer pob disgybl, drwy sicrhau bod mynediad hawdd at rannu adnoddau a sicrhau budd y buddsoddiad i holl aelodau cymuned Glantaf.*
- *Mae'r ymgynghoriad yn nodi uchelgais wirioneddol i wella cyfleusterau ADY arbenigol ar gyfer pob disgybl. Mae'n hynod siomedig felly nad oes datganiad (ac eithrio buddsoddiad Glantaf) i ymestyn y ddarpariaeth a'r cymorth i ddisgyblion mewn ysgolion Cymraeg.*
- *Yn wir, mae hyn yn rhyfedd o gofio bod ymgynghoriad CSCA Caerdydd yn dangos bwriad i agor Canolfan Arbenigol ADY mewn tair ysgol gynradd Gymraeg ac ym mhob un o'r tair ysgol gyfun. Mae cyhoeddi dogfennau strategol nad ydynt yn dangos cysondeb cyfeiriad ym maes datblygu'r Gymraeg yn creu dryswch ac yn tanseilio ymddiriedaeth rhanddeiliaid.*
- *Hoffem gynnig bod swyddogion y sir yn cynnal archwiliad cynnar o ysgol gychwynnol pob disgybl o fewn unedau ac ysgolion arbenigol Caerdydd ar hyn o bryd. Byddai hyn yn canfod canran y disgyblion a ddechreuodd eu taith ddysgu mewn meithrinfa neu ysgol Gymraeg cyn i rieni ddewis neu orfod symud eu plentyn i addysg Saesneg neu arbenigol. Ofnwn fod yn rhaid i lawer o rieni wynebu pwysau ymarferol i drosglwyddo eu plentyn o addysg Gymraeg oherwydd diffyg adnoddau neu arbenigedd, sydd wedyn yn lleihau cyfleoedd a phrofiadau i'w mab/merch drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai dadansoddiad o'r fath yn ddangosydd gwerthfawr nid i fesur y galw/darpariaeth bresennol yn y sector, ond i'w ddeall yng nghyd-destun yr hyn a allai fod pe bai'r ddarpariaeth ar gael, yn lleol ac yn addas i bob disgybl. Ein prif ofn o'r buddsoddiad sylweddol hwn (sy'n canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar addysg arbenigol cyfrwng Saesneg), yw y bydd hyn yn cynyddu'r pwysau ar rieni i symud eu plant ac i orfod dewis addysg Saesneg i'w plentyn.*
- *Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r twf amlwg mewn anghenion cymorth arbenigol o ran iechyd meddwl a lles emosiynol disgyblion. Fodd bynnag, nid oes cydnabyddiaeth bod yr un twf/pwysau yn union yn digwydd mewn ysgolion Cymraeg yn ogystal ag ysgolion Saesneg. Nid oes cynllun na bwriad i sefydlu unrhyw ddarpariaeth Gymraeg yn y maes hwn o fewn addysg gynradd nac uwchradd. Mae angen ymateb ar frys i'r galw hwn mewn ysgolion Cymraeg, sydd ar adegau yn methu â darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion lles mwy cymhleth ein disgyblion mwyaf agored i niwed.*
- *Y cam nesaf yw'r angen i gynyddu'r ddarpariaeth ADY Gymraeg er mwyn sicrhau bod y sector yn gynhwysol ac yn gallu croesawu pob disgybl, beth bynnag yw eu gallu. Mae'n anffodus iawn na fu'n bosibl cynyddu capasiti addysg arbenigol wrth agor ysgolion cynradd newydd o fewn y sector dros*

y blynyddoedd diwethaf, ac awgrymwn y dylai pob buddsoddiad newydd o hyn ymlaen gynnwys cynlluniau i ateb y galw o ran ADY.

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

54. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth y Corff Llywodraethu i'r cynnig.
55. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r ysgol er mwyn eu cefnogi'n ymarferol i wella adnoddau'r Ganolfan bresennol i ddiwallu anghenion disgyblion nes bod y Ganolfan newydd yn agor. Mae Caerdydd yn cynnal fforymau rhwydweithio helaeth gyda chyfarfodydd Cydlynwyr ADY rheolaidd, hyrwyddwyr CDU ac arweinwyr clwstwr gydag ystod eang o hyfforddiant. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal diweddariadau ADY bob tymor ar gyfer penaethiaid ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd i gyrrff Llywodraethu.
56. Eir i'r afael â materion sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg ym mharagraff(au) 10 - 19.
57. Fel y nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 (Deilliant 6), bydd y Cyngor yn monitro ceisiadau i gael trosglwyddo o ysgolion Cymraeg i'r sector Saesneg yn y ddinas a chynnal ymchwil bellach lle mae gan y rhai sy'n optio allan o'r sector hwn CDUau ADY ar waith i sicrhau gwell dealltwriaeth o bryderon a sicrhau bod sicrwydd a chymorth priodol yn cael eu darparu gyda'r bwriad o'u gweld yn ailystyried aros.
58. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r ysgol ynghylch darparu llety adeiladu newydd ar gyfer y ddarpariaeth adnoddau arbenigol bresennol yn yr ysgol a'r ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ychwanegol arfaethedig. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu i gefnogi cyfleoedd dysgu a datblygiad parhaus ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol o ansawdd uchel yn yr ysgol.

Ymatebion a gafwyd ynghylch sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol 3 - 19 ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflwr Sbectrwm Awtistig yn ystod y cyfnod ymgynghori

59. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan
 - Estyn
 - Corff Llywodraethu Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin
 - Corff Llywodraethu Ysgol Arbennig Meadowbank
 - Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Arbennig Meadowbank
 - Staff Ysgol Arbennig Meadowbank
 - Corff Llywodraethu Ysgol Arbennig Hollies
 - Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Springwood

Estyn

60. Roedd ymateb gan Estyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)

- *Rydym yn croesawu'r cynnig hwn sy'n eistedd ochr yn ochr ag eraill i geisio sicrhau darpariaeth decach i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ar draws y Ddinas ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.*
- *Barn Estyn oedd bod y cynnig yn debygol, o leiaf, o gynnal safonau'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal.*
- *Mae'r cynigydd yn diffinio canolfannau adnoddau arbennigol fel "dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. Mae gan bob disgybl sy'n mynychu canolfan adnoddau arbenigol ddatganiad AAA ac fe'u haddysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwyr cymorth dysgu, ac maent yn cael cyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu gyda disgyblion prif ffrwd eraill..." Nid yw'n glir o'r diffiniad a all disgyblion, lle y bo'n briodol, gael gwersi, gyda chymorth priodol lle bo angen, ochr yn ochr â disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru] mae angen i'r cynigydd ystyried derbyn disgyblion â chynlluniau datblygu unigol.*
- *Mae'n ymddangos bod y cynnig yn rhoi cyfleoedd effeithiol i randdeiliaid, sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd ymateb. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar-lein. Mae'r broses wedi'i nodi'n glir gydag amserlenni a sut y caiff yr ymgynghoriad ei ddefnyddio.*
- *Mae'r cynnig yn cynnwys darparu llety newydd, addasu llety sy'n bodoli eisoes neu ymestyn adeiladau ym mhob ysgol ar wahân i Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, lle bydd hen ganolfan ieuenctid yn cael ei haddasu. Mae'r cynigydd yn esbonio bod y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn ar gam cynnar a byddai unrhyw gynllun ysgol neu gynlluniau safle manwl yn cael eu hystyried yn ddiweddarach pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu. Fodd bynnag, nid ydynt wedi ystyried y risgiau na'r anfanteision sy'n gysylltiedig â'r broses adeiladu, pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt. Er enghraifft, penodi contractwyr priodol, oedi wrth ddarparu prosiectau a sicrhau cyllid digonol.*
- *Mae datganiadau a wnaed gan y cynigydd ar gyfer pob ysgol, er enghraifft, profiad addysgu a dysgu a gofal, cymorth ac arweiniad yn union yr un fath ac nid ydynt yn rhoi cyfrif digon da o sut y caiff y rhain eu teilwra i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol penodol y disgyblion.*
- *Mae'r cynnig cyffredinol yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ond nid yw'n adlewyrchu'r uchelgais a nodwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft 2022-2032 yr awdurdod lleol. Dywed y cynllun fod yr awdurdod yn anelu i gynyddu'r "nifer o leoedd arbenigol uwchradd i'w*

darparu mewn CAA a fydd wedi eu lleoli ym mhob ysgol uwchradd Gymraeg gydag anghenion arbenigol gwahanol ym mhob canolfan i gyflawni lefel o ddarpariaeth arbenigol sy'n gydradd â sectorau eraill ac sy'n ymateb yn briodol i anghenion unigol". Mae hefyd yn anelu i gynyddu "nifer y lleoedd arbenigol cynradd i'w darparu mewn CAA a fydd wedi'u lleoli mewn tair ysgol gynradd (Gymraeg) man lleiaf, sy'n pontio i'r ysgolion uwchradd perthnasol ynghyd ag ymyrraeth gynnar/dosbarthiadau llesiant/dosbarthiadau anogaeth wedi eu dosbarthu ledled y ddinas i gyflawni lefel o ddarpariaeth sy'n gydradd â sectorau eraill". Nid yw'r cynnig hwn yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r nod hwn. Dywed y cynnig hefyd "fod galw cynyddol am ganolfannau adnoddau ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, sy'n gyflawnwyr cymedrol i uchel, a byddai angen model cymorth mwy integreiddiol arnynt na'r hyn a ddarperir gan y ddwy ganolfan bresennol. Ar hyn o bryd mae 15 o ddysgwyr oed cynradd mewn ysgolion Cymraeg a fyddai'n elwa o leoliad mewn canolfan Cyflwr Sbectrwm Awtistig". Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y cynnig yn mynd i'r afael â'r angen hwn.

- *Dywed y cynigydd fod cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, ni ddarperir rhagor o fanylion ac nid oes sicrwydd y bydd y cyfle'n troi'n ymrwymiad neu'n realiti cadarn.*
- *Mae'r cynigydd yn honni'n gywir y gallai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gael newid yn anodd. Heblaw am gydnabod bod angen cynllunio newid yn ofalus, mae gwybodaeth am gynllunio pontio yn gyfyngedig iawn.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

61. Mae'r Cyngor yn cydnabod casgliadau Estyn ar rinweddau cyffredinol y cynigion.
62. Lle bo'n briodol, bydd disgyblion ag Anghenion Dysgu ychwanegol yn gallu cyrchu darpariaeth prif ffrwd, yn enwedig o fewn canolfannau darpariaeth awtistiaeth. Fodd bynnag, mae gan rai disgyblion anghenion cymhleth iawn ac maent yn elwa mwy o gwricwlwm penodol sy'n diwallu eu hanghenion.
63. Yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru], mae'r newid tuag at gynlluniau datblygu unigol yn cael ei ddatblygu.
64. Eir i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg ym mharagraff(au) 10 - 19.
65. Bydd Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o sefydlu/ehangu darpariaeth arbenigol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol. Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo ar gyfer Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o

ganlyniad i'r newidiadau a gynigir yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ar gyfer ysgolion.

66. Mae darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion penodol. Mae'r ddarpariaeth arbenigol wahaniaethol hon yn cael ei chynllunio a'i darparu gan staff sy'n brofiadol ac yn gymwys i ddarparu addysgu a dysgu o ansawdd da.
67. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gydag ysgolion i nodi trefniadau priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau hyn yn dibynnu ar anghenion unigol ac yn cael eu datblygu yn ôl y gofyn Mae'r cymorth hwn yn cynnwys darparu/amseru cyllid, cymorth gyda recriwtio a hyfforddi staff, nodi anghenion ac adolygiadau parhaus.

Corff Llywodraethu Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin

68. Cyflwynodd Corff Llywodraethu Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin eu hymateb drwy e-bost. (Ceir copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod yr angen ar draws y ddinas am ddarpariaeth ychwanegol i gefnogi disgyblion cymhleth, yng nghyd-destun strategaeth ADY ychwanegol. Mae llywodraethwyr yn falch o'r ddarpariaeth y mae ysgol Tŷ Gwyn yn ei chynnig ar hyn o bryd ac yn croesawu'r cyfle i ymestyn y ddarpariaeth honno i fwy o ddisgyblion, yng nghyd-destun datblygu Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin. Fodd bynnag, mae'r Corff Llywodraethu'n glir bod yn rhaid cynllunio ac ariannu'r capasiti ychwanegol arfaethedig yn briodol, er mwyn sicrhau bod disgyblion presennol a newydd yn parhau i brofi darpariaeth ragorol sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn.*
 - *Er mwyn darparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol arfaethedig yn llwyddiannus i'r ysgol sydd ag anghenion cymhleth ac ar adegau ag angen lefel uchel o gymorth dwys, mae tîm arweinyddiaeth y Corff Llywodraethu a Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin yn glir bod angen lefel o gyllid cyfartalog ar gyfer disgyblion arnom sy'n adlewyrchiad cywir o heriau angen yn yr ysgol.*
 - *Mae angen adolygu'r disgrifyddion bandio disgyblion a'r categorïau lleoliadau presennol ar frys fel y gellir cadw a chynnal y cyllid cyfartalog disgyblion ar gyfer yr ysgol, er mwyn diwallu anghenion disgyblion yn llawn a'u galluogi i ffynnu a llwyddo.*
 - *A allwch amlinellu sut y bydd cyllid cyfartalog ar gyfer disgyblion y Ffederasiwn ac Ysgol Tŷ Gwyn yn cael eu cynyddu i gyflawni'r canlynol?*
 - *Trefniadaeth ac arweinyddiaeth ysgolion priodol ac addas i'r diben yng nghyd-destun Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin.*

- Cynnig dysgu proffesiynol cadarn sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o angen. Bydd hyn yn cefnogi gweithlu medrus sydd ei angen i fodloni gofynion y dysgwyr cymhleth y bwriedir iddynt fynychu'r lleoliad.
 - Buddsoddiad priodol a pharhaus mewn offer arbenigol sydd ei angen i gefnogi anghenion dysgwyr.
 - Rhaglen gynaliadwy o welliannau i'r amgylchedd presennol.
 - Gwelliannau i seilwaith yr ysgol.
- Er mwyn mynd i'r afael â datblygu'r gweithlu ar draws y lleoliad, mae angen dyrannu cyllid i fodloni'r gofynion arbenigol/anghenion hyfforddi er mwyn sicrhau bod datganiadau a Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a gofynion statudol yn cael eu bodloni.
 - Nid yw'r dyraniad grant presennol yn adlewyrchu'r buddsoddiad arbenigol sydd ei angen yn ein Cynorthwywyr Addysgu i wneud gwaith hanfodol gyda'n disgyblion. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cael ei ddyrannu drwy ein cyllideb graidd ac nid yw'n cyd-fynd â'n lleoliadau prif ffrwd.
 - A allwch amlinellu y bydd darpariaeth iechyd a darpariaeth arbenigol arall yn cael ei gwella i sicrhau bod anghenion pob disgybl yn parhau i gael eu diwallu'n llawn yn y lleoliad?
 - Wrth i nifer y disgyblion gynyddu ac o ystyried cymhlethdod disgyblion yn seiliedig ar anghenion iechyd ac ymddygiad, mae angen cynyddu iechyd a darpariaeth arbenigol arall i gyd-fynd â'r capasiti uwch a fwriedir fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Hoffai'r Corff Llywodraethu gael archwiliad cadarn o'r ddarpariaeth bresennol i roi eglurder ar y galw a thystiolaeth o ran pa gymorth fyddai ei angen pe bai'r niferoedd disgyblion yn cynyddu.
 - Gyda'r amlinelliad o'r argymhellion fel rhan o'r ddogfen ymgynghori, sut gaiff yr ysgol ei chefnogi i ddatblygu ei seilwaith o ran cymhlethdod cynlluniau rheoli traffig ar y safle a fydd yn cynnwys nifer sylweddol o gerbydau ar y safle fel rhan o'r diwrnod ysgol ac ymadael ar ddiwedd y dydd. Cynlluniwyd y cyfleuster presennol ar gyfer gollwng a chasglu i ddiwallu angen 120 o ddisgyblion. Pa gymorth fydd ar waith i fynd i'r afael â hyn yng ngoleuni cynnig ar gyfer 240 o ddisgyblion?
 - Byddai'r cynigion i gymryd 42 o ddisgyblion ychwanegol yn golygu chwech neu saith dosbarth ychwanegol, o ystyried anghenion cymhleth ein disgyblion. Er mwyn cyflawni hyn, byddai angen ystafelloedd dosbarth a chapasiti ychwanegol arnom a phenodi staff cymorth addysgu i fod yn weithredol rai misoedd cyn i niferoedd y disgyblion gynyddu. Diben hyn yw caniatáu hyfforddiant manwl i staff a pharatoi ystafelloedd ar gyfer y disgyblion ychwanegol hyn.
 - Mae cymhlethdod ein hanghenion yn golygu y bydd angen gofod trosiannol, darparu cymorth dwys a dosbarthiadau dros dro er mwyn hwyluso ailfodelu'r ddarpariaeth ysgol bresennol.

- Nid oes darpariaeth debyg i Ysgol y Court sydd ar gael i ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid cynnig yr un ddarpariaeth i'r sector cyfrwng Cymraeg ag a gynigir i'r sector cyfrwng Saesneg.

Amdanoch Chi

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal: -

	Nifer	%
Y Sblot	7	31.8
Cyncoed	3	13.6
Y Tyllgoed	3	13.6
Llandaf	2	9.1
Llanisien	2	9.1
Llanrhymni	2	9.1
Trowbridge	2	9.1
Ward Etholiadol Arall	1	4.5
Cyfanswm yr Ymatebwyr	22	100.0

Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

	Nifer	%
25-34	5	14.3
35-44	11	31.4
45-54	10	28.6
55-64	5	14.3
Grŵp oedran arall	1	2.9
Mae'n well gennyf beidio â dweud	3	8.6
Cyfanswm yr Ymatebwyr	35	100.0

A ydych chi'n...

	Nifer	%
Benywaidd	27	77.1
Gwrywaidd	6	17.1
Mae'n well gennyf beidio â dweud	2	5.7
Cyfanswm yr Ymatebwyr	35	100.0

A ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

	Nifer	%
Ydw	5	14.7
Nac ydw	25	73.5
Mae'n well gennyf beidio â dweud	4	11.8
Cyfanswm yr Ymatebwyr	34	100.0

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

Nododd naw o bobl gyflwr iechyd a oedd yn berthnasol iddyn nhw eu hunain, gellir gweld y rhain isod:

- Anawsterau iechyd meddwl
- Nam symudedd
- Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)
- Byddar / Wedi colli clyw / Trwm eu clyw
- Nam / anawsterau dysgu

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

	Nifer	%
Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig	28	80.0
Grŵp Ethnig Arall	4	11.4
Mae'n well gennyf beidio â dweud	3	8.6
Cyfanswm yr Ymatebwyr	35	100.0

Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a
Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth ar
gyfer Dysgwyr 11-19 oed - Canfyddiadau
Ymchwil

Cefndir

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gynhwysiant.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbenigol.

Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol, wedi parhau i dyfu.

Cynigion

Er mwyn ymateb i'r galw am leoedd anghenion dysgu ychwanegol, ymgynghorodd y Cyngor ar gynigion i:

- Cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd i ddysgwyr ag anghenion cymhleth o 70 i 100 o fis Medi 2022.
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023.
- Cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr â chyflwr y Sbectrwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022.
- Cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion i ddysgwyr â chyflwr y Sbectrwm Awtistig o 42 i 66 o fis Medi 2022.
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle bresennol o fis Medi 2023.

Methodoleg

- Roedd yr arolwg ar agor o 14 Rhagfyr 2021 i 01 Chwefror 2022.
- Anfonwyd llythyr at holl rieni'r disgyblion yn yr ysgolion yr oedd y cynigion hyn yn effeithio arnynt, gan roi gwybodaeth iddynt yn esbonio sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
- Anfonwyd e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid, gan roi gwybodaeth iddynt yn esbonio sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.


- Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ymatebion

Cafwyd 106 ymateb i'r ymgynghoriad. Daeth nifer o lythyrau / negeseuon e-bost mewn perthynas â'r ymgynghoriad i law hefyd. Gellir gweld y rhain yn Atodiad A.

Nodwch a ydych yn ymateb fel:

Rhieni oedd dwy ran o dair (67.9%) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg, ac roedd tua un o bob chwech (17.0%) yn dod o athro.



Athro – nodwch eich ysgol:

	Nifer
Ysgol Uwchradd Willows	5
Willows	2
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	2
Bro Edern	1
Hamadryad	1
Ysgol Uwchradd Llanisien	1
Ysgol Gynradd Windsor Clive	1
CAA Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	1
Ysgol y Berllan Deg	1
Cyfanswm yr Ymatebwyr	15

Llywodraethwr ysgol – nodwch eich ysgol:

	Nifer
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	4
Ysgol Uwchradd Llanisien	1
YGG Nant Caerau	1
Ysgol GG Glantaf	1
Ysgol y Berllan Deg	1
Ysgol y Wern	1
Cyfanswm yr Ymatebwyr	9

Arall (Rhowch fanylion)

	Nifer
Aelod o'r teulu	3
CALU	3
Ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf	1
Person	1
Seicolegydd	1
Staff Ysgol Gynradd	1
Cynorthwydd addysgu mewn ysgol uwchradd	1
Cyfanswm yr Ymatebwyr	11

A oes gennych chi blentyn/plant wedi eu cofrestru yn yr ysgolion canlynol?

Mae gan tua un o bob pedwar (26.7%) o'r ymatebwyr blentyn wedi'i gofrestru yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, ac mae gan un o bob pedwar hefyd blentyn wedi'i gofrestru yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd.

Fodd bynnag, nid oedd gan dri o bob deg (30.5%) o ymatebwyr i'r arolwg unrhyw blant wedi'u cofrestru yn unrhyw un o'r ysgolion a gwmpesir yn yr arolwg hwn.


	Nifer	%
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	28	26.7
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	20	19.0
Ysgol Uwchradd Willows	2	1.9
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf	2	1.9

Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

Ysgol Uwchradd Llanisien	1	1.0
Arall	22	21.0
Dd/B	32	30.5
Cyfanswm yr Ymatebwyr	105	-

A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

Roedd y mwyafrif llethol (96.0%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.



Esboniwch pam:


Thema	Nifer	%	Sylwadau enghreifftiol
Bydd y cynigion yn darparu darpariaeth ddigonol / Pryderon ynghylch y ddarpariaeth bresennol	35	50.7	<ul style="list-style-type: none"> Darpariaeth annigonol ar hyn o bryd. Rwy'n dysgu'r feithrin ac felly'n derbyn plant sydd ar y Sbectrwm Awtistig ac sydd ag anghenion cymhleth eraill. Mae'r daith i'r rhieni a'r plant drwy'r brif ffrwd a'r system Addysg Arbenigol yn anodd ac nid yw'n ddigonol ac mae angen ei gwella. Rwy'n credu y bydd cynyddu'r ddarpariaeth o fudd i'r Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd ychwanegu lleoliadau ychwanegol o amgylch y ddinas hefyd yn sicrhau bod Plant a Phobl Ifanc yn fwy tebygol o allu mynychu darpariaeth yn eu hardal leol. Gallaf ddychmygu y byddai argaeledd addysg leol dda yn bryder enfawr i rieni plant ag anghenion ychwanegol. Rydw i wedi gweld y ddarpariaeth wael

			<p>sydd mewn ysgolion cynradd, a gallaf ddychmygu'r effaith y mae'n rhaid i hyn ei chael ar rieni a phlant yr effeithir arnynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae mwy o angen am fwy o leoedd i blant ag anawsterau dysgu.
Effeithir yn bersonol gan y cynnig	13	18.8	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan fy mhlentyn ddiagnosis o anhwylder yn y sbectrwm awtistig ac nid yw'n cael fawr o gymorth. Hoffwn i'm plentyn allu mynd i Ysgol Eglwys Newydd. Mae fy merch sy'n mynd i Ysgol y Wern yn awtistig. Mae'n gobeithio mynd i Glantaf yn 2025 a byddwn yn croesawu sefydlu uned arbennig ar gyfer plant ag awtistiaeth.
Cynwysoldeb	9	13.0	<ul style="list-style-type: none"> Rwy'n teimlo y dylid cynnwys pawb. Dull mwy cynhwysol a bydd yn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ymhellach. Mae'n caniatáu i ddisgyblion gael mynediad i'w dysgu ac i ffynnu.
Cytundeb cyffredinol â'r cynnig	14	20.3	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen cymorth arbenigol. Mae angen darpariaeth anghenion cymhleth / chyflyrau'r sbectrwm awtistig yn yr ardal hon. Bydd yn eu galluogi i fyw bywydau llwyddiannus.
Cyfanswm yr Ymatebwyr	69	-	

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un o'r safleoedd ysgol?


Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd - Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth o 70 i 100 o fis Medi 2022

Roedd bron i naw o bob deg (87.6%) o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Wrth beidio ag ystyried ymatebion 'Ddim yn gwybod', mae cytundeb yn codi i 94.9%.




Ysgol Uwchradd Willows - Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023

Roedd dros bedair rhan o bump (86.9%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Wrth beidio ag ystyried ymatebion 'Ddim yn gwybod', mae cytundeb yn codi i 97.3%.




Ysgol Uwchradd Llanisien - Cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr â chyflwr y Sbectrwm Awtistig o 20 i 45 o fis Medi 2022

Roedd ychydig o dan naw rhan o ddeg (88.0%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno.




Canolfan Marion yn Ysgol Esgob Llandaf - Cynyddu nifer dynodedig y lleoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion i ddysgwyr â chyflwr y Sbectrwm Awtistig o 42 i 66 o fis Medi 2022

Roedd dros bedair rhan o bump (86.9%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Wrth beidio ag ystyried ymatebion 'Ddim yn gwybod', mae cytundeb yn codi i 98.6%.



Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf - Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle bresennol o fis Medi 2023

Roedd dros naw rhan o ddeg (92.8%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno.



Os ydych chi neu os nad ydych chi'n cefnogi'r newidiadau a gynigir, eglurwch pam

Thema	Nifer	%	Sylwadau enghreifftiol
Cytundeb cyffredinol â'r cynigion	32	69.6	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cael mwy o leoedd ar draws pob safle yn rhoi mwy o ddewis i deuluoedd sy'n chwilio am ddarpariaeth arbenigol. • Rwy'n cefnogi'r newidiadau hyn gan fy mod yn teimlo ei bod yn bwysig iawn diwallu anghenion pob plentyn. Mae'r angen am ddarpariaeth addas ar gyfer disgyblion ADY yn hanfodol, yn enwedig o fewn y sector Cymraeg. • Darpariaeth annigonol iawn ar gyfer plant ag anghenion addysgol ychwanegol. • Mae'r cyfleusterau hyn yn amhrisiadwy i bobl ifanc gael addysg mewn lleoliad priodol gyda chymorth priodol. Rwy'n llwyr gefnogi'r argymhellion. • Oes, mae angen mwy o leoedd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.
Pryderon am ddiffyg buddsoddiad cyfrwng Cymraeg	2	4.3	<ul style="list-style-type: none"> • Unwaith eto, mae angen darpariaeth ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol (canolfan adnoddau arbenigol) ar gyfer plant 5–11 oed!
Dylai cynigion gynnwys Ysgolion Ffydd	1	2.2	<ul style="list-style-type: none"> • Oes, ni all ysgolion prif ffrwd ymdopi â'r anghenion cymhleth yr ydym yn eu gweld, rydym yn methu myfyrwyr o ganlyniad i hyn! Mae angen cynyddu'r niferoedd pedair gwaith; hefyd mae angen i chi gynnig y gwasanaethau hyn i ysgolion ffydd ar draws y consortiwm!
Sylwadau ysgol benodol	15	32.6	<ul style="list-style-type: none"> • Y ddarpariaeth agosaf o'r math hwn i Willows yw Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd. Nid oes gan yr ardal hon o Gaerdydd y ddarpariaeth gyfatebol. • Rwy'n cefnogi'r cynnig yn Willows ac yn credu y byddai'n dda sefydlu'r ganolfan cyn symud i ysgol newydd. Mae fy mhryderon yn ymwneud â llety ac er ei bod yn ymddangos ar bapur bod gennym le, rydym yn defnyddio ein holl ystafelloedd ar gyfer y ddarpariaeth bresennol.

			<p>Byddai angen i ni ehangu hen safle Willows er mwyn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth yn briodol. Mae'n hanfodol bod ymgyrch recriwtio bellgyrhaeddol a chadarn er mwyn staffio'r ganolfan yn briodol hefyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rwy'n cefnogi'r cynlluniau i ychwanegu at a chynyddu adnoddau arbenigol i blant yn Ysgol Glantaf gan fod cyn lleied o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg fel hyn.
Cyfanswm yr Ymatebwyr	46	-	

A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen?

Rhoddyd cyfle i ymatebwyr awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen a oedd ganddynt i'r cynigion. Manteisiodd 19 o ymatebwyr ar y cyfle i wneud hynny, a gellir gweld y sylwadau hyn isod / drosodd:

- Mwy o CAAau mewn ysgolion eraill.
- Edrychwch ar ddwy ochr y ddinas.
- Mwy o ddarpariaeth oedran cynradd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig yn nalgylch Bro Edern.
- Mae angen mwy o leoedd ar gyfer plant ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig.
- Agorwch yr adnodd arbenigol ar gyfer plant ag ADY (a'u bod yn bodloni meini prawf mynediad penodol) ac nid ar gyfer y rhai ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yn unig.
- Hyfforddiant gorfodol i staff a disgyblion i wella ymwybyddiaeth o anhwylderau yn y sbectrwm awtistig.
- Ardal ar wahân neu ardal fwy o faint i ddarparu ar eu cyfer er mwyn peidio ag amharu.
- Mwy o ddyraniad tuag at ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Byddwn wedi hoffi i'r awdurdod lleol roi mwy o ystyriaeth i'r lle y bydd angen ar y CAA yn y dyfodol. Nid oedd penderfyniadau ynghylch gofod dosbarth a lle ychwanegol ar gyfer cyfarfodydd, cwnsela, therapi ac ati wedi'u cadarnhau. Byddai wedi bod yn dda gweld yr awdurdod lleol yn cynllunio'n strategol i sicrhau bod CAAau yn rhannu'r un math o gyfleusterau ac adnoddau sydd ar waith mewn ysgolion arbennig. Byddai hyn yn sicrhau bod rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn cael y cyfle i elwa ar amrywiaeth o ystafelloedd arbenigol (ystafelloedd ymneilltuo, ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd therapi) yn ogystal â chyfleusterau awyr agored ar gyfer dosbarth/mannau chwarae dan orchudd ac ardaloedd penodol i wella cyfleoedd i wneud ymarfer corff ac addysg gorfforol fel cae astroturf os nad oes un eisoes.
- Blaenoriaethu lles staff.

- Mwy o ddarpariaeth/cyllid i hyfforddi athrawon ADY mwy arbenigol a staff cymorth i fodloni gofynion y dyfodol. Dylid ystyried llwybrau dysgu ADY yn y cartref a sefydlu rhwydweithiau ar gyfer teuluoedd.
- Hoffwn. Yn yr ymgynghoriad, cyfeirir at addasiadau. Mae swyddog iechyd a diogelwch awdurdod lleol yr ysgol wedi gwneud argymhellion ynghylch addasiadau i'r safle er mwyn gwella diogelwch. Byddem yn disgwyl i'r addasiadau hyn gael eu gwneud i'r safle fel rhan o'r newid parhaol hwn.
- I'r CAA yn Ysgol Glantaf -Mae angen cyfleusterau pwrpasol arnom sy'n gallu cefnogi ein disgyblion yn well. Ystafelloedd dosbarth gyda digon o le ar gyfer maint y grŵp, gan gynnwys ystafelloedd/ardaloedd ymneilltuo ar gyfer ymddygiadau afreolaidd. Cyfleusterau sy'n diwallu anghenion synhwyrdd ein disgyblion - ystafelloedd golau synhwyrdd, gofod tawel, gofod dan do ac yn yr awyr agored ar gyfer symud corfforol, darpariaeth synhwyrdd dan do ac yn yr awyr agored ar gyfer chwarae synhwyrdd anniben. Mae angen toiledau wedi'u haddasu a chyfleusterau newid ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag anabledau corfforol. Mae angen cyfleusterau ar gyfer disgyblion sydd angen gofal meddygol a phersonol. Technoleg sy'n ein galluogi i gadw i fyny â'r byd modern, a disgwyliadau addysgu. Cyfleusterau i gynnig sgiliau bywyd ymarferol i'n disgyblion - gan gynnwys sefydlu tŷ i ddysgu sgiliau byw'n annibynnol a chegin wedi'i haddasu ar gyfer gwersi coginio.
- Rhaid rhoi rhan fwy blaenllaw i'r CAA bresennol ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol cymhleth yn y cynigion hyn. Mae angen mwy na dim ond llety newydd; mae angen adeilad pwrpasol sy'n ein galluogi i gynnig cwricwlwm llawn i'n holl ddysgwyr.
- Byddai buddsoddi mwy yn y sector cyfrwng Cymraeg yn well, oherwydd ar hyn o bryd, dim ond 1 ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n elwa ar fuddsoddiad o gymharu â 4 ysgol cyfrwng Saesneg. 30 lle o gymharu â dros 100.
- Byddai adnodd lle byddai disgyblion CA4/5 yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau galwedigaethol e.e. caffi bach, yn werthfawr. Mae cyfle i drin arian, gwneud coginio syml ac ymgysylltu â chwsmeriaid yn brofiadau a fyddai'n cynyddu eu siawns o gael gwaith cyflogedig.
- Gweler uchod - blaenoriaeth glir i blant di-Gymraeg yn y Cynllun.
- Grŵp/dosbarth ADY sbectrwm awtistig mewn mwy nag un ysgol Gymraeg- Ysgol Plasmawr.
- Dydw i ddim wedi bod yn yr un o'r canolfannau.

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Penderfynodd deuddeg o ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod / trosodd:

- Mwy o gefnogaeth a darpariaethau.
- Mae ysgolion prif ffrwd yn methu disgyblion ag anghenion cymhleth.
- Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn darparu darpariaeth ragorol y gall y plant ychwanegol hyn elwa arnynt hefyd.
- Cefnogi'n llawn y cynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd. Mae'r CAA yn adnodd gwerthfawr iawn sy'n cael ei werthfawrogi yn fawr iawn yn yr ysgol.

- Cefnogais yr holl ysgolion gan y byddai'n gwella mynediad i fwy o blant ac yn ei gwneud yn fwy hygyrch iddynt yn agos at ble maent yn byw.
- Fy unig bryder yw lle. Mae Willows eisoes yn gweithredu'n agos at y capasiti er gwaethaf yr hyn y mae'r ffigurau swyddogol yn ei ddweud. Mae'r cyfleusterau fel toiledau a'r ffreutur yn llawn, hyd yn oed os oes mwy o le yn ar gyfer ystafelloedd dosbarth. Os caiff y CAA newydd ei hadeiladu heb fynd i'r afael â'r mater hwn, yna bydd yn aneffeithlon gan y bydd y problemau hyn yn negyddu unrhyw fanteision canfyddedig.
- Nodi'r gofyniad buddsoddi. Nid yw hyn yn rhywbeth y gellir neu y dylid ei wneud yn rhad.
- Mae llywodraethwyr yn dymuno cefnogi maint parhaol y ganolfan. Mae'n rhan bwysig o fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau safle presennol yr ysgol yn achosi problemau gwirioneddol o ran diogelwch myfyrwyr/staff. Credwn fod mesurau i fynd i'r afael â hyn yn flaenoriaeth, a byddai'n lleihau'n sylweddol y risg o anaf difrifol a/neu farwolaeth oherwydd traffig yn sgil y ganolfan ei hun.
- Pob lwc gyda'r datblygiadau. Gobeithio y bydd fy mhlentyn yn elwa ar adeilad newydd ar gyfer y Ganolfan yng Nglantaf.
- Byddaf yn siomedig os bydd y sector cyfrwng Cymraeg ar ei golled eto yn y maes hwn.
- Rwy'n siomedig nad oes darpariaeth Gymraeg ar gyfer plant ifanc. Mae 21 Chwefror yn Ddiwrnod Iaith. Nid oes gan rieni plant ysgol cyfrwng Cymraeg ddigon o ddewis i anfon eu plant os oes ganddynt anghenion dwys.

Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

Amdanoch Chi

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal: -

	Nifer	%
Llandaf	11	14.7
Rhiwbeina	10	13.3
Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais	10	13.3
Llanisien	9	12.0
Y Mynydd Bychan	8	10.7
Y Tyllgoed	3	4.0
Ystum Taf	3	4.0
Pen-y-lan	3	4.0
Glan yr Afon	3	4.0
Y Sblot	3	4.0
Treganna	2	2.7
Creigiau/Sain Ffagan	2	2.7
Llys-faen	2	2.7
Ward Etholiadol Arall	6	8.0
Cyfanswm yr Ymatebwyr	75	100.0

Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

	Nifer	%
16-24	2	1.9
25-34	10	9.7
35-44	41	39.8
45-54	39	37.9
55-64	3	2.9
65-74	6	5.8
Grŵp oedran arall	1	1.0
Mae'n well gennyf beidio â dweud	1	1.0
Cyfanswm yr Ymatebwyr	103	100.0

A ydych chi'n...

	Nifer	%
Benywaidd	85	82.5

Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

Gwrywaidd	17	16.5
Mae'n well gennyf beidio â dweud	1	1.0
Cyfanswm yr Ymatebwyr	103	100.0

A ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

	Nifer	%
Ydw	1	1.0
Nac ydw	98	96.1
Mae'n well gennyf beidio â dweud	3	2.9
Cyfanswm yr Ymatebwyr	102	100.0

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

Nododd naw o bobl gyflwr iechyd a oedd yn berthnasol iddyn nhw eu hunain, gellir gweld y rhain isod:

- Byddar / Wedi colli clyw / Trwm eu clyw
- Anawsterau iechyd meddwl
- Nam symudedd
- Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)

Beth yw eich grŵp ethnig?

(Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain)

	Nifer	%
Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig	93	90.3
Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig - Indiaidd	2	1.9
Gwyn - Gwyddelig	2	1.9
Grŵp Ethnig Arall	3	2.9
Mae'n well gennyf beidio â dweud	3	2.9
Cyfanswm yr Ymatebwyr	103	100.0

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):
Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a
Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth ar
gyfer Dysgwyr 3-19 oed - Canfyddiadau
Ymchwil

Cefndir

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gynhwysiant.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbenigol.

Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol, wedi parhau i dyfu.

Cynigion

Er mwyn ymateb i'r galw am leoedd anghenion dysgu ychwanegol, ymgynghorodd y Cyngor ar gynigion i:

- Gynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 o fis Medi 2022.
- Cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o fis Medi 2022.
- Cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 119 o fis Medi 2022.
- Cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 o fis Medi 2023.
- Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Llanisien Fach o 20 i 30 o leoedd o fis Medi 2023.
- Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough o 20 i 30 o fis Medi 2022.
- Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen o 20 i 24 o fis Medi 2022.
- Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood o 20 i 28 o fis Medi 2022

Methodoleg

- Roedd yr arolwg ar agor o 14 Rhagfyr 2021 i 01 Chwefror 2022
- Anfonwyd llythyr at holl rieni'r disgyblion yn yr ysgolion yr oedd y cynigion hyn yn effeithio arnynt, gan roi gwybodaeth iddynt yn esbonio sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad
- Anfonwyd e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid, gan roi gwybodaeth iddynt yn esbonio sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad
- Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol


Ymatebion

Cafwyd 92 ymateb i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd nifer o negeseuon e-bost / llythyrau yn ymwneud â'r ymgynghoriad. Gellir gweld y rhain yn Atodiad A.

Canlyniadau

Nodwch a ydych yn ymateb fel:

Roedd dau o bob pump (40.2%) o'r ymatebwyr i'r arolwg yn rhieni, tra roedd tua un o bob wyth (12.0%) yn athro. Dewisodd dau arall o bob pump 'arall'. Gellir gweld y rhain isod.



D.S. Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn

Arall - (Rhowch fanylion)

	Nifer
Cynorthwy-ydd Addysgu	5
Nyrs Feithrin	3
Ffrind i rywun sydd â merch ag awtistiaeth	1
Gofalwr	1
Ymarferydd plant	1
Ymarferydd gofal plant	1
Dinesydd	1
Cyn-Athro	1
Ffrind	1
Ffrind i riant	1
Tad-cu	1
Mam-gu	1
CALU	1
Rwy'n rhiant i blentyn ag ADY ac yn gweithio fel Cynorthwy-ydd Addysgu yn un o'r ysgolion a enwir	1
Gweithio yn y Gwasanaeth Cynhwysiant	1
Trethdalwr sydd â diddordeb	1
Aelod o'r cyhoedd	1
Pennaeth	1

Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

Perthnasau	1
Preswylydd	1
Preswylydd ac addysgwr	1
Athro wedi ymddeol	1
Gwarcheidwad arbennig	1
Staff Cymorth	1
Cyfanswm yr Ymatebwyr	30

Athro – nodwch eich ysgol:

Gofynnwyd i ymatebwyr a nododd eu bod yn ymateb fel athro nodi eu hysgol. Gellir gweld y rhain isod:

	Nifer
Ysgol Meadowbank	4
The Hollies	3
Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields	1
Ysgol Gynradd Windsor Clive	1
Ysgol Gynradd Creigiau	1
Cyfanswm yr Ymatebwyr	10

Llywodraethwr ysgol – nodwch eich ysgol:

Gofynnwyd i ymatebwyr a nododd eu bod yn ymateb fel llywodraethwr ysgol nodi eu hysgol. Gellir gweld y rhain isod:

	Nifer
Ysgol y Wern	2
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	1
Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof	1
Ysgol Gynradd Creigiau	1
Cyfanswm yr Ymatebwyr	5

Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

A oes gennych chi blentyn/plant wedi eu cofrestru yn yr ysgolion canlynol?

Nid oedd gan dri o bob pump (61.6%) o ymatebwyr i'r arolwg unrhyw blant wedi'u cofrestru yn unrhyw un o'r ysgolion a gwmpesir yn yr arolwg hwn.


	Nifer	%
Ysgol Arbennig Meadowbank	5	5.8
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	4	4.7
Ysgol Arbennig The Hollies	3	3.5
Ysgol Gynradd Pentre-baen	2	2.3
Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn	1	1.2
Arall	18	20.9
Dd/B	53	61.6
Cyfanswm yr Ymatebwyr	86	100

Arall - (Rhowch fanylion)

	Nifer
Severn Road	2
Ysgol Montessori Caerdydd	1
Bluebell	1
Ysgol Gynradd Cogan	1
Ysgol Gynradd Gymunedol Cwmbach	1
Llys-faen	1
Mae gan fy mab awtistiaeth ac mae'n mynd i Nant Caerau	1
Ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a Kings Monkton	1
Severn Road, ond yn ystyried ysgolion AAA	1
Ysgol Gynradd y Santes Fair / Ysgol Uwchradd Teilo Sant	1
Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd ond yn gobeithio cael lle yn CAA Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ym mis Medi 2022	1
Ysgol y Wern	1
Ysgol y Wern ac Ysgol Gymraeg Pwll Coch	1
Cyfanswm yr Ymatebwyr	14

A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

Roedd naw o bob deg (90.1%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.



Esboniwch pam:

Rhodddwyd cyfle i'r ymatebwyr egluro eu rhesymau dros gefnogi neu beidio â chefnogi'r cynnig - gadawodd pum deg pump o'r ymatebwyr adborth. Wedyn cafodd y sylwadau hyn eu grwpio'n themâu. Gellir gweld y themâu hyn ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod / drosodd:

Thema	Nifer	%	Sylwadau enghreifftiol
Bydd y cynigion yn darparu darpariaeth ddigonol / Pryderon ynghylch y ddarpariaeth bresennol	37	67.3	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan fwy a mwy o blant anghenion ychwanegol ac mae angen manau gyda darpariaethau arbenigol i ddarparu ar eu cyfer. Gan fod angen darpariaeth fwy arbenigol ar gyfer y bobl ifanc hyn. Nid oes digon o gymorth ar gael ar hyn o bryd. Nid oes digon o ddarpariaeth o gymharu â'r angen. Roedd fy mhlentyn wedi dod allan o'r system gan nad oedd unman iddo fynd. Mae angen rhoi stop ar hyn.

Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth


Cytundeb cyffredinol â'r cynigion	15	27.3	<ul style="list-style-type: none"> Mae pob plentyn yn haeddu cael lle yn yr ysgol gywir, ar gyfer ei anghenion penodol. Gan ei fod yn galluogi plant ag anghenion arbennig i gael lleoedd yn yr ysgolion hyn
Dim barn	1	1.8	<ul style="list-style-type: none"> Yr hyn nad yw'r arolwg hwn yn ei ddweud wrthym - a yw'r nifer hwn o leoedd ychwanegol yn diwallu anghenion ein plant ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
Yn erbyn y cynigion	4	7.3	<ul style="list-style-type: none"> Diffyg buddsoddiad a darpariaeth ADY ar gyfer ysgolion Cyfrwng Cymraeg eto gan y Cyngor. Nid yw'r cynlluniau'n gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n trin yr ieithoedd yn gyfartal ac felly gellir ei herio pe bai'r rhain yn cael eu gweithredu fel y'u cynigiwyd. Fel Llywodraethwr ysgol cyfrwng Cymraeg rwyf wedi profi'r problemau a achoswyd gan ddiffyg ystyriaeth o anghenion y Gymraeg yng nghamau cynllunio'r ddarpariaeth. Yn anochel, mae'n arwain at geisio 'ôl-osod' y cynlluniau ar gyfer capasiti Cymraeg estynedig, gan greu mwy o waith ac atebion pragmatig ac yn profi gwydnwch y staff addysgu a staff y Cyngor. Nid mater o iaith yn unig yw'r diffyg darpariaeth ddigonol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n fethiant i gynllunio'n ddigonol ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.
Cyfanswm yr Ymatebwyr	55	-	

DS. Nid yw canrannau'n creu cyfanswm o 100% gan y gallai sylwadau ymatebwyr fod mewn themâu lluosog.

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un o'r safleoedd ysgol?


Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn - Cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 o fis Medi 2022.

Roedd naw o bob deg (88.8%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.




Ysgol Arbennig Meadowbank - Cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o fis Medi 2022

Roedd naw o bob deg (90.2%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.




Ysgol Arbennig The Hollies - Cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 119 o fis Medi 2022

Roedd dros naw rhan o ddeg (93.6%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.




Ysgol Arbennig The Hollies - Cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 o fis Medi 2023


Roedd naw o bob deg (91.1%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.



Ysgol Gynradd Llanisien Fach - Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol
Ysgol Gynradd Llanisien Fach o 20 i 30 o leoedd o fis Medi 2023
Roedd naw o bob deg (91.0%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.




Ysgol Gynradd Marlborough - Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol
Ysgol Gynradd Marlborough o 20 i 30 o fis Medi 2022
Roedd naw o bob deg (90.9%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.




Ysgol Gynradd Pentre-baen - Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Pentre-baen o 20 i 24 o fis Medi 2022

Roedd naw o bob deg (89.6%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.



Ysgol Gynradd Springwood - Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Springwood o 20 i 28 o fis Medi 2022

Roedd naw o bob deg (90.8%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.



Os ydych chi neu os nad ydych chi'n cefnogi'r newidiadau a gynigir, eglurwch pam.

Cytundeb cyffredinol â'r cynigion

- Mae gen i ferch ag awtistiaeth ac ar hyn o bryd rwy'n ystyried yr ysgolion hyn ar ei chyfer. Bydd hi'n dechrau yn y dosbarth derbyn ym mis Medi 2022. Gallai cynyddu'r niferoedd yn yr ysgolion hyn ei helpu i gael lle mewn ysgol a fydd yn cefnogi ei hanghenion. Bydd cynyddu'r niferoedd yn rhoi lle i fwy o blant fel fy merch mewn ysgol y maent yn ei haeddu er mwyn cyflawni eu potensial yn llawn.
- Rwy'n cefnogi'r newidiadau gan fod pob plentyn yn haeddu lle mewn ysgol lle mae ei anghenion yn cael eu diwallu. Mae gennyf ffrindiau a theulu gyda phlant mewn ysgolion arbennig ac rwyf wedi gorfod eu gweld yn ymladd ac yn herio dyfarniadau ynghylch cymhwysedd eu plentyn ar gyfer yr ysgolion hynny. Nid yw'n deg i blant ag anghenion orfod mynd i ysgolion prif ffrwd os na fyddant yn ffynnu yn yr amgylchedd hwnnw.
- Byddwn wrth fy modd yn gweld capasiti pob un o'r ysgolion hyn yn cynyddu ar gyfradd sy'n cynnwys hyfforddi mwy o staff arbenigol ac adeiladu estyniadau i'r ysgolion i greu mwy o ystafelloedd dosbarth. Gobeithio y gellir cynyddu'r niferoedd dynodedig heb leihau'r gefnogaeth a roddir i'r plant sydd eisoes wedi'u cofrestru.
- Mae mwy o blant yn dod i'r brif ffrwd gydag anghenion cymhleth na ellir eu diwallu mewn dosbarth prif ffrwd. Er budd y plant ac i roi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt, mae angen cymorth arbenigol arnynt.
- Mae angen mwy o gymorth ar bob ysgol ar gyfer y plant y maen nhw i fod i'w rheoli heb fynediad i'r unedau hyn. Roeddwn i'n meddwl bod gan fy mab anawsterau dysgu nes i mi ei symud i ysgol fach annibynnol. Lle'r oedd ei anghenion synhwyraidd a chlyw yn cael eu diwallu. Mae'n glyfar, ond ni fyddem byth wedi gwybod pe na bai wedi symud.
- Mae gan fy mhlentyn anhwylder yn y sbectrwm awtistig ac felly mae ganddo anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd mae'n gwneud yn dda yn ei ysgol gynradd brif ffrwd, ond efallai y byddai'n well iddo fynd i ysgol ddynodedig yn y dyfodol. Os oes mwy o leoedd ar gael byddai mwy o siawns y byddai fy mhlentyn yn cael lle yn yr ysgol sy'n gweddu'n well i'w anghenion.
- Bydd hyn yn helpu llawer o blant fel fy merch i ddod o hyd i'r ysgol iawn ar gyfer eu hanghenion. Rydym yn gobeithio y gall fy merch fynychu un o'r ysgolion hyn ym mis Medi 2022 gan fod ganddi awtistiaeth.
- Rwy'n cefnogi cynyddu nifer y lleoedd ar draws darpariaeth anghenion arbennig Caerdydd.
- Credaf ei bod yn bwysig bod pob plentyn yn cael y gofal sydd ei angen arno.
- Mae angen mwy o leoedd i gefnogi'r nifer cynyddol o blant sy'n cael diagnosis.
- Rwyf wedi gweld rhieni'n ei chael hi'n anodd cael cymorth ychwanegol i'w plant ers blynnyddoedd. Dylai'r cymorth hwn fod ar gael yn rhwydd iddynt.
- Ydw, ond mae mwy a mwy o blant yn mynd i ysgolion Prif Ffrwd, ac ni ellir eu cefnogi yn y cyllidebau sydd ganddynt. Mae angen iddynt gynyddu ymhellach y niferoedd ym mhob un o'r ysgolion hyn!
- Mae'n amlwg nad oes digon o ddarpariaeth yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Mae gwir angen y rhain.

- Mae angen cynyddol am ddarpariaeth ADY arbenigol. Mae'r dull o gynyddu'r ddarpariaeth hon ar draws yr ystod o ysgolion, yn hytrach na chanolbwyntio ar rai ysgolion, yn rhoi mwy o gyfle i ddisgyblion fod yn yr amgylchedd arbenigol mwyaf buddiol. Tra'n cael mynediad i ddarpariaeth ADY, oherwydd lleoedd ysgol cyfyngedig, nid yw rhai disgyblion ledled Caerdydd yn yr amgylchedd ysgol mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion unigol.
- Mae'r ysgolion penodol hyn wedi gweld galw mawr am leoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond maen nhw'n ei chael hi'n anodd darparu ar gyfer y plant hyn oherwydd nifer y lleoedd a'r cyfleusterau sydd eu hangen. Mae'n hyfryd gweld ystafelloedd synhwyraidd a chyfleusterau eraill yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau.
- Mae angen i chi wneud gwelliannau pellach yn y sector ysgolion uwchradd.
- Fel Corff Llywodraethu, rydym yn croesawu'r cynnig i fuddsoddi mewn adnoddau ar gyfer rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed ac rydym yn ddiolchgar i Gyngor Caerdydd am flaenoriaethu adnoddau rhagorol ac, yn hollbwysig, i wella arbenigedd staff mewn meysydd lle mae'r angen mwyaf. Rydym yn gwbl ymwybodol bod angen ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth ADY a chredwn fod y Cyngor yn cymryd camau sylweddol tuag at ddatblygu'r ddarpariaeth honno. Fodd bynnag, mae gennym lefel uchel o bryder yn ymwneud â'r diffyg cydraddoldeb yn y ddarpariaeth bresennol yn y sector Cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Rydym yn siomedig iawn nad yw'r cynigion hyn yn mynd i'r afael mewn unrhyw ffordd â'r diffyg cydraddoldeb hwnnw ac yn cynyddu'r bwlch presennol rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwrth-ddweud yr ymgynghoriad CSCA diweddar a nododd uchelgais y Cyngor i agor tair uned arbenigol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sector Cynradd a thair CAA arall yn y sector Uwchradd. Credwn y bydd buddsoddi mewn un sector yn unig (Cyfrwng Saesneg) yn annog rhieni / teuluoedd i drosglwyddo disgyblion ADY i'r sector cyfrwng Saesneg lle mae'r buddsoddiad a'r adnoddau'n well. Mae angen buddsoddi yn y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau darpariaeth gyfartal a chynhwysiant llawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Teimlwn fod angen archwiliad brys er mwyn deall ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg (yn enwedig yn y sector Cynradd). Mae'r ddogfennaeth yn dangos angen cynyddol o fewn y sector cyfrwng Saesneg ond nid yn y sector cyfrwng Cymraeg. Credwn y byddai archwiliad yn egluro'r sefyllfa bresennol a byddwn yn croesawu eglurder ynghylch y niferoedd presennol o ddisgyblion a fyddai'n elwa ar leoliadau arbenigol yn y Gymraeg. Credwn nad yw'r cynigion presennol yn cymryd camau i ddatblygu cymorth arbenigol cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd yn benodol a theimlwn fod diffyg cynllunio strategol ar gyfer darpariaeth ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Disgwylir, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion, y byddai nifer y lleoedd sydd ar gael mewn darpariaethau arbenigol yn fwy cyfartal yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Byddai hyn yn helpu ymyrraeth gynnar. Mae'n ymddangos bod ysgolion cynradd (prin) yn ymdopi â phlant ag anghenion lefel uchel. Credwn fod angen i'r gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg ystyried gwahanol anghenion y sector, sef nifer cynyddol o achosion o angen tariff uchel, digwyddiad isel. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb, nid oes rhaid i'r ddarpariaeth adlewyrchu'r hyn a welir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o reidrwydd, ond yn hytrach mae angen iddi fod yn bwrpasol ac wedi'i hystyried, gydag atebion creadigol. Wrth wraidd ateb o'r fath dylai fod yr angen i ddatblygu'r gweithlu. Credwn y bydd cynyddu a datblygu darpariaeth arbenigol, ynddo'i hun, hefyd yn

datblygu'r gweithlu. Nid yw'r ddarpariaeth gyfyngedig hyd yma wedi galluogi hyn. Mae'r sector cyfrwng Cymraeg yn ei gyfanrwydd yn awyddus i sefydlu partneriaeth waith agos rhwng y sector ac arweinyddiaeth yr ALL i gwmpasu a gwireddu atebion creadigol ac ymarferol i'r heriau hyn, a allai ddod yn glasbrint o arfer rhagorol ar gyfer y dyfodol.

- Dydw i ddim yn gwybod digon am sefyllfa pob ysgol unigol ar y rhestr, ond rydw i'n gefnogol iawn i roi pob cyfle posibl i blant ag anghenion arbennig fel unrhyw blentyn arall mewn ysgol yn eu cymuned.
- Cefnogwn y newidiadau uchod i'r sector Saesneg, mewn ymateb i'r twf mewn angen, ond rhaid gweld yr un buddsoddiad yn y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl. Mae'r AALL yn colli cyfle yma i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n ymddangos ei fod yn mynd yn groes i ddyheadau Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg. Rydym ni, fel Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, yn llwyr gefnogi'r buddsoddiad yn y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Hoffem ganmol bwriad y Cyngor Sir i fuddsoddi yn y cymorth gorau a hanfodol i dyfu arbenigedd staff a chanolfannau arbenigol mewn meysydd lle mae galw amlwg. Mae sicrhau buddsoddiad ar y lefel hon yn creu capasiti o ran adnoddau a gweithlu arbenigol i ymateb i'r galw cynyddol am ddarpariaeth yn y maes hwn. Fodd bynnag, hoffwn fynegi ein pryder mawr ynghylch y diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg arfaethedig ar gyfer ein disgyblion mwyaf agored i niwed ac anghenus. Credwn fod yr ymgynghoriad hwn yn gwrth-ddweud argymhellion ymgynghoriad CSCA Caerdydd lle sonnir am agor tair canolfan arbenigol cynradd a thair canolfan arbenigol uwchradd. Mae buddsoddi mewn un sector yn unig (Saesneg) yn annog teuluoedd / rhieni i symud plant ADY i sector cyfrwng Saesneg lle mae'r ddarpariaeth a'r buddsoddiad orau. Mae angen buddsoddi yn y sector Cymraeg er mwyn sicrhau darpariaeth gyfartal a chynhwysiant llawn mewn ysgolion y sector.

Barn wedi'i hollti / Ddim yn gwybod ar draws y cynigion

- Gall cynnydd mawr yn y niferoedd effeithio ar ddisgyblion presennol ac mae angen ystyried yr effaith honno - lle, staff (sydd â'r hyfforddiant a'r profiad priodol), adnoddau a rennir e.e. trampolîn, pyllau ac ati. Rydw i wedi nodi 'Ddim yn gwybod' ar gyfer rhai oherwydd dydw i ddim yn gwybod digon amdanynt i roi barn. Ydw, ar gyfer cynnydd bach. Na ar gyfer cynnydd enfawr sy'n debygol o gael effaith ar ddisgyblion presennol.
- Rydw i wedi nodi 'Ddim yn gwybod' ar gyfer y rhan fwyaf gan ei fod yn dibynnu ar y rhesymau a pha fath o leoedd sydd eu hangen. Fel y nodwyd uchod, dydw i ddim yn credu mai Canolfan yw'r lle cywir i chi dim ond am eich bod yn Awtistig. Llanisien Fach - Rydw i wedi nodi Nac ydw oherwydd yn fy marn i, mae'n CAA ar safle prif ffrwd y byddai angen ei ehangu, gan dynnu oddi ar weddill yr ysgol. Mae'n ddigon mawr. Nid yw'r cyfleusterau parcio/gollwng yn ddigon da. Defnyddir y CAA i wahanu dysgwyr anodd. Mae'n ymddangos bod cynnydd gwirioneddol wedi bod mewn anghenion meddygol difrifol.

- Rwyf wedi nodi 'ddim yn gwybod' i bob un o'r cwestiynau gan fod y cwestiwn ynddo ei hun yn sylfaenol anghywir - nid achos nad ydw i'n cefnogi cynyddu'r ddarpariaeth, ond nid ydw i'n credu bod y cynllun hwn yn ei ddarparu ar lefel strategol.
- Mae'r niferoedd yn ymddangos yn eithaf isel. Rwy'n credu bod angen mwy nag yr ydych yn ei gynnig.

Anghytuno â'r cynigion yn gyffredinol

- Bydd y prifathrawon Prif Ffrwd sydd ag unedau anghenion ychwanegol yn yr ysgol yn rhoi plant ag ADY yn y ganolfan yn hytrach na'u cefnogi â'u hanghenion yn gynhwysol mewn ystafell ddosbarth, gan y byddai hynny yn fwy cyfleus iddynt. Nid yw bob amser yn well i'r plentyn.
- Dydw i ddim yn hollol siŵr beth yn union rydych chi'n ei olygu drwy ddweud y bydd y niferoedd yn cynyddu ym mhob un o'r ysgolion hyn? A yw hyn yn golygu y bydd pob dosbarth bellach yn mynd yn fwy? Neu a fydd mwy o ystafelloedd dosbarth i letya'r plant ychwanegol gan beidio ag amharu ar y dosbarthiadau presennol ar yr un pryd? Os ydych chi'n bwriadu gwneud y dosbarthiadau'n fwy, yn anffodus, dydw i ddim yn teimlo'n hyderus y bydd y staff yn gallu rheoli hynny, o brofiad personol. Mae fy mab 4 oed mewn dosbarth gyda dim ond 6 o blant eraill a 4 aelod o staff, ac eto mae ychydig o ddamweiniau eisoes wedi digwydd yn y tymor cyntaf hwn yn unig. Felly rwy'n ofni meddwl beth fyddai'r canlyniad pe bai'r niferoedd yn ei ddosbarth yn cynyddu.

Pryderon am ddiffyg buddsoddiad cyfrwng Cymraeg

- Er fy mod yn cefnogi'r cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth ADY ledled y ddinas, mae'n siomedig iawn nad oes bwriad wedi'i amlinellu yma i gynyddu'r ddarpariaeth ADY ar gyfer y rhai sy'n dewis Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae eich CSCA drafft yn nodi y byddwch yn darparu 'Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.' Sut y byddwch yn cyflawni'r weledigaeth hon heb unrhyw fuddsoddiad mewn ADY cyfrwng Cymraeg?
- Dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg gael mwy o fuddsoddiad a mwy o ddarpariaeth.
- A allwn dynnu eich sylw at adolygiad yr AALI o'i ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn 2009-10, a gynhaliwyd gan AEM Meinir Rees, a chyn hynny cydlynnydd AAA yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr? Nododd yr adolygiad hwn fod sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn gyfle i ddatblygu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol arbenigol. Yn anffodus, mae amser wedi profi bod hwn wedi bod yn gyfle a gollwyd. Ers hynny, mae 5 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ac un ysgol uwchradd wedi agor, heb unrhyw ddarpariaeth arbenigol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. At hynny, mae 4 ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'u hehangu ac wedi cael adeiladau newydd - unwaith eto heb unrhyw ddarpariaeth ADY arbenigol. Gyda Chanolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Coed y Gof yn cau i gael ei disodli gan Ganolfan Adnoddau Arbenigol fwy penodol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, yr unig ddarpariaeth newydd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ers yr adolygiad hwn ar gyfer 2009-10 yw'r ddarpariaeth drws agored yn Ysgol Pen y Groes. Mae'r diffyg

darpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol hwn wedi arwain at rieni'n symud eu plant i gyfrwng Saesneg i fodloni anghenion dysgu ychwanegol eu plant.

Sylwadau ysgol benodol

Pentre-baen

- Ysgol fach iawn ac yn orlawn. Lle a darpariaeth annigonol ar gyfer plant sydd eisoes yn bresennol yn yr ysgol neu'r ganolfan.
- Er mwyn cynyddu'r lleoedd yn ysgol Gynradd Pentre-baen, mae angen gwneud llawer mwy i wella cyflwr y cyfleusterau, y ddarpariaeth a'r lle presennol yn yr ysgol, gan ei bod yn ysgol fach iawn ac nid yw'r lle'n ddigonol fel y mae ar gyfer nifer y plant sy'n bresennol.

Tŷ Gwyn

- Pryderon - Staffio - h.y. nifer y staff addas o ansawdd i ddelio â phlant ag anghenion dysgu fel bod addysg/gofal iechyd o ansawdd yn cael ei ddarparu. Materion trafndiaeth - mwy o gerbydau sy'n gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn anodd ei rheoli. Adnoddau'n cael eu gorymestyn ymhellach gan arwain at broblemau amserlennu / tegwch. Mae perthynas gymunedol yr ysgol yn cael ei cholli oherwydd bod adeiladau/gweithlu'n ehangu'n barhaus. A fydd cefnogaeth/cyllid parhaus gan y Cyngor?
- Mae'n ormod o naid mewn niferoedd. Y rheswm pam mae'r ysgolion hyn yn wych yw oherwydd gallant ddarparu'r hyn sydd ei angen a chael dosbarthiadau llai. Byddai'r cynnydd yn anhygoel, pe bai popeth yn cynyddu e.e. Y lle, y staff, yr adnoddau, yr adnoddau ffisegol. Dydw i ddim yn hyderus mai dyma fydd yn digwydd.

Meadowbank

- Rwy'n cefnogi ehangu Ysgol Meadowbank os yw'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnig yn cael eu teilwra'n llawn i ddiwallu anghenion y plant mwy cymhleth fydd yn mynychu.
- Mae'n ormod o naid mewn niferoedd. Y rheswm pam mae'r ysgolion hyn yn wych yw oherwydd gallant ddarparu'r hyn sydd ei angen a chael dosbarthiadau llai. Byddai'r cynnydd yn anhygoel, pe bai popeth yn cynyddu e.e. Y lle, y staff, yr adnoddau, yr adnoddau ffisegol. Dydw i ddim yn hyderus mai dyma fydd yn digwydd.

The Hollies

- Mae'n ormod o naid mewn niferoedd. Y rheswm pam mae'r ysgolion hyn yn wych yw oherwydd gallant ddarparu'r hyn sydd ei angen a chael dosbarthiadau llai. Byddai'r cynnydd yn anhygoel, pe bai popeth yn cynyddu e.e. Y lle, y staff, yr adnoddau, yr adnoddau ffisegol. Dydw i ddim yn hyderus mai dyma fydd yn digwydd.

- Mae gwir angen gwella adeilad yr ysgol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth. Bydd cynyddu lleoedd yn galluogi mwy o blant i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol ar draws y ddinas.

A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen?

Rhoddyd cyfle i ymatebwyr awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen a oedd ganddynt i'r cynigion. Manteisiodd 25 o ymatebwyr ar y cyfle i wneud hynny, a gellir gweld y sylwadau hyn isod / drosodd:

- Mwy o CAAau mewn ysgolion eraill.
- Mwy o CAAau mewn ysgolion eraill, creu mwy o gyfleusterau a lle ar gyfer y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Pentre-baen.
- Hoffwn weld mwy o staff un wrth un parhaol mewn ysgolion 'prif ffrwd' hefyd.
- Edrychwch ar grwpiau ac elusennau lleol a allai helpu gyda chefnogi a chreu ymdeimlad o gymuned, hunaniaeth a gweithgareddau hygyrch y tu allan i amgylchedd yr ysgol.
- Unedau bach ym mhob ysgol.
- Gwell hyfforddiant anhwylderau'r sbectrwm awtistig a niwroamrywioldeb i holl staff yr ysgol a gwell dewis o ddarpariaeth gan gynnwys cymorth dysgu hunangyfeiriedig.
- Ysgol newydd arall.
- Mae'n ymddangos bod angen adeilad newydd ar ysgol The Hollies, yr ysgol ar gyfer awtistiaeth. Gwiriwch ddichonoldeb safleoedd ar gyfer y cynnydd mawr yn y niferoedd a gynigir.
- Mae'n hollbwysig bod yr Awdurdodau Addysg Lleol yn gwella'r mynediad i ddisgyblion ag unrhyw ADY. Mae angen hyfforddiant pellach mewn ysgolion nad ydynt yn arbenigwyr i gefnogi disgyblion heb ddatganiad ac yn enwedig ynghylch Cynlluniau Dysgu Addysgol Unigol ar gyfer disgyblion. Mae angen mwy o seicolegwyr addysg, a dylai ysgolion roi'r gorau i guddio eu camgymeriadau ar bapur i "ymddangos yn gefnogol a chynhwysol".
- Ystafelloedd dosbarth ychwanegol a pheidiwch ag ymyrryd â'r rhai presennol.
- Awgrymaf fod holl staff yr ysgol yn cael eu haddysgu am awtistiaeth fel bod pob plentyn sy'n mynd i'r brif ffrwd fanteisio i'r eithaf ar ei fywyd ysgol.
- Edrychwch ar ysgolion ffydd i gynnig y cymorth hwn hefyd! Mae angen dyblu'r niferoedd hyn os nad eu cynyddu pedair gwaith.
- Mannau ychwanegol yn ysgolion uwchradd Cymraeg.
- Cynnig mwy o opsiynau ar gyfer addysg, opsiynau Addysg Heblaw yn yr Ysgol, dysgu hunangyfeiriedig, ysgol goedwig.
- Hoffwn weld astudiaeth o effaith sy'n dangos sut mae'r cynllun hwn yn ystyried a) mwy o alw am ddarpariaeth Gymraeg, b) cynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyd yn oed ymhellach ac c) sut mae Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael eu hystyried yn y cynllun hwn.
- Ystyriaeth ar gyfer Darpariaeth ADY Cyfrwng Cymraeg.
- Dyraniad tuag at ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- Mwy o ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY nad oes ganddynt ddatganiad/CDU - nid yw'r ddarpariaeth ysgolion uwchradd bresennol ar gyfer y categori hwn o ddysgwyr yn bodoli yng Nghaerdydd. Felly, rydym wedi gorfod mynd allan o'r sir.
- O ran adeilad newydd Meadowbank, mae rhai diffygion mawr yn y dyluniad arfaethedig gan gynnwys diffyg llwybr cerdded caeedig i'r plant gyrraedd eu hystafell ddsbarth yn ddiogel, tua 200 metr, nad yw'n dderbyniol i blant â phroblemau symudedd a gorbryder. Mae'r diffyg ardaloedd synhwyraidd pwrpasol yn yr adeilad newydd hefyd yn ddiffyg mawr. Mae angen mawr am y rhain i ddiwallu anghenion meddygol a synhwyraidd cymhleth y plant.
- Mwy o ddarpariaeth arbenigol. Ychwanegwch unedau at ysgolion cynradd os oes ganddynt y lle a'r angen.
- Adolygiad llawn o'r ddarpariaeth bresennol er mwyn darparu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae'r ddogfen ymgynghori yn yr adran Galw am Leoedd ar dudalen 16 yn amlinellu mai'r galw a ragwelir (a 10% ar ben hynny) yw 602 erbyn 25/26 ar draws y ddinas. Mae'n nodi bod hyn yn ystyried dychwelyd y lleoliadau y tu allan i'r sir yn ogystal â'r amcanestyniadau o ddadansoddiadau data poblogaeth. Codir pryder a oes digon o gapasiti yn y dyfodol i fodloni nid yn unig y galw hysbys ond hefyd y galw anhysbys fydd yn arwain at broblemau yn y blynyddoedd i ddod. Codir cwestiwn pam nad yw'r capasiti a gynigir yn cynyddu ymhellach, yn enwedig gan y byddai arbedion oddeutu £3.8m yn cael eu gwireddu wrth i'r lleoliadau y tu allan i'r sir ddychwelyd. Cynigiodd y Cynllun Datblygu Lleol gynnydd mawr mewn tai ar draws y ddinas yn y blynyddoedd i ddod gyda'r angen dilynol am fwy o seilwaith gan gynnwys darpariaeth ysgol newydd. Y gobaith yw y byddai unrhyw gynigion newydd ar gyfer adeiladu ysgolion yn cynnwys yr angen am ddarpariaeth ADY ychwanegol ar ben yr hyn a gynigir ar hyn o bryd. Mae'r cynigion yn amlinellu'r capasiti cynyddol i ateb y galw cynyddol hwn mewn ysgolion arbennig yn ogystal ag mewn Canolfannau Adnoddau Arbennig sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion prif ffrwd. Byddai angen dadansoddiad pellach i sicrhau bod lle addas ar gyfer pob disgybl yn cael ei gyflawni er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i'r ddarpariaeth gywir yn seiliedig ar eu hanghenion asesedig, ac nid ar y lleoedd sydd ar gael.
- Mae'r ymgynghoriad yn gwrth-ddweud y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diweddar a nododd uchelgais y Cyngor i agor tair uned arbenigol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd a thair CAA arall yn y sector uwchradd. Mae angen buddsoddi yn y Sector Cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau darpariaeth gyfartal a chynhwysiant llawn mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg. Mae angen archwiliad brys hefyd yn y sector cynradd er mwyn canfod y niferoedd cywir. Sut y daethpwyd i'r casgliad bod angen cynyddol yn y Sector Cyfrwng Saesneg ond nid yn y Sector Cyfrwng Cymraeg? A oedd y Sector Cyfrwng Cymraeg wedi'i gynnwys yn yr ymchwil hwn?
- Mae angen archwiliad cyfredol i anghenion disgyblion yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg yn fuan. Mae'r ddogfennaeth yn dangos angen cynyddol o fewn y sector cyfrwng Saesneg, ond NID yn y sector cyfrwng Cymraeg, ac nid yw hynny'n adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa yn ein hysgolion. Mae diffyg darpariaeth clir o ran iechyd a lles emosiynol ac ymddygiad o fewn y sector Cymraeg ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod 4-5 (sydd ag anghenion y tu hwnt i ddarpariaeth prif ffrwd). Nid yw'r argymhellion yn mynd i'r afael â'r angen hwn o gwbl. Yn ogystal, mae diffyg lle /

ystafelloedd ar gyfer dosbarthiadau lles/maeth mewn llawer o ysgolion oherwydd poblogrwydd addysg cyfrwng Cymraeg a diffyg lleoliadau addas. Collwyd cyfleoedd i ehangu darpariaeth ac adnoddau ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn y ddinas, ac mae angen buddsoddi mewn canolfannau arbenigol i greu capasiti ADY cyfrwng Cymraeg o fewn y gweithlu. Mae angen rhaglen hyfforddi dda i annog hyfforddiant ADY arbenigol o fewn y gweithlu cyfrwng Cymraeg ar bob lefel. Mae diffyg ystyriaeth amlwg o anghenion awtistiaeth yn y sector cynradd, yn enwedig o ran sefydlu canolfan arbenigol awtistiaeth o fewn y sector uwchradd, yn yr argymhellion, ac mae angen rhoi cynllun ar waith i sicrhau ein bod yn darparu addysg briodol i bob unigolyn, a bod y ddarpariaeth honno ar gael yn Gymraeg. Nid yw'r Corff yn teimlo bod yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) mewn perthynas â darpariaeth ADY sy'n nodi: "Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth Gymraeg lle bo angen ac, wrth adolygu CDUau, i ystyried digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg". O ganlyniad, gall hyn arwain at gynnydd mewn anghydfod rhwng yr Awdurdod a'r rhieni, a chynnydd yn nifer yr achosion tribiwnlys oherwydd diffyg darpariaeth yn y Gymraeg.

- Bydd angen darpariaeth ar gyfer plant ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig. Bydd angen unedau pwrpasol ar gyfer plant ag ADY yn Gymraeg yn gyflym iawn.

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Penderfynodd 24 o ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod / trosodd:

- Darpariaeth CAA Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd y Forwyn Fair, ar gyfer trigolion ardal Canol Dinas Caerdydd.
- Darpariaeth CAA ar gyfer trigolion yng nghanol y ddinas ac o'i hamgylch yn Ysgol Gynradd y Forwyn Fair.
- Byddai hyn yn wych pe bai'n cael ei wneud yn ofalus gyda grantiau a chan ystyried anghenion pob plentyn.
- Gwell asesiadau a chymorth cyn i blant fethu.
- Gwrandewch ar bob arbenigwr gan gynnwys rhieni sydd wir yn deall eu plentyn. Mae angen i weithwyr addysg proffesiynol yn y sir ddeall y darlun yn llawn.
- Gobeithio y byddwch yn cyflogi athrawon ychwanegol ar gyfer y plant ychwanegol yn y dosbarth.
- Mae angen i'r gymhareb staffio gynyddu yn ogystal â'r gymhareb lleoedd. Nid yw ehangu maint dosbarthiadau yn opsiwn, ond mae ehangu nifer y dosbarthiadau yn opsiwn.
- Er fy mod yn cefnogi'r cynnydd mewn lleoedd mewn gwirionedd, fy mhryder i yw sicrhau bod digon o adnoddau, lle a staff hefyd yn cael eu darparu i wneud hyn yn ddiogel, ac i gynnal y safonau sydd eu hangen.
- Mae pob plentyn yn haeddu addysg.
- Mae angen hyfforddiant pellach ar ysgolion prif ffrwd i nodi a chefnogi pob disgybl ag ADY ac yn enwedig ysgolion yng Nghaerau a Threlái, fel ysgol Pencaerau.

- Ie, hyfforddi'r holl staff ar beth yw awtistiaeth a sut i ddelio ag e gan nad oes un ateb sy'n addas i bawb.
- Rwy'n pryderu bod angen rhoi mesurau diogelu ar waith i sicrhau nad yw nifer y disgyblion yn Meadowbank yn cynyddu heb i'r newidiadau angenrheidiol i gyfleusterau'r ysgol gael eu gweithredu'n gyntaf. Mae cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn, yn enwedig gydag anghenion cynyddol gymhleth, yn gofyn am newidiadau i alluoedd presennol yr adeilad. Fy mhrif bryderon yw addasrwydd presennol ardaloedd awyr agored, manau rheoleiddio synhwyrdd a chyfleusterau newid.
- Byddai'r ysgol ar hyn o bryd yn rhy fach a byddai angen iddi fod yn fwy i ddarparu ar gyfer mwy o unigolion.
- Mae Ysgol Meadowbank wedi'i lleoli mewn ardal breswyl, ger dwy ysgol gynradd arall a chanolfan gymunedol. Does dim mwy o le parcio ar y safle na'r ardaloedd cyfagos. Os dyblu capasiti'r ysgol ar gyfer disgyblion yw'r bwriad, bydd lefelau staffio hefyd yn cynyddu. A oes cynlluniau i ddarparu manau parcio ychwanegol gan fod angen amlwg eisoes a fydd yn cael ei waethygu gan staff ychwanegol?
- A fydddech cystal â rhannu'r AEA sydd wedi'i gwblhau ar gyfer y cynnig hwn?
- Mae hyn i gyd yn gadarnhaol iawn!
- Rwy'n llwyr gefnogi'r newidiadau i Ysgol The Hollies ar yr amod bod Cyngor Caerdydd yn gwireddu ei addewidion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion newydd a disgyblion presennol. Y capasiti presennol yw 90, ond mae 117 o ddisgyblion eisoes ar y gofrestr. Addawyd cyfleusterau wedi'u diweddarau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth newydd, i'r ysgol eisoes, ond nid yw'r addewidion hyn wedi'u gwireddu felly mae mwy o bwysau eisoes ar staffio oherwydd cynnydd yn y niferoedd mewn dosbarthiadau nad ydynt wedi'u cynllunio at y diben. Yn ogystal, mae angen ystyried diweddarau'r ardaloedd cymunedol y mae angen i ddisgyblion ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig gael mynediad iddynt e.e. ystafelloedd synhwyrdd. Heb i hyn gael ei wella, byddai cynyddu'r niferoedd i 150 yn golygu na fyddai'r ysgol yn gallu darparu'r ddarpariaeth unigol y bydd ei hangen ar ddisgyblion ag ADY. Ni roddwyd y wybodaeth hon yn y ddogfen ymgynghori ac felly hoffwn ofyn am fwy o ystyriaeth i'r wybodaeth a gyhoeddir yn y ddogfen ymgynghori. Nid yn unig y mae'r niferoedd ar y gofrestr yn anghywir, ond nid oes unrhyw fanylion am y newidiadau y mae'r cyngor yn eu cynnig i alluogi'r ysgol i ddarparu ar gyfer y nifer uwch o ddisgyblion. Rwy'n siŵr bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu yn ystod cyfarfodydd ymgynghori ond gyda'r rhai nad ydynt yn gallu bod yn bresennol, nid oes digon o fanylion. Er enghraifft, mae'r ddogfen yn dweud na fydd unrhyw effaith negyddol ar addysgu a dysgu o ganlyniad i'r newidiadau hyn, ond heb y wybodaeth ychwanegol am ba ddarpariaeth y bydd y disgyblion presennol a'r disgyblion newydd yn gallu ei chael, ni allaf weld sut y gellid dod i'r casgliad hwn.
- Mwy o ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY nad oes ganddynt ddatganiad/CDU - nid yw'r ddarpariaeth ysgolion uwchradd bresennol ar gyfer y categori hwn o ddysgwyr yn bodoli yng Nghaerdydd. Felly, rydym wedi gorfod mynd allan o'r sir.
- Mae angen i benseiri a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrando'n fanylach ynghylch adeilad newydd Meadowbank. Staff yw'r arbenigwyr ar y ffordd orau o gefnogi'r plant, nid dylunwyr adeiladau na swyddogion cyllid. Os yw'r Cyngor yn mynd i wario ar adeilad newydd, gwnewch e'n addas at y diben ar gyfer y tymor hir, er mwyn darparu ar gyfer plant cynyddol gymhleth.

- Gwelwn ddiffyg clir o ran lles, ymddygiad a chefnogaeth emosiynol yn y sector cyfrwng Cymraeg yn benodol ar gyfer disgyblion ar Gyfnod 4-5 sy'n cael trafferth gyda darpariaeth prif ffrwd. Oherwydd diffyg lle mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae'n anodd os nad yn amhosibl darparu dosbarthiadau anogaeth / lles yn y rhan fwyaf o leoliadau. Byddwch yn ymwybodol bod Ysgol Gymraeg Nant Caerau wedi ariannu dosbarth anogaeth uchel ei glod o'n cyllideb (PDG yn bennaf) i ddiwallu'r angen hwn. Mae'r dosbarth anogaeth hwn wedi'i sefydlu mewn adeilad dros dro sy'n dod yn anaddas i'r diben! Teimlwn fod yr AALL yn colli cyfle i ddarparu canolfannau arbenigol ar gyfer y disgyblion hyn.
- Fel Corff Llywodraethu, rydym yn croesawu'r cynnig i fuddsoddi mewn adnoddau ar gyfer rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed ac rydym yn ddiolchgar i Gyngor Caerdydd am flaenoriaethu adnoddau rhagorol ac, yn hollbwysig, i wella arbenigedd staff mewn meysydd lle mae'r angen mwyaf. Rydym yn gwbl ymwybodol bod angen ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth ADY a chredwn fod y Cyngor yn cymryd camau sylweddol tuag at ddatblygu'r ddarpariaeth honno. Fodd bynnag, mae gennym lefel uchel o bryder yn ymwneud â'r diffyg cydraddoldeb yn y ddarpariaeth bresennol yn y sector Cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Rydym yn siomedig iawn nad yw'r cynigion hyn yn mynd i'r afael mewn unrhyw ffordd â'r diffyg cydraddoldeb hwnnw ac yn cynyddu'r bwlch presennol rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwrth-ddweud yr ymgynghoriad CSCA diweddar a nododd uchelgais y Cyngor i agor tair uned arbenigol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sector Cynradd a thair CAA arall yn y sector Uwchradd. Credwn y bydd buddsoddi mewn un sector yn unig (Cyfrwng Saesneg) yn annog rhieni / teuluoedd i drosglwyddo disgyblion ADY i'r sector cyfrwng Saesneg lle mae'r buddsoddiad a'r adnoddau'n well. Mae angen buddsoddi yn y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau darpariaeth gyfartal a chynhwysiant llawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Teimlwn fod angen archwiliad brys er mwyn deall ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg (yn enwedig yn y sector Cynradd). Mae'r ddogfennaeth yn dangos angen cynyddol o fewn y sector cyfrwng Saesneg ond nid yn y sector cyfrwng Cymraeg. Credwn y byddai archwiliad yn egluro'r sefyllfa bresennol a byddwn yn croesawu eglurder ynghylch y niferoedd presennol o ddisgyblion a fyddai'n elwa ar leoliadau arbenigol yn y Gymraeg. Credwn nad yw'r cynigion presennol yn cymryd camau i ddatblygu cymorth arbenigol cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd yn benodol a theimlwn fod diffyg cynllunio strategol ar gyfer darpariaeth ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Disgwylir, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion, y byddai nifer y lleoedd sydd ar gael mewn darpariaethau arbenigol yn fwy cyfartal yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Byddai hyn yn helpu ymyrraeth gynnar. Mae'n ymddangos bod ysgolion cynradd (prin) yn ymdopi â phlant ag anghenion lefel uchel. Credwn fod angen i'r gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg ystyried gwahanol anghenion y sector, sef nifer cynyddol o achosion o angen tariff uchel, digwyddiad isel. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb, nid oes rhaid i'r ddarpariaeth adlewyrchu'r hyn a welir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o reidrwydd, ond yn hytrach mae angen iddi fod yn bwrpasol ac wedi'i hystyried, gydag atebion creadigol. Wrth wraidd ateb o'r fath dylai fod yr angen i ddatblygu'r gweithlu. Credwn y bydd cynyddu a datblygu darpariaeth arbenigol, ynddo'i hun, hefyd yn datblygu'r gweithlu. Nid yw'r ddarpariaeth gyfyngedig hyd yma wedi galluogi hyn. Mae'r sector cyfrwng Cymraeg yn ei gyfanrwydd yn awyddus i sefydlu partneriaeth

Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth

waith agos rhwng y sector ac arweinyddiaeth yr ALL i gwmpasu a gwireddu atebion creadigol ac ymarferol i'r heriau hyn, a allai ddod yn glasbrint o arfer rhagorol ar gyfer y dyfodol.

- Rhaid i'r rhaglen gwaith adeiladu ystyried anghenion y plant a sut maent yn delio â newid a tharfu, felly mae'n rhaid osgoi unrhyw gyfnodau o oedi wrth gwblhau'r gwaith.
- Teimlwn hefyd fod cyfle wedi'i gollu wrth sefydlu ac adeiladu ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg newydd o feddwl nad oes ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i gynnwys darpariaeth ADY. Ymddengys bod CAAau (Canolfannau Adnoddau Arbennig) sydd newydd eu sefydlu yn ôl-ystyriaeth ac fe'u rhoddir mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes yn hytrach nag adeiladu adeilad pwrpasol. Rydym yn annog Cyngor Caerdydd, wrth edrych ar gynlluniau yn y dyfodol i adeiladu adeiladau ysgol newydd ar gyfer Ysgol Pen-y-Pil ac Ysgol Nant Caerau, i ystyried sefydlu cartref parhaol sy'n addas at y diben i'r CAAau hyn.
- Byddai'n syniad casglu barn ysgolion Cymraeg ac ysgolion dwy ffrwd cyn bwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn.

Amdanoch Chi

Rhowch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal

	Nifer	%
Glan yr Afon	9	13.4
Rhiwbeina	8	11.9
Llanisien	6	9.0
Caerau	5	7.5
Trelái	4	6.0
Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais	4	6.0
Treganna	3	4.5
Creigiau/Sain Ffagan	3	4.5
Y Mynydd Bychan	3	4.5
Ystum Taf	3	4.5
Y Sblot	3	4.5
Adamsdown	2	3.0
Cathays	2	3.0
Cyncoed	2	3.0
Y Tyllgoed	2	3.0
Pentwyn	2	3.0
Ward Etholiadol Arall	6	9.0
Cyfanswm yr Ymatebwyr	67	100.0

Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

	Nifer	%
16-24	4	4.4
25-34	15	16.5
35-44	28	30.8
45-54	24	26.4
55-64	13	14.3
75+	2	2.2
Grŵp oedran arall	1	1.1
Mae'n well gennyf beidio â dweud	4	4.4
Cyfanswm yr Ymatebwyr	91	100.0

A ydych chi'n...

	Nifer	%
Benywaidd	72	80.0
Gwrywaidd	14	15.6
Mae'n well gennyf beidio â dweud	4	4.4
Cyfanswm yr Ymatebwyr	90	100.0

A ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

	Nifer	%
Ydw	9	10.0
Nac ydw	71	78.9
Mae'n well gennyf beidio â dweud	10	11.1
Cyfanswm yr Ymatebwyr	90	100.0

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

Nododd 17 o bobl gyflwr iechyd a oedd yn berthnasol iddyn nhw eu hunain, gellir gweld y rhain isod:

- Byddar / Wedi colli clyw / Trwm eu clyw
- Anawsterau iechyd meddwl
- Defnyddiwr cadair olwyn
- Nam symudedd
- Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)

Beth yw eich grŵp ethnig?

(Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain).

	Nifer	%
Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig	67	74.4
Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig - Indiaidd	4	4.4
Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd	3	3.3
Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall	3	3.3
Arabaidd	2	2.2
Grŵp Ethnig Arall	5	5.6
Mae'n well gennyf beidio â dweud	6	6.7
Cyfanswm yr Ymatebwyr	90	100.0

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Templed Asesu Corfforaethol**



Teitl Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY),

Newydd/Presennol/Diweddaru/Addasu: Ar ôl ymgynghori

Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r

Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth?

Enw: Richard Portas

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr y Rhaglen

Tîm Gwasanaeth: Rhaglen Ysgolion

Gwasanaeth: Addysg

Dyddiad Asesu: Chwefror 2022

**1. Beth yw amcanion y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/
Gwasanaeth/Swyddogaeth?**

1. Rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 11 Hydref 2021 a 17 Ionawr 2022 ar y cynnig canlynol ynghylch sefydlu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Moorland:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ag 20 o leoedd ar gyfer plant oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2022.

2. Rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 14 Rhagfyr 2021 a 01 Chwefror 2022 ar y cynnig canlynol ynghylch ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Uwchradd Willows o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Llanisien i ddysgwyr â chyflwr y Sbectwm Awtistig o 20 i 45 o lefydd a hynny o fis Medi 2022
- sefydlu Canolfan Adnoddau 30 lle yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle presennol ar gyfer dysgwyr sydd â Chyflwr Sbectwm Awtistiaeth, o fis Medi 2023
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 198 i 240 o fis Medi 2022

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Templed Asesu Corfforaethol**

- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies o 90 i 119 o fis Medi 2022
- cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig The Hollies ymhellach o 119 i 150 o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu cymhleth o 20 i 30 o leoedd o fis Medi 2023
- cynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Marlborough ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth o 20 i 30 o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Pentre-baen ar gyfer dysgwyr sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 20 i 24 lle o fis Medi 2022
- cynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Springwood ar gyfer dysgwyr sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 20 i 28 o fis Medi 2022

**2. Rhowch wybodaeth gefndirol am y
Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth ac
unrhyw ymchwil a wneir (e.e. data defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn
ystadegau demograffig, AEGau tebyg a wnaed ac ati).**

Ymgynghorodd swyddogion ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys disgyblion, trigolion lleol, ysgolion lleol, Cynghorwyr, grwpiau cymunedol lleol a thrigolion ar y cynnig fel y nodir yn adran 1.

Roedd y broses ymgynghori yn golygu:

- cyhoeddi dogfennau ymgynghori dwyieithog sy'n amlinellu cefndir, rhesymeg a goblygiadau i rieni, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr, pob Aelod o wardiau lleol, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill (gellir gweld copi o'r dogfennau ymgynghori yn Atodiad 1);
- cyhoeddi dogfennau cryno dwyieithog sy'n nodi prif bwyntiau'r dogfennau ymgynghori (gellir gweld copi o'r dogfennau cryno yn Atodiad 2);

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

- cyhoeddi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol ar gais;
- Cyfarfodydd ymgynghori drwy Microsoft Teams gyda Llywodraethwyr a staff Ysgol Gynradd Moorland, Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Ysgol Arbennig Meadowbank, Ysgol Arbennig yr Hollies, Ysgol Gynradd Llanisien Fach, Ysgol Gynradd Pentre-baen, Ysgol Gynradd Springwood (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 3);
- cyfarfodydd ymgynghori drwy Microsoft Teams/yn bersonol gyda chynrychiolwyr disgyblion yn Ysgol Gynradd Moorland, Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Ysgol Arbennig Meadowbank, Ysgol Gynradd Llanisien Fach, Ysgol Gynradd Pentre-baen, Ysgol Gynradd Springwood (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd hyn yn Atodiad 4);
- Hwylusodd Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn ac Ysgol Arbennig yr Hollies ymgynghoriad â'u disgyblion a rhoddwyd manylion am y safbwyntiau a gasglwyd (ceir manylion yn Atodiad 4);
- cynhaliwyd yr ymgynghoriadau disgyblion a gynhaliwyd yn bersonol yn unol â'r canllawiau lechyd a Diogelwch perthnasol.
- cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus drwy Microsoft Teams lle esboniwyd y cynnig ac atebwyd cwestiynau (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 5);
- cynigiwyd sesiynau galw heibio drwy Microsoft Teams lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau (nid oedd unrhyw geisiadau am sesiynau galw heibio);
- anfonwyd llythyrau yn nodi manylion y cynigion a lle y gellid dod o hyd i ragor o wybodaeth at drigolion a busnesau lleol yr ardal o amgylch safleoedd yr ysgol yn amodol ar y newidiadau arfaethedig;
- ymgyrch gyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- slip ymateb i'r ymgynghoriad, i'w ddychwelyd drwy'r post neu e-bost, ynghlwm wrth y dogfennau ymgynghori a'r dogfennau cryno;
- ymateb ar-lein ar wefan www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

I randdeiliaid nad oedd ganddynt fynediad i lwyfannau digidol, roedd cyfle ar gael i drafod y newidiadau arfaethedig dros y ffôn.

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yng nghyfarfodydd a drefnwyd gan y Cyngor, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn, ac ar bapur neu'n electronig drwy'r sianeli priodol, wedi'u cofnodi. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn ymwneud â'r cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Ceisiwyd barn rhanddeiliaid â diddordeb drwy gyfrwng arolwg ar-lein a fersiwn copi caled o'r arolwg o fewn y ddogfen ymgynghori.

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

Mae'r manylion a gyflwynir yn yr adroddiad yn cynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys yr arolwg ehangach o randdeiliaid, ymatebion ffurfiol, ymatebion e-bost, safbwyntiau a fynegwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn a chyfarfodydd ymgynghori â disgyblion.

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr arolygon rhanddeiliaid ehangach yn adlewyrchu'r rhai a godwyd yn yr ymatebion e-bost a gafwyd.

3 Asesu'r Effaith ar y Nodweddion Gwarchoddedig

3.1 Oedran

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Weithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl iau/hŷn?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B
Hyd at 18 oed	X		
18 - 65 oed	X		
Dros 65 oed	X		

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Bydd yr effaith yn gadarnhaol gan y bydd y cynigion yn cefnogi digonolrwydd lleoedd mewn amgylcheddau dysgu arbenigol addas.

Mae'r ddarpariaeth hon felly yn ddibynnol ar oedran ac felly nid yw ar gael i ddisgyblion y tu allan i'r ystod oedran hon, nac i oedolion, naill ai'n lleol neu yn y gymuned ehangach.

Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbennig mewn ysgolion a sylfaen adnoddau arbenigol yn unol â'r Cod ADY.

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddai asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal i nodi hygyrchedd unrhyw lety newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisiau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, NCT 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis, BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol.

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o'r

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

cynnig yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

3.2 Anabledd

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl anabl?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B
Nam ar y Clyw			
Nam Corfforol			
Nam ar y Golwg			
Anabledd Dysgu	X		
Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor			
Iechyd Meddwl			
Camddefnyddio Sylweddau			
Arall			

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Bydd yr effaith yn gadarnhaol gan y bydd y cynigion yn cefnogi digonolrwydd lleoedd mewn amgylcheddau dysgu arbenigol addas.

Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbennig mewn ysgolion a sylfaen adnoddau arbenigol yn unol â'r Cod ADY.

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddai asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal i nodi hygyrchedd unrhyw adeilad ysgol newydd ar gyfer llety newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisiau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, NCT 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis, BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol.

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o'r cynnig yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

3.3 Ailbennu Rhywedd

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl trawsryweddol?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B
Pobl Drawsryweddol (Pobl sy'n bwriadu ymgymryd, sydd yn ymgymryd neu sydd wedi ymgymryd â phroses [neu ran o broses] i ailbennu eu rhyw trwy newid priodoleddau ffisiolegol neu briodoleddau eraill rhywedd).		X	

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith wahaniaethol gan y bydd yr ysgolion a'r canolfannau adnoddau arbenigol yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbennig mewn ysgolion a sylfaen adnoddau arbenigol yn unol â'r Cod ADY.

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Byddai trefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o ad-drefnu yn cael ei ddefnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

3.4. Priodas a Phartneriaeth Sifil

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar briodas a phartneriaeth sifil?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B
Priodas			X
Partneriaeth Sifil			X

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith wahaniaethol gan y bydd yr ysgolion a'r canolfannau adnoddau arbenigol yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Byddai trefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o ad-drefnu yn cael ei ddefnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

3.5 Beichiogrwydd a Mamolaeth

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar feichiogrwydd a mamolaeth?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B
Beichiogrwydd			X
Mamolaeth			X

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith wahaniaethol gan y bydd yr ysgolion a'r canolfannau adnoddau arbenigol yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Byddai trefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o ad-drefnu yn cael ei ddefnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

3.6 Hil

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B
Gwyn			X
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig			X
Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig			X
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig			X
Grwpiau Ethnig Eraill			X

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith wahaniaethol gan y bydd yr ysgolion a'r canolfannau adnoddau arbenigol yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbennig mewn ysgolion a sylfaen adnoddau arbenigol yn unol â'r Cod ADY.

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Byddai trefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o ad-drefnu yn cael ei ddefnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

3.7 Crefydd, Cred neu Ddiffyg Cred

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl sydd â chrefyddau neu gredoau gwahanol, neu ddiffyg cred?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B
Bwdhydd			X
Cristion			X
Hindŵ			X
Dyneiddiwr			X
Iddew			X
Mwslim			X
Sikh			X
Arall			X

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith wahaniaethol gan y bydd yr ysgolion a'r canolfannau adnoddau arbenigol yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbennig mewn ysgolion a sylfaen adnoddau arbenigol yn unol â'r Cod ADY.

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Yr uwch staff mewn ysgol fyddai yn y sefyllfa orau i reoli amrywiaeth o ran cred (e.e. darparu lle ar gyfer gweddïo).

3.8 Rhywedd

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar ddynion a/neu fenywod?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B
Dynion		X	
Menywod		X	

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith wahaniaethol gan y bydd yr ysgolion a'r canolfannau adnoddau arbennig yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbennig mewn ysgolion a sylfaen adnoddau arbenigol yn unol â'r Cod ADY.

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Mae darpariaeth ysgolion a gynhelir yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw a byddai hyn yn parhau i fod yn wir.

Byddai trefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o ad-drefnu yn cael ei ddefnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

3.9 Cyfeiriadedd Rhywiol

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B
Deurywiol		X	
Dynion Hoyw		X	
Menywod Hoyw/Lesbiaid		X	
Heterorywiol/Syth		X	

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith wahaniaethol gan y bydd yr ysgolion a'r canolfannau adnoddau arbennig yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbennig mewn ysgolion a sylfaen adnoddau arbenigol yn unol â'r Cod ADY.

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan grŵp lobïo Stonewall yn honni bod pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol yn debygol o gael eu hanffafrio wrth recriwtio yn y gweithle.

Byddai trefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o ad-drefnu yn cael ei ddefnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

3.10 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol?

	Bydd	Na Fydd	Dd/ B

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Disgwylir i'r newidiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (<http://www.addewidcaerdydd.co.uk/>).

Bydd darparu amgylcheddau Dysgu'r 21ain Ganrif yn sicrhau bod lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc, sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n tyfu ac yn newid yng Nghaerdydd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

dda.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg disgyblion yn yr ysgolion hyn.

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Dd/B

3.11 Y Gymraeg

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y Gymraeg?

	Bydd	Na Fydd	Dd/B

Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Mae lefel anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector Saesneg. Mae hyn wedi bod yn newid dros y 4-5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o ADY, ym mhob maes angen.

Cynhaliwyd adolygiad o ADY yn y sector Gymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i lywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Nododd ysgolion nifer fach ond arwyddocaol o enghreifftiau o ddisgyblion ag ADY yn gadael y sector Gymraeg er mwyn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg, yn dewis yn hytrach ar gyfer cyfrwng Saesneg os oes gan eu plentyn ADY, rhag ofn y bydd angen i'w plentyn drosglwyddo i'r sector arbenigol yn ddiweddarach.

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.

Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Pwll Coch; ysgol 'fwydo' ar gyfer Ysgol Glantaf, lle sefydlir y ganolfan uwchradd. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chefnogi ystod o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau lleferydd ac iaith ac awtistiaeth.

Yn 2021 mae galw cynyddol am ganolfannau adnoddau ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, sy'n gyflawnwyr uchel ar gyfartaledd, a byddai angen model cymorth mwy integreiddiol na'r hyn a ddarperir gan y ddwy ganolfan bresennol. Ar hyn o bryd mae 8 dysgwr oedran uwchradd, a 15 dysgwr oed cynradd a fyddai'n elwa o leoliad mewn canolfan Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig. Mae hon yn flaenoriaeth byrdymor, o ystyried y risg, os bydd y lleoliadau presennol yn methu, mai'r unig opsiwn fyddai cynnig trosglwyddiad i leoliad cyfrwng Saesneg.

Mae dosbarth lles cynradd wedi'i sefydlu, a gynhelir yn Ysgol Pen y Groes. Mae'r dosbarth llesiant yn gweithio'n hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion mewn gwahanol gyfnodau oedran, neu i ddarparu model allgymorth, gan ddibynnu ar yr angen presennol.

Er mwyn cefnogi anghenion iechyd emosiynol a llesiant yn y cyfnod uwchradd, mae canolfan / UCD 'rithwir' wedi'i threialu ar draws y tair ysgol uwchradd Gymraeg, gan ddechrau yn 2018. Disgwylir i'r peilot gael ei adolygu ymhellach yn 2021.

Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y tair ysgol gyfleusterau a llety digonol i gynnig darpariaeth Cam 3 a 4 effeithiol, wedi'i hategu gan y ganolfan/UCD rithwir. Yn y tymor canolig, bydd angen lleoliad sefydlog ar y ganolfan / UCD rithwir yn un o'r ysgolion, gyda llety dynodedig, er mwyn lleihau'r risg y gallai fod angen i bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth adael y sector Cymraeg i gael mynediad at ddarpariaeth fwy arbenigol.

Wrth i'r sector Cymraeg barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg cyfrwng Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr sydd ag ADY cymhleth.

Mae'r nifer o staff addysgu cymwys a phrofiadol ADY, yn gyfyngedig o'i gymharu â'r sector Saesneg. Bydd angen i unrhyw gynllun i ddatblygu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg gael ei gefnogi gan Gynllun Datblygu'r Gweithlu ADY.

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

Yn unol â'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid ar Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd i ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd newydd ar gyfer y ddinas. Disgwylir y bydd y cynllun ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hydref 2021 cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022. Bydd y Cynllun 10 mlynedd gyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032.

Bydd ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft yn ceisio barn ar y ffordd orau o dyfu addysg Gymraeg a sut i gyrraedd y targedau lleol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn llywio cynigion yn y dyfodol. Bydd y Rhaglen yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Bydd y galw am leoedd ADY cyfrwng Cymraeg yn cael ei adolygu'n gyson a bydd cynigion yn cael eu cyflwyno yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

4. Ymgynghori ac Ymgysylltu

Pa drefniadau a wnaed i ymgynghori/ymgysylltu â'r gwahanol Grwpiau Cydraddoldeb?

Byddai Swyddog Hygyrchedd y Cyngor yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynllun.

5. Crynodeb o Gamau Gweithredu [a restrir yn yr Adrannau uchod]

Grwpiau	Camau Gweithredu
Oedran	Gweler y Gweithredoedd Trosfwaol Cyffredinol isod
Anabledd	
Ailbennu Rhywedd	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Hil	
Crefydd/Cred	
Rhywedd	
Cyfeiriadedd Rhywiol	
Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol	
Y Gymraeg	

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

Cyffredinol Generig [yn berthnasol i'r holl grwpiau uchod]	Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt: <ul style="list-style-type: none">• byddai angen sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.• byddai asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal i nodi hygyrchedd unrhyw adeilad ysgol newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisïau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, NCT 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis, BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol.• Bydd y galw am leoedd ADY cyfrwng Cymraeg yn cael ei adolygu'n gyson a bydd cynigion yn cael eu cyflwyno yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
--	---

6. Rhagor o Gamau Gweithredu

Dylid cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn (a restrir yn y Crynodeb o Gamau Gweithredu) fel rhan o Gynllun Busnes eich Gwasanaeth i'w monitro'n rheolaidd.

7. Awdurdodiad

Dylai'r templed gael ei lenwi gan Swyddog Arweiniol y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Swyddogaeth a nodwyd a'i gymeradwyo gan y Rheolwr priodol ym mhob Gwasanaeth.

Cwblhawyd Gan: Rosalie Phillips	Dyddiad: Chwefror 2022
Swydd: Swyddog Project Trefniadaeth Ysgolion	
Cymeradwywyd gan:	
Swydd:	
Gwasanaeth: Addysg	

7.1 Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, sicrhewch y caiff y Ffurflen ei phostio ar Dudalen eich Cyfarwyddiaeth ar CIS - *Ledled y Cyngor/Systemau Rheoli/Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb* – fel bod cofnod o'r holl asesiadau yr ymgwymerir â nhw yn y Cyngor.

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth, cysylltwch â'r Tîm Canolbwyntio ar Ddinasyddion drwy ffonio 029 2087 2536 / 3262 neu e-bostio tîmcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

**CYNGOR CAERDYDD
CARDIFF COUNCIL**

CHILDREN & YOUNG PEOPLE SCRUTINY COMMITTEE

8 MARCH 2022

**SCHOOL ORGANISATION PROPOSALS: PROVISION FOR CHILDREN
AND YOUNG PEOPLE WITH ADDITIONAL LEARNING NEEDS (ALN) -
EMOTIONAL HEALTH AND WELLBEING PROVISION FOR PRIMARY AND
SECONDARY AGED PUPILS**

Purpose of the Report

1. To provide Members with the opportunity to carry out pre-decision scrutiny of proposals, attached at **Appendix A**, prior to its consideration by Cabinet at its meeting on the 10 March 2022.
2. The purpose of the Cabinet report is to inform Cabinet of the responses received following public consultation on proposals to extend and realign special school and Specialist Resource Bases (SRBs) for pupils across Cardiff with emotional, health and wellbeing needs.

Background

3. At its meeting on 15 July 2021 the Cabinet authorised officers to consult on proposals to:
 - increase the capacity of The Court Special School from 42 to 72 places. The school would transfer to new build accommodation across two sites at Fairwater Primary School and the current St Mellons CiW Primary School site in Llanrumney with 36 pupils on each site from September 2025.
4. At its meeting on 14 October 2021 the Cabinet authorised officers to consult on proposals to:
 - increase the capacity of Greenhill School from 64 to 160 places. The school would transfer to new build accommodation across two

sites at the Ty Glas in Llanishen and the Dutch Garden Centre site with 80 places on each site from September 2025

- establish a 20-place Specialist Resource Base for emotional health and wellbeing at Cardiff West Community High School from September 2022.
- establish a 20-place Specialist Resource Base for emotional health and wellbeing at Eastern High from September 2022.

5. This Scrutiny Committee considered the above proposals on the 13th July 2021 and 13th October 2021, and extracts from the Chair's letters arising from this issue, and corresponding responses from Councillor Merry is attached at **Appendix B**.

Structure of Papers

6. The following issues are highlighted in the Cabinet report, as at **Appendix A**:

- **Responses received regarding the proposal The Court Special School** (*points 7 – 18 in the Cabinet report*)
 - Views Expressed (*points 21 - 26 in the Cabinet report*)
 - The Court Special School Pupil Representation (*points 27 - 29 in the Cabinet report*)
 - Fairwater Primary School Pupil representation (*points 30 – 33 in the Cabinet report, plus Appendix 4*)
 - Response to views expressed (*points 34 - 44 in the Cabinet report, plus Appendix 7*)
- **Responses received regarding the proposal for Greenhill School during the consultation period** (*points 45 - 53 in the Cabinet report, plus Appendices 6 - 8*)
 - Greenhill School Pupil representation (*points 56 - 63 in the Cabinet report, plus Appendix 4*)
 - Response to the view expressed (*points 64 - 70 in the Cabinet report, plus Appendix 7*)

- **Responses received regarding the establishment of emotional health and wellbeing Specialist Resource Base provision for learners aged 11-19 (Cardiff West Community High School and Eastern High) during the consultation period** (*points 71 - 80 in the Cabinet report, plus Appendices 6 & 7*)
 - Cardiff West Community High School Pupil representation (*points 81 - 84 in the Cabinet report, plus Appendix 6*)
 - Eastern High Pupil representation (*point 85 in the Cabinet report*)
 - Response to the views expressed (*points 86 - 96 in the Cabinet report, plus Appendix 7*)
- **Formal responses received during the consultation regarding Additional Learning Needs Provision** (*points 97 – 105 in the Cabinet report*)
 - Response to the view expressed (*points 106 - 111 in the Cabinet report, plus Appendix 7*)
- Health provision (*points 112 - 113 in the Cabinet report*)
- Admissions arrangements (*point 114 in the Cabinet report*)
- Learner Traveller Arrangements (*points 115 - 118 in the Cabinet report*)
- Community Impact (*point 119 in the Cabinet report*)
- Local Member Consultation (*point 120 in the Cabinet report, plus Appendix 6*)
- Scrutiny Consultation (*point 121 in the Cabinet report*)

7. The draft Cabinet report also provides details on the following areas:

- Financial Implications (*points 123 - 129 in the Cabinet report*)
- Legal Implications (*points 130 - 146 in the Cabinet report*)
- HR Implications (*points 147 - 153 in the Cabinet report*)
- Property Implications (*point 154 in the Cabinet report*)
- Traffic and Transport Implications (*points 155 - 178 in the Cabinet report*)
- Impact of the proposals on the Welsh Language (*points 179 - 191 in the Cabinet report*)

- Wellbeing of Future Generations (*points 192 - 194 in the Cabinet report*)
- EIA (*points 195 - 196 in the Cabinet report; plus Appendix 9*)

8. The report is supported by a number of appendices covering:

- **Appendix 1:** Consultation documents
- **Appendix 2:** Summary documents
- **Appendix 3:** Notes of meetings with Governing Bodies and Staff
- **Appendix 4:** Notes from pupil engagement meetings
- **Appendix 5:** Notes from public meetings
- **Appendix 6:** Formal responses received
- **Appendix 7:** Summary of responses received, and appraisal of views expressed
- **Appendix 8:** Summary analysis of responses received
- **Appendix 9:** Equality Impact Assessment

Issues highlighted in the report to Cabinet

Consultation Methodology

9. The consultation period for The Court Special School proposals ran from 11 October 2021 until 17 January 2022.

10. The consultation period for the Greenhill School proposals and the secondary Specialist Resource Base provision for learners with emotional health and wellbeing needs ran from 14 December 2021 until 01 February 2022.

11. The consultation process for each set of proposals involved:

- Publication of bilingual consultation documents outlining background, rationale and implications to parents, staff and governors of affected schools, Headteachers and Chairs of Governors city-wide, elected Members, local residents and other stakeholders (a copy of the consultation documents can be seen at Appendix 1);

- Publication of bilingual summary documents setting out the main points of the consultation documents (a copy of the summary documents can be seen at Appendix 2);
- Publication of information in community languages upon request;
- Consultation meetings via Microsoft Teams with school governors and staff at The Court Special School, Greenhill School, Fairwater Primary School and Cardiff West Community High School. The Governing Body and staff of Eastern High declined the offer of meetings as a number of meetings had been held ahead of the consultation and they had sufficient information available to them (notes from the meetings can be seen at Appendix 3);
- Consultation meetings with pupil representatives at The Court Special School, Fairwater Primary School, Greenhill School and Cardiff West Community High School (notes from these meetings can be seen at Appendix 4);
- Two public consultation meetings via Microsoft Teams at which the proposals were explained and questions answered (notes from the meetings can be seen at Appendix 5);
- Drop-in sessions via Microsoft Teams where officers were available to answer questions (there were no requests for drop-in sessions);
- Letters setting out details of the proposals and where further information could be found were sent to local residents and businesses in the area surrounding the school sites subject to the proposed changes;
- A communication campaign via social media;
- A consultation response slip for return by post or e-mail, attached to the consultation documents and summary documents;
- An online response from at www.cardiff.gov.uk/ALNschoollproposals

12. For stakeholders who did not have access to digital platforms the opportunity to discuss the proposed changes via telephone was available.

13. The views expressed at Council organised meetings, drop-in sessions, telephone calls, and on paper or electronically through the appropriate channels, have been recorded.

14. Views were sought from interested stakeholders via online surveys and hard copy versions of the surveys within the consultation documents.
15. The details presented in this report, represent the views expressed during the consultation process. These include the wider stakeholder surveys, formal responses, e-mail responses, views expressed at public meetings, drop-in sessions, telephone calls and pupil consultation meetings.
16. The views expressed in the wider stakeholder surveys reflect those raised in the e-mail responses received.

Results

17. In total there were 44 responses received, including 35 online responses and 9 e-mail responses.
18. Formal responses were received from:
- Estyn
 - The Court Special School Governing Body
 - The Court Special School Headteacher
 - The Court Special School Staff
 - Fairwater Primary School Governing Body
 - Pen y Bryn Primary School Governing Body

19. Of the 35 online responses received, 88.6% supported the proposal to increase the capacity of The Court Special School from 42 to 72 places, with 60% of responses supporting the proposed transfer of the school to new build accommodation across two sites at Fairwater Primary School and the current St Mellons CiW Primary School site in Llanrumney.

Views Expressed

20. Reasons for supporting the proposed changes included:
- The need to respond to the growing demand for additional learning needs provision.

- A dual site arrangement could allow for pupils to have stronger links with their local communities.
- The potential for active travel/children to spend less time in taxis commuting to school.
- The potential benefits arising out of co-location with mainstream provision.
- The opportunities to develop stronger links with local communities.
- The provision of purpose-built facilities would provide an improved learning environment.
- The opportunity for enhanced development opportunities for children and staff.

21. Whilst there was support for the expansion and redevelopment of The Court Special School there were a number of concerns related to:

- The ability to maintain one school ethos across two sites.
- The current lack of Welsh-medium additional learning needs provision.
- The need to maintain small class sizes in order to be able to provide appropriate levels of support.
- The need for both school sites to be new and purpose built.
- Potential safeguarding concerns around co-location with mainstream provision.
- Access arrangements to both proposed sites and the potential for increased traffic around the sites.
- Staffing arrangements and the need to ensure sufficient time is allowed for upskilling of new staff.
- The safety of children on school sites during the construction phase.
- The design/layout of any new build needs to allow for suitable distance and security with the integrity of both mainstream and special school provision maintained.
- The future of existing Wellbeing provision at Fairwater Primary School.

22. The Governing Body of Fairwater Primary School expressed a wish for greater detail on the proposed changes, including detail on site matters

such as access, boundaries, buildings and organisation of the two schools on the shared site.

23. Separate to the proposed changes, Fairwater Governing Body asked for consideration to be given to the establishment of nursery provision at the school.

24. A number of alternative suggestions were put forward. These included the use of land at Fitzalan High School, the former Michaelston Community College site and at the school playing fields in Cardiff West Community High School.

25. It was also suggested that a more rural location would be better for the school, that single site provision should be developed, and that the age range of the school be extended to age 19.

Recommendations set out in the Cabinet Proposals

26. The Cabinet is recommended to

- 1) authorise officers to proceed on proceed to publish proposals in accordance with section 48 of The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 on proposals to:
 - Increase the capacity of The Court Special School from 42 to 72 places. The school would transfer to new build accommodation across two sites at Fairwater Primary School and the current St Mellons, CiW Primary School site in Llanrumney with 36 pupils on each site from September 2025.
 - establish a 20-place Specialist Resource Base for emotional health and wellbeing at Cardiff West Community High School from September 2022.
 - establish a 20-place Specialist Resource Base for emotional health and wellbeing at Eastern High from September 2023.
- 2) Not progress the proposal to increase the capacity of Greenhill School.

- 3) Note that officers will bring a further report to Cabinet for consideration, setting out details of revised proposals for the provision of secondary English-medium and Welsh-medium education health and wellbeing special school places.

Scope of Scrutiny

27. The scope of this scrutiny is for Members to consider and provide comments on the draft report to Cabinet, prior to its consideration of the report on the 10 March 2021.

Way Forward

28. Councillor Sarah Merry (Deputy Leader and Cabinet Member for Education Employment, Skills), Melanie Godfrey (Director of Education and Lifelong learning), Richard Portas (Programme Director for the School Organisation Programme) and Brett Andrewartha (SOP Programme Manager) will present the report to the Committee, and be available to answer any questions Members may have.
29. This report will also enable Members to provide any comments, concerns or recommendations to the Cabinet Member prior to its consideration by Cabinet.

Legal Implications

30. The Scrutiny Committee is empowered to enquire, consider, review and recommend but not to make policy decisions. As the recommendations in this report are to consider and review matters there are no direct legal implications. However, legal implications may arise if and when the matters under review are implemented with or without any modifications. Any report with recommendations for decision that goes to Cabinet/Council will set out any legal implications arising from those recommendations. All decisions taken by or on behalf of the Council must (a) be within the legal powers of the Council; (b) comply with any procedural requirement imposed by law; (c) be within the powers of the body or person exercising

powers on behalf of the Council; (d) be undertaken in accordance with the procedural requirements imposed by the Council e.g. Scrutiny Procedure Rules; (e) be fully and properly informed; (f) be properly motivated; (g) be taken having regard to the Council's fiduciary duty to its taxpayers; and (h) be reasonable and proper in all the circumstances.

Financial Implications

31. There are no direct financial implications arising from this report. However, financial implications may arise if and when the matters under review are implemented with or without any modifications.

RECOMMENDATIONS

The Committee is recommended to:

- a) Review and assess the information contained in the draft Cabinet Report, attached at **Appendix A**, together with any information provided at the meeting;
- b) Provide any recommendations, comments or advice to the Cabinet Member and / or Director of Education and Lifelong Learning prior to the report's consideration by Cabinet.

Davina Fiore

Director of Governance and Legal Services

3 March 2022

**CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARIAETH I
BLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU
YCHWANEGOL (ADY)**

**DARPARIAETH EMOSIYNOL IECHYD A LLES I DDISGYBLION
OED CYNRADD AC UWCHRADD**

**ADDYSG, CYFLOGAETH A SGILIAU (CYNGHORYDD SARAH
MERRY)**

EITEM AGENDA:

Rhesymau dros yr Adroddiad hwn

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Cabinet o'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghori cyhoeddus ar gynigion i ymestyn ac adlinio ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol (CAA) i ddisgyblion ledled Caerdydd sydd ag anghenion emosiynol, iechyd a lles.

Cefndir

2. Yn eu cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2021 rhoes y Cabinet awdurdod i swyddogion ymgynghori ar gynigion i:
 - gynyddu'r niferoedd yn Ysgol Arbennig y Court o 42 i 72 lle. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i adeiladau newydd ar draws dau safle yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed a safle presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn Llanrhymni gyda 36 disgybl ar bob safle o Fedi 2025 ymlaen.
3. Yn eu cyfarfod ar 14 Hydref 2021 rhoes y Cabinet awdurdod i swyddogion ymgynghori ar gynigion i:
 - gynyddu'r niferoedd yn Ysgol Greenhill o 64 i 160 lle. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i adeiladau newydd ar draws dau safle yn y Tŷ Glas yn Llanisien a safle Canolfan Arddio Dutch gydag 80 lle ar bob safle o Fedi 2025 ymlaen

- sefydlu CAA 20 le am iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o Fedi 2022.
- sefydlu CAA 20 le am iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o Fedi 2022.

Materion

4. Parhaodd y cyfnod ymgynghori ar gynigion Ysgol Arbennig y Court o 11 Hydref 2021 tan 17 Ionawr 2022.
5. Parhaodd y cyfnod ymgynghori ar gynigion Ysgol Greenhill a'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol uwchradd i ddysgwyr ag anghenion emosiynol, iechyd a lles o 14 Rhagfyr 2021 tan 01 Chwefror 2022.
6. Yr oedd y broses ymgynghori ar bob cynnig yn golygu:
 - Cyhoeddi dogfennau ymgynghori dwyieithog yn amlinellu'r cefndir, rhesymeg a'r oblygiadau i rieni, staff a llywodraethwyr yr ysgolion yr effeithir arnynt, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ledled y ddinas, Aelodau etholedig, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill (gellir gweld copi o ddogfennau'r ymgynghoriad yn Atodiad 1);
 - Cyhoeddi crynodeb o ddogfennau dwyieithog yn gosod allan brif bwyntiau'r dogfennau ymgynghori (gellir gweld copi o'r crynodeb o'r dogfennau yn Atodiad 2);
 - Cyhoeddi gwybodaeth yn ieithoedd y gymuned o wneud cais;
 - Cyfarfodydd ymgynghori trwy Microsoft Teams gyda llywodraethwyr a staff Ysgol Arbennig y Court, Ysgol Greenhill, Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd. Gwrthododd Corff Llywodraethwyr a staff Ysgol Uwchradd y Dwyrain y cynnig o gyfarfod oherwydd bod nifer o gyfarfodydd eisoes wedi eu cynnal cyn yr ymgynghoriad a bod ganddynt ddigon o wybodaeth (mae nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 3);
 - Cyfarfodydd ymgynghori gyda chynrychiolwyr disgyblion yn Ysgol Arbennig y Court, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Greenhill ac Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd (mae nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 4);
 - Dau gyfarfod ymgynghori cyhoeddus trwy Microsoft Teams lle'r esboniwyd y cynigion ac atebwyd cwestiynau (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 5);
 - Cynigiwyd sesiynau galw heibio trwy Microsoft Teams lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau (ni fu ceisiadau am sesiynau galw heibio);
 - Anfonwyd llythyrau yn gosod allan fanylion y cynigion a lle'r oedd modd cael mwy o wybodaeth at drigolion a busnesau lleol yn yr ardaloedd o gwmpas safleoedd yr ysgolion fyddai'n destun y newidiadau arfaethedig;
 - Ymgyrch gyfathrebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol;

- Slip ymateb i'r ymgynghoriad i'w ddychwelyd drwy'r post neu e-bost, wedi ei atodi i'r dogfennau ymgynghori a'r crynodeb o ddogfennau;
7. Ffurflen ymateb ar-lein ar [Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol \(ADY\) \(caerdydd.gov.uk\)](http://DarpariaethAnghenionDysguYchwanegol(ADY)(caerdydd.gov.uk)) i randdeiliaid heb allu cyrchu llwyfannau digidol, yr oedd cyfle i drafod y newidiadau arfaethedig dros y ffôn ar gael.
 8. Cofnodwyd y farn a fynegwyd mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan y Cyngor, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn, ac ar bapur neu yn electronig trwy'r sianeli priodol.
 9. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid oedd â diddordeb trwy arolwg ar-lein a chopi caled o'r arolwg yn y ddogfen ymgynghori.
 10. Yr oedd y manylion a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori. Yr oedd y rhain yn cynnwys yr arolwg rhanddeiliaid ehangach, ymatebion ffurfiol, ymatebion e-bost, barn a fynegwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn a chyfarfodydd ymgynghori â disgyblion.
 11. Mae'r farn a fynegwyd yn yr arolygon rhanddeiliaid ehangach yn adlewyrchu'r hyn a godwyd yn yr ymatebion e-bost a dderbyniwyd.

Ymatebion a dderbyniwyd ynghylch cynnig Ysgol Arbennig y Court

12. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y bwriad i ehangu a throsglwyddo Ysgol Arbennig y Court ar y cyd â chynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Moorland.
13. Yr oedd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn cynnwys datganiadau o gefnogaeth a phryderon perthnasol i'r naill gynnis a'r llall.
14. Cafwyd cyfanswm o 44 ymateb, gan gynnwys 35 ymateb ar-lein a 9 ymateb e-bost.
15. Derbyniwyd ymatebion ffurfiol oddi wrth:
 - Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Arbennig y Court
 - Pennaeth Ysgol Arbennig y Court
 - Staff Ysgol Arbennig y Court
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Tyllgoed
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Pen y Bryn
16. Yr oedd ymateb Estyn yn datgan y farn fod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Fodd bynnag, y mae ffyrdd lle gellid cryfhau'r cynnig.
17. Mae copïau llawn o'r ymatebion ffurfiol yn Atodiad 6.

18. O'r 35 ymateb ar-lein a dderbyniwyd, yr oedd 88.6% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu nifer y llefydd yn Ysgol Arbennig y Court o 42 i 72 lle, gyda 60% o'r ymatebion yn cefnogi'r bwriad i drosglwyddo'r ysgol i adeiladau newydd ar draws dau safle yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed a safle presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn Llanrhymni.
19. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan yr holl randdeiliaid, a mantoliad o'r farn a fynegwyd, yn Atodiad 7.
20. Mae crynodeb o ddadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 8.

Barn a fynegwyd

21. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
 - Yr angen i ymateb i'r galw cynyddol am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.
 - Gallai trefniant dau safle alluogi disgyblion i gael cysylltiadau cryfach â'u cymunedau lleol.
 - Y potensial am deithio llesol/plant i dreulio llai o amser mewn tacsis yn cymudo i'r ysgol.
 - Y manteision posib fyddai'n deillio o gydleoli â darpariaeth brif ffrwd.
 - Cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau cryfach â chymunedau lleol.
 - Byddai darparu cyfleusterau a godwyd yn unswydd yn rhoi gwell amgylchedd dysgu.
 - Gwell cyfleoedd datblygu i'r plant a'r staff.
22. Er y cafwyd cefnogaeth i ehangu ac ail-ddatblygu Ysgol Arbennig y Court, codwyd nifer o bryderon ynghylch:
 - Y gallu i gynnal ethos un ysgol ar draws dau safle.
 - Y diffyg presennol o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg.
 - Yr angen i gadw maint dosbarthiadau yn fychan er mwyn gallu darparu'r lefelau priodol o gefnogaeth.
 - Yr angen i safleoedd y ddwy ysgol fod yn newydd ac wedi eu hadeiladu yn unswydd.
 - Pryderon diogelu posib ynghylch cydleoli gyda darpariaeth brif ffrwd.
 - Trefniadau mynediad at y ddau safle arfaethedig a'r posibilrwydd y byddai mwy o draffig o gwmpas y safleoedd.
 - Trefniadau staffio a'r angen i ofalu y caniateir digon o amser i uwchsgilio aelodau newydd o staff.
 - Diogelwch plant at safleoedd ysgol yn ystod y cyfnod adeiladu.
 - Rhaid i ddyluniad/cynllun unrhyw adeiladau newydd roi pellter a diogelwch addas, a chynnal uniondeb darpariaeth ysgolion prif ffrwd ac arbennig.
 - Dyfodol y ddarpariaeth lles presennol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed.

23. Mynegodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Tyllgoed ddymuniad i gael mwy o fanylion am y newidiadau arfaethedig, gan gynnwys manylion am faterion safle fel mynedfeydd, ffiniau, adeiladau a threfniadaeth y ddwy ysgol ar y safle a rennir.
24. Ar wahân i'r newidiadau arfaethedig, gofynnodd Corff Llywodraethu y Tyllgoed am i ystyriaeth gael ei roi i sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.
25. Cynigiwyd nifer o awgrymiadau eraill. Yr oedd y rhain yn cynnwys defnyddio tir yn Ysgol Uwchradd Fitzalan, hen safle Coleg Cymuned Michaelston a'r caeau chwarae yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd.
26. Awgrymwyd hefyd y byddai lleoliad mwy gwledig yn well i'r ysgol, y dylid datblygu darpariaeth ar un safle, ac y dylid ymestyn ystod oedran yr ysgol i 19.

Cynrychiolwyr Disgyblion Ysgol Arbennig y Court

27. Cyfarfu swyddogion â disgyblion o Ysgol Arbennig y Court i drafod y cynigion a chasglu eu barn.
28. Yr oedd y disgyblion yn hoffi'r syniad o adeiladau a chyfleusterau newydd i'r ysgol; yr oedd gan yr ysgol broblemau ar hyn o bryd gyda gwres a'r ffenestri. Buasent yn hoffi cyfleusterau gwell gydag ystafelloedd / llefydd i wneud pethau. Rhoesant nifer o syniadau ar yr hyn y carent gael, gan gynnwys gwell cyfleusterau chwaraeon (mewnol ac allanol), manau tawel, lle a chyfarpar awyr agored, ystafell ddsbarth tu allan, ystafelloedd crefft a cherddoriaeth.
29. Yr oeddent hefyd am gadw arferion fel ennill tocynnau trwy gydol yr wythnos i'w gwario ar ddydd Gwener.

Cynrychiolwyr Disgyblion Ysgol Gynradd y Tyllgoed

30. Cyfarfod swyddogion yn rhithiol gyda chynrychiolwyr disgyblion o Ysgol Gynradd y Tyllgoed i drafod y cynigion a chasglu eu barn.
31. Yn gyffredinol, yr oedd y plant yn hapus â'r syniad o gael ysgol arall ar eu safle.
32. Yr oedd a wnelo'r pwyntiau a godwyd â cholli lle yn yr iard chwarae, a fyddai cyfle i i chwarae â'r plant o'r ysgol arall, ystod oedran yr ysgol newydd, trefniadau mynediad a lleoliad yr ysgol newydd ar y safle.
33. Gellir gweld nodiadau'r cyfarfodydd yn Atodiad 4.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

34. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu ac ail-ddatblygu Ysgol Arbennig y Court.

35. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod nifer o bryderon yn codi yn enwedig ynghylch y trefniadau trosiannol, cynllun/mynedfeydd y safle, cydleoli darpariaeth arbennig a phrif ffrwd, y potensial i gynyddu traffig a statws y ddarpariaeth lles presennol.
36. Byddai datblygiad y cynnig yn bwrw ymlaen mewn partneriaeth â'r Penaethiaid a'r Cyrff Llywodraethol a byddant yn ystyried yn llawn y pryderon a godwyd a ffyrdd priodol i liniaru'r rhain gan gynnwys gweithredu fesul cyfnod, dewisiadau am gynllun y safle, rheoli traffig, cynllunio trosiannol a chefnogaeth estyn allan.
37. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos â phob ysgol i ystyried y dyluniad, cynllun, mynediad ac adeiladau wrth i'r cynigion ddatblygu. Tra bod y gwaith cychwynnol o fantoli'r datblygiad wedi ei wneud, bydd y materion manwl hyn yn cael eu hystyried yn nes ymlaen, gan gadw mewn cof yr adborth cychwynnol yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn ar newidiadau trefniadol.
38. Mae cydleoli darpariaeth arbenigol a phrif ffrwd yn rhoi cyfle i adeiladu partneriaethau a datblygu arferion cydweithio fyddai o les i bob ysgol.
39. Byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Court yn gymwys am Gludo Dysgwyr trwy rannu tacsis neu fysus-mini. Byddai mynedfa'r safleoedd yn cael eu cynllunio i'r nifer fechan hwn o gerbydau eu cyrraedd yn effeithiol.
40. Byddai man codi a gollwng o'r maint priodol yn cael eu hymgorffori mewn ardal ddiogel ar y safle.
41. Mae'r dosbarth lles presennol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn parhau i fod yn rhan bwysig o gefnogaeth iechyd emosiynol a lles i ddisgyblion oedran cynradd, a bwriedir i hyn barhau.
42. Mae sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed y tu allan i gwmpas y cynnig sy'n destun yr ymgynghori ac fe'i hystyriar ar wahân.
43. Mae datblygiad darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn cael ei ystyried a chyflwynir cynigion fel rhan o weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2031 y Cyngor, wedi i'r strategaeth gael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru a'i fabwysiadu yn ffurfiol yn nes ymlaen yn 2022.
44. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ymatebion a dderbyniwyd ynghylch y cynnig am Ysgol Greenhill yn ystod y cyfnod ymgynghori

45. Derbyniwyd cyfanswm o 28 ymateb gan gynnwys 22 o ymatebion o'r arrolwg ar-lein a 6 ymateb e-bost.
46. Derbyniwyd ymatebion ffurfiol am gynigion Ysgol Greenhill oddi wrth:

- Aelodau Lleol - Rhiwbeina
 - Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Greenhill
 - Uwch Dîm Arwain Ysgol Greenhill
47. Yn ychwanegol at y rhain, derbyniwyd 17 o ymatebion pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori nad oedd yn gwneud sylwadau yn uniongyrchol ar gynigion Ysgol Greenhill, ond a oedd yn crybwyll yr angen am gynnydd yn y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg.
48. Yr oedd ymateb Estyn yn datgan y farn fod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.
49. Mae copïau llawn o'r ymatebion yn Atodiad 6.
50. O'r 22 o ymatebion i'r arolwg ar-lein a dderbyniwyd, yr oedd 64% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu'r lle yn yr ysgol o 64 i 160 lle.
51. Fodd bynnag, o'r 20 ymateb ar-lein oedd yn ateb y cwestiwn ynghylch trosglwyddo'r ysgol i adeiladau newydd ar draws dau safle yn safle Canolfan Arddio Dutch a Heol Tŷ Glas, dim ond 32% oedd o blaid.
52. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan yr holl randdeiliaid, a mantoliad o'r farn a fynegwyd, yn Atodiad 7.
53. Mae crynodeb o ddadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 8.
54. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:
- Yr angen i ymateb i'r galw cynyddol am ddarpariaeth iechyd emosiynol a lles.
 - Byddai darparu lle a chyfleusterau newydd yn cefnogi addysg a lles.
 - Byddai mwy o blant yn elwa o allu cyrraedd darpariaeth arbenigol, yn enwedig i'r rhai nad yw darpariaeth brif ffrwd yn addas iddynt.
 - Byddai trefniant safle deul yn caniatáu cynnydd yn ystod y gweithgareddau a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr, byddai'n cefnogi rheoli'r disgyblion ac yn rhoi'r sylw y mae ar ddisgyblion ei angen.
 - Mae safle Tŷ Glas mewn lleoliad canolog â chysylltiadau trafndiaeth da.
 - Byddai natur safle Canolfan Arddio Dutch yn rhoi cyfle i ddatblygu ystod o ddewisiadau dysgu.
55. Er bod cefnogaeth gyffredinol i ehangu'r ysgol, codwyd nifer o bryderon ac ymholiadau, a grynhoir fel a ganlyn:
- Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i addasrwydd y safleoedd o ran anghenion y plant.

- Y ffaith fod safle Canolfan Arddio Dutch yn agos at draffordd / cyffordd yr M4 a'r oblygiadau iechyd a diogelwch posib allai godi o hyn.
- Diffyg cludiant cyhoeddus i safle Canolfan Arddio Dutch ar hyn o bryd.
- Maint safle Tŷ Glas sy'n debyg o fod ar gael i Greenhill.
- Y potensial am anawsterau yn deillio o'r ffaith fod Ysgol Greenhill yn rhannu safle ag ysgol brif ffrwd ar safle Tŷ Glas.
- Yr heriau ynghylch cadw ethos Ysgol Greenhill ar draws dau safle; mae un safle yn cynnig hunaniaeth gydlynol, sicrwydd a pharhad i'r disgyblion.
- Gallai gwanhau adnoddau ar draws dau safle arwain ar lai o effeithiolrwydd yn gyffredinol.
- Gallai niferoedd ychwanegol o ddisgyblion olygu bod angen dosbarthiadau mwy, a mwy o bwysau ar y staff.
- Gallai niferoedd ychwanegol o ddisgyblion arwain at lai o gyfleoedd am gefnogaeth 1:1 o ran addysg a lles.
- Er bod integreiddio merched yn yr ysgol i'w groesawu, bydd angen ystyried yn ofalus sut i reoli hyn.
- Mae'r diffyg presennol o ddarpariaeth iechyd emosiynol a lles cyfrwng Cymraeg yn cyfyngu ar y cyfleoedd i blant barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yr angen i sicrhau bod unrhyw adeilad newydd yn cymharu o ran maint gyda chyfleusterau presennol yr ysgol e.e., ystafelloedd dosbarth.
- Y defnydd a wneir yn y dyfodol o safle presennol Ysgol Greenhill.
- Cynnig gwreiddiol y Cyngor am i Ganolfan Arddio Dutch ar G30 yr M4 oedd am gyfleuster parcio a theithio. A yw'r cynnig hwnnw bellach heb fod dan ystyriaeth ac a yw datblygiad yr ysgol wedi cymryd ei le?
- Pryd ydych chi'n bwriadu dymchwel Adeiladau Cyllid y Wlad?
- A wnaiff y Cyngor ofalu bod trigolion lleol yn cael manylion cynllunio llawn am y datblygiadau arfaethedig yn Rhiwbeina, Llanisien a C30 ar safle'r M4?

56. Cynigiwyd nifer o awgrymiadau eraill. Ymysg y rhain yr oedd:

- Cynnal darpariaeth Ysgol Greenhill ar y safle presennol; mae safle presennol yr ysgol yn ganolfan berffaith i ysgol ddiogel a llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cael cefnogaeth dda gan y gymuned leol ac felly dylid datblygu safle presennol yr ysgol i ddarparu llety o safon.
- Dylai safle Tŷ Glas gael ei ddefnyddio yn unig i Greenhill.
- Bod â Greenhill estynedig mewn adeiladau unswydd newydd.
- Dylid cael safleoedd ar wahân i fechgyn a merched i gydnabod risgiau lles a diogelu.
- Dylid ystyried y cynnig addysg annibynnol / preifat ehangach.

Cynrychiolwyr disgyblion Ysgol Greenhill

57. Cyfarfu swyddogion â disgyblion Ysgol Greenhill i drafod y cynigion a chasglu eu barn.
58. Yr oedd y disgyblion yn cefnogi cynnydd yn y nifer y gall yr ysgol ddal gan y byddai hyn yn gadael i fwy o bobl ifanc fanteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan yr ysgol.
59. Yr oeddent yn hoffi'r syniad o adeiladau/cyfleusterau newydd i'r ysgol, gan roi amrywiaeth o syniadau am yr hyn y carent gael eu darparu gan gynnwys gwell cyfleusterau chwaraeon (mewnol ac allanol), cyfleusterau coginio, manau tawel, lle y tu allan y gellid ei ddatblygu fel gardd / ardal i anifeiliaid bychain, darpariaeth chweched dosbarth ar wahân, a lle i'r gymuned/rhieni.
60. Er hynny, yr oeddent yn pryderu am leoliad safle Canolfan Arddio Dutch yn agos at draffordd/cyffordd yr M4, a'r risgiau posib ynghylch hyn.
61. Yr oedd cydleoli safle ysgol uwchradd brif ffrwd hefyd yn bryder, a'r anawsterau posib am berthynas disgyblion yr ysgolion yn sgil hyn.
62. Bechgyn yw holl ddisgyblion Ysgol Greenhill ar hyn o bryd, a llawer ohonynt heb fod mewn ysgol gymysg gyda merched. Bu rhai o'r disgyblion mewn ysgolion cynradd gyda merched, ond teimlent fod hyn yn wahanol wrth i'r disgyblion dyfu'n hŷn, gan fod posibilrwydd perthynas rhwng y disgyblion a allai achosi anawsterau.
63. Gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd gyda'r disgyblion yn Atodiad 4.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

64. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu Ysgol Greenhill.
65. Cydnabyddir, er hynny, fod nifer o faterion wedi eu crybwyll yng nghyswllt y safleoedd arfaethedig, gan gynnwys pryderon am ddiogelwch, yr angen i gynnal ethos un ysgol gefnogol a mwy o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg.
66. Cynigir felly y dylid cynnal mwy o waith dichonoldeb i ystyried pa mor addas yw'r safleoedd i ddal darpariaeth iechyd emosiynol a lles i ddysgwyr 11 – 19 oed.
67. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y canlynol:
 - agosrwydd safle Canolfan Arddio Dutch i draffordd/cyffordd yr M4 a rheoli'r risgiau cysylltiedig â hyn, e.e., lliniaru safleoedd, rheoli a goruchwylio disgyblion.
 - mynediad cludiant cyhoeddus i safle Canolfan Arddio Dutch.
 - Maint y tir sydd ar gael ar safle Tŷ Glas i Ysgol Greenhill a dewisiadau o ran cynllun y safle.

68. Bydd dymchwel yr adeiladau gwag ar safle Tŷ Glas yn digwydd yn 2022/23. Byddai hyn yn caniatáu ail-ddatblygu'r safle at ddibenion addysg cyn gynted ag sydd modd. Bydd hefyd yn cefnogi'r Cyngor i reoli'r costau diogelwch a chynnal sy'n gysylltiedig â'r safle gwag.
69. Caiff y pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad eu mantoli ymhellach cyn cyflwyno cynigion diwygiedig i ddarparu llefydd mewn ysgolion arbennig i ddarparu addysg iechyd a lles cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg i ddysgwyr 11-19 oed.
70. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ymatebion a dderbyniwyd ynghylch sefydlu darpariaeth CAA iechyd emosiynol a lles i ddysgwyr 11-19 oed (Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain) yn ystod y cyfnod ymgynghori

71. Derbyniwyd cyfanswm o chwech ymateb gan gynnwys dau ymateb i'r arolwg ar-lein a phedwar ymateb e-bost.
72. Derbyniwyd ymatebion ffurfiol gan:
- Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
 - Pennaeth Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
 - Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y Dwyrain
73. Yn ychwanegol at y rhain, derbyniwyd 17 ymateb pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori, nad oedd yn gwneud sylwadau uniongyrchol am y cynigion i Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain ond a oedd yn crybwyll yr angen am gynnydd yn y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg.
74. Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf, mynegodd Estyn bryderon am gynyddu gallu i dderbyn niferoedd yn unrhyw ddarpariaeth bresennol na sefydlu darpariaeth arbenigol newydd yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd.
75. Parthed Ysgol Uwchradd y Dwyrain, ystyria Estyn fod y cynigion yn debyg o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.
76. Mae copïau llawn o'r ymatebion ffurfiol yn Atodiad 6.
77. Yr oedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn cefnogi ehangu'r ddarpariaeth uwchradd iechyd emosiynol a lles.
78. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan yr holl randdeiliaid, a mantoliad o'r farn a fynegwyd, yn Atodiad 7.
79. Ymysg rhesymau dros gefnogi'r newidiadau arfaethedig yr oedd:

- Yr angen i wella mynediad at ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.
- Yr angen i ddarparu'n lleol ar gyfer plant sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain.
- Gall arbenigedd a chefnogaeth y staff arbenigol anghenion dysgu ychwanegol gael ei rannu gyda staff yn yr ysgol brif ffrwd.

80. Er bod cefnogaeth i'r cynigion, codwyd nifer o bryderon ynghylch:

- Y potensial am fwy o draffig o gwmpas safleoedd yr ysgolion.
- Y llety fydd ei angen i hwyluso'r ddarpariaeth yn y ddwy ysgol.
- Y dyddiad a gynigiwyd i weithredu darpariaeth Ysgol Uwchradd y Dwyrain.
- Diogelwch a lles yr holl ddisgyblion.

Cynrychiolwyr disgyblion Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

81. Cyfarfu'r swyddogion yn rhithiol gyda chynrychiolwyr disgyblion o Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd i drafod y cynigion a chaglu eu barn.

82. Yr oedd y disgyblion yn cefnogi sefydlu'r ddarpariaeth CAA yn yr ysgol. Mae'r adeilad a'r cyfleusterau yn yr ysgol yn dda a buasent yn cefnogi'r math hwn o ddarpariaeth.

83. Awgrymodd y disgyblion y gellid trefnu amseroedd cychwyn/gorffen ar wahanol adegau i wrthweithio unrhyw gynnydd mewn traffig o ganlyniad i'r cynnig.

84. Gellir gweld nodiadau'r cyfarfodydd yn Atodiad 6.

Ysgol Uwchradd y Dwyrain Pupil representation

85. Trefnodd y swyddogion gydag Ysgol Uwchradd y Dwyrain i gwrdd â chynrychiolwyr disgyblion o'r ysgol yn ystod y cyfnod ymgynghori i drafod y cynigion a chasglu eu barn. Fodd bynnag, oherwydd problemau staffio yn deillio o Covid-19, gohiriodd yr ysgol y sesiynau a drefnwyd ac ni lwyddwyd i hwyluso sesiwn yn y cawd nac ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

86. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i sefydlu darpariaeth CAA iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

87. Cydnabyddir, er hynny, fod nifer o faterion wedi eu crybwyll yng nghyswllt cynyddu gallu unrhyw ddarpariaeth bresennol i gynyddu nifer y llefydd na sefydlu darpariaeth arbenigol newydd yn Ysgol Uwchradd

Gymunedol Gorllewin Caerdydd, gofynion llety, y dyddiad gweithredu arfaethedig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain a chynnydd posib mewn traffig.

88. Rhoddwyd darpariaeth arbenigol ar waith yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd i ddisgyblion sydd ar lyfrau'r ysgol sydd angen cefnogaeth iechyd emosiynol a lles ychwanegol. Mae'r ymgynghoriad sy'n destun yr ymgynghoriad yn ceisio ffurfioli'r ddarpariaeth hon ac nid yw'n gynnig i gynyddu gallu unrhyw ddarpariaeth bresennol i gymryd mwy o lefydd na sefydlu unrhyw ddarpariaeth arbenigol newydd. Parheir i gefnogi'r ysgol wrth ddarparu ar gyfer disgyblion sydd yno eisoes ac unrhyw ddisgyblion yn y dyfodol y disgwylir iddynt ddod yn bennaf o'r ardal sy'n lleol i'r ysgol.
89. Cafodd gofynion llety eu hasesu a'u trafod gyda phob ysgol. Gwneir mwy o waith i adolygu'r lle sydd ar gael a nodi unrhyw allu sydd ei angen am lefydd ychwanegol.
90. Yn dilyn trafodaethau gydag Ysgol Uwchradd y Dwyrain, cytunwyd i ohirio dyddiad gweithredu sefydlu'r ddarpariaeth CAA yn yr ysgol i Fedi 2023 i ganiatáu rhoi'r trefniadau llety, staffio a hyfforddi ar ffurf derfynol.
91. Rhagwelir mai dim ond nifer fechan o gerbydau ychwanegol fyddai eu hangen i'r disgyblion hynny sy'n gymwys am Gludo Dysgwyr, mewn tacsis sy'n cael eu rhannu neu fws-mini.
92. Yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd efallai y bydd angen cyfleusterau gwell a/neu estynedig i ollwng a chodi ar y safle i wneud lle i'r niferoedd priodol o gerbydau.
93. Byddai cyfyngiadau parcio ychwanegol ar hyd Heol Penally tuag amseroedd cychwyn a gorffen yr ysgol yn lleihau tagfeydd a phroblemau parcio ac yn gwella diogelwch i'r disgyblion.
94. Yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain byddai'r safle yn cael ei asesu er mwyn sicrhau bod cyfleusterau addas i godi a gollwng ar gyfer y niferoedd priodol o gerbydau.
95. Gall mesurau i wella problemau traffig y tu allan i'r ysgol gynnwys mwy o gyfyngiadau parcio neu ystyried Stryd Ysgol tuag amser gorffen a chychwyn yr ysgol i leihau tagfeydd a phroblemau parcio ac yn gwella diogelwch i'r disgyblion.
96. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

97. Yn ychwanegol at yr ymatebion a dderbyniwyd ynghylch y cynigion unigol oedd yn destun ymgynghori, derbyniwyd ymatebion ffurfiol

ynghylch y ddarpariaeth gyffredinol i blant ac oedolion ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol gan:

- Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Glan Morfa
- Corff Llywodraethu Ysgol Melin Gruffydd
- Corff Llywodraethu Ysgol Glan Ceubal
- Corff Llywodraethu Ysgol Pencae
- Corff Llywodraethu Ysgol Pwll Coch
- Corff Llywodraethu Ysgol y Berllan Deg
- Corff Llywodraethu Ysgol Gwaelod y Garth
- Corff Llywodraethu Ysgol Nant Caerau
- Corff Llywodraethu Ysgol Pen y Gores
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Creigiau
- Corff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan
- Corff Llywodraethu Ysgol Treganna
- Corff Llywodraethu Ysgol Coed y Gof
- Ysgol a Chorff Llywodraethu Ysgol Plasmawr
- Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd
- Merched y Wawr

98. Yr oedd cynnwys yr ymatebion o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fras yn gyson ac fe'i crynhoir isod.
99. Mae'r ysgolion yn cydnabod ac yn croesawu'r cynigion i gynyddu llefydd i'r sector cyfrwng Saesneg ac yn llawn gefnogi darparu ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus yn ein cymunedau. Fodd bynnag, yr oedd teimlad cryf fod diffyg darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg sector a siom nad oedd mwy o newidiadau'n cael eu cynnig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.
100. Ymhellach, mynegwyd y farn fod yr ymgynghoriad hwn yn croesddweud yr ymgynghoriad CSCA diweddar oedd yn nodi uchelgais y Cyngor i agor tair uned arbenigol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sector Cynradd a thair CAA arall yn y sector Uwchradd.
101. Mynegwyd pryder, trwy gyfyngu ar y buddsoddiad i un sector, ei fod yn annog teuluoedd i drosglwyddo disgyblion ADY i adael y sector cyfrwng Cymraeg a symud i ysgolion cyfrwng Saesneg lle tybir ar hyn o bryd fod y buddsoddiad a'r adnoddau o safon uwch ac yn fwy abl i gwrdd ag anghenion lefel uwch neu fwy cymhleth.
102. Mae angen buddsoddi yn y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau darpariaeth gyfartal a chynhwysiant llawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
103. Mae'r ddogfennaeth yn cydnabod angen clir sy'n tyfu yn y sector cyfrwng Saesneg ond nid yn y sector cyfrwng Cymraeg, a mynegwyd pryder ynghylch a wnaed digon o ymchwil i adlewyrchu'n gywir yr angen sydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

104. Mynegwyd pryderon hefyd nad oes darpariaeth glir o ran iechyd emosïynol a lles ac ymddygiad yn y sector cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ar Gyfnodau 4-5 (sydd ag anghenion y tu hwnt i ddarpariaeth brif ffrwd) ynghyd â diffyg lle i sefydlu dosbarthiadau magu/lles.
105. Cafwyd barn gyson ar draws y rhan fwyaf o'r ymatebion a gyflwynwyd gan yr ysgolion cyfrwng Cymraeg fod gwir angen am fwy o lefydd ADY cyfrwng Cymraeg ac mai cynyddu y mae'r angen. Er mwyn ymateb i hyn yn effeithiol, galwyd am gynllunio strategol a holistig sy'n rhoi'r plant a'r teuluoedd wrth galon popeth a wnawn, sy'n gyson â'n hymrwymiad ar y cyd i CCUHP a DLICD gydag amcanion corfforaethol eraill megis Caerdydd Un Blaned, Caerdydd 2030 a statws Dinas Sy'n Dda i Blant.

Ymateb i'r farn a fynegwyd

106. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol i blant a phobl ifanc ledled y ddinas.
107. Yn dilyn sesiynau ymwneud gydag aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd yn haf 2021, ymgynghorodd y Cyngor yn ffurfiol ar ei ddrafft o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 rhwng 15 Hydref 2021 ac 13 Rhagfyr 2021.
108. Dosbarthwyd dolenni i'r cynllun (gan gynnwys y CSCA drafft llawn, y fersiwn hawdd ei darllen a'r Taflwybr Twf) a thudalennau gwe'r arolwg i randdeiliaid statudol gan gynnwys ysgolion Caerdydd a mudiadau sy'n aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd.
109. Mae'r CSCA drafft yn nodi'r strategaeth am ddatblygu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg, a byddai cynigion yn cael eu dwyn ymlaen fel rhan o weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor wedi i Lywodraeth Cymru gytuno ar y strategaeth a'i fabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor yn nes ymlaen yn 2022.
110. Parheir i adolygu datblygiad cyson y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys darpariaeth newydd a chyfredol er mwyn sicrhau y cyflwynir cynigion mewn ffordd strategol a holistig sydd yn ystyried anghenion ein holl ddysgwyr ac sy'n rhoi cydraddoldeb i'r sector cyfrwng Cymraeg wrth i lefydd newydd gael eu cyflwyno trwy'r CSCA arfaethedig cyfan.
111. Mae mantoliad llawn o'r farn a fynegwyd yn Atodiad 7.

Darpariaeth iechyd

112. Bydd i'r cynigion i ehangu darpariaeth arbenigol yn safleoedd yr ysgolion uchod ag oblygiadau i wasanaethau iechyd a rhai arbenigol eraill, gan weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i gwrdd ag anghenion dysgu

ychwanegol. Ffactor ychwanegol yw Deddf Diwygio ADY 2018, a fydd yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd i iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i gydweithio er mwyn cydgorddio asesu a darparu. Gweithredir Deddf 2018 dros gyfnod o dair blynedd, gan gychwyn ym Medi 2020.

113. Er mwyn ymdrin â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion Caerdydd. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, a oruchwylir gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr o iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, a rhieni, yn sail o wybodaeth i'r modd y caiff y ddarpariaeth arbenigol ei chynllunio.

Trefniadau Derbynn

114. Byddai'r Cyngor yn rheoli derbynniadau i bob un o'r ysgolion arbennig a'r Canolfannau Addysg Arbenigol yn unol â'r Cod ADY.

Trefniadau Cludo Dysgwyr

115. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi cludiant y Cyngor i blant ysgol.
116. Byddai unrhyw ddisgyblion y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt yn cael cynnig yr un gefnogaeth gyda chludiant ag a ddarperir ar hyd a lled Caerdydd yn unol â'r un meini prawf sy'n gymwys yng Nghaerdydd gyfan.
117. Gallwch weld polisi cludiant y Cyngor i blant ysgol ar wefan y Cyngor [Trafnidiaeth Ysgol \(caerdydd.gov.uk\)](http://caerdydd.gov.uk).
118. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am Gludo Dysgwyr yn golygu cyllid. Er bod y gost fesul disgybl o gludiant ysgolion yn debyg o ostwng, bydd angen modelu pellach i weld a yw costau cludiant yn debyg o godi neu ostwng.

Effaith ar y Gymuned

119. Cymerir y canlynol i ystyriaeth wrth ystyried cynnig: Man Agored Cyhoeddus, tir parciau, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion, aelodau lleol ac unrhyw grŵp cymunedol i wneud yn siŵr fod y cynigion yn osgoi effeithiau negyddol os oes modd.

Ymgynghori ag Aelodau Lleol

120. Mae'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ar gael ledled y ddinas, ac ymgynghorwyd â'r holl aelodau lleol fel rhan o'r ymgynghori cyhoeddus. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd gan Aelodau Rhiwbeina yn Atodiad 6.

Ystyriaethau Craffu

121. Bydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ystyried yr adroddiad hwn ar 8 Mawrth 2022. Caiff unrhyw sylwadau a dderbynnir eu dosbarthu yng nghyfarfod y Cabinet.

Rhesymau dros yr Argymhellion

122. Cwrdd â'r galw cynyddol am lefydd mewn ysgolion arbennig i ddysgwyr cynradd, uwchradd ac ôl-16 gydag anghenion iechyd emosiynol a lles.

Oblygiadau Ariannol

123. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymatebion i ymgynghori cyhoeddus ar newidiadau i ddarpariaeth ADY a'r nifer a gymerir i'r ysgol yn Ysgol Arbennig y Court. Nid oes oblygiadau cyfalaf ariannol yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, unwaith y cytunir ar ateb terfynol i bob safle, bydd angen cynnal gwerthusiad ariannol llawn. Nod hyn fydd rhoi sicrwydd y bydd y cynllun yn dal yn fforddiadwy unwaith i'r holl gostau a'r arian wrth gefn ar gyfer newidiadau posib mewn amseroedd cyflwyno wedi eu hymgorffori.
124. Cafodd amlinelliad o Raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif ei gymeradwyo gan y Cabinet yn Rhagfyr 2017. Bryd hynny, yr oedd cyfanswm gwerth y rhaglen yn £284m, gan gynnwys prosiect Ysgol Arbennig The Court. Nid yw Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cymeradwyo cyllidebau prosiect unigol yn ffurfiol, ond mae wedi cymeradwyo mewn egwyddor bob prosiect yn rhaglen Cyngor Caerdydd.
125. Mae costau cyffredinol a ragfyneir ar gyfer y Court wedi eu cynnwys yn y rhagolwg llif-arian Band B cyffredol, i'w gyllido trwy Grant Llywodraeth Cymru (75%) a benthyca Buddsoddi i Arbed Ysgolion yr 21ain Ganrif (25%). Telir am unrhyw gostau refeniw yng nghyswllt y cynlluniau hyn, gan gynnwys costau cyllido cyfalaf trwy Refeniw Wrth Gefn y Rhaglen Trefnu Ysgolion.
126. Disgwylir i'r targed derbyniadau cyfalaf o £25m dalu am ran o'r rhaglen Band B yn ei chyfanrwydd. Ni nodwyd ffynhonnell y derbyniadau hyn eto, ond dylai unrhyw werthiannau safle fydd yn deillio o adeiladu ysgolion ar safleoedd newydd gael eu blaenoriaethu i gyllido Band B.
127. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynigion ac yn argymhell darpariaeth CAA ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain fydd angen cael eu cyllido o gyllidebau dirprwyedig presennol yr ysgolion. Mae hwn yn faes darpariaeth cost uchel trwy Leoliadau Allsirol neu daliadau Cyfoethogi Anghenion Ychwanegol (CAY) i ddisgyblion prif ffrwd.
128. Bydd angen adolygu'r gyllideb ar gyfer pob CAA neu Ysgol Arbennig lle bydd cynnydd yn nifer y llefydd. Rhaid i'r diwydrwydd dyladwy a gynhelir roi sicrwydd y cymerir y llefydd ychwanegol ac y bydd cost a niferoedd y lleoliadau Allsirol ac ychwanegiadau CAY yn gostwng er mwyn sicrhau na fydd pwysau sylweddol ar gyllidebau ysgolion. Dros y tymor canolig,

bydd angen adolygu a dadansoddi yn rheolaidd i gymharu nifer y llefydd a ragwelir â'r llefydd a gymerir. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr y ceir y manteision mwyaf o'r adnoddau ariannol a ddefnyddir.

129. Mae'r cynnig i roi gwell dosbarthiad o ddarpariaeth mewn ysgolion arbennig a CAA ar draws y ddinas yn golygu bod cost cludiant fesul dysgwr unigol yn debyg o ostwng. Fodd bynnag, fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad a'r oblygiadau trafndiaeth, mae angen gwneud mwy o waith i weld beth fydd yr effaith lawn ar gostau trafndiaeth yn y tymor byr a'r tymor canol. Rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried y tebygolrwydd y gall arbedion ar leoliadau unigol a rheoli Lleoliadau Allsirol yn fwy effeithiol dalu cost ychwanegol cludo'r niferoedd uwch i CAA. Mae'r adroddiad yn datgan y bydd nifer y llefydd yn cynyddu'n incrementaidd dros y pedair blynedd nesaf ac y mae angen mwy o waith i weld beth fydd y gost / arbediad am bob blwyddyn ariannol. Am 2022/23, mae risg y byddai'r gwariant cyffredinol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, darpariaeth Allsirol a thaliadau CAY uwch i blant a phobl ifanc ag ADY yn cynyddu ym Medi 22, ond mae modd rheoli'r pwysau hyn y tu mewn i gyllidebau dirprwyedig ysgolion. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn sicrhau bod modelu cadarn ar gael; bydd unrhyw bwysau pellach yn cael eu modelu a'u gweithio i mewn i gynllunio tymor canolig.

Oblygiadau Cyfreithiol

130. O dan Ddeddf Addysg 1996, mae rhwymedigaeth statudol cyffredinol ar y Cyngor i hyrwyddo safonau uchel o addysg ac i ddarparu digon o lefydd mewn ysgolion i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, gan gynnwys darpariaeth briodol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (neu anghenion dysgu ychwanegol).
131. Gall awdurdod lleol wneud cynigion am drefnu ysgolion, gan gynnwys gwneud 'newidiadau a reoleiddir' i ysgol gymunedol neu ysgol arbennig, dan adrannau 42-44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r cynigion yn yr adroddiad yn 'newidiadau a reoleiddir', a rhaid eu hystyried gan gadw mewn cof ddarpariaethau Deddf 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, sydd yn gosod allan ffactorau i'w hystyried yng nghyswllt gwahanol gynigion, y gweithdrefnau statudol, gofynion a chanllawiau cyfreithiol.
132. Lle cynigir cynyddu nifer y llefydd mewn ysgol, rhaid i'r Cyngor gadw mewn cof y dystiolaeth am yr angen/galw yn awr ac yn y dyfodol yn yr ardal am fwy o lefydd, gan gyfeirio at gategori iaith yr ysgol (a chymeriad crefyddol / derbyniadau yn ôl rhyw os yw hynny'n gymwys). Mae'r Cod hefyd yn cynnwys ffactorau penodol i'w hystyried yng nghyswllt cynigion i ad-drefnu darpariaeth Anghenion Dysgu Arbennig (neu Anghenion Dysgu Ychwanegol). Bydd angen i'r Cabinet fod yn fodlon bod yr holl ffactorau perthnasol wedi eu hystyried yn iawn yng nghyswllt y cynigion.
133. Mae gofyn i'r Cyngor, cyn cyhoeddi eu cynigion, i gynnal ymgynghoriad ar y cynigion yn unol ag adran 48 y Ddeddf honno a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae gofyn i'r

Cyngor gyhoeddi a dosbarthu adroddiad ymgynghori at bawb sydd â diddordeb (a restrir yn y Cod) sy'n gwneud yr isod:

- (i) crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy.
- (ii) ymateb i'r rhain trwy egluro, newid y cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau dros hyn;
- (iii) gosod allan ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
- (iv) ymateb i ymateb Estyn trwy egluro, newid y cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau dros hyn.

134. Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion i'r Cabinet am sut i fwrw ymlaen, h.y., cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r status quo neu ail-ffurfio'r cynigion yn sylweddol ac ail-ymgynghori.
135. Yr adroddiad hwn i'r Cabinet, ynghyd a'r atodiadau, yw'r adroddiad ymgynghori; ac y mae'n ceisio caniatâd y Cabinet i fwrw ymlaen i gyhoeddi'r holl gynigion ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag Ysgol Arbennig Greenhill. Mae'r unig addasiad neu newid yng nghyswllt dyddiad cychwyn y CAA yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Wrth ystyried y mater hwn, mae gofyn i'r Cabinet adolygu'r cynigion gan gadw mewn cof pob gwybodaeth bellach perthnasol a roddwyd gerbron yn ystod y cyfnod ymgynghori (ac fel arall).

Materion Tir

136. Rhagwelir, os aiff y cynigion rhagddynt, y bydd angen i'r Cyngor gynnal diwydrwydd dyladwy ar gyfyngiadau posib ar y safle ac yn amodol ar hynny, efallai y bydd angen penderfyniadau pellach i ymdrin â materion eiddo, cynllunio neu gaffael posib a all godi o hyn.

Proses Penderfyniad Statudol ac Ystyriaethau Eraill

137. Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen, rhaid cyhoeddi'r cynigion ymhen 26 wythnos o derfyn y cyfnod ymgynghori (oni cheir estyniad o'r amser gan Weinidogion Cymru). Rhaid cyhoeddi cynigion trwy hysbysiad statudol, sy'n caniatáu isafswm o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau ('y Cyfnod Gwrthwynebu'). Mae cynnwys yr hysbysiad statudol, y dull cyhoeddi a'r bobl i'w hysbysu yn y Cod.
138. Ymhen 16 wythnos o derfyn y Cyfnod Gwrthwynebu, rhaid i'r Cyngor ystyried yn gydwybodol unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd a phennu a ddylid gweithredu'r cynigion neu beidio (dan adran 53 Deddf 2013). Dylai'r aelodau nodi mai'r argymhelliad fydd i'r Cabinet dderbyn adroddiad pellach yn y cyfnod hwnnw.
139. Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu, mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebiadau sy'n crynhoi'r holl wrthwynebiadau a wnaed (ac na thynnwyd yn ôl) a'i ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny. Rhaid cyhoeddi'r Adroddiad

Gwrthwynebiadau ymhen 7 diwrnod o'r dyddiad y gwnaeth y Cyngor benderfyniad am y cynigion a pheri eu bod ar gael i'r bobl â diddordeb sydd wedi eu rhestru yn y Cod. Ar yr un pryd â chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebiadau, rhaid i'r Cyngor hefyd hysbysu Gweinidogion Cymru, corff Llywodraethu yr ysgol a phawb sydd â diddordeb a restrir yn y Cod am eu penderfyniad.

140. Os bwrir ymlaen â'r cynigion, bydd angen pennu'r trefniadau derbyn, gan gynnwys niferoedd derbyn a dalgylchoedd, yn dilyn ymgynghori, yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion a Rheoliadau Addysg (Pennu Trefniadau Derbyn)(Cymru) 2006.
141. Wrth ystyried y cynigion, rhaid i'r Cyngor gadw mewn cof eu dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus penodol i Gymru). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, rhaid i Gynghorau, wrth wneud penderfyniadau, gadw mewn cof yr angen i (1) ddileu camwahaniaethu anghyfreithlon, (2) hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a (3) meithrin cysylltiadau da ar sail nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, ailbennu rhywedd, rhyw, hil - gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol - lliw neu genedligrwydd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, tueddiad rhywiol, crefydd neu gred - gan gynnwys diffyg cred.
142. Wrth wneud penderfyniadau strategol, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i gadw mewn cof yr angen i leihau anghydraddoldebau deilliant o ganlyniad i anfantais cymdeithasol-economaidd ('y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd' a osodir o dan adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo allu dangos sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd.
143. Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i ganlyniadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb.
144. Rhaid i'r Cyngor hefyd gadw mewn cof Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Iaith Gymraeg ac ystyried effaith eu cynigion ar yr iaith Gymraeg.
145. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn ystyried sut y bydd y cynigion yn cyfrannu at gwrdd â'u hamcanion llesiant (a osodir allan yn y Cynllun Corfforaethol). Rhaid i'r aelodau hefyd fod yn fodlon fod y cynigion yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n mynnu cwrdd ag anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion hwy.
146. Rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau fod yn fodlon fod y cynigion yn dod dan bolisi'r Cyngor a gymeradwywyd a fframwaith y gyllideb.

Oblygiadau AD

Ysgol Arbennig y Court

147. Bydd y cynnydd arfaethedig yn niferoedd y disgyblion yn Ysgol Arbennig y Court yn mynnu bod y Corff Llywodraethu yn cynllunio am ofynion gweithlu i baratoi am yr ehangu a'r cynnig i weithredu ar draws dau safle. Anogir y Corff Llywodraethu i wneud y gwaith hwn yn unol â Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.
148. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cefnogaeth a chanllawiau i'r Corff Llywodraethu ynghylch y prosesau cynllunio gweithlu a recriwtio a ddaw yn sgil hynny. Lle bo Cyrff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adeoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi newydd a gyfyd o ganlyniad i gynnydd yn y niferoedd ar y llyfrau yn gyfle i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adeoli ysgolion.
149. Bydd y cynnig i adeoli'r ysgol a gweithredu ar draws dau safle yn gofyn am lefelau uchel o staff ac ymgynghori â'r undebau llafur, cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau trosi o safle un ysgol i'r llall ac ymwneud y staff a datblygu manylebion neu ddyluniadau adeiladau.

Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

150. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i ymdrin ag unrhyw oblygiadau AD fydd yn deillio o sefydlu CAA yn yr ysgol ac a oes angen adnoddau staff.
151. Lle bo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adeoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi newydd a gyfyd o ganlyniad i gynnydd yn y niferoedd ar y llyfrau yn gyfle i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adeoli ysgolion.

Ysgol Uwchradd y Dwyrain

152. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i ymdrin â'r oblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu CAA yn yr ysgol a'r angen am staffio ychwanegol sy'n deillio o hyn.
153. Lle bo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adeoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd a gyfyd o ganlyniad i sefydlu'r CAA yn gyfle i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adeoli ysgolion.

Oblygiadau o ran Eiddo

154. Mae Stadau Strategol yn dal i weithio gyda chydweithwyr mewn Addysg a'u cefnogi trwy'r broses o reoli asedau ac unrhyw faterion eiddo sydd yn ymwneud â'r cynigion ac yn deillio ohonynt. Mae nifer o ddewisiadau yn y papur hwn a fydd angen ymateb ymhen amser pan ddaw'r cyfnod ymgynghori i ben, a ninnau'n symud tuag at achosion busnes.

Oblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth

155. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor (2006-2026) yn cynnwys targed o 50% o bob taith i'w gwneud trwy gludiant cynaliadwy. Gall lleihau'r gyfran o deithiau ysgol a wneir mewn ceir a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i deithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol a chynaliadwy wneud cyfraniad pwysig i gyrraedd y targed hwn a lleihau pwysau ar y rhwydwaith trafndiaeth ar yr adegau prysuraf.
156. Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a CAA, ynghyd â phellteroedd mwy a deithir, o raid yn cyfyngu ar y gallu i gael cyfraddau uwch o deithio llesol o gymharu ag ysgolion prif ffrwd.
157. Mae'r Cyngor yn cymhwyso'r meini prawf cymhwyso pellter cerdded statudol i ddisgyblion i fod yn gymwys am gludiant am ddim yn ôl ac ymlaen i'r ysgol i ysgolion arbennig a CAA. Hefyd, gall rhai dysgwyr sy'n byw o fewn dwy / tair milltir i'r ysgol gael cludiant am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a materion cymdeithasol.
158. Mae'r cynnig i gael gwell dosbarthiad o ddarpariaeth mewn ysgolion arbennig a CAA ledled y ddinas yn golygu fod cost cludiant am bob dysgwr unigol yn debyg o leihau. Fodd bynnag, oherwydd y nifer cynyddol o ddysgwyr cymwys, disgwylir y bydd risg o gostau cludiant uwch, er hynny. Mae angen mwy o fodelu i weld a fydd y galwadau ar y gyllideb cludiant ysgol yn debyg o gynyddu neu o leihau.
159. Nid oes disgwyl i'r niferoedd uchel presennol o ddisgyblion ysgolion arbennig sy'n gymwys am Gludo Dysgwyr newid yn sylweddol; fodd bynnag, gall cyfran o ddisgyblion Greenhill a CAA o oedran uwchradd deithio i'r ysgol yn annibynnol, ac efallai eu bod yn gwneud hyn eisoes. Byddai'r disgyblion hyn, yn ogystal â staff ac ymwelwyr â'r ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau fydd eu hangen i gyfleusterau teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau cludiant cyhoeddus.
160. Fe fyddai angen Asesiadau Trafnidiaeth o'r cynigion am ysgol newydd, ac efallai y bydd angen Datganiadau Trafnidiaeth ar gyfer cynigion i sefydlu CAA. Bydd y rhain yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r ceisiadau i wneud cymaint o deithio ag sydd modd trwy ddulliau cynaliadwy.
161. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd pob cynllun o'r fath yn nodi camau gan yr ysgol i gefnogi ac annog teithio llesol i'r ysgol a hefyd unrhyw welliannau i seilwaith ar y safle a thu hwnt i hwyluso teithiau llesol.
162. Bydd cynyddu teithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol yn cael effaith cadarnhaol ar iechyd a lles plant a bydd yn cefnogi cyflwyno camau a deilliannau allweddol dan Nod 5 Strategaeth Dinas Gyfeillgar i Blant y Cyngor (2018), sydd yn ymwneud â sicrhau mynediad at amgylcheddau diogel yn yr awyr agored ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, cerdded, beicio a theithio ar sgwteri a theithio llesol i'r ysgol.

163. Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth i deithio llesol a chynaliadwy ymysg y garfan ADY, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal beiciau a hyfforddiant beicio.
164. Gall rhai disgyblion deithio yn annibynnol neu gyda rhieni/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymhwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys am Gludo Dysgwyr.
165. Byddai darparu gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol yn fanteisiol i'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ag ymwelwyr â'r safleoedd.
166. Bydd niferoedd y disgyblion sy'n dal i ddefnyddio Cludo Dysgwyr am eu taith i'r ysgol yn debygol o gynyddu yn unol â'r duedd y bydd mwy o ddisgyblion angen llefydd mewn ysgolion arbennig neu CAA. Bydd lleoliad pob ysgol lle cynyddir y galw am gerbydau Cludo Dysgwyr angen gwell cyfleusterau a/neu rai wedi ehangu i godi a gollwng ar y safle. Byddai angen i'r ardaloedd wneud lle i niferoedd priodol o gerbydau, a allai olygu fel arfer un tacsî i 3 disgybl ar gyfartaledd. Mewn rhai achosion, gallai bysus mini fod yn addas, ond y mae hyn yn dibynnu ar anghenion y disgybl unigol, lleoliad y cartref a chydgordio llwybrau.
167. Byddai darpariaeth parcio ceir yn unol â safonau parcio'r Cyngor. Cytunir ar ddyraniadau i ysgolion arbennig a CAA fesul achos, ond mae disgwyl i ofynion gyd-fynd yn gyffredinol â lle i un car fesul nifer nodweddiadol y disgyblion mewn dosbarth. Mae hyn yn unol â'r 1 lle safonol fesul 30 disgybl mewn ysgolion prif ffrwd, ond mae'n golygu cymhareb uwch o lefydd oherwydd bod dosbarthiadau gymaint yn llai.

Materion trafndiaeth yn ymwneud â'r Court ar safle arfaethedig Ysgol Gynradd y Tyllgoed

168. Mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus da iawn gyda llawer o wasanaethau bws bellter cerdded byr o'r ysgol. Mae gorsaf reilffordd Parc Waun-gron oddeutu 0.75 milltir (1.2km) o'r ysgol.
169. Mae llwybrau cerdded da i'r ysgol a chysylltiadau beicio presennol ac arfaethedig da. Mae gwelliannau tymor byr ar y gweill trwy ddatblygiad Melin Trelái gyda chysylltiadau trwy Lwybr Beicio 5 i ganol y ddinas. Mae Llwybr Trelái yn rhedeg ar hyd Heol y Bwlch yn union i'r dde o'r safle ac yn mynd ymlaen i Fae Caerdydd, ac y mae'r safon yn amrywio: rhydd o draffig/ ar y ffordd. Mae llwybrau gydag arwyddion yn cysylltu drwodd i Dreganna i ganol y ddinas gyda gwelliannau tymor canolig ar y gweill i wahanu yn ysgafn lwybrau beicio ar y ffordd.
170. Nododd Asesiad Trafnidiaeth diweddar ar gyfer y safle effaith traffig derbyniol oherwydd datblygiad tebyg (ond mwy).
171. Cynigir mwy o gyfleusterau amrywiol ar gyfer cerdded a beicio, gan gynnwys uwchraddio croesfan Heol y Bwlch yn ardal y Tyllgoed i brosiect ysgol arall gyda darpariaeth i ddigwydd erbyn diwedd 2023. Byddai'r

rhain hefyd yn gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr yn ôl ac ymlaen o Drelái i'r dde o lein y rheilffordd ac afon Elai ac i'r gogledd-ddwyrain trwy'r Tyllgoed, Llandaf a'r rhwydwaith ehangach.

172. Byddai'r lleoliad arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn rhoi'r potensial am ail fynedfa ar wahân i fynedfa bresennol yr ysgol gynradd.
173. Efallai y gall y cynigion datblygu ofyn am Aseiad Trafnidiaeth diwygiedig a fydd yn cadarnhau'r mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i allu teithio gymaint ag sydd modd trwy ddulliau cynaliadwy a nodi unrhyw ddarpariaeth bellach sy'n ymwneud yn benodol â chynnig am y Court.

Materion trafndiaeth yn ymwneud â'r Court ar safle arfaethedig Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg

174. Mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus da trwy Lanrhymini a Rhodfa Countisbury a hefyd o Heol Casnewydd, sydd o fewn pellter cerdded byr i'r staff allu cyrraedd. Mae llwybr cerdded da i'r disgyblion a'r staff lleol.
175. Y cynllun yw cael Llwybr Beicio 2 ar hyd y rhan hon o Heol Casnewydd. Bydd darn tymor byr/canol yn y dyfodol yn cymryd lle'r ddarpariaeth bresennol o lwybrau beicio ar hyd y ffordd fawr brysur hon.
176. Mae problemau parcio ar hyn o bryd y tu allan i Ysgol Gynradd gyfagos Pen y Bryn ar hyd Heol Dunster. Tra bod y tîm Trafnidiaeth yn monitro'r sefyllfa ac yn adolygu'r angen am fesurau ychwanegol a chamau rheoli parcio y tu allan i bob ysgol, byddai'r angen am unrhyw fesurau ychwanegol y tu allan i'r safle arfaethedig yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses honno.

Materion trafndiaeth yn ymwneud ag Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

177. Gan ddisgwyl y bydd cynnydd yn y galw am Gludo Dysgwyr yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, efallai y bydd angen cyfleusterau gwell a/neu estynedig i godi a gollwng ar y safle er mwyn gwneud lle i'r nifer briodol o gerbydau. Byddai cyfyngiadau parcio ychwanegol ar hyd Heol Penally ar amseroedd cychwyn a gorffen yr ysgol yn lleihau tagfeydd a phroblemau parcio ac yn gwella diogelwch i'r disgyblion.

Materion trafndiaeth yn ymwneud ag Ysgol Uwchradd y Dwyrain

178. Gan ddisgwyl y bydd cynnydd yn y galw am Gludo Dysgwyr yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain, byddai'r safle'n cael ei asesu er mwyn gwneud yn siŵr bod cyfleusterau addas i i godi a gollwng ar y safle er mwyn gwneud lle i'r nifer priodol o gerbydau. Gall mesurau i wella problemau traffig y tu allan i'r ysgol gynnwys mwy o gyfyngiadau parcio neu ystyried Stryd Ysgol ar amseroedd cychwyn a gorffen yr ysgol yn lleihau tagfeydd a phroblemau parcio ac yn gwella diogelwch i'r disgyblion.

Effaith y cynigion ar yr iaith Gymraeg

179. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu Caerdydd Ddwieithog.
180. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd 2022-2031 yn gosod allan gyfres o ymrwymadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau y gall pob plentyn yn y ddinas dderbyn addysg yn yr iaith Gymraeg, y bydd y nifer sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, a thrwy ddefnydd arwyddocaol o'r Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg byddant oll yn cael cyfle i fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.
181. Yn hanesyddol, bu lefel yr anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg yn is nag yn y sector cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, bu hyn yn newid dros y 4-5 blynedd ddiwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am gynnydd yn nifer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, ym mhob maes angen.
182. Cynhaliwyd adolygiad o anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i fod yn sail i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Adroddodd yr ysgolion am nifer bychan ond arwyddocaol o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gadael y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrchu CAA neu ysgolion arbennig.
183. Yr oedd peth tystiolaeth hanesyddol i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn dewis cyfrwng Saesneg yn hytrach os oes gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol, am eu bod yn pryderu y gall fod eu plentyn angen trosglwyddo i'r sector arbenigol yn nes ymlaen.
184. Trwy'r CSCA, buddsoddodd Caerdydd mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys peth gallu i ymateb i dwf yn y galw ac ennyn mwy o hyder fod darpariaeth arbenigol ar gael yn y sector.
185. Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, yn nalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle mae'r ganolfan uwchradd. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chynnal amrywiaeth o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau iaith a lleferydd, ac awtistiaeth.
186. Wrth i'r sector Cymraeg barhau i dyfu, bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol i ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.
187. Yn dilyn sesiynau ymwneud gydag aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd yn haf 2021, ymgynghorodd y Cyngor yn ffurfiol ar ei ddrafft o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 rhwng 15 Hydref 2021 a 13 Rhagfyr 2021.
188. Dosbarthwyd dolenni i'r cynllun (gan gynnwys y CSCA drafft llawn, y fersiwn hawdd ei darllen a'r Taflwybr Twf) a thudalennau gwe'r arolwg i

randdeiliaid statudol gan gynnwys ysgolion Caerdydd a mudiadau sy'n aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd.

189. Mae'r CSCA drafft yn nodi'r strategaeth i ddatblygu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg a byddai cynigion yn cael eu dwyn gerbron fel rhan o weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor wedi i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r strategaeth a'i fabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor yn nes ymlaen yn 2022.
190. Cymeradwyodd y Cabinet CSCA 2022-2031 Caerdydd yn eu cyfarfod ar 24 Chwefror 2022, i'w gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru.
191. Bydd datblygiad cyson y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys darpariaeth newydd a phresennol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau y cyflwynir cynigion mewn dull strategol a holistig sydd yn ystyried anghenion ein holl ddysgwyr ac y mae'n adlewyrchu'r ychwanegiadau sydd eu hangen i sicrhau cydraddoldeb yn y sector cyfrwng Cymraeg wrth i lefydd newydd gael eu cyflwyno trwy'r CSCA arfaethedig.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

192. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion Caerdydd wedi ymrwmo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol, ynghyd ag annog defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio i'r ysgol, megis cerdded a beicio. Mae prosiect pob ysgol yn cymryd i ystyriaeth faterion trafniadaeth allweddol pan gânt eu cynllunio, ac yn ystyried yr angen pendant i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau llesol eraill o deithio i ysgolion.
193. Gyda'r buddsoddi presennol mewn TGCh ledled y ddinas, efallai y bydd myfyrwyr yn teithio llai wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach, gan ganiatáu dulliau dysgu mwy hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy hyblyg a chyfrannu mwy at dargedau'r Cyngor i leihau eu hallyriadau carbon.
194. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith tymor hir y buddsoddiad sylweddol hwn, byddai unrhyw ddyluniad fyddai'n cael ei gyflwyno ar gyfer pob ysgol yn y cynnig hwn yn cael ei ddatblygu i sicrhau y ceir cyfleusterau modern o ansawdd uchel all ymateb i anghenion poblogaethau disgyblion yn awr ac yn y dyfodol a chefnogi dulliau dysgu effeithiol. Byddant hefyd yn ymgorffori'r hyblygrwydd i ystyried newidiadau yn dibynnu ar anghenion wrth i amser fynd rhagddo, megis newid mewn demograffeg a niferoedd disgyblion, newid yn y cwricwlwm a newid yn y math o anghenion fydd gan ddisgyblion.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

195. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar grŵp arbennig mewn cymdeithas.

196. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn Atodiad 9.

ARGYMHELLION

Argymhellir bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

1. Awdurdodi swyddogion i fynd ati i gyhoeddi cynigion yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i:
 - Cynyddu nifer y llefydd ar gael yn Ysgol Arbennig y Court o 42 i 72 lle. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i adeiladau newydd ar draws dau safle yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed a safle presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn Llanrhymni, gyda 36 o ddisgyblion ar bob safle o Fedi 2025 ymlaen.
 - sefydlu CAA 20-Ile ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o Fedi 2022 ymlaen.
 - sefydlu CAA 20-Ile ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o Fedi 2023 ymlaen.
2. Peidio â bwrw ymlaen a'r cynnig i gynyddu'r llefydd ar gael yn Ysgol Greenhill.
3. Nodi y bydd swyddogion yn dod ag adroddiad pellach i'r Cabinet ei ystyried, fydd yn gosod allan fanylion cynigion diwygiedig i ddarparu llefydd uwchradd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg am addysg iechyd emosiynol a lles mewn ysgolion arbennig.

UWCH-SWYDDOG CYFRIFOL	Melanie Godfrey Cyfarwyddwraig Addysg a Dysgu Gydol Oes

Atodir yr atodiadau isod:

Atodiad 1 – Dogfennau'r Ymgynghoriad

Atodiad 2 – Crynodeb o Ddogfennau

Atodiad 3 – Nodiadau o gyfarfodydd gyda Chyrff Llywodraethol a Staff

Atodiad 4 – Nodiadau o gyfarfodydd ymwneud â disgyblion

Atodiad 5 – Nodiadau o gyfarfodydd cyhoeddus

Atodiad 6 – Ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd

Atodiad 7 – Crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd a mantoliad o farn a fynegwyd

Atodiad 8 – Dadansoddiad cryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Atodiad 9 – Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori 2021

Gwella darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):

Ysgol Arbennig The Court
Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Moorland

11 HYDREF – 22 TACHWEDD 2021



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.
Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar **029 2087 2720** er mwyn trefnu hyn.



Tudalen 683



Tabl Cynnwys

Cyflwyniad

- Llyfryn am beth yw hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Ymgynghoriad

- Â phwy ydym yn ymgynghori?
- Barn plant ar y cynigion arfaethedig
- Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

- Digonolrwydd yn y Sector Arbennig
- Dosbarthiad daearyddol Darpariaeth Arbenigol

Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol Oedran Cynradd (4-11 oed)

- Y Ddarpariaeth Bresennol
- Galw am leoedd

Cynigion ar gyfer Ysgol Arbennig The Court

- Ysgol Arbennig The Court
- Nifer y llefydd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Nifer y llefydd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriadau ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Arbennig The Court
- Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin?

Beth yw manteision y newidiadau arfaethedig?

Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig

Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Beth fyddai'n digwydd i safle presennol Ysgol Arbennig The Court?

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

- The Court yn safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- The Court a safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg

Dweud eich dweud

Darpariaeth Gymhleth/Awtistiaeth Sylfaenol (4-11 oed)

- Y Ddarpariaeth Bresennol
- Canolfan Adnoddau Arbennig Anghenion Dysgu Cymhleth
- Galw am leoedd

Tabl Cynnwys

Cynnig ar gyfer darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Moorland

- Ysgol Gynradd Moorland
- Nifer y llyfdd yn yr ysgol
- Y galw am llyfdd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Llety arfaethedig CAA

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ysgol Gynradd Moorland

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin?

Ystyried opsiynau amgen

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid arfaethedig

Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

Gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ddau gynnig

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Trefniadau derbyn

Trefniadau Teithio Dysgwyr

Materion Ariannol

Darpariaeth Iechyd

Trefniadau Llywodraethiant

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Cydraddoldeb

Effaith Gymunedol

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Amhariad Posibl i Ddisgyblion

Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Dyddiadau allweddol
- Y Cyfnod Ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Adroddiad Gwrthwynebu
- Penderfynu ar y Cynigion
- Hysbysu'r Penderfyniad

Dweud eich dweud!

- Ffurflen ymateb i ymgynghoriad

Cyflwyniad

Llyfryn am beth yw hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd. Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant sy'n mynychu, neu'n disgwyl mynychu, Ysgol Arbennig The Court ac Ysgol Gynradd Moorland a'r rhai sydd wedi gweithio neu ar hyn o bryd yn gweithio gyda phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'n nodi'r newidiadau rydym yn eu hawgrymu i ddarparu lleoedd ysgol arbennig cynradd o ansawdd uchel i blant ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Arbennig The Court a lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer plant ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Gynradd Moorland, a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol oedran cynradd, bwriedir:

- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig The Court o 42 i 72 o leoedd. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i ddau safle, mewn llety adeiladu newydd ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac i safle presennol Ysgol Gynradd Llaneirwg, EgCym yn Llanrhymini, gyda 36 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ag 20 lle ar gyfer plant oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth (ADC) yn Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2022.

Ymgynghoriad

Â phwy ydym yn ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig.

Mae sawl modd y gall pobl roi eu barn i ni.

Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:

Tabl 1: Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw	
Plant a phobl ifanc	Gweinidogion Cymru
Rhieni / gofalwyr	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Staff ysgolion	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CACCCD)
Cyrff Llywodraethu Ysgolion	Comisiynydd y Gymraeg
Preswylwyr lleol	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
Cynghorau Cymuned	Undebau Llafur
Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol Senedd Cymru/Aelodau Seneddol (AS)	Darparwyr gofal plant
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Mudiad Meithrin
Awdurdodau Cymdogol	Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymdogol o fewn Caerdydd	Clybiau Plant Cymru Kids Club
Estyn	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Fforwm Addysg Gymraeg
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	Sefydliadau y Sector Gwirfoddol

Barn plant ar y cynigion arfaethedig

Mae Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r ffordd rydym yn darparu addysg. Mae'n bwysig wrth ddwyn cynigion ger bron, bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion hyn a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor ar www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Os na allwch gael mynediad i'r dogfennau ar-lein, bydd copïau print ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio **029 2087 2720**.

Byddwn yn cynghori teuluoedd gyda phlant yn Ysgol Arbennig The Court, Ysgol Gynradd Moorland, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg ac Ysgol Gynradd Pen y Bryn sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.

Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhoi i breswylwyr a busnesau yn agos at safleoedd yr ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion.

Cynhelir cyfarfodydd ar-lein lle bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Os hoffech fynd i gyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa gyfarfod yr hoffech fod yn bresennol ynddo a byddwn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod hwn.

Bydd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â Chyrff Llywodraethu a staff Ysgol Arbennig The Court, Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac Ysgol Gynradd Moorland.

Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i ddweud beth yw eich barn wrthym.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus wedi eu nodi isod:

Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori		
Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Cyfarfod cyhoeddus are-lein	Dydd Mawrth 02 Tachwedd 2021 5:30pm – 7pm	Online via Teams
Sesiwn Galw Heibio	On request by emailing schoolresponses@cardiff.gov.uk	Online via Teams

Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym ni beth rydych yn feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Mynychu un o'r cyfarfodydd a restrir uchod.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Cwblhau y ffurflen ymateb i ymgynghoriad, sydd i'w chael ar dudalen 46
- Cysylltu â thîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk dros y ffôn ar (029) 2087 2720 neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog alw'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwlch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 22 Tachwedd 2021.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ar ôl y dyddiad hwn.

Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Sylwer ar y termau canlynol a ddefnyddir gydol y ddogfen hon:

Nifer Derbyn – mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion o leiaf hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig. Y Nifer Derbyn yw nifer y llefydd i ddisgyblion sydd ar gael ym mhob un grŵp blwyddyn.

ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol os ydynt yn cael anawsterau sy'n cael effaith hirdymor sylweddol ar ei ddysgu. Gallai anawsterau fod yn gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu a rhyngweithiol, anabledd corfforol neu synhwyrdd, neu ddatblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

Cyllid cyfalaf i ysgolion – arian a ddefnyddir i godi adeiladau ysgol newydd neu wella cyfleusterau sy'n bod eisoes.

Ysgolion Cymunedol – ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor sydd yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

Dalgylch – ardal y byddai ysgol gymunedol fel rheol yn ei gwasanaethu. Yng Nghaerdydd, mae mwy o flaenoriaeth gan blant o fewn yr ardal hon i gael eu derbyn i'r ysgol na phlant y tu allan i'r ardal hon.

Complex Learning Needs - plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o faterion a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain anghenion sy'n gysylltiedig ag anableddau dysgu, cyfathrebu, corfforol neu synhwyrdd.

Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol – plant a phobl ifanc sydd â phroblemau meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn effeithio ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill, y dewisiadau a wnânt. Weithiau o ganlyniad i drawma. Gallai plant a phobl ifanc ddangos pryder, hunan-barch isel, ffobia o'r ysgol neu anawsterau ymddygiadol.

Prif ffrwd - mae ysgol prif ffrwd yn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor nad yw'n ysgol arbennig. Nid yw ysgolion prif ffrwd/arbennig a gynhelir gan y Cyngor yn dethol disgyblion ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr dalu ffioedd.

Data Nifer ar y Gofrestr – nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

CYBLD - Cyfrifiad Ysgol Blyneddol Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

Gweithredu gan yr Ysgol – Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag ADY.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy – Pan fo arbenigwyr o'r tu allan yn helpu'r dosbarth neu staff ysgol i roi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag ADY. Mae hyn yn wahanol neu yn ychwanegol i gymorth a roddir drwy Gweithredu gan yr Ysgol.

Ysgol Arbennig – ysgol ar gyfer plant ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol prif ffrwd. Mae gan ddisgyblion ysgol arbennig ddatganiad AAA, neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Canolfan Adnoddau Arbennig (CAA) - Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol. Mae gan bob disgybl sy'n mynychu CAA ddatganiad AAA ac fe'u haddysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwyrwyr cymorth dysgu, gyda chyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu gyda disgyblion prif ffrwd eraill.

Dosbarthiadau Lles - Mae Caerdydd hefyd yn ariannu nifer o ddosbarthiadau lles sy'n rhoi cymorth dwys tymor byr i blant a phobl ifanc sy'n arddangos anghenion iechyd a lles emosiynol; i gefnogi eu lleoli'n barhaus yn yr ysgol prif ffrwd leol. Mae lleoliad mewn Dosbarth Lles dros dro am un flwyddyn; mae'r plentyn yn aros ar y gofrestr yn ei ysgol leol ac fe'i cefnogir i ddychwelyd yn llawn amser i'r ysgol leol erbyn diwedd y rhaglen.

Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbenigol.

Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol, wedi parhau i dyfu.

Mae hyn oherwydd:

- Mae poblogaeth disgyblion yn newid, gyda charfanau mwy o ddisgyblion oedran ysgol gynradd bellach yn symud drwodd i'r cyfnod uwchradd.
- Cyfraddau goroesi gwell ar gyfer plant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddisgyblion ag anableddau difrifol a chymhleth.
- Mwy o gymhlethdod mewn anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu. Mae'r ystod o arbenigedd, cymorth arbenigol a chyfleusterau sydd eu hangen mewn ysgolion arbennig a CAAau hefyd wedi cynyddu.
- Mwy o achosion ac adnabod anghenion penodol fel awtistiaeth, ADCG, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau.
- Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19, ond mae wedi'i waethygu gan gau ysgolion a mesurau eraill i reoli'r pandemig.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd 2,265 o blant yng Nghaerdydd gyda datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Wrth i'r boblogaeth dyfu, felly hefyd nifer y plant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol a chymhleth.

Yn 2020-21, ariannwyd cyfanswm o 1,116 o leoedd mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol neu ysgolion arbennig gan Gyngor Caerdydd. Roedd gan Ddosbarthiadau Lles a Dosbarthiadau Lleferydd ac Iaith le i hyd at 48 o ddysgwyr ar leoliadau dros dro. Roedd 90 lle hefyd ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD). Er bod nifer o leoliadau arbenigol presennol ledled Caerdydd, nid oes digon o leoedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le yn cynyddu dros y blynnyddoedd nesaf.

Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd eraill o'r Cyngor neu mewn ysgolion annibynnol. Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn oedd £6.3m yn 2020-21. Mae'r gyllideb ar gyfer 2021-22 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar hyn o bryd yn £7.3m.

Mae gwariant ar leoedd annibynnol a lleoedd ysgol arbennig mewn ardaloedd Cyngor cyfagos wedi cynyddu i £3.8m yn 2020/21. O hyn, mae tua £2.5m wedi ariannu lleoedd arbenigol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag Iechyd Emosiynol ac Anghenion Lles. Efallai bod rhai o'r dysgwyr hyn wedi gallu cael eu lleoli yn Ysgol Arbennig The Court pe bai mwy o leoedd ar gael. Heb fuddsoddi mewn lleoedd ychwanegol, byddai disgwyl i gost y lleoedd hyn dyfu'n sylweddol yn y dyfodol.

Y gost i'r Cyngor cludiant ysgol i ddysgwyr ag Iechyd Emosiynol ac Anghenion Lles i'r lleoliadau hyn ar gyfartaledd o £6,000 y plentyn yn 2018/19 (y cyfyngiadau cyn Covid-19 diweddaraf ar y flwyddyn ddiweddaraf). Rhagwelir y byddai adnewyddu ac ehangu Ysgol Arbennig bresennol The Court yn golygu y byddai hyd cyfartalog y daith yn lleihau. Byddai hyn yn lleihau costau cludiant cyfartalog fesul dysgwr yn sylweddol.

Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol


Nid yw lleoliad Canolfannau Adnoddau Arbenigol a Dosbarthiadau Lles wedi'i ddsbarthu'n dda ar draws y ddinas.

Gellir gweld map sy'n dangos lleoliad y ddarpariaeth arbenigol bresennol isod/drosodd.

Gall diffyg Canolfannau Adnoddau Arbenigol mewn rhai ardaloedd roi dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dan anfantais. Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli. Efallai nad oes gan rieni neu ofalwyr y modd i deithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Er bod trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael i blant o'r fath, mae anfon plentyn ifanc i'r ysgol mewn ardal anghyfarwydd yn benderfyniad anodd i rieni/gofalwyr. Byddai dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ar draws y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion. Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Ysgolion Arbenning a CAAsu Caerdydd 2021



Ysgolion Arbenning a CAAsu: Math a Chapasiti

● Awtistiaeth	(7)
● Anghenion Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol	(2)
● Nam ar y Ciyw	(2)
● Anabledau Dysgu Dwfn a Lluosog, Anghenion Meddygol, Awtistiaeth	(1)
● Anawsterau Dysgu Difrifol, Anghenion Meddygol, Lieferydd ac Ialith, Awtistiaeth	(10)

This copy is produced specifically to supply County Council information. No further copies may be made. Mae'r copi hwn wedi'i gynhyrchu'n benodol i gyflwynu gwybodaeth y Cynghor. Dim hysbysu o'r blaen. © Crown copyright and database rights 2017. Ordnance Survey 1000233375. © Haverhill y Goron a hysbysu cronfa ddata 2017. Awdio Ordnance 1000233375.



Ysgolion yr 21ain Ganrif
Gwella darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ysgol Arbennig The Court

Ysgolion yr 21ain Ganrif
Gwella darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Darpariaeth Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol Oedran Cynradd (4-11 oed)

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol oedran cynradd ar gyfer plant ag anghenion iechyd a lles emosiynol, mae'r Cyngor yn bwriadu:

- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig The Court o 42 i 72 o leoedd. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i ddau safle, mewn llety adeiladu newydd ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac i safle presennol Ysgol Gynradd Lloneirwg, EgCym yn Llanrhymini, gyda 36 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.

Mae gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn wedi'i nodi ar dudalennau 12 - 25.

Y Ddarpariaeth Bresennol

Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd 90 o leoedd ar gyfer plant o oedran ysgol gynradd sydd ag anghenion Iechyd a Lles Emosiynol.

Mae Dosbarthiadau Lles mewn ysgolion cynradd yn darparu lleoliad arbenigol dros dro i blant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu sy'n cael anawsterau emosiynol sylweddol. Mae plant sy'n mynychu Dosbarthiadau Lles wedi'u cofrestru'n ddeuol. Mae hyn yn golygu eu bod yn aros ar gofrestr eu hysgol 'gartref', ac yn cael eu cefnogi i ailintegreiddio i'r ysgol honno ar ddiwedd eu lleoliad Dosbarth Lles. Gall y dull ymyrraeth gynnar hwn helpu i atal anghenion rhag gwaethygu. Gall hefyd leihau'r risg y bydd angen lleoli plant mewn ysgol arbennig. Mae'r Dosbarthiadau Lles wedi adrodd am ddeilliannau dysgu a lles da ar gyfer eu disgyblion.

Mae Ysgol Arbennig The Court yn darparu 42 o leoedd ysgol arbennig. Darperir 48 lle arall mewn dosbarthiadau Lles mewn ysgolion cynradd. Mae plant sy'n mynychu Ysgol Arbennig The Court ar gofrestr yr ysgol.

Galw am leoedd

Mae Tabl 3 isod yn nodi darpariaeth Gynradd ILIE sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, a'r galw a ragwelir am leoedd yn y dyfodol.

Mae'r rhagfynegiadau'n cynnwys pob plentyn sydd angen lleoliad o'r fath, gan gynnwys y rhai a leolir y tu allan i'r sir. Mae'r rhagfynegiadau hefyd yn cynnwys plant mewn ysgolion prif ffrwd sy'n aros am leoliad arbenigol; nodir gwarged o 10% yn y tabl, i gefnogi hyblygrwydd.

Tabl 3						
Llefydd cynradd	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
The Court	42	42	42	42	42	42
WBC Fitzalan	8	8	8	8	8	8
WBC Ysgol Gynradd y Tyllgoed	8	8	8	8	8	8
WBC Ysgol Gynradd Springwood	8	8	8	8	8	8
WBC Lakeside	8	16	16	16	16	16
WBC Pen y Groes	8	8	8	8	8	8
Cyfanswm y Capasiti	82	90	90	90	90	90
Y galw a amcanestynnir	103	107	110	112	116	119
Y galw a ragwelir (+10%)	113	118	121	123	128	131
Gwarged / diffyg	-31	-28	-31	-33	-38	-41

Seiliwyd y rhagfynegiadau hyn ar ddata a gasglwyd yn 2019, o'i gymharu â data cyfrifiad ysgolion (CYBLD 2019).

Mae'r tabl yn dangos mai'r galw a ragwelir am leoedd yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol yw 31 o leoedd yn 20/21, gan godi i 41 o leoedd yn 2025/2026. Byddai'r bwriad i ehangu The Court yn darparu 30 o leoedd ychwanegol, gan leihau'r diffyg i 11 lle.

Cynigion ar gyfer Ysgol Arbennig The Court

Mae disodli ac ehangu Ysgol Arbennig y Llys yn sylweddol o 42 i 72 o leoedd yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldeb statudol i ddarparu addysg briodol i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi nodi safleoedd presennol Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg (EgCym) fel y safleoedd a ffeirir ar gyfer The Court.

Byddai'r Cyngor yn darparu 36 o leoedd mewn llety pwrpasol newydd ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed.

Byddai'r Cyngor yn darparu 36 o leoedd drwy addasu'r adeiladau ysgol presennol ar safle Ysgol Gynradd EgCym Llaneirwg. Mae'r safle'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd EgCym Llaneirwg ond bydd yn cael ei adael ym mis Medi 2022. Byddai'r adeilad yn cael ei addasu i sicrhau y byddai'n briodol i fodloni anghenion disgyblion.

Byddai'r safleoedd hyn, a seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ysgolion arbennig.

Byddai'r adeiladau sy'n cael eu meddiannu gan Ysgol Arbennig The Court ar hyn o bryd yn cael eu gadael.

Ysgol Arbennig The Court

Ysgol Arbennig The Court, Heol yr Orsaf, Llanisien,.

Mae'r ysgol yn darparu 42 lle i ddysgwyr 4-11 oed o bob rhan o Gaerdydd. Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau ar gyfer plant yng Nghyfnod Allweddol 2, 7-11 oed. Mae gan bob un o'r plant anghenion iechyd a lles emosïynol sylweddol.

Mae gan bob disgybl sydd wedi cofrestru yn Ysgol The Court ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r broses asesu statudol ar gyfer y bobl ifanc hyn wedi nodi na ellir diwallu eu hanghenion dysgu ychwanegol mewn amgylchedd llai arbenigol.

Diben Ysgol Arbennig The Court yw darparu amgylchedd dysgu a chwricwlwm arbenigol, lle gall dysgwyr gyflawni eu potensial.



Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Capasiti Ysgol Arbennig The Court yw nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob grŵp oedran ar gyfer plant pedair i un ar ddeg oed.

Mae capasiti'r ysgol yn seiliedig ar sut mae ystafelloedd dosbarth a mannau eraill yn cael eu defnyddio ar gyfer addysgu a dysgu.

Mae Tabl 4 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Arbennig The Court

Enw'r Ysgol	Ystod oedran	Cyfrwng iaith a chategori'r ysgol	Capasiti cyhoeddedig presennol	Llefydd Meithrin
Ysgol Arbennig The Court	4-11	Cyfrwng Saesneg	42	0

Y galw am lefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 5 isod yn nodi manylion rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Arbennig The Court

Tabl 5: Rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Arbennig The Court										
Ysgol	Ionawr 2017 (NOR)	Ionawr 2018 (NOR)	Ionawr 2019 (NOR)	Ionawr 2020 (NOR)	Ionawr 2021 (NOR)	Rhagfynegi- ad 2021/ 2022	Rhagfynegi- ad 2022/ 2023	Rhagfynegi- ad 2023/ 2024	Rhagfynegi- ad 2024/ 2025	Rhagfynegi- ad 2025/ 2026
Ysgol Arbennig The Court	42	42	42	42	42	42	42	42	42	42

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformion yn ôl y bwriad/gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben/wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant) i D (gwael – adeiladau'n llesteirio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 6 Sgorau cyflwr ac addasrwydd

Tabl 6: Tabl 6 Sgorau cyflwr ac addasrwydd		
Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da a gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant.
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael a diffygion mawr.	Gwael. Llesteario dulliau addysgu/ effaith wael ar drefn yr ysgol.
D	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol.	Gwael iawn. Adeiladau'n llesteirio yn ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Arbennig The Court yn cael ei sgorio'n D am gyflwr (Diwedd Oes; mae bywyd wedi dod i ben neu risg o fethu ar y gorwel) a D ar gyfer addasrwydd, gydag amgylcheddau dysgu 'anaddas', sy'n atal gallu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm yn ddifrifol.

Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Mae Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 4 – 11 yn Wellright Road, Caerdydd, CF5 3ED.

Mae gan yr ysgol safle hael o tua 4.8Ha ac fe'i nodwyd fel un o ddigon o faint i'w rannu ag ysgol arbennig newydd.

Er bod Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn gwneud defnydd llawn o'i safle a'i hadeiladau, byddai maint a ffurfweddiad y safle yn cefnogi datblygiad ysgol arbennig newydd. Byddai Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn dal i gadw safle sy'n fwy na gofynion maint safle ysgol gynradd gymunedol fawr.



Nifer y llefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 7 isod yn rhoi manylion am y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Tabl 7				
Enw'r Ysgol	Capasiti cyhoeddedig presennol (4-11 oed)	Llefydd fesul grwp blwyddyn (4-11 oed)	Lleoedd meithrin	Cyfrwng iaith a chategori'r ysgol
Ysgol Gynradd y Tyllgoed	239	40	0	Ysgol Gynradd Gymunedol Saesneg

Capasiti presennol Ysgol Gynradd y Tyllgoed yw 239 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 210 o blant ar y gofrestr ym mis Hydref 2020. Mae gan yr ysgol ddigon o le yn yr ystafell ddosbarth i ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion ac mae wedi ail-ddynodi'r ystafelloedd hyn at ddibenion eraill. Mae'r ysgol hefyd yn darparu ar gyfer Dosbarth Lles.

Y galw am lefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 8 isod yn nodi manylion y niferoedd diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Tabl 8: Recent and projected numbers on roll at Fairwater Primary School										
School	Ionawr 2017 (NG)	Ionawr 2018 (NG)	Ionawr 2019 (NG)	Ionawr 2020 (NG)	Ionawr 2021 (NG)	Rhagfy-negiad 2021/22	Rhagfy-negiad 2022/23	Rhagfy-negiad 2023/24	Rhagfy-negiad 2024/25	Rhagfy-negiad 2025/26
Ysgol Gynradd y Tyllgoed	238	244	243	224	207	190	175	154	151	136

* Galw disgyblion ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y dalgylch lleol

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol

Mae Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn sgôr o C am gyflwr a B am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ysgol arbennig.

Safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn trosglwyddo o'i safle presennol yn Dunster Road, Llanrhymini, ym mis Medi 2022 i safle newydd ar ddatblygiad St Eder.

Bydd safle Dunster Road yn wag yn hydref 2022, gan ganiatáu ar gyfer ailddatblygu. Bydd y safle sydd wedi'i adael yn trosglwyddo i berchnogaeth y Cyngor ar hyn o bryd.

Mae'r safle presennol yn cynnwys 115 o ddisgyblion 4-11 oed.

Rhaid i safleoedd Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn ac ysgol arbennig arfaethedig The Court fodloni'r gofynion ardal a nodir yng nghanllawiau'r Bwletin Adeiladu ar gyfer ysgolion.

Er mwyn sicrhau bod gan bob safle ddigon o le i'w ddysgwyr, byddai angen addasu'r ffin bresennol rhwng y ddau safle.

Byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn ac Ysgol Arbennig The Court i sicrhau bod gofynion y canllawiau'n cael eu bodloni. Byddai hyn yn sicrhau y darperir manau chwarae a dysgu awyr agored a manau cymdeithasol er lles y ddwy ysgol. Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau bod digon o le parcio i staff a bod y manau gollwng gofynnol ar gyfer trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gael. Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod Ysgol Gynradd Pen-y-bryn yn elwa o'r buddsoddiad a'r newidiadau sydd eu hangen i leoli The Court ar y safle cyfagos.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system categoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocra unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 9 isod:

Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella.
Ambr	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha categori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yma:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-en.pdf>

Ysgol Arbennig The Court

Arolygwyd Ysgol Arbennig The Court ddiwethaf gan Estyn ym mis Mehefin 2014.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod perfformiad a rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn 'Dda'.

Rhoddodd asesiad gan Gonsortium Canolbarth y De cyn y pandemig y gwerthusiad canlynol:

- Mae cyflawniad ar draws yr ysgol yn dda iawn.
- Mae data'r ysgol yn dangos bod disgyblion yn gwneud o leiaf dwy is-lefel o gynnydd ym mhob maes gyda disgyblion CA3 yn gwneud hyd yn oed mwy o gynnydd mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth.
- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu datblygiad cymdeithasol a phersonol, a daw hyn drwodd yn agweddau disgyblion at ddysgu a'r gostyngiad amlwg mewn materion ymddygiadol.
- Mae gwybodaeth am gynnydd yr ysgol yn gadarn ac mae'r Uwch Dîm Arwain yn parhau i ddatblygu'r systemau hyn ymhellach. Dengys dadansoddiad nad oes unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng cyflawniadau'r gwahanol grwpiau allweddol yn yr ysgol. Er enghraifft mae disgyblion sydd ddim yn PYAD yn gwneud cynnydd da o leiaf yn unol â'u cyfoedion.

Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Arolygwyd Ysgol Gynradd y Tyllgoed ddiwethaf gan Estyn ym mis Chwefror 2020.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod y safonau, lles ac agweddau at ddysgu, addysgu a phrofiad dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth i gyd yn dda.

Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Gynradd y Tyllgoed ei chategoreiddio yn Melyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod am y meysydd y mae angen iddi eu gwella).

Sut y byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Bydd creu amgylcheddau Dysgu'r 21ain Ganrif yn sicrhau bod lleoedd ysgol priodol o ansawdd i bobl ifanc, sy'n bodloni anghenion poblogaeth gynyddol a newidiol Caerdydd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn dda.

Mae safonau yn Ysgol Y Court eisoes yn dda. Byddai trosglwyddo'r ysgol i lety newydd yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag anghenion emosiynol a lles.

Mae safonau yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn dda. Ni ddisgwylir y bydd y cynnig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol. Byddai cyd-leoliad The Court yn caniatáu i staff rannu arfer gorau, cyfleoedd dysgu proffesiynol ac ar gyfer gwaith amlasiantaethol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg na chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a phob Cyfnod Allweddol o addysg yn unrhyw un o'r ysgolion o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Profiadau dysgu ac addysgu

Bydd y cyfleusterau ysgol newydd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r 'Cwricwlwm i Gymru' newydd ar gyfer dysgwyr (3 – 16 oed) y disgwylir iddo gael ei roi ar waith mewn ysgolion yng Nghymru o fis Medi 2022. Bydd y cwricwlwm newydd yn mabwysiadu ymagwedd sy'n gynhwysol ac wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r angen i baratoi plant a phobl ifanc yng Nghymru i ffynnu a bod yn llwyddiannus mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Cydnabyddir y dylai'r cwricwlwm roi dysg mwy eang a dyfnach, sicrhau cynnydd gwell, rhoi cyfle i ddefnyddio amser a lle gyda mwy o ddychymyg a chreadigrwydd a rhoi llawer mwy o bwyslais ar sgiliau. Bydd cyfleusterau ysgol newydd a gwell yn helpu i gefnogi'r weledigaeth hon.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed.

Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiâu a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ddwy ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi ac mae disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth y ddwy ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb am helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth y ddwy ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb am helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ddwy ysgol i gael perthynas dda â rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na chaiff arweinyddiaeth a llywodraethu'r ysgolion eu tarfu, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 10 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig ym mhob un o'r ysgolion.

Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	% y disgyblion â datganiad ADY	% y Prydau Ysgol am Ddim - cyfartaledd 3 blynedd	% y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt	% y disgyblion o Leiafrif Ethnig
Ysgol Arbennig The Court	–	–	100%	66.7	–	7.1%
Ysgol Gynradd y Tyllgoed	3.4	8.8	4.9	31.1	9.3	22.5

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Bydd adeilad Ysgol i'r 21ain Ganrif yn caniatáu i gyfleusterau gael eu teilwra i anghenion y plant sy'n ei mynychu. Gellir cynllunio cyfleusterau i gyd-fynd â'u hanghenion dysgu a darparu amgylcheddau tawel a strwythuredig i gefnogi dysgu.

Byddai'r arbenigedd presennol yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn yn cael ei gynnal. Byddai'r cyfleusterau ehangu a newydd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac i wella dysgu disgyblion mewn cyfleusterau pwrpasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr ac yn peri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau a gynigir.

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel iaith ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn yn parhau i ddarparu cymorth sy'n briodol i anghenion unigol pob disgybl.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynlluniau hyn sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y câi'r cynigion effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin?

Gall plant yng Nghaerdydd fynd i le meithrin rhan amser mewn ysgol o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Rhaid iddynt fynd i'r dosbarth meithrin o leiaf ar bum hanner diwrnod yr wythnos. Nid oes dalgylchoedd ar gyfer dosbarthiadau meithrin.

Nid oes gan Ysgol Arbennig The Court nac Ysgol Gynradd y Tyllgoed ddarpariaeth feithrin.

Mae plant oed meithrin yng Nghaerdydd yn mynychu darpariaeth prif ffrwd. Mae digon o leoedd ar gael i ateb y galw am leoedd ac nid oes cynnig i sefydlu darpariaeth feithrin fel rhan o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno.

Beth yw manteision y newidiadau arfathedig?

- Byddai'r cynigion yn cynyddu nifer y lleoedd ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr oed cynradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol ac yn cyfrannu at ateb y galw a ragwelir;
- Byddai adeiladau ysgol newydd yn mynd i'r afael â chyflwr is-safonol adeiladau presennol the Court a byddai'n lleihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw;
- Mae cyfleusterau adeiladu newydd yn darparu amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel, sy'n gwella dewisiadau dysgu a chyfleoedd i ddisgyblion. Mae gweledigaeth Caerdydd 2030 yn nodi'r angen i ddarparu lleoedd ysgol o ansawdd uchel. Mae amgylcheddau o ansawdd uchel yn cael effaith gref ar wella deilliannau disgyblion;
- Byddai safle deuol yn cynnig hyblygrwydd ar gyfer rheoli disgyblion, gan ganiatáu iddynt gael eu haddysgu 'yn nes at adref'. Byddai'r cynigion yn darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth Arbennig ar draws y ddinas;
- Byddai safle deuol yn caniatáu ystod ehangach o adnoddau i'r ysgol – bydd ganddynt fwy o le i ddatblygu'r cwricwlwm a gynigir, gan gynnig ystod ehangach o brofiadau i ddisgyblion;
- Byddai'r cyd-leoli gydag Ysgolion Cynradd prif ffrwd yn darparu cyfleoedd ailintegreiddio, ac yn caniatáu ar gyfer pontio mwy effeithiol;
- Byddai Ysgol Arbennig The Court yn adeiladau sy'n addas i'r 21ain Ganrif, a allai gefnogi ystod o fentrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn haws – ffocws Therapi, cyfleoedd ymyrraeth gynnar, a chefnogi anogaeth a lles;
- Byddai'r cyd-leoliad â safleoedd Cynradd prif ffrwd yn caniatáu i staff rannu arfer gorau, cryfhau'r berthynas ag ysgolion prif ffrwd, caniatáu ar gyfer cyfleoedd dysgu proffesiynol ac ar gyfer gwaith amlasiantaethol;
- Byddai'r adeiladau newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag ADY ei chael hi'n anodd newid. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri anniddigrwydd. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrrff Llywodraethu pob ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw amhariad posibl.

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau

- Efallai y ceir cyfyngiadau datblygu nad sydd yn hysbys eto. Pe deuai unrhyw rai i'r amlwg, gallai fod goblygiadau o ran cost ac oedi. Byddai arolygon safleoedd ac adroddiadau geo-dechnegol yn cael eu cynnal. Byddai rhain yn rhoi rhagor o wybodaeth ac yn llywio'r strategaethau rheoli.
- efallai na fydd modd cyflawni'r cynnig os na sicheir cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ystod y cam achos busnes;
- Pe na byddai'r Cyngor yn cael y cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru yna'r Cyngor fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn llawn dros yr holl gostau yn ymwneud â'r cynnig. Yn yr achos hwn, byddai opsiynau buddsoddi'n cael eu hadolygu i sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Cynhaliwyd astudiaeth o ddichonoldeb gan y Cyngor i archwilio opsiynau amgen posibl i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn y ddogfen hon.

Ystyriwyd nifer o safleoedd amgen ond fe'u gwrthodwyd ar sail materion yn ymwneud â mynediad, cyfyngiadau ar safleoedd, traffig a rheoli llifogydd.

Beth fyddai'n digwydd i safle presennol Ysgol Arbennig The Court?

Bydd y defnydd o safle presennol Ysgol Arbennig The Court yn y dyfodol yn destun ystyriaeth bellach, gan ystyried barn amrywiaeth o randdeiliaid.

Materion Adnoddau Dynol

Byddai'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion ar gyfer Ysgol Arbennig The Court yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gynllunio ar gyfer gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiadau. Byddai'r Corff Llywodraethu yn cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â Fframwaith Adnoddau Dynol Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer cynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio canlyniadol. Lle mae Cyrff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, byddai unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynnydd yn y niferoedd ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar gofrestr adleoli ysgolion.

Mae'r cynnig yn cynnwys adleoli Ysgol The Court gyda'r ysgol yn bwriadu gweithredu trefniadau deuol ar gyfer safleoedd. Byddai hyn yn gofyn am lefelau uchel o ymgynghori â staff ac undebau llafur, cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau ar gyfer trosglwyddo o un safle ysgol i'r llall a chynnwys staff wrth ddatblygu manylebau neu ddyluniadau adeiladu.

Materion Trafnidiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol dwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ysgolion cynradd, gan gynnwys i Ysgol Arbennig The Court. Yn ogystal, gellir darparu cludiant i rai plant sy'n byw'n agosach hefyd oherwydd eu hanghenion dysgu unigol.

Ar hyn o bryd, mae tua 80-90% o ddisgyblion yn cael eu cludo i Ysgol The Court gyda dau neu dri disgybl fesul tacsï gyda gyrrwr a hebryngwr i'w cefnogi.

Byddai unrhyw gynnydd arfaethedig o ran nifer yr disgyblion yn yr ysgol yn gofyn i adnoddau a chyfleusterau trafndiaeth yn y safleoedd gael eu cynyddu yn unol â hynny.

The Court ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r Court ar safle'r Tyllgoed yn parhau i fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol naill ai ar sail pellter neu oherwydd eu hanghenion dysgu unigol.

Gyda chyfran debyg o ddisgyblion sydd ag angen cludiant i'r ysgol o hyd, gall hyn olygu rhwng 10 ac 16 tacsï gyda chyfleusterau priodol ar gyfer gollwng a chodi i'w darparu ar y safle.

Ni fyddai rhai disgyblion sy'n byw o fewn dwy filltir i'r safle ysgol newydd hwn yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol. Efallai y bydd cyfran o ddisgyblion yn gallu teithio i'r ysgol yn annibynnol, gyda rhiant/gofalwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu drafndiaeth gyhoeddus.

Mae eisoes cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da iawn gyda nifer o wasanaethau bws daith gerdded fer yn unig o'r ysgol. Mae gorsaf drenau Parc Waun-gron tua 0.75 milltir (1.2km) o'r ysgol.

Mae llwybrau cerdded da yn cyrraedd safle'r ysgol ac mae cysylltiadau beicio cyfredol da hefyd. Mae Llwybr Elái yn rhedeg ar hyd Ffordd y Bwlch yn union i'r de o'r safle ac mae'n parhau at Fae Caerdydd gyda rhannau gwahanol naill ai'n ddi-draffig neu ar y ffordd. Cynllunnir rhagor o welliannau drwy ddatblygiad Melin Trelái yn y tymor byr gyda chysylltiadau drwy Feicffordd 5 i ganol y ddinas. Mae llwybrau arwyddion ar y ffordd eisoes yn mynd drwy Dreganna i ganol y ddinas gyda gwelliannau tymor canolig yn yr arfaeth ar gyfer traciau beicio wedi'u gwahanu oddi wrth y traffig.

Cynigir cyfleusterau amrywiol pellach i wella mynediad cerdded a beicio drwy'r Tyllgoed, Llandaf a'r ardal ehangach erbyn 2023.

Efallai y bydd angen Asesiad Trafnidiaeth diwygiedig ar y cynigion datblygu ar gyfer safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed hefyd. Byddai hyn yn cadarnhau mesurau diogelwch ar y ffyrdd a mesurau eraill i gefnogi ac i annog teithio drwy ddulliau cynaliadwy. Byddai'n nodi unrhyw ddarpariaeth arall sy'n gysylltiedig â theithio sy'n ymwneud yn benodol â chynnig ar gyfer y Court ar y safle hwn.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol sy'n nodi camau gweithredu gan yr ysgol i gefnogi ac i annog teithio llesol lle bo hynny'n briodol ac i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen ar y safle ac oddi ar y safle i hwyluso teithiau llesol. Datblygir y cynllun hwn gyda chyfranogiad llawn yr ysgol a chaiff ei gefnogi gan swyddogion Cynllun Teithio Llesol y Cyngor gyda chymorth arall ar gael gan y Tîm Diogelwch ar y Ffyrrdd sy'n darparu hyfforddiant beicio.

The Court ar safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg

Disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r Court ar safle Dunster Road yn parhau i fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol naill ai ar sail pellter neu oherwydd eu hanghenion dysgu unigol.

Gyda chyfran debyg o ddisgyblion sydd ag angen cludiant i'r ysgol o hyd, gall hyn olygu rhwng 10 ac 16 taci gyda chyfleusterau priodol ar gyfer gollwng a chodi i'w darparu ar y safle.

Ni fyddai rhai disgyblion sy'n byw o fewn dwy filltir i'r safle ysgol newydd hwn yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol. Efallai y bydd cyfran o ddisgyblion yn gallu teithio i'r ysgol yn annibynnol, gyda rhiant/gofalwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn chyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae eisoes cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da drwy Lanrhyddni a Rhodfa Countisbury a hefyd o Heol Casnewydd sydd o fewn pellter cerdded byr. Mae llwybrau cerdded hygyrch i ddisgyblion a staff lleol hefyd.

Mae Beicffordd 2 wedi'i chynllunio ar hyd y rhan hon o Heol Casnewydd. Bydd cam byrdymor/tymor canolig yn y dyfodol yn disodli'r lonydd beicio presennol ar y brif ffordd brysur hon.

Mae problemau parcio y tu allan i ysgol gynradd gyfagos Pen-y-bryn ar hyd Dunster Road ar hyn o bryd. Er bod y tîm Trafnidiaeth yn monitro'r sefyllfa ac yn adolygu'r angen am fesurau ychwanegol a rheolaethau parcio y tu allan i bob ysgol, byddai'r angen am unrhyw fesurau ychwanegol y tu allan i'r safle arfaethedig ar gyfer y Court yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses honno.

Mae'r cynigion datblygu'n gofyn am Asesiad Trafnidiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau bod moddau teithio cynaliadwy yn cael eu defnyddio i'r eithaf. Byddai'n nodi unrhyw ddarpariaeth arall sy'n gysylltiedig â theithio sy'n ymwneud yn benodol â chynnig ar gyfer y Court ar y safle hwn.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol sy'n nodi camau gweithredu gan yr ysgol i gefnogi ac i annog teithio llesol lle bo hynny'n briodol ac i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen ar y safle ac oddi ar y safle i hwyluso teithiau llesol. Datblygir y cynllun hwn gyda chyfranogiad llawn yr ysgol a chaiff ei gefnogi gan swyddogion Cynllun Teithio Llesol y Cyngor gyda chymorth arall ar gael gan y Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd sy'n darparu hyfforddiant beicio.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel y mae'n well gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r cynnig hwn yw 22 Tachwedd 2021.

Ysgolion yr 21ain Ganrif
Gwella darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)



Ysgol Gynradd Moorland

Ysgolion yr 21ain Ganrif
Gwella darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Darpariaeth Gymhleth/Awtistiaeth Gymhleth Gynradd (4-11 oed)

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol oedran cynradd, mae'r Cyngor yn bwriadu:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer hyd at 20 o blant oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth (ADC) yn Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2022.

Mae gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn wedi'i nodi ar dudalennau 28-38.

Y Ddarpariaeth Bresennol

Ar hyn o bryd mae Caerdydd yn cynnal 445 o ysgolion arbennig cynradd a lleoedd CAA ar gyfer plant ag anghenion dysgu cymhleth/awtistiaeth. Bydd prosiectau y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan y Cabinet, i ymestyn ac ailadeiladu Ysgol Arbennig Glan yr Afon ac i sefydlu CAA yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, yn cynyddu'r cyfanswm i 524 o leoedd erbyn 2025.

Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth

Dosbarth bychan mewn ysgol prif ffrwd yw Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) sy'n cael ei addysgu gan aelod staff arbenigol.

Mae pum ysgol gynradd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd yn cynnal Canolfannau Adnoddau Arbenigol ar gyfer anghenion dysgu cymhleth ar hyn o bryd. Cynhelir y rhain gan:

- Ysgol Gynradd Bryn Hafod
- Ysgol Gynradd Llanedern
- Ysgol Gynradd Llanisien Fach
- Ysgol Gynradd Marlborough, ac
- Ysgol Pwll Coch

Mae'r holl Ganolfannau Adnoddau Arbenigol yn agored i gael eu derbyn o bob rhan o Gaerdydd, er cyn belled ag y bo modd, cynigir lleoedd i ddisgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol sydd agosaf at eu cartref.

Yn ogystal â seiliau anghenion dysgu cymhleth, ceir:

- Ysgol Gynradd Lakeside (canolfan adnoddau awtistiaeth arbenigol sylfaenol)
- Ysgol Gynradd Springwood (canolfan adnoddau awtistiaeth arbenigol sylfaenol)
- Ysgol Gynradd Allensbank (dosbarth lleferydd ac iaith)
- Ysgol Gynradd y Tyllgoed (Dosbarth Lles Cynradd)
- Ysgol Gynradd Lakeside (Dosbarth Lles Cynradd)
- Ysgol Gynradd Springwood (Dosbarth Lles Cynradd)
- Ysgol Gymraeg Pen y Groes (Dosbarth Lles Cynradd)
- Ysgol Uwchradd Fitzalan (Dosbarth Lles Cynradd)

Mae'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol a ddynodwyd ar gyfer dysgu cymhleth mewn ysgolion cynradd yn darparu dau ddosbarth o hyd at 10 disgybl; dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen a dosbarth yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r disgyblion yn elwa o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach gyda chymarebau staff disgyblion ffafriol, a addysgir gan staff arbenigol. Mae disgyblion hefyd yn elwa o gyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu gyda'u cyfoedion prif ffrwd.

Galw am leoedd

Mae Tabl 11 yn nodi lleoedd sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd i gefnogi plant o oedran ysgol gynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth. a'r galw a ragwelir yn y dyfodol.

Mae'r niferoedd yn cyfrif am bob plentyn sydd angen lleoliad o'r fath, gan gynnwys y rhai a leolir y tu allan i'r sir ac yn y brif ffrwd sy'n aros am leoliad arbenigol, Caniateir gwarged o 10% i gefnogi hyblygrwydd.

Tabl 11						
Llefydd cynradd	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Tŷ Gwyn *	75	90	90	90	90	90
Riverbank	70	70	70	70	70	112
Meadowbank	41	50	50	50	50	50
Hollies	112	112	112	112	112	112
Bryn Hafod	20	20	20	20	20	20
Llanedern	20	20	20	20	20	20
Llanisien Fach	20	20	20	20	20	20
Marlborough	20	20	20	20	20	20
Springwood	28	28	28	28	28	28
Ysgol Pwll Coch	7	10	15	20	20	20
Pentre-baen	24	24	24	24	24	24
ALIC Allensbank	8	8	8	8	8	8
Cyfanswm lleoedd	445	472	477	482	482	524
Y galw a amcanestynnir	500	510	515	522	536	547
Amcanestyniad Galw (+10%)	550	561	567	574	590	602
Gwarged / diffyg	-105	-89	-90	-92	-108	-78

Mae'r tabl yn dangos mai'r galw a ragwelir am leoedd yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol yw 89 o leoedd yn 21/22, gan godi i 108 o leoedd yn 2024/2025. Os nad oedd twf pellach y tu hwnt i'r cynlluniau presennol mewn perthynas ag Ysgol Arbennig Glan yr Afon ac Ysgol Gymraeg Pwll Coch, bydd diffyg o 78 o leoedd yn parhau yn 25/26.

Ar hyn o bryd, mae mwy o ddisgyblion ag anghenion sylweddol sydd angen lle yn un o'r lleoliadau hyn nag sydd o leoedd ar gael.

Mae'r amcanestyniadau presennol yn dangos y bydd nifer y disgyblion yn parhau i dyfu dros y 5 i 10 mlynedd nesaf.

Cynnig ar gyfer darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Moorland

I ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol oedran cynradd cynigir sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer hyd at 20 o blant oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth (ADC) yn Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2022.

Ysgol Gynradd Moorland

Mae Ysgol Gynradd Moorland yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg gyda darpariaeth feithrin yn 48 Heol Singleton, Caerdydd, CF24 2ET.



Nifer y llefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 12 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Moorland.

Tabl 12

Enw'r Ysgol	Capasiti cyhoeddus presennol (4-11 oed)	Llefydd fesul grwp blwyddyn (4-11 oed)	Lleoedd meithrin	Cyfrwng iaith a chategori'r ysgol
Ysgol Gynradd Moorland	420	60	64	Ysgol Gynradd Gymunedol Saesneg

Ysgolion yr 21ain Ganrif
Gwella darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Y galw am lefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 13 isod yn nodi manylion rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Moorland.

Ysgol	Ionawr 2017 (NG)	Ionawr 2018 (NG)	Ionawr 2019 (NG)	Ionawr 2020 (NG)	Ionawr 2021 (NG)	Rhagfy-negiad 2021/22	Rhagfy-negiad 2022/23	Rhagfy-negiad 2023/24	Rhagfy-negiad 2024/25	Rhagfy-negiad 2025/26
Ysgol Gynradd Moorland	399	410	464	402	392	394	389	376	370	362

* Galw disgyblion ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y dalgylch lleol

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformion yn ôl y bwriad/gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben/wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant) i D (gwael – adeiladau'n llesteirio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 14 Sgorau cyflwr ac addasrwydd

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da a gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant.
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael a diffygion mawr	Gwael. Llesteirio dulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol.
D	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol	Gwael iawn. Adeiladau'n llesteirio yn ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Gynradd Moorland yn sgôr B am gyflwr a B am addasrwydd.

Llety arfaethedig CAA

Mae'r Cyngor yn gwneud gwaith i ddisodli llety'r blynyddoedd cynnar yn Ysgol Gynradd Moorland ac i leoli darpariaeth Dechrau'n Deg ar y safle.

Mae darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland wedi'i lleoli mewn uned anorchfygol yng nghefn safle'r ysgol. Mae'r uned wedi'i graddio fel cyflwr C (Gwael gyda diffygion mawr). Ar hyn o bryd mae'n cynnwys 64 o leoedd Meithrin rhan amser a 60 o leoedd dosbarth Derbyn.

Ar ôl cwblhau'r adeilad newydd, byddai'r uned hon yn cael ei symud ynghyd â thŷ'r gofalwr. Byddai'r adeilad newydd yn darparu ar gyfer y nifer bresennol o leoedd dosbarth meithrin a derbyn.

Byddai llety ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn cael ei ddarparu fel rhan o'r gwaith arfaethedig hwn.

Ar hyn o bryd mae clwb bocsi wedi'i leoli ar ran o safle Ysgol Gynradd Moorland. Ar hyn o bryd, nid yw prosiect ailddatblygu'r ysgol yn dibynnu ar dir y clwb bocsi. Fodd bynnag, pe bai hyn ar gael yn ddiweddarach, byddai'n fuddiol i'r ysgol gan y byddai'n cynyddu'r gofod awyr agored sydd ar gael i ddysgwyr.

Mae adran dai'r Cyngor yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu tai ar hen safle Ysgol Glan Morfa. Byddai'r cynigion yn ceisio cynnwys cyfleuster clwb bocsi newydd ar y safle. Mae hyn yn rhyddhau'r tir sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan y clwb bocsi i'w ddefnyddio gan Ysgol Gynradd Moorland.

Nid yw'r broses ddylunio ar gyfer y llety ysgol newydd wedi dechrau eto. Byddai hyn yn cynnwys mewnbwn gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys cyrff llywodraethu, penaethiaid, staff a phlant.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Llywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system categoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocera unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system categoreiddio yn Nhabl 19 isod:

Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella.
Ambr	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha categori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yma:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-en.pdf>

Ysgol Gynradd Moorland

Arolygwyd Ysgol Gynradd Moorland ddiwethaf ym mis Ebrill 2018.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod y safonau, y lles a'r agweddau at brofiad dysgu, addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth a rheolaeth i gyd yn dda; barnwyd bod gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol.

Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Gynradd Moorland ei chategoreiddio'n Wyrdd.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn dda.

Mae safonau yn Ysgol Gynradd Moorland yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth CAA yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg na chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a phob Cyfnod Allweddol o addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Gynradd Moorland.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i gynhwysiant ac o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.

Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae Ysgol Gynradd Moorland wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi ac mae disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth gofal ac arweiniad.

Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinwyr ysgol a gwaith llywodraethiant, a allai gael effaith negyddol ar ganlyniadau addysgol.

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 16 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig ym mhob un o'r ysgolion.

Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol	% y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	% y disgyblion â datganiad ADY	% y Prydau Ysgol am Ddim - cyfartaledd 3 blynedd	% y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt	% y disgyblion o Leiafrif Ethnig
Ysgol Gynradd Moorland	20.2	12.3	1.8	41.9	25.4	53.2

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Bydd adeilad CAA yn caniatáu i gyfleusterau gael eu teilwra i anghenion y plant sy'n ei mynychu. Gellir cynllunio cyfleusterau i gyd-fynd â'u hanghenion dysgu a darparu amgylcheddau tawel a strwythuredig i gefnogi dysgu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr ac yn peri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn yn parhau i roi cymorth sy'n briodol i anghenion unigol pob disgybl.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Mae'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynlluniau hyn sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y câi'r cynigion effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin?

Gall plant yng Nghaerdydd fynd i le meithrin rhan amser mewn ysgol o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Rhaid iddynt fynd i'r dosbarth meithrin o leiaf ar bum hanner diwrnod yr wythnos. Nid oes dalgylchoedd ar gyfer meithrin.

Mae darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland wedi'i lleoli mewn uned anorchfygol yng nghefn safle'r ysgol. Mae'r uned wedi'i graddio fel cyflwr C (gwael gyda diffygion mawr). Ar hyn o bryd mae'n cynnwys 64 o leoedd Meithrin rhan amser a 60 o leoedd dosbarth Derbyn.

Mae'r uned hon yn cael ei symud a darperir adeilad newydd, sy'n lletya'r nifer bresennol o leoedd dosbarth meithrin a derbyn.

Bydd darparu llety newydd yn cefnogi darparu addysg o ansawdd uchel yn well i ddisgyblion oed meithrin.

Mae plant oed meithrin yng Nghaerdydd yn mynychu darpariaeth prif ffrwd. Mae digon o leoedd ar gael i ateb y galw am leoedd ac ni ddisgwylir y byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar ddarpariaeth feithrin mewn manau eraill.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ledled y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Nid oes darpariaeth CAA yn Adamsdown a Sblot ar hyn o bryd. Mae pob plentyn yn yr ardaloedd hyn sydd angen lleoliad mewn CAA yn teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Cafodd y ddarpariaeth hon ei sefydlu ar safleoedd ysgolion eraill yn Adamsdown a Sblot ei disgowntio oherwydd cyfyngiadau llety a safleoedd.

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynigion yn cynyddu nifer y lleoedd adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oed cynradd ag anghenion dysgu cymhleth a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragwelir;
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Mae hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynigion yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yn ardal de ganolog y ddinas yn teithio pellteroedd byrrach i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol;
- Mae cyfleusterau adeiladu newydd yn darparu amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel, sy'n gwella dewisiadau dysgu a chyfleoedd i ddisgyblion ac yn cael effaith gref ar wella canlyniadau disgyblion Mae gweledigaeth Caerdydd 2030 yn nodi'r angen i ddarparu lleoedd ysgol o ansawdd uchel.
- Bydd yr adeiladau newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag ADY ei chael hi'n anodd newid. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri anniddigrwydd. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu pob ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Risgiau sydd ynghlwm â'r newid arfaethedig

- Efallai y ceir cyfyngiadau datblygu nad sydd yn hysbys eto. Pe deuai unrhyw rai i'r amlwg, gallai fod goblygiadau o ran cost ac oedi. Byddai arolygon safle ac adroddiadau geo-dechnegol yn cael eu cynnal a fyddai'n rhoi rhagor o wybodaeth ac yn llywio strategaethau rheoli.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen diilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Byddai'r CAA arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Moorland yn gwasanaethu disgyblion yn ardal de ganolog Caerdydd a byddai'n lleihau'r pellter a deithiwyd i'r ysgol i blant yn Adamsdown a Sblot sydd angen lleoliad mewn CAA ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol dwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ysgolion cynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau CAA. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Arbennig (CAA) yn Ysgol Gynradd Moorland, sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn bodloni eu hanghenion dysgu unigol.

Gan y byddai uchafswm o 20 o blant yn mynychu'r CAA, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafndiaeth ysgol am ddim sef tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Cludiant Hwn i Ddysgwyr ar gyfer gollwng a chasglu a ddarperir fel rhan o'r cynigion.

Mae'r cynigion datblygu yn gofyn am Ddatganiad Trafndiaeth. Mae hyn eisoes wedi nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau bod moddau teithio cynaliadwy i ysgol Gynradd Moorland yn cael eu defnyddio i'r eithaf.

Mae mewn sefyllfa dda o ystyried ei lleoliad cymharol ganolog, ei hagoswydd at lwybrau a chyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus, a'r potensial ar gyfer cysylltiadau teithio llesol.

Byddai mesurau diogelwch ysgol arfaethedig yn cynnwys gwelliannau i groesfannau ffyrdd, a chyfleusterau cyffredinol well i gerddwyr a beicwyr, gan gynnwys ar hyd y llwybrau mwyaf dymunol drwy Barc Moorland.

Byddai adolygiad o gyfyngiadau parcio a llwytho a gweithredu Stryd Ysgol ar y strydoedd cyfagos (gan gynnwys Moorland Road ar ochr ddwyreiniol y safle) yn gwella diogelwch drwy atal mynediad i gerbydau, a lleihau tagfeydd a phroblemau parcio.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol sy'n nodi camau gweithredu gan yr ysgol i gefnogi ac i annog teithio llesol lle bo hynny'n briodol ac i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen ar y safle ac oddi ar y safle i hwyluso teithiau llesol. Datblygir y cynllun hwn gyda chyfranogiad llawn yr ysgol a chaiff ei gefnogi gan swyddogion Cynllun Teithio Llesol y Cyngor gyda chymorth arall ar gael gan y Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd sy'n darparu hyfforddiant beicio.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel y mae'n well gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r cynnig hwn yw 22 Tachwedd 2021.

Gwybodaeth sy'n Berthnasol i'r ddau Gynnig

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Mae ysgolion arbennig yng Nghaerdydd yn darparu darpariaeth arbenigol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd gyfan. Nid oes digon o leoedd i ateb y galw mewn darpariaeth a gynhelir/ Mae hyn wedi effeithio ar ysgolion sy'n bodoli eisoes lle mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o ddisgyblion ar y gofrestr na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) neu'r nifer a ddymunir mewn CAA.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gaerdydd ddibynnu ar brynu rhai lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ac ysgolion annibynnol i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gallai fod effaith tymor hwy ar ddarparwyr y tu allan i'r sir ac ar ysgolion annibynnol gan ei bod yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd a brynir gan y Cyngor.

Ni ragwelir y byddai'r bwriad i ehangu a throsglwyddo Ysgol Arbennig The Court i safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn cael effaith negyddol ar Ysgol Gynradd y Tyllgoed nac unrhyw ysgol leol.

Byddai Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn parhau i weithredu fel ysgol ar wahân o dan reolaeth ei chorff llywodraethu a'i Phennaeth. Mae safle'r ysgol o faint digonol i ganiatáu i ddarpariaeth arfaethedig Ysgol Arbennig The Court gael ei darparu heb effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Gallai cyd-leoliad arfaethedig Ysgol Gynradd The Court gydag Ysgol Gynradd y Tyllgoed roi cyfle i staff Ysgol Gynradd y Tyllgoed weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd. Gallai hyn wella addysgu cynhwysol yr ysgol ac mae o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.

Mae cynnal a chadw safle ysgol mawr yn cyflwyno amrywiaeth o heriau ariannol a gweithredol i Ysgol Gynradd y Tyllgoed. Disgwylir i'r trefniant rhannu safle arfaethedig gydag Ysgol Arbennig The Court wneud y gorau o'r ardal sydd ar gael er budd pob ysgol.

Ni ragwelir y byddai'r bwriad i ehangu a throsglwyddo Ysgol Arbennig The Court i safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn cael effaith negyddol ar unrhyw ysgol leol.

Gallai lleoliad arfaethedig Ysgol Arbennig The Court ar safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg, ger Ysgol Gynradd Pen Y Bryn, roi cyfle i staff Ysgol Gynradd Pen Y Bryn weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd. Gallai hyn wella addysgu cynhwysol yr ysgol ac mae o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.

Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i rannu defnydd o rai cyfleusterau os ystyrir bod hyn o fudd i bob un o'r ysgolion.

Ni ragwelir y bydd sefydlu darpariaeth CAA yn Ysgol Gynradd Moorland yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Gallai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd wella addysgu cynhwysol yr ysgol ac o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.

Trefniadau derbyn

Does dim cynlluniau ar waith i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk.

Rheolir derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol gan y Cyngor, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). O dan y Cod ADY, bydd y lleoliad yn destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Byddai'r capasiti arfaethedig ar gyfer 20 o ddisgyblion yn ychwanegol at gapasiti lleoedd prif ffrwd yn yr ysgol.

Trefniadau Teithio Dysgwyr

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac o ysgolion.

Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth â thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafndiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y'i mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw anabledd sydd gan blentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA).

Materion Ariannol

Cymeradwywyd Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2017, gan gynnwys prosiect Ysgol Arbennig The Court. Nid yw Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cymeradwyo cyllideb y prosiect unigol yn ffurfiol, ond wedi rhoi eu cefnogaeth mewn egwyddor i bob prosiect o fewn rhaglen Band B Cyngor Caerdydd.

Mae'r costau rhagamcanol cyffredinol ar gyfer y prosiect wedi'u cynnwys yn y rhagolwg llif arian Band B presennol, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth Cymru (75%) a benthycu Buddsoddi i Arbed Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor (25%). Bydd unrhyw gostau refeniw mewn perthynas â'r cynlluniau hyn, gan gynnwys costau ariannu cyfalaf, yn cael eu hariannu drwy Gronfa Refeniw CTY y Cyngor.

Mae'r cynigion hyn yn cynnwys creu lleoedd ysgol ychwanegol y byddai angen eu hariannu o'r gyllideb ysgolion dirprwyedig bresennol. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i nodi i ba raddau y gellir talu'r costau ychwanegol drwy arbedion heb ychwanegu pwysau sylweddol at gyllidebau cyffredinol ysgolion.

Bydd Uned Blynnyddoedd Cynnar Moorland yn cael ei hariannu'n rhannol gan grant Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru, gyda gweddill i'w hariannu o gyllideb Adnewyddu Asedau Addysg. Er mwyn sicrhau cyllideb ddigonol bydd angen blaenoriaethu'r cynllun hwn o fewn y rhaglen adnewyddu asedau bresennol, gyda chyllid ychwanegol ar gael drwy ddyraniad Buddsoddi i Arbed y gyllideb gyfalaf ar gyfer ysgolion.

Darpariaeth iechyd

Bydd gan y cynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn oblygiadau i iechyd a gwasanaethau arbenigol eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ffactor ychwanegol yw Deddf Diwygio ADY 2018, a fydd yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd i iechyd, addysg a gofal cymdeithasol gydweithio i gydlynu asesu a darparu. Bydd Deddf 2018 yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd ac unedau cyfeirio disgyblion. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, a oruchwylir gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr o iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a rhieni, yn llywio dyluniad y ddarpariaeth arbenigol.

Trefniadau Llywodraethiant

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethu sy'n deillio o'r cynigion hyn.

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Mae lefel anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae hyn wedi bod yn newid dros y 4-5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o ADY, ym mhob maes angen.

Cynhaliwyd adolygiad o ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i lywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP). Nododd ysgolion nifer fach ond arwyddocaol o enghreifftiau o ddisgyblion ag ADY yn gadael y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn dewis yn hytrach ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg os oes gan eu plentyn ADY, drwy bryder y gallai fod angen i'w plentyn drosglwyddo i'r sector arbenigol yn ddiweddarach.

Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.

Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, o fewn dalgyllch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle sefydlir y ganolfan uwchradd. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chefnogi ystod o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau lleferydd ac iaith ac awtistiaeth.

Yn 2021 mae galw cynyddol am ganolfannau adnoddau ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, sy'n gyflawnwyr uchel ar gyfartaledd, a byddai angen model cymorth mwy integreiddiol na'r hyn a ddarperir gan y ddwy ganolfan bresennol. Ar hyn o bryd mae 8 dysgwr oedran uwchradd, a 15 dysgwr oed cynradd a fyddai'n elwa o leoliad mewn canolfan Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig. Mae hon yn flaenoriaeth byrdymor, o ystyried y risg, os bydd y lleoliadau presennol yn methu, mai'r unig opsiwn fyddai cynnig trosglwyddiad i leoliad cyfrwng Saesneg.

Mae dosbarth lles cynradd wedi'i sefydlu, a gynhelir yn Ysgol Gynradd Pen y Groes. Mae'r dosbarth lles yn gweithio'n hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion mewn gwahanol gyfnodau oedran, neu i ddarparu model allgymorth, yn dibynnu ar yr angen presennol.

Er mwyn cefnogi anghenion iechyd a lles emosiynol yn y cyfnod uwchradd, mae canolfan 'rithwir'/UCD wedi'i threialu ar draws y tair ysgol uwchradd, gan ddechrau yn 2018. Disgwylir i'r peilot gael ei adolygu ymhellach yn 2021.

Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y tair ysgol gyfleusterau a llety digonol i ddarparu darpariaeth Cam 3 a 4 effeithiol, wedi'i hategu gan y ganolfan rithwir/UCD. Yn y tymor canolig, bydd angen lleoliad sefydlog ar y ganolfan rithwir / UCD yn un o'r ysgolion, gyda llety dynodedig, er mwyn lleihau'r risg y gallai fod angen i bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth adael y sector Cymraeg i gael mynediad at ddarpariaeth fwy arbenigol.

Wrth i'r sector Cymreig barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag ADY cymhleth.

Mae nifer cyfyngedig o staff addysgu cymwys a phrofiadol ADY, o'i gymharu â'r sector yn Lloegr. Bydd angen i unrhyw gynllun i ddatblygu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg gael ei gefnogi gan Gynllun Datblygu'r Gweithlu ADY.

Yn unol â'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid ar Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd i ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd newydd ar gyfer y ddinas. Disgwylir y bydd y cynllun ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hydref 2021 cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022. Bydd y Cynllun 10 mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032.

Bydd ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft yn ceisio barn ar y ffordd orau o dyfu addysg cyfrwng Cymraeg a sut i gyrraedd y targedau lleol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn llywio cynigion yn y dyfodol. Bydd y Rhaglen yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EAG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a gynigir yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen. Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd asesiad effaith ar gydraddoldeb arall yn cael ei wneud ar yr adeg dylunio. Byddai hyn yn nodi hygyrchedd i'r ddarpariaeth newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisiau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, NCT 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis, BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol.

Effaith Gymunedol

Ystyrir y canlynol wrth ystyried cynnig: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, swm a thagfeydd. Bydd yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion hyn a'r Cyngor yn gweithio gydag unrhyw grwpiau cymunedol i sicrhau bod y cynigion yn osgoi unrhyw effeithiau negyddol os yn bosibl.

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer y cynigion hyn ac mae ar gael i'w weld yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae rhaglen Band B Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol, ynghyd ag annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect Ysgol yn ystyried materion trafniadaeth allweddol pan fyddant yn cael eu cynllunio ac mae angen i'r cwmni ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i ysgolion.

Gyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ar draws y ddinas, gellir lleihau symudiadau myfyrwyr ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

Er mwyn gwneud y mwyaf o effaith hirdymor y buddsoddiad sylweddol hwn, byddai unrhyw ddyluniad a gymerir ar gyfer pob ysgol a gynhwysir yn y cynnig hwn yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod cyfleusterau modern o ansawdd uchel yn cael eu darparu sy'n gallu ymateb i anghenion y poblogaethau disgyblion presennol a chefnogi'r gwaith o ddarparu dulliau addysgu a dysgu effeithiol. Byddent hefyd yn ymgorffori'r hyblygrwydd i ystyried newidiadau yn dibynnu ar yr angen wrth i amser fynd yn ei flaen; megis demograffeg newidiol a niferoedd disgyblion, newid y cwricwlwm a newid mathau o anghenion disgyblion.

Amhariad Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion sydd wedi'u meddiannu o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr ac sy'n tyfu.

Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn i sicrhau bod y cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflawni a bod safonau addysg uchel a safonau diogelwch yn cael eu cynnal.

Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

Beth sy'n digwydd nesaf?

Dyddiadau allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion y Cyngor wedyn yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor i roi gwybod i aelodau etholedig am farn rhanddeiliaid, ac i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 21 isod:

Table 17: Camau yn y dyfodol (Mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn newid).

Tabl 17: Camau yn y dyfodol	
Proses Statudol	Amserlen
Y Cyfnod Ymgynghori	11 Hydref - 22 Tachwedd 2021
Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor	Ionawr 2022
Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu wedi cyflwyno'r hysbysiad statudol (ar ôl gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol)	Mai 2022
Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben	Mehefin 2022
(Pennu) Y penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor	Gorffennaf 2022
Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet	Gorffennaf 2022

Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 11 Hydref 2021 ac yn dod i ben ar 22 Tachwedd 2021

Gweler tudalen 46 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

Gallwch ofyn am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir ai peidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad statudol hwn ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copïau o'r hysbysiad yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt. Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu gwneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Penderfynu ar y Cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Hysbysu'r Penderfyniad

Wedi penderfynu, byddai Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i bawb y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth oedd y penderfyniad hwnnw. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Dweud eich dweud!

Gallwch gwblhau'r ffurflen ymateb hwn ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Rydym yn cynnig:

- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig The Court o 42 i 72 o leoedd. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i lety adeiladu newydd ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac i safle presennol Ysgol Gynradd Llaneirwg, EgCym yn Llanrhymni, gyda 36 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) gydag 20 lle ar gyfer hyd at 20 o blant oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth (ADC) yn Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2022.

A ydych chi'n ymateb fel (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- | | |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Rhiant neu Warcheidwad* | <input type="checkbox"/> Mam-gu/Tad-cu* |
| <input type="checkbox"/> Aelod o staff* | <input type="checkbox"/> Disgybl* |
| <input type="checkbox"/> Llywodraethwr* | <input type="checkbox"/> Preswlydd Lleol |
| <input type="checkbox"/> Arall (rhowch fanylion) _____ | |

*Rhowch enw'r ysgol(ion)
rydych yn gysylltiedig â hi/nhw?

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig The Court o 42 i 72 o leoedd?

- Ydw Nac ydw Dim barn

Esboniwch pam:

2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Arbennig The Court i adeiladau newydd ar draws dau safle yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed a safle presennol Ysgol Gynradd EgCym Lloneirwg yn Llanrhymni?

Ydw

Nac ydw

Dim barn

Esboniwch pam:

3. A ydych yn cefnogi'r cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer plant oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2022?

Ydw

Nac ydw

Dim barn

Esboniwch pam:

4. A oes unrhyw newidiadau y credwch y gallent wella'r cynigion hyn?

5. A oes unrhyw opsiynau eraill yr hoffech eu hawgrymu?

6. A oes unrhyw sylwadau eraill gennych?

Enw _____

Cyfeiriad: _____

Cod Post _____

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **22 Tachwedd 2021**.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni gysylltu â chi.

Diolch ichi am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon i'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW erbyn 22 Tachwedd 2021

AMDANOCH CHI

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- Dan 16 oed 25-34 45-54 65-74 Mae'n well gennyf beidio â dweud
 16-24 35-44 55-64 75+

Ydych chi yn.....?

- Benyw Gwryw Arall Mae'n well gennyf beidio â dweud

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- Byddwn Nac oes Mae'n well gennyf beidio â dweud

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- Byddar/Wedi colli clyw/Yn drwm eich clyw Nam ar y golwg Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor
(e.e. canser, diabetes neu asthma)
 Anawsterau iechyd meddwl Defnyddiwr cadair olwyn Mae'n well gennyf beidio â dweud
 Nam/anawsterau dysgu Nam symudedd Arall

Rhowch fanylion _____

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad gartref, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Bangladeshaidd
 Gwyn - Gwyddelig Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd
 Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Unrhyw gefndir arall
 Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd
 Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Caribïaidd
 Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Unrhyw gefndir arall
 Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd Arabaidd
 Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion)
 Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd
 Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Pacistanaidd

Mae'n well gennyf beidio â dweud

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Mae angen prosesu data personol er mwyn cyflawni tasgau penodol er budd y cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori 2021

GWELLA DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL
IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY):
YSGOL GREENHILL

13 RHAGFYR 2021 – 31 IONAWR 2022



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar **029 2087 2720** er mwyn trefnu hyn



Tudalen 732



Tabl Cynnwys

Cyflwyniad

- Llyfryn am beth yw hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Ymgynghoriad

- Gyda phwy ydym ni'n ymgynghori?
- Barn plant ar y cynigion arfaethedig
- Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B?

- Darparu lleoedd ysgol
- Cyflwr ac Addasrwydd

Cefndir

- Dull o Gefnogi ADY yng Nghaerdydd
- Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Darpariaeth Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol Uwchradd ac Ôl-16 (11-19 oed)

- Y Ddarpariaeth Bresennol
- Y Galw a Ragwelir am Lleoedd Iechyd a Lles Emosiynol - Cyfnod Oedran Uwchradd 11-16
- Y Galw a Ragwelir am Lleoedd Iechyd a Lles Emosiynol - Cyfnod Oedran Uwchradd ôl-16.
- Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol ôl-16

Cynigion ar gyfer Ysgol Greenhill

- Ysgol Greenhill
- Nifer y llefydd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Safle Canolfan Arddio Dutch
- Tŷ Glas, Safle Llanisien
- Map o'r Safle

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categorioidio ysgolion gan Lywodraeth Cymru
- Ansawdd a Safonau yn Ysgol Greenhill

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newidiadau arfathedig?

Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

Risgiau sydd ynghlwm â'r newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Beth fydd yn digwydd gyda safle presennol Ysgol Greenhill?

Materion Adnoddau Dynol

Trefniadau Teithio Dysgwyr

- Trafnidiaeth i Ysgol Greenhill yn y Safle Arfaethedig yng Nghanolfan Arddio Dutch
- Trafnidiaeth i Ysgol Greenhill yn y Safle Arfaethedig yn y Tŷ Glas, Llanisien

Materion Ariannol

Darpariaeth Iechyd

Trefniadau Derbyn

Trefniadau Llywodraethiant

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Cydraddoldeb

Effaith Gymunedol

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Amhariad Posibl i Ddisgyblion

Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Dyddiadau allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Adroddiad Gwrthwynebu
- Penderfynu ar y Cynigion
- Hysbysu'r Penderfyniad

Dweud eich dweud

- Ffurflen ymateb i ymgynghoriad

Cyflwyniad

Llyfryn am beth yw hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd. Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant sy'n mynychu, neu'n disgwyl mynychu, Ysgol Greenhill a'r rhai sydd wedi gweithio neu ar hyn o bryd yn gweithio gyda phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'n nodi'r newidiadau rydym yn eu hawgrymu i ddarparu lleoedd ysgol arbennig o ansawdd uchel i blant 11-19 oed sydd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Greenhill, a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw cynyddol am lleoedd ysgol arbennig i ddysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol, cynigir:

- **cynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd.**
- **trosglwyddo ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle ar safle Canolfan Arddio Dutch, Maes Y Bryn Road (ger yr M4 Cyffordd 30) a Tŷ Glas Road yn Llanisien, gydag 80 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.**

Nodwch fod y gwaith o ddatblygu'r cynnig hwn yn gynnar. Byddai unrhyw gynllun ysgol manwl neu gynlluniau safle yn cael eu hystyried yn ddiweddarach. Byddai cyfleoedd i roi sylwadau ar gynlluniau manwl yn ystod y camau cyn cynllunio a chais cynllunio, pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ADY ar gyfer plant ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r Cyngor yn bwriadu sefydlu dwy Ganolfan Arbenigol ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Byddai pob un o'r canolfannau hyn yn darparu 20 lle. Gallwch weld mwy o fanylion am y cynigion hyn yn

www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Ymgynghoriad

Gyda phwy ydym ni'n ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl roi eu barn i ni.

Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:

Tabl 1: Grwpiau y mae'r Cyngor yn ymgynghori â nhw	
Plant a phobl ifanc	Gweinidogion Cymru
Rhieni / gofalwyr	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Staff ysgol	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CACCCD)
Cyrff Llywodraethu Ysgolion	Comisiynydd y Gymraeg
Preswylwyr lleol	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
Busnesau a sefydliadau lleol	Undebau Llafur
Cynghorau Cymuned	Darparwyr gofal plant
Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS) /Aelodau Seneddol (ASau)	Mudiad Meithrin
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru
Awdurdodau Cynddogol	Clybiau Plant Cymru Kids Club
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cynddogol o fewn Caerdydd	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Estyn	Fforwm Addysg Gymraeg
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Sefydliadau y Sector Gwirfoddol
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	Comisiynydd Traffig Cymru

Barn plant ar y cynigion arfaethedig

Mae Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r ffordd y darperir addysg. Mae'n bwysig gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion pan fyddwn yn cyflwyno cynigion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn Ysgol Greenhill a bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor ar www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Os na allwch gael mynediad i'r dogfennau ar-lein, bydd copiâu print ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio **029 2087 2720**.

Byddwn yn dweud wrth deuluoedd gyda phlant yn Ysgol Greenhill sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.

Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhoi i breswylwyr a busnesau yn agos at safleoedd yr ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion.

Cynhelir cyfarfodydd ar-lein lle bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Os hoffech fynd i gyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa gyfarfod yr hoffech fod yn bresennol ynddo a byddwn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod hwn.

Bydd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â Chorff Llywodraethu a staff Ysgol Greenhill.

Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i ddweud beth yw eich barn wrthym.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus wedi eu nodi isod:

Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori		
Natur yr Ymgynghoriad	Dyddiad / Amser	Lleoliad
Cyfarfod cyhoeddus ar-lein	Dydd Mercher 12 Ionawr 5:30pm	Ar-lein drwy Microsoft Teams
Sesiynau galw heibio	Ar gais drwy e-bostio: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk	Ar-lein drwy Microsoft Teams

Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym ni beth rydych yn feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Mynychu un o'r cyfarfodydd neu'r sesiynau galw heibio a restrir uchod.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Cwblhau y ffurflen ymateb i ymgynghoriad, sydd i'w chael ar dudalen 35.
- Cysylltu â'r tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk dros y ffôn ar (029) 2087 2720 neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 31 Ionawr 2022

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Sylwer ar y termau canlynol a ddefnyddir gydol y ddogfen hon:

ADY - Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddo anawsterau sy'n cael effaith hirdymor sylweddol ar eu dysgu. Gall anawsterau fod yn gysylltiedig â dysgu; cyfathrebu a rhyngweithio; anabledd corfforol neu synhwyraidd; neu ddatblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

Cyllid cyfalaf i ysgolion - arian a ddefnyddir i godi adeiladau ysgol newydd neu wella cyfleusterau sy'n bod eisoes.

Ysgolion Cymunedol - ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor sydd yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

Anghenion Dysgu Cymhleth - mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth amrywiaeth o faterion a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu, anableddau corfforol neu synhwyraidd.

Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) - darpariaeth addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am wahanol resymau, fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae EOTAS yn cyfeirio at addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac nid yw'n cwmpasu addysg ddewisol yn y cartref.

Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol - mae gan blant a phobl ifanc ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol broblemau o ran meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn effeithio ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill, y dewisiadau a wnânt. Weithiau mae hyn o ganlyniad i drawma. Gall plant a phobl ifanc arddangos pryder, hunan-barch isel, ffobia ysgol, neu anawsterau ymddygiadol.

Prif ffrwd - mae ysgol prif ffrwd yn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor nad yw'n ysgol arbennig. Nid yw ysgolion prif ffrwd/arbennig a gynhelir gan y Cyngor yn ddewisol ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr dalu ffioedd.

Data Nifer ar y Gofrestr - nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

CYBLD - Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

Gweithredu gan yr Ysgol - Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy - Pan fo arbenigwyr o'r tu allan yn helpu'r dosbarth neu staff ysgol i roi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn wahanol neu yn ychwanegol i gymorth a roddir drwy Gweithredu gan yr Ysgol.

Ysgol Arbennig - ysgol ar gyfer plant ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol prif ffrwd. Mae gan ddisgyblion ysgol arbennig ddatganiad AAA, neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Canolfan Adnoddau Arbennig (CAA) - Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. Mae gan bob disgybl sy'n mynychu CAA ddatganiad AAA ac fe'u haddysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwyrwyr cymorth dysgu, ac maent yn cael cyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu â disgyblion prif ffrwd eraill.

Dosbarthiadau Lles - Mae Caerdydd hefyd yn ariannu nifer o ddsbarthiadau lles sy'n darparu cymorth dwys tymor byr i blant a phobl ifanc sy'n arddangos anghenion iechyd a lles emosiynol, i gefnogi eu lleoliad parhaus yn eu hysgol brif ffrwd leol. Mae lleoliad mewn Dosbarth Lles dros dro ar gyfer blwyddyn: mae'r plentyn yn parhau i fod ar y gofrestr yn ei ysgol leol ac fe'u cefnogir i ddychwelyd yn llawn amser i'w hysgol leol erbyn diwedd y rhaglen.

Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif?

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol fawr, hirdymor. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Cynhaliwyd rhan gyntaf y Rhaglen (Band A) tan fis Mawrth 2019.

Dechreuodd ail ran y cyllid hwn (Band B) ym mis Ebrill 2019. Fel rhan o hyn, mae Cyngor Caerdydd yn cynllunio rhaglen fuddsoddi o tua £284 miliwn.

Mae cynigion Band B Caerdydd yn canolbwyntio ar:

- ddarparu digon o leoedd ysgol ar draws y ddinas sydd yn y lle iawn
- darparu cyfleusterau addysgol o ansawdd uchel a fydd yn bodloni gofynion amrywiol y 21 Ganrif
- gwneud y defnydd gorau posibl o gyfleusterau addysg er budd y gymuned ehangach ledled Caerdydd.
- sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Darparu lleoedd ysgol

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau eu bod yn darparu digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o bob oed.

Rhaid i lefydd ysgol ateb anghenion yr holl ddisgyblion a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn darparu addysg o'r ansawdd gorau mae'n bwysig bod cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae hyn yn golygu cyfateb nifer y plant i nifer y lleoedd ysgol mor agos â phosibl.

Cyflwr ac Addasrwydd

Yn ogystal â chael y nifer iawn o leoedd mewn ysgolion, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfleusterau'r ysgol yn addas i'r diben. Rhaid i ysgolion gefnogi cyflwyno dysgu o ansawdd uchel i'w disgyblion.

Mae gan Gaerdydd ystâd addysg fawr iawn gyda dros 127 o eiddo ysgol. Mae llawer o safleoedd yn cynnwys blociau lluosog, a adeiladwyd yn ystod degawdau gwahanol. Mae nifer fawr o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig mewn cyflwr gwael.

Rhodddwyd sylw i werth tua £17m, neu 14%, o faterion cynnal a chadw a chyflwr yr ystâd drwy raglen fuddsoddi Ysgolion y 21 Ganrif Band A. Bu buddsoddiad sylweddol yn y gwaith o adeiladu dwy ysgol uwchradd newydd yn Nwyrain a Gorllewin y Ddinas, darpariaeth ysgol gynradd newydd a gwaith addasrwydd a wnaed mewn ysgolion cynradd.

Pam ehangu lleoedd Ysgol Arbennig?

Mae gweledigaeth Caerdydd ar gyfer addysg a dysgu yng Nghaerdydd yn 2030 yn gosod nod o 'Hawl Dysgu', lle gall pob plentyn a pherson ifanc:

- gael mynediad at lwybrau priodol i gyfleoedd addysg a dysgu
- ffynnu a chyflawni
- gwireddu eu breuddwydion a'u huchelgeisiau unigol

Er mwyn gwella deilliannau dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd, y mae llawer ohonynt yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysg a dysgu, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn allweddol.

(Mae gweledigaeth Caerdydd ar gyfer 2030 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/caerdydd2030.)

Cefndir

Y Dull o Gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd

Mae ymagwedd effeithiol a chynhwysol o gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Ysgolion a lleoliadau sy'n cyflwyno cwricwlwm arloesol gyda dulliau effeithiol o addysgu a dysgu yn yr ysgol gyfan; iechyd a lles emosiynol.
- Gwasanaethau arbenigol rhagorol i wella gallu ysgolion a lleoliadau eraill i gynnwys plant a phobl ifanc ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol
- Nodi'n gynnar yn effeithiol ac ymyrraeth sy'n seiliedig ar ymchwil er mwyn atal anghenion dysgu ychwanegol rhag dwysáu lle bynnag y bo modd
- Lefelau uchel o hygyrchedd ym mhob adeilad ysgol gyda digon o lety hyblyg ym mhob ysgol sy'n briodol i oedran a chyfnod y dysgu
- Partneriaethau cryf i sicrhau ymateb cyfannol, cydweithredol i anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau plant ac oedolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac Addysg Bellach).
- Cynllunio pontio amlasiantaethol effeithiol ar bob cam, o'r blynyddoedd cynnar hyd at gyrchfannau cynradd, uwchradd, ôl-16 ac oedolion, i gefnogi mynediad yn ddi-oed

Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbenigol.

Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol, wedi parhau i dyfu.

Mae hyn oherwydd:

- Mae'r boblogaeth disgyblion yn newid, gyda charfanau mwy o ddisgyblion oedran ysgol gynradd bellach yn symud drwedd i'r cyfnod oedran uwchradd.
- Cyfraddau goroesi gwell ar gyfer plant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddisgyblion ag anableddau difrifol a chymhleth.
- Mwy o gymhlethdod o ran anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu. Mae'r ystod o arbenigedd, cymorth arbenigol a chyfleusterau sydd eu hangen mewn ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol hefyd wedi cynyddu.
- Mwy o achosion ac adnabod anghenion penodol fel awtistiaeth, ADCG, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau.
- Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19, ond mae wedi'i waethygu gan gau ysgolion a mesurau eraill i reoli'r pandemig.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd 2,265 o blant yng Nghaerdydd gyda datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Wrth i'r boblogaeth dyfu, felly hefyd nifer y plant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol a chymhleth.

Yn 2020/21:

- Ariannwyd 1,116 o leoedd mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol neu ysgolion arbennig gan Gyngor Caerdydd
- Roedd 48 o leoedd dros dro i ddysgwyr ar gael mewn Dosbarthiadau Lles a Dosbarthiadau Lleferydd ac Iaith
- Roedd 90 o leoedd ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

Er bod nifer o leoliadau arbenigol presennol ledled Caerdydd, nid oes digon o leoedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd eraill o'r Cyngor neu mewn ysgolion annibynnol. Cyfanswm y gwariant ar yr holl ddarpariaeth 'y tu allan i'r sir' oedd £6.3m yn 2020/21. Mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 wedi'i phennu ar hyn o bryd yn £7.3m.

Mae gwariant ar leoedd annibynnol a lleoedd ysgol arbennig mewn ardaloedd Cyngor cyfagos wedi cynyddu i £3.8m yn 2020/21. O hyn, mae tua £2.5m wedi ariannu lleoedd arbenigol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag Iechyd Emosiynol ac Anghenion Lles. Efallai bod rhai o'r dysgwyr hyn wedi gallu cael eu lleoli yn Ysgol Greenhill pe bai mwy o leoedd ar gael. Heb fuddsoddi mewn lleoedd ychwanegol, byddai disgwyl i gost y lleoedd hyn dyfu'n sylweddol yn y dyfodol.

Y gost i'r Cyngor o drafnidiaeth ysgol i ddysgwyr ag Iechyd Emosiynol ac Anghenion Lles i'r lleoliadau hyn yw, ar gyfartaledd, £6,000 y plentyn yn 2018/19 (y flwyddyn ddiweddaraf yw'r cyfyngiadau cyn Covid).

Darpariaeth Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol Uwchradd ac Ôl-16 (11-19 oed)

Y Ddarpariaeth Bresennol

Yn 2020/21 mae cyfanswm o 172 o leoedd anghenion iechyd a lles emosiynol arbenigol (11-16 oed) arbenigol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd (gan gynnwys lleoedd a gomisiynir gan Addysg Heblaw yn yr Ysgol).

Mae Tabl 3 yn nodi'r ddarpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol cyfnod uwchradd sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd yn ôl ystod oedran.

Sefydliad	11-14 oed (Cyfnod allweddol 3)	14-16 oed (Cyfnod Allweddol 4)	Ôl-16 (Cyfnod Allweddol 5)	Cyfanswm
Ysgol Greenhill	32	24	8	64
Canolfan Carnegie	-	28	-	28
Bryn y Deryn	-	48	-	48
ACT arbennig	-	40	-	40
Cyfanswm y ddarpariaeth	32	140	8	180

Mae'r sefydliadau hyn i gyd yn rhai cyfrwng Saesneg. Maent yn rhyw gymysg ac yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion na ellir eu diwallu mewn ysgolion prif ffrwd:

- Mae Ysgol Greenhill yn darparu ar gyfer dysgwyr o 11-19 oed sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol sylweddol.
- Mae gan Ganolfan Carnegie ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sydd ag anghenion gorbryder ac iechyd meddwl sy'n eu hatal rhag mynychu ysgol prif ffrwd.
- Mae Bryn y Deryn yn Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 (14 – 16 oed). Mae gan bob un o'r dysgwyr anghenion emosiynol a lles sylweddol.
- Mae ACT yn ddarpariaeth bartner a gomisiynwyd gan y Cyngor ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 (11 – 16 oed).

Y Galw a Ragwelir am Leoedd Iechyd a Lles Emosiynol - Cyfnod Oedran Uwchradd (11-16)

Yn 2021/22 mae cyfanswm o 172 o leoedd Iechyd a Lles Emosiynol arbenigol Cyfnod Allweddol 3/4 yn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd (gan gynnwys addysg heblaw yn yr Ysgol).

Gan ystyried disgyblion sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion y tu allan i Gaerdydd, a'r rhai yn y brif ffrwd sy'n aros am leoliad arbenigol, amcangyfrifir mai tua 322 yw cyfanswm y galw am leoedd yn 2021/22. Rhagwelir y bydd hyn yn codi i 348 erbyn 2025/26.

Gan ganiatáu gwarged o 10% i gefnogi hyblygrwydd, disgwylir y byddai 354 o leoedd yn 2021/22, a 383 o leoedd erbyn 2025/26, yn darparu digon o gapasiti ar gyfer y galw a ragwelir. I grynhoi, amcangyfrifir bod diffyg o 182 o leoedd yn 2021/22, gan godi i 211 erbyn 2025/26.

Mae Tabl 4 yn nodi'r galw Iechyd a Lles Emosiynol Uwchradd a ragwelir yn y dyfodol yn seiliedig ar batrymau hanesyddol o dwf angen

Tabl 4					
Llefydd ILIE uwchradd	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Rhagamcan o alw CA3	122	125	127	129	129
Rhagamcan o alw CA3 (+10%)	134	138	140	142	142
Diffyg CA3	102	106	108	110	110
Rhagamcan o alw CA4	200	210	217	218	219
Rhagamcan o alw CA4 (+10%)	220	231	239	240	241
Diffyg CA4	80	91	99	100	101
Rhagamcan o alw ôl-16	25	27	28	31	32
Rhagamcan o alw ôl-16 (+10%)	27	29	31	34	36
Diffyg Ôl-16	19	21	23	26	28
Cyfanswm Diffyg	201	218	230	236	239

Y galw a ragwelir am Leoedd Iechyd a Lles Emosiynol - Ôl-16

Tan 2018, nid oedd Caerdydd yn cynnal unrhyw leoedd ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag anghenion Iechyd a Lles Emosiynol, er bod lleoedd a ariennir yn y sector annibynnol yn aml yn caniatáu i ddisgwyr barhau â'u hastudiaethau hyd at 19 oed. Cafodd wyth lle ôl-16 eu sefydlu yn Greenhill yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol yn 2018. Mae nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru eisoes wedi codi i 15 yn 2021-22.

Mae'n anodd rhagweld yn gywir y galw am leoedd yn y grŵp oedran hwn, oherwydd diffyg patrymau galw i seilio amcanestyniadau arnynt. Mae'n hysbys nad yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol arbennig yn gallu cynnal cyfnod pontio llwyddiannus i addysg bellach neu gyflogaeth yn 16 oed. Mae'r galw a ragwelir a nodir yn nhabl 4 uchod yn seiliedig ar y diffyg darpariaeth hysbys, h.y. y disgyblion hynny sy'n 16-19 oed mewn lleoliadau annibynnol.

Yn ddelfrydol, dylai darpariaeth ysgolion arbennig uwchradd gynnwys darpariaeth ôl-16 gyda lle i'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA4 aros ymlaen nes eu bod yn 18 neu'n 19 oed. Byddai hyn yn golygu y dylai ysgol arbennig ar gyfer 56 o ddisgwyr CA3/4 gynnwys 24 o leoedd ôl-16.

Ysgol Greenhill

Mae Ysgol Greenhill yn ysgol arbennig cyfrwng Saesneg ar gyfer dysgwyr 11 – 19 oed ledled y ddinas. Mae gan bob un o'r plant anghenion iechyd a lles emosiynol sylweddol (dynodiad CYBLD yw Ymddygiad Anawsterau Emosiynol a Chymdeithasol – AYECh).



Mae Ysgol Greenhill yn ysgol rhyw gymysg er bod pob dysgwr ar y gofrestr ar hyn o bryd yn fachgen. Byddai'r ysgol yn parhau i fod yn ysgol rhyw gymysg yn y dyfodol,

Ymgynghorodd y Cyngor ar gynigion i ymestyn ystod oedran yr ysgol o 11-16 i 11-19, ac i gynyddu capasiti'r ysgol o 56 lle i 64 o leoedd, yng ngwanwyn 2018. Pennwyd y cynigion gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2018. Erbyn hyn mae gan yr ysgol gapasiti parhaol o 64 o leoedd.

Mae gan bob disgybl sydd wedi cofrestru yn Ysgol Greenhill ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r broses asesu statudol ar gyfer y bobl ifanc hyn wedi nodi na ellir diwallu eu hanghenion dysgu ychwanegol mewn amgylchedd llai arbenigol.

Diben Ysgol Arbennig Greenhill yw darparu amgylchedd dysgu a chwricwlwm arbenigol, lle gall dysgwyr gyflawni eu potensial.



Cynigion ar gyfer Ysgol Greenhill

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion arbennig uwchradd i ddysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol, cynigir:

- Cynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd.
- Trosglwyddo ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle ar safle Canolfan Arddio Dutch, Maes Y Bryn Road (ger yr M4 Cyffordd 30) a Tŷ Glas Road yn Llanisien, gydag 80 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.

Byddai ehangu Greenhill dros ddau safle, pob un o'r 80 lle, yn cefnogi'r ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ymhellach a byddai'n ei galluogi i drawsnewid cyfleoedd dysgu ar gyfer nifer fwy o ddysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd mewn amgylchedd dysgu arbenigol pwrpasol, addas i'r 21ain ganrif.

Rhagwelir y byddai safle presennol Ysgol Greenhill yn cael ei waredu ar gyfer derbynneb cyfalaf ar ddiwedd y rhaglen adeiladu.

Y galw am lefydd yn yr ysgol

Mae Tabl 5 yn nodi manylion y niferoedd diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Greenhill.

Tabl 5: Niferoedd diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Greenhill (11-19 oed)											
Ysgol	Ionawr 2016 (NG)	Ionawr 2017 (NG)	Ionawr 2018 (NG)	Ionawr 2019 (NG)	Ionawr 2020 (NG)	Ebrill 2021 (NG)	Rhagfynegiad 2021/2022	Rhagfynegiad 2022/2023	Rhagfynegiad 2023/2024	Rhagfynegiad 2024/2025	Rhagfynegiad 2025/2026
Ysgol Greenhill	47	56	53	56	61	64	64*	64*	64*	64*	80

* wedi'i gapio i gapasiti presennol yr ysgol.

Gweler tabl 4, t12 am amcanestyniad llawn o'r galw yn y dyfodol am leoedd Iechyd a Lles Emosiynol arbenigol yng Nghyfnod Allweddol 3 (11-14 oed), Cyfnod Allweddol 4 (14-16 oed) a Chyfnod Allweddol 5 (16-19 oed).



Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

Tabl 6 Sgorau cyflwr ac addasrwydd

Sgôr	Cyflwr	Addasrwydd
A	Da a gweithredu'n effeithlon	Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol
B	Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio.	Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.
C	Gwael a diffygion mawr.	Gwael. Llesteirio dulliau addysgu / effaith wael ar drefn yr ysgol.
D	Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol.	Gwael iawn. Adeiladau'n llesteirio'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm.

Mae Ysgol Greenhill yn cael ei graddio'n C am gyflwr (Gwael gyda diffygion mawr) a D (Gwael iawn) ar gyfer addasrwydd, gydag amgylcheddau dysgu 'anaddas', sy'n atal gallu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm yn ddifrifol.

Safle Canolfan Arddio Dutch

Ym mis Chwefror 2018, cytunodd Cabinet y Cyngor i gaffael tir gerllaw Cyffordd 30 yr M4. Mae cyfanswm arwynebedd y safle yn mesur c2.84Ha ac ar hyn o bryd mae'n cael ei feddiannu gan Ganolfan Arddio Dutch.

Amlinellodd Adroddiad y Cabinet fod gan y safle nifer o ddefnyddiau posibl, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol / cyfleusterau ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig. Oherwydd ei leoliad ar gyrion ffin y ddinas, byddai'r safle'n elwa o'r dalgylch eang a wasanaethir gan ysgolion o'r fath gan gynnwys y posibilrwydd o ddarparu lleoliadau y tu allan i'r sir. Mae'r ardal wedi'i dynodi'n Lletem Werdd sy'n golygu y gellir adolygu statws yr ardal yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol.

Er mwyn ystyried y safle hwn ar gyfer ailddatblygu, mae gwaith dichonoldeb pellach a'r asesiadau perthnasol ar gyfer ei leoliad wedi'u cynnal. Mae canfyddiadau'r adroddiadau hyn yn awgrymu y byddai angen cynllunio ysgol newydd ar y safle hwn gyda deunyddiau adeiladu cydymdeimladol a thirlunio sy'n gyson â'i lleoliad. Byddai angen i'r dyluniad a'r tirlunio hefyd ddangos derbynoldeb cynllunio o ran effaith ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd.

Safle Canolfan Arddio Dutch



Byddai maint a lleoliad lled-wledig y safle yn:

- caniatáu i'r safle gael ei ffurfwedu'n addas i greu Ysgol i'r 21ain Ganrif
- cefnogi dysgu yn yr awyr agored, garddwriaeth a gofal anifeiliaid bach fel rhan o'r cwricwlwm
- ategu lleoliad trefol safle Tŷ Glas lle gall myfyrwyr fanteisio ar gyfleoedd y ddinas e.e. hyfforddiant teithio, profiad gwaith a busnesau lleol
- caniatáu cyfleoedd posibl ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir (yn amodol ar argaeledd)
- caniatáu i'r safle wasanaethu ardal eang gydag amseroedd teithio rhesymol o'r cartref i'r ysgol

Safle Tŷ Glas, Llanisien

Ym mis Medi 2021, cytunodd Cabinet y Cyngor i gaffael tir gerllaw ar Tŷ Glas Road a arferai gael ei feddiannu gan CThEM. Mae'r safle cyfan yn ymestyn i c7.2Ha.

Ystyrir y byddai'r safle hwn, gydag ymchwiliad a lliniaru priodol, yn lleoliad ardderchog ar gyfer darpariaeth ysgolion uwchradd prif ffrwd a darpariaeth addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Byddai lleoliad y safle yn:

- ategu lleoliad lled-wledig safle Canolfan Arddio Dutch lle gall myfyrwyr fanteisio ar gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, garddwriaeth a gofal anifeiliaid bach fel rhan o'r cwricwlwm
- Rhoi mynediad i gyfleoedd y ddinas e.e. hyfforddiant teithio, profiad gwaith a busnesau lleol
- Sicrhau potensial da ar gyfer cysylltiadau teithio llesol



Cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys mewn ysgol

Byddai unrhyw adeiladau newydd yn bodloni amodau ariannu Llywodraeth Cymru fel ardystiad BREEAM ac yn cael eu cynllunio yn unol â'r Adran Addysg: Canllawiau ardal sy'n nodi'r cyfleusterau canlynol sydd angen eu cynnwys mewn unrhyw ysgol.

- Man addysgu
- Neuaddau/ardal fwyta fewnol ac allanol
- Ardaloedd adnoddau dysgu
- Staff a gweinyddiaeth
- Storio
- Tai bach a gofal personol
- Cyfleusterau cegin
- Cylchrediad, offer mawr a waliau mewnol
- Ardaloedd neilltuo i gefnogi gweithio mewn grwpiau bach/ Anghenion Dysgu Ychwanegol

Nid yw'r broses ddylunio ar gyfer yr ysgol newydd wedi dechrau eto. Cytunir ar ddyluniadau manwl gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu i'w gweithredu. Byddai mewnbwn plant a phobl ifanc i ddatblygu'r cynllun yn rhan annatod o weithredu'r prosiect ar bob cam.

Byddai cyfleoedd i randdeiliaid rhoi sylwadau ar gynlluniau manwl yn ystod y camau cyn cynllunio a chais cynllunio, pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocera unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 7 isod:

Categori cymorth	Beth yw ystyr y categori
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella.
Ambr	Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach.
Coch	Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth.

Penderfynir ym mha gategori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun gategoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr-2.pdf>

Ysgol Greenhill

Arolygwyd Ysgol Greenhill ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2013.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod perfformiad a rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn 'Dda'.


Rhoddodd asesiad gan Gonsortiw Canolbarth y De yn Hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Mae disgyblion yn gadael yr ysgol gyda chymwysterau cydnabyddedig priodol ac mae'r nifer y maent yn ei ennill yn parhau i godi. Mae pob disgybl yn symud ymlaen i addysg bellach a/neu hyfforddiant neu'n cyflawni lleoliadau gwaith llwyddiannus.
- Er bod y cynnydd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd newidiadau i garfanau a nifer o ddisgyblion sy'n mynd i'r ysgol drwy gydol y flwyddyn, mae cyfraddau cynnydd yn cael eu cyflymu unwaith eto. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cynyddol gyflym ar draws y cwricwlwm cyfan. Mae gwybodaeth am ddisgyblion ysgol yn dangos yn glir bod cyfraddau cynnydd yn gwella'n llwyddiannus o flwyddyn i flwyddyn. Y llynedd gwnaeth 100% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 (y rhai 11-14 oed) gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd.

- Nid oes unrhyw fylchau sylweddol rhwng disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion yn yr ysgol.
- Caiff presenoldeb ei fonitro'n ofalus ac mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda rhieni, gweithwyr cymdeithasol a swyddog lles yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod presenoldeb yn parhau i godi.
- Mae ymddygiad yn parhau i wella'n gyflym ac mae digwyddiadau corfforol ac ymddygiadol yn parhau i ostwng.

Yn y Categorioidio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Greenhill ei chategorioidio'n Wyrdd.

Mae hyn yn golygu bod Ysgol Greenhill yn ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella.



Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (<http://www.addewidcaerdydd.co.uk/>).

Bydd creu amgylcheddau Dysgu'r 21ain Ganrif yn sicrhau bod lleoedd ysgol priodol o ansawdd i bobl ifanc, sy'n bodloni anghenion poblogaeth gynyddol a newidiol Caerdydd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyryff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn dda.

Mae safonau yn Ysgol Greenhill eisoes yn dda; fodd bynnag, mae addasrwydd yr adeilad yn cyfyngu ar y cyfleoedd i'w ddysgwyr. Mae'r diffyg lleoedd o fath tebyg yng Nghaerdydd hefyd yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddysgwyr eraill elwa o'r ddarpariaeth wedi'i theilwra a gynigir yn Greenhill. Byddai trosglwyddo'r ysgol i lety newydd yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel ar gyfer nifer cynyddol o bobl ifanc ag anghenion emosiynol a lles.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, na'r modd y caiff pob cyfnod allweddol arall ei addysgu yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Profïadau dysgu ac addysgu

Byddai'r cyfleusterau ysgol newydd yn cefnogi cyflwyno 'Cwricwlwm Cymru' newydd ar gyfer dysgwyr (3 – 16 oed) sydd i fod i gael ei weithredu yn ysgolion Cymru o fis Medi 2022. Bydd y cwricwlwm newydd yn mabwysiadu ymagwedd sy'n gynhwysol ac wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r angen i baratoi plant a phobl ifanc yng Nghymru i ffynnu a bod yn llwyddiannus mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Cydnabyddir y dylai'r cwricwlwm roi dysg mwy eang a dyfnach, sicrhau cynnydd gwell, rhoi cyfle i ddefnyddio amser a lle gyda mwy o ddychymyg a chreadigrwydd a rhoi llawer mwy o bwyslais ar sgiliau. Bydd cyfleusterau ysgol newydd a gwell yn helpu i gefnogi'r weledigaeth hon.

Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisiâu a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.


Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth gofal ac arweiniad.

Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.



Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 8 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig

yn yr ysgol.

Ysgol	% y disgyblion â datganiad ADY	% y Disgyblion Sy'n Cael Prydau Ysgol am Ddim	% y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt	% y disgyblion o Leiafrif Ethnig
Ysgol Greenhill	100%	75%	-	12.5%

*Gwybodaeth o CYBLD 2021

Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Byddai Greenhill sy'n addas i'r 21ain ganrif yn caniatáu i gyfleusterau gael eu teilwra i anghenion y bobl ifanc sy'n ei defnyddio. Gellir cynllunio cyfleusterau i gyd-fynd â'u hanghenion dysgu a darparu amgylcheddau tawel a strwythuredig i gefnogi dysgu.

Byddai'r arbenigedd presennol yn Ysgol Greenhill yn cael ei gynnal. Byddai'r cyfleusterau ehangu a newydd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac i wella dysgu disgyblion mewn cyfleusterau pwrpasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr ac yn peri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai Ysgol Greenhill yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynlluniau hyn sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y câi'r cynigion effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Beth yw manteision y newidiadau arfathedig?

- Byddai'r cynigion yn cynyddu nifer y lleoedd ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol ac yn cyfrannu at ateb y galw a ragwelir.
- Byddai safle deuol yn cynnig hyblygrwydd ar gyfer rheoli disgyblion, gan ganiatáu iddynt gael eu haddysgu'n agosach i'w cartrefi a darparu gwell darpariaeth arbenigol ar draws y ddinas.
- Byddai safle deuol yn caniatáu ystod ehangach o adnoddau ar gyfer yr ysgol – bydd ganddynt fwy o le i ddatblygu'r cwricwlwm a gynigir, gan gynnig ystod ehangach o brofiadau i ddisgyblion gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored ac agweddau galwedigaethol. Dewiswyd y safleoedd i gynnwys safle mwy gwledig a allai gynnig profiadau dysgu yn yr awyr agored, garddwriaeth, gofal anifeiliaid, tra gallai'r safle mwy trefol gynnig profiadau galwedigaethol a hyfforddiant teithio.
- Byddai'r cynigion yn dileu'r cyflwr is-safonol adeiladau presennol Ysgol Greenhill a byddai'n lleihau'r ôl-gronid o waith cynnal a chadw.
- Mae cyfleusterau adeiladu newydd yn darparu amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel, sy'n gwella dewisiadau dysgu a chyfleoedd i ddisgyblion. Mae gweledigaeth Caerdydd 2030 yn nodi'r angen i ddarparu lleoedd ysgol o ansawdd uchel. Mae amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel yn cael effaith gref ar wella deilliannau disgyblion; Bydd yr ysgolion newydd yn addas i'r 21ain ganrif, sy'n gallu cefnogi amrywiaeth o fentrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn haws i gefnogi dysgwyr ag anghenion Iechyd Emosiynol a Lles, ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, cyfleoedd ymyrraeth gynnar a dull therapiwtig.
- Byddai'r adeiladau newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Byddai agosrwydd safle Canolfan Arddio Dutch i lwybrau ffyrdd mawr yn caniatáu i'r safle wasanaethu ardal eang gydag amseroedd teithio rhesymol o'r cartref i'r ysgol.
- Mae safle Tŷ Glas yn agos at lwybrau trafniadaeth gyhoeddus ac mae ganddo botensial da ar gyfer cysylltiadau teithio llesol.

Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd newid. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri anniddigrwydd. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.
- Nid yw'n hawdd cael mynediad i safle Canolfan Arddio Dutch ar drafndiaeth gyhoeddus ac nid oes ganddo lwybrau teithio llesol ar gyfer cerdded a beicio i'r safle ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae 72% o ddysgwyr Ysgol Greenhill yn teithio i'r ysgol mewn tacsî. Gall y nifer fwyaf o leoedd ar draws y ddinas leihau hyd cyfartalog y daith.
- Mae agosrwydd rhan o safle Canolfan Arddio Dutch i'r M4 yn golygu y byddai angen cynllunio safleoedd priodol a rheoli ymddygiad parhaus disgyblion er mwyn lleddfu unrhyw bryderon ynghylch dysgwyr yn cael mynediad i'r ffordd.
- Mae rhan o safle Canolfan Arddio Dutch yn agos at yr M4 ac efallai y bydd rhai pryderon ynghylch sŵn traffig. Fodd bynnag, prin yw'r ffyrdd eraill gerllaw ac ar gyfer y rhan fwyaf o'r safle byddai'r sŵn traffig yn llai nag mewn llawer o ysgolion trefol yng Nghaerdydd. Byddai sŵn traffig yn cael ei liniaru cyn belled ag y bo modd.
- Mae potensial i ran o'r safle yn Nhŷ Glas gael ei defnyddio ar gyfer ysgol arall a allai fod â phroffiliau ac ymddygiad myfyrwyr gwahanol. Byddai hyn yn cael ei liniaru drwy reoli ymddygiad yn effeithiol, dylunio safleoedd gan gynnwys mynedfeydd ac allanfeydd ar wahân ar gyfer pob ysgol a'r posibilrwydd o amseroedd dechrau a gorffen gwahanol.

Risgiau sydd ynghlwm wrth y newid arfaethedig

- Dylid ymgynghori ar ysgolion newydd yn ystod y cam ffurfiannol o ddatblygu cynigion, cyn astudiaethau dylunio a dichonoldeb helaeth. Er bod hyn yn cyfyngu ar y risg y bydd y Cyngor yn defnyddio ei arian, cyn ymgynghori a phenderfynu, nid oes rhywfaint o wybodaeth am arolygon a chynllunio ar gael eto.
- Efallai y ceir cyfyngiadau datblygu nad sydd yn hysbys eto. Pe deuai unrhyw rai i'r amlwg, gallai fod goblygiadau o ran cost ac oedi. Byddai arolygon safleoedd ac adroddiadau geo-dechnegol yn cael eu cynnal. Byddai rhain yn rhoi rhagor o wybodaeth ac yn llywio'r strategaethau rheoli.
- Efallai na fydd modd cyflawni'r cynnig os na sicheir cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ystod y cam achos busnes.
- Pe na byddai'r Cyngor yn cael y cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru yna'r Cyngor fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn llawn dros yr holl gostau yn ymwneud â'r cynnig. Yn yr achos hwn, byddai opsiynau buddsoddi'n cael eu hadolygu i sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion.

Caiff rhagfynegiadau eu cadw dan adolygiad ac felly bydd amseru cynigion darpariaeth ysgol yn yr ardal yn ystyried newidiadau yn y boblogaeth.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Edrychodd y Cyngor ar nifer o safleoedd ledled y ddinas a fyddai'n darparu ar gyfer disodli ac ehangu Ysgol Greenhill yn y ffordd fwyaf addas.

Roedd maint y safle sydd ei angen i ddarparu ysgol sy'n gallu bodloni'r gofynion ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau yn golygu bod y chwiliad yn cael ei ehangu i dir nad yw o fewn perchnogaeth y Cyngor ar hyn o bryd.

Mae safle presennol yr ysgol yn mesur tua 2.7Ha ac yn lletya hyd at 64 o ddysgwyr. Er bod y safle hwn yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer rhan o gapasiti arfaethedig Greenhill yn y dyfodol, mae cyfyngiadau ar safleoedd yn ei gwneud yn anodd datblygu'r safle hwn fel ysgol addas i'r 21ain ganrif tra bod disgyblion ar y safle.

Byddai adeiladu ysgol newydd ar safle presennol Greenhill, neu ailddatblygu adeiladau presennol yr ysgol, yn effeithio ar addysgu a dysgu a byddai'n amharu'n ormodol ar y dysgwyr sy'n agored i niwed ar ran gyfyngedig iawn o'r safle. Byddai agosrwydd y gwaith i adeilad presennol yr ysgol yn achosi aflonyddwch sylweddol, a byddai hyn yn gwaethygu i'r myfyrwyr hynny sydd â phroblemau synhwyraidd. Mae llawer o gwricwlwm Greenhill yn cael ei gyflwyno yn yr awyr agored, felly byddai'r gallu cyffredinol i weithredu'n effeithiol i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn yn cael ei beryglu'n fawr am gyfnod estynedig.

Felly, mae'r gwaith o ailddatblygu safle Greenhill ar gyfer ysgol newydd wedi'i ddisgowntio.

Beth fydd yn digwydd gyda safle presennol Ysgol Greenhill?

Rhagwelir y byddai'r holl ddisgyblion a staff yn gadael safle presennol Ysgol Greenhill yn 2025.

Rhagwelir y byddai safle presennol Ysgol Greenhill yn cael ei waredu ar gyfer derbynneb cyfalaf ar ddiwedd y rhaglen adeiladu.

Materion Adnoddau Dynol

Byddai'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion ar gyfer Ysgol Greenhill yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gynllunio ar gyfer gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehanghadau. Byddai'r Corff Llywodraethu yn cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â Fframwaith Adnoddau Dynol Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol y Cyngor yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer y prosesau cynllunio gweithlu a recriwtio canlyniadol. Lle mae Cyrff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, byddai unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynnydd yn y niferoedd ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar gofrestr adleoli ysgolion.

Mae'r cynnig yn cynnwys adleoli Ysgol Greenhill gyda'r ysgol yn bwriadu gweithredu trefniadau deuol ar gyfer safleoedd. Byddai hyn yn gofyn am lefelau uchel o ymgynghori â staff ac undebau llafur, cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau ar gyfer trosglwyddo o un safle ysgol i'r llall a chynnwys staff wrth ddatblygu manylebau neu ddyluniadau adeiladu.

Trefniadau Teithio Dysgwyr

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac o ysgolion.

Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth â thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafndiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o dair milltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i ysgolion cynradd, gan gynnwys i Ysgol Greenhill. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n byw o fewn tair milltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion unigol.

Ar hyn o bryd darperir Trafndiaeth i Ddysgwyr gan nifer o dacsis ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion Greenhill. Teithiodd 72% o ddysgwyr i'r ysgol mewn tacsï ym mis Medi 2019, gan godi i 92% ym mis Medi 2020 oherwydd pandemig Covid-19. Byddai angen cynyddu'r gyllideb trafndiaeth ysgol i gyd-fynd â'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion yn y safleoedd newydd.

Trafndiaeth i Ysgol Greenhill yn y Safle Arfaethedig yng Nghanolfan Arddio Dutch

Mae lleoliad safle Canolfan Arddio Dutch yn cyflwyno heriau o ran cynaliadwyedd trafndiaeth. Er bod cyfran uchel o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol gan ddefnyddio Trafndiaeth i Ddysgwyr, bydd y cynigion datblygu yn gofyn am Asesiad Trafndiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy. Mae Cyffordd 30 yr M4 yn gyffordd wedi'i gwahanu â gradd, lle mae'r ffyrdd lleol yn cysylltu â chylchfan sy'n cael ei chario ar draws y draffordd ar ddwy bont. Mae'r safle yn agos at y gyffordd ar ochr ogleddol yr M4 tra bo'r ardal breswyl agosaf (Pontpennau) ar ochr ddeheuol yr M4. Byddai lleoliad y safle yn gofyn am ddarparu mesurau ychwanegol i ddarparu ar gyfer mynediad drwy unrhyw ddull heblaw cerbyd.

Nid yw trafndiaeth gyhoeddus yn gwasanaethu'r ardal hon i'r gogledd o'r M4 ar hyn o bryd a byddai angen nodi darpariaeth gwasanaeth bws addas. Bydd angen darparu mynediad i fysis a chyfleusterau aros diogel i staff ac unrhyw ddisgyblion sy'n teithio'n annibynnol ac sy'n defnyddio gwasanaethau bws ysgol wedi'u trefnu a gwasanaethau ychwanegol, gyda mynediad diogel i gerddwyr i arosfannau bysus sy'n gyfleus i'r ysgol, yn ddefnyddol gerllaw neu y tu mewn i'r safle arfaethedig.

Nid oes unrhyw gysylltiadau i gerddwyr â'r safle o'r llwybrau troed yn ardal Porth Caerdydd ymhellach i ochr ddeheuol cyffordd 30. Bydd angen ystyried llwybr i gerddwyr ar draws y cylchfan cyffordd gradd-wahanedig a ffyrdd ymadael a'r cysylltiadau bob ochr.

Nid oes unrhyw gyfleusterau beicio presennol neu arfaethedig yn cysylltu â'r safle. Bydd angen ystyried cyfleusterau beicio diogel addas i gael mynediad i ochr ogleddol y gyffordd ac i mewn i'r safle. Byddai angen gwella'r cyfleusterau presennol ymhellach i'r de o'r draffordd ac ymestyn ychwanegol hyd at ac ar draws y gyffordd sydd wedi'i gwahanu â graddau. Bwriedir nodi gwelliannau i'r rhwydwaith beiciau ymhellach i'r de yn y tymor hwy (2027/28 a thu hwnt) ar Heol Lloneirwg ac ar Ffordd Gyswilt Pentwyn (ond nid yw wedi'i gynllunio ar hyn o bryd i ymestyn i gyffordd y draffordd). Byddai angen storio beiciau'n ddiogel ar y safle yn unol â safonau parcio'r Cyngor.

Bydd angen cyfleusterau priodol ar Trafndiaeth i Ddysgwyr ar gyfer gollwng a chasglu ar y safle newydd.

Trafnidiaeth i Ysgol Greenhill yn y Safle Arfaethedig yn Nhŷ Glas, Llanisien

O safbwynt trafndiaeth, byddai safle Tŷ Glas yn lleoliad ardderchog i Ysgol Greenhill o ystyried ei lleoliad cymharol ganolog, agosrwydd at lwybrau a chyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus, a'r potensial ar gyfer cysylltiadau teithio llesol. Er bod cyfran uchel o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol gan ddefnyddio Trafndiaeth i Ddysgwyr, bydd y cynigion datblygu yn gofyn am Asesiad Trafndiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i wneud rhagor o welliannau a sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy.

Ym mis Medi 2019, teithiodd 72% o ddysgwyr i'r ysgol mewn tacsï, gan godi i 92% ym mis Medi 2020 oherwydd pandemig Covid-19. Mae lle i leihau'r gyfran hon, yn enwedig ar safle Tŷ Glas. Mae cyfran sylweddol o ddisgyblion presennol Greenhill sy'n byw yn ardaloedd Llanisien a Gabalfa (ac nad oes angen Trafndiaeth i Ddysgwyr arnynt). Felly, mae potensial da i ddisgyblion yn ogystal â staff sy'n byw o fewn pellter beicio neu gerdded rhesymol deithio i'r safle drwy ddulliau llesol. Mae Ysgol Greenhill eisoes wedi datblygu ei Chynllun Teithio Llesol ei hun ymhell o flaen llawer o ysgolion prif ffrwd.

Cefnogir disgyblion Ysgol Greenhill gan fenter Hyfforddiant Teithio Annibynnol y Cyngor lle mae disgyblion ysgol yn cael eu cefnogi wrth gynllunio a gwneud teithiau i'r ysgol yn annibynnol. Byddai lleoliad y safle ger gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn ei roi ei hun yn dda i ddisgyblion sy'n cael eu cefnogi gan y fenter hon.

Mae Ysgol Greenhill yn rhan o brosiect Fflyd Beiciau Ysgolion Caerdydd lle mae beiciau (a sgwteri) yn cael eu gosod mewn ysgolion i ganiatáu i bawb gael mynediad i feicio, gan eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant beicio ac ar gyfer gweithgareddau ysgol neu allgyrsiol. Mae Ysgol Greenhill wedi croesawu'r prosiect yn frwdfrydig gyda'r nod o annog eu disgyblion i feicio i'r ysgol. Byddai angen storio beiciau'n ddiogel ar y safle yn unol â safonau parcio'r Cyngor.

Mae'r safle wedi'i leoli yn agos at orsaf drenau Tŷ Glas a llwybrau bws. Byddai darpariaeth briodol yn cael ei gwneud ar gyfer cyfleusterau aros bws diogel i ddisgyblion a staff sy'n defnyddio gwasanaethau bws wedi'u trefnu ac ychwanegol. Bydd croesfannau presennol yn cael eu hasesu a'u gwella fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau mynediad diogel a chyfleus i gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus.

Bydd angen cyfleusterau priodol ar Drafnidiaeth i Ddysgwyr ar gyfer gollwng a chasglu.

Materion Ariannol

Mae'r cynnig i ehangu Ysgol Greenhill yn ffurfio rhan o raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif gwerth £284 miliwn y Cyngor.

Bydd cost y cynllun yn cael ei dalu ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru, gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu tua 75% o gyfanswm costau'r ysgol newydd, drwy grant penodol. Bydd cyfran y Cyngor o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei hariannu gan gyfuniad o fenthyca allanol, y bydd angen ei ad-dalu dros nifer o flynyddoedd, a derbyniadau cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu asedau'r Cyngor.

Bydd costau gweithredol a ysgwyddir wrth reoli'r cynllun a throsglwyddo o adeiladau presennol i adeiladau newydd yn cael eu talu o gyllideb refeniw bwrpasol.

Byddai'r costau refeniw ychwanegol yn deillio o niferoedd disgyblion uwch yn cael eu diwallu gan y fformiwla cyllido ysgolion sy'n dyrannu y rhan fwyaf o gyllid i ysgolion ar sail niferoedd disgyblion.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ganfod a fydd yr arbedion ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir yn talu am gostau lleoedd ychwanegol. Disgwylir y byddai taith gyfartalog dysgwyr i ysgol Greenhill yn cael ei lleihau o'i chymharu â darpariaeth amgen y tu allan i Gaerdydd, ac y byddai hyn yn ei dro yn lleihau'r costau cyfartalog ar gyfer pob dysgwr yn cael mynediad at ddarpariaeth o'r fath.

Darpariaeth iechyd

Bydd gan y cynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn oblygiadau i iechyd a gwasanaethau arbenigol eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ffactor ychwanegol yw Deddf Diwygio ADY 2018, a fydd yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd i iechyd, addysg a gofal cymdeithasol gydweithio i gydlynu asesu a darparu. Bydd Deddf 2018 yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd ac unedau cyfeirio disgyblion. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, a oruchwylir gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr o iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a rhieni, yn llywio dyluniad y ddarpariaeth arbenigol.

Trefniadau Derbynn

Does dim cynlluniau ar waith i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbynn yn llyfryn Derbynn i Ysgolion y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk.

Rheolir derbynniadau i ddarpariaeth arbenigol gan y Cyngor yn unol â'r Cod ADY, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Trefniadau Llywodraethiant

Nid oes angen newidiadau i'r trefniadau llywodraethu sy'n deillio o'r cynigion hyn

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Mae lefel anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae hyn wedi bod yn newid dros y 4-5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o anghenion dysgu ychwanegol ADY, ym mhob maes angen.

Cynhaliwyd adolygiad o anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i lywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Nododd ysgolion nifer fach ond arwyddocaol o enghreifftiau o ddisgyblion ag ADY yn gadael y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn dewis yn hytrach ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg os oes gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol, drwy bryder y gallai fod angen i'w plentyn drosglwyddo i'r sector arbenigol yn ddiweddarach.

Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.

Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle sefydlir y ganolfan uwchradd. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chefnogi ystod o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau lleferydd ac iaith ac awtistiaeth.

Yn 2021 mae galw cynyddol am ganolfannau adnoddau ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, sy'n gyflawnwyr uchel ar gyfartaledd, a byddai angen model cymorth mwy integreiddiol na'r hyn a ddarperir gan y ddwy ganolfan bresennol. Ar hyn o bryd mae 8 dysgwr oedran uwchradd, a 15 dysgwr oed cynradd a fyddai'n elwa o leoliad mewn canolfan Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig. Mae hon yn flaenoriaeth byrdymor, o ystyried y risg, os bydd y lleoliadau presennol yn methu, mai'r unig opsiwn fyddai cynnig trosglwyddiad i leoliad cyfrwng Saesneg.

Mae dosbarth lles cynradd wedi'i sefydlu, a gynhelir yn Ysgol Gynradd Pen y Groes. Mae'r dosbarth lles yn gweithio'n hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion mewn gwahanol gyfnodau oedran, neu i ddarparu model allgymorth, yn dibynnu ar yr angen presennol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgynghori ar sefydlu canolfan Adnoddau Arbennig Awtistiaeth 30 lle yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ogystal â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle presennol yn yr ysgol.

Er mwyn cefnogi anghenion ieuchyd a lles emosiynol yn y cyfnod uwchradd, mae canolfan 'rithwir'/UCD wedi'i threialu ar draws y tair ysgol uwchradd, gan ddechrau yn 2018. Disgwylir i'r peilot gael ei adolygu ymhellach yn 2021.

Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y tair ysgol gyfleusterau a llety digonol i ddarparu darpariaeth Cam 3 a 4 effeithiol, wedi'i hategu gan y ganolfan rithwir/UCD. Yn y tymor canolig, bydd angen lleoliad sefydlog ar y ganolfan rithwir / UCD yn un o'r ysgolion, gyda llety dynodedig, er mwyn lleihau'r risg y gallai fod angen i bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth adael y sector Cymraeg i gael mynediad at ddarpariaeth fwy arbenigol.

Wrth i'r sector Cymreig barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.

Mae nifer cyfyngedig o staff addysgu cymwys a phrofiadol ADY, o'i gymharu â'r sector yn Lloegr. Bydd angen i unrhyw gynllun i ddatblygu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg gael ei gefnogi gan Gynllun Datblygu'r Gweithlu Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn unol â'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid ar Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd i ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd newydd ar gyfer y ddinas. Disgwylir y bydd y cynllun ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hydref 2021 cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022. Bydd y Cynllun 10 mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032.

Bydd ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft yn ceisio barn ar y ffordd orau o dyfu addysg cyfrwng Cymraeg a sut i gyrraedd y targedau lleol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn llywio cynigion yn y dyfodol. Bydd y Rhaglen yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a gynigir yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Caiiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen. Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd asesiad effaith ar gydraddoldeb arall yn cael ei wneud ar yr adeg dylunio. Byddai hyn yn nodi hygyrchedd i'r ddarpariaeth newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisiau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, NCT 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis, BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol.

Effaith Gymunedol

Ystyrir y canlynol wrth ystyried cynnig: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, swm a thagfeydd. Bydd yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion hyn a'r Cyngor yn gweithio gydag unrhyw grwpiau cymunedol i sicrhau bod y cynigion yn osgoi unrhyw effeithiau negyddol os yn bosibl.

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer y cynnig hwn ac mae ar gael i'w weld yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae rhaglen Band B Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol, ynghyd ag annog y defnydd o dulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect Ysgol yn ystyried materion trafniadaeth allweddol pan fyddant yn cael eu cynllunio ac mae angen i'r cwmni ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i ysgolion.

Gyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ar draws y ddinas, gellir lleihau symudiadau myfyrwyr ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

Er mwyn gwneud y mwyaf o effaith hirdymor y buddsoddiad sylweddol hwn, byddai unrhyw ddyluniad a gymerir ar gyfer pob ysgol a gynhwysir yn y cynnig hwn yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod cyfleusterau modern o ansawdd uchel yn cael eu darparu sy'n gallu ymateb i anghenion y poblogaethau disgyblion presennol a chefnogi'r gwaith o ddarparu dulliau addysgu a dysgu effeithiol. Byddent hefyd yn ymgorffori'r hyblygrwydd i ystyried newidiadau yn dibynnu ar yr angen wrth i amser fynd yn ei flaen; megis demograffeg newidiol a niferoedd disgyblion, newid y cwricwlwm a newid mathau o anghenion disgyblion.

Amhariad Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion sydd wedi'u meddiannu o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr ac sy'n tyfu.

Byddai disgyblion sydd wedi cofrestru yn Ysgol Greenhill yn aros ar y safle presennol nes bod y cyfleusterau ysgol newydd yn barod, sy'n golygu na fyddai unrhyw darfu ar addysg o waith adeiladu ar y safle.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Mae ysgolion arbennig yng Nghaerdydd yn darparu darpariaeth arbenigol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd gyfan. Nid oes digon o leoedd i ateb y galw mewn darpariaeth a gynhelir. Mae hyn yn cael effaith ar ysgolion sy'n bodoli eisoes lle mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o ddisgyblion ar y gofrestr na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) neu'r nifer a ddymunir mewn CAA. Gall hyn fod yn rhoi straen ychwanegol ar ysgolion.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gaerdydd ddibynnu ar brynu rhai lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ac ysgolion annibynnol i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gallai fod effaith tymor hwy ar ddarparwyr y tu allan i'r sir ac ar ysgolion annibynnol gan ei bod yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd a brynir gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n hysbys bod y galw am leoedd mewn Awdurdodau Lleol eraill hefyd ar lefelau uchel.

Ni ragwelir y byddai'r bwriad i ehangu a throsglwyddo Ysgol Greenhill i safleoedd Tŷ Glas a Chanolfan Arddio Dutch yn cael effaith negyddol ar unrhyw ysgol leol.

Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

Beth sy'n digwydd nesaf?

Dyddiadau allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion y Cyngor wedyn yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor i roi gwybod i aelodau etholedig am farn rhanddeiliaid, ac i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol

Nodir y camau hyn yn Nhabl 9 isod:

Tabl 9: Camau yn y dyfodol (Mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn newid).	
Proses Statudol	Amserlen
Y Cyfnod Ymgynghori	13 Rhagfyr– 31 Ionawr 2022
Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor	Mawrth 2022
Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu wedi cyflwyno'r hysbysiad statudol (ar ôl gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol)	Mai 2022
Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben	Mehefin 2022
(Pennu) Y penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor	Medi 2022
Cyhoeddi'r adroddiad ar wrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet	Medi 2022

Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 13 Rhagfyr 2021 ac yn dod i ben ar 31 Ionawr 2022.

Gweler tudalen 35 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

Gallwch ofyn am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir ai peidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad statudol hwn ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copïau o'r hysbysiad yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt. Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu gwneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Penderfynu ar y Cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Hysbysu'r Penderfyniad

Wedi penderfynu, byddai Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i bawb y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth oedd y penderfyniad hwnnw. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Dweud Eich Dweud

Gallwch lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Rydym yn cynnig:

- Cynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd.
- Trosglwyddo'r ysgol i adeiladau newydd ar draws dau safle ar safle Canolfan Arddio Dutch, Maes Y Bryn Road (ger yr M4 Cyffordd 30) a Tŷ Glas Road yn Llanisien, gydag 80 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynnig hwn ar y camau cychwynnol. Byddai unrhyw gynllun ysgol manwl neu gynlluniau safle yn cael eu hystyried yn ddiweddarach. Byddai cyfleoedd i roi sylwadau ar gynlluniau manwl yn ystod y camau cyn cynllunio a chais cynllunio, pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

A ydych chi'n ymateb fel (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- | | |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Rhiant neu Warcheidwad* | <input type="checkbox"/> Nain/Taid* |
| <input type="checkbox"/> Aelod o staff** | <input type="checkbox"/> Disgybl* |
| <input type="checkbox"/> Llywodraethwr* | <input type="checkbox"/> Preswlydd Lleol |
| <input type="checkbox"/> Arall (rhowch fanylion) _____ | |

A fydddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn

1. A ydych yn cefnogi'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd?

- YDW NAC YDW DIM BARN

Esboniwch pam:

2. A ydych yn cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle yng Nghanolfan Arddio Dutch, Maes Y Bryn Road a Tŷ Glas Road, Llanisien?

YDW

NAC YDW

DIM BARN

Esboniwch pam:

3. A oes unrhyw newidiadau y credwch y gallent wella'r cynigion hyn?

4. A oes unrhyw opsiynau eraill yr hoffech eu hawgrymu?

5. A oes unrhyw sylwadau eraill gennych?

Enw _____

Cyfeiriad _____

Cod post _____

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **31 Ionawr**

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni gysylltu â chi.

Diolch ichi am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn dim hwyrach na 31 Ionawr 2022.

AMDANOCH CHI

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- | | | | | |
|-------------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> Dan 16 oed | <input type="checkbox"/> 25-34 | <input type="checkbox"/> 45-54 | <input type="checkbox"/> 65-74 | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> 16-24 | <input type="checkbox"/> 35-44 | <input type="checkbox"/> 55-64 | <input type="checkbox"/> 75+ | |

Ydych chi yn.....?

- | | | | |
|------------------------------------|------------------------------------|--------------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> Benywaidd | <input type="checkbox"/> Gwrywaidd | <input type="checkbox"/> Arall | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
|------------------------------------|------------------------------------|--------------------------------|---|

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- | | | |
|------------------------------|-----------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> Ydw | <input type="checkbox"/> Na | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
|------------------------------|-----------------------------|---|

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- | | | |
|---|--|---|
| <input type="checkbox"/> Byddar/Wedi colli clyw/Yn drwm fy nghlyw | <input type="checkbox"/> Nam ar y golwg | <input type="checkbox"/> Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma) |
| <input type="checkbox"/> Anawsterau iechyd meddwl | <input type="checkbox"/> Defnyddiwr cadair olwyn | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> Nam/anawsterau dysgu | <input type="checkbox"/> Nam symudedd | <input type="checkbox"/> Arall |

Rhowch fanylion _____

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Bangladeshaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Affricanaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Caribiaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd | <input type="checkbox"/> Arabaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall | <input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd | |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Pacistanaid | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Diben prosesu data personol yw oherwydd bod angen perfformio tasg benodol sydd o fudd i'r cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

Tudalen 768

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori 2021

DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG
ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

DARPARIAETH IECHYD EMOSIYNOL A LLESIANT I DDYSGWYR
11 - 19 OED

13 RHAGFYR 2021 – 31 IONAWR 2022



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar **029 2087 2720** er mwyn trefnu hyn



Tabl Cynnwys

Cyflwyniad

- Llyfryn am beth yw hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Ymgynghoriad

- Â phwy ydym yn ymgynghori?
- Barn plant ar y cynigion arfaethedig
- Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon Cefndir

Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Dosbarthiad daearyddol Darpariaeth Arbenigol

Darpariaeth Iechyd Emosiynol a Llesiant Oed

Uwchradd (11 – 19)

- Y ddarpariaeth bresennol
- Galw am leoedd
- Y Galw a Ragwelir am Leoedd Iechyd Emosiynol a Llesiant y Cyfnod Uwchradd
- Darpariaeth Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4
- Darpariaeth Ôl 16

Cynigion ar gyfer Darpariaeth mewn Canolfan

Adnoddau Arbennigol yn Ysgol Uwchradd

Gymunedol Gorllewin Caerdydd

Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

Nifer y llefydd yn yr ysgol

Y galw am lefydd yn yr ysgol.

Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Ansawdd a Safonau

Estyn

Categoriaddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newidiadau arfaethedig?

Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

Cynigion ar gyfer darpariaeth Canolfan Adnoddau

Arbennigol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain

- Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Nifer y llefydd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

Ansawdd a Safonau

- Estyn
- Categoriaddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Beth yw manteision y newid arfaethedig?

Anfanteision posibl y newid arfaethedig

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Materion Adnoddau Dynol

Materion Trafnidiaeth

Dweud eich dweud

Gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ddau gynnyg

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Trefniadau derbyn

Trefniadau Teithio Dysgwyr

Materion Ariannol

Darpariaeth Iechyd

Trefniadau Llywodraethiant

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Cydraddoldeb

Effaith Gymunedol

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Amhariad Posibl i Ddisgyblion

Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Dyddiadau allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Adroddiad Gwrthwynebu
- Penderfynu ar y Cynigion
- Hysbysu'r Penderfyniad

Dweud eich dweud

- Ffurflen ymateb i ymgynghoriad

Cyflwyniad

Llyfryn am beth yw hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd. Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant sy'n mynychu, neu'n disgwyl mynychu, ysgolion arbennig neu Ganolfannau Adnoddau Arbennigol a'r rhai sydd wedi gweithio neu ar hyn o bryd yn gweithio gyda phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'n nodi cynigion i gynyddu nifer y lleoedd adnoddau arbennigol uwchradd ar gyfer dysgwyr 11-19 oed ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant, a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw am leoedd canolfan adnoddau arbennigol i ddysgwyr 11 – 19 oed sydd ag anghenion emosiynol a llesiant, cynigir:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol â 20 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbennigol â 20 lle yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2022

Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant rhwng 11 a 19 oed yn Ysgol Arbennig Greenhill a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth neu gyflyrau sbectrwm awtistiaeth rhwng 4 a 19 oed mewn amrywiaeth o ysgolion ledled Caerdydd.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cynigion hyn yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Ymgynghoriad

Â phwy ydym yn ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl gynnig eu barn i ni.

Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:

Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw	
Plant a phobl ifanc	Gweinidogion Cymru
Rhieni / gofalwyr	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Staff ysgol	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol-barth y De (GACCCD)
Cyrff Llywodraethu Ysgolion	Comisiynydd y Gymraeg
Preswylwyr lleol	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
Cynghorau Cymuned	Undebau Llafur
Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS) /Aelodau Seneddol (ASau)	Darparwyr gofal plant
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Mudiad Meithrin
Awdurdodau Cymdogol	Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymdogol o fewn Caerdydd	Clybiau Plant Cymru Kids Club
Estyn	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Fforwm Addysg Gymraeg
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	Sefydliadau y Sector Gwirfoddol
Busnesau a sefydliadau lleol	Comisiynydd Traffig Cymru

Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig

Mae Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r modd y darperir addysg. Mae'n bwysig wrth ddwyn cynigion ger bron, bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion hyn a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

- Mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ledled y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Nid oes darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ardal hon ar hyn o bryd. Mae pob plentyn yn yr ardal hon sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol yn teithio i ardaloedd eraill ar hyn o bryd.

Gallai opsiynau amgen i sefydlu darpariaeth yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain gynnwys:

- ehangu darpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion uwchradd eraill
- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y ganolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae'r safonau yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn dda. Mae sefydlu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn cynnig nifer uwch o leoedd ysgol o ansawdd uchel priodol. Felly, ystyriw bod sefydlu'r ddarpariaeth yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn opsiwn a ffefrir.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ganolfannau adnoddau arbenigol. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafndiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion unigol a materion cymdeithasol. Gall dysgwyr eraill deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os nad yn preswyllo o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Cludiant i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth canolfannau adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Efallai y bydd cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau angen dysgu ychwanegol yn gofyn am Ddatganiad Trafnidiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio i'r ysgol drwy ddulliau actif (cerdded, beicio a sgwera) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan anghenion dysgu ychwanegol, a fyddai'n cael ei chynnig ar gyfer dysgwyr canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwylidig am Gludiant i Ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain, byddai'r safle'n cael ei asesu i sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer gollwng a chasglu i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau. Gall mesurau i wella problemau traffig y tu allan i'r ysgol gynnwys cyfyngiadau parcio ychwanegol neu ystyried Stryd Ysgol o amgylch amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol er mwyn lleihau tagfeydd a phroblemau parcio a gwella diogelwch disgyblion.

Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 31 Ionawr 2022.

Gwybodaeth sy'n Berthnasol i'r ddau Gynnig

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Mae Canolfannau Adnoddau Arbennig yng Nghaerdydd yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd gyfan. Nid oes digon o leoedd i ateb y galw yn y ddarpariaeth a gynhelir. Mae hyn yn cael effaith ar ysgolion sy'n bodoli eisoes lle mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o ddisgyblion ar y gofrestr na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) neu'r nifer a ddymunir mewn CAA.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gaerdydd ddibynnu ar brynu rhai lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ac mewn ysgolion annibynnol i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gallai fod effaith tymor hwy ar ddarparwyr y tu allan i'r sir ac ar ysgolion annibynnol gan ei bod yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd a brynir gan y Cyngor.

Trefniadau derbyn

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion yn sgil y cynigion hyn. Nid oes unrhyw gynlluniau i leihau nifer y lleoedd prif ffrwd o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk.

Rheolir derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol gan y Cyngor, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). O dan y Cod ADY, bydd y lleoliad yn destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Byddai'r capasiti arfaethedig ar gyfer 20 o leoedd adnoddau arbenigol ym mhob ysgol yn ychwanegol at gapasiti lleoedd prif ffrwd yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn.

Trefniadau Teithio Dysgwyr

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant yn ôl a blaen i ysgolion.

Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth gyda thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafndiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y'i mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw anableddeu sydd gan blentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA).

Materion Ariannol

Byddai rhai o'r newidiadau arfaethedig a nodir yn y ddogfen hon yn arwain at gostau cyfalaf i'r Cyngor, ar gyfer cynnal gwaith ar adeiladu a / neu addasu adeiladau. Byddent hefyd yn arwain at gostau referniw i'r Cyngor, wrth gyflogi staff.

Nid oes unrhyw ymrwymadau ariannol ar y cam hwn o'r ymgynghoriad. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelir gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

Byddai angen i'r lleoedd ychwanegol hyn gael eu hariannu o'r gyllideb ysgolion dirprwyedig bresennol. Ar hyn o bryd, cyflwynir darpariaeth cost uchel i rai disgyblion mewn nifer o ffyrdd. Mae rhai dysgwyr yn cael eu lleoli mewn ysgolion y tu allan i Gaerdydd, neu mewn ysgol annibynnol. Mae rhai dysgwyr yn aros mewn ysgolion prif ffrwd, gyda thaliadau "Gwella Anghenion Cymhleth" yn cael eu gwneud i'r ysgol i ddarparu cymorth priodol.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ganfod a fydd yr arbedion ar y lleoliadau hyn, neu ar daliadau chwyddo i ysgolion, yn talu costau ychwanegol y lleoedd ychwanegol arfaethedig.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried sut y byddai costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol y Cyngor yn newid. Gall y nifer gynyddol o leoedd arbenigol a gynigir gynyddu nifer y plant sy'n cael eu cludo rhwng y cartref a'r ysgol gan y Cyngor. Gall y nifer gynyddol o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion a chanolfannau arbennig leihau'r pellter teithio cyfartalog a'r gost teithio gyfartalog.

Darpariaeth iechyd

Bydd gan y cynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn oblygiadau i iechyd a gwasanaethau arbenigol eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ffactor ychwanegol yw Deddf Diwygio ADY 2018, a fydd yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd i iechyd, addysg a gofal cymdeithasol gydweithio i gydlynu asesu a darpariaeth. Bydd Deddf 2018 yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd ac mewn unedau cyfeirio disgyblion. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, a oruchwylir gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr o feysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a rhieni, yn llywio dyluniad y ddarpariaeth arbenigol.

Trefniadau Llywodraethiant

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethiant yn deillio o'r cynnig hwn.

Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Mae lefel anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Gymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector Saesneg. Mae hyn wedi bod yn newid dros y 4-5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o ADY, ym mhob maes angen.

Cynhaliwyd adolygiad o ADY yn y sector Gymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i lywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Nododd ysgolion nifer fach ond arwyddocaol o enghreifftiau o ddisgyblion ag ADY yn gadael y sector Gymraeg er mwyn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg Gymraeg yn dewis addysg cyfrwng Saesneg yn lle hynny os oedd ADY gan eu plentyn, oherwydd pryder y gallai fod angen i'w plentyn drosglwyddo i'r sector arbenigol yn ddiweddarach.

Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.

Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle mae'r ganolfan uwchradd wedi ei sefydlu. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chefnogi ystod o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau llefydd ac iaith ac awtistiaeth.

Yn 2021 mae galw cynyddol am ganolfannau adnoddau ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, sy'n gyflawnwyr uchel ar gyfartaledd, a byddai angen model cymorth mwy integreiddiol na'r hyn a ddarperir gan y ddwy ganolfan bresennol. Ar hyn o bryd mae 8 dysgwr oedran uwchradd, a 15 dysgwr oed cynradd a fyddai'n elwa o leoliad mewn canolfan Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig. Mae hon yn flaenoriaeth byrdymor, o ystyried y risg, os bydd y lleoliadau presennol yn methu, mai'r unig opsiwn fyddai cynnig trosglwyddiad i leoliad cyfrwng Saesneg.

Mae dosbarth llesiant cynradd wedi'i sefydlu, a gynhelir yn Ysgol Gynradd Pen y Groes. Mae'r dosbarth llesiant yn gweithio'n hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion mewn gwahanol gyfnodau oedran, neu i ddarparu model allgymorth, gan ddibynnu ar yr angen presennol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgynghori ar sefydlu canolfan Adnoddau Arbennig Awtistiaeth 30 lle yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ogystal â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle presennol yn yr ysgol.

Er mwyn cefnogi anghenion iechyd emosiynol a llesiant yn y cyfnod uwchradd, mae canolfan /UCD 'rithwir' wedi'i threialu ar draws y tair ysgol uwchradd Gymraeg, gan ddechrau yn 2018. Disgwylir i'r peilot gael ei adolygu ymhellach yn 2021.

Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y tair ysgol gyfleusterau a llety digonol i gynnig darpariaeth Cam 3 a 4 effeithiol, wedi'i hategu gan y ganolfan/UCD rithwir. Yn y tymor canolig, bydd angen lleoliad sefydlog ar y ganolfan / UCD rithwir yn un o'r ysgolion, gyda llety dynodedig, er mwyn lleihau'r risg y gallai fod angen i bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth adael y sector Cymraeg i gael mynediad at ddarpariaeth fwy arbenigol.

Wrth i'r sector Cymraeg barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag ADY cymhleth.

Mae'r nifer o staff addysgu cymwys a phrofiadol ADY, yn gyfyngedig o'i gymharu â'r sector Saesneg. Bydd angen i unrhyw gynllun i ddatblygu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg gael ei gefnogi gan Gynllun Datblygu'r Gweithlu ADY.

Yn unol â'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid ar Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd i ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd newydd ar gyfer y ddinas. Disgwylir y bydd y cynllun ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hydref 2021 cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022. Bydd y Cynllun 10 mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032.

Bydd ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft yn ceisio barn ar y ffordd orau o dyfu addysg Gymraeg a sut i gyrraedd y targedau lleol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn llywio cynigion yn y dyfodol. Bydd y Rhaglen yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a gynigir yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen.

Effaith Gymunedol

Ystyrir y canlynol wrth ystyried cynnig: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, sŵn a thagfeydd. Bydd yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion hyn a'r Cyngor yn gweithio gydag unrhyw grwpiau cymunedol i sicrhau bod y cynigion yn osgoi unrhyw effeithiau negyddol os yn bosibl.

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer y cynigion hyn ac mae ar gael i'w weld yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol, i annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafniadaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.

Yng ngoleuni'r pandemig a chyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gellir lleihau symudiadau myfyrwyr ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

Amhariad Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu ac addasiadau yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion sydd wedi'u meddiannu o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr ac sy'n tyfu.

Byddai unrhyw waith adeiladu neu addasu a wneir ar gyfleusterau sy'n bod yn barod yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg a safonau diogelwch uchel yn cael eu cynnal.

Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

Beth sy'n digwydd nesaf?

Dyddiadau allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion y Cyngor wedyn yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor i roi gwybod i aelodau etholedig am farn rhanddeiliaid, ac i fwydo'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 15 isod:

Tabl 15: Camau yn y dyfodol (Mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn newid).

Proses Statudol	Amserlen
Y Cyfnod Ymgynghori	13 Rhagfyr 2021 – 31 Ionawr 2022
Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor	Mawrth 2022
Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu wedi cyflwyno'r hysbysiad statudol (ar ôl gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol)	Mai 2022
Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben	Mehefin 2022
(Pennu) Y penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor	Gorffennaf 2022
Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet	Gorffennaf 2022

Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 13 Rhagfyr 2021 ac yn dod i ben ar 31 Ionawr 2022

Gweler tudalen 41 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf byrthefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

Gallwch ofyn hefyd am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir ai peidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad statudol hwn ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copiâu o'r hysbysiad yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt. Rhoddir copiâu o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Penderfynu ar y cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Hysbysu'r Penderfyniad

Wedi penderfynu, byddai Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i bawb y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth oedd y penderfyniad hwnnw. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Dweud Eich Dweud!

FFURFLEN YMATEB I YMGYNGHORIAD

Gallwch gwblhau'r ffurflen ymateb hwn ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Er mwyn ateb y galw am leoedd arbenigol ar gyfer adnoddau ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd emosynol a llesiant rhwng 11 a 19 oed, rydym yn cynnig:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2022

Mae eich barn o bwys. Rhannwch eich barn am y cynigion gyda ni drwy:

- Lenwi a dychwelyd yr holiadur cysylltiedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Os yw'n well gennych, gallwch e-bostio eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 31 Ionawr 2022.

Yn anffodus ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

1. Fel pa un o'r canlynol rydych yn ymateb?

- Rhiant
- Athro – nodwch eich ysgol
- Llywodraethwr ysgol – nodwch eich ysgol
- Arall - rhowch fanylion

2. A oes gennych chi blentyn/plant wedi eu cofrestru yn yr ysgolion canlynol?

(ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
- Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Arall - rhowch fanylion:
- Dd/B

3. A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

4. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un o safleoedd yr ysgol?

Ysgol a chynnig	Ydw	Nac Ydw	Ddim yn gwybod
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd <ul style="list-style-type: none">Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022			
Ysgol Uwchradd y Dwyrain <ul style="list-style-type: none">Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2025			

5. Eglurwch pam eich bod yn cefnogi neu beidio cefnogi'r cynnig(ion) isod. Cyfeiriwch at yr ysgol dan sylw

6. A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen?

7. Sylwadau ychwanegol

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 31 Ionawr 2022.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

.....

Thank you for your comments

Dychwelwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn dim hwyrach na 31 Ionawr 2022.

AMDANOCH CHI

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- | | | | | |
|-------------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--|
| <input type="checkbox"/> Dan 16 oed | <input type="checkbox"/> 25-34 | <input type="checkbox"/> 45-54 | <input type="checkbox"/> 65-74 | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> 16-24 | <input type="checkbox"/> 35-44 | <input type="checkbox"/> 55-64 | <input type="checkbox"/> 75+ | |

Ydych chi yn.....?

- | | | | |
|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--|
| <input type="checkbox"/> Benyw | <input type="checkbox"/> Gwryw | <input type="checkbox"/> Arall | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--|

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- | | | |
|------------------------------|----------------------------------|--|
| <input type="checkbox"/> Ydw | <input type="checkbox"/> Nac ydw | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
|------------------------------|----------------------------------|--|

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- | | | |
|---|--|---|
| <input type="checkbox"/> Byddar / Wedi colli clyw / Yn drwm fy nghlyw | <input type="checkbox"/> Nam ar y golwg | <input type="checkbox"/> Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma) |
| <input type="checkbox"/> Anawsterau iechyd meddwl | <input type="checkbox"/> Defnyddiwr cadair olwyn | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> Nam/anawsterau dysgu | <input type="checkbox"/> Nam symudedd | <input type="checkbox"/> Arall |

Rhowch fanylion _____

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Bangladeshaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Affricanaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Caribiaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd | <input type="checkbox"/> Arabaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall | <input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd | _____ |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Pacistanaidd | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Diben prosesu data personol yw oherwydd bod angen perfformio tasg benodol sydd o fudd i'r cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatwydd ar wefan y Cyngor.

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Grynhoi

GWELLA DARPARIAETH AR GYFER PLANT
A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU
YCHWANEGOL (ADY): YSGOL GREENHILL

14 RHAGFYR 2021 – 01 IONAWR 2022



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn lawn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn: www.caerdydd.gov.uk/cynigionADY
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar **029 2087 2720** i drefnu hyn.



Cefndir

Yn 2017, fe nodon ni yr angen i gynyddu nifer y lleoedd ysgol uwchradd a'r angen i wella adeiladau ysgol fel rhan o Raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth gryno am gynigion i ddarparu mwy o leoedd ysgol arbennig i blant ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant yn Ysgol Greenhill. Byddai adeiladau presennol Ysgol Greenhill yn cael eu disodli.

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau. Rydym am wybod eich barn oherwydd y bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod unrhyw gynigion sy'n mynd yn eu blaenau wir yn gweithio i bobl ifanc, eu teuluoedd a chymunedau lleol yr ysgolion dan sylw.

Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr ag anghenion emosiynol a llesiant rhwng 11 a 19 oed, rydym yn cynnig:

- Cynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd.
- Trosglwyddo Ysgol Greenhill i adeiladau newydd dros ddwy safle a hynny ar safle'r Dutch Garden Centre, Maes y Bryn Road (yn agos at gyffordd 30 yr M4) a Heol Tŷ Glas yn Llanisien, gydag 80 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynnig hwn ar y camau cychwynol. Byddai unrhyw gynllun ysgol neu gynllun safle manwl yn cael ei ystyried yn ddiweddarach os byddwn yn bwrw ymlaen gyda'r cynnig.

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

- Ceir manylion llawn yn y Ddogfen Ymgynghori ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionADY
- Os na allwch weld y ddogfen ar-lein, bydd copiâu papur o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy ffonio 02920 872720.
- Rydym wedi trefnu cyfarfod ar-lein a sesiynau galw heibio y gallwch fynd iddynt os hoffech i ni esbonio'r newidiadau arfaethedig i chi. Gallwch hefyd ofyn cwestiynau. Os hoffech fynd i gyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan nodi'r cyfarfod yr hoffech fynd iddo. Byddwn wedyn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar gyfer mynychu'r cyfarfod.

Mae dyddiadau'r cyfarfod ymgynghori cyhoeddus a'r sesiynau galw heibio wedi eu nodi isod:

Tabl 2		
Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad / Amser	Lleoliad
Cyfarfod Cyhoeddus Ar-lein	Dydd Mercher 12 Ionawr 2022 5:30pm	Ar-lein drwy Teams
Sesiynau galw heibio	Ar gais drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk	Ar-lein drwy Teams

Mae cyfarfodydd ar wahân wedi eu trefnu ar gyfer staff a llywodraethwyr.

Mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r modd y darperir addysg. Byddwn yn ymgynghori â disgyblion yn Ysgol Greenhill ac yn cynnwys eu hadborth yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Sut gallaf roi fy marn?

- Gallwch fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn galw heibio
- Gallwch roi eich barn ar www.caerdydd.gov.uk/cynigionADY
- Gallwch lenwi'r ffurflen ymateb ar dudalennau 12 a 13 y llyfryn hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1Chwefror 2022.

Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?

Lleoedd ysgol – Rhaid i bob cyngor yng Nghymru gynnig digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o bob oed. Rhaid i lefydd ysgol ateb anghenion yr holl ddisgyblion a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Cyflwr ac Addasrwydd – Rhaid i gyfleusterau ysgol fod yn addas i'r diben. Rhaid i ysgolion gefnogi darparu dysgu o ansawdd uchel.

Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif?

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhaglen fuddsoddi fawr a hirdymor. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Y nod yw darparu cyfleusterau addysgol o ansawdd uchel a fydd yn bodloni gofynion amrywiol y 21 Ganrif.

Cynhaliwyd rhan gyntaf y Rhaglen (Band A) tan fis Mawrth 2019.

Dechreuodd ail ran y cyllid hwn (Band B) ym mis Ebrill 2019. Fel rhan o hyn, mae Cyngor Caerdydd yn cynllunio rhaglen fuddsoddi o tua £284 miliwn.

Pam fod angen mwy o leoedd?

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol ac yn cael cymorth ychwanegol yno. Mae dysgwyr sydd ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth yn mynychu ysgol arbennig neu Ganolfan Adnoddau Arbenigol. Gall hyn gynnwys disgyblion ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant.

Mae nifer y disgyblion yng Nghaerdydd sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn cynyddu.

Yn 2021/22 mae cyfanswm o 172 o leoedd Iechyd Emosiynol a Llesiant arbenigol ar gyfer dysgwyr 11-16 oed a gaiff eu hariannu gan Gyngor Caerdydd. Roedd y rhain mewn ysgolion a gynhelir gan gynnwys Ysgol Greenhill ac mewn sefydliadau eraill a gomisiynwyd gan y Cyngor.

Amcangyfrifir bod galw am tua 322 o leoedd yn 2021/22 yng Nghaerdydd, a rhagwelir y bydd hyn yn codi i 348 o leoedd erbyn 2025/26.

Gan ganiatáu rhywfaint o le dros ben i gefnogi hyblygrwydd, y capasiti digonol fyddai 354 o leoedd yn 2021/22, a 383 o leoedd erbyn 2025/26.

I grynhoi, amcangyfrifir bod diffyg 182 o leoedd ar gyfer dysgwyr 11-16 oed yn 2021/22, gan godi i 211 erbyn 2025/26.

Darpariaeth Ôl 16

Yn ddelfrydol, dylai darpariaeth arbenigol gynnwys cymorth ar gyfer mwyafrif y dysgwyr i aros ymlaen nes y byddant yn 18 neu'n 19 oed.


Pam ehangu a disodli Ysgol Greenhill?



Mae Ysgol Greenhill yn ysgol 64 o leoedd ar gyfer dysgwyr o bob rhan o'r ddinas, yn 11-19 oed a gydag anghenion iechyd emosiynol a llesiant sylweddol.

Byddai ehangu Greenhill dros ddau safle, pob un yn cynnig 80 lle, yn:

- cefnogi'r ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ymhellach
- galluogi'r ysgol i roi cyfle i fwy o ddysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd gael dysgu mewn amgylchedd dysgu arbenigol pwrpasol.



Safle'r Dutch Garden Centre

Mae Cyngor Caerdydd yn berchen ar safle 2.84 hectar wrth ymyl Cyffordd 30 yr M4. Mae'r safle ar hyn o bryd wedi ei feddiannu gan y Dutch Garden Centre. Nodwyd bod gan y safle nifer o ddefnyddiau posibl gan gynnwys cyfleusterau ysgol anghenion dysgu ychwanegol, yn amodol ar gymeradwyaeth gynllunio.

Byddai maint a lleoliad lled-wledig y safle yn:

- caniatáu i'r safle gael ei ddylunio'n gynaliadwy i greu Ysgol i'r 21ain Ganrif
- cefnogi dysgu yn yr awyr agored, garddwriaeth a gofal anifeiliaid bach fel rhan o'r cwricwlwm
- ategu lleoliad trefol safle Tŷ Glas lle gall myfyrwyr fanteisio ar gyfleoedd y ddinas e.e., hyfforddiant teithio, profiad gwaith a busnesau lleol
- caniatáu cyfleoedd posibl ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir (yn amodol ar argaeledd)
- caniatáu i'r safle wasanaethu ardal eang gydag amseroedd teithio rhesymol o'r cartref i'r ysgol



Safle Tŷ Glas, Llanisien

Mae'r Cyngor wedi prynu safle yng ngogledd Caerdydd ar Heol Tŷ Glas o tua 7.2 hectar. Byddai'r safle hwn yn lleoliad ardderchog ar gyfer darpariaeth ysgol uwchradd prif ffrwd a darpariaeth addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Byddai lleoliad y safle yn:

- Rhoi mynediad i gyfleoedd y ddinas, e.e. hyfforddiant teithio, profiad gwaith a busnesau lleol
- Sicrhau potensial da ar gyfer cysylltiadau teithio llesol
- ategu lleoliad lled-wledig safle'r Dutch Garden Centre lle gall myfyrwyr fanteisio ar gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, garddwriaeth a gofal anifeiliaid bach fel rhan o'r cwricwlwm



Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion?

Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu y ceid effaith negyddol ar anghenion unrhyw un o'r grwpiau isod gan y newidiadau arfaethedig:

- disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt
- disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig

Beth yw manteision y newidiadau arfaethedig?

- Byddai'r cynigion yn cynyddu nifer y lleoedd ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant.
- Byddai safle ddeuol yn cynnig hyblygrwydd ar gyfer rheoli disgyblion,
- Gallai dwy safle alluogi disgyblion i gael eu haddysgu'n agosach i'w cartrefi a darparu gwell darpariaeth arbenigol ar draws y ddinas.
- Byddai safle ddeuol yn caniatáu ystod ehangach o adnoddau ar gyfer yr ysgol. Dewiswyd y safleoedd i gynnwys safle wledig a allai gynnig profiadau dysgu yn yr awyr agored, garddwriaeth, gofal anifeiliaid, tra gallai'r safle drefol gynnig profiadau galwedigaethol a hyfforddiant teithio.
- Byddai'r cynigion yn gwaredu adeiladau presennol Ysgol Greenhill sydd mewn cyflwr gwael.
- Mae cyfleusterau adeiladau newydd yn darparu amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel, sy'n gwella dewisiadau dysgu a chyfleoedd i ddisgyblion.
- Byddai'r adeiladau newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Byddai agosrwydd safle'r Dutch Garden Centre i lwybrau ffyrdd mawr yn caniatáu i'r safle wasanaethu ardal eang gydag amseroedd teithio rhesymol o'r cartref i'r ysgol.
- Mae safle Tŷ Glas yn agos at lwybrau trafniadaeth gyhoeddus ac mae ganddi botensial da ar gyfer cysylltiadau teithio llesol.

Anfanteision Posibl y Cynnig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Felly, byddai angen i'r Cyngor gynllunio a chefnogi'r newid hwn yn ofalus.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safleoedd yr ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Greenhill i ddatblygu ei Chynllun Teithio. Byddai hyn yn ceisio lleihau unrhyw darfu cymaint â phosibl.
- Nid yw'n hawdd cyrchu safle'r Dutch Garden Centre ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ar hyn o bryd nid oes llwybrau teithio llesol ar gyfer cerdded a beicio i'r safle. Fodd bynnag, mae 72% o ddysgwyr Ysgol Greenhill yn teithio i'r ysgol mewn tacsî. Gall gwasgaru lleoedd yn fwy ar draws y ddinas leihau hyd cyfartalog teithiau.
- Mae rhan o safle'r Dutch Garden Centre yn agos at draffordd yr M4. Byddai angen cynllunio'r safle'n ofalus a rheoli ymddygiad disgyblion yn ddiogel.
- Gan fod rhan o safle'r Dutch Garden Centre yn agos at draffordd yr M4, gallai fod rhywfaint o sŵn traffig. Fodd bynnag, ychydig o ffyrdd eraill sydd gerllaw ac ar gyfer y rhan fwyaf o'r safle gall sŵn y traffig fod yn llai nag mewn llawer o ysgolion trefol yng Nghaerdydd. Byddai lleoliad yr ysgol ar y safle, tirlunio a rhwystrau sŵn fel coed yn lleihau sŵn ar y safle.
- Gellid defnyddio rhan o'r safle yn Nhŷ Glas ar gyfer ysgol arall. Byddai angen cynllunio'r safle'n ofalus a rheoli ymddygiad disgyblion yn ddiogel. Byddai angen ystyried mynedfeydd ac allanfeydd ar wahân ar gyfer pob ysgol a'r posibilrwydd o amseroedd dechrau a gorffen gwahanol.

Risgiau Sydd Ynglwm â'r Cynnig

- Cynhelir ymgynghoriad ar ysgolion newydd yn gynnwys ar gam datblygu cynigion. Cynhelir yr astudiaethau dylunio a dichonoldeb helaeth yn ddiweddarach. Er bod hyn yn cyfyngu ar y risg y bydd y Cyngor yn defnyddio ei arian, rydym yn dal i ddisgwyl rhywfaint o wybodaeth am arolygon a chynllunio. Byddai arolygon safle ac adroddiadau geo-dechnegol hefyd yn cael eu cynnal yn ddiweddarach.
- Mae'r newidiadau arfaethedig yn gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru. Byddai angen i'r Cyngor sicrhau cyllid mewn achos busnes ar gyfer cam achos busnes Llywodraeth Cymru.
- Pe na byddai'r Cyngor yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru yna'r Cyngor fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn llawn dros yr holl gostau yn ymwneud â'r cynnig. Yn yr achos hwn, byddai gofyn i'r Cyngor ystyried y ffordd orau o ddarparu'r lleoedd ysgol ychwanegol.

Trafnidiaeth i Ysgol Greenhill yn y Safle Arfaethedig yn y Dutch Garden Centre

Byddai'r datblygiad yn gofyn am Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n nodi ffyrdd y gallwn wneud y mwyaf o deithio drwy ddulliau cynaliadwy. Dim ond cerbydau all gael mynediad i safle'r Dutch Garden Centre ar hyn o bryd. Byddai angen gwneud newidiadau er mwyn cael mynediad i'r safle drwy ddulliau eraill.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gysylltiadau i gerddwyr, cyfleusterau beicio na chludiant cyhoeddus i'r safle. Byddai angen darparu mynediad i fysiau a chyfleusterau aros diogel i staff ac unrhyw ddisgyblion sy'n teithio'n annibynnol ac sy'n defnyddio gwasanaethau bws ysgol wedi'u trefnu a gwasanaethau ychwanegol, gyda mynediad diogel i gerddwyr i arosfannau bysiau sy'n gyfleus i'r ysgol.

Trafnidiaeth i Ysgol Greenhill yn y Safle Arfaethedig Tŷ Glas

Mae gan safle Tŷ Glas leoliad cymharol ganolog ac mae'n agos at orsaf reilffordd Tŷ Glas a llwybrau bysiau fel y gellir teithio iddo drwy ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus. Mae potensial da i ddysgwyr yn ogystal â staff sy'n byw o fewn pellter beicio neu gerdded rhesymol deithio i'r safle drwy ddulliau llesol. Mae Ysgol Greenhill eisoes wedi datblygu ei Chynllun Teithio Llesol ei hun.

Cefnogir disgyblion Ysgol Greenhill gan fenter Hyfforddiant Teithio Annibynnol y Cyngor lle mae disgyblion ysgol yn cael eu cefnogi wrth gynllunio a gwneud teithiau i'r ysgol yn annibynnol. Byddai lleoliad y safle ger gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus yn golygu y byddai disgyblion yn cael eu cefnogi'n dda gan y fenter hon.

Mae Ysgol Greenhill hefyd yn rhan o brosiect Fflyd Beiciau Ysgol Caerdydd lle mae beiciau (a sgwteri) yn cael eu lleoli mewn ysgolion i ganiatáu i bawb gael mynediad i feicio, gan eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant beicio ac ar gyfer gweithgareddau ysgol neu allgyrsiol.

Beth fyddai'r effaith ar staff?

Byddai'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion ar gyfer Ysgol Greenhill yn golygu y byddai gofyn i'r Corff Llywodraethu gynllunio ar gyfer staff ychwanegol cyn yr ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu yn cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Byddai'r Cyngor yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer cynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio. Lle mae Cyrff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, byddai unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Mae'r cynnig yn cynnwys adleoli Ysgol Greenhill a threfniadau safle deuol. Byddai ymgynghoriad staff ac undebau llafur yn cael ei gynnal. Byddai angen cynlluniau cyfathrebu clir ar gyfer trefniadau trosglwyddo safleoedd. Byddai'r staff yn ymwneud â datblygu manylebau a dyluniadau adeiladu.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Gabinet y Cyngor. Bydd hyn yn helpu'r aelodau etholedig i ddeall barn rhanddeiliaid a bydd yn rhoi gwybodaeth iddynt i'w helpu i wneud eu penderfyniad.



Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynigion, rhaid iddo gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Byddai'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, byddwn yn rhoi gwybod i bawb y mae'r cynnig yn effeithio arnynt. Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Pe cytunir ar y cynigion, pryd fyddai'r adeiladau ysgol newydd yn agor?

Y bwriad yw y byddai gwaith adeiladu yn dechrau ym mlwyddyn ysgol 2023/24 ac yn cael ei gwblhau yn barod i ddisgyblion ddefnyddio'r holl gyfleusterau newydd ym mlwyddyn ysgol 2025/26.



Dweud Eich Dweud

Gallwch lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Rydym yn cynnig:

- Cynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd.
- Trosglwyddo'r ysgol i adeiladau newydd ar draws dau safle ar safle Canolfan Arddio Dutch, Maes Y Bryn Road (ger yr M4 Cyffordd 30) a Tŷ Glas Road yn Llanisien, gydag 80 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynnig hwn ar y camau cychwynol. Byddai unrhyw gynllun ysgol manwl neu gynlluniau safle yn cael eu hystyried yn ddiweddarach. Byddai cyfleoedd i roi sylwadau ar gynlluniau manwl yn ystod y camau cyn cynllunio a chais cynllunio, pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

A ydych chi'n ymateb fel (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- | | |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Rhiant neu Warcheidwad* | <input type="checkbox"/> Nain/Taid* |
| <input type="checkbox"/> Aelod o staff** | <input type="checkbox"/> Disgybl* |
| <input type="checkbox"/> Llywodraethwr* | <input type="checkbox"/> Preswlydd Lleol |
| <input type="checkbox"/> Arall (rhowch fanylion) _____ | |
| <input type="checkbox"/> | |

A fydddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn

1. A ydych yn cefnogi'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd?

- YDW NAC YDW DIM BARN

Esboniwch pam:

2. A ydych yn cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle yng Nghanolfan Arddio Dutch, Maes Y Bryn Road a Tŷ Glas Road, Llanisien?

YDW

NAC YDW

DIM BARN

Esboniwch pam:

3. A oes unrhyw newidiadau y credwch y gallent wella'r cynigion hyn?

4. A oes unrhyw opsiynau eraill yr hoffech eu hawgrymu?

5. A oes unrhyw sylwadau eraill gennych?

Enw _____

Cyfeiriad _____

Cod post _____

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **1 Chwefror 2022**

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni gysylltu â chi.

Diolch ichi am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon at Dim Cynllunio Trefnadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn dim hwyrach na 1 Chwefror 2022.

AMDANOCH CHI

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- | | | | | |
|-------------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> Dan 16 oed | <input type="checkbox"/> 25-34 | <input type="checkbox"/> 45-54 | <input type="checkbox"/> 65-74 | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> 16-24 | <input type="checkbox"/> 35-44 | <input type="checkbox"/> 55-64 | <input type="checkbox"/> 75+ | |

Ydych chi yn.....?

- | | | | |
|------------------------------------|------------------------------------|--------------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> Benywaidd | <input type="checkbox"/> Gwrywaidd | <input type="checkbox"/> Arall | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
|------------------------------------|------------------------------------|--------------------------------|---|

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- | | | |
|------------------------------|-----------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> Ydw | <input type="checkbox"/> Na | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
|------------------------------|-----------------------------|---|

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- | | | |
|---|--|---|
| <input type="checkbox"/> Byddar/Wedi colli clyw/Yn drwm fy nghlyw | <input type="checkbox"/> Nam ar y golwg | <input type="checkbox"/> Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. cancer, diabetes neu asthma) |
| <input type="checkbox"/> Anawsterau iechyd meddwl | <input type="checkbox"/> Defnyddiwr cadair olwyn | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> Nam/anawsterau dysgu | <input type="checkbox"/> Nam symudedd | <input type="checkbox"/> Arall |

Rhowch fanylion _____

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Bangladeshaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Affricanaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Caribiaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd | <input type="checkbox"/> Arabaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall | <input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd | _____ |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Pacistanaidd | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Diben prosesu data personol yw oherwydd bod angen perfformio tasg benodol sydd o fudd i'r cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

Tudalen 806

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Grynhoi 2021

GWELLA DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG
ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY):

DARPARIAETH IECHYD A LLES EMOSIYNOL I DDYSGWYR
11 - 19 OED

14 RHAGFYR 2021 – 01 CHWEFOR 2022



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn lawn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn:
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.



Cefndir

Mae gweledigaeth 2030 Caerdydd ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghaerdydd yn gosod nod Hawl Dysgu, lle gall pob plentyn a pherson ifanc:

- gael mynediad at lwybrau priodol i gyfleoedd addysgu a dysgu
- ffynnu a chyflawni ei botensial
- gwireddu ei freuddwydion a'i uchelgeisiau unigol

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys crynodeb o wybodaeth am gynigion i wella mynediad i addysg yn unol â'r egwyddorion cynhwysiant uchod.

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau. Rydym am wybod eich barn oherwydd mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod unrhyw gynigion sy'n mynd yn eu blaenau yn gweithio'n iawn i blant, pobl ifanc a chymuned leol Ysgol Uwchradd Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion emosiynol a lles rhwng 11 a 19 oed, rydym yn cynnig:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 o leoedd yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 o leoedd yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2022

Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth?

- Ceir manylion llawn yn y Ddogfen Ymgynghori ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Os na allwch weld y ddogfen ar-lein, bydd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy ffonio 02920 872720.
- Rydym wedi trefnu cyfarfod ar-lein a sesiynau galw heibio y gallwch fynd iddynt os hoffech i ni esbonio'r newidiadau arfaethedig i chi. Gallwch hefyd ofyn cwestiynau. Os hoffech fynd i gyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan nodi'r cyfarfod yr hoffech fynd iddo. Byddwn wedyn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar gyfer mynychu'r cyfarfod.

Mae dyddiadau'r cyfarfod ymgynghori cyhoeddus a'r sesiynau galw heibio wedi eu nodi isod:

Tabl 1: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad / Amser	Lleoliad
Cyfarfod Cyhoeddus Ar-lein	Dydd Mercher 12 Ionawr 2022, 5:30pm	Ar-lein drwy Microsoft Teams
Sesiynau galw heibio	Ar gais drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk	Ar-lein drwy Microsoft Teams

Mae cyfarfodydd ar wahân wedi eu trefnu ar gyfer staff a llywodraethwyr.

Mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r modd y darperir addysg. Byddwn yn ymgynghori â disgyblion yn Ysgol Greenhill ac yn cynnwys eu hadborth yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

Sut gallaf roi fy marn?

- Gallwch fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn galw heibio
- Gallwch roi eich barn ar www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- • Gallwch lenwi'r ffurflen ymateb ar dudalennau 11-14 y llyfryn hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022.

Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?

Lleoedd ysgol – Rhaid i bob cyngor yng Nghymru gynnig digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o bob oed. Rhaid i leoedd ysgol fodloni anghenion yr holl ddisgyblion a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Pam fod angen mwy o leoedd?

Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae Canolfan Adnoddau Arbenigol yn galluogi dysgwyr ag anawsterau dysgu i lwyddo mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd. Gall hyn gynnwys disgyblion ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol.

Caiff disgyblion mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol eu haddysgu mewn dosbarth bach gan staff arbenigol ac maent yn elwa ar gwricwlwm arbenigol. Maent hefyd yn elwa o'r ystod lawn o gyfleoedd addysg sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

Mae nifer y disgyblion sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd gan 2,265 o blant yng Nghaerdydd ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Wrth i'r boblogaeth dyfu, felly hefyd bydd nifer y plant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol a chymhleth.

Yn 2020/21

- ariannwyd cyfanswm o 1,116 o leoedd mewn canolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig gan Gyngor Caerdydd
- roedd 48 o leoedd dros dro ar gael i ddysgwyr mewn Dosbarth Lles a Dosbarthiadau Lleferydd ac Iaith
- roedd 90 o leoedd ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)

Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le arbenigol yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Galw am leoedd

Yn 2021/22 mae cyfanswm o 172 (11 – 16) o leoedd Iechyd a Lles Emosiynol arbenigol ar gyfer dysgwyr 11-16 oed a ariennir gan Gyngor Caerdydd. Roedd y rhain mewn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd ac mewn sefydliadau eraill a gomisiynwyd gan y Cyngor. Amcangyfrifir bod galw am tua 322 o leoedd yn 2021/22, a rhagwelir y bydd hyn yn codi i 348 o leoedd erbyn 2025/26.

Gan ganiatáu rhywfaint o le dros ben i gefnogi hyblygrwydd, y capasiti digonol fyddai 354 o leoedd yn 2021/22, a 383 o leoedd erbyn 2025/26.

I grynhoi, amcangyfrifir diffyg o 182 o leoedd ar gyfer dysgwyr 11-16 oed yn 2021/22, gan godi i 211 erbyn 2025/26.

Yn ddelfrydol, dylai darpariaeth arbenigol gefnogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr i aros ymlaen nes y byddant yn 18 neu'n 19 oed. Mae gan Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain ddarpariaeth i ddysgwyr astudio ar y safle ar ôl 16 oed.


Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol

Nid yw lleoliad canolfannau adnoddau arbenigol a Dosbarthiadau Lles wedi'u dosbarthu'n dda ar draws y ddinas.

Gellir gweld map yn dangos lleoliad y ddarpariaeth arbenigol gyfredol isod.

Gall diffyg canolfannau adnoddau arbenigol mewn rhai ardaloedd roi dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dan anfantais. Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli. Mae'n bosibl na all rhieni neu ofalwyr deithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Byddai dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ar draws y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion. Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.



Special schools & SRBs: Type & Capacity

● Autism	(7)
● Behavioural, Emotional & Social Needs	(3)
● Hearing Impairment	(2)
● Profound & Multiple Learning Disabilities, Medical Needs, Autism	(1)
● Severe Learning Disabilities, Medical Needs, Speech and Language, Autism	(10)

This map is produced specifically to support County Council information. No further copies may be made. Map data from Ordnance Survey, GeoNames, OpenStreetMap and others. © Crown copyright and database rights 2017. Ordnance Survey 100023755. © Neighbour & Gator a hysbysu corff 2017. Arlyf Ordnance 100023755.

Ysgolion yr 21ain Ganrif darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ady)

Cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

Mae Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn ysgol uwchradd Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed sydd wedi'i lleoli yn Penally Road, Caerau.

Symudodd yr ysgol i adeiladau newydd ym mis Ebrill 2019.

Capasiti presennol Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yw 1500 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 893 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Hydref 2021.



Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbennig i ddysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol rhwng 11 a 19 oed, cynigir:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 o leoedd yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022

Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

Cynigion ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain

Mae Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn ysgol uwchradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Mae'r ysgol wedi'i chydleoli â darpariaeth ôl-16 Coleg Caerdydd a'r Fro mewn adeiladau newydd yn Trowbridge Road, Trowbridge.

Capasiti presennol Ysgol Uwchradd y Dwyrain yw 1200 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 1095 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Hydref 2021.



Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbennig i ddysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol rhwng 11 a 19 oed, cynigir:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 o leoedd ar gyfer anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022

Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya i ddechrau yn yr adeiladau presennol a rennir gan Ysgol Uwchradd y Dwyrain a Choleg Caerdydd a'r Fro. Byddai gwaith diweddarach yn cael ei wneud i ddarparu lletya a chyfleusterau ychwanegol.

Gwybodaeth sy'n Berthnasol i'r ddau Gynnig

Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Mae cyflwr adeiladau pob ysgol yng Nghaerdydd wedi ei asesu. Mae pob adeilad wedi derbyn sgôr o A i D, gyda'r ysgolion â sgôr o D yn y cyflwr gwaethaf. Mae'r broses hon yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu'r ysgolion sydd angen gwelliannau i'w hadeiladau a'r ysgolion sydd angen buddsoddiad.

Mae Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd â sgôr o A am gyflwr. Mae hyn yn golygu bod yr adeiladau'n dda ac yn gweithredu'n effeithlon. Mae adeiladau'r ysgol hefyd wedi cael sgôr o A (da) am eu haddasrwydd.

Mae Ysgol Uwchradd y Dwyrain wedi cael sgôr o A am gyflwr. Mae hyn yn golygu bod yr adeiladau'n dda ac yn gweithredu'n effeithlon. Mae adeiladau'r ysgol hefyd wedi cael sgôr o A (da) am eu haddasrwydd ar gyfer addysgu a dysgu.

Mae manylion pellach am y sgorio i'w cael yn y ddogfen ymgynghori: www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Ansawdd a Safonau

Mae pob ysgol yng Nghymru yn cael ei harolygu gan Estyn.

Mae Estyn yn sicrhau bod ysgolion yn cynnig safon dda o addysg i'w disgyblion a bod pob plentyn yn cael ei gefnogi i ddysgu gan staff addysgu a dysgu rhagorol.

Mae ysgolion hefyd yn cael eu rhoi mewn un o bedwar categori cymorth lliw (gwyrdd, melyn, oren a choch) fel rhan o System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion Llywodraeth Cymru. Ysgolion Oren a Choch yw'r rhai sydd angen y cymorth mwyaf.

Amlinellir manylion y safonau yn Ysgol Uwchradd Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain fel y'u nodir yn adroddiad diweddaraf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol yn y tabl isod.

Mae'r lliwiau a ddefnyddir yn dangos y categorïddio mwyaf diweddar gan ddefnyddio Categori Ysgolion Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.

Ysgol	Dyddiad yr Arolwg	Safonau	Cynnydd
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	Tachwedd 2018	Digonol ac angen gwella	
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Rhagfyr 2014	Anfoddhaol – angen rhoi rhybudd	Tynnwyd o'r rhestr fonitro ym mis Tachwedd 2017

Ceir rhagor o fanylion am ansawdd a safonau yn y ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion?

Byddai'r ddwy ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu y ceid effaith negyddol ar anghenion unrhyw un o'r grwpiau isod gan y newidiadau arfaethedig:

- disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt
- disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig

Beth yw manteision y newidiadau arfaethedig?

- Byddai'r cynigion yn cynyddu nifer y lleoedd adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a byddent yn cyfrannu at ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgolion. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgolion.
- Byddai'r cynnig yn galluogi disgyblion sy'n byw yng ngorllewin / dwyrain y ddinas i deithio pellteroedd llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol.
- Mae'r adeiladau newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y gall newidiadau i adeiladau beri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safleoedd y ddwy ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl;

Beth fyddai'r effaith ar staff?

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu pob ysgol i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol. Byddai angen rhagor o staff.

Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Materion trafndiaeth

Disgwylir i'r cynigion gynyddu'r galw am Drafnidiaeth i Ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd. Efallai y bydd angen cyfleusterau gwell a/neu ehangach priodol ar gyfer gollwng a chasglu o fewn y safle i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau. Byddai cyfyngiadau parcio ychwanegol ar hyd Penally Road o gwmpas amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol yn lleihau tagfeydd a phroblemau parcio ac yn gwella diogelwch disgyblion.

Disgwylir i'r cynigion gynyddu'r galw am Drafnidiaeth i Ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain Byddai'r safle'n cael ei asesu i sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer gollwng a chasglu i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau. Gall mesurau i wella problemau traffig y tu allan i'r ysgol gynnwys cyfyngiadau parcio ychwanegol. Gellid ystyried gweithredu Stryd Ysgol o gwmpas amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol i leihau tagfeydd a materion parcio ac i wella diogelwch disgyblion.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Gabinet y Cyngor. Bydd hyn yn helpu'r aelodau etholedig i ddeall barn rhanddeiliaid a bydd yn rhoi gwybodaeth iddynt i'w helpu i wneud eu penderfyniad. Disgwyliwn adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad ym mis Mawrth 2021.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid iddo gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Byddai'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, byddwn yn rhoi gwybod i bawb y mae'r cynnig yn effeithio arnynt. Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Dweud Eich Dweud!

FFURFLEN YMATEB I YMGYNGHORIAD

Gallwch gwblhau'r ffurflen ymateb hwn ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Er mwyn ateb y galw am leoedd arbenigol ar gyfer adnoddau ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd emosïynol a llesiant rhwng 11 a 19 oed, rydym yn cynnig:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2022

Mae eich barn o bwys. Rhannwch eich barn am y cynigion gyda ni drwy:

- Lenwi a dychwelyd yr holiadur cysylltiedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Os yw'n well gennych, gallwch e-bostio eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022.

Yn anffodus ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

1. Fel pa un o'r canlynol rydych yn ymateb?

- Rhiant
- Athro – nodwch eich ysgol
- Llywodraethwr ysgol – nodwch eich ysgol
- Arall - rhwch fanylion

2. A oes gennych chi blentyn/plant wedi eu cofrestru yn yr ysgolion canlynol?

(ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
- Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Arall - rhwch fanylion:
- Dd/B

3. A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Ysgolion yr 21ain Ganrif
darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
ag anghenion dysgu ychwanegol (ady)

4. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un o safleoedd yr ysgol?

Ysgol a chynnig	Ydw	Nac Ydw	Ddim yn gwyböd
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd <ul style="list-style-type: none">Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022			
Ysgol Uwchradd y Dwyrain <ul style="list-style-type: none">Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2025			

5. Eglurwch pam eich bod yn cefnogi neu beidio cefnogi'r cynnig(ion) isod. Cyfeiriwch at yr ysgol dan sylw

6. A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen?

7. Sylwadau ychwanegol

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 1 Chwefror 2022.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

.....

Diolch am eich sylwadau

Dychwelwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn dim hwyrach na 1 Chwefror 2022.

Ysgolion yr 21ain Ganrif
darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
ag anghenion dysgu ychwanegol (ady)

AMDANOCH CHI

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- | | | | | |
|-------------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--|
| <input type="checkbox"/> Dan 16 oed | <input type="checkbox"/> 25-34 | <input type="checkbox"/> 45-54 | <input type="checkbox"/> 65-74 | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> 16-24 | <input type="checkbox"/> 35-44 | <input type="checkbox"/> 55-64 | <input type="checkbox"/> 75+ | |

Ydych chi yn.....?

- | | | | |
|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--|
| <input type="checkbox"/> Benyw | <input type="checkbox"/> Gwryw | <input type="checkbox"/> Arall | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--|

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- | | | |
|------------------------------|----------------------------------|--|
| <input type="checkbox"/> Ydw | <input type="checkbox"/> Nac ydw | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
|------------------------------|----------------------------------|--|

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- | | | |
|---|--|---|
| <input type="checkbox"/> Byddar / Wedi colli clyw / Yn drwm fy nghlyw | <input type="checkbox"/> Nam ar y golwg | <input type="checkbox"/> Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma) |
| <input type="checkbox"/> Anawsterau iechyd meddwl | <input type="checkbox"/> Defnyddiwr cadair olwyn | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |
| <input type="checkbox"/> Nam/anawsterau dysgu | <input type="checkbox"/> Nam symudedd | <input type="checkbox"/> Arall |

Rhowch fanylion _____

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Bangladeshaid |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd |
| <input type="checkbox"/> Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Affricanaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Caribiaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd | <input type="checkbox"/> Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd | <input type="checkbox"/> Arabaidd |
| <input type="checkbox"/> Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall | <input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd | _____ |
| <input type="checkbox"/> Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Pacistanaid | <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio â dweud |

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Diben prosesu data personol yw oherwydd bod angen perfformio tasg benodol sydd o fudd i'r cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatwydd ar wefan y Cyngor.

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

**CYNIGION AD-DREFNU YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER
PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
(ADY)
LEARNING NEEDS (ALN)**

**DARPARIAETH IECHYD A LLES EMOSIYNOL AR GYFER
DISGYBLION OED CYNRADD AC UWCHRADD**

Atodiad 3: Nodiadau cyfarfodydd â Staff a Chyrff Llywodraethu



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Jennie Hughes (ADY), Sarah Pritchard (CTY), Brett Andrewartha (BA), Ceri Tanti (CTY), Louise Flynn (AD), Llywodraethwyr Ysgol y Court

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd RP y cyfarfod, croesawodd y llywodraethwyr ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad gan BA a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Cynigion ar gyfer Ysgol The Court
- Safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Llety'r CAA arfaethedig
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth – safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Materion Trafnidiaeth - safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

LI - bydd llywodraethwyr yn trafod y cynnig ar ddiwedd y cyfarfod ar ôl i swyddogion yr awdurdod lleol adael ond gofynnodd a oedd gan unrhyw lywodraethwyr gwestiynau i'r swyddogion cyn iddynt adael y cyfarfod.

LI - mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at 'adeilad newydd' ar safle'r Tyllgoed, ond at ailddatblygu'r adeilad presennol ar safle Llaneirwg, a oedd yn bryder, gan fod y Court wedi cael addewid o adeiladau newydd, pwrpasol. Mae'n rhaid i'r Court eisoes weithio o amgylch cyfyngiadau hen adeilad a'r angen am waith atgyweirio mynych.

Cadarnhaodd RP, er bod y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at gymryd drosodd yr adeiladau presennol ar safle Llaneirwg, y byddai'r adeilad yn cael ei ddymchwel a bod adeilad newydd yn cael ei godi ar gyfer y Court, gan na fyddai'n ymarferol trosi'r adeilad presennol; bydd hyn yn cael ei gadarnhau yn adroddiad nesaf y cabinet. Bydd angen i'r achos busnes nodi'r opsiwn gorau, a'r rhesymau dros hyn, ac yn yr achos hwn dymchwel ac ail-adeiladu fyddai'r ffordd orau ymlaen oherwydd cyfyngiadau trosi adeilad hŷn.

LI - gobeithio y bydd yr ysgol yn cael cyfle i gyfrannu at y dyluniad gan fod ganddynt lawer o syniadau a phrofiad i'w cynnig ac wedi gwneud datblygiadau defnyddiol yn adeilad presennol y Court.

Cadarnhaodd RP y byddai ymgynghori â'r staff a'r tîm arweinyddiaeth fel rhan o'r broses ddylunio; mae'n rhoi cyfle iddynt feddwl y tu allan i'r bocs a meddwl am syniadau newydd ar gyfer y gofodau. Rhybuddiodd RP, er ei bod yn gadarnhaol i'r ysgol gael y cyfle i fod yn rhan o'r dyluniad, mai'r anfantais yw y gall gymryd llawer o amser.

LI - hoffai llywodraethwyr hefyd gael mewnbwn.

Cadarnhaodd RP fod gan lywodraethwyr fewnbwn mewn ysgolion eraill, ond yn ymarferol roedd fel arfer yn well enwebu un neu ddau o lywodraethwyr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio.

LI - beth sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y safle yn Nhŷ Glas, gan fod sôn am ddarpariaeth ysgol arbennig a allai symud yno.

RP - trafodwyd adroddiad yng Nghabinet mis Hydref yn nodi cynigion i adleoli Ysgol Greenhill i safle Tŷ Glas. Cytunodd RP fod cysylltiad rhwng y Court a Greenhill a bydd yn ceisio eu dwyn ynghyd wrth weithio drwy'r prosiectau. Bydd y cynnig i Ysgol Greenhill symud i Dŷ Glas allan i ymgynghori arno'n fuan a chroesawodd RP adborth ar hyn.

Pennaeth - mae'r tîm arweinyddiaeth eisoes yn canfod bod rhoi adnoddau i'r prosiect yn ddwys; dim llawer o gapasiti ychwanegol, fel ysgol fach. Byddai'n hoffi i hyn gael ei gadw mewn cof, yn hapus i helpu cymaint â phosibl, ond maent eisoes wedi'u gwasgaru'n denau.

RP - mae angen cynnal sgysiau'n gynnar yn y broses ynglŷn â'r hyn y gallwn ei wneud i gefnogi'r broses, am fod angen i fewnbwn uwch reolwyr fod yn llwyddiannus. Mae staffio a model ariannol yn allweddol; un o'r heriau ond hefyd yn gyfle.

Pennaeth – cwestiwn gan lywodraethwr nad yw ar yr alwad, pam dau safle ac nid un safle mawr?

Dywedodd RP y byddai dau safle yn cynnig gwasgariad ar draws y ddinas. Roedd hefyd yn teimlo y gallai cael y garfan lawn ar un safle fod yn anodd ei rheoli. Yn caniatáu i'r potensial dyfu yn y dyfodol.

LI - ffactor pwysig yw cadw'r hyn y mae'r Court wedi'i ddatblygu dros y blynyddoedd, amgylchedd meithringar a chynnes y mae rhieni'n ymddiried ynddo. Angen ysgol fwy am fod y galw yn fawr ond gweld manteision cael dau



safle fel y gallant gadw'r amgylchedd mwy meithringar yn hytrach na mynd yn fwy a pheryglu'r ddarpariaeth. Hefyd yn rhoi cyfle i leihau pellteroedd teithio i ddisgyblion, yn enwedig i rai iau.

LI – a oes unrhyw berygl o gystadlu rhwng y safleoedd?

JH - dyma pam mae'n fuddiol cael y safleoedd o dan un corff llywodraethu, yn hytrach nag fel dwy ysgol ar wahân.

Pennaeth - cefnogi dau safle, ond yn teimlo ei bod yn hanfodol cael presenoldeb uwch reolwyr ar y ddau safle er mwyn sicrhau bod ethos yr ysgol yn gyson a'i fod yn ymddwyn ac yn teimlo fel un ysgol, nid dau.

LI (athro yn y Court) – sefyllfa ddiweddar lle'r oedd y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth i ffwrdd ar yr un pryd. Roedd y staff yn gweithio'n dda iawn, ac roedd yr ysgol yn parhau ond roeddent wirioneddol yn teimlo'r absenoldeb. Teimlo fod angen pennaeth cynorthwyol a dirprwy yn y ddau safle, a byddai seicotherapydd ar y ddau safle yn ddefnyddiol.

LI – mae rhai aelodau o staff wedi sôn yr hoffent wahodd swyddogion o'r Cyngor i weld y manau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i roi gwell syniad o sut mae'r lleoedd yn cael eu defnyddio gydol y dydd, pwyntiau pinsio ac ati. Nid yw ymweliad byr yn rhoi blas llawn a hoffent i swyddogion dreulio diwrnod yn yr ysgol.

LI - gofyn am ymrwymiad i feddwl am faint dosbarthiadau? am gael sicrwydd na fwriedir i faint dosbarthiadau gynyddu.

RP - mae'r ymgynghoriad ar gwmpas yr ysgol, nid yw maint dosbarthiadau'n rhan ohono. Byddai maint y gofod i ddosbarthiadau yn unol â chanllawiau cynllunio. Doedd RP ddim yn siŵr o'r ffigur a dywedodd y byddai angen iddo wirio.

LI - yn pryderu am y pwynt hwn. Byddai chwe dysgwr fesul dosbarth yn ddelfrydol, ar hyn o bryd yn gweithio yn 7, 8 y dosbarth a fyddai'n ormod.

Cadarnhaodd SP ein bod, mewn cyfarfodydd cynllunio cychwynnol, wedi bod yn gweithio ar sail 36 o ddysgwyr fesul safle, 6 dosbarth, 6 dysgwr y dosbarth. Byddai'r Pennaeth yn hapus â maint y dosbarth hwn, yn teimlo'n gryf iawn ar y mater hwn.

LI - gofynnodd faint o le y tu allan a fydd ar gael i'r plant; pryderu a fyddai digon o le yn yr awyr agored, yn enwedig ar safle Lloneirwg. Er nad oes nifer fawr o blant mae'r gofod awyr agored yn hanfodol, ac yn adeilad presennol y Court mae manau y tu allan ar gyfer pob ystafell ddosbarth.

RP- mae'n rhaid i ni ddilyn canllawiau y Building Bulletin sy'n nodi faint o le sydd ei angen, gan gynnwys manau awyr agored.

Dywedodd SP y cynhelir cyfarfod amlddisgyblaethol yn y Court ar 19 Ionawr am 3.45pm – 5.45pm, gydag Uwch Dîm Arweinyddiaeth/staff, Swyddogion y Cyngor, y Rheolwyr Prosiect (Aecom) a'r Penseiri (HLM) i drafod/rheoli disgywliad am adeiladau newydd yr ysgol. Bydd hwn yn weithdy 2 awr i drafod cyfagosrwydd, pa leoedd sy'n



gweithio orau, cynllunio ardaloedd awyr agored. Dywedodd SP y byddai croeso i llywodraethwyr fynychu.

Pennaeth - yn hoffi manteisio ar gyfle y newidiadau i ailenwi'r ysgol, os yw'n bosibl, mae gan yr enw anfanteision negyddol o fod wedi'i gysylltu â'r drefn gyfreithiol.

Mae SP yn ymchwilio i hyn.

Ni chafwyd cwestiynau pellach.

BA - byddai'n ddefnyddiol pe gellid ymdrin â'r pwyntiau pwysig a godwyd heddiw yn yr ymateb gan y llywodraethwyr i'r ymgynghoriad, e.e., yr angen am ddsbarthiadau bach, meithrin amgylchedd ac ati.

Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion a llywodraethwyr. Gadawodd swyddogion y Cyngor y cyfarfod i ganiatáu i'r Llywodraethwyr drafod yr ymgynghoriad ymhellach.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (Cyflawniad a Chynhwysiant), Sarah Pritchard (CTY), Anita Batten (AD), Rachel Burgess Willis (CTY)

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Michele Duddridge Friedl (MDF) y cyfarfod, croesawu'r staff a chyflwyno swyddogion.

Dwedodd MDF fod nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

Rhoddodd BA gyflwyniad PowerPoint yn nodi manylion y cynnig yn seiliedig ar gynnwys y ddogfen ymgynghori.

Rodd y cyflwyniad yn ymdrin â:

- Beth sy'n cael ei gynnig
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Cynigion ar gyfer Ysgol The Court
- Safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth – Safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Manteision y cynnig
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Holi ac Ateb

Gwahoddodd MDF gwestiynau gan staff.

Nodir y cwestiynau a ofynnwyd gan staff mewn *print italig* isod gydag ymateb y swyddog yn syth oddi tanodd.



C – Beth fydd y ffiniau gyda’ safle adeilad newydd?

A: Yn amodol ar ganllawiau y Building Bulletin a thrafod gydag ysgolion. Bydd ffiniau yn dibynnu ar faint adeiladau ac anghenion safle'r ysgol. Rhan o'r broses ddylunio. Rydym yn ystyried defnyddio'r ôl troed presennol.

C – Faint o ddosbarthiadau/maint dosbarthiadau?

A: Chwe dosbarth o chwe disgybl.

C – Pam nad oedd yr ysgol fyth am fod yn breswyl? Byddai preswyl yn newid bywyd i'r plant.

A: Mae lleoedd preswyl drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid yw'r syniad o gyfuno preswyl ag ysgol arbennig ddydd yn rhan o'r uchelgais yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Mae Gofal Cymdeithasol ac addysg ar wahân. Mae Estyn yn hoffi cadw Addysg a phreswyl ar wahân. Gallwn ystyried seibiant a gwella cyfleusterau i blant cyn ac ar ôl ysgol.

C – Sut beth fydd y ffin rhwng yr ysgolion?

A: Byddwn yn ystyried hyn fel rhan o'r broses creu gweledigaeth.

C – mae angen gwneud y broses law yn llaw gyda ni, yn hytrach na'i gwneud i ni?

A: Bydd hon yn broses gydweithredol.

C – A fyddwn yn dod yn Ffederasiwn gyda'r ysgolion yr ydym am gydleoli â hwy?

A: Na. Ni fwriedir iddo fod yn Ffederasiwn, er bod manteision i'r ddwy ysgol o ran partneriaeth a chydweithio.

C – A fydd yn rhaid i bobl ailymgeisio am eu swyddi?

A: Na. Dim ond pe bai ysgol yn cau. Mater i'r ysgol fydd penderfynu pa staff fydd yn symud i ba safle.

C – A yw wedi ei gynllunio y bydd y ddau safle'n agor ar yr un pryd?

A: Yn annhebygol, er ei fod yn bosibilrwydd. Rydym yn rhagweld proses raddol. Bydd yn cael ei gynllunio wrth i ni symud ymlaen.

C – A yw'r ysgolion yn mynd i fod ar sail ddaearyddol, neu'n seiliedig ar angen?

A: Yn ddelfrydol, byddem am i ddisgyblion fod mor agos i'w cartrefi â phosibl. Y nod yw i ddarpariaeth arbenigol fod yn fwy lleol a'i wasgaru ar draws y ddinas. Credwn mai dyma'r model cryfaf. Rydym yn cydnabod yr heriau o weithio ar draws dau safle. Nid ydym am greu dwy ysgol ar wahân. Rydym yn rhagweld un ysgol ar ddau safle.

C – Mae angen rhoi llawer o ystyriaeth i'r ffin. Mae angen i'r rhaniad ffisegol rhwng y safleoedd fod yn iawn. Oherwydd gall disgyblion y Court geisio achosi problemau ar safle'r ysgol arall. Hefyd, mae yna broblem gydag enw Ysgol y Court gan fod pobl yn meddwl ei fod yn rhywbeth i'w wneud â'r system gyfreithiol.



**Rhaglen Ysgolion
Cofnod y Cyfarfod Staff
Ysgol Arbennig The Court
15 Tachwedd 2021**



Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd MDF i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jenny Hughes (ADY), Aelodau o staff

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr. Dywedodd Cadeirydd y Llywodraethwyr nad oedd yr holl lywodraethwyr wedi derbyn y gwahoddiad ar gyfer y cyfarfod, ond byddai'r cyfarfod yn mynd rhagddo.

Amlinellodd RP fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad gan BA a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Cynigion ar gyfer Ysgol The Court
- Safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd Moorland
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd RP gwestiynau/sylwadau

Cadeirydd y Llywodraethwyr – materion yn ymwneud â mynedfa'r ysgol, rheoli traffig a ffensys i sicrhau perimedr yr ysgol.



RP – edrych ar ddwyn ffensys ymlaen; cydnabod bod trefniadau mynediad yn bwysig; hefyd yn edrych ar werth cymdeithasol fel rhan o'r prosiect gyda'r potensial ar gyfer buddsoddiad.

RP – gellir anfon unrhyw gwestiynau ac mae pob adborth i'w groesawu. Disgwylir ymateb ffurfiol gan y Corff Llywodraethu, ond mae sylwadau unigol hefyd i'w croesawu.

JH – byddent yn ceisio datblygu cwmpas ar gyfer manteision i'r ddwy ochr; datblygu'r berthynas er budd y ddwy ysgol.

Diolchodd RP i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jenny Hughes (ADY), Aelodau staff

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Michele Duddridge-Friedl y cyfarfod, croesawodd y staff ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad gan BA a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Cynigion ar gyfer Ysgol y Court
- Safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd Moorland
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd MDF gwestiynau/sylwadau gan staff

C – atebodd y cyflwyniad gwestiynau ond hoffwn wybod beth fyddai'n digwydd o ran mynediad i'r safle.

BA – dyluniad manwl a chynllun mynediad/safle heb ei ystyried yn ystod y cam hwn o'r broses ond bydd yn cael ei ddatblygu. Cyfle i ystyried yr opsiynau gorau ar gyfer trefniant safle a rennir.

MDF – os oes unrhyw ymholiadau pellach, gellir darparu gwybodaeth yn ôl y gofyn; hefyd yn gallu trefnu sesiynau galw heibio dilynol os oes angen.



Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd MDF i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (Cyflawniad a Chynhwysiant), Anita Batten (AD), Rachel Burgess Willis (CTY)

Y Cynghorydd Jayne Cowan (Cadeirydd y Llywodraethwyr), Maria John (Rhiant-lywodraethwr), Mark Thomas, Roger Stone.

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Michele Duddridge-Friedl (MDF) y cyfarfod, croesawodd y llywodraethwyr a chyflwynodd y swyddogion.

Dwedodd MDF fod nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

Rhoddodd BA gyflwyniad PowerPoint yn nodi manylion y cynnig yn seiliedig ar gynnwys y ddogfen ymgynghori.

Rodd y cyflwyniad yn ymdrin â:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth bresennol ILIE 11-19 oed
- Galw am leoedd ILIE 11 - 19 oed
- Niferoedd disgyblion yn Greenhill
- Safle'r Dutch Garden Centre
- Safle Tŷ Glas
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Pwyntiau trafod

Gwahoddodd MDF gwestiynau gan y llywodraethwyr.



Nodir y cwestiynau a holwyd gan y llywodraethwyr mewn *print italig* isod gydag ymateb y swyddog yn syth oddi tanodd.

C – Pam nad oedd yr amserlenni yn y Dogfennau Ymgynghori a'r cyflwyniad heb eu rhoi yng nghyfarfod y Cabinet?

A: Mae'r amserlenni a roddir yn rhan o'r broses ymgynghori statudol.

C – Ydych chi am wneud Greenhill yn ysgol breswyl?

A – Na. Ddim yn rhan o'r cynnig. Edrych i ddyblu maint Greenhill.

C – Croesawn safle Tŷ Glas yn ofalus, ond gwrthwynebwn safle'r Dutch Garden Centre yn chwyrn gan ei bod yn rhy beryglus ger traffordd a chyffordd â siopau bwyd cyflym. Ni fyddai'n gweithio i'r disgyblion. Hoffem ddefnyddio safle presennol Greenhill i adeiladu ysgol newydd.

A – Nid yw'r Cyngor yn berchen ar y tir y tu allan i fynedfa'r ysgol. Problemau mynediad i'r safle. Ni fyddai'n gallu datblygu'r safle gyda disgyblion ar y safle. Costau masnachol sylweddol a byddai'n effeithio ar y disgyblion.

C – Ble mae'r Asesiad Risg ar gyfer safle'r Dutch Garden Centre?

A – Rydym yn dal i fod ar gam cynnar iawn a byddai unrhyw asesiadau risg yn dilyn fel rhan o'r cais cynllunio.

C – Mae perygl y bydd y disgyblion yn agored i ddelio cyffuriau yn hawdd a gweithgareddau Llinellau Cyffuriau os yw'r ysgol wedi'i lleoli mor agos at draffordd. Hefyd, ni fyddai'r disgyblion yn gallu ymarfer sgiliau bywyd, megis defnyddio siopau lleol, dal bysiau, bod yn rhan o'r gymuned leol.

A – Byddai'n safle wedi'i diogelu'n llawn gyda gweithdrefnau diogelu ar waith. Rheolaethau mynediad, teledu cylch cyfyng, atebion ffensio i leihau risgiau. Mae manteision i safle'r Dutch Garden Centre – cyfleoedd ar gyfer gofal anifeiliaid, garddwriaeth, safle â theimlad gwledig da y gellir ei dirlunio i ddarparu cyfleoedd fel y gallai pob disgybl dreulio amser yn y ddau safle.

C – Mae'r gyffordd yn broblem – yn pryderu'n fawr am agosrwydd siopau bwyd cyflym. Bydd y disgyblion yn mynd yno, yn dringo ffensys. Gallai fod yn drasig. Mae'r gylchfan hefyd yn beryglus.

A – Rydym yn ystyried y pryderon hyn a byddwn yn ystyried yr holl bwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

C – Beth am fynediad i safle'r Dutch Garden Centre i rieni? bydd cymryd rhan mewn boreau coffi neu fynychu cyfarfodydd ar safle'r ysgol yn anodd i rieni yn ogystal ag i ddisgyblion gyrraedd yr ysgol. Pryderon diogelwch oherwydd agosrwydd at gyffordd brysur.

A – Byddai mynediad cyffredinol i'r safle yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses cynllunio. Rydym yn edrych ar y safle fel pecyn cyffredinol gyda safle Llanisien.



C – Beth am Lletem Werdd. Ysgol brif ffrwd wedi'i chynllunio ar safle Tŷ Glas?
A – Byddai'r Lletem Werdd yn cael ei hystyried yn fanwl yn ystod y cam cynllunio. Mae ysgol uwchradd wedi'i chynnig, ond nid oes rhagor o fanylion yn hysbys ar hyn o bryd. Mae

caffael y safle wedi ei ariannu 100% gan Lywodraeth Cymru. Mae cynnig Greenhill yn symud ymlaen cyn y cynnig yr ydych wedi'i grybwyll.

C – Mae gennym staff anhygoel yn Ysgol Greenhill. Os yw'r ysgol wedi'i rhannu ar draws dau safle, a fyddai'n rhaid i'r Pennaeth presennol frwydro am ei rôl?

A – Amhriodol i siarad am unigolion yn y cyfarfod hwn. Byddem yn eistedd i lawr ac yn trafod eich anghenion staffio a'ch tîm arweinyddiaeth, gan ystyried gwahanol arbenigeddau. Os bydd cynigion yn mynd rhagddynt, byddwn yn trafod gyda'r Corff Llywodraethu.

C – A fydd yr holl staff yn cadw eu graddau a'u swyddi?

A – Nid yw'n ysgol sy'n cau. Byddai'n rhaid i chi adolygu eich strwythur i'w gyflawni.

C – A yw pob swydd yn ddiogel?

A – Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar barhad staff ond byddai angen iddo ystyried anghenion staffio i lywio y sylfaen staff yn yr ysgol.

C – Pan fydd yr ysgol newydd yn cael ei datblygu, beth sy'n digwydd os bydd angen staff newydd arnom ar wahanol lefelau?

A – Methu ateb ar hyn o bryd. Ond mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag ehangu, datblygu. Nid yw'n gau ysgol.

C – Mae ein safle presennol o 7-8 erw o'r maint cywir fwy neu lai. Rydym yn pryderu y gallai safle Tŷ Glas fod yn rhy fach.

A – Mae'r meintiau yn unol â Chanllawiau'r Building Bulletin. Wedi'i asesu'n ofalus gan Gynghorwyr Technegol.

C – Mae'r sgôr D yn y ddogfen ymgynghori yn groes i farn Estyn am yr ysgol.

A – Mae'r sgôr D yn ymwneud ag Adeilad, Cyflwr ac Addasrwydd. Ddim yn adlewyrchiad o'r addysgu a'r dysgu yn yr ysgol.

C – Nid ydym yn gwrthwynebu cynnwys merched yn Ysgol Greenhill.

A – Dylech gynnwys hyn yn eich ymateb ysgrifenedig, ynghyd ag unrhyw geisiadau yr hoffech eu hystyried.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd MDF i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (Cyflawniad & Cynhwysiant), Sarah Pritchard (CTY), Anita Batten (AD), Louise Flynn (AD), Ceri Tanti (CTY), Rosalie Phillips (CTY), staff yr ysgol

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Michele Duddridge-Friedl (MDF) y cyfarfod, croesawodd y llywodraethwyr a chyflwynodd y swyddogion.

Dwedodd MDF fod nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

Rhoddodd BA gyflwyniad PowerPoint yn nodi manylion y cynnig yn seiliedig ar gynnwys y ddogfen ymgynghori.

Rodd y cyflwyniad yn ymdrin â:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth bresennol ILIE 11-19 oed
- Galw am leoedd ILIE 11 - 19 oed
- Niferoedd disgyblion yn Greenhill
- Safle'r Dutch Garden Centre
- Safle Tŷ Glas
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Dywedodd AD y byddent ar gael i gefnogi'r gweithgareddau Adnoddau Dynol a fyddai'n dilyn pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, megis recriwtio a chymorth ychwanegol wrth symud i ddau safle.



Pwyntiau trafod

Gwahoddodd MDF gwestiynau/sylwadau gan staff

Roedd y staff wedi llunio dogfen yn manylu ar sylwadau a phryderon. Yn gyffredinol, mae'r staff yn teimlo'n gadarnhaol iawn – safleoedd newydd maint da, yn edrych ymlaen at adeiladau newydd, darpariaeth arbenigol ym mhob safle (mecaneg, dysgu yn yr awyr agored ac ati), yn gallu darparu gwell dyfnder darpariaeth. Yn broblem i ddechrau gyda safle'r Dutch Garden Centre heb fod ar lwybr trafndiaeth gyhoeddus, safle Llanisien mewn lleoliad delfrydol o ran trafndiaeth gyhoeddus a hygrychedd.

Mae agor y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr benywaidd yn gadarnhaol iawn, er mwyn gallu diwallu eu hanghenion.

Edrych ar ddyblu'r gweithlu, sy'n gyffrous iawn ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dilyniant a datblygiad i staff presennol.

Pryderon

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- maint ystafell – pryderu pa fformiwla a ddefnyddir ar gyfer pennu meintiau – angen rhai ystafelloedd mwy gan gynnwys cyfleusterau cegin. Pryder am orfod rhannu ardaloedd defnyddwyr rhwng dosbarthiadau, gan y gallai hyn fod yn broblem i ddysgwyr.
- Lleoliad y Dutch Garden Centre – yn agos iawn at y draffordd ac mae dysgwyr yn agored i niwed ac weithiau'n fyrbwyll, weithiau'n gadael y safle, byddai gofyn croesi pont, lle mae garej gyda siopau bwyd cyflym, a fyddai'n atyniad i fyfyrwyr.
- Llinellau cyffuriau – dysgwyr sy'n agored i niwed – rhwyddineb mynediad i broblemau llinellau cyffuriau mor agos at yr M4.
- Gallai dysgwyr ollwng pethau oddi ar y bont i'r draffordd neu hyd yn oed neidio i'r gerbyttfordd, pryderon difrifol iawn.
- Safle Llanisien – cwestiwn parthed. rhannu safle gydag ysgol arall – os felly, gallai fod yn anodd iawn, gyda dysgwyr anwadal, gallai problemau fod o ran cael ysgol arall gerllaw.
- Pryder diogelu ynghylch cael disgyblion benywaidd, a fyddai'n cael ei rannu'n 50/50? Sut y byddai hynny'n gweithio i'r ysgol. Mae 80 o ddysgwyr yn llawer i'w cael ar ddau safle. Mae staff yn teimlo y byddai gweithio gyda mwy o ddysgwyr yn gwanhau'r cynnig.



- Byddai angen buddsoddi llawer o amser i baratoi staff newydd. Ni fyddent yn gallu bod ar eu gorau yn syth gan ei bod wedi cymryd blynyddoedd i gyrraedd y sefyllfa hon, cael staff

medrus a dod i adnabod y dysgwyr – byddai angen buddsoddiad mawr yn gynnar i uwchsgilio staff.

- Byddai angen edrych ar gerbydau – 4 cerbyd yn yr ysgol ar hyn o bryd – byddai angen mwy.
- Materion trafndiaeth – rhai dysgwyr yn gwneud hyfforddiant teithio yn y chweched dosbarth – sut beth fyddai cyrchu trafndiaeth gyhoeddus i safle'r Dutch Garden Centre
- Trosglwyddo staff a dysgwyr i'r ysgol newydd, a fyddai dysgwyr newydd yn B7 yn dechrau ar safle newydd neu'r ysgol gyfan yn symud?
- Ardaloedd toiledau – neillryw neu ar wahan? Byddid yn disgwyl problemau gyda dysgwyr pe baent yn gymysg.
- Angen caniatáu ar gyfer ceginau ac ati gan nad yw ardaloedd a rennir yn gweithio i fyfyrwyr ILIE.

Ymateb swyddogion/cwestiynau pellach

Nid oes dyluniad ar gael eto, ar gamau ffurfiannol, gan fod yr ymgynghoriad yn fwy am yr egwyddor a yw tyfu'r ysgol yn syniad da a bod y safleoedd yn gweithio. Byddid yn edrych ar gael gweledigaeth Addysg i nodi safbwynt addysgu a dysgu – o hyn byddid yn llunio briff dylunio sy'n llywio'r dyluniad, cyn iddo gael ei gwblhau. Byddai'r ysgol yn cael cyfleoedd i gyfrannu ar bob cam.

Byddai Sarah Pritchard yn gweithio gyda'r ysgol i ddeall yr ysgol, deall ei chryfderau a darganfod beth sydd ei angen ar y safle i wneud i'r ysgol weithio. Rydym am ddarparu'r adeiladau mwyaf addas ar gyfer eich ysgol. Bydd manylion fel manau a rennir, toiledau ac ati yn rhan o'r gwaith hwn. Hefyd, byddai pontio, staffio ac ati i gyd yn cael eu hystyried.

O ran materion sy'n benodol i'r safle gan nad oes gennym ddyluniad ar waith, nid oes gennym atebion manwl i'r cwestiynau hyn. Byddai angen hefyd i brofi cynlluniau gydag ymgynghoreion statudol fel priffyrdd ynghylch y cynlluniau fel rhan o'r broses gynllunio.

O ran safle'r Dutch Garden Centre, cydnabyddir agosrwydd at y draffordd fel pryder; mae nifer o atebion dylunio a byddid yn ceisio lleoli adeiladau cyn belled ag y bo modd o'r draffordd, tua 150m ar y pwynt agosaf. Gellir edrych ar gyfeiriadedd yr adeilad, a all fod yn rhwystr ynddo'i hun, haenau lluosog o ddiogelwch a theledu cylch cyfyng. Ffensio uchder a chadernid addas, nad yw'n hawdd ei ddringo, wedi'i ymgorffori mewn



dyluniad. Perimedr diogel. Byddai'n credu y gellid lliniaru risg Llinellau Cyffuriau yn gyfan gwbl drwy ddy lunio.

O ran trafndiaeth, yn cael trafodaethau ar hyn o bryd gyda darparwyr trafndiaeth ynghylch y posibilrwydd o gysylltiadau bws â safle'r Dutch Garden Centre

Ychwanegodd JH ein bod yn ymwybodol bod angen iddo fod yn ddiogel iawn, ond hefyd deimlo'n groesawgar, a bod wedi'i dirlunio'n braf ac ati.

Hoffi clywed bod yr ysgol yn croesawu'r syniad o dderbyn disgyblion benywaidd. Mae anghenion ILIE yn eang iawn ac mae angen iddynt ystyried sut y gallwn ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion hyn. Mae angen ystyried hyn, a sut mae angen cynllunio adeiladau a thiroedd i hwyluso hynny. Gall anghenion merched gyflwyno'n wahanol a gallent fod yn ystod ehangach o anghenion – ond bod angen i ni gynllunio ar gyfer hyn yn gynnar. Ddim yn debygol o fod yn gymysgedd 50/50 gan fod angen mwy o ddarpariaeth ar fechgyn yn ystadegol; yn amcangyfrif 25% o ferched ond byddai'n amlwg ar sail angen. Byddai angen hefyd i gynllunio cyflwyno merched, fel y byddai angen hefyd i gael carfan resymol o ferched er mwyn iddynt gael cyfoedion. Awgrym i edrych ar ysgolion ILIE eraill i weld sut mae ysgolion eraill yn cefnogi eu disgyblion; mae'r merched sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau annibynnol mewn darpariaeth rhyw gymysg.

80 o ddisgyblion ar y ddau safle yn fwy, gan ei bod yn ysgol o 64 ar hyn o bryd; ystyried mynd i 80 yw rhoi mwy o gyfle i ddysgwyr aros ymlaen ar gyfer llwybrau ôl-16 tra'n dal i gadw 56 o leoedd ar gyfer dysgwyr iau. Ni ragwelir y byddai pob dysgwr yn cymysgu.

O ran safle Llanisien/Tŷ Glas, y bwriad yw ceisio rhoi ysgol uwchradd ar ran arall o'r safle; nid yw'r dyluniad wedi'i gynllunio i fod yn gampws, ond dwy ysgol ar wahân; yn edrych ar atebion dylunio gan gynnwys llinellau diogel priodol rhwng ysgolion. Hefyd o gofio agosrwydd canol y ddinas a llawer o'r un atebion diogelwch safle sy'n cael eu hystyried ar gyfer safle'r Dutch Garden Centre.

O ran cludiant rhwng safleoedd, wrth i'r ysgol dyfu felly hefyd y gyllideb a gellir ei ystyried maes o law.

O ran trosglwyddo staff a dysgwyr i safle newydd, mae angen sylweddol yn dod drwodd yn y system, ac felly'r cynnig i ehangu; bydd angen iddynt gynllunio'n agos gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth i benderfynu ar y llwybr gorau. Edrych ar bedair blynedd i gynllunio ar gyfer hyn.

Cyfle i gynllunio a gwneud y ddarpariaeth gywir i gyrraedd y lle gorau posibl.

Cwestiwn gan staff: cyffrous, a'i weld fel cyfle gwirioneddol, ond yn pryderu'n fawr am agosrwydd safle'r Dutch Garden Centre i'r draffordd; asesiadau risg ar hyn o bryd ond mae'r draffordd yn rhywbeth nad oes gennym reolaeth drosto, ac ni ellir symud yr ysgol unwaith ei bod yn ei lle. Bydd rhai disgyblion yn ffynnu ar her a bydd wynebu ffensys lluosog yn eu gwneud yn fwy penderfynol i ddianc. Mae perygl gwirioneddol hefyd o



ymgeisiadau at hunanladdiad neu daflu rhywbeth i'r draffordd ac achosi damweiniau a allai fod yn ddifrifol. Pryderu'n fawr am faint y risg.

Potensial ar gyfer ystod eang o atebion dylunio, dim rhaid iddo fod yn ffensio, ond, dywedodd RP fod y pryderon wedi'u nodi.

Nododd aelod arall o staff mai'r prif broblem yw ei fod ar gyffordd, nid dim ond ei fod wrth ymyl y draffordd, gan fod gwasanaethau a mynediad.

Cwestiwn ynghylch a allai'r mynediad ddod o'r cyfeiriad arall yn lle hynny. Pryder am dacsis yn dod i mewn o'r gylchfan, posibilrwydd tagfeydd ar y ffyrdd i'r ysgol os bydd damwain ar y draffordd. Os bydd tacsï'n sownd mewn traffig,

posibilrwydd y bydd dysgwyr yn dewis mynd allan o'r tacsï a cheisio cerdded i'r ysgol.

Dywedodd RP y byddwn yn siarad â thrafnidiaeth am atebion i'r materion hyn. Edrych ar roi'r fynedfa i'r ysgol mor bell i ffwrdd o'r M4 â phosibl.

Ar hyn o bryd mae ganddynt gymdogion sy'n agos at yr ysgol sy'n gefnogol iawn iddynt. Mae cymuned fawr, breifat yn agos at safle'r Dutch Garden Centre a diddordeb cael gwybod a fu unrhyw adborth gan gymdogion newydd posibl i'r ysgol.

Dywedodd RP nad oedd unrhyw adborth wedi dod i law hyd yma.

Cwestiwn parthed a yw'r safle i'w rannu ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg; sibrydion yn mynd o gwmpas.

Cadarnhaodd RP nad yw hyn yn wir. Mae holl safle'r Dutch Garden Centre yn cael ei gyflwyno ar gyfer Greenhill; mae Ysgol Gynradd Llaneirwg yn adleoli i ailddatblygiad St Edeyrns; mae ymgynghoriad ar y cynnig i safle wag Llaneirwg yn Llanrhymni i gael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgol y Court ar agor ar hyn o bryd.

A all cerbydau fynd drwodd o Laneirwg i safle St Edeyrns?

Yn bendant, mynediad i gerddwyr, ond nid mynediad i gerbydau ar hyn o bryd – a dim cynlluniau ar gyfer hyn.

Cwestiwn safle Tŷ Glas ynghylch a oes unrhyw bryderon y gallai pobl eu cael gydag ysgol uwchradd wrth ymyl safle ysgol ILIE. Yn y gorffennol mae rhai ysgolion wedi gwrthwynebu cael Greenhill gerllaw.

Atebodd swyddogion, os oes gwrthwynebiadau, y bydd angen eu rheoli wrth i syniad yr ysgol uwchradd fynd rhagddo. Ar hyn o bryd, nid oes gwrthwynebiad i'r mater hwn.

Amlinellodd swyddogion fanylion ynghylch lle gellir gweld y cynigion ar wefan y Cyngor, a sut y gellir ymateb. Croesewir ymateb gan unigolion ac ymatebion grŵp. Noder bod ymatebion grŵp yn cael eu trin fel rhai ffurfiol ac y byddent yn cael eu cyhoeddi ond bod rhai unigol yn cael eu grwpio a byddent yn ddienw.



Rhaglen Ysgolion
Cofnod o Gyfarfod Rhithwir gyda Staff Ysgol
Ysgol Greenhill
13 Ionawr 2022



Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd RP i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
Corff Llywodraethu
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
26 Ionawr 2022



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Shirley Karseras (CTY), Martin Hulland (Pennaeth), aelodau o'r Corff Llywodraethu

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y mynychwyr.

Ar gais Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, ni roddwyd unrhyw gyflwyniad oherwydd cyfyngiadau amser, a gofynnwyd i ni fynd yn uniongyrchol i'r C + A.

Dyweddodd Brett Andrewartha (BA) mai'r cynnig hwn oedd i ffurfioli'r ddarpariaeth sydd ar waith ar hyn o bryd.

Cwestiynau ac ymateb

Nodir y cwestiynau a holwyd gan y llywodraethwyr mewn *print italig* isod gydag ymateb y swyddog yn syth oddi tanodd.

C ***Pa lefel o angen fydd ar y plant sy'n mynychu'r CAA o'u cymharu â'r plant sydd eisoes yn defnyddio'r cyfleuster?***

RP Nid oes unrhyw ehangu ar yr hyn sydd eisoes ar waith. Bydd y broses hon yn ffurfioli'r trefniant a dreialwyd ychydig flynyddoedd yn ôl gan sicrhau hirhoedledd y ddarpariaeth. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw sylwadau ar sut mae'r CAA yn gweithredu ar hyn o bryd ac yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi.

C ***A yw'r cynnig yn cynnwys darparu ar gyfer mwy o ddisgyblion ac felly yr angen am staffio ychwanegol?***

RP Na. Rydym am ffurfioli'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer 20 lle, sef nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r CAA ar hyn o bryd.

C ***A fydd y ddarpariaeth yn cael ei llenwi â disgyblion o'r tu allan i Ysgol Gymunedol Gorllewin Caerdydd neu y tu allan i gymuned Gorllewin Caerdydd?***

JH Mae'r ddarpariaeth a ddarperir yn ddarpariaeth arbenigol ac felly'n cael ei chynnig i ddisgyblion sydd â'r lefel hon o angen ar draws y ddinas. Fodd



Rhaglen Ysgolion
Cefnfarfod Rhithwir Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
Corff Llywodraethu
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
26 Ionawr 2022



bynag, nid oes cynllun i gynyddu nifer y lleoedd yn uwch na 20 lle, sef yr hyn yr ydych yn gweithredu gydag ef ar hyn o bryd.

RP Mae cynigion ar gyfer ADY ledled y ddinas yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Y nod yw cael darpariaeth ar ddwy ochr y ddinas fel y gall pobl gael mynediad at ddarpariaeth leol.

Byddai hyn yn well gennym ni hefyd er mwyn helpu i hyrwyddo ein Cynllun Teithio Llesol. Mae'r 20 lle a ddarparwn i ddisgyblion o'n cymuned ni yn bennaf.

C *Sut yr effeithir ar y cyllid os caiff y ddarpariaeth ei ffurfioli drwy'r cynnig hwn?*

JH Byddwn yn parhau i ariannu yn yr un modd. Ni fydd unrhyw wahaniaeth ac yn anffodus ni ddarperir unrhyw adnoddau ychwanegol. Caiff ei adolygu'n rheolaidd gyda'r pennaeth i sicrhau bod gennym yr adnoddau cywir ar waith.

C *A fydd angen staff ychwanegol?*

JH Ni ddylai fod gan nad yw nifer y lleoedd yn newid. Fodd bynnag, os oes angen penodol amdano o ran anghenion disgyblion, yna byddai'r Corff Llywodraethu yn ymwneud â'r penodiad hwnnw.

C *A fydd unrhyw newidiadau ffisegol i safle'r ysgol?*

RP Bydd ymweliad safle yn fuan gan y byddwn hefyd yn newid nifer y bobl B7 sy'n dod i mewn i'r ysgol. Byddai'n ddefnyddiol cael golwg ar sut y gallai'r holl ddarpariaeth weithio orau o fewn safle'r ysgol. Efallai y bydd o fudd i adleoli'r CAA. Ar hyn o bryd mae niferoedd is yn yr ôl-16 felly efallai y byddai'n well defnyddio'r lle hwn, neu efallai ddim? Cafwyd cais hefyd i ddefnyddio partishwns i leihau rhai o'r gofodau mwy. Rydym yn hapus i weithio gyda'r ysgol ar y trefniant gorau posibl.

Mae'r rhaglen Cyflymu wedi bod yn llwyddiant mawr sy'n defnyddio manau llai ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 a byddem yn awyddus nad yw hyn yn cael ei beryglu. O ran newidiadau ffisegol i safle'r ysgol, byddai croeso i ymweliad safle gael taith gerdded drwodd a myfyrio ar sut mae dysgwyr sy'n agored i niwed yn rhyngweithio â'r adeilad a nodi unrhyw bwyntiau pinsio.

RP Mae gofodau sbâr yn yr ysgol, a gellid defnyddio'r rhain i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd gweithrediadau'r ysgol.

Rwy'n deall manteision tymor byr hyn ond ar lefel tymor hwy, rydym yn gobeithio tyfu ein 6^{ed} dosbarth, felly byddai angen cydbwyso hyn yn ofalus.



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
Corff Llywodraethu
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
26 Ionawr 2022



RP Nid yw'n hollol berthnasol i'r cynnig hwn, ond rydym wedi ymrwymo i wneud y 6^{ed} dosbarth yn llwyddiant felly gobeithio y byddai'n opsiwn tymor byr.

Byddwn yn cyflwyno sylwadau ond nid oes unrhyw bryderon i ni gan na fydd pethau mewn gwirionedd yn newid, dim ond ffurfioli'r trefniant ydyw.

(MH) Ymwybodol o'r broses a'i bod yn cadarnhau'r hyn sydd gennym eisoes. Ein prif bryder yw sut yr ydym yn rheoli'r adnodd hwnnw yn yr adeilad, ond mae'n ymarferiad da i adolygu hyn beth bynnag.

Diolchodd Cadeirydd y Corff Llywodraethu i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben.



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
Cyfarfod Staff
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
17 Ionawr 2022



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Hibah Iqbal (CTY), staff yr ysgol

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) yn nodi manylion y cynnig:

- Beth sy'n cael ei gynnig
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd:
- Darpariaeth bresennol ILIE 11-19 oed
- Galw am leoedd ILIE 11 - 19
- Cynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion trafndiaeth
- Manteision y cynnig
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Dyweddodd Brett Andrewartha (BA) mai bwriad y cynnig hwn oedd ffurfioli'r ddarpariaeth sydd ar waith ar hyn o bryd.

Cwestiynau ac ymateb

C - Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio'n dda dros y blynyddoedd diwethaf, gofod yw'r unig fater, nid oedd yn ein dyluniad cychwynol, os rhowch hynny ochr yn ochr â thwf cyflym yr ysgol, mae pwysau o gyfeiriadau gwahanol a byddwn yn cyfarfod yn fuan i drafod hyn. Perthynas weithio gyda'r Awdurdod Lleol, gyda dim ond y materion ymarferol a gofod i'w datrys.

RP- Byddwn yn ymweld â'r safle. Mae rhai ardaloedd yn yr ysgol sy'n cael eu tanddefnyddio, am wneud y defnydd gorau o le; hefyd, mae cyfraddau geni yn



Rhaglen Ysgolion
Cyfarfod Rhithwir Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
Cyfarfod Staff
Anghenion Dysgu Ychwanegol:
Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)
17 Ionawr 2022



gostwng; mae angen i ni wybod bod y gweithrediad hwn yn gweithio'n dda i chi. Byddwn yn edrych ar y gofyniad gofod cychwynnol yn y tymor byr ac yna'n y tymor hir.

C - Cyllid ar gyfer y staff sylfaenol yn unig ar hyn o bryd. A oes unrhyw ddatblygiad o ran cyllid ychwanegol i wella'r cwricwlwm i'r disgyblion? Mae'r cyllid, er enghraifft, yn talu am gostau cyfleustodau ychwanegol neu'r staff therapi iaith a lleferydd.

JH- Hapus i drafod cyfleoedd galwedigaethol i'r disgyblion ymhellach. Yn ogystal â'r cyllid hwnnw, ceir cyllid anghenion addysgol arbennig arall. Ymdrinnir â chyfleustodau fel rhan o gyllid ysgol gyfan, nid CAA yn benodol. Hapus i drafod ymhellach unrhyw beth arall y mae angen i ni ei ystyried

RP- Eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn y broses briodol ac yn ffurfioli'r hyn sy'n bodoli eisoes. Rydych chi'n gwybod mwy am hyn na ni, mae gennych fynediad i'r ffurflen.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd RP i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.

**CYNIGION AD-DREFNU YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER
PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
(ADY)**

**DARPARIAETH IECHYD A LLES EMOSIYNOL AR GYFER
DISGYBLION OED CYNRADD AC UWCHRADD**

Atodiad 4: Nodiadau o Gyfarfodydd Ymgysylltu â Disgyblion



Yn bresennol: Rosalie Phillips (CTY), Ceri Tanti (CTY), Rachel Burgess Willis (CTY), Sarah Pritchard (CTY), disgyblion Ysgol y Court

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Croeso a Chyflwyniadau

Ymwelodd swyddogion CTY ag Ysgol Arbennig y Court i siarad â disgyblion ynglŷn â'r ymgynghoriad o ran darparu lleoedd ychwanegol ar gyfer ADY. Roedd cymysgedd o ddisgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 yn y cyfarfod.

Esboniodd swyddogion y cynigion fel y maent yn ymwneud â'r Court, gan ddweud mai'r cynnig yw i gael yr ysgol ar ddau safle, er mwyn caniatáu i fwy o blant allu mynychu'r ysgol, lleoliad arfaethedig yr ysgolion ac esbonio i'r dosbarth y bydd yr adeiladau'n cymryd peth amser i'w codi.

Gofynnodd swyddogion am eu barn ar yr hyn sy'n dda yn y Court, unrhyw bryderon sydd ganddynt a'r hyn yr hoffent ei weld mewn ysgol newydd.

Roedd gan y disgyblion nifer o awgrymiadau a sylwadau i'w gwneud:

Pethau da am Y Court i barhau yn yr ysgol newydd:

Mae'r staff yn dyfarnu tocynnau i ddisgyblion am waith da, y gall y plant ei wario ar bethau fel teganau 'fidget'. Roedd y disgyblion yn pryderu y gallai hyn newid pe bai'r ysgol ar draws dwy safle.

Pryderon sydd gan ddisgyblion:

Mynegwyd pryder ynghylch a fyddai gan y plant yr un cyd-ddisgyblion neu'n gorfod bod mewn dosbarth gyda phlant nad ydynt yn eu hadnabod pan fydd yr adeilad newydd yn agor?

Sut y byddai'r ysgol yn cael ei rhannu pan fydd yr ysgolion newydd yn agor? A fydd newidiadau'n cael eu gwneud i ddisbarthiadau sy'n bodoli eisoes fel bod plant yn mynd i'r ysgol agosaf i'w cartref?

Beth hoffai'r disgyblion ei weld mewn ysgol newydd:

- Ardal fwy i chwarae pêl-droed, gyda goliau mwy a ffensys uchel i gadw'r bêl-droed i mewn. Nid yw'r gofod presennol a ddefnyddir yn wastad, sy'n golygu bod y bêl yn rholio i ffwrdd.
- Rhywfaint o'r gofod allanol yn y Court pan fydd glaw yn gorlifo, hoffai'r disgyblion allu defnyddio'r gofod y tu allan.
- Llochesi y tu allan ar gyfer tywydd glawog.
- Gardd lysiau ac ieir.
- Mwy o gyfleoedd i gael anifeiliaid.
- Pwll nofio wedi'i gynhesu.
- Trampolîn fawr a chastell bownsio.
- Fframiau dringo sy'n addas i blant hŷn, hyd at Flwyddyn 6.

- Mwy o le y tu allan, ar hyn o bryd yn gorfod teithio oddi ar y safle ar gyfer pêldroed.
- Ystafelloedd dosbarth mwy, gyda ffenestri y gellir eu hagor.
- Cadeiriau mwy cyfforddus.
- Cadeiriau a byrddau sy'n olau ac yn hawdd eu symud wrth wneud gweithgareddau.
- Mwy o ystafelloedd ymlacio ar gyfer pan fydd angen lle i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth ar ddisgyblion – ar hyn o bryd dim ond un sydd ac mae angen i lawer o blant ei ddefnyddio.
- Lle i wneud celf a chreffft – ar hyn o bryd mae'n rhaid rhoi gorchudd i lawr i ddiogelu'r lloriau yn yr ystafell ddosbarth.
- Ystafell gerddoriaeth – os yw'r pennaeth yn cael cyfarfod, ni all y plant chwarae'r piano ar yr un pryd gan nad oes gan yr ysgol ofod ar wahân.
- Ystafell lle gall y plant wneud coginio, gan ei bod yn defnyddio cegin fach ar hyn o bryd.
- Llyfrgell fwy, gyda mwy o lyfrau.
- Neuadd fwy, gan fod yr un yn y Court yn fach ac nid oes offer Addysg Gorfforol yno.
- Hoffai'r disgyblion ddysgu ieithoedd eraill.
- Hoffai'r disgyblion i'r Cyngor Ysgol gael dweud eu dweud yn yr ysgol newydd.
- Roedd y disgyblion o'r farn ei bod yn beth da y gallai amseroedd teithio fod yn llai i gyrraedd a mynd adref o'r ysgol.
- Ar hyn o bryd mae'r plant yn bwyta cinio yn eu hystafell ddosbarth, a byddai rhai ohonynt yn hoffi'r opsiwn o allu bwyta mewn ffreutur.
- Angen mwy o gamerâu diogelwch a gatiâu i gadw disgyblion i mewn ac yn ddiogel.
- Mwy o wersi TGCh.

Adborth gan Athro Dosbarth

Dywedodd yr athro nad yw'r Wi-Fi yn y Court yn ddibynadwy, ac mae angen hyn os nad yw plentyn yn gallu aros yn y dosbarth a'i fod yn gorfod ymuno â gwersi o bell o ran arall o'r adeilad.

Diolchodd swyddogion i'r plant am wrando mor dda a rhoi eu mewnbnw. Yna esboniodd swyddogion yr hyn sy'n digwydd nesaf, gan ddweud y bydd holl sylwadau'r ymgynghoriad yn cael eu llunio mewn adroddiad i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor.

Os aiff y cynnig yn ei flaen, byddwn yn ysgrifennu at bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad i roi gwybod iddynt fod y cynnig yn symud ymlaen i'r cam nesaf.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd swyddogion i'r disgyblion a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Rosalie Phillips (CTY), Hibah Iqbal (CTY), Ceri Tanti (CTY), Rachel Burgess Willis (CTY), Cyngor Myfyrwyr Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Cyfarfu swyddogion CTY â Chyngor Myfyrwyr Ysgol Gynradd y Tyllgoed i siarad â disgyblion ynghylch yr ymgynghoriad o ran darparu lleoedd ychwanegol ar gyfer ADY.

Rhodddwyd cyflwyniad, ac esboniodd swyddogion y cynnig ar gyfer ysgol ag adeiladau newydd i ddarparu ar gyfer Ysgol Arbennig y Court ar ddau safle, gan ganiatáu i fwy o blant allu cael lle ysgol yn y Court. Cynigir bod un o'r adeiladau ysgol newydd hyn yn cael ei adeiladu ar gae Ysgol Gynradd y Tyllgoed.

Roedd gan y plant y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

A fyddwn yn colli unrhyw ran o'r ardal chwarae?

Bydd yr iard chwarae yn aros yr un fath. Byddai'r adeilad newydd yn mynd ar y cae, lle mae llawer o le.

A fyddem yn gallu chwarae gyda'r plant o'r ysgol arall?

Byddai hyn yn dibynnu ar yr hyn y mae'r ysgolion yn cytuno rhyngddynt eu hunain.

A fyddai gan yr ysgolion yr un fynedfa?

Y cynlluniau presennol yw bod plant sy'n mynychu ysgol newydd y Court yn cyrraedd i lawr yr un lôn ond y byddent yn gadael o fynedfa wahanol, ond nid yw hyn wedi'i benderfynu eto. Bydd Swyddogion y Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Gynradd y Tyllgoed i benderfynu ar y lle gorau ar gyfer mynedfa/allanfa os bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen.

Roedd y plant i gyd yn hapus gyda'r syniad o gael ysgol arall ar eu safle.

Pa oedran yw'r plant?

Oedran cynradd.

A fydd yr ysgol arall ar wahân?

Bydd, mae ganddynt eu hadeilad eu hunain a'u hathrawon eu hunain.

Pa mor bell fyddai'r ysgol o Ysgol Gynradd y Tyllgoed?

Ddim yn siŵr pa mor bell, neu ble yn union y bydd yn mynd ar y safle, ond bwriedir iddo fynd ar y cae.

Cytunodd y plant i gyd fod y cae yn ddigon mawr i'w rannu gydag ysgol arall.



**Rhaglen Ysgolion
Cofnod o'r Cyfarfod Rhithwir
Ysgol Gynradd Y Tyllgoed Ymgysylltu â Disgyblion
Anghenion Dysgu Ychwanegol – Ysgol y Court
22 Tachwedd 2021**



Cafodd y plant rywfaint o drafodaeth ynglŷn â ble ar y cae y gallai adeilad arall fynd orau ac awgrymodd y gallai'r fynedfa i'r safle fod wrth y ganolfan gymunedol.

Diolchodd swyddogion i'r plant am wrando mor dda a rhoi eu mewnbwn. Yna esboniodd swyddogion yr hyn sy'n digwydd nesaf, gan ddweud y bydd holl sylwadau'r ymgynghoriad yn cael eu llunio mewn adroddiad i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor.

Os aiff y cynnig yn ei flaen, byddwn yn ysgrifennu at bawb a atebodd yr ymgynghoriad i roi gwybod iddynt fod y cynnig yn symud ymlaen i'r cam nesaf.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd swyddogion i'r disgyblion a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Pennaeth & Staff (Ysgol Greenhill), cynrychiolwyr Blwyddyn 8 disgyblion Ysgol Greenhill, Rosalie Phillips (CTY), Rachel Burgess Willis (CTY)

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cyfarfu swyddogion CTY â grŵp o gynrychiolwyr disgyblion Ysgol Greenhill Blwyddyn 8 ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r ysgol:

- Cynyddu nifer y lleoedd disgyblion yn Ysgol Greenhill o 64 i 160
- Trosglwyddo Ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle yn safle'r Dutch Garden Centre a Heol Tŷ Glas, Llanisien?

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Rachel Burgess Willis (RBW) y cyfarfod a chroesawodd y disgyblion. Amlinellodd y Pennaeth fanylion y newidiadau arfaethedig i'r disgyblion. Dwedodd RBW ac RP wrth y disgyblion ein bod yn gofyn am eu barn ar ran Cyngor Caerdydd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Pwyntiau Trafod

Roedd y disgyblion yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd rhai o'r bechgyn nad oeddent yn croesawu'r cynnig i gynnig lleoedd yn Ysgol Greenhill i ferched yn y dyfodol
- O'r 8 disgybl a gyfrannodd, dywedodd 6 nad oedd ots ganddynt, a dywedodd 2 nad oeddent am gymysgu â merched.
- Roeddent i gyd yn hoffi'r syniad o adeilad newydd
- Maent yn mwynhau chwarae Four Squares (gemau pêl wedi'u chwarae yn y neuadd)
- Mae pob disgybl yn mwynhau Coginio
- Mae llawer yn mwynhau ymarfer corff yn y Gampfa a defnyddio'r bagiau Pwnio
- Nid oeddent yn hoffi safle arfaethedig y Dutch Garden Centre oherwydd ei fod wrth ymyl traffordd; roedd ganddynt bryderon diogelwch os byddai disgyblion yn rhedeg i ffwrdd i ganol traffig a phryderon sŵn ar gyfer y rhai â phroblemau synhwyraidd.

Gofynnwyd i'r disgyblion feddwl am bethau yr hoffent eu cael mewn ysgol newydd. Rhestrod y disgyblion a'r Pennaeth y canlynol:

- Ardal ddringo awyr agored – Coed â sleidiau rhaff, gwifrau gwîb, fframiau dringo a thŷ coeden
- Cyfleusterau twtio cŵn/Gofal Anifeiliaid (gyda chyfleoedd i ennill cymhwyster galwedigaethol)
- Caeau pêl-droed
- Neuadd fwy

- Ardaloedd campfa ar y ddau safle
- Cyfleusterau bocsi
- Trampolinau dan do ac yn yr awyr agored
- Pwll Nofio
- Ystafelloedd cysgu brys i gysgu ynddynt ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n profi digartrefedd
- Stiwdio Cynhyrchu Cerddoriaeth
- Ystafelloedd radio ysgol
- Gwell toiledau/ystafelloedd ymolchi
- Sinciau ym mhob un o'r ystafelloedd dosbarth
- Cogydd ar y ddau safle
- Parc BMX/sgwter/sglefrfyrdio gyda rampiau
- Cwrt Pêl Fasged
- Pwll synhwyraidd (fel yr un yn Ysgol Bryn Y Deri, Bro Morgannwg)
- Ystafell synhwyraidd/ymlacio (lle tawel)
- Ystafell sinema
- Cyfleusterau marchogaeth ceffylau
- Cysylltiad Wi-Fi da ym mhob ystafell
- Ystafelloedd tag laser
- Peli-paent yn y goedwig
- Play stations /X Boxes/ Consolau gemau
- Ardaloedd Chwaraeon Amldeffnydd
- Parkour
- Salon Gwallt i ddysgu sgiliau steilio/torri gwallt
- Ardal adeiladu i ddysgu crefft
- Caffi i ymarfer gwneud pethau
- Gweithdy mecaneg
- Ardal dan do y tu allan
- Ystafell Gelf
- Ieir a gwartheg
- Tanciau Acwariwm/ Pysgod
- Bysus Mini i'r Ysgol
- Labordai gwyddoniaeth ar gyfer arbrofion

Pryderon/gofidiau:

- A fydd athrawon newydd?
- Poeni y gallai fod gormod o ddisgyblion
- Eisiau ystafelloedd dosbarth mawr, ddim am deimlo'n glawstroffobig
- A fydd dosbarthiadau ar wahân ar gyfer bechgyn a merched?

Hoffai'r disgyblion fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynlluniau a gaiff eu datblygu. Nododd RBW a RP beth fyddai'n digwydd nesaf, diolchon nhw i'r disgyblion am eu mewnbwn a daeth y sesiwn i ben.



Yn bresennol: Pennaeth & Staff (Ysgol Greenhill), cynrychiolwyr disgyblion Blwyddyn 10 Ysgol Greenhill, Rosalie Phillips (CTY), Rachel Burgess Willis (CTY), Sarah Pritchard (CTY)

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cyfarfu swyddogion CTY â grŵp o gynrychiolwyr disgyblion Blwyddyn 10 Ysgol Greenhill ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r ysgol:

- Cynyddu nifer y lleoedd disgyblion yn Ysgol Greenhill o 64 i 160
- A ydych yn cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle sef y Dutch Garden Centre a Heol Tŷ Glas, Llanisien?

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Rachel Burgess Willis (RBW) y cyfarfod a chroesawodd y disgyblion. Amlinellodd y Pennaeth fanylion y newidiadau arfaethedig i'r disgyblion. Dywedodd RBW a RP wrth y disgyblion ein bod yn gofyn am eu barn ar ran Cyngor Caerdydd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Pwyntiau Trafod

Roedd y disgyblion yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd rhai o'r bechgyn nad oeddent wedi bod i'r ysgol gyda merched o'r blaen ac nad oeddent yn siŵr sut y byddai hyn yn gweithio ond roeddent o'r farn y byddai'n helpu gyda chynhwysiant ar gyfer pob rhyw e.e., anneauaid
- Roedd pob un o'r disgyblion yn hoffi'r syniad o adeilad newydd
- Maent yn mwynhau chwarae Four Squares (gemau pêl yn y neuadd)
- Mae pob disgybl yn mwynhau Ceginio
- Mae llawer yn mwynhau ymarfer corff yn y Gampfa a defnyddio'r bagiau Pwnio
- Nid oeddent yn hoffi safle arfaethedig y Dutch Garden Centre oherwydd ei fod wrth ymyl traffordd; roedd ganddynt bryderon diogelwch os oedd disgyblion yn rhedeg i ffwrdd i ganol traffig a phryderon sŵn ar gyfer y rhai â phroblemau synhwyraidd.
- Roeddent o'r farn y dylai'r ddarpariaeth anogaeth fod ar sail 1:1
- Roedd y disgyblion am gael opsiynau ôl-16 yn yr ysgol

Gofynnwyd i'r disgyblion feddwl am bethau yr hoffent eu cael mewn ysgol newydd. Rhestrod y disgyblion a'r ysgol y canlynol:

- Cyfleusterau salon gwallt gyda 2 gadair/2 sinc
- Cyfleusterau hunanofal
- Darpariaeth anogaeth gyda mynediad hawdd i gyfleusterau toiled
- Cae 4G ar gyfer pêl-droed – maint llawn gyda marciau hanner maint
- Cwrt pêl-fasged maint llawn gyda logo'r ysgol

- Cwrt tair wal ar gyfer sboncen
- Gofod Four Squares yn neuadd yr ysgol
- Ystafelloedd dosbarth gyda gwahanol fannau eistedd/cegin ac ardal i olchi. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer brecwast/anogaeth boreol (ni fydd ardaloedd a rennir yn gweithio i'r rhai sydd â gor-bryder)
- Mannau tawel
- Campfa gan gynnwys cyfleusterau bocsi a phwysau rhydd
- Cyfleusterau newid / cyfleusterau cawod
- Maes i ddatblygu sgiliau TG e.e., rhith-wirionedd
- Ystafell gerddoriaeth gan gynnwys offerynnau ac offer TG
- Cyfleusterau coginio – cegin fawr a nifer o ardaloedd coginio bach
- Ystafelloedd a reolir gan dymheredd
- Peiriannau gwerthu ar gyfer diodydd yn yr ardal chwaraeon
- Cartref i'r ceffylau
- Mannau adeiladu/mecanyddol
- Gardd/ardal lysiau
- Ardal twtio cŵn/gofal anifeiliaid
- Gofod y tu allan gan gynnwys ardal goediog a thaith gerdded byd natur
- Siglenni rhaff/llynell wîb/tŷ coeden
- Ardal sglefrfyrrddio/sgwter/parkour
- Ardal gymdeithasol y tu allan gyda phydw tân / ardal goginio y tu allan
- Ystafell Feddygol/Lles/Llesiant/weddïo
- Ardal seibiant ysgol lle gallai disgyblion aros dros nos os oes angen
- Ystafell ddosbarth symudol ar gyfer Coed – fan gydag adlen/'motorhome'
- Ardal awyr agored dan do
- Drws i'r tu allan ar gyfer pob ystafell ddosbarth gydag ardaloedd allanol
- Ystafell gweithiwr proffesiynol teulu/ymweld
- Ardal ar gyfer dysgu sgiliau bywyd/dysgu aeddfed

Hoffai'r disgyblion fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynlluniau a gaiff eu datblygu. Nododd RBW ac RP beth fyddai'n digwydd nesaf, diolchon nhw i'r disgyblion am eu mewnbwn a daeth y sesiwn i ben.



Yn bresennol: Rosalie Phillips (CTY), Ceri Tanti (CTY), disgyblion B12/13 ysgol Greenhill

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cyfarfu swyddogion CTY â grŵp o gynrychiolwyr disgyblion Ysgol Greenhill Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r ysgol:

- Cynyddu maint Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd
- A ydych yn cefnogi'r cynnig i godi adeiladau newydd ar gyfer Ysgol Greenhill ar draws dau safle yn y Dutch Garden Centre a Heol Tŷ Glas, Llanisien?

Croeso a Chyflwyniadau

Esboniodd swyddogion y gofyniad am leoedd ADY ychwanegol ar draws y ddinas. Y cynigion dan drafodaeth ar gyfer Ysgol Greenhill oedd sefydlu dau leoliad 80 lle mewn adeiladau newydd. Un ar ran o safle y mae'r Cyngor yn berchen arno yn Heol Tŷ Glas yn Llanisien, a'r llall ar safle'r Dutch Garden Centre ar Maes y Bryn Road. Gofyn am eu barn ar ran Cyngor Caerdydd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Pwyntiau trafod

Dywedodd y dysgwyr eu bod yn flin clywed y cynigiwyd bod yr ysgol yn symud o'r safle presennol gan na fyddent yn hoffi gweld yr ysgol yn newid. Cytunodd y dysgwyr eu bod i gyd wedi gwneud cynnydd oherwydd eu bod yn mynychu Ysgol Greenhill ac na fyddent wedi gwneud yr un cynnydd mewn mannau eraill. Roeddent hefyd yn teimlo ei bod yn fantais bod yr ysgol bellach yn cynnig chweched dosbarth.

Cytunodd y disgyblion fod gan Greenhill lawer o gyfleusterau da, megis campfa, neuadd bêl-fasged, Four Square, cyfleusterau pêl-droed ac ati yr hoffent eu gweld ar unrhyw safle newydd.

Dywedodd y dysgwyr fod y gofod y tu allan yn Greenhill yn bwysig iawn, er mwyn i ddysgwyr gael lle iddynt eu hunain pan fydd ei angen arnynt, ond hefyd mae'r gofod yn caniatáu lle i gemau.

Mae gardd yno y dywedodd y dysgwyr y byddai ei hangen mewn ysgol newydd, yn ogystal â sied ar gyfer offer ac ati.

Mae gan Ysgol Greenhill ardaloedd 'diogel' yn yr ystafelloedd dosbarth yn y brif ysgol lle gall disgyblion ymneilltuo i ymdawelu os oes angen iddynt, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda chŵn yr ysgol. Teimlai'r dysgwyr y byddai angen y rhain mewn unrhyw ysgol newydd, gan fod y mannau'n arbennig o bwysig i'r disgyblion iau.

Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Greenhill ardal ar wahân ar gyfer y chweched dosbarth yn hen dŷ'r gofalwr lle mae'r chweched dosbarth yn cael cyfle i ddysgu sgiliau bywyd defnyddiol. Roedd y dysgwyr i gyd yn cytuno ei bod yn bwysig cael lle ar wahân i'r



chweched dosbarth i ffwrdd oddi wrth y disgyblion iau i roi amser i'r chweched dosbarth i ffwrdd oddi wrthynt, ac i roi cyfle i ddisgyblion y chweched dosbarth wneud gweithgareddau nad ydynt efallai'n addas ar gyfer y disgyblion iau y gall eu hymddygiad fod yn llai rheoledig.

Mae rhai cyn-ddysgwyr yn dod yn ôl ac yn ymweld â'r ysgol ac mae un cyn-ddisgybl bellach yn gweithio yn yr ysgol fel cynorthwydd addysgu. Dywedodd y myfyrwyr y byddent yn dal i ddod yn ôl i ymweld â'r staff pe baent yn symud i safle newydd, ond ni fyddai'r un peth ac ni fyddai gan safle newydd yr un atgofion na chysylltiad iddyn nhw.

Dywedodd y dysgwyr yr hoffent i'r staff presennol i gyd fod mewn un ysgol a staff newydd yn y lleoliad arall. Roedd y dysgwyr yn cefnogi'r syniad o gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael, gydag un dysgwr yn ychwanegu ei fod wedi cael trafferth cael lle a bu'n rhaid iddo aros i le fod ar gael yn Greenhill.

Mynegwyd pryder ynghylch yr ysgol yn darparu lleoedd i ferched. Ar hyn o bryd mae pob un o ddisgyblion Ysgol Greenhill yn fechgyn, llawer ohonynt heb fod mewn ysgol gymysg gyda merched. Roedd rhai o'r disgyblion yn mynychu ysgolion cynradd gyda merched, ond roeddent yn teimlo ei fod yn wahanol wrth i'r disgyblion fynd yn hŷn, gan fod posibilrwydd o berthynas rhwng y disgyblion a allai achosi anawsterau.

Trafodwyd safle Llanisien. Doedd dim ots gan y dysgwyr am y lleoliad o ran teithio - ar hyn o bryd mae'r chweched dosbarth yn teithio i Greenhill yn annibynnol, i'w helpu i symud ymlaen i'r coleg neu'r gwaith ac i fagu hyder. Mae'r lleoliad presennol yn caniatáu iddynt deithio naill ai ar fws neu drwy ddulliau llesol eraill (cerdded, beicio ac ati) ac ystyriwyd y byddai teithio i'r safle yn debyg iawn o ran bod angen cymryd dau fws neu fws a cherdded.

Mae posibilrwydd y gellid defnyddio'r rhan arall o'r safle yn y dyfodol ar gyfer ysgol uwchradd. Nid oedd y dysgwyr o'r farn bod y syniad o gael safle Greenhill yn agos at ysgol arall yn syniad da, gan ddweud nad yw Greenhill yn cymysgu'n dda ag ysgolion eraill, a gallai fod ymladd ac aflonyddwch.

Roedd y dysgwyr yn hoffi'r syniad o gael safle mwy gwledig ar gyfer safle newydd Greenhill, yn enwedig os byddai llawer o le y tu allan, ond roeddent yn teimlo nad oedd safle arfaethedig y Dutch Garden Centre yn addas o ystyried ei agosrwydd at y draffordd. Cytunodd y disgyblion fod risg uchel i ddisgyblion gael mynediad i'r draffordd neu geisio taflu cerrig ar i'r ceir. Cytunodd y dysgwyr hefyd ar y ffaith nad oedd llwybr cerdded diogel yn creu problem oherwydd bod y safle'n agos at y draffordd.

Cytunodd y grŵp ei bod yn debygol y byddai dysgwyr yn ceisio croesi'r draffordd pe baent yn gadael y safle, gyda disgyblion iau ddim yn gweld y perygl o geisio croesi'r ffordd, ac y gallai hyd yn oed y disgyblion hŷn, a fyddai fel arfer â gwell dealltwriaeth o risgiau, yn penderfynu ceisio cerdded ar draws, yn enwedig os oeddent yn ddig neu'n ofidus, ac mae siawns y gallen nhw gael eu taro gan gar.



**Rhaglen Ysgolion
Cofnodion Ymgysylltu â Disgyblion B12/13
Ysgol Greenhill
26 Ionawr 2022**



Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach, esboniodd swyddogion beth fydd yn digwydd nesaf, diolchon nhw i'r disgyblion am eu hamser a'u sylwadau a daeth y sesiwn i ben.



Yn bresennol: Rosalie Phillips (CTY), cynrychiolwyr disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Greenhill, Staff (Ysgol Greenhill)

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cyfarfu swyddogion CTY â grŵp o gynrychiolwyr disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Greenhill ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r ysgol:

- Cynyddu Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd
- Trosglwyddo Ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle yn safle'r Dutch Garden Centre, Heol Tŷ Glas, Llanisien?

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Rosalie Phillips (RP) y cyfarfod a chroesawodd y disgyblion. Esboniodd RP y gofyniad am leoedd ADY ychwanegol ar draws y ddinas. Y cynigion sy'n cael eu trafod ar gyfer Ysgol Greenhill yw sefydlu dau leoliad 80 lle mewn adeiladau newydd. Un ar ran o safle mae'r Cyngor yn berchen arno yn Heol Tŷ Glas yn Llanisien, a'r llall ar safle'r Dutch Garden Centre, Maes y Bryn Road.

Pwyntiau Trafod

Roedd y disgyblion o'r farn y byddai'n syniad da ehangu'r ysgol er mwyn caniatáu i fwy o ddisgyblion fynychu ac elwa o'r cymorth y mae'r ysgol yn ei ddarparu.

Roedd ganddynt deimlad cymysg am gael merched yn yr ysgol. Ar hyn o bryd mae pob un o ddisgyblion Ysgol Greenhill yn fechgyn, llawer ohonynt heb fod mewn ysgol gymysg gyda merched. Roedd rhai o'r disgyblion yn mynychu ysgolion cynradd gyda merched, ond roeddent yn teimlo ei fod yn wahanol wrth i'r disgyblion fynd yn hŷn, gan fod posibilrwydd o berthynas rhwng y disgyblion a allai achosi anawsterau.

Roedden nhw o blaid darpariaeth ysgol newydd yn Llanisien ond nid oedden nhw'n cefnogi'r defnydd o safle'r Dutch Garden Centre. Roeddent o'r farn bod lleoliad y safle yn agos at y draffordd yn rhy swnlyd a bod rhai o'r disgyblion yn debygol o redeg i ffwrdd ar i'r draffordd os oeddent yn ddig neu'n ofidus.

Roedd y gofod awyr agored a oedd ar gael ar y safle presennol yn bwysig iawn iddynt ac awgrymwyd y dylid datblygu'r safle yn Llanisien ochr yn ochr â safle presennol yr ysgol.

Roedd mynediad i fannau coginio hefyd yn bwysig.

Cytunodd y disgyblion fod gan Greenhill lawer o gyfleusterau da, megis campfa, neuadd bêl-fasged, Four Square, cyfleusterau pêl-droed ac ati yr hoffent eu gweld ar unrhyw safle newydd.

Hoffent weld y cyfleusterau canlynol mewn unrhyw ysgol newydd:



- Neuadd fwy
- Cae pêl-droed 3G
- Gwell campfa
- Ystafell goginio
- Gwell TG
- Mannau tawel ar gael i ymneilltuo pan fo angen
- Ardal cegin a sinc ym mhob ystafell ddsbarth
- Toiledau wedi'u huwchraddio (dylai'r rhain fod yn un rhyw yn unig)
- Cyfleusterau chwaraeon da
- Ystafell gynadledda ar gyfer pryd mae rhieni/gweithwyr cymorth yn ymweld
- Campfa awyr agored
- Gofod y tu allan

Ni chafwyd cwestiynau pellach. Esboniodd RP yr hyn fyddai'n digwydd nesaf, diolchodd i'r disgyblion a daeth y sesiwn i ben.



Yn bresennol: Rosalie Phillips (CTY), Ceri Tanti (CTY), cynrychiolwyr disgyblion Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd swyddogion y disgyblion a nodi manylion y newidiadau arfaethedig. Roedd angen manau ADY ychwanegol ar draws y ddinas. Y cynigion sy'n cael eu trafod ar gyfer Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yw sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle o fewn y llety presennol. Mae opsiynau eraill ar gyfer lleoedd ychwanegol wedi'u cyflwyno ar draws y ddinas.

Gofynnwyd i'r disgyblion a oedd ganddynt unrhyw ymholiadau, pryderon neu gwestiynau.

Holi ac Ateb

C - pryd y byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei gwblhau?

A – adroddiad ymgynghori i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor ym mis Mawrth 2022; os bydd hyn yn mynd ymlaen i hysbysiad statudol, byddai hyn ym mis Mai 2022, gyda phenderfyniad terfynol rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022.

C - A fyddai'r CAA ar agor ar gyfer y diwrnod ysgol cyfan?

A - Byddai, yn rhedeg drwy'r dydd. Y prif wahaniaeth fyddai bod y plant sy'n mynychu yn byw'n lleol ar hyn o bryd, tra gallai plant o'r tu allan i'r ardal fynychu yn y dyfodol.

Sylw - Syniad da i blant sydd angen mwy o help, poeni am fwy o draffig. Meddwl ei fod yn syniad da gan fod rhai disgyblion sy'n cael trafferth ac sydd angen help ychwanegol. Pan ddaw'r myfyrwyr i mewn, teimlad y dylid trefnu'r amseroedd fel nad yw'n effeithio ar fyfyrwyr yr ysgol.

Awgrym bod amseroedd dechrau/gorffen wedi'u hamrywio i atal mwy o draffig rhag cyrraedd neu adael y safle ar yr un pryd.

Cadarnhaodd y dysgwyr eu bod yn deall beth oedd ystyr iechyd a lles emosiynol.

Dywedodd y dysgwyr fod yr adeilad a'r cyfleusterau yng Ngorllewin Caerdydd yn dda, ac y bydd y nodweddion yn cael eu defnyddio'n dda gan y math yma o ganolfan.

C - A fydd y ddarpariaeth hon yn agored i blant sydd eisoes yn mynychu Gorllewin Caerdydd?



A - Byddai plant sy'n cael lle yn y CAA yn cael eu hasesu fel rhai sydd angen mynychu CAA ac efallai bod y plant hynny'n mynychu Gorllewin Caerdydd ar hyn o bryd neu fe allent fod yn mynychu ysgol arall. Un o fanteision ychwanegol yr ysgol fyddai y byddai'r cynnig yn caniatáu recriwtio staff â sgiliau arbenigol, sy'n golygu y byddai cyfle i'r staff hynny rannu eu sgiliau â staff eraill yr ysgol.

Ni chafwyd cwestiynau pellach.

Diolchodd RP i'r dysgwyr a'r athro am eu hamser, eu sylwadau a'u sylw, a dywedodd pe bai unrhyw un ohonynt yn meddwl am unrhyw gwestiynau ar ôl diwedd y cyfarfod neu os hoffent gael rhagor o wybodaeth, i roi gwybod i'r athro a byddent yn gallu cysylltu â CTY gyda'r ymholiadau hyn.

Daeth y cyfarfod i ben.

**CYNIGION AD-DREFNU YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER
PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
(ADY)**

**DARPARIAETH IECHYD A LLES EMOSIYNOL AR GYFER
DISGYBLION OED CYNRADD AC UWCHRADD**

Atodiad 5: Nodiadau o Gyfarfodydd Cyhoeddus Rhithwir



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Jenny Hughes (ADY), Jamyn Beesley (Pennaeth y Llys), Sarah Pritchard (CTY, Cath Keegan Smith (ADY), Kassia Morris (ADY) Rosalie Phillips (CTY), Aelodau o'r cyhoedd

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod, croesawodd y mynychwyr ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad gan MDF a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthu lleoedd:
- Cynigion ar gyfer Ysgol The Court
- Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd Moorland
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd RP gwestiynau/sylwadau gan y rhai a oedd yn mynychu

C/C – Rhiant plentyn yn Ysgol Gynradd Moorland. Ble bydd llety blynyddoedd cynnar ar y safle?

RP – edrych ar ddau adeilad gyda bloc meithrin wrth ymyl y Dderbynfa a bloc arall wrth ymyl tŷ'r gofalwr.



C/C – mae traffig o amgylch safle'r ysgol eisoes yn brysur; faint yn fwy o draffig fydd?

RP – ceisio gwneud newidiadau i barcio ac edrych ar effaith traffig fel rhan o'r cais cynllunio ar gyfer y gwaith arfaethedig.

C/C – beth fyddai'r effaith ar adnoddau/staffio ysgolion?

JH – byddai dau ddsbarth CAA gyda chyllid yn cael ei ddarparu er mwyn i'r ysgol gyflogi staff addysgu a chynorthwyr addysgu ychwanegol. Ceisio rhoi cyfleoedd i'r ddwy set o ddisgyblion.

C/C – croesawu dull cynhwysol.

C/C – a fydd The Court yn dal i gael ei rhedeg fel un ysgol er ar draws dau safle?

RP – edrych ar un ysgol ar draws dau safle (trefniant safle hollt). Mae amrywiaeth o arbenigedd o fewn yr ysgol bresennol ac yn adeiladu ar hyn.

JB – byddai un pennaeth gydag uwch reolwyr ar bob safle yn cefnogi gwerthoedd a gweledigaeth.

JH – mae angen mwy o leoedd; fodd bynnag, mae plant yn elwa o amgylcheddau meithrin llai. Mae safleoedd hollt yn caniatáu amseroedd teithio byrrach. Mae'r ddau safle arfaethedig yn gyfagos i ysgolion prif ffrwd a fydd yn rhoi cyfleoedd i staff a disgyblion yn y ddwy ysgol.

JB – yn caniatáu datblygu perthynas â chymunedau.

C/C – a fydd y Dosbarth Lles yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn parhau?

JH – bydd y Dosbarth Lles yn aros. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei hadolygu'n gyson ond bydd lleoli'r Llys yn y Tyllgoed yn darparu manteision e.e., hyfforddiant a rennir.

Amlinellodd MDF y ffyrdd y gellir ymateb i'r ymgynghoriad, drwy e-bost, ymateb copi caled neu arolwg ar-lein ar wefan y Cyngor

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach, diolchodd RP i bawb a fynychodd, a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jenny Hughes (ADY), Shirley Karseras, Rosalie Phillips (CTY), Aelodau o'r cyhoedd

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod, croesawodd y mynychwyr ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad gan BA a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthu lleoedd:
- Cynigion ar gyfer Ysgol The Court
- Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Moorland
- Categoriâu Cyflwr
- Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg
- Materion Trafnidiaeth Ysgol Gynradd Moorland
- Manteision y cynigion
- Anfanteision a risgiau posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd RP gwestiynau/sylwadau gan y rhai a oedd yn mynychu

C/C – Sut bydd hyn yn effeithio ar safle Ysgol Gynradd Pen y Bryn?

BA – bu trafodaeth gydag Ysgol Gynradd Pen y Bryn a oedd yn cefnogi'r angen i gynyddu'r cyflenwad o leoedd ILIE. Roedd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn symud i safle newydd a byddai'r safle presennol yn dychwelyd i'r Cyngor. Byddai angen addasu'r ffin rhwng y ddau safle gyda gwelliannau i'r ardal awyr agored



ym Mhen y Bryn. Gallai traffig ychwanegol gael effaith, ond dangosodd y gwaith cychwynnol ei bod yn debygol y byddai llai o draffig yn gyffredinol.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach, diolchodd RP i bawb a fynychodd, a daeth y cyfarfod i ben.



Yn bresennol: Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jenny Hughes (ADY), Shirley Karseras, Martin Hulland (Pennaeth CWCHS), Rosalie Phillips (CTY), Aelodau o'r cyhoedd

Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.

Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams

Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod, croesawodd y mynychwyr ac amlinellodd fanylion y newidiadau arfaethedig.

Cafwyd cyflwyniad gan BA a oedd yn nodi'r canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthu lleoedd:
- Darpariaeth bresennol ILIE 11-19 oed
- Galw am leoedd
- Cynigion ar gyfer Ysgol Greenhill
- Safle'r Dutch Garden Centre
- Safle Tŷ Glas, Llanisien
- Cynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
- Cynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Categoriâu Cyflwr
- Categoriâu Addasrwydd
- Ansawdd a Safonau
- Materion Trafnidiaeth
- Manteision y cynigion
- Anfanteision posibl
- Opsiynau gwahanol a ddiystyrwyd
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwestiynau ac ymateb

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y rhai a oedd yn mynychu

C – mae amseriad y cyfarfod cyhoeddus yn ei gwneud yn anodd i rieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol fynychu. Byddai gallu mynychu cyfarfod ymgynghori yn ystod oriau ysgol yn fwy priodol.



BA – fel rhan o'r ymgynghoriad mae cyfleoedd ar gyfer sesiynau galw heibio ar-lein. Rydym am fod mor hyblyg â phosibl a byddem yn croesawu'n fawr y cyfle i siarad â rhieni.

C – a yw'r opsiwn o ehangu Greenhill ar ei safle presennol wedi'i ystyried?

RP – edrychwyd ar hyn. Mae'r ysgol ar safle cyfyngedig sy'n cyfyngu ar opsiynau adeiladu, a byddai unrhyw ddatblygiad yn arwain at effeithiau sylweddol ar ddisgyblion. Mae angen ehangu'r ddarpariaeth ac ystyriwyd amrywiaeth o opsiynau gyda'r cynigion a gyflwynwyd yn caniatáu mwy o ddarpariaeth ar draws y ddinas.

C – Mae ILIE yn gyfnod cyffredinol. A fydd darpariaeth ar gael i blant a phobl ifanc sydd â phryder difrifol?

JH – cydnabod bod amrywiaeth o anghenion y mae angen mynd i'r afael â hwy ac sy'n ceisio datblygu ac ehangu arferion yn Greenhill. Bydd dyluniad yr ysgol yn ystyried yr ystod o anghenion a rhoddir ystyriaeth hefyd i ddatblygu ystod o ddarpariaethau.

C – rhiant dau fachgen ag awtistiaeth ac aelod o rwydwaith cymorth ac eiriolaeth ADY. Rydym yn derbyn llawer o geisiadau am wybodaeth am bryder.

JH – bu cynnydd yn nifer y plant sydd â phryder gyda rhai plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli yn y sector annibynnol. Cydnabod bod amrywiaeth o anghenion ac yn awyddus i ddiwallu'r rhain.

RP – bu cynnydd mewn anghenion ledled y ddinas gyda darpariaeth yn cael ei hadolygu'n barhaus.

BA – croesawu pob ymateb; gellir gwneud ymatebion drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk, ar-lein drwy arolwg ar wefan y Cyngor (heb fod yn gyfyngedig i gwestiynau safonau). Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 01 Chwefror 2022.

Holodd MDF a oedd unrhyw ddolenni a fyddai'n ddefnyddiol ac yn cytuno i rannu dolenni cyfryngau cymdeithasol.

C – sut y penderfynodd y Cyngor at bwy i ysgrifennu?

MDF – mae amrywiaeth o ymgynghoreion statudol a rhoddir ystyriaeth i randdeiliaid eraill y gallai cynigion fod yn berthnasol iddynt.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd RP i bawb a daeth y cyfarfod i ben.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

The Court Special School Responses

Response from Estyn – The Court School / Moorland Primary School

Estyn response to the proposal to increase the capacity at the Court special school and transfer it to two sites, in new build accommodation on the site of Fairwater Primary School and to the current St Mellons, church in Wales primary school site in Llanrumney and to establish a specialist resource base (SRB) for primary aged children with Complex Learning Needs at Moorland Primary School

As a priority we would be particularly interested in working with the LEA to look at how children with Emotional Health and Wellbeing difficulties are supported within the WM sector and are interested in looking at a structure within the Welsh-medium sector for pupils at Stage 4-5 who, potentially, may have needs that cannot be met in a mainstream setting. As a school we benefited hugely from working with the LEA in 2016 in establishing out Nurture provision within the school. This was supported by the LEA but we have also invested significantly in staffing the provision appropriately as a school. Moving forward we firmly believe that all Welsh Medium school should be supported in creating a similar provision to meet the needs of the majority of stage 4 –5 pupils. We are acutely aware that the greatest hurdle in ensuring this provision is physical space and funding within the Welsh Medium sector. However, we feel that in building new sites for the Court School and Greenhill, it is absolutely crucial that an element of Welsh Medium provision is within the school enabling

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

pupils who can no longer access WM education in the mainstream to have their education partly through the medium of Welsh.

As a school we firmly believe that there is a lack of specialist training opportunities within the WM sector due to the absence of more SRB provisions. Despite celebrating the new ASD SRB in Glantaf, we are concerned that the increasing need in the Primary sector has not been fully explored. A clear need to invest in specialist bases in order to grow specialist ALN support within the workforce seems crucial at the moment. A rich programme of specialist training opportunities is needed within the WM sector.

As a school we continue to be eager to continue with our collaborative work with the LEA leadership to scope and realise creative and practical solutions to these challenges, which could become a blueprint of outstanding practice for the future.

Yours sincerely

JOHN HAYES
Headteacher

CATRIN PALLOT
Deputy Headteacher

BOARD OF GOVERNORS

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf – Headteacher and Governing Body

28 Ionawr 2022

Ymateb Corff Llywodraethol Glantaf

Ymgynghoriad ADY Cyngor Dinas a Sir Caerdydd

Rydym yn croesawu cyhoeddi dogfennaeth ymgynghoriad Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ar gynlluniau i gynyddu a gwella adnoddau addysg arbenigol ar draws y ddinas. Dyma fuddsoddiad y gall y cyngor fod yn wirioneddol falch ohono ar gyfer dysgwyr bregus a'r rhai hynny sydd eisioes yn wynebu heriau sylweddol mewn bywyd. Yn ogystal, byddwn yn cytuno yn llwyr bod y galw am y ddarpariaeth arbenigol hyn i anghenion mwy cymleth, yn enwedig o fewn anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol, wedi cynyddu yn amlwg iawn dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae uchelgais a dyhead y Cyngor Sir i ymateb i'r angen a'r twf i'w groesawu'n llawn, a hynny drwy sicrhau y lleoedd a'r amgylchedd gorau posib mewn Ysgolion 21ain Ganrif. Drwy weithredu yn y dull hwn, mae'r Cyngor yn hybu cynhwysiant, gofal ac uchelgais i ddisgyblion a theuluoedd sy'n wynebu heriau ymarferol a chymleth. Byddem fel corff yn falch o weld y cynlluniau hyn yn lleddfu a chynorthwyo'r unigolion hynny yn sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.

Canolfan Arbenigol Glantaf

Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun Canolfan Glantaf sydd yn darparu ar gyfer amrediad llawn o anghenion cymleth ADY i'n disgyblion cyfrwng Cymraeg. Mae'r Ganolfan wedi'i chartrefu mewn cabanau dros dro a chlwstwr o ystafelloedd bach ynghanol Ysgol Glantaf. Nid oes chyfleusterau ymolchi a thai bach priodol ac mae'r adnoddau yn gyfyng a di-raen. Yn wir, dim ond drwy fuddsoddiad rhaglen deledu "Prosiect Pum Mil" yn Haf 2021, y cafodd ein dysgwyr fynediad at ardal ddysgu allanol aml-bwrpas, sydd wedi cyfoethogi a thrawsnewid eu profiadau dysgu. Rydym yn croesawu y buddsoddiad bychan ers Medi 2021 i ychwanegu ystafell ddosbarth ac adnewyddu tai bach arbenigol, ond yn sylfaenol mae'r Ganolfan mewn amgylchedd ddysgu anaddas, cyfyng ac anfodhaol. Mae'n siom gwirioneddol i ni bod dysgwr wedi gorfod gadael Glantaf eleni er mwyn gallu parhau i dderbyn cynhaliaeth arbenigol a hynny mewn Canolfan cyfrwng Saesneg oedd â chyfleusterau mwy addas a phriodol i'w anghenion.

Croesawn y buddsoddiad hwn i'r Ganolfan, fydd yn sicrhau adnoddau a chanolfan bwrpasol i'n dysgwyr ar gyfer y dyfodol. Serch hynny, mae'r amserlen yn rhy uchelgeisiol, ac mae'n anhebygol iawn y bydd y Ganolfan newydd ar agor erbyn Medi 2023. Gofynnwn am gefnogaeth ymarferol i wella adnoddau ein Canolfan presennol i ddiwallu anghenion ein disgyblion hyd nes y bydd y Ganolfan newydd ar agor. Mae hyn yn arbennig o wir er mwyn sicrhau y byddwn yn gallu croesawu a darparu yn addas i ddysgwyr newydd ym Medi 2022 a 2023.

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

Canolfan Arbenigol Awstistiaeth

Rydym yn croesawu sefydlu canolfan arbenigol ym maes awstistiaeth yng Nglantaf, er yn amheus o allu agor y ganolfan arbenigol erbyn Medi 2023. Mae'r cyngor yn hollol gywir wrth nodi'r twf amlwg yn y galw am gynhafiaeth yn maes awtistiaeth. Mae'r twf yn weladwy o fewn yr ysgol ac o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Bydd sefydlu'r Ganolfan yng Nglantaf yn estyniad gwych o fewn cymuned yr ysgol, yn darparu ffocws i hyfforddi staff ac yn gallu estyn cymorth i ddisgyblion i barhau i gynyddu a theimlo croeso o fewn dosbarthiadau ac addysg brif ffrwd. Mae'n holl bwysig bod y Ganolfan hon yn rhan ganolog o fywyd yr ysgol, yn darparu hafan rhwydd i unigolion ac yn cynnig cymorth di-rwystr i ddysgwyr sydd ar adegau yn teimlo rhwystredigaethau gwirioneddol mewn cymuned ysgol gyfun fawr.

Llawenhawn hefyd y bydd y Ganolfan hon hefyd yn gallu arloesi i roi cymorth i ddysgwyr awtistig trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd buddiannau sefydlu'r ganolfan arbenigol yn gymorth i ddysgwyr unigol ac wrth hyfforddi ac ymestyn arfer o dda o fewn y gweithlu. Bydd y ganolfan hefyd yn fodd o arloesi cefnogaeth i ysgolion eraill gan gefnogi gwaith y sector cyfrwng Gymraeg.

Er y bwriad i sefydlu'r Ganolfan hon fel cam cyntaf, rydym yn credu bod peidio â sefydlu canolfan debyg ar gyfer disgybion oedran cynradd drwy'r Gymraeg yn wendid sylfaenol. Mae'n debygol o wanhau ein gallu i sicrhau llwybr ddysgu gyson a gofalgwr i ddisgyblion awtistig o'r Cyfnod Sylfaen drwy CA2 ac i'r adran arbenigol uwchradd. Rydym yn ofni bydd nifer o ddisgyblion awtistig yn gadael y sector cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar oherwydd y diffyg hwn. Dylid edrych ar sefydlu Canolfan arbenigol oedran cynradd i ddarparu'r gefnogaeth allweddol yma yn y blynyddoedd cynnar i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd yn fuan iawn. Byddai hyn yn debyg i'r gefnogaeth awtistig sydd eisioes yn bodoli o fewn y sector cynradd cyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd.

Capasiti Glantaf

Er ein bod fel Corff Llywodraethol yn croesawu'r buddsoddiad yn y ddwy Ganolfan mae angen sylw manwl i gapasiti ein campws a'n adeiladau presennol. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, mae addasrwydd adeiladau Glantaf yn disgyn yng Nghategori C (er byddai Canolfan Glantaf ar ei phen ei hun, yn debygol o fewn Categori D). Dengys hyn nad yw addasiadau i adeiladau presennol yn Glantaf yn debygol o fod yn fuddsoddiad gwerth am arian, nac ychwaith yn debygol o fod yn effeithiol wrth edrych ar boblogaeth bresennol a niferoedd darogan yr ysgol. Nodir yng nghynlluniau yr Awdurdod y bydd Glantaf o hyd o dan niferoedd capasiti yn y blynyddoedd nesaf, ond nid yw hyn yn debygol.

Niferoedd Presennol a Darogan Glantaf 2021-27

Niferoedd	BI 7	BI 8	BI 9	BI 10	BI 11	BI 12*	BI 13*	Cyfanswm
Medi 2021	241	230	238	214	218	111	118	1370

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

Medi 2022	240	241	230	238	214	142*	105**	1410
Medi 2023	270	240	241	230	238	139*	132**	1490
Medi 2024	240	270	240	241	230	155*	130**	1506
Medi 2025	240	240	270	240	241	150*	145**	1526
Medi 2026	240	240	240	270	240	157*	142**	1529
Medi 2027	240	240	240	240	270	157*	145**	1532

* Cyfradd trosglwyddo 65%: mae'n anodd cadarnhau niferoedd sy'n trosglwyddo CA4 > CA5, ond mae'r ysgol wedi sicrhau cyfradd trosglwyddo cadarn o dros 65% dros y blynyddoedd diwethaf ac ar adegau dros 70%. Nod yr ysgol yw cryfhau'r gyfradd trosglwyddo hwn ymhellach mewn ymateb i CSGA Cyngor Caerdydd a thargedau Llywodraeth Cymru. ** Mae gostyngiad yn niferoedd BI 12 > 13 bob blwyddyn sydd eto yn anodd ei ddarogan yn fanwl gywir – ond rhoddir awgrym o niferoedd yma.

Mae'r niferoedd uchod yn dangos yn glir nad yw'n rhesymegol nac yn gost effeithiol trawsnewid ystafelloedd presennol yr ysgol ar gyfer ystafelloedd arbenigol neu ddarpariaeth brif ffrwd oherwydd bod twf ym mhoblogaeth yr ysgol yn mynd i olygu bod angen yr ystafelloedd hyn ar gyfer diwallu anghenion ein cwricwlwm a phoblogaeth yr ysgol.

Mae hyn yn arbennig o wir am ein darpariaeth ôl-16 ble mae'r ysgol yn targedu cynnal niferoedd trosglwyddo o dros 70% o CA4 i CA5 er mwyn ateb anghenion ein disgyblion. Mae hyn yn ogystal yn diwallu targedau CSGA Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ac uchelgais blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i annog mwy o ddysgwyr i barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ôl-16. Mae'n holl bwysig i lwyddiant uchelgeisiol y targedau hyn i'r ysgol gael y capasiti angenrheidiol i ymestyn a chyfoethogi ein darpariaeth gwricwlaidd presennol. Gallai hynny gynwys cyrsiau amgen, cyrsiau galwedigaethol L1/2 a chysiau arbenigol (dyweder mewn hyfforddi Cynorthwy-wyr Dysgu L1-3) o fewn ein Chweched Dosbarth.

Nodwn yn glir felly y dylai'r ymgynghoriad hwn sicrhau buddsoddiad digonol i beidio â lleihau capasiti adeiladau presennol yr ysgol, ond yn hytrach ymestyn ac ehangu ein cyfleusterau a'n hadnoddau.

Wrth groesawu'r buddsoddiad, rydym yn sylweddoli y bydd yr adeiladu yn golygu colli ardal chwarae / cae pêl-droed ac felly nodwn na ddylid cyfyngu yn ogystal ar ardaloedd dysgu presennol yr ysgol. Yn ogystal dylai'r buddsoddiad mewn addysg arbenigol hefyd fod yn fodd o wella ac ehangu ar adnoddau i bob disgybl, a hynny drwy sicrhau bod mynediad rhwydd i rannu adnoddau a gweld buddiant y buddsoddiad i bob aelod o gymuned Glantaf.

ADY o fewn y sector cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

Er bod yr ymgynghoriad yn datgan uchelgais didwyll i wella cyfleusterau ADY arbenigol i bob disgybl, mae'n eithriadol o siomedig felly nad oes yr un datganiad (ag eithrio buddsoddiad Glantaf) i ymestyn darpariaeth a chefnogaeth i ddisgyblion o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Yn wir mae hwn yn rhyfedd o ystyried bod ymgynghoriad CSGA Caerdydd yn nodi bwriad i agor Canolfan Arbenigol ADY mewn tair ysgol gynradd Gymraeg ac ymhob un o'r tair ysgol gyfun. Mae cyhoeddi dogfennaeth strategol sydd ddim yn dangos cysondeb cyfeiriad yn maes datblygiad y Gymraeg yn creu dryswch ac yn tanseilio ymddiriedaeth rhanddeiliaid.

Nid yw'r ddogfen chwaith yn cydnabod y twf yn y galw o fewn anghenion dysgu o fewn y sector Gymraeg. Yn wir wrth beidio cydnabod bod yr un gofynion o fewn ysgolion Cymraeg (ag sydd yn digwydd o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg), mae methiant i sicrhau cysondeb gweithredu a darpariaeth ar draws y ddwy sector. Hoffem gynnig i swyddogion sir wneud awdit buan i ysgol dechreuol pob disgybl o fewn unedau ac ysgolion arbenigol Caerdydd ar hyn o bryd. Byddai hyn yn canfod beth yw'r ganran o ddisgyblion a ddechreuodd eu taith ddysgu mewn cylch meithrin neu ysgol cyfrwng Cymraeg cyn i rieni ddewis neu orfod symud eu plentyn i addysg cyfrwng Saesneg neu addysg arbenigol. Rydym yn ofni bod nifer o rieni yn gorfod wynebu pwysau ymarferol i drosglwyddo eu plentyn o addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd diffyg mewn adnoddau neu arbenigaeth, a bod hynny wedyn yn lleihau cyfleoedd a phrofiadau i'w mab/merch a hynny drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Byddai dadansoddiad o'r fath yn ddangosydd gwerthfawr nid i fesur y galw/ddarpariaeth bresennol o fewn y sector, ond i'w ddeall yn nghyd-destun beth allai fod, petai'r ddarpariaeth ar gael, yn lleol ac yn addas i bob disgybl. Ein ofn pennaf yn sgil y buddsoddiad sylweddol hwn i (sy'n ffocysu bron yn llwyr ar addysg arbenigol cyfrwng Saesneg), yw y bydd hyn yn cryfhau'r pwysau ar rieni i symud eu plant ac i orfod dewis addysg cyfrwng Saesneg ar gyfer eu plentyn. Yn y dyfodol, gall rhieni wynebu penderfyniad eithriadol o anodd o ran cadw eu plentyn o fewn addysg cyfrwng Cymraeg prif ffrwd heb adnoddau arbenigol, neu ddewis ysgol hardd arbenigol 21in Ganrif, ond hynny mewn cyfrwng iaith nad oedd yn ddewis cyntaf nac ychwaith efallai o ran eu hawl ieithyddol.

Rydym yn croesawu'r datganiad gan swyddogion y sir yn ein cyfarfod ymgynghori, y bydd cynigion pellach yn fuan iawn ynglyn ag ehangu darpariaeth ADY o ran y sector cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd, ond mae'n siomedig na chynhwysir hynny yn yr argymhellion hyn. Edrychwn ymlaen at weld datblygu'r argymhellion hyn o fewn y sector Gymraeg, a hynny heb oedi ymhellach.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r twf amlwg yn anghenion cymorth arbenigol yn maes iechyd meddwl a lles emosiynol disgyblion. Er hyn, nid oes cydnabyddiaeth bod union yr un twf / pwysau yn digwydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Nid oes dim cynllun na bwriad i sefydlu dim darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn o fewn addysg cynradd nac uwchradd. Mae angen ymateb ar frys i'r galw hwn o fewn ysgolion Cymraeg, sydd ar adegau yn methu darparu yn ddigonol i anghenion lles mwy cymleth ein disgyblion mwyaf bregus.

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

I gloi, hoffem bwysleisio bod uchelgais y cynigion i'w canmol ac edrychwn ymlaen at weld buddsoddiad sicr i wella addysg ein disgyblion mwyaf bregus. Yn y gorffennol, mae Caerdydd wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus drwy dyfu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y cam nesaf yw'r angen i gynyddu darpariaeth ADY Cymraeg er mwyn sicrhau bod y sector yn gynhwysol ac yn medru croesawu pob disgybl, beth bynnag fo'i allu. Mae'n anffodus mewn gwirionedd na fu'n bosib cynyddu capasiti addysg arbenigol wrth agor ysgolion cynradd newydd o fewn y sector dros y blynyddoedd diwethaf, ac awgrymwn y dylai pob buddsoddiad newydd o hyn allan gynnwys cynlluniau i ateb y galw yn maes ADY. Edrychwn ymlaen i weld cyhoeddi y CSGA diwygiedig er mwyn gweld yn glir sut gellir ateb y galw yn gynnaliadwy a phendant ar gyfer y ddegawd hon.

Edrychwn ymlaen at ddiwygiadau a thrafodaethau agored a chadarnhaol i ymestyn, cryfhau a gwella'r cynlluniau hyn ar y cyd ac mewn partneriaeth yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Yn gywir,

E Patchell
Cadeirydd
Corff Llywodraethu
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Matthew H T Evans
Pennaeth

28 January 2022

Glantaf Governing Body Response

Cardiff City and County Council ALN Consultation

We welcome the publication of the documentation of Cardiff City and County Council's consultation on plans to increase and improve specialist education resources across the city. This is an investment for vulnerable learners and those who already face significant challenges in life that the council can be truly proud of. In addition, I would agree entirely that the demand for these specialist provision to more complex needs, particularly within mental health and emotional well-being needs, has increased very noticeably in recent years.

The County Council's ambition and aspiration to respond to need and growth are to be fully embraced by ensuring the best possible places and environment in 21st Century Schools. By taking this approach, the Council promotes inclusion, care and ambition for pupils and families facing practical and complex challenges. We as a body would be pleased to see these schemes significantly alleviate and support those individuals in the coming years.

Glantaf Specialist Centre

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

This is particularly the case in the context of the Glantaf Centre which caters for a full range of complex ALN needs for our Welsh-medium pupils. The Centre is housed in demountables and a cluster of small rooms in the middle of Ysgol Glantaf. There are no appropriate washing facilities and toilets and the resources are limited and substandard. Indeed, our learners only gained access to a multi-purpose external learning area through the investment of the "Project Pum Mil" tv programme in Summer 2021, which has enriched and transformed their learning experiences. We welcome the small investment since September 2021 to add a classroom and refurbish specialist toilets, but the Centre is basically located in an unsuitable, cramped and unsatisfactory learning environment. We are truly disappointed that a learner has had to leave Glantaf this year in order to continue to receive specialist support in an English-medium Centre that had more suitable and appropriate facilities for their needs.

We welcome this investment in the Centre, which will secure resources and a dedicated centre for our learners for the future. However, the timetable is too ambitious, and it is highly unlikely that the new Centre will be open by September 2023. We ask for practical support to improve the resources of our existing Centre to meet the needs of our pupils until the new Centre is open. This is particularly the case for ensuring that we will be able to welcome and deliver appropriate provision for new learners in September 2022 and 2023.

Autistic Specialist Centre

We welcome the establishment of a specialist centre in the field of autism at Glantaf, although we are sceptical of being able to open the specialist centre by September 2023. The council is absolutely right to note the marked growth in demand for support in autism. The growth is visible within the school and within Welsh-medium schools in Cardiff. The establishment of the Centre in Glantaf will be an excellent extension within the school community, providing a focus to train staff and enabling support to be extended to pupils to continue to make progress and feel welcome within mainstream classes and education. It is vital that this Centre is a central part of school life, provides an easy haven for individuals and offers unrestricted support to learners who at times feel really frustrated in a large comprehensive school community.

We are also delighted too that this Centre will be able to innovate in providing support for autistic learners through the medium of Welsh. The benefits of establishing the specialist centre will be support for individual learners and in training and extending good practice within the workforce. The centre will also be a means of pioneering support for other schools supporting the work of the Welsh-medium sector.

Despite the intention to establish this Centre as a first step, we believe that failing to establish a similar centre for primary age pupils through the medium of Welsh is a fundamental weakness. It is likely to weaken our ability to ensure a consistent and caring learning pathway for autistic pupils from the Foundation Phase through KS2

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

and to the secondary specialist department. We fear that many autistic pupils will leave the Welsh-medium sector in the early years because of this deficiency. The establishment of a specialist primary age Centre to provide this key support in the early years in order support learners and their families should be looked at very soon. This would be similar to the autistic support that already exists within the English-medium primary sector in Cardiff.

Glantaf Capacity

Whilst as a Governing Body we welcome the investment in both Centres, the capacity of our existing campus and buildings needs close attention. As noted in the consultation, the suitability of the Glantaf buildings falls within Category C (although the Glantaf Centre on its own would likely fall within Category D). This shows that adaptations to existing buildings at Glantaf are unlikely to be a value for money investment, nor are they likely to be effective considering the school's current population and predicted numbers. The Authority's plans note that the numbers at Glantaf will still be under capacity in the coming years, but this is unlikely.

Current and Predicted Numbers at Glantaf 2021-27

Numbers	Yr 7	Yr 8	Yr 9	Yr 10	Yr 11	Yr 12*	Yr 13*	Total
September 2021	241	230	238	214	218	111	118	1370
September 2022	240	241	230	238	214	142*	105**	1410
September 2023	270	240	241	230	238	139*	132**	1490
September 2024	240	270	240	241	230	155*	130**	1506
September 2025	240	240	270	240	241	150*	145**	1526
September 2026	240	240	240	270	240	157*	142**	1529
September 2027	240	240	240	240	270	157*	145**	1532

* 65% transfer rate: it is difficult to confirm KS4 > KS5 transfer numbers, but the school has achieved a robust transfer rate of over 65% in recent years and at times over 70%. The school aims to further strengthen this transfer rate in response to Cardiff Council's WESP and Welsh Government targets. ** There is a reduction in Yr 12 > Yr 13 numbers each year which is again difficult to predict accurately – but an indication of numbers is given here.

The above numbers clearly show that it is not logical or cost-effective to convert existing school rooms into specialist rooms or mainstream provision because growth in the school population is going to mean that these rooms will be required to meet the needs of our curriculum and the school population.

This is particularly true of our post-16 provision where the school targets the maintenance of transition numbers of over 70% from KS4 to KS5 to meet the needs of our pupils. This also meets the City and County of Cardiff Council's WESP targets

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

and the Welsh Government's priority ambition to encourage more learners to continue their education through the medium of Welsh post-16. It is vital that the success of these ambitious school targets has the necessary capacity to extend and enrich our existing curricular provision. This could include alternative courses, L1/2 vocational courses and specialist courses (such as L1-3 Teaching Assistant training) within our Sixth Form.

We therefore make it clear that this consultation should ensure sufficient investment not to reduce the capacity of existing school buildings, but rather to extend and expand our facilities and resources.

In welcoming the investment, we appreciate that the construction will mean the loss of a play area/football pitch and therefore note that the existing learning areas of the school should not be restricted as well. In addition the investment in specialist education should also be a means of improving and expanding resources for all pupils, by ensuring that there is easy access to share resources and ensure the benefit of the investment to all members of the Glantaf community.

ALN within the Welsh-medium sector in Cardiff

The consultation states a genuine ambition to improve specialist ALN facilities for all pupils. It is therefore extremely disappointing that there is no statement (with the exception of Glantaf's investment) to extend provision and support to pupils within Welsh-medium schools.

Indeed this is strange given that the Cardiff WESP consultation indicates an intention to open an ALN Specialist Centre in three Welsh-medium primary schools and in all three comprehensive schools. The publication of strategic documentation that does not show consistency of direction in the area of Welsh language development creates confusion and undermines the trust of stakeholders.

Neither does the document recognise the growth in demand in learning needs within the Welsh language sector. Indeed, in not recognising that there are the same requirements within Welsh-medium schools (as is the case within English-medium schools), there is a failure to ensure consistency of implementation and provision across both sectors. We would like to propose that county officers conduct an early audit of every pupil's initial school within Cardiff's specialist units and schools at this time. This would ascertain the percentage of pupils who started their learning journey in a Welsh-medium nursery or school before parents chose or had to move their child to English-medium or specialist education. We fear that many parents have to face practical pressures to transfer their child from Welsh-medium education because of a shortfall in resources or expertise, which then reduces opportunities and experiences for their son/daughter through the medium of Welsh. Such an analysis would be a valuable indicator not to measure current demand/provision within the sector, but to understand it in the context of what could be if the provision were available, local and suitable for all pupils. Our overriding fear from this significant investment (which focuses almost exclusively on English-medium specialist education), is that this will increase the pressure on parents to move their children and to have to choose English-medium education for their child. In future,

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

parents may face an extremely difficult decision in terms of keeping their child within mainstream Welsh-medium education without specialist resources, or choosing a beautiful 21st Century specialist school, but in a language medium that was not a first choice or perhaps in terms of their linguistic right.

We welcome the statement by county officials at our consultation meeting, that there will be further proposals very soon on expanding ALN provision in terms of the Welsh-medium sector in primary schools, but it is disappointing that that is not included in these recommendations. We look forward to seeing these recommendations developed within the Welsh language sector, without further delay.

The consultation identifies the marked growth in specialist support needs in pupils' mental health and emotional well-being. However, there is no recognition that exactly the same growth/pressure is taking place in Welsh-medium schools as well as English-medium schools. There is no plan or intention to establish any Welsh-medium provision in this area within primary or secondary education. There is an urgent need to respond to this demand within Welsh-medium schools, which at times fail to provide adequately to the more complex welfare needs of our most vulnerable pupils.

In conclusion, we would like to emphasise that the ambition of the proposals is to be commended and we look forward to seeing secure investment to improve the education of our most vulnerable pupils. In the past, Cardiff has been extremely successful in growing Welsh-medium provision. The next step is the need to increase Welsh-medium ALN provision to ensure that the sector is inclusive and able to welcome all pupils, whatever their ability. It is really unfortunate that it has not been possible to increase specialist education capacity with the opening of new primary schools within the sector over recent years, and we suggest that all new investments from now on should include plans to meet demand in ALN. We look forward to seeing the publication of the revised WESP to see clearly how demand can be met sustainably and decisively for this decade.

We look forward to open and positive reforms and negotiations to extend, strengthen and improve these plans jointly and in partnership in the months and years ahead.

Yours sincerely,

E Patchell
Chairman
Governing Body
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Matthew H T Evans
Headteacher

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

Cardiff Governors Association

Good afternoon,

As Chair of Cardiff Governors Association, I write to offer my full support for the current SOP plans for extending ALN provision within the city. Obviously, each individual Chair of Governors involved will represent the views of their own governing body.

There is a clear and defined need for more ALN provision across all areas of the city. This will only rise over time. My main concern going forward is meeting this increased need in a strategic and holistic way. Patently the closer to home appropriate and best provision on an individual basis is, the better for all stakeholders, especially the children and young people at the heart of all we do. It is vital the LA align the replacement Local Development Plan with SOP proposals to ensure that the correct, user-friendly, infrastructure is in place before we are expecting the implementation of new school places. Habits, once formed, are very hard to change. We need to balance meeting the rights of all our children and young people, in line with UNCRC and FGWBA with other corporate goals such as One Planet Cardiff, Cardiff 2030 and Child Friendly City status.

Cardiff Governors Association works hard with governor colleagues across the city to raise issues and concerns for us all to consider and urges colleagues to participate in discussion and consultation exercises and consider the broader city-wide and Wales-wide landscape within education. We will continue to collaborate with the LA to be a critical friend.

Kind regards

Karen Dell'Armi

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

Merched y Wawr

Annwyl Swyddog,

Ymgynghoriad Cyngor Caerdydd ar ADY

Diolch yn fawr am yr ymgynghoriad ar y cynllun ADY a diolch am y cyfle i ymateb.

Rydym yn falch o weld y sylw i wella y ddarpariaeth ac rydym yn cefnogi yn llwyr eich ymrwymiad i gynyddu'r buddsoddiad ar gyfer disgyblion mwyaf bregus ein cymunedau. Rhaid hefyd canmol yr ymrwymiad i dyfu arbenigedd staff a chael cyfuniad gwell o ganolfannau arbenigol ac hefyd unedau o fewn ysgolion prif-ffrwd ledled y ddinas. Mae hyn yn bwysig.

Yr hyn sydd fodd bynnag yn destun pryder, wrth ddarllen y ddogfen ymgynghoriad, yw'r diffyg sylw digonol i gynyddu y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn fater o ofid mawr i rieni a theuluoedd sydd yn dymuno i'w plant gael addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ddogfen yn cyflwyno model ble mae buddsoddiad cynyddol yn y sector cyfrwng Saesneg ond heb yr un cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hynny yn creu sefyllfa sydd yn gorfodi teuluoedd i symud plant gydag anghenion dysgu ychwanegol i ysgolion cyfrwng Saesneg ble mae darpariaeth gwell, gan achosi straen ac anghyfartaledd ychwanegol ar deuluoedd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn groes i amcanion y Llywodraeth ac hefyd yn groes i argymhellion ymgynghoriad CSGA/WESP Caerdydd.

Rhaid buddsoddi yn y sector cyfrwng Cymraeg hefyd er mwyn sicrhau darpariaeth gyfartal a di-rwystr sydd wir yn dangos tystiolaeth o bolisi cynhwysol.

Mater o syndod oedd gweld mai data am yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn unig a gafwyd yn y ddogfen ac nad oedd unrhyw gyfeiriad at ddata y sector cyfrwng Cymraeg. Argymhellir, felly, bod gwaith yn cael ei wneud ar unwaith i gasglu data ynglŷn ag anghenion a phrofiadau plant yn y sector cyfrwng Cymraeg cynradd a bod hyn yn cael ei gyflwyno a'i drin fel rhan o'r gwaith ymgynghori a chynllunio. Ar hyn o bryd nid yw'r profiadau yma yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen ac eto mae anghyfartaledd dybryd yn wynebu plant ag anghenion addysg ychwanegol sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg – diffyg lle, diffyg adnoddau, diffyg darpariaeth arbenigol. Collwyd cyfleoedd enfawr gan Gaerdydd i beidio cryfhau y cyfleoedd a'r ddarpariaeth yn yr ysgolion cynradd newydd cyfrwng Cymraeg a sicrhau cyfleoedd hafal ar draws y ddinas. Wrth sefydlu canolfannau awtistiaeth ar gyfer y sector uwchradd rhaid hefyd cynllunio ar gyfer gwell darpariaeth ar gyfer awtistiaeth yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg.

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

Mae'n bwysig sicrhau rhaglen hyfforddi gyfoethog cyfrwng Cymraeg i'r staff cyfredol ac i ddenu athrawon a gweithwyr arbenigol cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sicrhau mwy o ddarpariaeth ar y cyrsiau seicoleg proffesiynol.

Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn ystyried o ddifrif y sylwadau hyn wrth i chi fireinio y dystiolaeth ac wrth gynllunio ar gyfer darpariaeth addysg anghenion ychwanegol sy'n rhan o'ch ymrwymiad i Gaerdydd ble mae'r Gymraeg yn fyw ac yn rhan o bob elfen o bolisi.

Yn ddiffuant

Dr Rosina Davies (Cadeirydd Cangen Caerdydd Merched y Wawr)

Dear Officer,

Cardiff Council's consultation on ALN

Thank you very much for the consultation on the ALN scheme and thank you for the opportunity to respond.

We are pleased to see the attention to improving provision and fully support your commitment to increasing investment for the most vulnerable pupils in our communities. The commitment to growing staff expertise and having a better combination of specialist centres and also units within mainstream schools across the city is also to be commended. This is important.

What is worrying however, when reading the consultation document, is the lack of adequate attention to increase Welsh-medium provision. This is a matter of great distress to parents and families who wish their children to receive Welsh-medium education.

The document presents a model where there is increased investment in the English-medium sector but without the same increase in Welsh-medium provision. That creates a situation that forces families to move children with additional learning needs to English-medium schools where there is better provision, causing additional stress and inequality on Welsh-medium families. This is contrary to the Government's objectives and also contrary to the recommendations of the Cardiff's WESP consultation.

Investment must also be made in the Welsh-medium sector to ensure equal and barrier-free provision that truly shows evidence of inclusive policy.

It was surprising to see that the document contained only data on the English-medium schools and that there was no reference to Welsh-medium sector data. It is recommended, therefore, that work is undertaken immediately to collect data on the

EMOTIONAL HEALTH AND WELL BEING PROVISION FOR PRIMARY AND SECONDARY AGE PUPILS - Appendix 6: Formal responses

needs and experiences of children in the primary Welsh-medium sector and that this is introduced and treated as part of the consultation and planning work. At present these experiences are not reflected in the document and yet there is a serious disparity facing children with additional education needs who choose Welsh-medium education – lack of space, lack of resources, lack of specialist provision. Cardiff missed huge opportunities to strengthen the opportunities and provision in the new Welsh-medium primary schools and to ensure equal opportunities across the city. In establishing autism centres for the secondary sector there must also be planning for better provision for autism in the Welsh-medium primary sector.

It is important to ensure a rich Welsh-medium training programme for current staff and to attract Welsh-medium teachers and specialist workers, including securing more provision on the professional psychology courses.

We very much hope that you will take these comments seriously as you refine the evidence and when planning for additional needs education provision that is part of your commitment to Cardiff where the Welsh language is alive and part of all elements of policy.

Sincerely

Dr Rosina Davies (Chair of Merched y Wawr's Cardiff Branch)

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a gwerthusiad o'r farn a fynegwyd

Ymatebion a gafwyd ynghylch cynnig Ysgol Arbennig y Court

1. Mae'r farn a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad wedi ei nodi mewn *print italaidd* isod ac wedi ei grwpio yn unol â'r pwyntiau a godwyd pan fo hynny'n briodol.
2. Gweler ymateb y Cyngor i bob pwynt isod, o dan y pennawd "Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd".
3. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:
 - Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Arbennig y Court
 - Pennaeth Ysgol Arbennig y Court
 - Staff Ysgol Arbennig y Court
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Tyllgoed
 - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn

Estyn

4. *Barn Estyn oedd bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Fodd bynnag, mae ffyrdd o gryfhau'r cynnig hwn.*
5. Roedd yr ymateb gan Estyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Mae'r Cyngor wedi darparu rhesymeg clir dros y cynnig. Mae wedi darparu tabl sy'n nodi'r ddarpariaeth arbenigol bresennol sydd ar gael ar gyfer plant oed cynradd sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol am leoedd ysgol i'r disgyblion hyn. Mae'r tabl yn dangos diffyg cyfredol o ran nifer y lleoedd sydd ar gael mewn perthynas â nifer y lleoedd sydd eu hangen. Mae'r amcanestyniadau'n dangos cynnydd yn y niferoedd hyn dros y blynyddoedd nesaf. Byddai'r cynnydd arfaethedig mewn capasiti yn helpu i leihau'r diffyg hwn mewn niferoedd. Yn ogystal, mae cyflwr yr adeiladau yn ysgol arbennig y Court yn wael iawn, gydag amgylcheddau dysgu 'anaddas', sy'n llesteirio gallu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm. Dan y cynnig hwn, byddai'r adeiladau sy'n cael eu meddiannu gan Ysgol Arbennig y Court ar hyn o bryd yn cael eu gadael. Mae'r Cyngor wedi dangos yn briodol bod digon o le a chapasiti ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed i letya disgyblion ac adeilad pwrpasol newydd. Mae'r cyngor yn honni y bydd safle presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn Llanrhymni*

yn wag yn hydref 2022 a bydd yn trosglwyddo i berchnogaeth y cyngor ar yr adeg honno. Mae'r safle hwn wedi'i lleoli ger Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn ac mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio'n agos gydag Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn ac Ysgol Arbennig y Court i sicrhau bod gofynion canllawiau'r bwletin adeiladu ar gyfer ysgolion yn cael eu bodloni. Teimlwn y gellid cryfhau hyn ymhellach drwy ychwanegu gwybodaeth am unrhyw addasiadau y byddai angen eu gwneud i'r adeiladau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigol disgyblion ysgol y Court. Er enghraifft, ystyriaethau penodol ynghylch acwsteg neu oleuadau a gwahanu digonol oddi wrth yr ysgol gynradd ar y safleoedd arfaethedig.

- Mae'r cyngor wedi rhoi rhywfaint o fanylion ynghylch sut y byddai'r cynnig yn cael ei ariannu. Fodd bynnag, nid oes ganddo unrhyw wybodaeth sylweddol sy'n nodi a fydd unrhyw arbedion yn cael eu gwneud o ganlyniad i'r cynnig. Er enghraifft, drwy leihau nifer y disgyblion sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir. Mae'r cyngor wedi darparu disgrifiadau digon manwl o'r cynigion a'r amserlen a ragamcennir ar gyfer gweithdrefnau statudol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd o amserlenni ar gyfer gweithredu'r cynnig, ac unrhyw drefniadau interim arfaethedig, a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer eu gweithredu. Hefyd, mae'r ysgol ar hyn o bryd yn ariannu seicotherapydd, rydyn ni'n credu y byddai'n fuddiol egluro sut y bydd parhad y ddarpariaeth hon yn cael ei sicrhau pan fydd gan yr ysgol fwy o ddisgyblion a phan fydd yn cael ei rhannu dros wahanol safleoedd.*
- Mae'r Cyngor wedi amlinellu manteision ac anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig. Mae'r manteision yn cynnwys cynyddu nifer y lleoedd ysgol arbennig i gyfrannu at ateb y galw a ragwelir a sefydlu adeilad ysgol newydd. Mae'r anfanteision posibl yn cynnwys yr anawsterau a wynebir gan rai disgyblion ADY oherwydd y newidiadau a'r potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig. Teimlwn y gellid cryfhau'r cynnig hwn drwy ychwanegu mwy o fanylion yn dangos sut y caiff y newidiadau hyn eu rheoli i leihau'r effaith ar ddysgwyr yn yr ysgol ar hyn o bryd. Er enghraifft, disgrifiad o amserlen y newidiadau ac a fyddent yn digwydd ar yr un pryd neu'n olynol. Yn ogystal â hyn, cynllun sy'n dangos a fyddai unrhyw ddisgyblion presennol yn cael eu symud fwy nag unwaith. Gallai'r newidiadau posibl hyn gael effaith sylweddol ar les a chanlyniadau addysgol y garfan hon a dylid eu rheoli'n briodol er mwyn lleihau eu heffaith negyddol. Mae'r cyngor wedi amlinellu mesurau lliniaru i fynd i'r afael â rhai anfanteision posibl. Ymddengys bod y rhain yn deg ac yn rhesymol. Yn ogystal, mae'r cyngor wedi nodi rhai risgiau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig ac yn rheoli'r rhain yn briodol.*
- Mae'r cyngor yn cyfeirio at astudiaeth ddichonoldeb a oedd yn archwilio opsiynau amgen posibl ac yn dweud bod rhai safleoedd amgen yn cael eu hystyried ond eu bod wedi'u gwrthod oherwydd materion yn ymwneud â mynediad, cyfyngiadau'r safleoedd, traffig a rheoli llifogydd. Fodd bynnag, ni roddwyd rhagor o fanylion am yr astudiaeth ddichonoldeb hon.*

- Mae'r Cyngor wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar drefniadau teithio'r dysgwyr. Mae'n nodi ei fod wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd gynllun teithio llesol sy'n nodi camau gweithredu gan yr ysgol i gefnogi ac i annog teithio llesol lle bo hynny'n briodol ac i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen ar y safle ac oddi ar y safle i hwyluso teithiau llesol.
- *Mae'r cyngor yn ailadrodd nad oes unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisiau'r cyngor ar drefniadau derbyn a threfniadau teithio'r dysgwyr.*
- *Nid yw'r papur ymgynghori yn cyfeirio at effaith y cynnig hwn ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol na sut y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'n sôn yn gyffredinol am addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd ac yn cyfeirio at rai ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n glir felly sut y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg sydd ag ADY.*

Agweddau addysgol ar y cynnig

- *Mae'r cyngor wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar safonau, profiadau addysgu a dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae wedi dod i'r casgliad na ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar safonau addysg na phrofiadau addysgu a dysgu. Yn ogystal, mae'n bwriadu gweithio gydag arweinwyr y ddwy ysgol i helpu i wella a chynnal cymorth, gofal ac arweiniad a sicrhau bod newidiadau'n cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethu. Teimlwn y gellid cryfhau'r cynnig hwn drwy: dynnu sylw at sut mae arweinwyr yn bwriadu sicrhau'r lefelau staffio sydd eu hangen ar gyfer cynnydd mor fawr mewn capasiti, gan ddangos sut y bydd y staff hyn yn cael eu hyfforddi'n briodol i weithio gyda charfan gymhleth o bobl ifanc, gan ddangos nad yw'r newidiadau hyn yn effeithio'n negyddol ar gapasiti arweinyddiaeth.*
- *Mae'r cyngor wedi cynnwys crynodeb o adroddiad arolwg diwethaf Estyn ar gyfer ysgol arbennig y Court ac ysgol gynradd y Tyllgoed. Barnodd Estyn fod perfformiad a rhagolygon Ysgol Arbennig y Court ar gyfer gwella yn dda. Hefyd, barnwyd bod yr holl feysydd a arolygwyd yn adroddiad arolwg Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn dda. Mae'r Cyngor wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae wedi datgan y byddai'r rhai sydd ag ADY yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau a gynigir ac nad oes gwybodaeth ar gael i awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y grwpiau eraill o ddisgyblion sy'n agored i niwed.*
- Mae'r cyngor yn nodi y cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chanfuwyd na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar

grŵp penodol o'r gymdeithas. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw fanylion am yr asesiad hwn. Dywed y cyngor fod asesiad o'r effaith ar y gymuned wedi'i gynnal ar gyfer y cynigion hyn ac mae'n darparu doler i'r asesiad hwn. Fodd bynnag, nid oes dogfen o'r fath wrth ddilyn y ddoler hon. Hefyd, ni wneir unrhyw sylw ynghylch canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Dywed y cyngor nad yw'n rhagweld unrhyw effaith negyddol ar y cynnig ar unrhyw ysgol leol. Yn wir, mae'n credu bod y cynnig yn rhoi cyfle i staff yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd ac y gallai hyn wella addysgu cynhwysol yr ysgolion a bod o fudd i bob disgybl yn yr ysgol. Ymddengys bod hyn yn honiad rhesymol a theg.

- *Nid yw'r cyngor wedi rhoi unrhyw fanylion penodol sy'n ymwneud â tharfu posibl ar ddisgyblion o ganlyniad i'r cynnig hwn, ond mae'n siarad yn fwy cyffredinol am sicrhau bod y cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg a diogelwch uchel yn cael eu cynnal.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

6. Mae'r Cyngor yn cydnabod casgliadau Estyn ar rinweddau cyffredinol y cynigion. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu Ysgol Arbennig y Court, Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn i ystyried y trefniadau dylunio, cynllun safle, mynediad ac adeiladau wrth i'r cynigion gael eu datblygu. Er bod arfarniad datblygu cychwynnol wedi'i gynnal, byddai materion manwl fel acwsteg a goleuadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon.
7. Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd Cynghorau eraill neu mewn ysgolion annibynnol. Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn oedd £6.3m yn 2020/21. O hyn, mae tua £2.5m wedi ariannu lleoedd arbenigol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles. Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar £7.3m.
8. Bydd ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd yn caniatáu i blant gael eu haddysgu'n agosach i'w cartrefi a chynnal cysylltiadau â'u cymunedau lleol. Mae'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn cynrychioli buddsoddiad cyfalaf a referniw sylweddol a fydd yn cael ei ariannu'n rhannol gan ostyngiad mewn costau y tu allan i'r sir.
9. Mae Ysgol Arbennig y Court yn ariannu seicotherapydd ar hyn o bryd; os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, byddai'r Cyngor yn cefnogi'r Corff Llywodraethu i adolygu'r modelau staffio ar draws y ddau safle er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei gynnal i ddisgyblion. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gydag

ysgolion i nodi trefniadau pontio priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau hyn yn dibynnu ar anghenion unigol ac yn cael eu datblygu yn ôl y gofyn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys darparu/amseru cyllid, cymorth gyda recriwtio a hyfforddi staff, nodi anghenion ac adolygiadau parhaus.

10. Byddai'r gwaith o ddatblygu'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol Arbennig y Court yn cael ei wneud fesul cam gyda gwaith ar safle'r Tyllgoed yn cael ei wneud cyn safle Llaneirwg gyda safle presennol yr ysgol yn parhau i fod yn weithredol. Ni fyddai disgyblion yn gorfod symud ysgol fwy nag unwaith.
11. Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol. Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgolion i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg uchel a safonau diogelwch yn cael eu cynnal.
12. Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth gan gynnwys cymorth arbenigol i ysgolion gan gynnwys staff arbenigol, cymorth DPP ar gyfer datblygu staff, fforymau ADY, cyfarfodydd ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol ar gyfer Penaethiaid a diweddariadau rheolaidd ar gyfer cyrff llywodraethu. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

Corff Llywodraethu Ysgol Arbennig y Court

13. Roedd yr ymateb gan Gorff Llywodraethu Ysgol Arbennig y Court yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Mae Corff Llywodraethu Ysgol y Court yn cytuno'n gryf â'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol ac o'r farn mai dyma'r dull gorau o fwrw ymlaen ag addysg y plant dan sylw.*
 - *O ystyried cyflwr safle Ysgol y Court yn Llanisien, roedden ni hefyd yn cytuno'n gryf â'r cynnig i symud i adeilad newydd ar y ddau safle yn y Tyllgoed a Llanrhymni.*
 - *Roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig nodi ar yr adeg hon y dylid mabwysiadu'r egwyddor o uchafswm o chwe disgybl i bob dosbarth wrth lunio ac adeiladu adeiladau'r ysgol gyda phob dosbarth â'r adnoddau priodol.*
 - *Byddem yn gobeithio y byddai profiad y rheolwyr a'r staff yn Ysgol y Court yn cael ei ddefnyddio wrth gynllunio'r ddau safle ysgol, h.y. safonau lle, ardaloedd allanol ac o ran ethos a rheolaeth yr ysgolion. Byddem hefyd yn*

gobeithio y byddai profiad a galluoedd y Corff Llywodraethu yn cael eu defnyddio'n llawn hefyd.

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

14. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth Corff Llywodraethu Ysgol Arbennig y Court.
15. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor o uchafswm o chwe disgybl i bob dosbarth wrth gynllunio ar gyfer y cyfleusterau ysgol newydd.
16. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda Chorff Llywodraethu, rheolwyr a staff Ysgol Arbennig y Court gan gynnwys cynllunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd, recriwtio a datblygu staff a chefnogi'r gwaith o ddatblygu ethos a rheolaeth yr ysgol.

Ysgol y Court – Pennaeth

17. Roedd yr ymateb gan Bennaeth Ysgol Arbennig y Court yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Mae'r cynigion yn gysylltiedig ag Ysgol y Court yn hynod gadarnhaol. Mae'n amlwg bod galw dybryd am leoedd ychwanegol yn Ysgol y Court ac ar hyn o bryd ni allwn ateb y galw hwn oherwydd y problemau sylweddol o ran yr adeilad. Mae'r syniad o gynyddu ein capasiti i 72 yn uchelgeisiol ac mae'n gwneud synnwyr i weithredu hyn ar sail dau safle ar draws y ddinas. Fel hyn, mae disgyblion yn debygol o fod â chysylltiadau cryfach â'u cymunedau ac efallai y byddant yn gallu ystyried atebion teithio llesol neu dreulio llai o amser mewn tacsis.*
 - *Rwyf hefyd yn gefnogol iawn o'r egwyddor o gyd-leoli. Drwy fod yn agos at ysgolion priif ffrwd, byddwn yn cael cyfleoedd i ddatblygu perthynas waith agos â chydweithwyr a gallwn rannu arbenigedd a chyfleusterau â hwy. Rydym hefyd yn gyffrous iawn am y syniad o ddatblygu cysylltiadau cryf â chymunedau lleol.*
 - *Mae hwn yn gyfle cyffrous i ni ddatblygu'n ganolfan ragoriaeth a chefnogi ysgolion ledled y ddinas mewn perthynas ag iechyd meddwl a dulliau addysgeg sy'n seiliedig ar drawma. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol iawn bod angen ystyried maint dosbarthiadau'n ofalus ac rydym hefyd yn credu'n gryf y dylai'r ddau safle fod yn newydd ac wedi'u hadeiladu'n bwrpasol.*
 - *Mae angen ystyried barn disgyblion, staff, rhieni/gofalwyr, y Corff Llywodraethu a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn ofalus gan fod ganddynt lawer iawn o brofiad a gwybodaeth i'w rhannu. Yn ogystal, hoffem i swyddogion gynllunio a gweithredu ochr yn ochr â rhanddeiliaid.*

- *Mae angen ystyried strwythurau staffio'n ofalus yn y cyfnod cynnar hwn ac mae angen cyfnod sylweddol o 'orgyffwrdd' lle mae staff newydd yn cael cyfle i fireinio eu sgiliau ochr yn ochr â chydweithwyr mwy profiadol. Yn ogystal, mae angen i'r holl staff gael cyfleoedd i dyfu a datblygu yn yr ysgol ac mae angen iddynt gael mynediad at ddatblygiad proffesiynol o ansawdd da sy'n benodol i'r sector ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae angen blaenoriaethu lles staff hefyd, e.e. manau 'gorffwys ac adfer' rhagorol i staff a mynediad i gawodydd, gan y gall ein sector fod yn hynod o heriol yn emosiynol ac yn gorfforol. Felly, mae angen i ni fod mewn sefyllfa lle gallwn ddenu staff newydd o ansawdd uchel a chadw ein gweithlu medrus a thalentog.*
- *Rydym yn gweithio gyda phlant gwych a hynod gymhleth / agored i niwed ac yn gweithio'n ddiflino i wneud y gorau o'u potensial. O'm safbwynt i, mae angen ein darpariaeth unigryw ac arbennig iawn arnom i dyfu a datblygu ac edrychaf ymlaen at weithio gyda staff ALI / rheolwyr prosiect i wireddu'r uchelgais hon.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

18. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth Pennaeth Ysgol Arbennig y Court.
19. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â maint dosbarthiadau yn Ysgol Arbennig y Court ym mharagraff 15.
20. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r ysgol fel rhan o'r broses adeiladu ym mharagraff 16.
21. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu a'r Pennaeth i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o ehangu'r ysgol a'r angen dilynol am staff ychwanegol.
22. Yn ogystal, rhoddir cymorth ynghylch rhannu arfer gorau, datblygiad proffesiynol parhaus staff, pontio ac ailintegreiddio a datblygu'r cwricwlwm.

Staff Ysgol Arbennig y Court

23. Roedd yr ymateb gan staff Ysgol Arbennig y Court yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)

Cadarnhaol

- *Maint dosbarthiadau – cadwch at 6 fesul dosbarth*
- *Cyfle i adeiladu dyfodol gwell i rai o'r plant mwyaf agored i niwed ac sy'n cael eu hanghofio*
- *Seilwaith newydd*
- *Adeiladu manau therapiwtig 'addas at y diben'*
- *Adeilad pwrpasol*

- *Adeilad newydd / syniadau newydd / gweledigaeth newydd*
- *Amgylchedd sy'n addas i'r dysgwyr (maen nhw'n haeddu gwell na'r hyn sydd yma ar hyn o bryd)*

Pryderon

- *Ffiniau rhwng yr ysgolion*
- *Recriwtio staff – yn ddefnyddiol gyda gorgyffwrdd lle gall staff newydd ddysgu oddi wrth staff presennol*
- *Rydyn ni'n teimlo y byddwn ni'n cael yr hyn rydyn ni'n ei gael ac nid ydynt yn mynd i wrando ar ein barn*
- *Plant yn fandaleiddio eu hysgol gymunedol leol, plant yn rhedeg adref*
- *Pa staff sy'n mynd i ba safle? Mae angen i staff allu cynllunio ar gyfer pethau fel traffig, gofal plant ac ati.*
- *Gyda'r ffiniau, a fydd yr ysgol arall yn iawn i ddelio â'r hyn y gallent ei glywed?*
- *Sut mae cynnal ymdeimlad o 'un ysgol' ar draws dau safle?*
- *Mae gennym gysylltiadau da â'r pentref, sy'n gallu ymarfer 'sgiliau bywyd' A fydd hyn yn parhau?*

Cyfleoedd

- *Datblygiad staff*
- *Dod yn ganolfan ragoriaeth*
- *Cyfleusterau ar y safle a allai fod o fudd gwirioneddol i'n disgyblion – campfa awyr agored er enghraifft*
- *Dilyniant CA*
- *Cyfle i weithio gydag asiantaethau eraill mewn ffordd gadarnhaol*
- *Cyfleoedd i'r dysgwyr elwa ar gyfleusterau a gwasanaethau 'priodol'*
- *Staff i ddatblygu / dysgu sgiliau newydd*
- *Tîm staff i dyfu*
- *Cyfleoedd hyfforddiant*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

24. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth staff Ysgol Arbennig y Court.
25. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r ysgol fel rhan o'r broses adeiladu ym mharagraff 16.
26. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â chyfleoedd staff ym mharagraffau 16 a 22.

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Tyllgoed

27. Roedd ymateb gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Y Tyllgoed yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)

- Mae'r Corff Llywodraethu yn deall ac yn cefnogi'n llawn yr angen i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig y Court, ynghyd â'r angen i symud yr ysgol i safle mwy addas. Rydym wedi cyfarfod fel Corff Llywodraethu i drafod effaith y cynigion ar ein hysgol. Ein hymateb ar y cyd yw nad ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gefnogi'r cynigion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n hysgol hyd nes ein bod wedi cael eglurhad o'r materion canlynol:

Dreif / Mynediad

- Mae mynediad i'r safle eisoes yn broblem ac rydym yn poeni na fydd defnyddio'r fynedfa bresennol yn unig yn cynnig ateb boddhaol. A fyddai modd defnyddio mynediad o V21 (Heol y Bwlch) i wneud mynedfa / allanfa un ffordd i mewn, un ffordd allan neu fynedfa ar wahân ar gyfer pob ysgol?
- Mae pryderon ynghylch gwahanu a diogelu. Sut y bydd rhieni a phlant yn cael mynediad i'r ddwy ysgol yn annibynnol i sicrhau diogelwch a sicrhau nad oes unrhyw faterion ymddygiadol i amddiffyn ein plant.
- Mae Wellwright Road eisoes yn brysur iawn, byddai mwy o draffig gyda thacsis / bysus a pharcio rhieni yn ychwanegu at hyn. Mae'r preswylwyr eisoes yn cwyno i'r Ysgol a'r Cyngor ynglŷn â'r materion presennol.
- Roedd sôn am 10-15 o dacsis / bysus mini ychwanegol y dydd, mae gennym 4-5 y dydd ar hyn o bryd ac maent (yn bennaf) yn dod cyn ac ar ôl i ddisgyblion ddechrau a gorffen eu diwrnod er mwyn tarfu cyn lleied ag y bo modd. Sut y byddai hyn yn cael ei reoli gyda'r ysgol newydd?
- A fyddwch yn creu gwell mynedfa ar gyfer traffig adeiladu a'r ysgol i wahanu'r ddau cyn i'r gwaith ddechrau?
- Os bydd traffig adeiladu'n symud drwy'r fynedfa honno, bydd y tu allan i oriau ysgol craidd (e.e. adeg gollwng a chasglu)?

Ffens Perimedr

- A fyddai'r ffens yn cael ei chodi cyn y gwaith adeiladu i sicrhau diogelwch y safle ac amddiffyn ein plant rhag gweithwyr / contractwyr?
- Os oes angen bwlch rhwng y ffens newydd a'r eiddo presennol, pa fesurau diogelu a roddir ar waith i atal preswylwyr rhag cyfathrebu / siarad â'r plant drwy'r ffens?
- Fel uchod, sut y byddem yn atal sbwriel a glaswellt ac ati rhag cronni, a yw'r ysgol yn gyfrifol am hyn neu dirweddwyr cyffredinol y cyngor?
- Unwaith y bydd y ffens wedi'i chodi, a fyddai hyn yn diffinio ffin yr ysgol o ran cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r tir?

Adeiladau

- Hoffem gael eglurhad o leoliad arfaethedig yr adeilad ar y safle fel y gallwn ddeall faint o le fydd gennym ar ôl (e.e. a fyddem yn cadw'r maes chwarae) ac i sicrhau digon o wahaniad fel nad yw'r plant yn dod i gysylltiad â'i gilydd.
- Mae llawer o waith atgyweirio a gwelliannau wedi'u gohirio yn y Tyllgoed oherwydd y posibilrwydd o ehangu, a fydd cyflwr presennol yr ysgol yn cael ei ail-werthuso a gwaith yn cael ei gwblhau lle bo'n bosibl gan nad yw'r gwaith ehangu yn digwydd nawr?

Trefniadaeth Ysgolion

- *Rydym yn cefnogi gwahanu'r ysgolion o ran cael penaethiaid a Chyrff Llywodraethu unigol. Hoffem gael rhagor o wybodaeth am sut y gallai'r ysgolion gydweithio er budd ei gilydd er bod gennym bryderon am yr effaith ar ein staff (e.e. staff yn mynd i'r ysgol arall, swyddi ac ati)*
- *A allwn siarad ag ysgol arall sy'n rhannu safle ag ysgol arbennig ar hyn o bryd, gall hyn ein helpu i ddeall sut y gallant gydweithio'n effeithiol?*
- *Hoffem gael mwy o eglurhad ynghylch yr hyn a olygir wrth 'ddod ag Ysgol y Court i'r brif ffrwd' - a fydd angen i'n hysgol gefnogi / bod yn gyfrifol am y plant hyn?*
- *A allwch ein helpu i ddeall yr ystod o faterion sydd gan blant yn ysgol y Court?*
- *Pa effaith y bydd yn ei chael ar blant ein huned les bresennol, nad ydynt yn cymysgu â'r brif ffrwd ar hyn o bryd?*
- *Pa effaith y bydd yn ei chael ar ein plant prif ffrwd presennol?*
- *Rydym yn cydnabod y byddai cydweithio ar arferion ADY ac arbenigedd ac ati rhwng ysgolion o fudd.*

Darpariaeth Feithrin

- *Rydym wedi bod yn edrych ar gynnig darpariaeth Feithrin yn y Tyllgoed ers nifer o flynyddoedd. Cafodd hyn ei ohirio eto oherwydd cynlluniau ehangu posibl.*
- *Credwn y bydd darpariaeth Feithrin yn cynyddu niferoedd yn y dosbarth derbyn (mae rhieni'n cael eu gyrru i ysgol arall gyda meithrinfeydd ar hyn o bryd)*
- *Bydd hyn yn rhoi syniad cynnar i ni o faterion ADY (mae'n well ymyrryd yn gynnar)*
- *Gallwn ddechrau cyfathrebu â rhieni a dechrau cymuned cyn ymuno â'r dosbarth derbyn*
- *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fudd i drigolion Wellwright Road yn y cynigion a ddarparwyd gennych, drwy ychwanegu meithrinfa, credwn y bydd hyn yn gwneud y cynigion yn well iddynt*
- *Mae gennym adeilad datodadwy sy'n agos iawn at ddiwedd ei oes, roeddem am wario £11,000 ar atgyweirio'r adeilad o'n harian ein hunain. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor ein helpu i gyflawni darpariaeth Feithrin a gallwn gyfrannu at adeilad datodadwy newydd ar gyfer y Feithrinfa a'n Hyb Cymunedol datblygedig.*
- *Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i edrych ar y gwahanol opsiynau a all, yn ein barn ni, fod o fudd i Ysgol y Court ac Ysgol Gynradd y Tyllgoed.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

28. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Tyllgoed.
29. Mae gan yr ysgol safle helaeth o tua 4.8Ha ac fe'i nodwyd fel un o ddigon o faint i'w rannu ag ysgol arbennig newydd. Er bod Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn gwneud defnydd llawn o'i safle a'i hadeiladau, byddai maint a ffurfweddiad y safle yn cefnogi datblygiad ysgol arbennig newydd. Byddai Ysgol Gynradd y

Tyllgoed yn dal i gadw safle sy'n fwy na gofynion maint safle ysgol gynradd gymunedol fawr.

30. Byddai'r gwaith o ddatblygu'r cynnig yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r Penaethiaid a'r Cyrff Llywodraethu a byddai'n ystyried yn llawn y pryderon a godwyd a'r ffyrdd priodol o liniaru'r rhain gan gynnwys gweithredu fesul cam, gofynion llety, opsiynau cynllun safle, trefniadau mynediad ac allanfa, rheoli traffig, cynllunio pontio ac Allgymorth.
31. Byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda phob ysgol i ystyried y trefniadau dylunio, cynllun, mynediad ac adeiladau wrth i'r cynigion gael eu datblygu. Er bod arfarniad datblygiad cychwynnol wedi'i gynnal, byddai'r materion manwl hyn yn cael eu hystyried yn ddiweddarach gyda dyluniad / cynllun unrhyw adeilad newydd yn caniatáu ar gyfer pellter a diogelwch addas gydag integriti darpariaeth prif ffrwd ac ysgol arbennig yn cael ei gynnal.
32. Byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Court yn gymwys i gael Trafnidiaeth i Ddysgwyr mewn tacsis a rennir neu mewn bws mini. Byddai mynediad i'r safle yn cael ei gynllunio ar gyfer mynediad effeithlon gan y nifer fach hon o gerbydau.
33. Byddai man gollwng a chasglu o faint priodol yn cael ei ymgorffori mewn ardal ddiogel o fewn y safle.
34. Mae'r dosbarth Lles presennol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn parhau i fod yn rhan bwysig o gymorth iechyd a lles emosiynol i ddisgyblion oed cynradd a bwriedir parhau â hyn.
35. Mae cyd-leoli darpariaeth arbenigol a phrif ffrwd yn rhoi cyfle i adeiladu partneriaethau a datblygu arferion cydweithio a fyddai o fudd i'r ddwy ysgol.
36. Mae sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed y tu allan i gwmpas y cynnig yr ymgynghorwyd arno a byddai'n cael ei ystyried ar wahân.

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn

37. Roedd ymateb gan Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Er bod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn yn gyffredinol yn cefnogi'r cynigion, hoffai'r Corff Llywodraethu dynnu sylw at y pryderon canlynol:*
 - *Gofynnwyd i'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr drafod ail-ddynodi darn o dir ar safle Pen-y-Bryn i ddarparu ar gyfer cynnig Ysgol y Court. Mae'r darn o dir sydd gerllaw ardal blynnyddoedd cynnar yr ysgol wedi'i ddatblygu dros y blynnyddoedd diwethaf ac mae bellach yn cynnwys ardal*

ysgol goedwig, perllan a phlanhigfeydd. Hoffai'r Corff Llywodraethu ofyn am sicrwydd y byddai'r ysgol yn cael ei digolledu a bod y nodweddion hynny'n cael eu disodli mewn mannau eraill ar safle'r ysgol.

- *Mae cael gwared ar y darn hwn o dir hefyd yn atal prosiectau a oedd wedi'u cynllunio, yn cynnwys gosod offer maes chwarae ar lain o dir, ac mae hefyd yn torri drwy gae pêl-droed yr ysgol. Unwaith eto, hoffai'r Corff Llywodraethu geisio sicrwydd y bydd yr ysgol yn cael ei digolledu'n briodol i sicrhau nad yw'r datblygiad yn niweidiol i blant Pen-y-Bryn.*
- *O ystyried yr agosrwydd rhwng ardal blynnyddoedd cynnar Pen-y-Bryn a ffin yr Ysgol y Court arfaethedig, hoffai'r Corff Llywodraethu ofyn am eglurder ar ddyluniad Ysgol y Court er mwyn sicrhau bod y cynllun yn caniatáu pellter a diogelwch addas rhwng ardaloedd chwarae'r ddwy ysgol.*
- *Byddai'r Corff Llywodraethu hefyd yn awyddus i ddeall goblygiadau rheoli traffig y safle o ystyried ei fod yn wynebu ffordd gul sy'n aml yn llawn ceir wedi'u parcio ar hyd un ochr.*
- *Hoffai'r Corff Llywodraethu hefyd geisio sicrwydd ynghylch sut y bydd diogelwch plant ym Mhen-y-Bryn yn cael ei sicrhau yn ystod cyfnod adeiladu'r safle.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

38. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn. Trafodwyd y bwriad i drosglwyddo Ysgol Arbennig y Court i safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanelwyr sydd gerllaw Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn gyda'r ysgol. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'r ysgol i gytuno ar ffin ddiwygiedig a sicrhau bod adleoli'r cyfleusterau presennol yn bodloni gofynion Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn.
39. Er bod arfarniad datblygiad cychwynnol wedi'i gynnal, byddai'r materion manwl hyn yn cael eu hystyried yn ddiweddarach gyda dyluniad / cynllun unrhyw adeilad newydd yn caniatáu ar gyfer pellter a diogelwch addas gydag integriti Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn ac Ysgol Arbennig y Court yn cael ei gynnal.
40. Mae cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da drwy Lanrhyddni a Rhodfa Countisbury a hefyd o Heol Casnewydd sydd o fewn pellter cerdded byr ar gyfer mynediad i staff. Mae llwybrau cerdded hygyrch i ddisgyblion a staff lleol hefyd.
41. Mae Beicffordd 2 wedi'i chynllunio ar hyd y rhan hon o Heol Casnewydd. Bydd cam byrdymor / tymor canolig yn y dyfodol yn disodli'r lonydd beicio presennol ar y brif ffordd brysur hon.
42. Mae problemau parcio y tu allan i ysgol gynradd gyfagos Pen-y-bryn ar hyd Dunster Road ar hyn o bryd. Er bod y tîm Trafnidiaeth yn monitro'r sefyllfa ac yn adolygu'r angen am fesurau ychwanegol a rheolaethau parcio y tu allan i

bob ysgol, byddai'r angen am unrhyw fesurau ychwanegol y tu allan i'r safle arfaethedig yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses honno.

43. Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol.
44. Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgolion sy'n rhan o'r cynigion hyn i sicrhau bod y cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg a safonau diogelwch uchel yn cael eu cynnal, gan darfu cyn lleied â phosibl ar ddisgyblion a staff.

Ymgysylltu â disgyblion Ysgol Arbennig y Court

45. *Roedd y disgyblion yn hoffi'r syniad o gael adeiladau / cyfleusterau ysgol newydd; roedd y system wresogi wedi torri ac ni ellid agor y ffenestri yn yr ysgol. Byddent yn hoffi cael gwell cyfleusterau gydag ystafelloedd / manau mwy addas i wneud pethau. Fe wnaethon nhw gynnig amrywiaeth o syniadau ar gyfer yr hyn yr hoffent ei gael gan gynnwys gwell cyfleusterau chwaraeon (mewnol ac allanol), manau tawel, gofod ac offer y tu allan, ystafell ddosbarth awyr agored, ystafelloedd crefft a cherddoriaeth.*
46. *Roeddent hefyd am i arferion fel ennill tocynnau drwy gydol yr wythnos i'w gwario ar ddydd Gwener gael eu cynnal.*

Cynrychiolaeth Disgyblion Ysgol Gynradd y Tyllgoed

47. *Roedd y plant yn hapus gyda'r syniad o gael ysgol arall ar eu safle yn gyffredinol.*
48. *Roedd y pwyntiau a godwyd yn ymwneud â cholli lle iard chwarae, a fyddai cyfleoedd i chwarae gyda'r plant o'r ysgol arall, ystod oedran yr ysgol newydd, trefniadau mynediad a lleoliad yr ysgol newydd ar y safle.*
49. *Gellir gweld nodiadau'r cyfarfodydd yn Atodiad 4.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

50. Mae'r Cyngor yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer y cynnig i ehangu Ysgol Arbennig y Court.
51. Byddai'r gwaith o ddatblygu'r cynnig yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu a byddai'n ystyried yn llawn y pryderon a godwyd a'r ffyrdd priodol o liniaru'r rhain gan gynnwys gweithredu fesul cam,

gofynion llety, opsiynau cynllun safle, rheoli traffig, cynllunio pontio ac Allgymorth.

Ymatebion eraill a gafwyd

Potensial ar gyfer mwy o draffig o amgylch safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed

52. Roedd ymatebion gan drigolion lleol yn cynnwys pryderon cyffredinol am fwy o draffig.
53. *Mae'r lleoliad mewn ardal breswyl ac nid oes ganddo'r seilwaith mynediad ffordd i ymdopi â'r traffig ychwanegol y byddai'r cynnig yn ei achosi. Rydyn ni eisoes yn gweld problemau sylweddol o ran parcio a diogelwch ar y ffyrdd yn gysylltiedig ag Ysgol Gynradd y Tyllgoed. Byddai ail ysgol ar yr un safle yn gwaethygu'r problemau hyn.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

54. Drwy leoli ysgol arbennig gyda 36 o leoedd, bydden ni'n gweld nifer gymharol isel o deithiau i'r safle, o gymharu ag ysgolion eraill.
55. Dim ond ychydig o rieni fyddai'n cymudo i safle'r ysgol gan y byddai cyfran uchel o ddysgwyr yn teithio drwy drafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol mewn cerbydau a rennir, a fyddai'n casglu ac yn gollwng dysgwyr o fewn safle'r ysgol.
56. Ar gyfer rhieni sy'n teithio i'r safle a rennir, mae cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da iawn gyda nifer o wasanaethau bus daith gerdded fer o'r ysgol. Mae gorsaf drenau Parc Waun-gron tua 0.75 milltir (1.2km) o'r ysgol.
57. Mae llwybrau cerdded da i'r ysgol yn ogystal â chysylltiadau beicio cyfredol ac arfaethedig. Disgwylir gwelliannau byrdymor drwy ddatblygiad Melin Trelái gyda chysylltiadau drwy Feicffordd 5 i ganol y ddinas. Mae Llwybr Elái yn rhedeg ar hyd Heol y Bwlch yn union i'r de o'r safle ac mae'n parhau i Fae Caerdydd o wahanol safonau: di-draffig / ar y ffordd. Mae llwybrau ag arwyddion yn cysylltu drwy Dreganna a chanol y ddinas gyda gwelliannau tymor canolig yn yr arfaeth ar ffurf llwybrau beicio ar wahân ar y ffordd.
58. Nododd Aseiad Trafnidiaeth diweddar ar gyfer y safle hwn effaith draffig dderbyniol oherwydd datblygiad tebyg (ond mwy).
59. Cynigir rhagor o gyfleusterau amrywiol ar gyfer cerdded a beicio, gan gynnwys uwchraddio croesfan Heol y Bwlch yn ardal y Tyllgoed ar gyfer prosiect ysgol arall gyda darpariaeth i ddod erbyn diwedd 2023. Byddai'r rhain hefyd yn gwella mynediad cerdded a beicio i/o Drelái i'r de o'r rheilffordd ac Afon Elái a'r gogledd-ddwyrain drwy'r Tyllgoed, Llandaf a'r rhwydwaith ehangach.

60. Byddai'r lleoliad arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn rhoi potensial ar gyfer ail fynedfa ar wahân i'r fynedfa bresennol i'r ysgol gynradd.
61. Gall y cynigion datblygu ofyn am Aseiad Trafnidiaeth diwygiedig a fydd yn cadarnhau mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau bod moddau teithio cynaliadwy yn cael eu defnyddio i'r eithaf ac i nodi unrhyw ddarpariaeth bellach sy'n ymwneud yn benodol â chynnig y Court.
62. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y cam ffurfiannol ar gynigion trefniadaeth ysgolion i ehangu a symud Ysgol Arbennig y Court.
63. Er bod arfarniad datblygiad cychwynnol wedi'i gynnal, byddai materion manwl megis lle byddai unrhyw adeilad ysgol newydd yn cael ei leoli yn cael ei ystyried yn ddiweddarach. Byddai unrhyw ddyluniad yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r ysgol a byddai'r contractwr penodedig yn ddarostyngedig i brosesau cynllunio statudol sy'n caniatáu i bawb sydd â diddordeb wneud sylwadau ar yr hyn a gyflwynir a llywio'r hyn a gyflwynir.

Anfodlonrwydd â'r ffaith nad yw'r cynnig i ehangu Ysgol Gynradd y Tyllgoed fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Band B yn mynd rhagddo

- *Tua thair blynedd yn ôl, dywedodd yr AALI y byddai Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn cael ei datblygu a'i hehangu i gyfleuster 2 ddosbarth y flwyddyn, gyda darpariaeth feithrin. Yn 2020, tynnodd yr AALI y cynllun ehangu yn ôl gan nodi cyfraddau genedigaethau lleol yn gostwng fel sail. Dim ond tua 6 mis yn ôl y datgelodd yr AALI ei wir fwriad ar gyfer safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed. Fel Llywodraethwr, rwy'n teimlo'n chwerw a fy mod wedi cael fy nhwyllo a'm bradychu gyda sut mae'r AALI wedi ymdrin â'r mater hwn.*
- *Mae safleoedd eraill, yng Ngorllewin Caerdydd, y gallai'r AALI eu defnyddio ar gyfer Darpariaeth ADY. Er enghraifft, gellid defnyddio tir yr AALI yn Ysgolion Uwchradd Fitzalan a Michaelston. Mae yna hefyd gyfleoedd maes glas amrywiol ar gaeau chwarae mewn ysgolion yng Ngorllewin Caerdydd. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yr AALI yn ailystyried ei safbwynt ar y mater hwn.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

64. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd.
65. Yn unol â'r amserlenni gofynnol ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gyllid y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Band B gan Awdurdodau Lleol, cyflwynodd y Cyngor ei restr o gynlluniau blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn 2017. Roedd hyn yn cynnwys cynnig i ehangu Ysgol Gynradd y Tyllgoed.
66. Roedd cais y Cyngor yn 2017 yn amlinellu materion digonolrwydd mewn rhai rhannau o'r ddinas oherwydd lefelau isel o leoedd gwag mewn rhai ysgolion,

datblygiadau tai cynlluniedig gan gynnwys datblygiad Melin Trelái yn Nhreganna, a chyfraddau genedigaethau yn parhau ar lefelau uchel yn dilyn cofnodi'r gyfradd uchaf yn 2011/2012. Roedd y data a oedd ar gael i'r Cyngor yn 2017, a gafwyd gan y GIG yn 2016, yn llywio cynlluniau blaenoriaeth Band B y Cyngor.

67. Ym mis Medi 2016, aeth 4,339 o blant i'r flwyddyn derbyn. Roedd gwarged o 5% o leoedd yn y flwyddyn derbyn a gwarged o 6.4% yn grwpiau blwyddyn eraill y sector cynradd prif ffrwd (4-11 oed).
68. Fodd bynnag, ers 2017, mae cyfraddau genedigaethau wedi gostwng yn sylweddol. Gostyngodd nifer y disgyblion a oedd yn cael eu derbyn i ysgolion cynradd ledled y ddinas i 3,824 yn 2021 a rhagwelir y byddant yn gostwng ymhellach yn ystod y tair blynedd nesaf. Gostyngodd nifer y disgyblion a oedd yn cael eu derbyn i Ysgol Gynradd y Tyllgoed hefyd i 17 o ddisgyblion yn hydref 2021.
69. Mae amcanestyniadau sy'n ystyried data a ddarparwyd gan y GIG yn dangos y bydd nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i ysgolion yn gostwng ymhellach yn y blynyddoedd i ddod ac nad oes angen cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd mewn sawl rhan o'r ddinas.
70. Mae'r Cyngor wedi nodi bod safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn addas ar gyfer cael ei ailddatblygu o ystyried ei faint sydd tua 4.8Ha. Mae canllawiau'r Bwletin Adeiladu ar gyfer ysgolion cynradd yn dangos y byddai'r safle'n ddigonol i ddarparu ar gyfer yr ysgol arbennig arfaethedig yn ogystal â chadw safle helaeth ar gyfer ysgol gynradd 2 ddosbarth mynediad a gynigiwyd yn flaenorol.

Ymatebion a gafwyd ynghylch y cynnig ar gyfer Ysgol Greenhill

71. Mae'r farn a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad wedi ei nodi mewn *print italaidd* isod ac wedi ei grwpio yn unol â'r pwyntiau a godwyd pan fo hynny'n briodol.
72. Gweler ymateb y Cyngor i bob pwynt isod, o dan y pennawd "Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd".
73. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:
 - Aelodau Lleol – Y Cynghorydd Jayne Cowan, y Cynghorydd Adrian Robson, y Cynghorydd Oliver Owen (Ward Rhiwbeina)
 - Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Greenhill
 - Uwch Dîm Arwain Ysgol Greenhill

Ymatebion Aelodau Lleol

74. Cyflwynodd cynghorwyr ymateb ar y cyd. Roedd yr ymateb yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
 - *Rydym yn gwrthwynebu'r cynnig ar gyfer Ysgol Arbennig Greenhill. Mae'r ysgol yn parhau i dderbyn Statws Gwyrdd gyda Gwelliannau Da ac mae hyn o ganlyniad i'r addysgu eithriadol ar y safle, a lleoliad yr ysgol a'r Chweched Dosbarth. Mae Rhiwbeina yn gymuned wych ac yn un sy'n cefnogi'r ysgol.*
 - *Rydym yn croesawu'n ofalus y nifer ychwanegol o ddisgyblion ac yn edrych ymlaen at dderbyn yr asesiad risg sy'n ymwneud â chynigion Tŷ Glas, gan gynnwys pa ysgol / busnesau eraill ac ati fydd yn ymuno â'r ysgol ar y safle.*
 - *Rydym yn gwrthwynebu'n chwyrn y cynnig i'r ysgol gael ei symud yn llwyr o Riwbeina. Mae'n gweithio'n dda yma. Gellid ei hailadeiladu yma. Rydym hefyd yn gwrthwynebu'n chwyrn i ran o'r ysgol gael ei symud i'r Ganolfan Arddio ar gylchfan / cyffordd sy'n eithriadol o brysur a ddim yn addas. Mae gan ddisgyblion yr ysgol anghenion ychwanegol sylweddol a phe byddent yn gadael y safle, byddent mewn amgylchoedd anghyfarwydd â pheryglon amlwg.*
 - *Rydym yn mawr obeithio na fydd y Cabinet yn cefnogi'r cam hwn gan y bydd yn niweidiol iawn i'r disgyblion.*

Estyn

75. Roedd ymateb gan Estyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 7)

- *Mae'r cynnig hwn ochr yn ochr ag eraill sy'n ceisio sicrhau darpariaeth decach i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ar draws y Ddinas sy'n cael eu croesawu'n gyffredinol. Byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd o 150% yn nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr. Nid yw'n glir pa grwpiau blwyddyn sy'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan y cynnydd, p'un a fydd y cynnydd hwn yn cael ei reoli dros amser neu sut y caiff y cynnydd hwn ei reoli, neu'r effaith ganlyniadol ar bontio disgyblion neu staffio gan gynnwys arweinyddiaeth. Barn Estyn oedd bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.*
- *Mae'r cynigydd wedi darparu sail resymegol glir dros ymestyn capasiti Ysgol Greenhill. Mae'n mynegi'n glir nad yw'r awdurdod lleol yn gallu bodloni'r galw am leoedd ysgol i ddisgyblion ag anghenion emosiynol a lles. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn rhoi sail resymegol glir dros ddatblygu'r ysgol ar ddau safle ar wahân, er mai 4 milltir ar wahân fyddai hynny. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod Greenhill ar hyn o bryd, ac y bydd yn parhau i fod, yn ysgol rhyw gymysg ac nad oes 'unrhyw newidiadau arfaethedig' i'r polisi derbyn. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi mai bechgyn yw'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Nododd arolwg Estyn o'r ysgol yn 2013 fod yr holl ddisgyblion ar y gofrestr yn fechgyn. Nid yw'r ymgynghoriad yn rhoi cyfrif digon clir o'r ddarpariaeth bresennol ac yn y dyfodol i ferched ac a yw anghenion merched ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn cael eu diwallu'n briodol.*
- *Dywed y cynigydd fod gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i Greenhill ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru] mae angen i'r cynigydd ystyried derbyn disgyblion â chynlluniau datblygu unigol hefyd. Mae'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r awdurdod lleol yn categoreiddio eu hadeiladau ysgol ac nad yw safle presennol Greenhill yn addas i gael ei ailddatblygu gan ei fod yn cael ei raddio fel C ar gyfer cyflwr (Gwael â diffygion mawr) a D (Gwael iawn) ar gyfer addasrwydd, gydag amgylcheddau dysgu 'anaddas', sy'n atal gallu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm.*
- *Mae'r cynnig yn rhoi digon o dystiolaeth ar yr amserlenni a ragamcennir a sut mae hyn yn amodol ar ganiatâd cynllunio'r ddau safle a'r cyllid perthnasol sy'n cael ei sicrhau. Fodd bynnag, yn llai clir yw pa drefniadau fydd ar waith i ateb y galw disgwylledig os nad yw'r cynnig yn mynd rhagddo. Mae'r cynnig yn esbonio'n dda sut y gellid datblygu safle'r Ganolfan Arddio Dutch. Mae Cabinet y Cyngor wedi rhoi caniatâd i gaffael y tir, mae'r ardal wedi'i dynodi'n Lletem Las sy'n golygu y gellir adolygu statws yr ardal yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r awdurdod lleol eisoes wedi gwneud gwaith dichonoldeb ac asesiadau dichonoldeb perthnasol. Mae canfyddiadau'r rhain yn dangos y byddai angen ystyried dyluniad yr ysgol a'r gwaith tirlunio er mwyn bod yn gyson â'r lleoliad. Mae Cabinet y Cyngor hefyd wedi cytuno i gaffael safle Tŷ Glas a oedd yn cael ei feddiannu gan CThEM yn flaenorol.*

- Mae'r cynnig yn nodi'n dda sut y gallai'r ddarpariaeth hon gefnogi'n briodol y ddarpariaeth ar safle'r Ganolfan Arddio Dutch yn ogystal â darpariaeth prif ffrwd bosibl. Mae'r cynnig yn esbonio'n ddigonol sut y byddai unrhyw adeilad newydd yn cydymffurfio ag amodau ariannu Llywodraeth Cymru, megis ardystiad BREEAM. Fodd bynnag, nid yw'r broses ddylunio wedi dechrau eto ond mae'n disgrifio sut y cytunir ar ddyluniadau manwl gyda'r pennaeth a'r corff llywodraethu. Byddai mewnbwn plant a phobl ifanc i ddatblygu'r cynllun yn rhan annatod o weithredu'r prosiect ar bob cam. Byddai cyfleoedd hefyd i randdeiliaid rhoi sylwadau ar gynlluniau manwl yn ystod y camau cyn cynllunio a chais cynllunio, pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.
- Mae'r cynnig yn ystyried dewisiadau amgen addas ac yn amlinellu'r manteision, yr anfanteision a'r risgiau posibl, yn briodol. Ar hyn o bryd mae bron pob disgybl yn teithio i safle Greenhill ar drafnidiaeth i ddisgyblion a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Cynigir mai dyma fydd yr achos o hyd i ddisgyblion a fyddai'n mynychu safle'r Ganolfan Arddio Dutch. Fodd bynnag, byddai gan ddisgyblion sy'n mynychu safle Tŷ Glas fwy o botensial i ddefnyddio cysylltiadau teithio llesol, a byddai hyn o fudd posibl i'r disgyblion. Mae'r cynnig yn cydnabod risgiau teithio safle'r Ganolfan Arddio Dutch ac yn cynnig asesiad trafndiaeth os bydd yr ymgynghoriad yn llwyddiannus.
- Mae'r cynnig yn nodi'n dda sut y byddai cost yr adeiladau'n cael ei thalu a sut y bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i ganfod a fyddai arbedion pellach i'r disgyblion hynny a leolir y tu allan i'r sir ar gyfer eu haddysg oherwydd diffyg manau ysgol arbenigol. Ymddengys bod y cynnig yn cynnig cyfleoedd effeithiol i randdeiliaid, sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd ymateb. Mae'r broses wedi'i nodi'n glir gydag amserlenni a sut y caiff yr ymgynghoriad ei ddefnyddio.
- Mae'r cynnig yn amlinellu'r bwriad i gynyddu nifer y lleoedd ôl-16 ymhellach. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn. Mae'n nodi nad yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ysgolion arbennig yn gallu cynnal trosglwyddiadau llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant na chyflogaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol at y cwricwlwm i'w gynnig nac unrhyw ddull partneriaeth i'w fabwysiadu wrth ddiwallu anghenion y grŵp hwn o ddysgwyr. Mae'r cynnig yn cydnabod, ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion, fod angen rheoli newid ac amharu'n ofalus ac y byddai angen gweithredu cynlluniau i gefnogi hyn. Cynigir y byddai'r staff presennol a gyflogir yn Ysgol Greenhill yn aros a fyddai'n cefnogi'r newid hwn. Mae'r cynnig yn cynnwys sut y byddai'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r ysgol, ei gorff llywodraethu a'i rieni i sicrhau y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar lywodraethu, arweinyddiaeth a lles disgyblion a'u haddysg.
- Mae'r cynnig yn amlinellu'r posibilrwydd y bydd Greenhill yn cael ei ddefnyddio fel dewis amgen i leoli disgyblion mewn darpariaeth y tu allan i'r sir. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r datganiad, ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach. Nid yw'n glir ychwaith pa effaith y bydd cynyddu'r ddarpariaeth yn

Greenhill yn ei chael ar leoliadau eraill sy'n darparu ar hyn o bryd ar gyfer disgyblion oedran uwchradd sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Wrth ystyried effaith y cynnig ar ansawdd canlyniadau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r awdurdod lleol wedi rhestru canlyniadau arolwg diweddaraf Estyn a chanlyniadau categoreiddio Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgol Greenhill.

- Mae'r cynnig yn cydnabod yr angen am amgylcheddau dysgu'r 21ain ganrif ar gyfer ei ddisgyblion sy'n briodol ac o safon uchel i adlewyrchu anghenion y 'Cwricwlwm i Gymru' sydd i'w weithredu yn Ysgolion Cymru yn 2022. Cydnabyddir y dylai'r cwricwlwm roi dysg mwy eang a dyfn, sicrhau cynnydd gwell, rhoi cyfle i ddefnyddio amser a lle gyda mwy o ddychymyg a chreadigrwydd a rhoi llawer mwy o bwyslais ar sgiliau. Bydd cyfleusterau ysgol newydd a gwell yn helpu i gefnogi'r weledigaeth hon. Yn gyffredinol, ychydig iawn o fanylion sydd ar y cwricwlwm arfaethedig. Darparwyd enghreifftiau o sut y gallai safle ysgubor Dutch gynnis profiadau galwedigaethol a gwaith fel garddwriaeth a gofal anifeiliaid. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd y cwricwlwm yn ymwneud â gwybodaeth am y farchnad leol, rôl darparwyr lleol fel sefydliadau addysg bellach a hyfforddiant. Nid yw'n glir ychwaith a fyddai disgyblion o'r ddau safle arfaethedig yn elwa o'r ddarpariaeth y gallai pob safle ei chynnig.*
- Mae'r cynnig yn esbonio'n dda sut mae'r adeilad presennol yn cyfyngu ar y cyfleoedd hyn yn ogystal â chyfyngu ar nifer y disgyblion sy'n gallu mynychu. Mae'r cynnig yn nodi y byddai'r adeiladau newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad yn amlinellu sut y bydd y cyngor yn darparu'n benodol ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol wrth ddylunio ac adeiladu'r safleoedd arfaethedig. Yn ogystal â'r cyfleusterau a gynhwysir [tudalen 18] dylai'r broses ddylunio ystyried yn briodol sut y bydd y llety, ar y ddau safle, yn diwallu anghenion synhwyraidd disgyblion. Nodwn y bydd adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd a'r uned cyfeirio disgyblion yn llywio'r gwaith o gynllunio darpariaeth arbenigol.*
- Arolygwyd Ysgol Greenhill ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2013. Ar yr adeg hon barnwyd bod perfformiad a rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn dda. Nododd asesiad a ddarparwyd gan Gonsortwm Canolbarth y De yn hydref 2021 fod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym ar draws y cwricwlwm cyfan ac mae gwybodaeth am ddisgyblion yr ysgol yn dangos yn glir bod cyfraddau cynnydd yn gwella'n llwyddiannus o flwyddyn i flwyddyn. Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Greenhill ei chategoreiddio'n Wyrdd. Mae hyn yn golygu bod Ysgol Greenhill yn ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella. Mae'r cynnig yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg, yn briodol. Mae'n cyfeirio at weithredu polisi Iaith Gymraeg yr ALI. Ymddengys na fyddai unrhyw effaith negyddol ar y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer y disgyblion hyn. Mae'n cyfeirio at ddiffyg darpariaeth*

Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nid yw'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Uwch Dîm Arwain Ysgol Greenhill

76. Roedd ymateb gan y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)

- *Pan ystyriwn y safleoedd, hoffem wneud y sylwadau canlynol. Mae'r ddau safle, un â sefyllfa wledig sy'n berffaith ar gyfer pob agwedd ar addysg ysgolion coedwig a'r llall sydd â sefyllfa drefol yn yr un cod post â'r ysgol bresennol, sy'n berffaith ar gyfer hyfforddiant teithio, ymweld â siopau a darparu gwasanaethau i'r gymuned.*
- *Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon yr hoffem eu lleisio ar y cam hwn. Mae safle'r Ganolfan Arddio sy'n wyth erw, yn faint perffaith ac mae ganddo botensial mawr i fyfyrwyr Greenhill ond mae agosrwydd y draffordd yn codi pryderon yr ydym yn gobeithio eu goresgyn drwy gydweithio â'r Awdurdod Lleol gan fod problemau mynediad. Byddem hefyd yn gobeithio y byddai'r Awdurdod Lleol yn gallu ailgyfeirio rhai o'r llwybrau bysus gan nad yw'r llwybr bysus ar hyn o bryd yn ymestyn i'r safle. Byddai hyn yn helpu i wneud y safle'n fwy hygyrch i rieni a rhai o'r myfyrwyr sy'n gallu teithio'n annibynnol*
- *Byddai angen ystyried teithio rhwng y ddwy ysgol yn ofalus hefyd. Pe bai'n ofynnol i staff addysgu yn y ddau leoliad, mae problemau o ran amseru ac oedi gyda thraffig i'w hystyried a fyddai'n effeithio ar y diwrnod ysgol. Sylweddolaf fod hwn yn fater amserlennu a rheoli i'r ysgol i raddau helaeth ond mae'n rhywbeth y dylem ei ystyried o'r cychwyn cyntaf.*
- *Ar y cyfan, fodd bynnag, mae safle'r ganolfan arddio gyda'i agwedd wledig, ei faint cyffredinol gydag wyth erw, cod post niwtral o ran gangiau yn darparu safle da ar gyfer darpariaeth arbenigol ar gyfer yr 21ain ganrif i fyfyrwyr â phroblemau iechyd meddwl, cymdeithasol, ac emosiynol difrifol a chymhleth.*
- *Mae lleoliad CF14 yn safle da ar gyfer darpariaeth arbenigol i fyfyrwyr â phroblemau iechyd meddwl, cymdeithasol, ac emosiynol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd ysgol uwchradd brif ffrwd ar yr un safle, a gall hyn achosi problemau. Mae angen meddwl a chynllunio'r ffin a rennir yn ofalus, yn ogystal â lleoliad adeiladau'r ysgol.*
- *Ystyrir bod maint arfaethedig y safle (pum erw) ychydig yn dynn ond drwy gynllunio'n ofalus bydd yn ymarferol. Efallai bod maint y safle yn rhywbeth*

y gellid ei drafod yn ddiweddarach. At hynny, hoffem hefyd bwysleisio nad yw'n briodol i Ysgol Greenhill rannu cyfleusterau gydag ysgol brif ffrwd a hoffai gael sicrwydd pellach na fydd Ysgol Arbennig Greenhill yn rhannu unrhyw gyfleusterau gyda'r ysgol brif ffrwd.

- *Mae'r cyfle i ehangu'r ddarpariaeth ar ddau safle pwrpasol yn sicr yn gyfle euraidd. Bydd y safleoedd newydd sydd â chyfleusterau pwrpasol ar gyfer addysg alwedigaethol, ystafelloedd adnoddau arbenigol ar gyfer cwricwlwm newydd Cymru, cyfleusterau therapi a chynadledda, cyfleoedd ar gyfer profiadau ysgolion coedwig a hyfforddiant teithio yn helpu i ddiogelu addysg yn y dyfodol ar gyfer y rhan hon o gymdeithas sy'n agored iawn i niwed. Fel uwch staff, edrychwn ymlaen at weithio gyda'r tîm adeiladu i helpu i gynllunio'r ysgolion newydd a chyfleusterau'r campysau. Gobeithiwn y gwelwn weledigaeth yr ysgol yn cael ei gwireddu wrth i ni geisio darparu dull therapiwtig o ymdrin ag addysg.*

Cynrychiolaeth Disgyblion Ysgol Arbennig Greenhill

77. *Roedd y disgyblion yn cefnogi cynnydd yng nghapasiti'r ysgol gan y byddai hyn yn caniatáu i fwy o bobl ifanc elwa o'r cyfleoedd a ddarperir gan yr ysgol.*
78. *Roeddent yn hoffi'r syniad o gael adeiladau / cyfleusterau ysgol newydd ac fe wnaethon nhw gynnig amrywiaeth o syniadau ar gyfer yr hyn yr hoffent ei gael gan gynnwys gwell cyfleusterau chwaraeon (mewnol ac allanol), cyfleusterau coginio, manau tawel, lle tu allan y gellid ei ddatblygu fel gardd / ardal anifeiliaid bach, darpariaeth chweched dosbarth ar wahân a lle cymunedol / rhieni.*
79. *Fodd bynnag, roeddent yn pryderu am leoliad safle'r Ganolfan Arddio Dutch yn agos at draffordd / cyffordd yr M4 a'r risgiau posibl o amgylch hyn.*
80. *Roedd cyd-leoli safle ysgol uwchradd prif ffrwd hefyd yn bryder a'r anawsterau posibl sy'n gysylltiedig â hyn.*
81. *Ar hyn o bryd mae pob un o ddisgyblion Ysgol Greenhill yn fechgyn, llawer ohonynt heb fod mewn ysgol gymysg gyda merched. Roedd rhai o'r disgyblion yn mynychu ysgolion cynradd gyda merched, ond roeddent yn teimlo ei fod yn wahanol wrth i'r disgyblion fynd yn hŷn, gan fod posibilrwydd o berthynas rhwng y disgyblion a allai achosi anawsterau.*
82. *Gellir gweld nodiadau cyfarfodydd y disgyblion yn Atodiad 4.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

83. *Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu Ysgol Greenhill.*

84. Fodd bynnag, cydnabyddir bod nifer o faterion wedi'u codi mewn perthynas â'r safleoedd arfaethedig, pryderon ynghylch diogelwch, yr angen i gynnal ethos un ysgol gefnogol a chynnig darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg.
85. Cynigir felly bod gwaith dichonoldeb pellach yn cael ei wneud o ran priodoldeb y safleoedd ar gyfer lletya darpariaeth iechyd a lles emosiynol i ddysgwyr 11 – 19 oed.
86. Bydd hyn yn cynnwys ystyried:
- agosrwydd safle'r Ganolfan Arddio Dutch i gyffordd y draffordd / M4 a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â hyn e.e., lliniaru safleoedd, rheoli disgyblion a goruchwylio.
 - mynediad trafndiaeth gyhoeddus i safle'r Ganolfan Arddio Dutch.
 - llain o dir mewn m² sydd ar gael ar safle Tŷ Glas ar gyfer ysgolion Greenhill ac opsiynau cynllun y safle.
87. Bydd y gwaith o ddymchwel yr adeiladau gwag ar safle Tŷ Glas yn cael ei wneud yn 2022/23. Byddai hyn yn caniatáu ailddatblygu'r safle at ddibenion addysg cyn gynted â phosibl. Bydd hyn hefyd yn cefnogi'r Cyngor i reoli'r costau diogelwch a chynnal a chadw parhaus sy'n gysylltiedig â'r safle gwag.
88. Bydd y pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu gwerthuso ymhellach cyn cyflwyno cynigion diwygiedig ar gyfer darparu lleoedd ysgol arbennig iechyd a lles addysg cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg uwchradd.

Ymatebion a gafwyd ynghylch Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain

89. Mae'r farn a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad wedi ei nodi mewn *print italaidd* isod ac wedi ei grwpio yn unol â'r pwyntiau a godwyd pan fo hynny'n briodol.
90. Gweler ymateb y Cyngor i bob pwynt isod, o dan y pennawd "Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd".
91. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:
- Estyn
 - Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
 - Pennaeth Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
 - Corff Llywodraethu a Phennaeth Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

92. Roedd ymateb gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
- *Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi ffurfioli'r 20 lle ADY ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ar gyfer ein myfyrwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Trafodwyd ein pryderon gyda chi yn fanwl yn y cyfarfod hwn a chytunwyd mai ymweliad safle gan Richard Portas ar ôl ein hymweliad ESTYN sydd ar fin digwydd fyddai'r ffordd orau ymlaen.*
 - *Er ein bod, wrth gwrs, yn ffodus iawn o'n hadeilad newydd a'r cyfleusterau a gynigir, mae gennym bryderon ynghylch cydbwyso anghenion ein holl fyfyrwyr a sut y gallwn amddiffyn ein myfyrwyr mwyaf agored i niwed tra'n sicrhau ein bod mor gynhwysol â phosibl. Hoffem roi ystyriaeth bellach i ble mae'r myfyrwyr hyn wedi'u lleoli'n gorfforol ar y safle ar gyfer eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles eu hunain.*
 - *Byddem hefyd am ystyried amseroedd egwyl ac agweddau eraill ar drefn y diwrnod ysgol er mwyn sicrhau'r profiad gorau posibl i'n holl fyfyrwyr.*
 - *Rydym yn deall bod y lleoedd hyn yn cael eu cymryd gan fyfyrwyr yn ein dalgylch ein hunain ar hyn o bryd a byddem am weld hyn yn parhau cyn belled ag y bo modd. Pe bai hyn yn ymestyn ledled y ddinas, byddai gennym bryderon ynghylch traffig ychwanegol ar y safle a thanseilio ein cynlluniau teithio llesol. Rydym wedi gweithio'n galed i ymgorffori'r ysgol yn y gymuned leol a byddwn yn parhau â'r gwaith pwysig hwn. Rhaid i ni hefyd gydbwyso anghenion y myfyrwyr hyn â grwpiau a chynlluniau twf eraill.*

- *Gan fod hyn yn ffurfioli'r sefyllfa bresennol, nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch staffio priodol a chostau cysylltiedig.*

Pennaeth Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

93. Roedd ymateb gan Bennaeth Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6)
- *Rwy'n croesawu'r syniadau yn yr ymgynghoriad, ac rydym wedi gweithio'n dda gyda'r ALI i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol effeithiol ar ôl dechrau heriol.*
 - *Mae fy mhrif bryderon yn ymwneud â lle yn yr adeilad. Nid oedd y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn y dyluniad gwreiddiol ar gyfer yr adeilad ac mae'n defnyddio 3 ystafell yn yr ardal ADY. Mae'r ysgol wedi tyfu'n gyflym, ac rydym yn brin o le. Yn anochel, mae'r capasiti gwreiddiol a'r hyn sydd ei angen arnom nawr gan fod anghenion wedi newid yn peri rhwystr.*
 - *O ystyried ein cyd-destun, nid yw'r syniad o ystafelloedd gyda 30 o ddisgyblion yn gweithio mewn llawer o achosion. Er enghraifft, mae ein hardal ôl-16 yn gartref i'n huned cyfeirio disgyblion mewnol – mae hyn yn cymryd 4 ystafell. Heb hyn, ni fyddem yn diwallu anghenion disgyblion.*
 - *Yn ogystal, hoffem edrych ar rywfaint o adnoddau ariannol i gysylltu aelod o'r Tîm Arwain â'r ganolfan i sicrhau y gallwn barhau i dyfu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol a gweithio hyn yn oed yn fwy effeithiol gyda'r ALI. Yn ogystal, byddai'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynhwysiant yn yr ysgol.*

Pennaeth Ysgol Uwchradd y Dwyrain

94. Roedd ymateb gan Gorff Llywodraethu a Phennaeth Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 6).
- *Mae Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn croesawu ychwanegu canolfan adnoddau anghenion arbennig i'r Campws gan ei bod yn diwallu angen clir i'r gymuned. Fodd bynnag, ni all y ganolfan agor tan fis Medi 2023 ac yna dim ond mewn llety addas.*

Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd

95. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd.

96. Fodd bynnag, cydnabyddir bod nifer o bryderon wedi'u codi, yn enwedig o ran cynyddu capasiti unrhyw ddarpariaeth bresennol neu sefydlu darpariaeth arbenigol newydd yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, gofynion llety a'r dyddiad gweithredu arfaethedig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain a chynnydd posibl mewn traffig.
97. Mae darpariaeth wedi'i sefydlu ar gyfer disgyblion sydd wedi cofrestru yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd sydd angen cymorth iechyd a lles emosiynol ychwanegol. Mae'r cynnig yr ymgynghorwyd arno yn ceisio ffurfioli'r ddarpariaeth hon. Bydd yr ysgol yn parhau i gael cymorth i ddarparu ar gyfer disgyblion presennol ac unrhyw ddisgyblion ychwanegol sy'n cael mynediad i'r ddarpariaeth sy'n dod o'r ardal leol i raddau helaeth.
98. Mae gofynion llety wedi'u hasesu a'u trafod gyda'r ddwy ysgol. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i adolygu llety sy'n bodoli eisoes a nodi unrhyw ofynion ychwanegol. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ysgol, cytunwyd y byddai'r dyddiad gweithredu ar gyfer sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn cael ei roi yn ôl i fis Medi 2023 er mwyn caniatáu i drefniadau llety a staffio gael eu cwblhau.
99. Dim ond nifer fach o gerbydau ychwanegol a ragwelir ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael Trafnidiaeth i Ddysgwyr a byddai hynny mewn tacsis a rennir neu mewn bws mini.
100. Yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd efallai y bydd angen cyfleusterau gwell a/neu ehangach priodol ar gyfer gollwng a chasglu o fewn y safle i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau.
101. Byddai cyfyngiadau parcio ychwanegol ar hyd Penally Road o gwmpas amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol yn lleihau tagfeydd a phroblemau parcio ac yn gwella diogelwch disgyblion.
102. Yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain byddai'r safle'n cael ei asesu i sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer gollwng a chasglu i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau.
103. Gall mesurau i wella problemau traffig y tu allan i'r ysgol gynnwys cyfyngiadau parcio ychwanegol neu ystyried Stryd Ysgol o amgylch amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol er mwyn lleihau tagfeydd a phroblemau parcio a gwella diogelwch disgyblion.

Ymatebion ffurfiol a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

104. Cafwyd ymatebion ffurfiol ynghylch y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer plant ac oedolion ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol gan y canlynol:

- Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Glan Morfa
- Corff Llywodraethu Ysgol Melin Gruffydd
- Corff Llywodraethu Ysgol Glan Ceubal
- Corff Llywodraethu Ysgol Pencae
- Corff Llywodraethu Ysgol Pwll Coch
- Corff Llywodraethu Ysgol y Berllan Deg
- Corff Llywodraethu Ysgol Gwaelod-y-Garth
- Corff Llywodraethu Ysgol Nant Caerau
- Corff Llywodraethu Ysgol Pen y Gores
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Creigiau
- Corff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan
- Corff Llywodraethu Ysgol Treganna
- Corff Llywodraethu Ysgol Coed y Gof
- Corff Llywodraethu Ysgol Plasmawr
- Corff Llywodraethu Ysgol Glantaf
- Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd
- Merched y Wawr

105. Mae copïau o'r ymateb llawn yn Atodiad 6.

106. *Roedd yr ymatebion gan yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynnwys cynnwys cyson i raddau helaeth ac yn amlinellu'r canlynol:*

- *cydnabod a chroesawu'r cynigion i gynyddu capasiti ar gyfer y sector Saesneg a chefnogi'n llawn y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Fodd bynnag, roedd teimlad cryf bod diffyg darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol o fewn y sector Cymraeg a siom na chynigiwyd mwy o newidiadau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.*
- *At hynny, mynegwyd y farn bod yr ymgynghoriad hwn yn gwrth-ddweud yr ymgynghoriad CSCA diweddar a nododd uchelgais y Cyngor i agor tair uned arbenigol mewn ysgolion Cymraeg yn y sector Cynradd a thri CAA arall yn y sector Uwchradd.*
- *Amlinellwyd pryderon, drwy gyfyngu'r buddsoddiad i un sector, ei fod yn annog teuluoedd i drosglwyddo disgyblion ADY i adael y sector Cymraeg a symud i ysgolion Saesneg lle ystyrir bod y buddsoddiad a'r adnoddau ar hyn o bryd yn well ac yn gallu bodloni lefelau mwy cymhleth neu uwch o angen.*
- *Mae angen buddsoddi yn y sector Cymraeg er mwyn sicrhau darpariaeth gyfartal a chynhwysiant llawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.*

- *Mae'r ddogfennaeth yn cydnabod angen cynyddol amlwg o fewn y sector cyfrwng Saesneg ond nid yn y sector Cymraeg gyda phryderon a fynegwyd ynghylch a oedd yr ymchwil yn ddigonol i adlewyrchu'n gywir yr angen sy'n cael ei gyflwyno mewn ysgolion Cymraeg.*
- *Mynegwyd pryderon hefyd bod diffyg darpariaeth glir o ran iechyd emosiynol a lles ac ymddygiad o fewn y sector Cymraeg ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod 4-5 (sydd ag anghenion y tu hwnt i ddarpariaeth prif ffrwd) ynghyd â diffyg lle i sefydlu dosbarthiadau anogaeth / lles.*
- *Roedd barn gyson ar draws y rhan fwyaf o'r ymatebion a gyflwynwyd gan yr ysgolion cyfrwng Cymraeg bod angen mwy o leoedd ADY cyfrwng Cymraeg a bod hyn yn codi. Er mwyn ymateb i hyn yn effeithiol, roedd galw am gynllunio strategol a chyfannol sy'n rhoi'r plant a'r teuluoedd wrth wraidd popeth a wnawn yn gyson â'n hymrwymiad ar y cyd i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a FGWBA gyda nodau corfforaethol eraill fel Caerdydd Un Blaned, Caerdydd 2030 a statws Dinas sy'n Dda i Blant.*

Ymateb i'r farn a leisiwyd

107. Mae'r Cyngor yn croesawu'r datganiadau o gefnogaeth i ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc ledled y ddinas.
108. Mae lefel anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector Saesneg. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn newid dros y 4-5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o anghenion dysgu ychwanegol, ym mhob maes angen.
109. Cynhaliwyd adolygiad o ADY yn y sector Cymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i lywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Nododd ysgolion nifer fach ond arwyddocaol o enghreifftiau o ddisgyblion ag ADY yn gadael y sector Cymraeg er mwyn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig.
110. Roedd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg Gymraeg yn dewis addysg Saesneg yn lle hynny os oedd gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol, oherwydd pryder y gallai fod angen i'w plentyn drosglwyddo i'r sector arbenigol yn ddiweddarach.
111. Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.
112. Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle mae'r ganolfan uwchradd wedi ei sefydlu. Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau

dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chefnogi ystod o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau lleferydd ac iaith ac awtistiaeth.

113. Wrth i'r sector Cymraeg barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag ADY cymhleth.
114. Yn dilyn sesiynau ymgysylltu ag aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd yn haf 2021, ymgynghorodd y Cyngor yn ffurfiol ar ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drafft 2022-2032 rhwng 15 Hydref 2021 a 13 Rhagfyr 2021.
115. Dosbarthwyd dolenni i'r cynllun (gan gynnwys y CSCA drafft llawn, y fersiwn gryno hawdd ei deall a'r Llwybr Twf) a thudalen we'r arolwg i randdeiliaid statudol gan gynnwys ysgolion Caerdydd a sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd.
116. Mae'r CSCA drafft yn nodi'r strategaeth ar gyfer datblygu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg a byddai cynigion yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r broses o weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar ôl i Lywodraeth Cymru gytuno ar y strategaeth a'r Cyngor ei mabwysiadu'n ffurfiol yn ddiweddarach yn 2022.
117. Bydd datblygiad parhaus darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys darpariaeth newydd a phresennol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod cynigion yn cael eu cyflwyno mewn ffordd strategol a chyfannol sy'n ystyried anghenion ein holl ddysgwyr ac yn adlewyrchu'r ychwaneged sydd ei angen i sicrhau bod y sector cyfrwng Cymraeg yn gydradd wrth i leoedd newydd gael eu darparu drwy'r CSCA arfaethedig.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Tabl Cynnwys

Cefndir	2
Cynigion	2
Methodoleg	2
Ymatebion	2
Canlyniadau	3
Nodwch a ydych yn ymateb fel:	3
A fydddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw:	3
Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig y Court o 42 i 72 o leoedd?	4
Esboniwch pam:	4
Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Arbennig y Court i adeiladau newydd ar draws dau safle yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed a safle presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn Llanrhymni?.....	5
Esboniwch pam:	6
A ydych yn cefnogi'r cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer plant oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2022?.....	7
Esboniwch pam:	7
A oes unrhyw newidiadau a allai wella'r cynigion hyn yn eich barn chi?	8
A oes unrhyw opsiynau eraill yr hoffech eu hawgrymu?	9
A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?.....	10
Amdanoch Chi	11
Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal: -	11
Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?.....	11
Pa un ydych chi...?.....	11
A ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?	12
Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:	12
Beth yw eich grŵp ethnig? <i>Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu qyfuniad o'r rhain.</i> 12	
ATODIAD A – LLYTHYRAU / EBYST A DDAETH I LAW	Error! Bookmark not defined.

Cefndir

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gynhwysiant.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbenigol.

Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol, wedi parhau i dyfu.

Cynigion

Er mwyn ymateb i'r galw am leoedd anghenion dysgu ychwanegol, ymgynghorodd y Cyngor ar gynigion i wneud y canlynol:

- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig y Court o 42 i 72 o leoedd. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i ddau safle, mewn adeiladau newydd ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed a safle presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn Llanrhymini, gyda 36 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ag 20 o leoedd ar gyfer plant oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2022.

Methodoleg

- Cynhaliwyd yr arolwg o 11 Hydref 2021 i 17 Ionawr 2022.
- Anfonwyd llythyr at holl rieni'r disgyblion yn yr ysgolion a effeithiwyd, gan roi gwybodaeth iddynt yn esbonio sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
- Anfonwyd e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid, gan roi gwybodaeth iddynt yn esbonio sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
- Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ymatebion


Cafwyd 35 ymateb i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd cyfanswm o 12 e-bost / llythyr mewn perthynas â'r ymgynghoriad.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Arbennig y Court / Ysgol Gynradd Moorland

Canlyniadau

Nodwch a ydych yn ymateb fel:


Rhieni neu warcheidwaid (37.1%) oedd y brif garfan o ymatebion i'r arolwg. Ac yna aelodau o staff (34.3%) a thrigolion lleol (28.6%).



A fyddechystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw:

	Nifer	%
Ysgol Gynradd Moorland	7	31.8
Ysgol Gynradd y Tyllgoed	4	18.2
Ysgol Arbennig y Court	4	18.2
Arall	6	27.3
Dim	1	4.5
Cyfanswm yr Ymatebwyr	22	100.0

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig y Court o 42 i 72 o leoedd?
Mae tua naw o bob deg (88.6%) o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig.



Esboniwch pam:

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr egluro eu rhesymau dros gefnogi neu beidio â chefnogi'r cynnig. Rhoddodd 16 o ymatebwyr adborth ynghylch pam yr oeddent yn cefnogi'r cynnig, tra bod dau ymatebydd wedi rhoi adborth ynghylch pam yr oeddent yn erbyn y cynnig. Gellir gweld dadansoddiad llawn isod:

Cefnogaeth i'r cynnig

- Mae'n bwysig iawn i ddarpariaeth arbenigol barhau i gael ei chynyddu i gefnogi'r plant hynny nad ydynt efallai'n gallu ymdopi o fewn amgylchedd prif ffrwd.
- Ydw, ond rwy'n rhagweld problemau traffig ar y ffordd wrth i ddisgyblion gael tarsi i'r ysgol. Hefyd, mae'n golygu na all rhieni o Lanrhymini gael mynediad mwyach i Ysgol Gynradd Llaneirwg oherwydd teithio. Mae hyn yn golygu hyd yn oed mwy o yrru ar draws y ddinas.
- Mae mwy o blant yn cael lle a'r help sydd ei angen arnynt.
- I ddiwallu'r angen cynyddol i rai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol, feithringar.
- Nid oes digon o leoedd i'r nifer fawr o blant sydd angen lleoedd yng Nghaerdydd. Mae'r cyfnod o aros am leoedd yn rhy hir.
- Mae lleoedd ychwanegol bob amser yn rhywbeth cadarnhaol.
- Bydden i'n cefnogi nid yn unig y niferoedd ond yn hefyd gynyddu terfyn oedran yr ysgol i 19.
- I gefnogi disgyblion sydd angen y cymorth arbenigol.
- Mae'n ymddangos bod llawer mwy o blant angen lleoedd ysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd ar hyn o bryd.
- Rwy'n deall bod mwy o blant ag anghenion.
- I gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer plant sydd angen gofal ac ymyrraeth arbenigol.
- Mae angen lleoedd ychwanegol.
- Nid oes digon o leoedd arbenigol i blant sydd wir eu hangen.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Arbennig y Court / Ysgol Gynradd Moorland


- Mae angen y ddarpariaeth - mae angen yr arbenigedd.
- Nid oes gan Gaerdydd ddigon o leoedd ar gyfer disgyblion cynradd sydd â heriau ymddygiadol, felly mae angen cynnydd.
- Mae nifer y plant ag anghenion emosiynol sy'n achosi problemau ymddygiadol eithafol ac sydd angen y cymorth arbenigol a mwy penodol y gall Ysgol y Court ei ddarparu yn codi'n flynyddol ac yn rhoi straen mawr ar ysgolion prif ffrwd.

Yn erbyn y cynnig

- Er fy mod yn deall bod angen darpariaeth ychwanegol ar gyfer ADY nid safle'r Tyllgoed yw'r lle cywir. Bydd hyn yn effeithio ar y plant pan fyddant yn chwarae tu allan ac mae'n debygol iawn o achosi aflonyddwch drwy ymddygiad digroeso mor agos at safle'r ysgol.
- Mae'n well i Ysgol y Court fod yn ysgol fwy arbenigol gyda'r niferoedd presennol o ddisgyblion.

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Arbennig y Court i adeiladau newydd ar draws dau safle yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed a safle presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn Llanrhymini?

Mae tri o bob pump (60.0%) o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig. Fodd bynnag, os tynnir ymatebion dim barn o'r dadansoddiad, mae'r ganran o rai sy'n cytuno yn codi i 72.4%.



Esboniwch pam:

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr egluro eu rhesymau dros gefnogi neu beidio â chefnogi'r cynnig. Rhoddodd saith o ymatebwyr adborth ynghylch pam yr oeddent yn cefnogi'r cynnig, tra bod saith arall wedi rhoi adborth ynghylch pam yr oeddent yn erbyn y cynnig. Gellir gweld dadansoddiad llawn isod / trosodd:

Cefnogaeth i'r cynnig


- Mae'n llawer agosach i rai plant.
- Bydd cael dau safle ar wahanol ochrau i'r ddinas yn lleihau pellteroedd teithio i lawer o blant. Bydd bod drws nesaf i ysgolion prif ffrwd yn agor cyfleoedd newydd i ddisgyblion y Court gael cyfleoedd cynhwysiant, ac i staff ysgol arbennig a phrif ffrwd rannu arfer a dysgu proffesiynol.
- Byddai cael safle newydd ar gyfer yr ysgol yn wych i'r holl blant gael mynediad at gyfleusterau mwy newydd, fe weithiodd i Ysgol Uwchradd y Dwyrain.
- Cyfle am gyfleusterau newydd a modern i blant a staff.
- Os gellir darparu cyfleusterau gwell.
- Byddai dwy uned lai yn well nag un ganolfan fawr.
- Mae'n ymddangos bod llawer mwy o blant angen lleoedd ysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd ar hyn o bryd.

Yn erbyn y cynnig

- Er fy mod yn deall bod angen darpariaeth ychwanegol ar gyfer ADY nid safle'r Tyllgoed yw'r lle cywir. Bydd hyn yn effeithio ar y plant pan fyddant yn chwarae tu allan ac mae'n debygol iawn o achosi aflonyddwch drwy ymddygiad digroeso mor agos at safle'r ysgol.
- Mae cael 1 ysgol yn gweithredu ar 2 safle ar wahân yn risg ddifrifol iawn i les Staff, Disgyblion a'r Uwch Dîm Arwain a fyddai'n gorfod cynnig tîm hollt. Byddai rhannu tîm yr ysgol i wahanol ochrau o Gaerdydd yn anodd iawn i'w reoli. Gan mai'r cynnig yw cynyddu'r Nifer ar y Gofrestr i 72 o ddisgyblion, byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i symud Ysgol y Court i 1 lleoliad. Mae'r safle presennol yn Ysgol Gynradd Llaneirwg yn lletya 115 o ddisgyblion. Gyda 72 yn cael eu hystyried, byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i sefydlu canolfan yno, gan y gallai'r ysgol wedyn fod â'r gallu i gynyddu ymhellach yn y dyfodol. Byddai hyn yn lleihau costau gweithredu'r ysgol ar safle hollt a byddai'n atal dryswch i ysgolion eraill os oes angen iddynt fwydo i mewn i'r Court i gael cyngor neu gymorth pellach o safbwynt Prif Ffrwd. Ystyriwch o ddifrif gadw'r Court ar 1 safle pwrpasol.
- Traffig a rhieni yn Llanrhymni yn cael eu cosbi eto fel a ddigwyddodd gydag Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn cael ei hadeiladu yn Trowbridge.
- Mae'r Tyllgoed yn safle addas.
- Rwy'n teimlo bod angen i'r ysgol fod ar un safle, gwledig os oes modd ac ar y cyrion i roi'r mathau o brofiadau awyr agored sydd eu hangen ar y plant. Rwy'n teimlo y byddai lleoliadau trefol yn niweidiol i'w datblygiad. Mae Llanisien yn lleoliad hyfryd, ond os oes rhaid i'r ysgol symud dylai gael ei symud i ardal mwy gwledig yng Ngogledd Caerdydd, wedi'i hamgylchynu gan wyrddni.
- Dylai fod ar un safle.
- Anodd cynnal yr ethos a'r Weledigaeth ar draws dau safle.

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer plant oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Moorland o fis Medi 2022?

Mae tri o bob pedwar (74.3%) o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig. Fodd bynnag, os tynnir ymatebion dim barn o'r dadansoddiad, mae'r ganran o rai sy'n cytuno yn codi i 86.7%.



Esboniwrch pam:

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr egluro eu rhesymau dros gefnogi neu beidio â chefnogi'r cynnig. Rhoddodd 13 o ymatebwyr adborth ynghylch pam yr oeddent yn cefnogi'r cynnig, tra bod tri ymatebydd wedi rhoi adborth ynghylch pam yr oeddent yn erbyn y cynnigion. Gellir gweld dadansoddiad llawn isod:

Cefnogaeth i'r cynnig

- Mae Caerdydd yn araf yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â disgyblion ag anghenion o'r fath.
- Mae angen lleoedd i gefnogi mwy o blant yn yr ardal.
- Mae prinder lleoedd CAA ar ochr ddeheuol y ddinas. Bydd canolfan yn Moorlands yn cynyddu'r cyfleoedd i blant ag anghenion cymhleth yn Sblot a'r ardaloedd cyfagos gael mynediad i ganolfan arbenigol.
- Mae angen canolfan yng Nghaerdydd.
- Mae angen canolfan yn y gymuned.
- Mae angen canolfan newydd hygyrch ar blant nad oes angen ysgol fel Ysgol y Court arnynt.
- I gefnogi disgyblion sydd angen y cymorth.
- Mae'n ymddangos bod llawer mwy o blant angen lleoedd ysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd ar hyn o bryd.
- Dylai addysg fod ar gael i bawb, drwy gael mwy o ysgolion anghenion arbennig rydym yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl gael eu haddysgu.
- Unwaith y bydd ysgol wedi penderfynu na all reoli plentyn ag ADY cymhleth yn effeithiol, mae er budd pawb i'r plentyn ddod o hyd i ddarpariaeth amgen.
- Nid oes digon o leoedd arbenigol i'r plant hyn yng Nghaerdydd.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Arbennig y Court / Ysgol Gynradd Moorland

- Mae unrhyw gynnydd mewn lleoedd CAA ar draws y ddinas yn beth da gan nad oes digon o leoedd ar hyn o bryd i ateb y galw.
- Os yw'r holl staff, llywodraethwyr a rhieni o blaid, bydden i'n cefnogi hyn.

Yn erbyn y cynnig

- Mae'n heriol nawr i barcio car y tu allan i'r ysgol ar ddiwrnod glawog. Nid wyf yn argyhoeddedig y bydd y cynlluniau arfaethedig (cyfeirnod cynllunio 21/02271/MNR) yn gwella traffig os oes angen tacsis ychwanegol i gludo myfyrwyr. Byddai'n dirywio'r sefyllfa andwyol bresennol ac yn annog rhieni i beidio ag anfon eu plant i'r ysgol ar ddiwrnod glawog. Fel person anabl, rwy'n cefnogi gwella hygyrchedd ysgolion prif ffrwd i bobl ag ADY, ond heb effeithio ar allu myfyrwyr presennol i fynychu'r ysgol.
- Mae angen mwy o leoedd ond wedi'u gwasgaru'n well ledled Caerdydd.
- Nid yw'r tiroedd yn ddigon mawr i ddarparu darpariaeth awyr agored.

A oes unrhyw newidiadau a allai wella'r cynigion hyn yn eich barn chi?

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt ynghylch newidiadau a allai wella'r cynigion. Penderfynodd 17 o ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod:

- Ailystyriwch rannu'r Court ar 2 safle. Byddai adleoli'r Court i safle a fydd yn wag cyn bo hir yn fwy cost-ffeithiol a byddai'n darparu 1 ganolfan bwrpasol, tra'n parhau i ddod yn ysgol gyfagos gyda Phen-y-Bryn. Ni fyddai Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn syniad addas os yw'r cyfleuster eisoes yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac os byddai'r lle'n cael ei ystyried yn rhy fach i agor Ysgol Arbennig yno ac os yw'n rhy fach i ehangu yn y dyfodol.
- I ganiatáu ar gyfer mwy o blant.
- Iddo ddigwydd yn gynt!
- Mwy o leoedd ar gyfer Ysgol y Court
- Hoffwn gael mynediad at gynlluniau arfaethedig. Credaf hefyd y bydd y traffig cynyddol yn effeithio ar breswylwyr ac nad yw wedi cael sylw llawn.
- Dydw i ddim yn hoffi meddwl am dai newydd ar yr un safle â'r ysgol.
- Newid lleoliad Ysgol y Court i ardal mwy gwledig Gogledd Caerdydd, gan gynyddu nid yn unig y niferoedd ond hefyd yr ystod oedran i 19.
- Mae angen ystyried anghenion cludiant ysgol y disgyblion hyn, oherwydd y mynedfeydd ysgol sydd eisoes yn beryglus gyda llawer o dagfeydd oherwydd bod rhieni'n parcio'n wael.
- Cadwch yr holl goed ar y safle!! Hanfodol ar gyfer lles mewn ardal ddiwydiannol.
- Mae adeilad ysgol gynradd y Tyllgoed wedi dirywio ac mae angen gwneud llawer o waith atgyweirio.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Arbennig y Court / Ysgol Gynradd Moorland

- A all y cyngor ystyried cymryd a defnyddio rhywfaint o le o Barc Moorland i wella'r sefyllfa parcio a'r llif traffig?
- Ystyriwch anghenion y gymuned BAME yng Nghaerdydd o ran anghenion cymhleth.
- Defnyddiwch dir wrth ochr hen safle Glam Morgan.
- I gynyddu cyflogau athrawon.
- Rhaid i ystafell ddosbarth y CS fod yn hygyrch, ar y llawr gwaelod a gyda mynediad i ddarpariaeth awyr agored barhaus. Rhaid gwneud darpariaeth addas ar gyfer toiledau ac ardal newid.
- Gellid defnyddio adeilad gwag Ysgol Glan Morfa wrth ymyl Ysgol Gynradd Moorland ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Arbenigol.
- Rwy'n cefnogi'r cynigion yn llawn, ond nid oes unrhyw arwydd o sut y bydd y cynigion yn gwasanaethu disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

A oes unrhyw opsiynau eraill yr hoffech eu hawgrymu?

Gwahoddwyd ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt ynghylch opsiynau amgen i'r cynigion. Penderfynodd deuddeg o ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod:

- Adleoli i 1 safle pwrpasol. Byddai Safle Llaneirwg yn fwy addas.
- Canolfannau adnoddau arbenigol mewn ysgolion eraill hefyd.
- Defnyddio'r hen Glan Morfa naill ai ar gyfer meithrinfa neu anghenion dysgu ychwanegol.
- Newid lleoliad Ysgol y Court i ardal mwy gwledig Gogledd Caerdydd, gan gynyddu nid yn unig y niferoedd ond hefyd yr ystod oedran i 19.
- Pe bai gan fwy o ysgolion unedau lles fel yr un yn springwood byddai'n tynnu'r pwysau oddi ar ysgol arbenigol.
- Cyflwyno canolfannau adnoddau arbenigol mewn ysgolion ffydd ar gyfer y rhai a fyddai fel arfer yn mynd i ysgol ffydd.
- Gwnewch ardd fawr i fyfyrwyr ddysgu a thyfu gyda natur.
- Gan fod Ysgol Uwchradd Cantonian yn cael adeilad newydd, mae'n gwneud synnwyr bod Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn cael un hefyd ac yn ehangu ei dosbarth lles yn ogystal.
- A all y cyngor ystyried cymryd a defnyddio rhywfaint o le o Barc Moorland i wella'r sefyllfa parcio a'r llif traffig?
- Cael canolfan adnoddau â 20 lle ar gyfer anghenion cymhleth o fewn clwstwr Fitzalan.
- Bydd cadw Ysgol y Court fel un safle yn llawer mwy cydlynol ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn/teulu i'r plant, sef yr hyn y mae ein hysgol yn ffynnu arno.
- Dylai'r cynigion hyn gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ogystal â'r cynigion cyfrwng Saesneg.

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Rhoddyd cyfle terfynol i'r ymatebwyr roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Penderfynodd deuddeg o ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod / trosodd:

- Mae'n wych gweld Caerdydd yn cymryd camau cadarnhaol i gynyddu'r ddarpariaeth arbenigol yng Nghaerdydd.
- Peidiwch â rhoi tai ar yr un safle.
- Mae Ysgol y Court yn ysgol hyfryd a gofalgar ac ni fydden i'n dymuno i'r ymdeimlad hwnnw o berthyn a theulu gael ei golli gyda'r newidiadau hyn. Mae Mr Beesley a Dr Alyson Richards yn gwneud gwaith gwych.
- Cadwch yr holl goed ar y safle arfaethedig!! Dyna'r unig rai sydd gennym yma... ymhlith y Gwaith Dur a'r parciau diwydiannol, mae'r coed mwyaf ar y safle dros 100 mlwydd oed!!.
- Sicrhewch fod manau gollwng priodol a diogel i rieni sy'n dod â'r plant i'r ysgol. Yn y gorffennol, achoswyd difrod i geir wrth i bobl wneud tro pedol ar Moorland Road wrth ddanfôn eu plant.
- Mae darpariaethau ADY mewn ardaloedd 'gwyn' yng Nghaerdydd yn bennaf. Mae anghenion y gymuned BAME yng Nghaerdydd yn cael eu hanwybyddu.
- Poeni am niwed i addysg y plant yn ystod y gwaith adeiladu. Ni fydd lle i ddysgu yn yr awyr agored sy'n rhan o'r cwricwlwm. Hefyd, mae cymaint o oedi gyda phopeth. Parcio staff/ymwelwyr yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu. Manau gollwng diogel i blant mewn dosbarthiadau CAA. Diffyg toiledau i oedolion gyda mwy o staff.
- Mae'n wych cael mwy o ysgolion sy'n ceisio helpu plant ag anghenion arbennig.
- Mae'r tabl ar dudalen 29 o'r ddogfen ymgynghori yn dangos bod gan Ysgol Marlborough Ganolfan Adnoddau Arbenigol â 20 lle. O fis Medi 2021, mae hyn wedi cynyddu i 30 lle. Nid oes gan yr ystafell ddosbarth CS newydd fynediad hawdd i'r ardal awyr agored ac nid yw'r toiledau / cyfleusterau newid yn ddelfrydol.
- Mae'n ymddangos bod y safleoedd wedi'u dewis am resymau ariannol yn hytrach nag anghenion lles y plant.
- Mae angen ystyried y materion traffig a pharcio ychwanegol, gan fod gan Moorland broblemau difrifol eisoes o ran parcio ger yr ysgol.
- Nid oes darpariaeth debyg i Ysgol y Court sydd ar gael i ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid cynnig yr un ddarpariaeth i'r sector cyfrwng Cymraeg ag a gynigir i'r sector cyfrwng Saesneg.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Arbennig y Court / Ysgol Gynradd Moorland

Amdanoch Chi

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal: -

	Nifer	%
Sblot	7	31.8
Cyncoed	3	13.6
Y Tyllgoed	3	13.6
Llandaf	2	9.1
Llanisien	2	9.1
Llanrhymni	2	9.1
Trowbridge	2	9.1
Ward Etholiadol Arall	1	4.5
Cyfanswm yr Ymatebwyr	22	100.0

Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

	Nifer	%
25-34	5	14.3
35-44	11	31.4
45-54	10	28.6
55-64	5	14.3
Grŵp oedran arall	1	2.9
Mae'n well gennyf beidio â dweud	3	8.6
Cyfanswm yr Ymatebwyr	35	100.0

Pa un ydych chi...?

	Nifer	%
Benywaidd	27	77.1
Gwrywaidd	6	17.1
Mae'n well gennyf beidio â dweud	2	5.7
Cyfanswm yr Ymatebwyr	35	100.0

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Arbennig y Court / Ysgol Gynradd Moorland

A ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

	Nifer	%
Ydw	5	14.7
Nac ydw	25	73.5
Mae'n well gennyf beidio â dweud	4	11.8
Cyfanswm yr Ymatebwyr	34	100.0

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

Nododd naw o bobl gyflwr iechyd a oedd yn berthnasol iddyn nhw eu hunain, gellir gweld y rhain isod:

- Anawsterau iechyd meddwl
- Nam symudedd
- Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)
- Byddar / Wedi colli clyw / Trwm eu clyw
- Nam / anawsterau dysgu

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

	Nifer	%
Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig	28	80.0
Grŵp Ethnig Arall	4	11.4
Mae'n well gennyf beidio â dweud	3	8.6
Cyfanswm yr Ymatebwyr	35	100.0

Tabl Cynnwys

Cefndir	14
Cynigion	14
Methodoleg	14
Ymatebion	14
Canlyniadau	15
Nodwch a ydych yn ymateb fel:	37
A fyddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw:	15
Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd? ...	15
Esboniwch pam:	16
A ydych yn cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle yng Nghanolfan Arddio Dutch, Maes Y Bryn Road a Heol Tŷ Glas, Llanisien? .	17
Esboniwch pam:	17
A oes unrhyw newidiadau a allai wella'r cynigion hyn yn eich barn chi?	18
A oes unrhyw opsiynau eraill yr hoffech eu hawgrymu?	20
A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?	21
Amdanoch Chi	23
Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal: -	45
Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?	23
Pa un ydych chi...?	23
A ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?	23
Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:	24
Beth yw eich grŵp ethnig? Pan ddefnyddir y term 'Prydeinia', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain. 24	
ATODIAD A – LLYTHYRAU / EBYST A DDAETH I LAW	Error! Bookmark not defined.

Cefndir

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gynhwysiant.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbenigol.

Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol, wedi parhau i dyfu.

Cynigion

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion arbennig uwchradd i ddysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol rhwng 11 a 19 oed, cynigir:

- Cynyddu nifer y lleoedd disgyblion yn Ysgol Greenhill o 64 i 160.

- Trosglwyddo ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle ar safle Canolfan Arddio Dutch, Maes Y Bryn Road (ger Cyffordd 30 yr M4) a Heol Tŷ Glas yn Llanisien, gydag 80 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025.

Byddai ehangu Greenhill dros ddau safle, pob un â 80 lle, yn cefnogi'r ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ymhellach a byddai'n ei galluogi i drawsnewid cyfleoedd dysgu ar gyfer mwy o ddysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd mewn amgylchedd dysgu arbenigol pwrpasol sy'n addas i'r 21ain ganrif.

Rhagwelir y byddai safle presennol Ysgol Greenhill yn cael ei waredu ar gyfer derbyniad cyfalaf ar ddiwedd y rhaglen adeiladu.

Methodoleg

- Roedd yr arolwg ar agor o 14 Rhagfyr 2021 i 01 Chwefror 2022
- Anfonwyd llythyr at holl rieni'r disgyblion yn yr ysgolion a effeithiwyd, gan roi gwybodaeth iddynt yn esbonio sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad
- Anfonwyd e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid, gan roi gwybodaeth iddynt yn esbonio sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad
- Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol

Ymatebion


Cafwyd 22 ymateb i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd nifer o lythyrau / negeseuon e-bost yn ymwneud â'r ymgynghoriad, gellir gweld y rhain yn Atodiad A.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Ysgol Greenhill

Canlyniadau

Nodwch a ydych yn ymateb fel:

O'r ddau ar hugain o ymatebion a gafwyd i'r arolwg, roedd pedwar ar ddeg gan aelodau o staff.




A fyddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw:

Rhoddodd pymtheg o ymatebwyr adborth ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd 14 o'r 15 ymateb yn gysylltiedig ag Ysgol Greenhill.

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd?

Roedd 14 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion.



Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Ysgol Greenhill

Esboniwch pam:

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr egluro eu rhesymau dros gefnogi neu beidio â chefnogi'r cynnig. Rhoddodd deg ymatebydd adborth ynghylch pam yr oeddent yn cefnogi'r cynnig, tra bod tri ymatebydd wedi rhoi adborth ynghylch pam yr oeddent yn erbyn y cynnig. Gellir gweld dadansoddiad llawn isod / trosodd.

Cefnogaeth i'r cynnig

- Mae angen cynyddol am gymorth ychwanegol i ddarparu cyfleoedd i'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad i addysg brif ffrwd.
- Mwy o angen am ddarpariaeth ICEM ar draws yr awdurdod.
- Bydd mwy o blant yn elwa.
- Mwy o gyfleoedd i bobl ifanc y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt.
- Mae angen y ddarpariaeth.


Yn erbyn y cynnig

- Mae gan yr ysgol fel y mae gyfradd llwyddiant anhygoel oherwydd ei maint bach. Ni all y disgyblion fynychu'r brif ffrwd oherwydd niferoedd uchel felly byddai treblu'r disgyblion yn golygu dosbarthiadau mwy, byddai hefyd yn golygu y byddai staff yn cael eu rhoi dan bwysau uwch oherwydd ymddygiad cyfnewidiol rhai disgyblion.
- Bydd gormod o ddisgyblion yn lleihau'r siawns o gymorth 1-2-1 o ran agweddau addysgol a lles
- Mae'r tir presennol yn lleoliad therapiwtig delfrydol i blant ag ICEM.
- Mae rhannu/leihau adnoddau yn lleihau effeithiolrwydd. Mae Greenhill yn llwyddiannus oherwydd gellir rhoi cymorth sydd wedi'i deilwra i anghenion y nifer fach o ddysgwyr.
- Diben Greenhill yw darparu amgylchedd diogel i blant sy'n cael trafferth gyda'u ICEM a byddai hyn yn cael ei beryglu drwy gynyddu'r capasiti gan 30% ar bob safle. Pan fyddwch yn rhannu/leihau adnoddau, mae cynhyrchiant yn gostwng.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Ysgol Greenhill

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Greenhill i adeiladau newydd ar draws dau safle yng Nghanolfan Arddio Dutch, Maes Y Bryn Road a Heol Tŷ Glas, Llanisien?

Roedd saith o'r ugain ymatebydd i'r cwestiynau hyn yn cytuno â'r cynnig.



Esboniwch pam:

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr egluro eu rhesymau dros gefnogi neu beidio â chefnogi'r cynnig. Rhoddodd deunaw ymatebydd adborth ynghylch pam yr oeddent yn cefnogi'r cynnig, tra bod tri ymatebydd wedi rhoi adborth ynghylch pam yr oeddent yn erbyn y cynnig. Gellir gweld dadansoddiad llawn isod / trosodd:

Cefnogaeth i'r cynnig

- Mae hwn yn ddewis da o leoliad i ddisgyblion ledled y ddinas gael cyfleusterau ADY newydd.
- Mae rhannu niferoedd ar draws safleoedd yn fuddiol er mwyn sicrhau bod y niferoedd yn parhau i fod yn hylaw a bod dysgwyr yn cael y sylw penodol sydd ei angen arnynt. Nid wyf yn ffafrio unrhyw leoliad penodol, fodd bynnag, hoffwn sôn bod gan Ysgolion ACT nifer o safleoedd yn yr awdurdod ac mae ganddynt bob amser ddiddordeb mewn datblygiadau ar y cyd ar y safleoedd newydd a'r posibilrwydd o addasu safle presennol Greenhill er mwyn parhau i dyfu'r ddarpariaeth cymorth sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghaerdydd.
- Bydd dau safle yn galluogi disgyblion i gael eu dosbarthu'n gyfartal.
- Ar ôl ymweld â'r ddau safle fy hun yn ddiweddar. Rwy'n meddwl fod y ddau safle yn cynnig potensial mawr. Hoffen i wybod mwy am fanylion cynlluniau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r M4.
- Rwy'n cefnogi'r ysgol newydd yn llawn. Lleoliad gwael iawn ar gyfer canolfan arddio Dutch.
- Mae angen diweddarau Greenhill ac mae'n gyffrous cael cyfleusterau modern newydd.

Yn erbyn y cynnig

- Tra bod gan safle Llanisien fynediad da i drafnidiaeth gyhoeddus i ddisgyblion, rhieni a staff nid oes gan safle Maes Y Bryn Road fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus i unrhyw un nad yw'n gyrru. Pryder mawr hefyd ynglŷn â'r ffaith ei fod yn agos at yr M4 a gallai disgyblion fod mewn perygl pe baent yn dianc o'r ysgol.
- Mae carfan o Greenhill yn aml yn ffynnu ar gysondeb ac yn cael trafferth gyda newid. Byddai'n bwysig i'r ysgol gael ei hunaniaeth ei hun lle mae disgyblion yn teimlo ymdeimlad o berthyn. Nid lle maent wedi'u gwahanu ar draws 2 safle.
- Dylid cadw'r ysgol ar ei safle presennol mewn rhywfaint o gapasiti h.y., yn llawn neu'n rhannol, a dylid cadw'r safle presennol at ddefnydd addysg.
- Rwy'n pryderu'n fawr am feddwl am Greenhill yn rhannu safle gydag ysgol brif ffrwd arall yn Llanisien ac rwy'n poeni'n fawr am ba mor agos yw cyffordd y draffordd a thraffig trwm, cyflym a allai effeithio ar ddiogelwch y plant sy'n mynychu.
- Mae ysgolion ar ddau safle yn lletchwith.
- Er nad yw'r hen adeilad yn addas mwyach, mae'r tiroedd gyda'r mannau agored a'r coedwigoedd yn bwysig iawn i'r disgyblion. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac i ffrwd o'r ardaloedd y daw ein disgyblion ohonynt. Nid oes ffyrdd prysur ger y safle presennol.
- Mae safle canolfan arddio Dutch yn peri risgiau enfawr i ddysgwyr. Ni allai unrhyw swm o ddiogelu warantu'n llwyr na fyddai dysgwyr yn gadael y safle a cheisio croesi'r draffordd brysur iawn ger y safle. Gallai hyn arwain at drasiedi i fyfyrwr neu ddefnyddwyr ffyrdd. Mae hwn yn safle anniogel ar gyfer ysgol sy'n lletya myfyrwyr ag anawsterau iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol.
- Mae lleoliad canolfan arddio Dutch yn beryglus.
- Mae'r tir yng Nghanolfan Arddio Dutch yn anymarferol oherwydd cysylltiadau trafndiaeth a pheryglon a achosir gan pa mor agos yw'r M4.
- Byddai lledaenu lleoliad fel Greenhill dros ddau safle yn niweidiol i gynnydd cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr. Mae creu lleoliad teuluol mewn un lle diogel yn fuddiol iawn.
- Er bod uwchraddio'r ysgol yn gam cadarnhaol, nid yw'r safleoedd a ddewisir at y diben yn cael eu hasesu o ran risg yn ddigon da. Mae agosrwydd un o'r safleoedd at gyffordd y draffordd yn peri pryder difrifol i staff a rhieni plant sy'n agored i niwed.

A oes unrhyw newidiadau a allai wella'r cynigion hyn yn eich barn chi?

Penderfynodd pymtheg o ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod / trosodd:

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Ysgol Greenhill

- Ar wahân i ostwng cyfradd y disgyblion i 100 ar y mwyaf a pheidio â defnyddio safle sydd mor agos at yr M4.
- Hoffem gychwyn sgwrs gyda'r awdurdod ynghylch cefnogi'r datblygiadau arfaethedig. Byddai hyn yn cynnwys sefydlu ein cynnig mewn perthynas â'r dull sbectrwm darpariaeth yn ogystal ag edrych ar ffyrdd y gall ACT gefnogi anghenion y bobl ifanc hyn drwy gynnig sefydlu canolfan sgiliau galwedigaethol. Byddem yn cefnogi anghenion galwedigaethol yr ysgol, gan gynnig nifer o lwybrau megis adeiladu, gofal anifeiliaid a modurrol ymysg eraill. Fel hyn gall yr ysgol ganolbwyntio staffio ac adnoddau ar gydrannau craidd y cwricwlwm wrth weithio ar y cyd ag ACT i gyfoethogi taith y dysgwr.
- Ysgol un safle. Byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus iawn i osod rhan o'r ysgol ar safle sy'n agos at ysgol arall neu ei rhannu ag ysgol arall o ystyried natur agored i niwed ac anwadal rhai o ddisgyblion Ysgol Greenhill.
- Cadw'r ysgol ar ei safle presennol mewn rhywfaint o gapasiti a diogelu'r safle presennol at ddefnydd addysg yn y dyfodol.
- Rhoi defnydd unigryw o safle Llanisien i Greenhill, a dod o hyd i fan gwyrdd arall i Ganolfan Arddio Dutch.
- Peidio â lleoli'r ysgol yng nghanolfan arddio Dutch.
- Cadwch fechgyn a merched ar wahân.
- Mynedfa'r safle mor bell i ffwrdd o fwrdd llong yr M4 â phosibl. Criw diogelwch wrth y fynedfa. Ffin ddiogel.
- Safle gwahanol.
- Gwn mai merched a bechgyn yw'r bwriad ar gyfer yr ysgol newydd, ond bydd hyn yn cynyddu'n ddifrifol y risg diogelu ar gyfer disgyblion a staff.
- Hoffwn weld rhagor o fanylion am safle canolfan arddio Dutch o ran y trefniadau diogelwch cyn bod yn gwbl gefnogol o'r safle hwnnw.
- Diogelwch safle.
- Mae lleoliad canolfan arddio Dutch yn broblem.
- Un safle ysgol sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol.
- Pryderon ynghylch y garfan staff, ffyrdd prysur, agosrwydd at y draffordd, maint ystafelloedd, y gyfradd disgyblion i staff.

A oes unrhyw opsiynau eraill yr hoffech eu hawgrymu?

Penderfynodd 14 o ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod / trosodd:

- Posiblirwydd y byddai ail safle mwy diogel ar gyfer yr ail adeilad neu un adeilad yn unig yn well.
- Hoffem gychwyn sgwrs gyda'r awdurdod ynghylch cefnogi'r datblygiadau arfaethedig. Byddai hyn yn cynnwys sefydlu ein cynnig mewn perthynas â'r dull sbectrwm darpariaeth yn ogystal ag edrych ar ffyrdd y gall ACT gefnogi anghenion y bobl ifanc hyn drwy gynnig sefydlu canolfan sgiliau galwedigaethol. Byddem yn cefnogi anghenion galwedigaethol yr ysgol, gan gynnig nifer o lwybrau megis adeiladu, gofal anifeiliaid a modurrol ymysg eraill. Fel hyn gall yr ysgol ganolbwyntio staffio ac adnoddau ar gydrannau craidd y cwricwlwm wrth weithio ar y cyd ag ACT i gyfoethogi taith y dysgwr.
- Ysgol un safle sy'n cynnig hunaniaeth gydlynol, diogelwch a dilyniant i ddisgyblion.
- Cadw'r ysgol ar ei safle presennol mewn rhywfaint o gapasiti a diogelu'r safle presennol at ddefnydd addysg yn y dyfodol.
- Caniatáu i Ysgol Greenhill aros yn ei lleoliad presennol ar gyfer y safle gwyrdd.
- Rwy'n credu y gellid datblygu ac adnewyddu safle presennol yr ysgol i gynnig lleoliad o safon i'r plant.
- Cael yr ysgol ar un safle.
- Ailadeiladu ar y safle presennol.
- Safle gwahanol.
- Cael safle i ferched a safle ar wahân i fechgyn. Rydyn ni'n ymwybodol o'r hyn sy'n gallu achosi problemau ond gallwn ddelio â'r problemau hyn wrth iddynt godi yn hytrach na pheryglu lles a materion diogelu staff a disgyblion.
- Adeiladu ar dir sy'n bodoli eisoes.
- Buddsoddi mewn gwella adnoddau cyfredol ac ie cynyddu nifer y dysgwyr ond aros ar un safle.
- Mae angen gwella adnoddau ac adeilad yr ysgol, ond gellid cyflawni hyn yn fwy diogel ac effeithlon drwy gadw'r safle presennol lle mae diogelwch y disgyblion wedi'i sefydlu.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Ysgol Greenhill

- Dim ond un safle arbenigol sydd drwy gyfrwng y Gymraeg, sef Canolfan Glantaf, gyda dalgylch eang iawn. Y canlyniad yw bod rhieni'n cael eu gorfodi i ddewis mynd â'u plant i addysg cyfrwng Saesneg er mwyn cael gofal arbenigol yn fwy lleol, ac nid yw hyn yn iawn. Felly, rwy'n argymhell darpariaeth mewn mwy o leoliadau. Mae'n ymddangos fel gwahaniaethu ar sail iaith, mai dim ond cyfrwng Saesneg sy'n cael ei ystyried yma.

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Penderfynodd deg o ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod / trosodd:

- Sut ydych chi'n cynnig bod plant sy'n defnyddio bysus yn cyrraedd y safle.
- Mae nifer cynyddol o Ganolfannau Adnoddau Arbenigol, ysgol arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaeth debyg yn ardal Caerdydd. Uwchlaw hyn, mae nifer o ysgolion annibynnol sy'n cefnogi anghenion rhai o'r ardaloedd sydd fwyaf agored i niwed. Byddai'n berthnasol cynnwys y cynnig annibynnol / preifat ehangach wrth edrych ar ailystyried y dirwedd fel bod y cynnig llawn yn y brifddinas-ranbarth yn ategu.
- Dylid cadw Ysgol Greenhill ar ei safle presennol yn rhannol neu'n llawn a dylid diogelu'r safle presennol ar gyfer defnydd addysg neu gymunedol arall yn y dyfodol. Ni ddylid gwerthu'r safle presennol at ddefnydd preswyl na masnachol.
- Hyderaf na fydd yr "hen" safle Greenhill ar gyfer tai oherwydd un rheswm a roddwyd i ni am beidio ag ehangu safle presennol Greenhill oedd nad oedd y mynediad yn addas ar gyfer cerbydau mawr - h.y. y rhai y byddai eu hangen wrth ail-adeiladu ysgol.
- Mae'n hollbwysig bod yr ystafelloedd dosbarth newydd o faint tebyg i'r ystafelloedd dosbarth presennol yn Greenhill. Os cymhwysir y safon disgybl i ardal, bydd yn cael effaith negyddol ddwys a chyson ar blant sy'n agored iawn i niwed. Bydd ystafelloedd dosbarth bach ar gyfer y math yma o ddisgyblion yn methu'n llwyr.
- Rwy'n gefnogol iawn o ysgol newydd ond rwy'n annog y cyngor i nodi beth yw pryderon presennol y staff. Rydym yn gweithio i wella lles ac ansawdd yr addysg sy'n cael ei darparu. Dyma rydyn ni'n ei wneud o ddydd i ddydd, dydyn ni ddim yn ceisio achosi problemau ond yn hytrach bod yn realistig a cheisio atal yr hyn a allai fod yn anfanteision posibl neu'n faterion difrifol yn y dyfodol. Y peth olaf yr ydyn ni ei eisiau fel aelodau staff ymroddedig yw i'r gwaith da rydyn ni'n ei wneud a'r safonau rydyn ni'n eu gosod i gael eu heffeithio am nad ydym yn cael y cyfle i ddweud ein dweud yn y lle cyntaf. Rydym i gyd yn gwbl ymwybodol y bydd angen i bethau newid

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Ysgol Greenhill

a byddant yn newid ond rhaid i ddeilliannau'r disgyblion ddod cyn unrhyw beth arall.

- Rwy'n edrych ymlaen at weld cynlluniau'r datblygiad hwn yn y dyfodol.
- Mae llawer o hanes yn perthyn i safle presennol Greenhill. Mae disgyblion sy'n agored i niwed wedi cael eu cefnogi dros flynyddoedd lawer ac maen nhw'n parhau i ddychwelyd i'r safle fel man sy'n gyfarwydd ac yn ddiogel.
- Mae angen ystyried priodoldeb y safleoedd yn ofalus ar gyfer anghenion y plant.
- Mae lleoliad presennol Greenhill yn darparu'r safle perffaith i ysgol ddiogel a llwyddiannus fodoli!

Amdanoch Chi

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal: -

	Nifer
Rhiwbeina	4
Cyncoed	2
Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais	2
Arall	3
Cyfanswm yr Ymatebwyr	11

Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

	Nifer
25-34	5
35-44	4
45-54	10
Grŵp oedran arall	1
Mae'n well gennyf beidio â dweud	2
Cyfanswm yr Ymatebwyr	22

P un ydych chi...?

	Nifer
Benywaidd	12
Gwrywaidd	7
Mae'n well gennyf beidio â dweud	3
Cyfanswm yr Ymatebwyr	22

A ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

Nifer

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Ysgol Greenhill

Ydw	0
Nac ydw	19
Mae'n well gennyf beidio â dweud	3
Cyfanswm yr Ymatebwyr	22

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

Nododd tri o bobl gyflwr iechyd a oedd yn berthnasol iddyn nhw eu hunain, gellir gweld y rhain isod:

- Byddar / Wedi colli clyw / Trwm eu clyw
- Anawsterau iechyd meddwl
- Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)

Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

	Nifer
Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig	17
Arall	1
Mae'n well gennyf beidio â dweud	4
Cyfanswm yr Ymatebwyr	22

Teitl Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
Newydd/Presennol/Diweddaru/Addasu: Ar ôl ymgynghori

Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth?	
Enw: Richard Portas	Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr y Rhaglen
Tîm Gwasanaeth: Rhaglen Ysgolion	Gwasanaeth: Addysg
Dyddiad Asesu: Chwefror 2022	

1. Beth yw amcanion y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth?

<p>1. Rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 11 Hydref 2021 a 17 Ionawr 2022 ar y cynnig canlynol ynghylch ehangu a throsglwyddo Ysgol Arbennig y Court:</p> <ul style="list-style-type: none"> cynyddu capasiti Ysgol Arbennig y Court o 42 i 72 o leoedd. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i lety adeiladu newydd ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac i safle presennol Ysgol Gynradd Llaneirwg, EgCym yn Llanrhymini, gyda 36 o ddisgyblion ar bob safle o fis Medi 2025. <p>2. Rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 14 Rhagfyr 2021 a 01 Chwefror 2022 ar y cynigion canlynol ynghylch ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i adeiladau newydd ar draws dau safle, sef Tŷ Glas yn Llanisien a'r Ganolfan Arddio Iseldiraidd, gydag 80 o leoedd ar y ddwy safle o fis Medi 2025. sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 o leoedd ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022. sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol â 20 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2022.
--

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Templed Asesu Corfforaethol**

2. **Rhowch wybodaeth gefndirol am y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth ac unrhyw ymchwil a wneir (e.e. data defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn ystadegau demograffig, AEGau tebyg a wnaed ac ati).**

Ymgynghorodd swyddogion ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys disgyblion, trigolion lleol, ysgolion lleol, Cynghorwyr, grwpiau cymunedol lleol a thrigolion ar y cynnig fel y nodir yn adran 1.

Roedd y broses ymgynghori yn golygu:

- cyhoeddi dogfennau ymgynghori dwyieithog sy'n amlinellu cefndir, rhesymeg a goblygiadau i rieni, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr, pob Aelod o wardiau lleol, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill (gellir gweld copi o'r dogfennau ymgynghori yn Atodiad 1);
- cyhoeddi dogfennau cryno dwyieithog sy'n nodi prif bwyntiau'r dogfennau ymgynghori (gellir gweld copi o'r dogfennau cryno yn Atodiad 2);
- cyhoeddi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol ar gais;
- Cyfarfodydd ymgynghori drwy Microsoft Teams gyda Llywodraethwyr a staff Ysgol Arbennig y Court, Ysgol Greenhill ac Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd. Gwrthododd Ysgol Uwchradd y Dwyrain y cyfle i gwrdd (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 3);
- cyfarfodydd ymgynghori drwy Microsoft Teams/yn bersonol gyda chynrychiolwyr disgyblion yn Ysgol Arbennig y Court, Ysgol Greenhill, Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd y Dwyrain (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd hyn yn Atodiad 4);
- cynhaliwyd yr ymgynghoriadau disgyblion a gynhaliwyd yn bersonol yn unol â'r canllawiau lechyd a Diogelwch perthnasol.
- cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus drwy Microsoft Teams lle esboniwyd y cynnig ac atebwyd cwestiynau (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 5);
- cynigiwyd sesiynau galw heibio drwy Microsoft Teams lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau (nid oedd unrhyw geisiadau am sesiynau galw heibio);
- anfonwyd llythyrau yn nodi manylion y cynigion a lle y gellid dod o hyd i ragor o wybodaeth at drigolion a busnesau lleol yr ardal o amgylch safleoedd yr ysgol yn amodol ar y newidiadau arfaethedig;
- ymgyrch gyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- slip ymateb i'r ymgynghoriad, i'w ddychwelyd drwy'r post neu e-bost, ynghlwm wrth y dogfennau ymgynghori a'r dogfennau cryno;
- ymateb ar-lein ar wefan www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

CYNGOR CAERDYDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

